



Swansea University
Prifysgol Abertawe



Swansea University E-Theses

Astudiaeth o'r Wasg Gymreig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, 1914–1918

Powel, Meilyr

How to cite:

Powel, Meilyr (2018) *Astudiaeth o'r Wasg Gymreig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, 1914–1918*. Doctoral thesis, Swansea University.

<http://cronfa.swan.ac.uk/Record/cronfa47983>

Use policy:

This item is brought to you by Swansea University. Any person downloading material is agreeing to abide by the terms of the repository licence: copies of full text items may be used or reproduced in any format or medium, without prior permission for personal research or study, educational or non-commercial purposes only. The copyright for any work remains with the original author unless otherwise specified. The full-text must not be sold in any format or medium without the formal permission of the copyright holder. Permission for multiple reproductions should be obtained from the original author.

Authors are personally responsible for adhering to copyright and publisher restrictions when uploading content to the repository.

Please link to the metadata record in the Swansea University repository, Cronfa (link given in the citation reference above.)

<http://www.swansea.ac.uk/library/researchsupport/ris-support/>

Astudiaeth o'r Wasg Gymreig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, 1914–1918

Cyflwynwyd gan Meilyr Rhys Powel i Brifysgol Abertawe
fel thesis ar gyfer gradd Doethur Athroniaeth mewn Hanes
yn 2018.

Crynodeb

Dadansodda'r traethawd hwn rôl y Wasg Gymreig adeg y Rhyfel Byd Cyntaf, gan ystyried sut ac i ba raddau y gyrrwyd ystyron penodol o'r rhyfel gan ddeallusion Cymru. Drwy wneud hyn, gellir adnabod datblygiad diwylliant rhyfel neilltuol Gymreig, a'i osod yng nghyd-destun y profiad ehangach Ewropeaidd o'r Rhyfel Mawr. Tra cynhwysyd delfrydau penodol megis 'anrhydedd' a 'rhyddid' yn ieithwedd y rhyfel, thema gyffredin a fynegwyd gan ddeallusion Cymru oedd y syniad o fyd newydd yn dyfod, wrth i'r rhyfel gynrychioli rhwyg mawr gan ddisodli hen arferion cymdeithas. Yn ogystal, hanfodolwyd y gelyn i geisio esbonio digwyddiadau'r rhyfel a chyferbynnwyd gwareiddiad y gorllewin gyda *Kultur* tywyll yr Almaen. Tra roedd y profiadau hyn yn gynrychioliadol o'r cyfnod, ymateb pellach deallusion Cymru oedd ystyried y ffordd orau i Gymru addasu i'r byd newydd. Gwelwyd hyn mewn amryw o ffyrdd; yn grefyddol, yn ddiwylliannol, ac yn wleidyddol. Uwchlaw popeth, dros amser mynegwyd ffydd y gellid 'dyrchafu' Cymru i gyflwr mwy pur ac addas i'r oes newydd a oedd i ddod. Ymhlith sôn am sefydlu Cynghrair y Cenhedloedd wedi'r rhyfel, argyhoeddwyd nifer gan ryngwladoldeb a'r gred y byddai Cymru yn hawlio'i lle ar y llwyfan rhyngwladol. Tra bodolai canfyddiad fod y Rhyfel Byd Cyntaf wedi cryfhau Prydeindod, dengys y traethawd hwn fod diwylliant rhyfel neilltuol Gymreig wedi datblygu ochr yn ochr â gwladgarwch Prydeinig ym mlynnyddoedd 1914–18 gan sbarduno ymwybyddiaeth bellach o genedlaetholdeb Cymreig.

Cyhoeddiadau a Datganiadau

CYHOEDDIAD

Nid yw'r gwaith hwn wedi'i dderbyn o'r blaen yn gyffredinol ar gyfer unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth ar gyfer unrhyw radd.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

DATGANIAD 1

Canlyniad fy ymchwiliadau fy hun yw'r traethawd ymchwil hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol.

Cydnabyddir ffynonellau eraill drwy droednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau amlwg. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod..... (ymgeisydd)

Dyddiad

DATGANIAD 2

Trwy hyn, rhoddaf ganiatâd i'm traethawd ymchwil, os caiff ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopio ac i'w fenthyca rhwng llyfrgelloedd, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod..... (ymgeisydd)

Dyddiad

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb	2
Cyhoeddiadau a Datganiadau	3
Cydnabyddiaeth	7
Rhestr Tablau a Ffigurau	8
Cyflwyniad	10
Hanesyddiaeth Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf	11
Brwdfrydedd Rhyfel	14
Prydeindod a Chymreictod	20
Llenyddiaeth	23
Crefydd	26
Diwylliant Rhyfel	30
Y Maes Cyhoeddus a'r Wasg	34
Gwasg Cymru yn 1914	36
Rhyddid y Wasg	38
Nodyn ar Ffynonellau	41
Strwythur	45
Pennod 1: Argyfwng Gorffennaf	47
Cyflwyniad	47

Argyfwng? Pa Argyfwng?	49
Cyflwyno Argyfwng Ewropeaidd	61
Seiliau Diwylliant Rhyfel	68
Safle Prydain: Ymyrryd neu beidio ymyrryd?	74
Diwedd glo	82
Pennod 2: Crefydd	84
Cyflwyniad	84
Armagedon	86
Cymathu crefydd: Rhyfel Sanctaidd, Rhyfel Cyfiawn	94
Crefydd yr Almaen	102
Crefydd fel gwrthwynebiad	107
Dyrchafu crefydd	115
Diwedd glo	123
Pennod 3: Gwareiddiad, Anrhydedd, a Rhyddid	125
Cyflwyniad	125
David Lloyd George a Rhyfel Cyfiawn	129
Anrhydedd a Rhyddid	135
Hanfodoli'r Almaen	145
Treitschke, Bernhardi, a Nietzsche	150
Y Junkers ac Ysbryd Prwsia	159
Uniaethu â'r Werin	164
Diwedd glo	168
Pennod 4: Rhyfel Cymreig	170

Cyflwyniad	170
Hawliau Cenedloedd Bychain: Gwlad Belg a Serbia	173
Barddoniaeth y Rhyfel	184
Llywelyn, Glyndŵr, Caradog, ac Arthur	187
Y Milwr Cymreig	193
Dyheu am Arwyr	203
Diwedd glo	210
Pennod 5: Ymreolaeth	212
Cyflwyniad	212
Iwerddon, Rwsia, a'r Gynghrair: Gweledigaeth y Byd Newydd	213
Ymreolaeth Gymreig	226
Diwedd glo	238
Casgliadau	240
Mynegai 1: Papurau newydd Cymreig a fodolai drwy gydol y rhyfel	248
Mynegai 2: Papurau newydd Cymreig a gychwynnwyd rhwng 1914 a 1918	252
Mynegai 3: Papurau newydd Cymreig a ddaeth i ben rhwng 1914 a 1918	253
Llyfryddiaeth	255

Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch yn gyntaf i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am ariannu'r ymchwil hwn, ac am roi'r cyfle i mi astudio cyfnod mor allweddol o hanes Cymru. Fel goruchwylwyr, mae cymorth, adborth, a chefnogaeth Dr. Gethin Matthews o Adran Hanes a Chlasuron Prifysgol Abertawe, a Robert Rhys o Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe, wedi bod yn holl bwysig drwy gydol yr ymchwil. Hoffwn ddiolch yn fawr iddyn nhw. Yr un mor gynorthwyol oedd adborth a chyngor Dr. Tomás Irish, hefyd o Adran Hanes a Chlasuron Prifysgol Abertawe. Go raibh maith agat! Ni anghofir chwaith staff llyfrgell campws Singleton Prifysgol Abertawe, Llyfrgell y Glowyr De Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, ac i bawb a weithiodd ac sy'n parhau i weithio ar adnodd gwych Papurau Newydd Arlein y Llyfrgell Genedlaethol. Ar nodyn personol, mae'r gymuned ôl-radd yn Abertawe wedi bod yn bwysig i mi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn olaf, hoffwn ddiolch i fy nheulu ac i Anisha am eu cefnogaeth a'u cariad.

Rhestr Tablau a Ffigurau

	Tudalen
Tabl 1.1: Ffocws erthyglau golygyddol papurau dyddiol Cymru, 1 Gorffennaf tan 4 Awst, 1914.	52
Graff 1.1: Erthyglau a straeon unigol yn y <i>Cambria Daily Leader</i> ynglŷn â'r sefyllfa Ewropeaidd a'r Iwerddon.	53
Graff 1.2: Erthyglau a straeon unigol yn y <i>South Wales Daily News</i> ynglŷn â'r sefyllfa Ewropeaidd a'r Iwerddon.	54
Graff 1.3: Erthyglau a straeon unigol yn y <i>South Wales Daily Post</i> ynglŷn â'r sefyllfa Ewropeaidd a'r Iwerddon.	55
Graff 1.4: Erthyglau a straeon unigol yn y <i>Western Mail</i> ynglŷn â'r sefyllfa Ewropeaidd a'r Iwerddon.	56
Ffigwr 1.1: 'The Snake Eclipsed'.	58
Ffigwr 1.2: 'In The Face of Danger'.	59
Ffigwr 1.3: 'Waiting to See!'	65
Ffigwr 1.4: 'The All Important Question'.	67
Ffigwr 1.5: 'The Call Of Patriotism'.	79
Tabl 2.1: Amllder ymddangosiad y geiriau 'Armagedon' ac 'Armageddon' yng nghasgliad 'Papurau Newydd Cymru Ar-lein', 1820–1919.	88
Ffigwr 2.1: 'St Geneviève Watching Over Paris'.	96
Ffigwr 2.2: 'Destruction of the wonderful architecture at the entrance to Rheims Cathedral'.	98
Ffigwr 2.3: Eiconograffiaeth tudalen flaen <i>Y Deyrnas</i> .	114

Graff 3.1: Amllder ‘gwareiddiad’ ym mhapurau wythnosol Cymreig, 1880–1918.	129
Graff 3.2: Amllder ‘rhyddid’ a ‘ryddid’ ym mhapurau wythnosol Cymreig, 1880–1918.	139
Ffigwr 4.1: Poster Recriwtio Rhif.19. ‘Remember Belgium. Enlist To-day’.	175
Ffigwr 4.2: ‘Bravo Belgium’.	176
Ffigwr 4.3: Clawr <i>The Bowmen</i> yn delweddu saethwr o Agincourt.	186
Tabl 4.1: Nifer y cerddi yn <i>Y Geninen</i> rhwng Hydref 1914 – Tachwedd 1918 a ddefnyddiodd thema rhyfel yn eu teitl.	197
Tabl 4.2: Nifer y cerddi rhyfel fel canran o gerddi <i>Y Geninen</i> rhwng 1914–1918.	198
Ffigwr 4.4: Llun y <i>Welsh Outlook</i> , ‘Three Welshmen at Downing Street’.	204
Ffigwr 4.5: Delwedd Lloyd George yn <i>Cymru</i> .	205
Ffigwr 4.6: Llun y <i>Welsh Outlook</i> , ‘Hedd Wyn – Bardd y Gadair Ddu’.	207

Cyflwyniad

Dadansodda'r traethawd hwn rôl y Wasg Gymreig adeg y Rhyfel Byd Cyntaf, a'i rhan yn cynhyrchu diwylliant rhyfel yng Nghymru. Yn arbennig, ystyria'r traethawd sut ac i ba raddau y cyflwynwyd ystyron penodol o'r rhyfel gan ddeallusion Cymru a gyfranna i gyfnodolion a chylchgronau. Drwy wneud hyn, ceisir olrhain datblygiad diwylliant rhyfel neilltuol Gymreig, a'i osod yng nghyd-destun y profiad ehangach Ewropeaidd. Tra cyflwynwyd delfrydau penodol megis 'anrhydedd' a 'rhyddid' yn iaith y rhyfel, thema gyffredin a fynegwyd gan ddeallusion Cymru oedd y syniad o fyd newydd yn dyfod, wrth i'r rhyfel gynrychioli rhwyg mawr gan ddisodli hen arferion cymdeithas. Yn ogystal, hanfodolwyd y gelyn wrth geisio esbonio digwyddiadau'r rhyfel a chyferbynnwyd gwareiddiad y gorllewin gyda *Kultur* tywyll yr Almaen. Tra roedd y profiadau hyn yn gynrychioliadol o'r cyfnod, gwelwyd hefyd agweddau neilltuol Gymreig i'r diwylliant rhyfel megis y twrio am draddodiad milwrol Cymru a'r mawl i ffigurau hanesyddol Arthur, Llywelyn ac Owain Glyndŵr. Mynegwyd hyn yn aml ym marddoniaeth rhyfel y Wasg gan gyfleu'r ddelwedd mai ymdrech Gymreig oedd y rhyfel.

Siglodd y rhyfel ganfyddiadau enwadol Anghydfurfiaeth hefyd, gyda rhai o weinidogion a deallusion blaenaf Cymru yn argymhell uno'r enwadau, wrth i'r rhyfel ddatgelu'r undod Cristnogol ehangach a fu'n gymaint o ysgogiad i'r rhyfel. Ymateb pellach sylwebyddion ac ysgolheigion Cymru oedd ystyried y ffordd orau i Gymru addasu i'r byd newydd. Yn wir, gwelwyd hyn mewn amryw o ffyrdd: yn grefyddol, yn ddiwylliannol, ac yn wleidyddol. Uwchlaw popeth, dros amser mynegwyd ffydd y gellid 'dyrchafu' Cymru i gyflwr mwy pur ac addas i'r oes newydd oedd i ddod. Ynghanol sôn am sefydlu Cynghrair y Cenhedloedd wedi'r rhyfel, argyhoeddwyd nifer gan ryngwladoldeb a'r gred y byddai Cymru yn hawlio'i lle ar y llwyfan rhyngwladol. Erbyn blwyddyn olaf y rhyfel, roedd galwadau yn y Wasg am ymreolaeth i Gymru yn niferus wrth i brofiadau rhyfel rhai o wledydd Ewrop gynnig drych gwleidyddol i Gymru. Tra bodolai canfyddiad fod y Rhyfel Byd Cyntaf wedi cryfhau Prydeindod, dengys y traethawd hwn fod diwylliant rhyfel neilltuol Gymreig wedi datblygu ochr yn ochr â gwladgarwch Prydeinig ym mlynnyddoedd 1914–18 gan sbarduno ymwybyddiaeth bellach o genedlaetholdeb Gymreig.

Hanesyddiaeth Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf

Mae tirwedd hanes y Rhyfel Byd Cyntaf yn un anferth. Ers ei gychwyn, gwelwyd lluo o gyhoeddiadau wedi eu hanelu at wahanol gynulleidfaoedd, o fewn y byd academiaidd ac yn y maes cyhoeddus poblogaidd wrth i haneswyr a llenorion geisio deall un o gyfnodau mwyaf gwaedlyd a dinistriol hanes modern. Yn 2009 gallai Jay Winter ac Antoine Prost nodi bod dros 50,000 o deitlau ar y Rhyfel Byd Cyntaf yn bodoli yn llyfrgell *Bibliothèque de documentation internationale contemporaine* ym Mharis. O 1983 i 1998 cyhoeddwyd mwy na 1,100 o lyfrau newydd yn Ffrangeg a oedd yn ymdrin â'r Rhyfel Mawr, gyda dros 100 ohonynt yn cael eu cyhoeddi yn 1998 yn unig.¹ Cyhoeddiadau mewn un iaith yn unig ac mewn cyfyngiad amser penodol yw'r rhain. Ym Mhrydain, mae'r hanesyddiaeth hefyd yn lluosog, gyda chanmlwyddiant y rhyfel yn cymell ton newydd o gyhoeddiadau, digwyddiadau, a rhaglenni teledu.²

Yn ddiweddar hefyd, gwelir sawl astudiaeth yn bwrw golwg feirniadol ar brofiad Cymru o'r Rhyfel Byd Cyntaf, gan gyfrannu'n amserol at ein dealltwriaeth o un o gyfnodau mwyaf cythryblus a gwaedlyd hanes Cymru fodern.³ Croesewir y don newydd hon o hanesyddiaeth Gymreig, sydd yn wahanol i'r gweithiau hanesyddol clasurol Gymreig a ffafriai gyd-destunau

¹ Jay Winter and Antoine Prost, *The Great War in History: Debates and Controversies, 1914 to the present* (Cambridge: Cambridge University Press, 2005), t.1.

² Mae rhai o'r cyhoeddiadau ers 2013 yn cynnwys: Christopher Clark, *Sleepwalkers: How Europe Went to War in 1914* (London: Penguin Books, 2013); Peter Hart, *The Great War: 1914–1918* (London: Profile Books, 2013); Margaret MacMillan, *The War that Ended Peace: How Europe Abandoned Peace for the First World War* (London: Profile Books, 2013); Max Hastings, *Catastrophe: Europe Goes to War 1914* (London: William Collins, 2014); William Philpott, *Attrition: Fighting the First World War* (London: Abacus, 2014); Rob Johnson, *The Great War and the Middle East* (Oxford: Oxford University Press, 2016); Hugh Sebag-Montefiore, *Somme: Into the Breach* (London: Penguin Books, 2016); Eugene Rogan, *The Fall of the Ottomans: The Great War in the Middle East 1914–1920* (London: Penguin Books, 2016); Robert Gerwath, *The Vanquished: Why the First World War Failed to End, 1917–1923* (London: Penguin Books, 2017); Nick Lloyd, *Passchendaele: A New History* (London: Penguin Books, 2017); Peter Hart, *The Last Battle: Endgame on the Western Front, 1918* (London: Profile Books, 2018).

³ Astudiaeth ffurfiannol yng Nghymru oedd Angela Gaffney, *Aftermath: Remembering the Great War in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2000). Mae gweithiau mwy diweddar yn cynnwys: Matthew Cragoe and Chris Williams (gol.), *Wales and War: Society, Politics and Religion in the Nineteenth and Twentieth Centuries* (Cardiff: University of Wales Press, 2007); Robin Barlow, *Wales and World War One* (Llandysul: Gomer Press, 2014); Gwyn Jenkins, *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf* (Talybont: Y Lolfa, 2014); Clive Hughes, *I'r Fyddin Fechgyn Gwalia! Recriwtio i'r Fyddin yng Ngogledd Orllewin Cymru 1914–16* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2014); Jonathan Hicks, *The Welsh at Mametz Wood: The Somme 1916* (Talybont: Y Lolfa, 2016); Gethin Matthews (gol.), *Creithiau: Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2016); Steven John, *Welsh at War: From Mons to Loos and the Gallipoli Tragedy* (Barnsley: Pen and Sword, 2017); Alan Llwyd, *Colli'r Hogiau: Cymru a'r Rhyfel Mawr 1914-1918* (Llandysul: Gomer, 2018). Gweler hefyd pennod "'Ha! Ha! among the Trumpets" – a Century of Warfare: Cowardice, Courage and Hatred' yn Russell Davies, *People, Places and Passions: 'Pain and Pleasure': A Social History of Wales and the Welsh, 1870–1945* (Cardiff: University of Wales Press, 2015), tt.275-318.

llawer ehangach wrth esbonio ffurfiant y genedl.⁴ Dyma'r gweithiau macro-hanesyddol sy'n rhoi trosolwg eang o hanes Cymru dros y canrifoedd lle mae hanes y Rhyfel Mawr wedi cael ei wau mewn i frithlen enfawr o naratif penodol o Gymru. Ysgrifennwyd nifer ohonynt yn hwyr yn yr ugeinfed ganrif neu ar drothwy'r mileniwm newydd, mewn ymdrech i grynhai'r ganrif a'r canrifoedd a fu wrth i Gymru cymryd y camau cyntaf i mewn i'r unfed ganrif ar hugain, gydag agoriad y Senedd yn hwb newydd i ymwybyddiaeth Gymreig mewn cysylltiadau rhyngwladol.

Mae haneswyr yn gyfûn ynglŷn â phwysigrwydd y Rhyfel Byd Cyntaf yn ffurfiant Cymru fodern. P'un ai o ongl filwrol, gymdeithasol, economaidd neu lenyddol, bodolai consensws fod y Rhyfel Mawr wedi chwarae rhan allweddol yn hanes Cymru. Wrth nodi rhai o'r prif ddigwyddiadau a ddylanwadodd ar ddatblygiad Cymru, meddai'r hanesydd Kenneth O. Morgan: 'The First World War is perhaps the most important in some ways, with its traumatic consequences for the politics, the social structure, and the moral values of the Welsh people.'⁵ Awgryma Morgan fod rhwyg enfawr wedi'i hagor drwy wleidyddiaeth a chymdeithas Cymru rhwng 1914 a 1918. Galwodd Gwyn Alf Williams y rhyfel yn: 'unhinging shock of the first order.'⁶ Estynnwyd y ddadl yma gan Gwynfor Evans a nododd fod Cymru 1919 yn dra gwahanol i Gymru 1914.⁷ Âi Robin Barlow gam ymhellach yn ei gyhoeddiad diweddar gan ddatgan: 'post-war Wales was a new country.'⁸ Pwysleisia Angela Gaffney effeithiau'r rhyfel ar gymdeithas Cymru, gan alw'r blynyddoedd 1914–1918 yn 'watershed'.⁹ Yn wir, cyn y rhyfel, dominyddwyd gwleidyddiaeth Cymru gan 'Oes Aur' y Rhyddfrydwyr a phan ddaeth David Lloyd George, gŵr o Lanystumdwy, yn brif weinidog ar Brydain yn 1916, fe gyrhaeddodd yr oes hon ei hanterth. Ond fel yr eglurodd John Davies, profodd y rhyfel yn 'drychineb' i'r Blaid Ryddfrydol.¹⁰ Ym Mhrydain, ac yng Nghymru yn arbennig, roedd ei

⁴ Mae'r astudiaethau hanes 'macro' hyn o Gymru yn cynnwys: Kenneth O. Morgan, *Rebirth of a Nation: A History of Modern Wales 1880–1980* (Oxford: Oxford University Press, 1982); Gareth Elwyn Jones, *Modern Wales: A Concise History, 1485–1979* (Cambridge: Cambridge University Press, 1984); Gwyn Alf Williams, *When Was Wales? A History of the Welsh* (London: Penguin Books, 1985); J. Graham Jones, *The History of Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1990); Philip Jenkins, *The History of Modern Wales 1536–1990* (London: Longman, 1992); R. Merfyn Jones, *Cymru 2000: Hanes Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999); D. Gareth Evans, *A History of Wales 1906–2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2000); Jan Morris, *Wales: Epic Views of a Small Country* (London: Penguin Books, 2000); David Ross, *Wales: History of a Nation* (New Lanark: Geddes & Grosset, 2005); Geraint Jenkins, *A Concise History of Wales* (Cambridge: Cambridge University Press, 2007); John Davies, *A History of Wales* (London: Penguin Books, 2007); Jon Gower, *The Story of Wales* (London: BBC Books, 2013).

⁵ Morgan, *Rebirth of a Nation*, t.409.

⁶ Williams, *When Was Wales?*, t.249.

⁷ Gwynfor Evans, *Land of My Fathers: 2000 Years of Welsh History* (Talybont: Y Lolfa, 1998), t.177.

⁸ Barlow, *Wales and World War One*, t.233.

⁹ Gaffney, *Aftermath*, t.9.

¹⁰ Davies, *A History of Wales*, t.506.

chwmp yn sydyn ac yn syfrdanol yn dilyn y Cadoediad. Methodd y Rhyddfrydwyr adfer eu statws a pharhaodd eu dirywiad ymhell i mewn i'r ugeinfed ganrif. Yn ogystal â cholledion milwrol, gellid dadlau fod effeithiau'r Rhyfel Byd Cyntaf wedi bod yn ddwfn, gan newid tirwedd wleidyddol a chymdeithasol Cymru am byth.

Ni cheir llawer o fonograffau ar Gymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf. Hyd yn oed yn astudiaeth ddwys Gaffney, nid yw wir yn mynd i'r afael â phrofiad Cymru yn ystod y rhyfel, fel yr awgrymwyd yn y teitl, *Aftermath*. Gwelir astudiaethau llenyddol Gerwyn Williams, a chyhoeddiadau diweddar Robin Barlow ac Alan Llwyd yn ymdrechion clodwiw i gyflwyno hanes Cymru yn y rhyfel, er mai prin iawn os o gwbl yw cydnabyddiaeth Llwyd o ffynonellau eilaidd wrth iddo ganolbwyntio ar golled teuluoedd a chymunedau o'u meibion.¹¹ Croesewir y don newydd o hanesyddiaeth Gymreig, ond ar y cyfan mae'r ymdrech i geisio deall y cyfnod allweddol hwn o hanes Cymru fodern, tan yn ddiweddar, wedi bod yn gymharol siomedig, yn enwedig o ystyried symudiau 'Hanes Pedair Cenedl'.¹² Anodd yw ceisio dadansoddi pam, ond un awgrym yw bod rhai haneswyr yn ystyried y rhyfel fel trychineb i'r hunaniaeth Gymreig, neu fel arall ddim yn flaenllaw yn eu stori nhw o Gymru wrth iddynt flaenoriaethu agweddau eraill ar hanes Cymru megis gwrthdaro dosbarthiadau cymdeithasol.¹³ Yn aml felly, lleolir y Rhyfel Byd Cyntaf o fewn naratif llawer ehangach o hanes Cymru. Er gwaethaf hyn, mae'r don newydd o hanesyddiaeth Gymreig am y rhyfel yn ychwanegu at gorff o weithiau sydd wedi bwrw golwg ar brofiadau Gymreig o'r Rhyfel Byd Cyntaf. O'r gweithiau hyn, gellid adnabod rhai themâu sy'n eu hamlygu eu hun. Un thema amlwg sydd wedi dod yn destun trafod dwys ymysg haneswyr ar Gymru a Phrydain yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yw'r syniad dadleuol o 'frwdfrydedd rhyfel' ym Mhrydain ar ddechrau'r rhyfel.

¹¹ Gerwyn Williams, *Y Rhwyg: Arolwg o farddoniaeth Gymraeg ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf* (Llandysul: Gomer, 1993); Gerwyn Williams, *Tir Neb: Rhyddiaeth Cymraeg a'r Rhyfel Byd Cyntaf* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd, 1996); Barlow, *Wales and World War One*; Llwyd, *Colli'r Hogiau*.

¹² 'Four Nations History'. Mae'r llenyddiaeth ar yr Iwerddon a'r Rhyfel Byd Cyntaf yn eang, yn gysylltiedig wrth gwrs gyda Gwrthryfel Pasg a'r ymgyrch dros Ymreolaeth, tra bod profiadau'r Alban yn derbyn mwy o sylw yn ddiweddar. Mae rhai o'r cyhoeddiadau diweddar yn cynnwys: Keith Jeffrey, *Ireland and the Great War* (Cambridge: Cambridge University Press, 2000); Kevin Myers, *Ireland's Great War* (Dublin: Lilliput Press, 2014); Derek Young, *Scottish Voices from the Great War*, (Stroud: Tempus Publishing, 2006); Trevor Royle, *The Flowers of the Forest: Scotland and the First World War* (Edinburgh: Birlinn Press, 2006); Catriona MacDonald and E. W. McFarland (gol.), *Scotland and the Great War* (East Linton: Tuckwell Press, 2014).

¹³ Neil Evans, 'Wales Goes to War: The Public Sphere, Political Culture and National Identity, 1914–1915' mewn cyflwyniad seminar ymchwil, Prifysgol Bangor, Hydref 2014. Yn benodol, mae Evans yn nodi Gwyn Alf Williams a Dai Smith fel rhai o'r haneswyr sydd wedi cymryd y gogwydd hwn a Tecwyn Lloyd fel un sydd wedi ymdrin a'r rhyfel yng nghyd-destun hunaniaeth Gymreig. Gweler hefyd Neil Evans, 'War, Society and Wales, 1899–2014' yn *Llafur*, 11/3, 2014, 146-70.

Brwdfrydedd Rhyfel

Yn 1928 cyhoeddwyd astudiaeth Caroline Playne, *The Pre-War Mind in Britain*. Roedd Playne yn ysgrifennu o ongl cymdeithaseg – a heddychol – ac yn dadlau mai problem feddyliol oedd yn gyfrifol am fethiant pobl i atal y brwdfrydedd rhyfelgar a militaraid ym Mhrydain yn 1914. Yng ngeiriau Playne: ‘men became irrational’ ac o ganlyniad, aeth Prydain i ryfel ar gefn ton o ymagweddau rhyfelgar.¹⁴ Er nad yn benodol yn astudiaeth ar Gymru, dyma oedd un o’r gweithiau cyntaf i astudio barn gyhoeddus ac emosiynau pobl Prydain ar gychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf, gan ganolbwyntio ar agweddau cymdeithasegol.¹⁵ Playne yn bennaf a sefydlodd y ddelwedd o frwdfrydedd rhyfel ym Mhrydain ar ddechrau’r rhyfel. Defnyddiwyd y term ‘social perversions’ i ddisgrifio’r broses o sut roedd pobl yn cael eu dylanwadu gan syniadau rhyfelgar.¹⁶ Yn sgil hyn, crëwyd cyflwr cyffredinol a ganiataodd i gymdeithas fod yn fwy ffafriol i ryfela. Gwelwyd yr agwedd hon yn atgofion David Lloyd George ei hun wrth ysgrifennu yn y 1930au. Fel sawl gwleidydd arall, awgrymodd Lloyd George fod Prydain wedi cael ei chario i’r rhyfel ar ysgwyddau rhyfelgar y boblogaeth, ymgais sinigaidd, gellid tybio, i leddfu’r bai ar y gwleidyddion am y penderfyniad. Yn ei hunangofiant, meddai Lloyd George:

The theory which is propagated today by pacifist orators (...) that the Great War was engineered by elder and middle aged statesmen who sent young men to face its horrors, is an invention (...) I shall never forget the warlike crowds that thronged Whitehall and poured into Downing Street, whilst the Cabinet was deliberating on the alternative of peace or war. On Sunday there was a great crowd. Monday was a Bank Holiday and multitudes of young people concentrated in Westminster demonstrating for war against Germany.¹⁷

Atgyfnerthwyd ymhellach y canfyddiad fod brwdfrydedd rhyfel wedi bodoli ym Mhrydain gan un o fawrion hanes cymdeithasol Prydain, Arthur Marwick, yn 1965: ‘British society in 1914 was strongly jingoistic and showed marked enthusiasm for the outbreak of war.’¹⁸ Rhai blynyddoedd yn ddiweddarach yn 1969 gwelwyd ffilm Richard Attenborough, *Oh! What a Lovely War*, yn sefydlu’r ddelwedd o frwdfrydedd rhyfel yn niwylliant poblogaidd Prydain. Enillodd y ffilm bum gwobr BAFTA ac un Golden Globe a phroffodd yn un o lwyddiannau

¹⁴ Caroline Playne, *The Pre-War Mind in Britain* (London: Allen and Unwin, 1928), t.23.

¹⁵ Roedd y gwaith hwn yn debyg i’w llyfr blaenorol a gyhoeddwyd yn 1925, *The Neuroses of the Nations: The Neuroses of Germany and France Before the War*, lle astudiwyd y meddwl ar y cyd yn yr Almaen a Ffrainc cyn y rhyfel.

¹⁶ Playne, *The Pre-War Mind*, t.24.

¹⁷ David Lloyd George, *War Memoirs* (London: Ivor Nicholson & Watson, 1938, Volume 1), t.39.

¹⁸ Arthur Marwick, *The Deluge: British Society and the First World War* (London: Macmillan, [1965] 1989), t.309.

sinema Brydeinig. Roedd y ddelwedd yma felly i'w gweld yn cael ei chanoneiddio o fewn y diwylliant a'r cof Prydeinig, a derbyniwyd hi fel yr un safonol yn hanes poblogaidd Prydain. Fel noda Adrian Gregory, cefnogwyd y farn gyffredinol hon gan y genhedlaeth nesaf o haneswyr y rhyfel megis Peter Parker, Noel Annan a W. J. Reader.¹⁹ Datganodd Reader:

The suddenness of the onset of war fever and the way in which it smothered all other national pre-occupations (...) is one of the best documented aspects of the outbreak of the Great War.²⁰

Gosododd Marwick y cyd-destun cymdeithasol ar gyfer astudiaeth ddiweddarach gyda rhai haneswyr yn ymchwilio i agweddau dosbarth ar y brwdfrydedd rhyfelgar hwn. Creda David Silbey, er enghraifft, fod sail cefnogaeth i'r rhyfel wedi gorffwys ar ysgwyddau'r dosbarth gweithiol, ac wrth reswm fod ymchwiliad i gymhelliad y gweithwyr i gefnogaeth yr ymdrech rhyfel yn hanfodol i geisio deall profiad Prydain rhwng 1914 a 1918.²¹

Yng Nghymru, amlygwyd brwdfrydedd rhyfel yng ngweithiau sawl un. Gellid olrhain y cysyniad hwn i waith Ivor Nicholson a Trevor Lloyd Williams, *Wales: Its Part in the War* a gyhoeddwyd yn 1919. Yn y cyhoeddiad hwn, nodwyd yr ystadegau recriwtio Cymreig i'r lluoedd arfog a dadleuwyd fod Cymru wedi cyfrannu mwy o ddynion i'r ymdrech rhyfel fel canran o'r boblogaeth nag unrhyw un o wledydd eraill Prydain a'r Iwerddon. Dyfynnwyd y ffigurau o araith Syr Auckland Geddes i'r Tŷ Cyffredin yn 1918. Defnyddiwyd y ffigurau recriwtio hyn mewn nifer o weithiau diweddarach fel tystiolaeth fod y Cymry wedi bod yn fwy parod i ymroi i'r rhyfel na gwledydd eraill Prydain yn ystod y cyfnod o recriwtio gwirfoddol (Awst 1914 – Ionawr 1916).²²

Gwelir rhai o haneswyr mwyaf blaenllaw Cymru yn mabwysiadu'r naratif hwn. Meddai Kenneth O. Morgan: [the] overwhelming mass of the Welsh people cast aside their political and social divisions, and threw themselves into the war with gusto.²³ Yn yr un modd, dywedodd John Davies: 'in the early years of the war, it was difficult to resist the war fever.'²⁴

¹⁹ Adrian Gregory, 'British "War Enthusiasm" in 1914: A Reassessment' yn Gail Braybon (gol.), *Evidence, History, and the Great War: Historians and the Impact of 1914-1918* (Oxford: Berghahn Books, 2005), t.69. Cyfeiria Gregory at P. Parker, *The Old Lie: The Great War and the Public School Ethos* (London: Constable, 1987); Lord Annan, *Our Age: The Generation that made Post-War Britain* (Fontana, 1990); W. J. Reader, *At Duty's Call: A Study in Obsolete Patriotism* (Manchester: Manchester University Press, 1988).

²⁰ Reader, *At Duty's Call*, t.104.

²¹ David Silbey, *The British Working Class and Enthusiasm for War 1914-1916* (Abingdon: Frank Cass, 2005), t.2.

²² G. Elwyn Jones, *Modern Wales*, t.256; J. Graham Jones, *The History of Wales*, tt.135-37; Jenkins, *The History of Modern Wales*, t.343; Evans, *Land of My Fathers*, t.429.

²³ Morgan, *Rebirth of a Nation*, t.159.

²⁴ Davies, *A History of Wales*, t.499.

Yn ei gasgliad trawiadol o gerddi a rhyddiaith yn mynegi profiadau Cymreig yn y Rhyfel Mawr, dilyna Alan Llwyd yr un trywydd â Davies a Morgan drwy ddefnyddio ffigurau Syr Auckland Geddes fel sylfaen i'w ddadl fod y Cymry wedi ymateb mewn ffordd, 'so positively and so enthusiastically.'²⁵ Yr un naratif a gaed hefyd yng ngweithiau J. Graham Jones, David Ross a Philip Jenkins, gyda Jones yn cyfeirio at y 'patriotic frenzy of 1914.'²⁶ Mae'r gweithiau yma oll wedi creu, ac yn cyfrannu i'r ddelwedd o frwdfrydedd rhyfel ymysg y Cymry yn 1914.

Gwelir sawl un yn herio'r cysyniad o frwdfrydedd rhyfel yng Nghymru fodd bynnag.²⁷ Esbonia Gwyn Jenkins y 'twymyn rhyfel' ym mis Awst 1914 fel torfeydd chwilfrydig oedd â syched am newyddion a gwybodaeth, 'yn hytrach na mawrygu rhyfel.' Ar y cyfan, meddai, 'roedd emosiynau cymysg ymhlith y boblogaeth.'²⁸ Yn astudiaeth Aled Eurig amlygir yr agweddau gwahanol i'r gwrthwynebiad a welwyd i'r rhyfel yng Nghymru, er iddo ddatgan bod 'y Rhyfel Byd Cyntaf naill ai'n grwsâd fendigedig neu'n ddyletswydd na ellid ei hosgoi.'²⁹ Tynnwyd sylw hefyd i Gymru yn astudiaeth ehangach Adrian Gregory, a awgryma fod yr ymateb i ryfel yng Nghymru wedi bod yn 'lukewarm' a 'less overwhelmingly enthusiastic than is generally assumed.'³⁰ Yn debyg i Gregory, nododd Dafydd Densil Morgan yr ymateb Cymreig i gychwyn y rhyfel: 'The mood initially was serious rather than jingoistic', ac er i arweinwyr Cymru gredu'n gryf yn achos cyfiawn Prydain, siaradwyd mewn termau cymedrol a pharchus.³¹

Yn fwy blaenllaw na Morgan yn eu dadleuon y mae Clive Hughes a Robin Barlow, sy'n nodi gwallau yn ystadegau Ivor Nicholson a Trevor Lloyd Williams, y brif dystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r ddadl. Noda Hughes bwriad Nicholson a Williams, fel cynswyddogion propaganda, i geisio cyflwyno Cymru yn y golau gorau posib yn ei chyfraniad i'r ymdrech rhyfel.³² Mae eu goramcangyfrif o 280,000 (ffigwr Ionawr 1918) o ddynion Cymreig a wasanaethodd yn y rhyfel a'u penderfyniad i beidio â chynnwys Sir Fynwy fel rhan o'r

²⁵ Alan Llwyd (gol.), *Out of the Fire of Hell: Welsh experience of the Great War 1914–1918 in prose and verse* (Llandysul: Gomer Press, 2008), t.xvi.

²⁶ Jones, *The History of Wales*, t.137.

²⁷ Aled Eurig, 'Agweddau ar y Gwrthwynebiad i'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru', *Llafur*, 4/4 (1987), 58–68; Dafydd Densil Morgan, "'Christ and the War": Some Aspects of the Welsh Experience, 1914–18', *Journal of Welsh Religious History*, Vol.5 (1997), 73–91; Adrian Gregory, *The Last Great War* (Cambridge: Cambridge University Press, 2008); Barlow, *Wales and World War One*; Hughes, *I'r Fyddin Fechgyn Gwalia!*; Jenkins, *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf*.

²⁸ Jenkins, *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf*, t.23.

²⁹ Eurig, 'Agweddau ar y Gwrthwynebiad', 60.

³⁰ Gregory, *The Last Great War*, tt.12–13.

³¹ Morgan, "'Christ and the War"', 74.

³² Hughes, *I'r Fyddin Fechgyn Gwalia!*, t.277.

mesuriad, yn rhoi ffigwr canran o 13.82 y cant o boblogaeth Cymru.³³ Dywedodd Nicholson a Williams am y ffigurau hyn: ‘These figures speak for themselves and show how eagerly the men of Wales came forward to do battle for the cause of freedom and liberty.’³⁴ Defnyddiwyd y ffigurau yma gan ddwy garfan wahanol, gydag un garfan yn pwysleisio cyfraniad arwrol y Cymry i’r rhyfel, a’r llall yn eu defnyddio i gefnogi eu dadl mai ffolineb llwyr oedd y rhyfel gydag aberth miloedd o ddynion ifanc yn profi’n ofer.³⁵

Mewn gwirionedd mae ffigwr canran y Cymry a wasanaethodd yn y fyddin adeg y Rhyfel Byd Cyntaf yn agosach at 11 y cant o’r boblogaeth, neu 21.5 y cant o’r boblogaeth wrywaidd. Nodwyd gan Barlow hefyd mai dim ond 5.83 y cant o ddynion Cymru a wirfoddolodd, o gymharu â 6.61 y cant o’r Alban a 6.04 y cant o Loegr.³⁶ Er y gellid crynhoi’r ffigurau hyn, fel y gwna Hughes, fel arwydd fod Cymru ‘wedi darparu’n gyfrannol tua’r un nifer o ddynion ar gyfer y Fyddin â rhanbarthau Prydeinig eraill,’ rhy Barlow fwy o arwyddocâd iddynt ac mae’n eu defnyddio i gefnogi ei ymdrech i danseilio’r ddadl o frwdfrydedd rhyfelgar Cymreig.³⁷ Yn ogystal â nodi’r gwallau ystadegol, noda Barlow yr anawsterau o geisio mesur cymhelliant y gwirfoddolwyr dros ymuno. Er enghraifft, pwysleisia agweddau economaidd fel un ffactor a yrrodd nifer o ddynion i wirfoddoli, yn hytrach na brwdfrydedd rhyfelgar yn unig.³⁸ Ar ben hyn noda Barlow a Hughes yr anhawster o geisio mesur yn union faint o’r dynion a recriwtiwyd yng Nghymru oedd yn Gymry. Tyn Hughes ein sylw i sut roedd ymrestrïadau yn cael eu cofnodi, gyda dim ond y lleoliad yn cael ei nodi, heb ystyried o ble y deuai’r milwyr. Felly gallai nifer o Saeson, Gwyddelod ac Albanwyr fod wedi ymrestru yng Nghymru, ac i’r gwrthwyneb, er ni fyddai’r niferoedd wedi bod yn debyg.³⁹ Tybia Barlow fod tua 20 y cant o’r dynion a wirfoddolodd yng Nghymru wedi bod yn Saeson.⁴⁰ Codir yr agwedd hon yn astudiaeth Chris Williams o ba mor ‘Gymreig’ oedd y bataliynau Cymreig.⁴¹ Prin oedd y bataliynau y gellid eu hystyried yn homogenaidd Gymreig, gyda’r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys elfen sylweddol o ddynion gwledydd eraill Prydain yn eu mysg.

³³ Nicholson and Williams, *Wales: Its Part in the War*, t.26.

³⁴ Nicholson and Williams, *Wales: Its Part in the War*, t.26.

³⁵ Trafodir y pwynt hwn yn Gethin Matthews, ‘‘Sŵn yr ymladd ar ein clyw’’: Cyflwyno’r Rhyfel Mawr yn y Gymraeg’ yn *Gwerddon*, 10/11 (2012), 132-57.

³⁶ Barlow, *Wales and World War One*, tt.19-20.

³⁷ Hughes, *I’r Fyddin Fechgyn Gwalia!*, tt.277-78.

³⁸ Barlow, *Did Wales Go Willingly*, t.152.

³⁹ Hughes, *I’r Fyddin Fechgyn Gwalia!*, t.278.

⁴⁰ Barlow, *Wales and World War One*, tt.21-22.

⁴¹ Chris Williams, ‘Taffs in the trenches: Welsh national identity and military service 1914–1918’ yn Cragoe and Williams (gol.), *Wales and War*, tt.126-64.

Yn y cyd-destun Prydeinig, rhai o'r haneswyr mwyaf blaenllaw i wrthod y darlun o frwdfrydedd rhyfel yw Adrian Gregory, Catriona Pennell a Niall Ferguson.⁴² Mae Gregory, er enghraifft, yn pwysleisio'r angen i drin ffynonellau'r cyfnod yn empeiraidd:

Any reassessment of the events of 1914 should start by acknowledging that the very idea of a uniform enthusiastic reaction from the 'masses' owes more to contemporary beliefs of the excitability of mass society, widespread amongst liberals and conservatives alike, than it does to empirical evidence.⁴³

Casgliad Gregory yw bod tystiolaeth o frwdfrydedd rhyfel ar y pryd yn wan. Cyfeiria at bwysigrwydd ffynonellau cynradd fel dangosyddion o ymagweddau'r cyfnod, ac i rybuddio rhag llunio delweddau ystrydebol a diog o sut ymatebodd cymdeithas y cyfnod heb gynnal yn gyntaf astudiaeth feirniadol o'r ffynonellau hynny.

Ymddengys felly fod myth wedi cael ei greu ledled Prydain o'r profiad Prydeinig o'r Rhyfel Byd Cyntaf gan reddfdu'r cof cyfunol a chenedlaethol. Mae cynhyrchiad mythau'r Rhyfel Byd Cyntaf wedi bod yn ffocws sawl astudiaeth o'r rhyfel, ac mae'r rhain yn ffurfio adran bwysig o'r hanesyddiaeth wrth i haneswyr herio canfyddiadau poblogaidd.⁴⁴ Mewn un astudiaeth sy'n olrhain adeiladwaith y mythau Prydeinig, noda Dan Todman y modd y'u ffurfiwyd gan agweddau gwahanol y rhyfel.⁴⁵ Esbonia Todman y darlun poblogaidd a chyfarwydd o'r rhyfel lle pwysleisiwyd arswyd ac eithrio popeth arall. Dadleuir fod gwledydd Ewrop wedi cwmpo ar ddamwain i mewn i ryfel nad oedd unrhyw un yn ei ddymuno. Dadleuir hefyd fod cenedlaeth gyfan o Brydeinwyr wedi ymrestru yn y fyddin i ymladd rhyfel nad oeddent yn ei ddeall, lle y dilynwyd gorchmynion cadfridogion anghymwys a oedd yn syllu ar fapiau a chiniawa'n gyfforddus ddeugain milltir tu ôl i'r ffrynt. Dangosir milwyr yn byw mewn amodau echrydus yn ffosydd Ffrynt y Gorllewin a dro ar ôl tro teflir hwy 'dros y top' mewn

⁴² Niall Ferguson, *The Pity of War* (London: Penguin, 1998); Gregory, 'British "War Enthusiasm" in 1914'; Catriona Pennell, *A Kingdom United: Popular Responses at the Outbreak of the First World War* (Oxford: Oxford University Press, 2012).

⁴³ Gregory, 'British "War Enthusiasm" in 1914', t.69.

⁴⁴ Gweler George Mosse 'Two World Wars and the Myth of War Experience', *Journal of Contemporary History*, 21/4 (1986), 491-513; Samuel Hynes, *A War Imagined: The First World War and English Culture* (London: The Bodley Head, 1990); John Terraine, *The Smoke and the Fire: Myths and Anti-Myths of War 1861-1945* (London: Sidgwick & Jackson, 1980); Braybon (gol.), *Evidence, History and the Great War*; Kevin Foster, *Fighting Fictions: War, Narrative and National Identity* (London: Pluto Press, 1999); Jonathan Vance, *Death So Noble: Memory, Meaning and the First World War* (Vancouver: UBC Press, 2001); Gary Sheffield, *Forgotten Victory: The First World War, Myths and Realities* (London: Headline Review, 2002); Gordon Corrigan, *Mud, Blood and Poppycock: Britain and the First World War* (London: Cassell, 2003); Janet Watson, *Fighting Different Wars: Experience, Memory and the First World War in Britain* (Cambridge: Cambridge University Press, 2004).

⁴⁵ Dan Todman, *The Great War: Myth and Memory* (London: Hambleton Continuum, 2005).

ymosodiadau gwaedlyd ac ofer. Dyma, yn ôl Todman, yw'r canfyddiad poblogaidd o'r profiad Prydeinig o'r Rhyfel Byd Cyntaf, un a gafodd ei ddramateiddio yn y ffilm *Oh What a Lovely War* yn 1969 ac yng nghyfres gomedi'r BBC, *Blackadder Goes Forth* yn 1989. Ond noda Todman fod y mythau hyn yn enghreifftiau proses y mae pobl yn ei dilyn i grynhoi amrywiaeth o ddigwyddiadau a phrofiadau cymhleth mewn i gyfres syml o symbolau sydd yn hawdd eu deall.⁴⁶ Ychwanega fod mythau am y Rhyfel Byd Cyntaf wedi tueddu newid gydag amser, gyda gwreiddiau'r fytholeg yn gorwedd gyda digwyddiadau a barnau cyfoes.

Mewn astudiaeth o ymagweddau Prydeinig a Gwyddelig, heria Catriona Pennell y myth o frwdfrydedd rhyfel yn y Deyrnas Gyfunol yn ystod misoedd cyntaf y rhyfel.⁴⁷ Drwy dynnu ar ystod eang o ffynonellau, o adroddiadau papurau newydd i ddyddiaduron a chyfweliadau o archif sain yr Imperial War Museum, awgryma Pennell fod yr ymateb i ryfel, er yn amrywio rywfaint o le i le, yn gyffredinol wedi bod yn un rhesymegol a bod cefnogaeth i'r rhyfel wedi datblygu'n raddol dros amser drwy ymgysylltu cyhoeddus ac ystyriaeth ofalus o adroddiadau'r Wasg. Cefnoga hyn casgliadau Adrian Gregory sydd wedi dadansoddi'r ymateb Prydeinig ar gychwyn y rhyfel mewn tair astudiaeth wahanol.⁴⁸

Ymddengys, felly, yn y llenyddiaeth ddiweddar fod agweddau Prydeinig ar gychwyn y rhyfel wedi bod yn gymysg. Awgryma gweithiau diweddar Barlow a Hughes yr un sefyllfa yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r gweithiau hyn oll wedi tueddu canolbwyntio ar gyfnod gymharol eang o fisoedd cynta'r rhyfel hyd at ddiwedd 1914. Yng nghyd-destun Cymru, nid yw'r agweddau cyhoeddus yn yr wythnosau hynny cyn i Brydain gyhoeddi rhyfel ar yr Almaen ar 4 Awst 1914 wedi cael eu dadansoddi.⁴⁹ Er bod ambell astudiaeth wedi bwrw golwg ar y cyfnod hwn o ongl Brydeinig, nid oes y fath ymchwil wedi ei wneud ar brofiad Cymru o Argyfwng Gorffennaf.⁵⁰

⁴⁶ Cyfeiria Todman at fethodoleg y damcaniaethwr Ffrengig Roland Barthes, a'i waith *Mythologies*, i esbonio'r broses hyn.

⁴⁷ Pennell, *A Kingdom United*.

⁴⁸ Adrian Gregory, 'A Clash of Cultures: The British Press and the Opening of the Great War', yn Troy. R. E. Paddock (gol.), *A Call to Arms: Propaganda, Public Opinion, and Newspapers in the Great War* (London: Praeger, 2004), tt.15-50; Gregory, 'British "War Enthusiasm" in 1914'; Gregory, *The Last Great War*, tt.9-39.

⁴⁹ Cyfeirir yma at Argyfwng Gorffennaf, sef y cyfnod rhwng llofruddiaeth Arch-ddug Franz Ferdinand ar 28 Mehefin a chyhoeddiad rhyfel Prydain ar 4 Awst.

⁵⁰ Gweler bellach erthygl yn seiliedig ar ffrwyth yr ymchwil hwn: Meilyr Powel, 'The Welsh press and the July Crisis of 1914', *First World War Studies*, 8/2-3, (2017), 133-52. O ongl Brydeinig a rhyngwladol, gweler D. C. Watt, 'The British Reactions to the Assassination at Sarajevo', *European History Quarterly*, 1/3, July 1971, 233-47; Gregory, 'A Clash of Cultures'; T. G. Otte, *July Crisis: The World's Descent Into War, Summer 1914* (Cambridge: Cambridge University Press, 2014); Douglas Newton, *The Darkest Days: The Truth Behind Britain's Rush to War, 1914*, (London: Verso, 2015).

Prydeindod a Chymreictod

Dadleua Catriona Pennell fod mwy o debygrwydd na gwahaniaeth wedi bod ymysg gwledydd Prydain yn eu hymateb i'r rhyfel yn y misoedd agoriadol.⁵¹ Yn sgil bygythiad yr Almaen, mabwysiadwyd symbolau cenedlaethol Prydeinig, gyda Chymru, yr Alban, Lloegr a'r Iwerddon yn uno fel Prydeinwyr yn eu hymdrech.⁵² Cytuna hyn i raddau gyda gwaith blaenorol Keith Robbins, er bod Robbins yn pwysleisio fod y rhyfel wedi bod yn benllanw tueddiadau Prydeinig a oedd yno drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁵³ Dyma thema arall sy'n amlygu ei hun yn yr hanesyddiaeth, sef yr awgrym fod delweddau a rhyfreg genedlaetholgar Brydeinig wedi bod yn amlycach, os nad yn bwysicach, yn ysgogi cymdeithas ar gyfer y rhyfel na gwladgarwch Cymreig, Albanaidd, neu Wyddelig. Yn hyn o beth, mae'r Rhyfel Byd Cyntaf wedi bod yn ganolog i'r hunaniaeth Brydeinig. Dyma yw thesis David Reynolds; dadleua, er gwaethaf sefydliad pleidiau cenedlaetholgar yng Nghymru yn 1925 a'r Alban yn 1928, fod y rhyfel wedi cryfhau'r syniad o Brydeindod: 'Participation in the struggle against Germany had strengthened a sense of Britishness in both Scotland and Wales.'⁵⁴

Tebyg yw'r ddadl hon ymysg gweithiau Cymreig, yn enwedig gan y rhai sydd yn coleddu agweddau cenedlaetholgar Gymreig. Yn astudiaeth Tecwyn Lloyd o destunau'r Wasg, dadleua fod Cymru wedi colli golwg ar ei hunaniaeth yn ystod y rhyfel. Fodd bynnag, coleddai Lloyd ddelwedd benodol o'r hunaniaeth Gymreig, sef yr un heddychol, Gristnogol, a pharchus a hybwyd gan bobl fel Henry Richard, yr 'Apostol Heddwch'. O ganlyniad, gwêl gyfranogiad Cymru yn y rhyfel fel, 'total loss of purpose and national identity.'⁵⁵ Dyfynna Lloyd elfennau o'r cyfnodolyn, *Welsh Outlook*, gan alw'r arddull a'r cynnwys a gyflwynwyd yn 'perfervid writing.'⁵⁶ Hwyrach mai problem Lloyd yw ei ganfyddiad cadarn o Gymru fel gwlad heddychol yr Anghydfurfwr lle'r oedd y syniad o ryfela yn anghydnaws gyda'u gwerthoedd. Ond fel dengys astudiaethau Robert Pope a Dewi Eirug Davies, daeth yr enwadau Anghydfurfiol, ar ôl chwilio'u cydwybod, i dderbyn fod y rhyfel yn anochel, a mynegwyd eu cefnogaeth i'r

⁵¹ Pennell, *A Kingdom United*.

⁵² Pennell, *A Kingdom United*, t.228.

⁵³ Keith Robbins, *Nineteenth-Century Britain: England, Scotland, and Wales: The Making of a Nation* (Oxford: Oxford University Press, 1988).

⁵⁴ David Reynolds, *The Long Shadow: The Great War and the Twentieth Century* (London: Simon and Schuster, 2013), t.24.

⁵⁵ D. Tecwyn Lloyd, 'Welsh Public Opinion and the First World War' yn *Planet*, 10 (1972), 31.

⁵⁶ Lloyd, 'Welsh Public Opinion', 29.

ymdrech rhyfel.⁵⁷ Yn ogystal, dengys John S. Ellis sut mae ffigurau cyhoeddus a haneswyr wedi dadansoddi'r ddwy brif ddelwedd o'r hunaniaeth Gymreig – yr un filwrol a'r un Gristnogol, heddychol – mewn ffordd sydd yn cefnogi eu agenda personol nhw.⁵⁸

Yn yr un modd, cytuna Alan Llwyd gyda Tecwyn Lloyd wrth iddo grynhoi effeithiau'r rhyfel ar yr hunaniaeth Gymreig mewn cyflwyniad i ddetholiad o gerddi'r rhyfel: 'Throughout the war years, many referred to it as England's war against Germany (...) It shouldn't surprise readers that Welsh identity often got lost during these turbulent years.'⁵⁹ Dadleuol yw'r safbwynt yma ac fe'i heriwyd gan sawl un. Cyniga Neil Evans mai ffactorau lleol ac unigryw Gymreig oedd yn bennaf gyfrifol am ysgogi Cymry i'r ymdrech rhyfel. Yn ogystal â nodweddion plwyfol a gweithredoedd unigolion blaenllaw, roedd ffactorau mwy 'cenedlaethol' Gymreig yn ddylanwadol iawn yn ennill cefnogaeth yng Nghymru. Pwysleisiwyd i'r Cymry, meddai Evans, hawliau cenedloedd bychain i weithredu ar lwyfan ryngwladol wrth i gymariaethau cael eu gwneud rhwng Gwlad Belg a Chymru. Cyfeiria hefyd at ymdrechion Lloyd George i greu'r Corfflu Byddin Gymreig, yn ogystal â hunaniaeth Gymreig yr Anghydfurfwyr fel ffactorau a hybodd gefnogaeth i'r rhyfel yng Nghymru. Heb lwyr ddiystyru delweddau a gweithredoedd y wladwriaeth Brydeinig, roedd ffactorau Gymreig yn hynod berthnasol ac amlwg yn y gwaith o ennill cefnogaeth i'r rhyfel yng Nghymru:

The use of Welsh patriotism as a method of recruiting may have had some effect in breaking the logjam of opposition to the army which had marked the nineteenth century (...) The persuasive power of the state was aligned with Welsh patriotism, and with local community identities and structures. In concert, they produced a force which was hard to resist.⁶⁰

Cefnoga Gwyn Jenkins ddadl Neil Evans am ffactorau lleol a Chymreig yn chwarae rôl holl bwysig yn ysgogi Cymry i'r rhyfel. Yn enwedig, roedd ymdrechion Lloyd George yn allweddol yn y broses recriwtio: '[Yng Nghymru] cefnogwyd y penderfyniad i fynd i ryfel gan y sefydliad Gymreig, gydag arweinwyr y byd gwleidyddol, y wasg a'r eglwysi yn dylanwadu'n fawr ar y farn gyhoeddus.'⁶¹ Noda Jenkins hefyd ymdrechion Lloyd George i sicrhau Cadfridogion

⁵⁷ Robert Pope, 'Duw ar Draï ar Orwel Pell: Capeli Cymru a'r Rhyfel Mawr', *Y Traethodydd* (Hydref 2014), 213-30; Dewi Eirug Davies, *Byddin y Brenin: Cymru a'i chrefydd yn y Rhyfel Mawr* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1988).

⁵⁸ John S. Ellis, 'A pacific people – a martial race: pacifism, militarism and Welsh National identity' yn Cragoe and Williams (gol.), *Wales and War*, tt.15-37.

⁵⁹ Llwyd (gol.), *Out of the Fire of Hell*, t.xviii.

⁶⁰ Neil Evans, 'Loyalties: state, nation, community and military recruiting in Wales, 1840–1918' yn Cragoe and Williams (gol.), *Wales and War*, t.58.

⁶¹ Gwyn Jenkins, *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf* (Talybont: Y Lolfa, 2014), tt.23-24.

Owen Thomas ('Wellington y fyddin Gymreig' yn ôl y *North Wales Chronicle*) a Syr Ivor Philipps yn rhan o'r 38fed Adran (Gymreig). Aeth Thomas ati'n fwriadol i recriwtio swyddogion a chaplaniaid Cymraeg eu hiaith i wella darpariaeth y fyddin, a'i wneud yn fwy atyniadol i wirfoddolwyr o Gymru. Cefnoga Jenkins felly'r syniad fod yr ymdrech i ennill cefnogaeth i'r rhyfel yng Nghymru wedi elwa ar ddaliadau ac agweddau Cymreig.

Mae Gervase Phillips yn un arall sydd wedi herio'r canfyddiad o Brydeindod yn llethu Cymreictod yn ystod y rhyfel.⁶² Edrycha Phillips ar ochr filwrol y rhyfel yn hytrach na'r un gymdeithasol. Ond fel noda Chris Williams, mae delwedd Phillips o'r hunaniaeth Gymreig yn un penodol ac nid yw'n ystyried y posibilrwydd y gall hunaniaeth y milwyr Cymreig fod wedi cynnwys sawl haenen a fyddai'n eu gwneud nhw'n fwy tebygol o ddangos ymagweddau Prydeinig mewn sefyllfaedd penodol.⁶³ Er mai astudiaeth o hunaniaeth y lluoedd arfog yw hyn yn hytrach nag o ymateb cymdeithasol Cymru, dichon y gellir ymestyn yr un feirniadaeth i astudiaeth flaenorol Tecwyn Lloyd sydd, fel Phillips, wedi sefydlu canfyddiad anhyblyg o'r hunaniaeth Gymreig. Yn ei astudiaeth o hunaniaeth genedlaethol a gwasanaeth milwrol, noda Williams heterogenedd cenedlaethol y catrodau Cymreig sy'n golygu y byddai'r Cymry wedi byw, brwydro a marw ochr wrth ochr â Saeson, Albanwyr a Gwyddelod.⁶⁴ Noda Williams y nodwedd o frawdgarwch a fodolai ymysg y bataliynau. Mae hon yn agwedd o ddamcaniaeth cymhelliant brwydro, ac mae'n pwysleisio'r elfen o 'rannu' profiadau yn ogystal â theyrngarwch agos ymysg cyd-filwyr fel ffactorau oedd yn uno'r milwyr. Tanseilia hyn y dadleuon o wladgarwch neu frwdfrydedd rhyfel fel cymhelliant brwydro, a fyddai'n debygol o fod wedi amrywio o filwr i filwr.⁶⁵ Dyfynna Williams awgrym John Davies ar gychwyn ei bennod:

By suffering alongside Geordies and Brummies, Cockneys and Scousers, Micks, Jocks and Aussies, the Taffs became part of a new brotherhood; to become a soldier was to assume a new nationality.⁶⁶

Awgryma astudiaeth Williams, ynghyd â dyfyniad John Davies, fod y milwyr Cymreig a ymladdodd ar y ffrynt wedi rhannu profiadau unigryw a fyddai wedi bod yn wahanol i brofiadau'r Cymry nôl yn y famwlad. O fewn y 'gymuned' neu'r 'genedl' o filwyr, mae'n deg

⁶² Gervase Phillips, 'Dai Bach y Soldiwr: Welsh soldiers in the British Army 1914–1918', *Llafur: Journal of Welsh Labour History* 6/2 (1993), 94-105.

⁶³ Williams, 'Taffs in the trenches', t.158.

⁶⁴ Astudiwyd y pum catrawd Cymreig: Y Gwarchodlu Cymreig, Y Ffiwsilwyr Cymreig Brenhinol, Cyffinwyr De Cymru, Y Gatrawd Gymreig, a Chatrawd Sîr Fynwy.

⁶⁵ Williams, 'Taffs in the trenches', tt.151-2.

⁶⁶ Davies, *A History of Wales*, t.514.

gallu dweud y byddai cymhelliant milwyr ar y ffrynt i barhau i frwydro wedi amrywio o ddyn i ddyn, ond ar yr un pryd byddent yn teimlo cryn ffyddlondeb i'w cyd-filwyr. Roedd brawdoliaeth yn ffactor pwysig yn cynnal y milwyr adeg y rhyfel. Beth bynnag eu cymhelliant neu'u cenedlaetholdeb, byddai'r milwyr a wasanaethodd wedi gallu uniaethu gyda'i gilydd yn ddigymar, ac ar lefel na fyddai'n ddealladwy i weddill y boblogaeth.

Mae'r darlun o effaith y rhyfel ar genedligrwydd Cymreig felly yn un blêr, ond yn broblem fethodolegol sy'n ddibynnol ar ffynonellau a chanfyddiad gwreiddiol haneswyr o genedligrwydd Prydeinig a Chymreig. Efallai fod profiad Cymru o'r Rhyfel Mawr, i fenthyg dyfyniad Chris Williams a Jane Aaron, yn adlewyrchu 'plural society capable of exercising situational identities.'⁶⁷ Amcan arall y traethawd hwn felly yw olrhain effaith y rhyfel ar yr ymwybyddiaeth o hunaniaeth Gymreig.

Llenyddiaeth

Yn yr iaith Gymraeg, mae testunau ar Gymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf yn brin. Serch hyn, dau o'r prif weithiau yn y Gymraeg yw *Y Rhwyg* a *Tir Neb* gan Gerwyn Williams.⁶⁸ Nid yw'r testunau yma'n cynnig hanes milwrol Cymreig o'r rhyfel ond yn hytrach yn astudiaethau llenyddol o Gymru a'r Rhyfel Mawr. Cynrychiola gweithiau Williams ran o'r hanesyddiaeth Gymreig y dylanwadwyd arni gan y 'tro diwylliannol' a ddatblygodd yn hanesyddiaeth ryngwladol y rhyfel. Categoriwyd hyn gan Winter a Prost fel y trydydd cyfolwg, yr un diwylliannol a ddilynodd y ffocws militaraidd a diplomyddol yn y 1920au a 1930au, ac yna hanesion cymdeithasol am y rhyfel yn y 1960au.⁶⁹ Maes mewn hanes rhyngwladol yw hwn sydd yn ffocysu ar yr arferion a'r cynrychioliadau a gynhyrchir gan gymdeithas. Goblygiadau'r 'tro diwylliannol' yw twf astudiaethau o wahanol fathau o fynegiant diwylliannol.⁷⁰ Yn wreiddiol roedd yn ymateb i'r ymdriniaeth elitaidd a thraddodiadol â hanes gwleidyddol a diplomyddol.⁷¹

⁶⁷ Jane Aaron and Chris Williams (gol.), *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005), t.xvi.

⁶⁸ Williams, *Y Rhwyg*; Williams, *Tir Neb*.

⁶⁹ Sonir am y 'three configurations' yn hanesyddiaeth y rhyfel. Winter and Prost, *The Great War in History*.

⁷⁰ Miri Rubin, 'What is cultural history now?', yn David Cannadine (gol.), *What is History Now?* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2002), t.90.

⁷¹ Peter Burke, *What is Cultural History?* (Cambridge: Polity Press, 2004), t.2.

Gwelir gweithiau Jay Winter a Paul Fussell yn flaenllaw yn astudiaethau diwylliannol y Rhyfel Byd Cyntaf.⁷² Roedd Fussell yn rhannol gyfrifol am fathu'r 'disillusionment thesis' a ddaeth i'r amlwg yn ystod ac ar ôl Rhyfel Fietnam, ac a oedd wedi ei drwytho yng nghyd-destun y symudiad yn erbyn y rhyfel hwnnw.⁷³ Pwysleisiodd Fussell oferedd y Rhyfel Byd Cyntaf, ac amlinellodd y themâu gwahanol a oedd wrth wraidd gweithiau llenorion a beirdd Prydeinig y rhyfel hwnnw megis Sigfried Sassoon, Wilfred Owen a Robert Graves, a sut y sefydlwyd nhw yn yr ymwybyddiaeth a'r 'cof' Prydeinig o'r rhyfel. Rhai o'r prif themâu a godwyd gan y llenorion hyn yn ôl Fussell, ac a nodir hefyd yn astudiaeth Winter, oedd eironi, ffosydd, datgymaliad, deuoliaeth a chyferbyniaeth, craster, byd natur, dieithrio, diniweidrwydd, a theimladau homoerotig. Mae'r agweddau hyn a nodwyd gan Fussell wedi sefydlu canfyddiad penodol, os nad ystrydebol, o sut mae'r rhyfel wedi cael ei gofio ym Mhrydain. Yn eironig i raddau, dyma sut mae Fussell ei hun yn cynrychioli'r cyfnod. Heb os, mae gwaith Fussell wedi cyfrannu at ffurfiant mythau o'r rhyfel, fel y trafodwyd gan Dan Todman ac eraill.⁷⁴ Gyda Fussell yn ceisio canfod y 'cof' Prydeinig o'r rhyfel, cyfyng yw ei ddadl wrth iddo astudio dynion yn unig, o'r 'siroedd cartref', wedi'u haddysgu mewn ysgolion preifat, ac yn rhan o sector freintiedig cymdeithas.

Gwelir triniaeth gymharol yn yr hanesyddiaeth Gymreig gyda llenorion a beirdd yn denu sylw haneswyr y rhyfel, a gweithiau Gerwyn Williams yn cynnig astudiaethau dwys o'r maes hwn. Yn ogystal, dadansodda gweithiau Alan Llwyd a Tecwyn Lloyd ymateb y byd llenyddol Cymreig i'r rhyfel.⁷⁵ Hwyrach bod eu daliadau personol yn llywio'u casgliadau fodd bynnag, gyda Llwyd yn cydymffurfio â'r naratif poblogaidd o'r rhyfel fel trasiedi enbyd, gan ddisgrifio'r rhyfel fel 'England's war' lle collwyd yr hunaniaeth Gymreig.⁷⁶ Gwna Lloyd yn debyg gan nodi 'gwae a gwallgofrwydd y rhyfel', a disgrifio cynnwys cyfnodolion llenyddol Cymru adeg y rhyfel yn 'jingoaeth ddigon penchwiban'.⁷⁷

⁷² Jay Winter, *Sites of Memory, Sites of Mourning: The Great War in European Cultural History* (Cambridge: Cambridge University Press, [1995] 2000); Paul Fussell, *The Great War and Modern Memory* (Oxford: Oxford University Press, [1975] 2013).

⁷³ Nicoletta F. Gullace, 'Allied Propaganda and World War I: Interwar Legacies, Media Studies, and the Politics of War Guilt', *History Compass*, 9/9 (2011), 692.

⁷⁴ Robin Prior and Trevor Wilson, 'Paul Fussell at War', *War in History*, 1/1 (1994), 63-80; Leonard V. Smith, 'Paul Fussell's *The Great War and Modern Memory*: Twenty-Five Years Later', *History and Theory*, 40/2 (2001), 241-60; Todman, *The Great War: Myth and Memory*.

⁷⁵ D. Tecwyn Lloyd, 'Llenyddiaeth Cyni a Rhyfel: 1914-1939', yn D. Tecwyn Lloyd (gol.), *Llên Cyni a Rhyfel a Thrafodion Eraill* (Llandysul: Gomer, 1987), tt.11-42; Llwyd, *Out of the Fire of Hell*.

⁷⁶ Llwyd, *Out of the Fire of Hell*, t.xix.

⁷⁷ Lloyd, 'Llenyddiaeth Cyni a Rhyfel', tt.22, 26.

Anodd yw osgoi effaith stori Hedd Wyn ar hanesyddiaeth Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae ymateb Hedd Wyn yn destun trafod ynddoi hun, yn benodol ei deimladau o ddadrithiad ynghylch y rhyfel o gofio fod ei weithiau cynnar wedi cynnwys ymagweddau o atgasedd tuag at yr Almaenwyr, a rhyfelgarwch yn amlwg mewn manau. Ond yn ei weithiau diweddarach, megis y gerdd 'Rhyfel', methai Hedd Wyn gynnig unrhyw fath o ffrâm ystyriol i geisio esbonio pwrpas y lladd, gan ddangos cyferbyniad llwyr i'w ddelfrydiaeth farddonol gynnar o ryfel. Meddai Gerwyn Williams amdano:

Ni all Hedd Wyn esbonio mewn modd mor hyderus a phendant bellach fel y gwnaethai gynt yn ei gerddi bro; nid yw mor barod i gynnig ateb yn hyderus, gyhoeddus. Er ei fod hefyd yn barddoni trwy gyfrwng ieithwedd a delweddaeth Feiblaidd, serch hynny ni all gynnig gwardigaeth Gristnogol.⁷⁸

O arsylwi ar yr ochr lenyddol Gymreig, noda Gethin Matthews fod dadrithiad ynghylch y rhyfel wedi bodoli'n gymharol gynnar yng Nghymru. Dadleua Matthews fod 'y dadrithiad â'r rhyfel wedi'i sefydlu'n gynharach ac wedi treiddio'n ddyfnach ymysg deallusion Cymru nag a ddigwyddodd yn nhrwch poblogaeth Prydain.'⁷⁹ Un rheswm dros hyn yw bod y testunau Cymraeg wedi ffafrio trin ffynonellau penodol megis Lewis Valentine, John Dyfnallt Owen, Albert Evans Jones (Cynan) a W. J. Gruffydd.⁸⁰ Yn sicr, mae'n anodd anwybyddu cyfraniad llenorion Cymru tuag at ein dealltwriaeth o'r profiad Gymreig o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Yn y cyd-destun Prydeinig, mae cysgodion y dylanwadol Sigfried Sassoon, Edmund Blunden, Robert Graves a Wilfred Owen yn anodd eu hosgoi wrth geisio deall y Rhyfel Mawr, er gwaethaf llyfryddiaeth o unigolion a gyhoeddodd farddoniaeth y Rhyfel Byd Cynaf yn rhifo 2,225 o enwau, gyda 24 y cant ohonynt yn fenywod ac 19 y cant ohonynt a wasanaethodd yn y rhyfel.⁸¹ Yn y Gymru Gymraeg, gwelir yr uchod, yn ogystal â phobl fel T. Gwynn Jones, Hedd Wyn, R. Williams Parry, Tom Nefyn Williams, a Saunders Lewis, fel rhai a gyfrannodd yn llenyddol tuag at ein canfyddiad o berthynas Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf. Ac roedd eu dadrithiad â'r rhyfel i'w weld yn gyffredin yn eu gwaith.

⁷⁸ Williams, *Y Rhwyg*, t.160.

⁷⁹ Matthews, 'Sŵn yr ymladd ar ein clyw', 135.

⁸⁰ Matthews, 'Sŵn yr ymladd ar ein clyw', 135.

⁸¹ Catherine W. Reilly, *English Poetry of the First World War: A Bibliography* (London: Prior, 1978), tt.xiii, xix. O Sassoon, Blunden, Graves, ac Owen, gweler Sigfried Sassoon, *Memoirs of an Infantry Officer* (London: Faber and Faber, 1974); Edmund Blunden, *Undertones of War* (London: Penguin, 2000); Robert Graves, *Goodbye To All That* (London: Penguin, 2000); Wilfred Owen, *Anthem for Doomed Youth* (London: Penguin, 2015). Mae triniaeth o'r gweithiau hyn gan Fussell, *The Great War and Modern Memory*, yn sail i'r ddelwedd ystrydebol Brydeinig o'r Rhyfel Byd Cyntaf fel lladdfa drasig cenhedlaeth o ddyonion ifanc yn y mwd a glaw brwnt Fflandrys a gogledd Ffrainc.

Yn yr un modd, dywed Wiliams am Gwilym R. Jones a W. R. P. George fod eu cyfeiriadau at ddirywiadau'r Rhyfel Mawr wedi rhoi cychwyn ar 'ddirywiad gweddill y ganrif.'⁸² Ymatebodd T. Gwynn Jones yn chwyrn i'r rhyfel, tra brwydrodd Dyfnallt gyda'i gydwybod yn *Myfyrion a Chaneuon Maes y Tân* (1917). Mae'r frwydr gydwybodol hon yn arwyddocaol ac efallai'n cynnig microcosm o sefyllfa Cymru gyfan. Crynhoa Robin Barlow deimladau Dyfnallt yn ei gerddi:

Dyfnallt's poems alluded to the crisis of conscience felt by the members of Nonconformist chapels during the conflict, although he always retained a basic belief in the justness of fighting the war.⁸³

Yn amlwg roedd y cymeriadau a grybwyllwyd yn ddeallusion y diwylliant Cristnogol Cymreig ac felly roeddent yn aelodau breintiedig o gymdeithas Cymru.⁸⁴ O ganlyniad, codwyd statws cymdeithasol y dynion yma fel ffynonellau hanesyddol i ganiatáu i haneswyr Cymru astudio'u profiadau yn eu hymdrechion i ddod i'r afael â'r 'profiad Cymreig' yn y Rhyfel Mawr. Ond tra na ellir anwybyddu neu ddibrisio'u profiadau, rhaid hefyd ystyried dibynadwyedd y naratif hwn o ddadrithiad fel un cynrychioliadol o Gymru gyfan a chyfoes.

Crefydd

Yn ôl Dafydd Densil Morgan: 'The religious legacy of the Great War in Wales was, on the whole, ambiguous.'⁸⁵ Crynhoi effaith y rhyfel ar grefydd sefydliadol Cymru a wnaeth Morgan, ond cyfranna ei astudiaeth at agwedd arall o hanesyddiaeth Gymreig y Rhyfel Byd Cyntaf, sef y berthynas rhwng y rhyfel a chrefydd. Ymddengys fod hyn yn gynrychioliadol o'r profiad ehangach Ewropeaidd, gyda'r llenyddiaeth eang yn adlewyrchiad o hyn.⁸⁶ Mae astudiaeth

⁸² Wiliams, *Y Rhwyg*, t.235.

⁸³ Barlow, *Wales and World War One*, t.155.

⁸⁴ Er enghraifft, roedd Lewis Valentine yn weinidog a daeth yn un o sefydlwyr Plaid Genedlaethol Cymru yn 1925; Roedd John Dyfnallt Owen yn weinidog ac yn fardd a wasanaethodd fel Archdderwydd yr Eisteddfod Genedlaethol o 1954–56; Enw barddol Albert Evans Jones oedd 'Cynan' a enillodd y gadair yn 1924. Bu'n weinidog ac yn Archdderwydd ddwywaith a datblygwyd ei dalentau fel dramodydd llwyddiannus; astudiodd William John Gruffydd yn Rhydychen cyn dod yn olygydd *Y Llenor* ac Aelod Seneddol y Rhyddfrydwyr yn 1943.

⁸⁵ Morgan, "'Christ and the War'", 88.

⁸⁶ Arlie Jack Hoover, *God, Germany, and Britain in the Great War: A Study in Clerical Nationalism* (New York: Praeger, 1989); Annette Becker, *War and Faith: The Religious Imagination in France, 1914–1930* (Oxford: Berg Publishers, 1998); Richard Schweitzer, *The Cross and the Trenches: Religious Faith and Doubt Among British and American Great War Soldiers* (Westport: Praeger, 2003); Michael Snape, *God and the British Soldier: Religion and the British Army in the First and Second World Wars* (London: Routledge, 2005); Michael Burleigh, *Sacred Causes: The Clash of Religion and Politics, from the Great War to the War on Terror* (New York: Harper Collins, 2007); Keith Robbins, *England, Ireland, Scotland, Wales: The Christian Church 1900–2000* (Oxford: Oxford University Press, 2008); Annette Becker, 'Faith, Ideologies, and the 'cultures of

ddiweddar Philip Jenkins yn dadansoddi effeithiau'r rhyfel ar grefydd, drwy olrhain ei ddefnydd helaeth ymysg gwledydd gwahanol adeg y Rhyfel Byd Cyntaf.⁸⁷ Dadleua Jenkins fod crefydd wedi chwarae rhan amlwg ym mhrofiad pob un o'r gwledydd a firwydrodd yn y rhyfel, drwy nodi yn enwedig sut cymhathwyd delweddau crefyddol gan ymdrechion bropropaganda'r gwledydd. Wrth grynhoi ei astudiaeth, cymera Jenkins farn feirniadol tuag at ddefnydd crefydd gan wladwriaethau, sefydliadau, ac unigolion dylanwadol yn ystod y rhyfel, gan sôn am 'the prostitution of religious rhetoric.'⁸⁸ Gwelir gweithiau Alan Kramer ac Adrian Gregory hefyd yn amlygu rôl ddylanwadol crefydd wrth i lywodraethau, eglwysi, ac unigolion gyfuno amcanion cenedlaethol gyda negeseuon crefyddol.⁸⁹

Yn yr un modd ag y dadansodda Jenkins, Kramer, a Gregory ddylanwad crefydd ar ddealltwriaeth y rhyfel ym Mhrydain ac Ewrop, gwelir ambell hanesydd yn olrhain y wedd crefyddol yng Nghymru hefyd.⁹⁰ Cyniga'r testunau hyn rôl bwysig i grefydd yn yr ymateb Cymreig i'r rhyfel, p'un ai ar lefel personol neu sefydliadol. Amlinellir agweddau'r enwadau Anghydfurfiol gan Robert Pope:

Ond ar ôl dechrau'r rhyfel ym 1914, datganai mwyafrif sylweddol arweinwyr yr eglwysi yn Lloegr a Chymru yn gyson eu cefnogaeth selog i'r rhyfel. Ar y cyfan, derbyniodd arweinwyr yr eglwysi ddadl y llywodraeth yn ddi-gwestiwn. Dylid cefnogi'r ymgyrch i sicrhau cyfiawnder i'r cenedloedd bychain yn wyneb y peiriant didostur, militaraid, ymerodrol. Eu tuedd oedd defnyddio geirfa a delweddau crefyddol er mwyn gwneud hyn.⁹¹

war', yn John Horne (gol.), *A Companion to World War I* (Sussex: Blackwell, 2012); Adrian Gregory, 'Beliefs and Religion' yn Jay Winter (gol.), *The Cambridge History of the First World War: Volume III: Civil Society* (Cambridge: Cambridge University Press, 2014); Xavier Boniface, *Histoire religieuse de la Grande Guerre* (Paris: Librairie Arthème Fayard, 2014); Gerhard Besier, 'The Great War and Religion in Comparative Perspective: Why the Christian Culture of War Prevailed over Religiously-Motivated Pacifism in 1914', *Kirchliche Zeitgeschichte*, 28/1 (2015), 21-65; Patrick J. Houlihan, *Catholicism and the Great War: Religion and everyday life in Germany and Austria-Hungary, 1914-1922* (Cambridge: Cambridge University Press, 2015); Patrick J. Houlihan, 'The Churches' yn Ute Daniel et al., *1914-1918-online. International Encyclopedia of the First World War*; Patrick J. Houlihan, 'Religious Mobilization and Popular Belief' yn Ute Daniel et al., *1914-1918-online*; Maria Paiano, 'Religious Mobilization and Popular Belief (Italy)' yn Ute Daniel et al., *1914-1918-online*; Michael Snape and Edward Madigan (gol.), *The Clergy in Khaki: New Perspectives on British Army Chaplaincy in the First World War* (London: Routledge, 2016).

⁸⁷ Philip Jenkins, *The Great and Holy War: How World War I changed religion for ever* (Oxford: Lion Books, 2014).

⁸⁸ Jenkins, *The Great and Holy War*, t.369.

⁸⁹ Alan Kramer, *Dynamic of Destruction: Culture and Mass Killing in the First World War* (Oxford: Oxford University Press, 2008), tt.175-80; Gregory, *The Last Great War*, tt.152-86; Gregory, 'Beliefs and Religion' yn Winter (gol.), *The Cambridge History*, tt.418-44.

⁹⁰ Davies, *Byddin y Brenin*; Williams, *Y Rhwyg*; Morgan, "'Christ and the War'"; Barlow, *Wales and World War One*, tt.219-30; Pope, 'Duw ar Drai ar Orwel Pell'; Robert Pope, 'Christ and Caesar? Welsh Nonconformists and the State, 1914-1918', yn Cragoe and Williams (gol.), *Wales and War*, tt.165-83; Gethin Matthews, "'Un o Ryfeloedd yr Arglwydd'": Eglwysi Anghydfurfiol Cymru a'r Rhyfel Mawr, 1914-1915', yn Matthews (gol.), *Creithiau*, tt.34-62.

⁹¹ Pope, 'Duw ar Drai ar Orwel Pell', 215.

Cytuna Dafydd Densil Morgan gyda'r safbwynt hwn. Noda ef ymdrechion rhai o weinidogion Cymru a oedd yn dod i fabwysiadu rôl swyddogion recriwtio: 'Scriptural language was commandeered for militaristic use and Nonconformist ministers, to say nothing of Anglican prelates, became recruiting officers.'⁹² Noda Morgan ffigwr David Lloyd George, ynghyd â'r gweinidogion blaenllaw John Williams, Brynsiencyn, Thomas Charles Williams, Porthaethwy, ac i raddau hefyd T. Esger James, fel unigolion a gyfrannodd gymaint i'r drafodaeth grefyddol yng Nghymru gan fframio'r rhyfel yn ddwfn mewn rhethreg Gristnogol.

Tebyg i ymchwil Pope a Morgan, pwysleisiodd Dewi Eirug Davies yn *Byddin y Brenin* ddylanwad cyffredinol yr enwadau ar gefnogaeth Gymreig i'r rhyfel. Dehonglwyd y rhyfel gan yr enwadau fel un cyfiawn. Meddai Davies: 'Trwy gydol y Rhyfel, ni wyrodd yr enwadau oddi wrth eu hargyhoeddiad ynghylch cyfiawnder achos Prydain.'⁹³ Fodd bynnag, nid oedd eu penderfyniad i gyfiawnhau'r rhyfel wedi bod yn un rhwydd, a brwydrodd nifer o Anghydfurfwyr gyda'u cydwybod yn ystod dyddiau cynnar y rhyfel. Ni welai rhai sut y gellid cysoni rhyfel â gweledigaeth heddychol, yn enwedig pan gyflwynwyd y mesur gorfodaeth ym mis Ionawr 1916. Awgryma Davies fod yr enwadau wedi cyfaddawdu dros hyn, gan esbonio i'w haelodau, er bod gorfodaeth yn atgas, 'er mwyn heddwch ac undeb y wlad, dylid rhoi heibio, dros dro, ddymuniadau personol.'⁹⁴

Yn wir, cefnogwyd y rhyfel gan yr enwadau Cymreig, i'r fath raddau nes i un hanesydd ddehongli'r ymdrech fel: 'holy crusade on behalf of liberal values.'⁹⁵ Noda nifer o haneswyr hefyd allu a pharodrwydd y dylanwadol David Lloyd George i gyfathrebu mewn iaith grefyddol a grymus i'r gynulleidfa Gymreig. Yn ysgrif gyntaf Lloyd George i'r gynulleidfa Gymreig o fewn wythnos i ddechrau'r rhyfel ym mis Awst 1914, 'Apêl at Gymru Wen', a gyhoeddwyd mewn nifer o deitlau'r Wasg, gosodwyd iaith grefyddol ganddo i ennyn cefnogaeth Gymreig i'r rhyfel. Roedd 'Rhagluniaeth Duw' a 'Cristion y Sabath' yn chwarae rôl bwysig yn ei ddadl.⁹⁶ Gwelwyd dwy araith arall ddylanwadol gan Lloyd George yn Llundain yn annerch y Cymry ym mis Medi a Thachwedd 1914, a pharhaodd ei rhethreg grefyddol, a Chymreig, yn gyson drwy'r rhyfel. Yn wir, ni ellid anwybyddu dylanwad David Lloyd George ar y profiad Cymreig o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Dengys erthygl Richard Teye er

⁹² Morgan, "Christ and the War", 74-75.

⁹³ Davies, *Byddin y Brenin*, t.51.

⁹⁴ Davies, *Byddin y Brenin*, t.108.

⁹⁵ Morgan, *Rebirth of a Nation*, t.159.

⁹⁶ Ymddangosodd yr erthygl yn gyntaf yn y *Western Mail*, cyn ymddangos yn y teitlau wythnosol. Gweler pennod Gethin Matthews, 'Rhwygau', yn Matthews (gol.), *Creithiau*, tt.1-20.

enghraifft, pa mor fedrus oedd y Rhyddfrydwr Cymreig yn eu rhethreg rhyfel, gyda iaith a symbolaeth Gristnogol yn agwedd flaenllaw o'i arddull.⁹⁷

Gwelwyd rôl ganolog i grefydd hefyd yn y cyd-destun llenyddol. Ceir digonedd o gyfeiriadau Cristnogol a Beiblaidd yn netholiad cerddi *Y Rhwyg* er enghraifft, gan feirdd megis Cynan, R. Williams Parry, Hedd Wyn, a T. Gwynn Jones. Yn wir, pwysleisia Wiliams le canolog crefydd yn y cerddi Cymraeg:

Er bod lleisio amheuron ynglŷn â gwerth aberth y milwyr a beirniadu amodau byw'r dauddegau wedi dod yn norm ymhen fawr o dro, anos yw dod o hyd i farddoniaeth sy'n mynegi ansicrwydd crefyddol.⁹⁸

Yn sicr, roedd crefydd yn rhan annatod o'r bywyd Cymreig ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Dadleua Dafydd Densil Morgan er enghraifft, fod Cymru wedi bod yn 'remarkably Christian country' erbyn 1914 gyda dros 530,000 o aelodau ymysg yr Anghydfurfwyr yn unig a hyd at 950,000 ychwanegol o 'wrandawyr'. Cymaint oedd dylanwad Cristnogaeth ar y wlad nes y dyweda Morgan: 'Welsh *meant* being Christian.'⁹⁹ Adeilada'r darlun hwn ar yr un a roddwyd gan awdurdod y maes crefydd yng Nghymru, R. Tudur Jones, sy'n dweud, 'fod bod yn Gymro a bod yn Gristion o fewn trwch blewyn yr un peth erbyn 1890.'¹⁰⁰ Byddai'r ymateb i'r rhyfel yng Nghymru, felly, wedi bod yn rhannol gysylltiedig â'r gwerthoedd Cristnogol a oedd yn nodwedd ganolog o gymdeithas y cyfnod. Awgrymir mewn sawl astudiaeth i grefydd sefydliadol gael ei siglo gan y rhyfel, ond yn ogystal fod profiadau personol hefyd wedi dangos gwedd Gristnogol, boed mewn llythyrau, cofiannau, neu gerddi.

Diwylliant Rhyfel

Mae hanesion diwylliannol y gwledydd rhyfel wedi hawlio'u lle yn hanesyddiaeth rhyngwladol y Rhyfel Byd Cyntaf, ac yn gynyddol ers i'r 'tro diwylliannol' dreiddio'r maes.¹⁰¹ Bwriad y

⁹⁷ Richard Toye, 'Lloyd George's War Rhetoric, 1914–1918', *Journal of Liberal History*, 77, Winter 2012–13, 24–29.

⁹⁸ Wiliams, *Y Rhwyg*, t.98.

⁹⁹ Dafydd Densil Morgan, 'Christianity and National Identity in Twentieth Century Wales' yn *Religion, State and Society*, 27, 3/4 (1999), 327–28.

¹⁰⁰ R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Cristionogaeth a diwylliant yng Nghymru 1890–1914* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1981), t.18.

¹⁰¹ Gweler er enghraifft, John Mander, *Our German Cousins: Anglo-German Relations in the 19th and 20th Century* (London: John Murray, 1974); Jurgen Kocka, *Facing Total War: German Society, 1914–1918*, trans. by Barbara Weinberger (Cambridge, MA: Cambridge University Press, 1984); Peter Buitenhuis, *The Great War of*

gweithiau hyn yw dadansoddi a gwerthuso ystyron a disgysau'r rhyfel, gan ddangos natur ysgogiad rhyfel.¹⁰² Bywyd a chymdeithas sifil yn aml yw ffocws yr hanesyddiaeth hon wrth i haneswyr ddadansoddi'r ffyrdd yr aeth carfanau gwahanol o gymdeithas i'r afael â'r ymdrech rhyfel.¹⁰³ Ehangu astudiaethau'r Rhyfel Byd Cyntaf a wna hyn, wrth i haneswyr ystyried y rhyfel yn un cynhwysol i agweddau diwylliannol. Awgrymir gan Winter a Prost fod y ffocws ar 'ddiwylliannau rhyfel' wedi datblygu'n sylweddol ers y 1990au.¹⁰⁴

Cymaint y twf yn yr ymwybyddiaeth ynghylch agweddau diwylliannol y rhyfel, dadleuodd yr hanesydd Almaenaidd Wolfgang Mommsen yn 2000 mai '*Kultur*' oedd y dull newydd i ysgrifennu hanesyddol rhyngwladol y Rhyfel Byd Cyntaf.¹⁰⁵ Gan arbenigo ar brofiad yr Almaen, awgryma thesis Mommsen fod deallusion, ysgolheigion, ac artistiaid wedi bod yn flaenllaw yn dehongli'r rhyfel fel gornest diwylliannol wrth i *Kultur* militaridd ac awdurdodol yr Almaen wrthdaro gyda diwylliant mwy masnachol ac arwynebol Ffrainc a Phrydain.¹⁰⁶ Gweler cyfrol ddiweddar Jay Winter fel enghraifft o'r hanesyddiaeth.¹⁰⁷ Bwriad y gyfrol yw olrhain sut roedd cyfoedion yn deall a chyflwyno'r rhyfel drwy dalu sylw i gymdeithas sifil, sef yn ôl un diffiniad: 'the autonomous realm between private life and system(s) of power'.¹⁰⁸ Dadleuir hefyd dros rôl unigolion elitaidd lleol fel y 'critical group' o fewn y gymdeithas sifil, gan mai rhain oedd yn adlewyrchu ac yn cyflwyno'r profiad rhyfel ar lefel lleol y Ffrynt Cartref.¹⁰⁹

Words: Literature as Propaganda, 1914–18 and After (London: Batsford, 1988); Stuart Wallace, *War and the Image of Germany: British Academics, 1914–1918* (Edinburgh: John Donald, 1988); Horne (gol.), *State, society and mobilization in Europe*; Stéphane Audoin-Rouzeau and Annette Becker, *Understanding the Great War 14–18*, trans. by Catherine Temerson (New York: Hill and Wang, 2002); Kramer, *Dynamic of Destruction*; Becker, 'Faith, Ideologies'.

¹⁰² Defnyddir 'ysgogi' fel cyfieithiad i 'mobilization'.

¹⁰³ Gweler er enghraifft, Winter and Prost, *The Great War in History*; Jean-Jacques Becker, *The Great War and the French People*, trans. by Arnold Pomerans (Providence: Berg, 1985); Bernard Waites, *A Class Society at War: England 1914–1918* (Leamington Spa: Berg Publisher Limited, 1987); John N. Horne, *Labour at war: France and Britain, 1914–1918* (Oxford: Clarendon Press, 1991); Roger Chickering and Stig Förster (gol.), *Great War, Total War: Combat and Mobilization on the Western Front, 1914–1918* (Cambridge: Cambridge University Press, 2006), tt.437-517.

¹⁰⁴ Winter and Prost, *The Great War in History*, tt.153, 163-66.

¹⁰⁵ Wolfgang J. Mommsen, *Bürgerliche Kultur und politische Ordnung* (Frankfurt: Fischer, 2000), t.7. Cyfeiriwyd gan Fred Bridgham, 'Introduction', yn Fred Bridgham (gol.), *The First World War as a Clash of Cultures* (Rochester NY: Camden House, 2006), t.2.

¹⁰⁶ Wolfgang J. Mommsen, 'German artists, writers and intellectuals and the meaning of war, 1914–1918', yn Horne (gol.), *State, society and mobilization*, tt.21-38.

¹⁰⁷ Winter (gol.), *The Cambridge History*.

¹⁰⁸ Jen Birks, *News and Civil Society: The Contested Space of Civil Society in UK Media* (Surrey: Taylor and Francis, 2014), t.5.

¹⁰⁹ Pierre Purseigle, 'Beyond and Below the Nations. Towards a comparative history of local communities at war', yn Jenny Macleod and Pierre Purseigle (gol.), *Uncovered Fields: Perspectives in First World War Studies* (Leidin: Brill, 2004), t.96.

Cyfeirir yn y gweithiau hyn at y cysyniadau o ddiwylliant rhyfel a hunanysgogiad a fodolai adeg y rhyfel.¹¹⁰ Yn eu hastudiaeth o brofiad Ffrainc adeg y Rhyfel Mawr, diffiniwyd diwylliant rhyfel gan Leonard Smith, Stéphane Audoin-Rouzeau, ac Annette Becker fel: ‘a broad-based system of representations through which [people] made sense of the war, and persuaded themselves to continue fighting it.’¹¹¹ Gellir adnabod diwylliant rhyfel felly drwy amlygu’r ffyrdd y tynnwyd ar agweddau o ddiwylliant a bywyd cyfoes er mwyn rhoi ystyr neu ystyron penodol i’r rhyfel. Byddai’r ystyron hyn wedi cael eu cyfryngu mewn amryw o ffyrdd, yn aml yn y maes cyhoeddus, megis trafodaethau, areithiau, testunau’r Wasg, rhethreg ac agweddau sefydliadau, ysgrifau llenorion ac ysgolheigion, gwrthrychau celf, darluniau, a hyd yn oed mewn ffilmiau sinemâu.

Yn fwy cyffredinol, daw hunanysgogiad o fewn y cysyniad o ysgogi traddodiadol ar gyfer rhyfel, sef rôl y wladwriaeth o baratoi’r lluoedd arfog ac addasu’r economi i gyd-fynd a’r strategaeth filwrol. Ond fel noda Horne, yn ogystal ag elfennau milwrol ac economaidd y rhyfel, roedd hunanysgogiad yn ymwneud â’r ymdrech ddi-wladwriaeth ddiwylliannol, a fyddai nid yn unig yn ategu’r ddwy agwedd arall, ond hefyd yn ymestyn y diffiniad o ‘ysgogiad’ ar gyfer y rhyfel hwn:

The war was held to involve not only the physical and territorial integrity of the national community but its distinctive values, ways of life and political institutions (...) Not only the state, but the associational life of civil society, rallied behind the national cause.¹¹²

Byddai natur y diwylliant rhyfel wedi ei gyflyru gan ddatblygiad bywyd gwleidyddol a diwylliannol y gymdeithas.¹¹³ O reidrwydd, ceir rôl bwysig i ddeallusion yn atodi gwerthoedd ac ymagweddau penodol i neges ac ystyr rhyfel. Dyma a ddadleuir gan Alan Kramer a esbonia: ‘the war was seen by the belligerents as a war to defend their culture; for some, it was a war to export culture.’¹¹⁴ Dengys Kramer sut ymdrechodd deallusion i ddehongli’r Cynghreiriaid yn brwydro i achub gwareiddiad, gyda’r Almaen yn ymladd i warchod eu diwylliant penodol hwythau, eu *Kultur*. Yn yr un modd, noda Annette Becker sut crëwyd ‘undebau sanctaidd’ ymysg cynghreiriaid, drwy bwysleisio’r hyn a oedd yn gyffredin rhyngddynt, gan gyfleu syniad o ddiwylliant a gwareiddiad ehangach y gellid ei osod yn gyferbyniol â’r gelyn.¹¹⁵ Dengys y

¹¹⁰ ‘War culture’ a ‘self-mobilization’.

¹¹¹ Leonard V. Smith, Stéphane Audoin-Rouzeau, Annette Becker (gol.), *France and the Great War 1914–1918* (Cambridge: Cambridge University Press, 2003), t.xv.

¹¹² Horne, ‘Introduction: mobilizing for “total war”’, yn John Horne (gol.), *State, society and mobilization*, t.2.

¹¹³ Horne, ‘Introduction: mobilizing for “total war”’, t.1.

¹¹⁴ Kramer, *Dynamic of Destruction*, t.2.

¹¹⁵ Becker, ‘Faith, Ideologies’, tt.235-38.

gweithiau hyn sut gellir ymhelaethu ymhellach ar natur y rhyfel fel un a effeithiodd bob agwedd o fywyd. Yn y llenyddiaeth hon, daw i'r golwg mai perswâd, yn hytrach na gorfodaeth gan y wladwriaeth, oedd yn bennaf yn cymell pobl i gefnogi'r ymdrech rhyfel, yn enwedig ym Mhrydain tan 1916 pan nad oedd gorfodaeth filwrol yn bodoli. Meddai Horne am brofiad Prydain: "“self-mobilization” of the public sphere provided the real force behind the war effort in the first two years of the conflict. Society organized itself in terms of the war.”¹¹⁶ Roedd parodrwydd cymdeithas sifil Prydain i ysgogi ar gyfer y rhyfel yn allweddol, felly, i allu'r wladwriaeth i ymladd y rhyfel.

Amlygir diwylliant rhyfel hefyd yn y byd celf. Gwelwyd tueddiadau artistiaid i dynnu ar ddelweddau o'r gorffennol, yn enwedig rhethreg grefyddol, i ymateb i'r her o geisio esbonio lladdfa maes y gad.¹¹⁷ Ym Mhrydain, daeth yr ymdrech gelf yn rhan o'r ymgyrch bropropaganda swyddogol yn 1917 pan gomisiynodd y Weinidogaeth Wybodaeth baentiadau i gynrychioli 'Ymdrechion a Gwerthoedd Prydain'. Amlygwyd yn y paentiadau hyn themâu Fictorianaid o ramantiaeth ganoloesol, mewn ymgais i symleiddio'r rhyfel i'r gynulleidfa fel un o'r da yn erbyn y drwg.¹¹⁸ Roedd cynodiadau crefyddol a chanoloesol yn nodweddiadol o'r paentiadau yma. Dengys astudiaethau Patrick J. Houlihan a Stefan Goebel er enghraifft sut y defnyddiwyd delweddaeth ac iaith ganoloesol Gristnogol ym Mhrydain a'r Almaen i ategu'r syniad fod y rhyfel yn ornest boneddigaidd ac yn amddiffyniad anrhydeddus o draddodiad.¹¹⁹ Yn ogystal â hyn, mynegwyd mudiadau Fortistiaeth a Dyfodoliaeth mewn paentiadau, awgrym yn sicr o sut roedd crefftwyr ac arlunwyr y cyfnod yn dewis dehongli'r rhyfel a'r cyfnod ehangach, wrth i dechnoleg, diwydiant, newid, a thrais gael eu pwysleisio fel nodweddion moderniaeth.

Awgryma'r hanesyddiaeth diwylliannol rôl bwysig i gymdeithasau sifil yn ffurfio ystyr i'r rhyfel. Bydd y traethawd hwn yn trafod yr ongl Gymreig i'r hanesyddiaeth hon, mewn ymgais i adnabod yn gliriach y ffordd y ffurfiwyd diwylliant rhyfel yng Nghymru ym mlynnyddoedd 1914–1918. Yn hyn o beth, byddai rôl y Wasg wedi bod yn ddylanwadol iawn yn y broses o fframio'r rhyfel yn y maes cyhoeddus.¹²⁰ Ceir amlinelliad byr o dueddiadau'r Wasg Gymreig

¹¹⁶ John Horne, 'Public Opinion and Politics', yn Horne (gol.), *A Companion to World War I*, t.282.

¹¹⁷ Annette Becker, 'The Visual Arts', yn Horne (gol.), *A Companion to World War I*, t.345.

¹¹⁸ Toby Thacker, 'Medieval and Modern: Poles of representation in the "Britain's Efforts and Ideals" portfolio'. Papur a gyflwynwyd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, Tachwedd 2014.

¹¹⁹ Houlihan, 'Religious Mobilization'; Stefan Goebel, *The Great War and Medieval Memory: War, Remembrance and Medievalism in Britain and Germany, 1914–1940* (Cambridge: Cambridge University Press, 2006).

¹²⁰ Gellid olrhain cysyniad y maes cyhoeddus i astudiaeth ffurfiannol Jürgen Habermas yn 1962 lle golygai faes o'n bywyd cymdeithasol lle gall rhywbeth tebyg i farn gyhoeddus gael ei ffurfio ynddo. Jürgen Habermas, *The Structural Transformation of the Public Sphere: An Inquiry into a Category of Bourgeois Society*, translated by Thomas Burger with the assistance of Frederick Lawrence (Cambridge: Polity Press, [1962] 2007).

adeg y rhyfel yn astudiaeth Aled Gruffydd Jones o ddatblygiad y Wasg yng Nghymru. Dadleua Jones fod y pwysau i gydymffurfio â rhyfelgarwch y cyfnod wedi bod yn llethol ledled Prydain, gyda newyddiadurwyr ceidwadol a rhyddfrydol yn rhoi eu cefnogaeth i'r ymdrech rhyfel.¹²¹ Canolbwyntia Jones yn bennaf ar y papurau newydd, a defnyddiol yw ei waith yn amlinellu daliadau'r Wasg Gymreig addeg y rhyfel. Bwriad y traethawd hwn fodd bynnag yw canolbwyntio mwy ar y Wasg gyfnodol yn ystod y rhyfel, er mwyn dadansoddi ysgrifau deallusion Cymru a gwerthuso eu cyfraniad at ffurfiant y diwylliant rhyfel yng Nghymru yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Drwy wneud hynny, cyfrennir yn amserol at ein dealltwriaeth o brofiad diwylliannol Cymru o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

¹²¹ Aled Gruffydd Jones, *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1993), t.204.

Y Maes Cyhoeddus a'r Wasg

Yn gysyniadol, mae'r Wasg yn rhan allweddol o gymdeithas sifil ac yn endid pwysig yn cynhyrchu ac yn cynnal disgyrsau. Yn nhermau Gramsci, gwelir y Wasg yn rym rheolaethol sy'n medru trwytho a datblygu arferion, syniadau, agweddau, a moesau cymdeithasol.¹²² Dyma a honnir gan Pierre Purseigle, sydd hefyd yn awgrymu bod cymdeithas sifil y gwahanol wledydd adeg y Rhyfel Byd Cyntaf wedi cyfrannu drwy wahanol ddulliau at fonitro a sensro barn gyhoeddus adeg y rhyfel.¹²³ Roedd cyfranwyr y Wasg y gwahanol wledydd adeg y rhyfel yn aml yn cynnwys unigolion o statws, megis gweinidogion, academyddion, a gwleidyddion, ac felly roedd ganddynt yr hygredd i geisio arfer eu dylanwad.

O fewn hanesyddiaeth y Rhyfel Byd Cyntaf mae'r Wasg wedi cael ei ddefnyddio yn bennaf gan haneswyr fel ffynhonnell ategol. Nid ydyw wedi cael ei drin yn gyfannol, yn enwedig yn achos Cymru. Fel ffynhonnell hanesyddol mae defnyddioldeb y Wasg yn gryf. Fel nododd golygydd *Y Byd Cymreig* yn 1862: 'Y Newyddiadur yw cronicle gwareiddiad (...) Dengys i ni yr unig fyd y gallwn ei weld a'i deimlo.'¹²⁴ Amlyga'r dyfyniad yma swyddogaeth y papurau newydd i ran helaeth o'r boblogaeth yng nghymdeithas Cymru yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ac eithrio datblygiadau'r neuaddau cerddorol a sinemâu cynnar, yr un fyddai'r sefyllfa wedi bod erbyn 1914, gyda phapurau newydd a chylchgronau misol a chwarterol yn profi'r unig ffynhonnell wybodaeth i nifer am ddigwyddiadau tu fas i filltir sgwâr y darlennydd. O ganlyniad, gellid dadlau o blaid rôl bwysig y Wasg yn cyflwyno syniadau penodol i'r maes cyhoeddus, gan ddylanwadu ar ganfyddiadau'r darllenwyr o'r byd o'u hamgylch.

Gyda bwriad y traethawd hwn o astudio agweddau'r Wasg Gymreig, pwysig yw nodi cysyniad ei chynulleidfya, sef y maes cyhoeddus. Arloeswr ysgolheigaid y maes cyhoeddus yw'r damcaniaethwr beirniadol Jürgen Habermas. Yn ei astudiaeth semenol, datblygodd Habermas ei gysyniad o'r maes cyhoeddus.¹²⁵ Adwaenai Habermas salons, clybiau, a chaffis Ewrop y

¹²² Antonio Gramsci, *Selections from the Prison Notebooks*, trans. by Quintin Hoare and Geoffrey Nowell Smith (London: Lawrence & Wishart Ltd, 2007), t.242.

¹²³ Pierre Purseigle, *Warfare and Belligerence: Perspectives in First World War Studies* (Lieden: Brill, 2005), t.25. Am astudiaeth achos rhanbarthol o weithrediad cymdeithas sifil ym Mhrydain adeg y Rhyfel Byd Cyntaf, gweler hefyd traethawd ymchwil Richard Batten, *Devon and the First World War*, PhD, 2013, University of Exeter, yn enwedig tt.26-37.

¹²⁴ Golygydd *Y Byd Cymreig*, Hydref 9, 1862, dyfynnwyd yn Jones, *Press, Politics and Society*, t.8.

¹²⁵ Habermas, *Structural Transformation*. Defnyddir y term 'maes cyhoeddus' fel cyfieithiad Cymraeg o'r cysyniad 'public sphere'.

ddeunawfed ganrif fel strwythurau cymdeithasol y maes cyhoeddus cynnar.¹²⁶ Daeth y rhain i gynrychioli fforwm i drafodaethau cyhoeddus y *bourgeoisie* lle trafodwyd materion cyfoes a beirniadu gweithgareddau a pholisïau'r wladwriaeth. Cynrychiolai ofod rhwng bywyd preifat dinasyddion a chymdeithas sifil ar yr un ochr, ac awdurdod y wladwriaeth ar y llall. Roedd hi'n llwyfan o ble gellid cyfryngu rhwng y wladwriaeth a'r unigolyn preifat.¹²⁷ Mae hefyd yn gysyniad sy'n ymgorffori nifer o egwyddorion democrataidd wrth i ddinasyddion gyfnewid syniadau, arferion, ac ymagweddau. O fewn y maes cyhoeddus, gwelir moesau a gwerthoedd penodol yn cael eu cyfreithloni.

Un o'r prif rymoedd a yrrai drafodaethau yn y maes cyhoeddus yw'r Wasg. Mae sawl ysgolhaig wedi pwysleisio'r rôl adeiladol mae'r Wasg wedi chwarae dros y canrifoedd yn ffurfio'r cysyniad o genedl er enghraifft. Yn ôl Marshall McLuhan, roedd y Wasg yn caniatáu i bobl 'weld' eu hiaith frodorol am y tro cyntaf a drwy hynny eu huniaethu gyda phŵer ac undod cenedlaethol.¹²⁸ Mewn astudiaeth yn 1968, edrychodd Elizabeth Eisenstein ar effeithiau testunau print ar gymdeithas Orllewinol. Un o brif oblygiadau'r broses o ddarllen testunau print oedd gallu'r testun i gysylltu'r unigolyn â syniadau, er gwaetha natur amheronol y broses.¹²⁹ Gosododd Eisenstein y sylfaen i ddadl Benedict Anderson rhai blynyddoedd yn ddiweddarach. Pwysleisia Anderson rôl bwysig y papur dyddiol yng nghyfansoddiad hanesyddol cenedl-wladwriaethau Ewropeaidd fodern.¹³⁰ Golyga eu cylchrediad fod miloedd o bobl yn darllen yr un cynnwys ac yna'n dechrau rhannu, yn anymwybodol i'w gilydd, yr un symbolau o hunaniaeth. O ganlyniad i'r gwerthoedd a symbolau a rennir ymysg y darllenwyr, crëir cymuned a diwylliant ehangach tu hwnt i gynefin yr unigolyn. Drwy ddethol ac yna gosod agenda penodol i'r maes cyhoeddus, profodd y Wasg yn ffynhonnell pŵer gwleidyddol sylweddol a oedd yn gallu llunio, ffurfio a chynnal cymunedau.

Yn yr un modd noda Ernest Gellner, yn ei astudiaeth yr un flwyddyn, arwyddocâd y Wasg yn hybu gwerthoedd drwy ei ddarpariaeth o: 'abstract, centralized, standardized, one to many communication.'¹³¹ Wrth wraidd hyn, eglura Simon Potter, yw'r syniad fod y cyfathrebiad o

¹²⁶ Habermas, *Structural Transformation*, tt.27-56.

¹²⁷ Nick Crossley and John Michael Roberts (gol.), *After Habermas: New Perspectives on the Public Sphere* (Oxford: Blackwell Publishing, 2004), t.2.

¹²⁸ Marshall McLuhan, *The Gutenberg Galaxy: The making of typographic man* (London: Routledge and Keegan Paul, 1962).

¹²⁹ Elizabeth L. Eisenstein, 'Some Conjectures about the Impact of Printing on Western Society and Thought', *Journal of Modern History*, 40/1 (1968), 42.

¹³⁰ Benedict Anderson, *Imagined Communities: Reflections on the origin and spread of nationalism* (London: Verso, 1983).

¹³¹ Ernest Gellner, *Nations and Nationalism* (Oxford: Oxford University Press, 1983), t.127.

un ffynhonnell tuag at amryw o dderbynwyr yn ffurfio aelodaeth cymuned, drwy ymgorffori'r rheini sydd yn gallu deall yr iaith ac arddull y neges.¹³² Pwysleisia Potter hefyd rôl y Wasg yn arwain y drafodaeth gyhoeddus yn hytrach na'i hadlewyrchu.¹³³ Amlinella'r astudiaethau hyn werth testunau print fel dangosyddion ymagweddau cymdeithas gyfoes a photensial y Wasg i ffurfio ystyron penodol i gymunedau. Wrth reswm, mae eu pwysigrwydd yn uchel fel ffynonellau hanesyddol i ddirnad ymagweddau cyfoedion Cymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac i geisio adnabod y math o ddiwylliant rhyfel a brofwyd.

Gwasg Cymru yn 1914

Cyfeiria sawl un at y ddeunawfed ganrif fel y cyfnod pan gafodd y Wasg Brydeinig ei wleidyddoli gyda phleidiau gwleidyddol yn manteisio ar ei phoblogrwydd i apelio i'r farn gyhoeddus. Ymgorfforwyd beirniadaeth wleidyddol yn y Wasg er mwyn ennill hygredd yn y ddadl wleidyddol rhwng y Chwigiadaid a'r Toriaid.¹³⁴ Yn dilyn y penderfyniad i agor drysau'r Tŷ Cyffredin i ohebwy'r yn 1787, galwodd Edmund Burke y Wasg yn 'Fourth Estate' i ddynodi'r grym gwleidyddol newydd a fodolai bellach.¹³⁵ Erbyn yr ugeinfed ganrif, roedd natur wleidyddol y Wasg Brydeinig wedi dwysáu. Roedd cysylltiadau personol yn gyffredin rhwng y Wasg a gwleidyddion i'r graddau fel y mynegir fod y Wasg Brydeinig yn ymestyniad o'r system wleidyddol.¹³⁶ Cytuna Alice Marquis gyda'r safbwynt hwn gan ddehongli'r Wasg a'r llywodraeth fel elfennau gwahanol o'r un 'clwb' elitaidd.¹³⁷ Nid yw'n or-ddweud i gynnig bod y Wasg Brydeinig erbyn 1914 wedi gweithredu fel hwylusydd i syniadaeth ddominyddol y dosbarth elitaidd.

Roedd cyflwr y Wasg Gymreig ychydig yn wahanol. Y prif wahaniaeth oedd y diffyg canolbwynt pŵer gwleidyddol yng Nghymru a safle Cymru ar ymylon gwleidyddiaeth Prydain. Ond nid yw hwn i ddweud nad oedd gwleidyddiaeth bleidiol yn treiddio'r Wasg Gymreig, gyda

¹³² Simon J. Potter, 'Introduction: empire, propaganda and public opinion', yn Simon J. Potter (gol.), *Newspapers and Empire in Ireland and Britain: Reporting the British Empire, 1857–1921* (Portland OR: Four Courts Press, 2004), t.11.

¹³³ Potter, 'Introduction', t.17.

¹³⁴ Luke Goode, *Jürgen Habermas: Democracy and the Public Sphere* (London: Pluto Press, 2005), t.10.

¹³⁵ Roedd hwn yn gyfeiriad at y tair 'ystad' oedd yn bodoli'n barod, sef Tŷ'r Cyffredin a'r ddwy adran o'r Arglwyddi, fel grymoedd gwleidyddol Prydain y cyfnod. Julianne Schultz, *Reviving the Fourth Estate* (Cambridge: Cambridge University Press, 1998), t.49.

¹³⁶ George Boyce, 'The Fourth Estate: The reappraisal of a concept', yn George Boyce, James Curran, Pauline Wingate (gol.), *Newspaper history from the Seventeenth Century to the present day* (London: Constable, 1978), t.29.

¹³⁷ Alice Goldfarb Marquis, 'Propaganda in Britain and Germany during the First World War', *Journal of Contemporary History*, 13/3 (1978), 478.

Thoriïaid a Rhyddfrydwyr yn ymryson am ddylanwad y papurau.¹³⁸ Yn wir, oherwydd absenoldeb corff gwladwriaethol yng Nghymru, gellid dehongli'r Wasg Gymreig fel fforwm gwleidyddol ei hun, gellid dadlau o radd bwysicach na'i chymar yn Lloegr, wrth iddi osod sylfaen egwyddorol i gymdeithas fwy democrataidd. Bathwyd sawl papur a chyfnodolyn er enghraifft ar droad yr ugeinfed ganrif yn ne Cymru, i gyd-fynd â thwf trefniant cymdeithasol y dosbarth gweithiol.¹³⁹ Yn ôl Aled Gruffydd Jones:

Long before they won the right to participate in a democratic polity, the editors, writers, printers, distributors and readers of newspapers in Wales came as near as any to realizing the possibilities of a democratic culture.¹⁴⁰

Tebyg yw barn Gwyn Alf Williams. Iddo ef, roedd datblygiad y Wasg yn ffactor allweddol yn natblygiad ymwybyddiaeth wleidyddol Gymreig. Ysgrifenna: 'The new political consciousness broke in along the railways and through the press.'¹⁴¹

Dogfennir datblygiad y Wasg Gymreig gan Aled Gruffydd Jones a Beti Jones.¹⁴² Ymddangosodd mathau penodol o newyddiaduraeth mewn gwahanol ranbarthau, gan adlewyrchu amrywiaeth cymdeithasol Cymru, gyda phapurau dyddiol yn bodoli ochr-yn-ochr â phapurau wythnosol a chyfnodolion.¹⁴³ Prin oedd y teitlau wythnosol a misol oedd â chylchrediad cenedlaethol ledled Cymru. O ganlyniad, dadleuir nad oedd gan Gymru unrhyw fath o Wasg 'genedlaethol' yn 1914.¹⁴⁴ Er gwaethaf hyn, roedd swyddogaeth y Wasg Gymreig fel hwylusydd newyddion a fforwm disgwrs gyhoeddus yn magu arwyddocâd yng ngwleidyddiaeth y wlad. Amlygir y ddadl hon gan sawl hanesydd sydd yn gweld datblygiad y Wasg fel un o brif arwyddion datblygiad democratiaeth Gymreig, ac yn ogystal, fel ffynhonnell bwysig a oedd yn gyrru ac ysgogi ymwybyddiaeth wleidyddol yng Nghymru.¹⁴⁵

¹³⁸ Jones, *Press, Politics and Society*, tt.124-41.

¹³⁹ David Barlow, Tom O'Malley, Philip Mitchell, *The Media in Wales: Voices of a Small Nation* (Cardiff: University of Wales Press, 2005), t.53. Gellid cyfeirio yma at bapurau megis y *Pontypridd Observer* (1898), *Llais Llafur* (1898), *Porth Gazette* (1900), *Aberdare Leader* (1902) a'r *Glamorgan County Times* (1904). Gweler Mynegai 1 am rhestr llawn y teitlau a gychwynnodd yn y cyfnod hwn ac a barodd drwy gydol y rhyfel.

¹⁴⁰ Jones, *Press, Politics and Society*, tt.240-41.

¹⁴¹ Williams, *When Was Wales?*, t.215.

¹⁴² Jones, *Press, Politics, and Society*; Beti Jones, *Newsplan: Report of the Newsplan Project in Wales / Adroddiad ar gynllun Newsplan yng Nghymru* (Bury St Edmunds: St Edmundsbury Press, 1994).

¹⁴³ Jones, *Press, Politics and Society*, t.6.

¹⁴⁴ Barlow et al., *The Media in Wales*, t.59; John M. McEwen 'The National Press During the First World War: Ownership and Circulation' yn *Journal of Contemporary History*, 17/3 (1982), 461.

¹⁴⁵ Jones, *Press, Politics and Society*; Williams, *When Was Wales?*; Kenneth O. Morgan, *Wales in British Politics 1868-1922* (Cardiff: University of Wales Press, 1991).

Rhy Aled Gruffydd Jones ffigwr o 139 (119 Saesneg, a 20 Cymraeg) o bapurau Cymreig yn bodoli yn 1914.¹⁴⁶ Mae'r ffigwr hyn fymryn yn uwch na'r un a roddir gan A. J. Lee yn y *Newspaper Press Directory*, sef 133.¹⁴⁷ Gweler hefyd fynegai Beti Jones o bapurau Cymru hyd at 1994 fel rhan o gynllun Newsplan yng Nghymru. O'r mynegai hwn, gwelir 118 o deitlau Cymreig yn bodoli drwy gydol cyfnod y Rhyfel Mawr.¹⁴⁸ Gwelwyd hefyd 17 teitl ychwanegol yn cychwyn rhwng 1914–1918 a 33 teitl yn dod i ben rhwng y blynyddoedd hynny.¹⁴⁹ Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn bapurau wythnosol, gyda dim ond pum papur dyddiol Cymreig yn cylchredeg drwy gydol y rhyfel: *Cambria Daily Leader*, *Western Mail*, *South Wales Daily News*, *South Wales Daily Post*, a'r *South Wales Argus and Monmouthshire Daily Leader*.¹⁵⁰ Un rheswm posib dros yr anghysondeb yn y ffigurau yma yw'r posibilrwydd fod papurau'r gororau o ardaloedd Lerpwl, Amwythig, Henffordd a Bryste, a oedd hefyd yn cylchredeg yng Nghymru, wedi eu cynnwys gan Jones a Lee.

Rhyddid y Wasg

Mewn gweithred gynnar i geisio sicrhau cefnogaeth i'r ymdrech rhyfel a lleddfu anghytuno ymysg y boblogaeth, pasiodd y llywodraeth Brydeinig Ddeddf Amddiffyn y Deyrnas (*Defence of the Realm Act*, neu DORA) ar 8 Awst 1914. Ynglwm â hwn oedd canllaw 27, a oedd yn cynghori'r Wasg rhag lledu 'adroddiadau ffals' fyddai'n debygol o achosi dadrithiad. Dehonglwyd y canllaw yn hael gan rhai cyhoeddwyr a phrofodd i fod y mwyaf poblogaidd ymysg canllawiau DORA i gosbi'r hynny a wnaeth cam.¹⁵¹ Yn y weithred hon yn unig, gwelwyd ymdrech sydyn i alinio'r Wasg â dymuniadau'r wladwriaeth.

Yn ogystal, sefydlwyd y *Press Bureau* gan y Swyddfa Rhyfel ym mis Awst 1914 o dan oruchwyliaeth Frederick Edwin Smith a Syr Stanley Buckmaster. Cynigir mewnwelediad i'r

¹⁴⁶ Jones, *Press, Politics and Society*, t.209.

¹⁴⁷ Alan Lee, *The Origins of the Popular Press, 1855–1914* (London: Croom Helm, 1976), tt.274-75.

¹⁴⁸ Mae'r ffigwr hwn yn hepgor rhai teitlau posib all gael eu cynnwys. Er enghraifft, gellid addasu'r ffigwr hwn i 120 os yn cynnwys y *Pembrokeshire Times*, *Tenby Telephone and General Advertiser*, a'r *Worker's Own*. Daeth y ddau deitl hyn i ben yn 1918 ond aneglur yw'r wybodaeth ynglŷn â pha mis o'r flwyddyn honno y daethant i ben. Yn ogystal â hyn, cychwynnwyd pedwar teitl yn 1914 a barodd tu hwnt i ddiwedd y rhyfel: *News in a Nutshell*, *Kemp's Local Gazette*, *Pilot* a'r *Sporting Post*. Ond nid oes gwybodaeth chwaith ar y dyddiadau union pan gychwynnwyd rhain, felly hepgorer nhw hefyd yn y cyfanswm o 118.

¹⁴⁹ Gweler Mynegai 2 a 3.

¹⁵⁰ Roedd hefyd rhifyn Cymreig y *Liverpool Daily Post*, yr *Evening Express and Evening Mail* (1902–1917), y *South Wales Evening Express and Evening Mail* (1917–1928), a'r *South Wales News* (1918–1928) yn bodoli yn ystod cyfnodau o'r Rhyfel Mawr. Diolch i Mr Wyn Thomas o'r Llyfrgell Genedlaethol am y wybodaeth ychwanegol hon.

¹⁵¹ Deian Hopkin, 'Domestic Censorship in the First World War', *Journal of Contemporary History*, 5/4 (1970), 157.

berthynas rhwng y Wasg a'r *Bureau* gan Syr Edward Cook.¹⁵² Cook oedd un o gyfarwyddwyr y *Bureau* adeg y rhyfel ac yn awdurdod ar swyddogaeth y sefydliad lled-wladwriaethol hwn. Wrth amlinellu swyddogaeth y *Bureau*, pwysleisiodd Cook nad oedd sensoriaeth yn orfodol i'r papurau newydd. Ar wahân i deigramau a oedd i gyd yn cael eu sensro, doedd hi ddim yn orfodol i olygyddion gyflwyno unrhyw ddeunydd i'r *Bureau*.¹⁵³ Awgryma Cook berthynas iach ar y cyfan rhwng y Wasg a'r *Bureau* gyda'r awdurdodau'n ymddiried yn y golygyddion i gefnogi ymdrech y rhyfel a chyflwyno cynnwys ar eu liwt eu hunain.

Rhy Cook ffigwr o 'dros 100,000' o erthyglau i gael eu prosesu gan y *Bureau* yn ystod y rhyfel.¹⁵⁴ O gymryd 100,000 fel ffigwr i fesur, ar yr olwg gyntaf mae hyn i'w weld yn ffigwr uchel, ond o ystyried fod 2,400 o bapurau yn bodoli ym Mhrydain yn 1914 gellid amcangyfrif mai dim ond 1.5 y cant o holl bapurau newydd Prydain oedd yn cyflwyno erthyglau'n ddyddiol i'w cael eu sensro gan y *Bureau*.¹⁵⁵ Awgryma'r ffigwr o 1.5 y cant fod y Wasg Brydeinig wedi bod yn lled-rhydd lle bu elfen sylweddol o ymddiriedolaeth ynddynt gan y llywodraeth i gyhoeddi'r hyn yr oeddent yn dymuno. Dyma a ddadleua Colin Lovelace, sydd yn nodi fod y Wasg Brydeinig ar y cyfan wedi derbyn cyfarwyddiadau'r *Bureau* a fod cydweithrediad wedi digwydd yn ystod y rhyfel.¹⁵⁶ Dyma agwedd nodweddiadol o'r ffyrnt cartref adeg y rhyfel, ac sy'n adlewyrchu polisi *laissez-faire* y llywodraeth ar y cychwyn wrth i gymdeithas sifil ysgogi ei hun, yn gymharol rydd o ymyrraeth uniongyrchol y llywodraeth. Dim tan 1917 y sefydlwyd Adran Wybodaeth a Phwyllgor Amcanion Rhyfel Cenedlaethol i geisio canoli ymdrechion propaganda Prydain.¹⁵⁷ Dangosir gan sawl un nad oedd unrhyw gyd-drefniant propaganda Prydeinig tan 1917, ac nad oedd unrhyw bolisi propaganda penodol wedi cael ei ddylunio gan y llywodraeth tan hynny.¹⁵⁸

¹⁵² Sir Edward Cook, *The Press in War-Time* (London: Macmillan, 1920).

¹⁵³ Cook, *The Press in War-Time*, tt.41-59. Roedd pob telegram mewnol ac allanol y Wasg yn cael eu dargyfeirio o'r Central Telegraph Office i'r Press Bureau lle byddent yna'n cael eu sensro yn y 'Cable Room'.

¹⁵⁴ Cook, *The Press in War-Time*, tt.45-59. Mae'r ffigwr hwn yn gweithio allan ar gyfartaledd o 65 erthygl y dydd o Awst 7, 1914 hyd at Tachwedd 11, 1918.

¹⁵⁵ Rhoddir y ffigwr 2,400 o bapurau newydd gan David Welch, 'Mobilizing the Masses: The Organization of German Propaganda During World War One' yn Mark Connelly and David Welch (gol.), *War and the Media: Reportage and Propaganda, 1900-2003* (London: IB Tauris, 2005), t.26.

¹⁵⁶ Colin Lovelace, 'British press censorship during the First World War', yn Boyce, Curran, Wingate (gol.), *Newspaper history*, t.316.

¹⁵⁷ O fis Chwefror 1918 ymlaen newidiwyd enw'r 'Adran Wybodaeth' i'r 'Weinidogaeth Wybodaeth', o dan arweiniad Arglwydd Beaverbrook.

¹⁵⁸ Cate Haste, *Keep the Home Fires Burning: Propaganda in the First World War* (London: Penguin Books, 1977), t.37; Philip M. Taylor, *British Propaganda in the Twentieth Century* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 1999), t.11. Un enghraifft gynnar gan y llywodraeth oedd sefydlu'r Parliamentary Recruiting Committee yn 1914 i hybu recriwtio. Cadeiriwyd y corff hwn gan y Prif Weinidog, Herbert Asquith ac roedd yn gyfrifol am gomisiynu posteri recriwtio tra roedd gweithredwyr pleidiau yn dosbarthu taflenni a threfnu cyfarfodydd ledled y wlad.

O ystyried polisi gwirfoddol y *Bureau*, gallwn gasglu fod y Wasg Brydeinig – ac felly Cymreig – wedi gweithredu'n gymharol annibynnol yn ystod y rhyfel. Ond roedd y *Bureau* yn gweithredu o dan amodau Deddf Amddiffyn y Deyrnas lle'r oedd torri canllawiau'r Ddeddf yn gallu golygu cosb ddifrifol o garchar. Roedd cyfyngiadau yn amlwg yn bodoli felly, a byddai golygyddion wedi gorfod ystyried yn ofalus yr hyn oedd yn cael ei gyhoeddi. Un teitl poblogaidd a waharddwyd am gyfnod yn ystod y rhyfel oedd *The Globe*, papur newydd asgell dde Prydeinig o dan y golygydd Charles Palmer. Cosbwyd *The Globe* ym mis Tachwedd 1915 am ledu straeon fod yr Arglwydd Kitchener wedi ymddiswyddo.¹⁵⁹ Yn ogystal, sefydlwyd uned arbennig gan y Swyddfa Gartref i ymchwilio i destunau heddychol, a gweithredodd y llywodraeth yn 1916 i wahardd allforio papurau newydd heddychol megis y *Labour Leader* a'r *Nation*.¹⁶⁰ Ond fel noda Lovelace, wedi i Lloyd George gymryd yr awenau fel prif weinidog yn 1916, digon parod oedd yr awdurdodau i warchod papurau sosialaidd a 'heddychol' megis *The Herald* a'r *Labour Leader* wrth i'r llywodraeth ddibynnu mwy a mwy ar Lafur am gefnogaeth.¹⁶¹ Yng Nghymru, daeth un teitl adnabyddus i ben yn 1917 gyda gwahardd cylchgrawn Cymraeg Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, *Y Wawr*, er nid yw amgylchiadau'r gwaharddiad yn glir iawn. Gwelwyd hefyd ymdrechion aflwyddiannus Uwch Gwnstabl Sir Forgannwg, Capten Lionel Lindsay i gosbi'r *Merthyr Pioneer* am gyhoeddi ysgrifau gwrthryfel T. E. Nicholas ('Niclas y Glais') yn 1915. Tan 1917 felly, gadawyd yr ymgyrch bropropaganda i'r Wasg a phwyllgorau preifat gwladgarol, a digon rhydd oedd y papurau newydd i fynegi barn a beirniadu'r awdurdodau. Nid oedd gan lywodraethau reolaeth gyfreithiol o'r Wasg ar unrhyw adeg.¹⁶² Ag ambell eithriad, profodd y Wasg yn gymharol rydd i gyflwyno'r rhyfel i'w darllenwyr ar ei liwt ei hun heb fawr ymyrraeth wladwriaethol.

Nodyn ar Ffynonellau

Cynrychiola'r traethawd hwn astudiaeth o agweddau'r Wasg Gymreig, wedi ei lleoli o fewn yr hanesyddiaeth ryngwladol ehangach o ddiwylliant rhyfel 1914–18. Ar gyfer y bennod gyntaf, sydd yn dadansoddi'r ffordd y cyflwynwyd Argyfwng Gorffennaf yng Nghymru, defnyddir y

¹⁵⁹ Adroddwyd hwn yn y Wasg ar y pryd. Gweler <http://www.nationalarchives.gov.uk/education/britain1906to1918/pdf/complete_G6.pdf> [cyrchwyd 20.02.15].

¹⁶⁰ Hopkin, 'Domestic Censorship', 162.

¹⁶¹ Bu arweinydd y Blaid Lafur, Arthur Henderson, yn rhan o'r Cabinet Rhyfel rhwng mis Rhagfyr 1916 a mis Awst 1917. Lovelace, 'British press censorship', t.313.

¹⁶² Lovelace, 'British press censorship', t.307.

Cambria Daily Leader, *Western Mail*, *South Wales Daily Post*, a'r *South Wales Daily News*. Roedd y papurau newydd hyn yn rhai dyddiol ac yn cylchredeg yn ne a gorllewin Cymru yn bennaf ac eithrio'r *Western Mail* a oedd yn cylchredeg yn ehangach ar draws Cymru. Argraffwyd y *Cambria Daily Leader* a'r *South Wales Daily Post* yn Abertawe, gyda'r *Western Mail* a'r *South Wales Daily News* yn cael eu hargraffu yng Nghaerdydd. Yn eu gwleidyddiaeth, roedd y *Western Mail*, a fathwyd yn 1869 fel papur newydd dyddiol hynaf Cymru, ynghyd â'r *South Wales Daily Post* yn geidwadol eu daliadau tra roedd y *Cambria Daily Leader* a'r *South Wales Daily News* yn fwy rhyddfrydol. Perchennog y *Western Mail* oedd yr Arglwydd George Riddell a oedd hefyd yn berchen *News of the World* ac a oedd â chysylltiadau personol gyda David Lloyd George. Yn ystod y rhyfel, roedd Riddell yn cysylltu rhwng y Wasg a'r llywodraeth ac aeth ymlaen i gynrychioli barwniaid y Wasg Brydeinig yng nghynhadledd heddwch Versailles.¹⁶³

Tebyg i'r *Western Mail*, roedd y *South Wales Daily Post* hefyd yn geidwadol ei wleidyddiaeth. Ar un adeg, dyma oedd y papur gyda'r cylchrediad mwyaf o'r papurau a gyhoeddwyd yn Abertawe a de orllewin Cymru.¹⁶⁴ Perchnogion y *South Wales Daily Post* o 1906 ymlaen oedd y South Wales Post Newspapers Company, gyda David Davies yn ei olygu yn ystod y rhyfel. Hefyd yn cylchredeg yn yr un ardaloedd oedd y papur rhyddfrydol, *Cambria Daily Leader*. Unodd y ddau bapur yma yn dilyn y rhyfel ac yna yn 1932 gyda'r *South Wales Evening Post*. Sefydlwyd y *South Wales Daily News* gan David Duncan & Sons yn 1872 a chylchredwyd y papur rhyddfrydol hyn yn siroedd de Cymru, a hefyd dros y ffin yn ardaloedd Lloegr. Cyfeiria'r traethawd hefyd at amryw o bapurau wythnosol ledled Cymru yn ogystal â phapurau enwadol. Byddai cylchrediad y papurau hyn wedi amrywio, gyda rhai yn genedlaethol ac eraill yn lleol a rhanbarthol gan adlewyrchu cyflwr byrlymog y Wasg Gymreig.

Y ffynonellau sydd yn derbyn y rhan fwyaf o sylw yw'r cyfnodolion misol, dau-fisol, a chwarterol y Wasg Gymreig. Dyma oedd y *Welsh Outlook*, *Cymru*, *Y Geninen*, *Y Beirniad*, *Y Traethodydd*, *Y Deyrnas*, *Y Gymraes*, a *Seren Gomer*. Wrth bwysleisio rôl olygyddol y cyfnodolion, noda Malcolm Ballin: 'A periodical is produced by a guiding editorial

¹⁶³ Gweler George Riddell, *Lord Riddell's Intimate Diary of the Peace Conference and After 1918–1923* (London: Victor Gollancz, 1933).

¹⁶⁴ Gweler crynodiad Llyfrgell Genedlaethol Cymru o'r teitl hwn ar: <<http://newspapers.library.wales/browse/3349880>> [cyrchwyd 06.05.17].

intelligence, seeking to project an identity'.¹⁶⁵ Byddai pwyslais golygyddol y cyfnodolion wedi bod yn neilltuol felly yn llywio cyflwyniadau'r rhyfel.

Cyhoeddwyd y cylchgrawn misol, *Welsh Outlook*, o 1914 tan 1933 gyda phwyslais ar gynnig mwy o sylwebaeth Gymreig i faterion gwleidyddol a chymdeithasol. Bathwyd y *Welsh Outlook* gan y diwydiannwr ac Aelod Seneddol Trefaldwyn, David Davies, a'r academydd a'r gweithiwr sifil, Thomas Jones ('T.J.'). Rhymni. Roedd Davies yn flaenllaw yn ariannu'r cylchgrawn tra mai Jones, ynghyd â bwrdd golygyddol o academyddion a gweision cyhoeddus, a ofalodd am ei olygyddiaeth. Gellid adnabod daliadau'r cylchgrawn yn yr is-deitl, *A Monthly Journal of National Social Progress*, lle'r oedd diwygio cymdeithasol yn flaenoriaeth i'r bwrdd golygyddol. Er mai Rhyddfrydwr oedd Davies, roedd 'T.J.' eisoes wedi bod yn aelod o'r Blaid Lafur Annibynnol yng Nglasgow, ac roedd aelodau eraill y bwrdd golygyddol yn chwannog i sosialaeth ac yn gefnogol i ddiwygiadau'r Blaid Ryddfrydol. Noda Gwyn Jenkins sut disgrifiwyd nifer o'r bwrdd golygyddol gwreiddiol – Silyn Roberts, George M. Ll. Davies, Edgar Jones, Frank Murrell, a Thomas Jones ei hun – fel y 'twilight zone' a eisteddodd rhwng y pleidiau Rhyddfrydol a Llafur.¹⁶⁶ Symudodd Jones i Lundain fel Is-ysgrifennydd y Cabinet ddiwedd 1916, a bu'r berthynas rhwng y perchennog, David Davies, a'r golygyddion nesaf Hector James Wright Heatherington (Ionawr – Ebrill 1917) ac Edgar L. Chappell (tan ganol 1918), yn fwy anodd.¹⁶⁷ Gorffennodd y *Welsh Outlook* y rhyfel o dan olygyddiaeth Gwilym Hughes, a oedd yn flaenrol yn 'rheolwr busnes' y cylchgrawn.¹⁶⁸

Adlewyrchodd y *Welsh Outlook* y cyfnod ehangach ar gychwyn yr ugeinfed ganrif pan roedd hunanhyder Cymru yn amlwg. O ran cylchrediad a gwerthiant, ym mis Awst 1914 gwerthwyd 2,947, ac erbyn Tachwedd 1918 roedd y cylchrediad oddeutu 2200.¹⁶⁹ Yn ôl Alyce von Rothkirch profodd y *Welsh Outlook* yn boblogaidd ymysg y dosbarth canol addysgiadol, ar

¹⁶⁵ Malcolm Ballin, *Irish Periodical Culture, 1937–1972: Genre in Ireland, Wales, and Scotland* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2008).

¹⁶⁶ Gwyn Jenkins, 'The Welsh Outlook, 1914–33', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 24/4 (1986), 465.

¹⁶⁷ Malcolm Ballin, *Welsh Periodicals in English, 1882–2002* (Cardiff: University of Wales Press, 2013), t.66.

Athronydd Albanaidd oedd Heatherington a dreuliodd gyfnod fel Athro Rhesymeg ac Athroniaeth yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd yn ystod y rhyfel. Noda'r Bywgraffiadur Cymreig y treuliodd Edgar Leyshon Chappell, a aned yn Ystalyfera, gyfnod yn 1917 fel 'ysgrifennydd adran Gymreig comisiwn y Cabinet Rhyfel ar yr anesmwythder yn y byd diwydiannol', ac yn 1918 fe gafodd swydd fel 'arolygwr yn adran tai o dan y Weinyddiaeth Iechyd'. <<http://yba.llgc.org.uk/cy/c2-CHAP-LEY-1879.html?query=chappell&field=name>> [cyrchwyd 10.07.17].

¹⁶⁸ Am astudiaeth o ddatblygiad y *Welsh Outlook*, a'r unigolion allweddol tu ôl iddi, gweler Jenkins, 'The Welsh Outlook, 1914–33'; Alyce von Rothkirch, 'Visions of Wales: *The Welsh Outlook*, 1914–1933', *Almanac: Yearbook of Welsh Writing in English*, 14 (2010), 65–92.

¹⁶⁹ Jenkins, 'The Welsh Outlook, 1914–33', 486.

draul carfanau eraill y wlad.¹⁷⁰ Yn ei hanfod, roedd y *Welsh Outlook* yn rhyddfrydol ei wleidyddiaeth gyda gwedd radical, gan ffocysu yn bennaf ar ddiwylliant, addysg, a gwerthoedd Cristnogol.

Tebyg i'r *Welsh Outlook* oedd cylchgrawn *Cymru* o dan olygyddiaeth O. M. Edwards. Yn ôl Ballin, O. M. Edwards oedd, 'the leading Welsh intellectual of the day.'¹⁷¹ Erbyn yr 1890au, roedd Edwards yn gyfrannwr i'r cyfnodolyn *The Red Dragon* ac yn gyd-olygydd *Cymru Fydd*. Sefydlodd Edwards gylchgrawn *Cymru* yn 1891 ac o fewn tair blynedd roedd ganddi dros dair mil o danysgrifwyr.¹⁷² Parhaodd Edwards i olygu'r teitl tan ei farwolaeth yn 1920, ac ymddangosodd fersiwn Saesneg o'r cyfnodolyn, *Wales*, rhwng 1894–97. Gellid adnabod Edwards fel un o garfan elitaidd Cymru ryddfrydol, a oedd yn cyfarch ei ddarllenwyr o brism gwleidyddol penodol. Serch hyn, bwriad *Cymru* oedd apelio i ystod eang o ddarllenwyr, gydag Edwards yn barod iawn i hyrwyddo'r syniad o'r 'werin', gan gyfleu agwedd gynhwysol o ddsbarthiadau cymdeithasol gwahanol. Cenedlaetholwr diwylliannol oedd Edwards a oedd yn driw i'w ffydd yn yr Ymerodraeth Brydeinig, ac a oedd yn barod i hybu'r syniad o undod gwerinol Cymreig. Nododd Gwilym Arthur Jones am ethos *Cymru* mai 'ymladd brwydr enaid gwerin cenedl fechan' oedd ei hymgyrch.¹⁷³ Cynnwys pennaf *Cymru* oedd materion diwylliannol a llenyddol, ac ynghyd â'r *Welsh Outlook*, cynigiodd *Cymru* lais cadarn o fynegiant Rhyddfrydiaeth Gymreig.

Sefydlwyd *Y Geninen* yn 1883 gyda ffocws ar lenyddiaeth Cymru. Parhaodd y cylchgrawn chwarterol hwn tan 1928, a dau o'i olygyddion oedd John Thomas ('Eifionydd') a Beriah Gwynfe Evans, cyn-ysgrifennydd mudiad Cymru Fydd, cyfaill i David Lloyd George, a golygydd amryw o bapurau wythnosol megis *Y Genedl Gymreig* a phapur yr Annibynwyr, *Y Tyst*. Er mai llenyddiaeth oedd pwyslais y cyfnodolyn hwn, trodd ei chyfranwyr ar adegau at faterion cyfoes a chrefyddol. Gwelwyd hyn fwyfwy yng nghyfnod y rhyfel pan welwyd cyfraniadau pwysig i ddisgwrs Gymreig y rhyfel. Tebyg oedd *Y Beirniad*, a ddisgrifiwyd mewn un adolygiad anhysbys yn y *Welsh Outlook* fel 'the worthy product of the higher education in Wales'.¹⁷⁴ O dan olygyddiaeth John Morris-Jones, darlithydd y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, sefydlwyd *Y Beirniad* fel cylchgrawn llenyddol Cymdeithas y Gymraeg

¹⁷⁰ von Rothkirch, 'Visions of Wales', 65-92.

¹⁷¹ Ballin, *Welsh Periodicals*, t.31.

¹⁷² Ballin, *Welsh Periodicals*, t.31.

¹⁷³ Gwilym Arthur Jones, *Bywyd a Gwaith Owen Morgan Edwards* (Aberystwyth: Cwmni Urdd Gobaith Cymru, 1958), t.53.

¹⁷⁴ Ballin, *Welsh Periodicals*, t.64.

colegau Prifysgol Cymru. Cyhoeddwyd y cylchgrawn o 1911 tan 1917. Beirniadaeth lenyddol a gweithiau creadigol oedd cynnwys pennaf *Y Beirniad*, gan brofi'n ffrwd i lenorion cyfoes Cymraeg.

Cylchgrawn chwarterol arall gyda ffocws ar lenyddiaeth a chrefydd oedd *Y Traethodydd*, ac roedd yn un o gyhoeddiadau'r Methodistiaid Calfinaidd Cymreig. Sefydlwyd hwn yn 1845 gan Thomas Gee, a oedd hefyd yn flaenllaw yn sefydlu'r papur newydd *Baner Cymru* yn 1857 a gyfunodd gydag *Yr Amserau* yn 1859 fel *Baner ac Amserau Cymru*. Golygydd *Y Traethodydd* adeg y rhyfel oedd y Parchedig John Evan Hughes, gweinidog Eglwys Seilo, Caernarfon. Roedd yn gylchgrawn uchel ei barch, gyda Hugh Jones, Bangor, yn ei ddisgrifio yn *Y Geninen* yn 1915 fel, 'drysgell gyfoethog o gynhyrchion gorau rhai o feddylwyr galluocaf Cymru'.¹⁷⁵ Heb os, ffurfiodd *Y Traethodydd* ran bwysig o elfen lenyddol a diwylliannol y Wasg Gymreig, ac fel *Y Geninen*, effeithiodd y rhyfel ar natur ei gynnwys.

Dau gyfnodolyn arall o dan sylw yw *Seren Gomer* a'r *Deyrnas*. Cylchgrawn deufisol y Bedyddwyr oedd *Seren Gomer* a olygwyd gan sawl unigolyn yng nghyfnod y rhyfel, gan gynnwys Evan Ungoed Thomas, Hywel Cernyw (Hugh) Williams, David Wyre Lewis, a John Griffiths. Cyhoeddwyd *Seren Gomer* yn Abertawe, a phrofodd y rhyfel yn her i'r golygyddion a wrthwynebodd y brwydro ar seiliau crefyddol. Siomwyd Ungoed Thomas yn enwedig ar ôl iddo ymgyrchu gyda David Lloyd George yn erbyn Rhyfel y Böer 1899–1902, ac er iddo dderbyn fod y rhyfel yn anochel, gwrthododd y ddadl fod y rhyfel yn un sanctaidd. Meddai Thomas:

The sort of jingoistic liberalism, severed from any anchor of principle, now being espoused by Lloyd George and many other Liberals, could never win the support of radical Nonconformity.¹⁷⁶

Yn debyg i *Seren Gomer*, gwrthwynebodd *Y Deyrnas* y rhyfel ar seiliau Cristnogaeth. Fodd bynnag, sefydlwyd y cylchgrawn yma yng nghanol y rhyfel yn 1916 yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd gan Gymdeithas y Cymod yn Neuadd yr Hendre, Bermo, ddiwedd mis Mawrth 1916. Gwerthodd *Y Deyrnas* gyfartaledd 2,750 o gopiau y mis trwy Gymru gydan am gyfnod o dair blynedd.¹⁷⁷ Gellid, felly, dehongli'r *Deyrnas* fel ymateb chwyrn o wrthwynebiad i'r rhyfel. Gwelwyd sawl heddychwr yn cyfrannu i'r cylchgrawn, a barodd tan fis Tachwedd 1919

¹⁷⁵ 'Y Parchedig William Rowlands (Gwilym Lleyn)', *Y Geninen*, Gorffennaf 1915, 149.

¹⁷⁶ Dyfynnwyd ym mywgraffiad gan Undeb Bedyddwyr Cymru. <<http://www.buw.org.uk/thomas-evan-ungoed-1860-1930/>> [cyrchwyd 12.07.17].

¹⁷⁷ Aled Eirug, *Gwrthwynebwyr Cydwybodol yn y Rhyfel Mawr* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2018), tt.38, 41-42.

a'i gyhoeddi ym Mangor. Y prif olygydd oedd yr Athro Thomas Rees, Prifathro Coleg Bala-Bangor, ac ymysg sefydlwyr y cylchgrawn hefyd oedd T. H. Parry-Williams, T. E. Nicholas, T. Gwynn Jones, y Parchedig John Puleston Jones, y Parchedig John Morgan Jones, Merthyr, y Parchedig John Morgan Jones, Bangor, a'r Parchedig E. Tegla Davies.¹⁷⁸ Bu enwau adnabyddus eraill y maes crefyddol Cymreig yn cyfrannu i'r *Deyrnas* yn ogystal, megis George M. Ll. Davies, D. Stanley Jones, D. Wyre Lewis, a Hywel Cernyw Williams.¹⁷⁹ Ffurfiodd *Y Deyrnas* a *Seren Gomer* gnewyllyn crefyddol gwrth-ryfel y Wasg Gymreig.

Yn dra gwahanol i'r cylchgronau hyn oedd *Y Gymraes*, a fathwyd yn 1850 gan Evan Jones yn rhannol fel ymateb i adroddiad ar addysg yng Nghymru yn 1847 a feirniadodd foesau menywod Cymru. 'Cyhoeddiad Misol Darluniadol i Ferched Cymru' oedd is-deitl y cylchgrawn, ac fe'i golygwyd yn ystod y rhyfel gan Alice Gray Jones o dan ei ffugenw, 'Ceridwen Peris'. Ymgyrchydd brwd dros achos dirwest oedd Jones, gan ddod yn gyd-sylfaenydd Undeb Dirwestol Merched Gogledd Cymru. Bu'n olygydd *Y Gymraes* o 1896–1919 ac roedd dirwest yn agwedd gyson o gyhoeddiadau'r cylchgrawn, ynghyd ag ysgrifau Cristnogol eu gwedd, ac anogaeth i fenywod Cymru gymryd rhan mwy blaenllaw ym mywyd cyhoeddus y wlad. Roedd *Y Gymraes* hefyd yn gefnogol i'r bleidlais, ac felly cynigia'r cylchgrawn hwn ongl amgen ac unigryw i'r traethawd hwn gan mai dyma oedd yr unig gyfnodolyn Cymraeg ei iaith a olygwyd gan fenyw ac wedi ei thargedu at fenywod.

Strwythur

Bydd y bennod gyntaf yn dadansoddi'r ffordd y cyflwynwyd Argyfwng Gorffennaf ym mhapurau newydd Cymru, er mwyn mesur y dwymyn rhyfel, a'r rhesymau a grybwyllwyd dros fynd i ryfel, yn y maes cyhoeddus Cymreig. Gyda hanesyddiaeth Gymreig ddiweddar yn awgrymu ymateb mwy cymedrol i gychwyn y rhyfel, anela'r bennod hon at olrhain sut adroddwyd y cyfnod allweddol cyn i'r rhyfel gychwyn, sef yr wythnosau rhwng llofruddiaeth yr Arch-ddug Franz Ferdinand ar 28 Mehefin 1914 hyd at gyhoeddiad rhyfel gan Brydain ar 4 Awst. Heria'r bennod y syniad bod 'brwdfrydedd rhyfel' yn bodoli yng Nghymru ar drothwy'r Rhyfel Byd Cyntaf, ond fe welir hefyd y ffyrdd penodol y cyflwynwyd yr Argyfwng, gan

¹⁷⁸ Eirug, *Gwrthwynebwyr Cydwybodol*, t.39.

¹⁷⁹ Roedd Hywel Cernyw Williams hefyd yn amlwg yn *Seren Gomer*.

ddangos sut roedd agweddau'r Wasg Gymreig yn nodweddiadol o ddelfrydau cyfoes Ewropeaidd.

Try'r pedair pennod ddilynol at y cylchgronau a chyfnodolion misol a chwarterol. Dilynir dadansoddiad y Wasg ddyddiol ar drothwy'r rhyfel i olrhain y ffyrdd y cyflwynwyd y rhyfel gan ddeallusion Cymru yn y cyfnodolion. Amlyga'r penodau y ffyrdd y daeth delfrydau penodol i ffurfio llinynnau amlycaf y diwylliant rhyfel yng Nghymru ym mlynnyddoedd y Rhyfel Mawr. Yn yr ail bennod, dangosir y rôl a chwaraewyd gan grefydd, yn gyntaf yn estyn ei hun i ddehongliadau'r Wasg o ddigwyddiadau'r rhyfel, a hefyd fel hanfod i gymdeithas decach a 'phurach' yn dilyn y rhyfel. Yn y drydedd bennod gwelir sut priodolwyd egwyddorion moesol a gwaraidd i'r rhyfel. Daeth 'gwareiddiad', 'anrhydedd', a 'rhyddid' yn ddelfrydau nerthol yn iaith y rhyfel yng Nghymru gan adlewyrchu *topos* rhyngwladol yr ornest ddiwylliannol. Yn ogystal, dangosir sut canfuwyd yr Almaen fel gwlad a oedd wedi ei gorchfygu gan ysbryd milwrol Prwsiaidd, gyda dysgeidiaeth rhai o ddeallusion blaenaf yr Almaen yn brawf o'i phydredd moesol. Amlinella'r ddwy bennod olaf y ffordd y tyfodd ymwybyddiaeth Gymreig yn ystod y rhyfel, drwy werthuso'r farddoniaeth rhyfel a gyhoeddwyd yn y Wasg ynghyd â'r ystyriaeth a roddwyd i ddyfodol nid yn unig cymdeithas, ond hefyd gwleidyddiaeth Cymru. Dangosir sut pigwyd y gydwybod Gymreig drwy ddrychau gwleidyddol Gwlad Belg a Serbia, gan gychwyn galwadau o Ymreolaeth i Gymru, yn enwedig yn sgil y gobaith a gynigiwyd gan gynlluniau Cynghrair y Cenhedloedd. Amlyga'r penodau olaf y wedd neilltuol Gymreig a fodolai i'r diwylliant rhyfel yng Nghymru, i gyd-fynd â'r *topos* rhyngwladol diwylliannol.

Yn ogystal â chrynhoi nodweddion y diwylliant rhyfel Gymreig, dadleua'r casgliadau fod rôl y Wasg yng Nghymru wedi bod yn hollbwysig ym mhrofiad Cymreig y Rhyfel Mawr drwy gynhyrchu fframweithiau ystyr i gyfoedion gael deall y rhyfel. Gyda naratif cyfannol y Wasg Gymreig hyd yma i'w weld ar goll o fewn hanesyddiaeth ehangach y rhyfel, gobaith yr ymchwil yw llanw'r bwlch enbyd yma, a goleuo mwy o brofiad Cymru, a'i diwylliant, yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Pennod 1

Argyfwng Gorffennaf

Cyflwyniad

Gwelir dau ddehongliad poblogaidd ynglŷn â'r ymateb Cymreig i gychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Amlygir un gan Kenneth O. Morgan, a ysgrifennodd: 'the overwhelming mass of the Welsh people cast aside their political and industrial divisions and threw themselves into the war with gusto.'¹⁸⁰ Noda'r dehongliad yma y brwdfrydedd a oedd yn bodoli ymysg y boblogaeth ar drothwy'r rhyfel. Ar y llaw arall, gwelir dehongliad arall fel y rhoddir gan Adrian Gregory yn dadlau bod yr ymateb Cymreig wedi bod yn un llugoer, gyda Gregory yn nodi: '[Welsh reaction was] less overwhelmingly enthusiastic than is generally assumed.'¹⁸¹ Er bod gweithiau Morgan yn bennaf yn canolbwyntio ar Gymru, tra bod ffocws Gregory yn gyffredinol wedi trin yr ymateb ar lefel Brydeinig, cynrychiola'r ddau hanesydd hyn y ddau brif safbwynt sydd bellach yn cystadlu am oruchafiaeth yn hanes cyhoeddus Prydain a Chymru ynglŷn â'r ymateb poblogaidd i'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Araf, os o gwbl, y bu'r sylweddoliad yng Nghymru y gallai llofruddiaeth yr Arch-ddug Franz Ferdinand yn Sarajevo ar 28 Mehefin 1914 danio cadwyn o ddigwyddiadau a fyddai'n cychwyn rhyfel byd. Gelwir y cyfnod rhwng y llofruddiaeth hyd at gyhoeddiad rhyfel Prydain ar 4 Awst yn Argyfwng Gorffennaf. Gellir olrhain yr ymateb yn y maes cyhoeddus Cymreig yn y papurau dyddiol, a difyr yw nodi'r gwahanol bwyslais a roddwyd i faterion Ewropeaidd gan y gwahanol deitlau ar wahanol adegau, er gwaetha'r patrwm cyffredinol a ymddangosodd. Roedd yr ymateb yn y papurau newydd Cymreig, ar y cyfan, yn un pwylllog a ddatblygodd yn gynhyrfus yn y dyddiau olaf. Cynigir yn y papurau newydd awgrym o'r rhesymau a gyflwynwyd i'r gynulleidfa Gymreig dros ymyrraeth Brydeinig yn yr argyfwng Ewropeaidd. Yn ogystal â hyn, caniatâ astudiaeth o'r Wasg yng nghyfnod Argyfwng Gorffennaf osod y seiliau ar gyfer trafodaeth bellach o sut ymatebodd y Wasg Gymreig ehangach i ddigwyddiadau'r rhyfel.

¹⁸⁰ Morgan, *Rebirth of a Nation*, t.159. Gweler hefyd Jones, *The History of Wales*; Jenkins, *The History of Modern Wales*; Ross, *Wales: History of a Nation*; Davies, *A History of Wales*; Llwyd (gol.), *Out of the Fire of Hell*.

¹⁸¹ Adrian Gregory, 'British "War Enthusiasm"', t.71. Gweler hefyd Aled Eurig, 'Agweddau ar y Gwrthwynebiad, 58-68; Morgan, "'Christ and the War"', 73-91; Gregory, *The Last Great War*; Barlow, *Wales and World War One*; Hughes, *I'r Fyddin Fechgyn Gwalia!*; Jenkins, *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf*.

Er mai llywodraeth Ryddfrydol Herbert Asquith oedd mewn grym ar y pryd, roedd y Wasg geidwadol yn ddylanwadol iawn yn siapio'r farn gyhoeddus. Yn haf 1914 rhoddwyd pwysau sylweddol ar y llywodraeth gan ddarnau golygyddol y *Times* i ymyrryd ar y cyfandir o 27 Gorffennaf ymlaen. Ar y diwrnod hwnnw, o dan y pennawd, 'Europe and the Crisis', gosododd y *Times* ei hun yn gadarn o blaid ymyrraeth Brydeinig yn y sefyllfa Ewropeaidd, gan ragflaenu'r teitlau ceidwadol eraill megis y *Daily Mirror* a'r *Daily Telegraph*:

Our friendships are firm, as our aims are free from all suspicion of aggression. While we can hope to preserve peace by working with the Great Powers who are not immediate parties to this dangerous quarrel, we shall consider that end above all else. But should there arise in any quarter a desire to test our adhesion to the principles that inform our friendships and that thereby guarantee the balance of power in Europe, we shall be found no less ready and determined to vindicate them with the whole strength of the Empire, than we have been found ready whenever they have been tried in the past. That, we conceive, interest, duty, and honour demand from us. England will not hesitate to answer to their call.¹⁸²

Ystyriwyd y farn hon yn un o 'monstrous character' gan Charles P. Scott, perchennog y papur dyddiol rhyddfrydol, y *Manchester Guardian*.¹⁸³ Ffafiiodd y *Guardian* safle niwtral drwy gydol yr Argyfwng, gan feirniadu'r papurau ceidwadol am eu: 'working of a conspiracy to drag us into war.'¹⁸⁴ Felly hefyd oedd safbwynt y *Daily News* o dan Alfred Gardiner. Ym marn y *Daily News*: 'We must not have our Western civilisation submerged in a sea of blood in order to wash out a Serbian conspiracy.'¹⁸⁵ Nid oedd y syniad o fynd i ryfel i gefnogi'r gwledydd Slafaidd, Rwsia ac yn enwedig Serbia, yn boblogaidd gyda'r Wasg ryddfrydol. Aralleiddiwyd y Serbiaid mewn modd oedd yn groes i draddodiadau rhyddfrydol Prydeinig. Gellid dadlau hefyd fod nifer o Ryddfrydwyr wedi bod yn benderfynol o osgoi rhyfel cyfandirol oherwydd eu bod yn dal at eu hen bolisi rhyngwladol o ymynysedd, gyda thrafferthion diweddar Rhyfel y Böer yn ffres yn y cof.

Cryfhawyd y ddadl dros niwtraliaeth Brydeinig gan golofnau golygyddol y papurau radical a sosialaidd, *Daily Citizen* a *Labour Leader*. Roedd y papurau asgell chwith hyn yn awyddus i goleddu syniadau am frawdgarwch rhyngwladol y dosbarth gweithiol, ac felly byddai unrhyw ryfel Ewropeaidd yn bygwth chwalu'r brawdgarwch yma. Ar 30 Gorffennaf, nododd golygyddol y *Daily Citizen*: '[Foreign Secretary] Sir Edward Grey will be a traitor to the

¹⁸² *The Times*, 27 Gorffennaf 1914.

¹⁸³ Dyfynnwyd yn Newton, *The Darkest Days*, tt.39-40.

¹⁸⁴ *Manchester Guardian*, 30 Gorffennaf 1914.

¹⁸⁵ *Daily News and Leader*, 30 Gorffennaf 1914.

present and future interests of the country if he allows himself to be drawn in except as a keeper of the peace.’¹⁸⁶ Fel papurau a dueddai bwysleisio cysylltiadau cyffredin y dosbarth gweithiol rhyngwladol, doedd hi ddim yn syndod gweld y *Daily Citizen* a’r *Labour Leader* yn cymryd y safbwynt hwn.

Serch hyn, ar yr un diwrnod, pwysleisiodd y *Times* reidrwydd Prydain i ymyrryd ar sail gwarchod annibyniaeth Gwlad Belg a chadw’r cydbwysedd pŵer ar y cyfandir.¹⁸⁷ Yn barod, roedd geiriau fel ‘duty’, ‘interest’ ac ‘honour’ wedi eu gosod yn y drafodaeth Brydeinig ynglŷn ag ymyrraeth ryngwladol. Adlewyrchwyd agwedd y *Times* gan y farn gyffredinol ymysg y papurau ceidwadol eraill megis y *Daily Telegraph*, y *Morning Post*, a’r *Pall Mall Gazette*, yn ogystal â’r papurau Sul ceidwadol, yr *Observer* a’r *Sunday Times*.¹⁸⁸ Gwelir felly fod y Wasg Brydeinig wedi ei rhwygo ar y mater rhyngwladol hwn yn ystod mis Gorffennaf ac Awst 1914. Meddai Adrian Gregory am gyflwr y Wasg Brydeinig: ‘the press certainly did not produce a united voice urging the nation to war’.¹⁸⁹ Dyma oedd yn gefnlen i’r ymateb Cymreig i ddigwyddiadau Argyfwng Gorffennaf.¹⁹⁰

Argyfwng? Pa argyfwng?

Ni fu ymdeimlad o argyfwng rhyngwladol ym mhapurau Cymru tan ymhell ar ôl llofruddiaethau’r Arch-ddug Franz Ferdinand a’i wraig Sophie ar 28 Mehefin. Cydymdeimlad oedd yr ymateb cyntaf, gyda phenawdau fel ‘Tragic History of the Habsburg Family’ yn y *Cambria Daily Leader*, ‘The Tragic Throne’ yn y *South Wales Daily Post*, a ‘The Crime of Sarajevo’ yn y *Western Mail*. Yn y tri theitl yma, gellid adnabod ymdeimlad o edmygedd tuag at yr Arch-ddug yn ogystal ag Ymerodraeth yr Hapsbwrg yn gyffredinol, fel ymerodraeth a oedd wedi gweithredu’n urddasol dros y blynyddoedd, gan gadw trefn ar y gwahanol genedlaethau o dan ei rheolaeth. Amlygwyd y naws prudd yn yr erthyglau golygyddol. Yn y *Western Mail*, disgrifiwyd y llofruddiaeth fel: ‘one of those ghastly events which have disfigured the pages of recent history more than those of any other period.’ Nodwyd am yr Arch-ddug a’i wraig: ‘The Prince’s public record was stainless, his wife was esteemed and

¹⁸⁶ *Daily Citizen*, 30 Gorffennaf 1914.

¹⁸⁷ *The Times*, 30 Gorffennaf 1914.

¹⁸⁸ Newton, *Darkest Days*, tt.72-74.

¹⁸⁹ Gregory, ‘A Clash of Cultures’, t.41.

¹⁹⁰ O ran y ffynonellau roedd y papurau Cymreig yn eu defnyddio i gyflwyno’r newyddion, defnyddiwyd adroddiadau asiantaethau newyddion rhyngwladol, telegramau, adroddiadau gohebwyd y papur, yn ogystal ag erthyglau papurau eraill ar adegau. Er fod holl gynnwys y papurau Cymreig yn ddangosyddion o’r ymateb yng Nghymru, ystyrir yr erthyglau golygyddol yn enwedig yn gynrychioliadol o’r farn Gymreig.

popular.’ Ar y cyfan, mynegwyd siom am yr holl drychineb: ‘From a personal point of view, the assassination is melancholy beyond expression.’¹⁹¹

Roedd ymateb y *Cambria Daily Leader* ar yr un diwrnod yn debyg. Dywedwyd am yr Ymerawdwr: ‘Another sorrow crowns the head of the Emperor Francis Joseph. An old, old man, his life has been crowded with tragedies.’ Yn wir, ‘trychineb’ oedd y gair i ddisgrifio’r cyfan: ‘Great tragedy presents no more dreadful history of relentless fate than does the modern story of the Austro-Hungarian Empire.’¹⁹² Roedd yr ymateb hwn yn gyffredin ledled Ewrop. Yn Ffrainc, nododd *La Croix* dynged drist Ymerodraeth Awstria-Hwngari, tra cyfeiriodd *Głos Śląski* yng Ngwlad Pwyl, *Nieuwsblad van het Noorden* yn yr Iseldiroedd, a *Montags Journal* a *Bozner Zeitung* yn Awstria hefyd at anffawd llinach Hapsbwrg.¹⁹³

Tôn wahanol a welwyd ym mhapur rhyddfrydol y *South Wales Daily News*. Cydymdeimlwyd â cholled yr Ymerawdwr, ond atgoffwyd y darllenwyr o beryglon yr Arch-ddug Ferdinand:

He was an absolutist, a clericalist trained according to the Jesuit traditions, and in every sense of the word a dangerous reactionary (...) It is conceivable, therefore, that as a result of this evil crime greater evils may be averted.¹⁹⁴

Nid oedd y farn hon yn unigryw. Ar ôl clywed y newyddion am lofruddiaeth Franz Ferdinand, meddai gweinidog tramor yr Eidal: ‘Mae’r drosedd yn ffiائد, ond ni fydd heddwch y byd yn cwyno.’¹⁹⁵ Prin oedd yr ystyriaeth i oblygiadau rhyngwladol y llofruddiaethau. Ymysg papurau Cymru, dim ond y *South Wales Daily Post*, ar 29 Mehefin, wnaeth ragweld problemau posib ar y cyfandir. Yng ngolygyddol y diwrnod hwnnw, nodwyd yr ansicrwydd tebygol a ddeuai i Ewrop:

The effect of [the assassinations] is greatly to accentuate the perils to European peace now, and especially when the hand of the aged Emperor is withdrawn from the helm of the most buffeted of ships of state.¹⁹⁶

Ymateb cyntaf y papurau Cymreig felly, ac eithrio’r feirniadaeth o Franz Ferdinand yn y *South Wales Daily News*, oedd un o dristwch a chydymdeimlad. Ystyriwyd olynnydd posib i

¹⁹¹ *Western Mail*, 29 Mehefin 1914, 4.

¹⁹² *Cambria Daily Leader*, 29 Mehefin 1914, 4-5.

¹⁹³ Gweler adnodd *europaana-newspapers.eu* am fwy. <<http://www.europaana-newspapers.eu/wwi-in-historic-newspapers-the-assassination-of-franz-ferdinand/>> [cyrchwyd 19.09.16].

¹⁹⁴ *South Wales Daily News*, 29 Mehefin 1914, 4.

¹⁹⁵ ‘World peace will not complain’. Cyfieithwyd o’r dyfyniad yn Otte, *July Crisis*, t.19.

¹⁹⁶ *South Wales Daily Post*, 29 Mehefin 1914, 4.

Ymerawdwr Franz Joseph, ond nid oedd y papurau yn hyderus o adnabod unigolyn cymwys. Cododd ansicrwydd ynghylch dyfodol Ymerodraeth Hapsburg wrth i'r *South Wales Daily Post* ofni dwsin o "Irish Questions" yn codi ar yr un pryd yn nhiroedd yr Ymerodraeth a oedd yn frith o genhedloedd gwahanol. Cyfeiriad oedd hwn at y sefyllfa fregus a oedd yn bodoli rhwng unoliaethwyr Prydain a chenedlaetholwyr Gwyddelig.

Ar ôl 1 Gorffennaf, bu cyfnod tawel yn y papurau dyddiol lle na welwyd yr un stori ar y mater am bron i bythefnos, a dim tan drydedd wythnos y mis yr ailgydiwyd yn y sefyllfa gan y papurau. Roedd y distawrwydd yn bresennol yn y Wasg Brydeinig hefyd gyda'r *Times* yn rhedeg dwy erthygl olygyddol yn unig ar y sefyllfa rhwng 1 a 21 Gorffennaf.¹⁹⁷ Mewn gwirionedd, bu sawl cyfarfod gwleidyddol a diplomyddol o fewn Ymerodraeth Habsburg yn ogystal â gyda'i chynghreiriad, yr Almaen, i geisio ffurfio ymateb i'r llofruddiaethau. Ni ddihangodd y sefyllfa o lygaid y Ffrancod a'r Rwsiaid chwaith, wrth i sawl cyfathrebiad a chyfarfod ddigwydd ymysg eu gwleidyddion a'u llysgenhadon.¹⁹⁸ Roedd hi'n sicr yn gyfnod prysur a dramatig o fewn y cylchoedd gwleidyddol.

Am y rhan fwyaf o fis Gorffennaf, roedd newyddion a sylwadau ar yr argyfwng Ewropeaidd yn wasgaredig ymysg straeon eraill mwy perthnasol i'r gynulleidfa Gymreig. Yn ogystal â straeon lleol a phlwyfol, roedd pynciau dadleuol Cymreig megis Diwygio Dirwest yng Nghymru, y Ddeddf Tai, Datgysylltu'r Eglwys, a Diwygio Tir yng Nghymru yn amlwg. Ar lefel Brydeinig, roedd ymgyrch y swffragetiaid, rhagolygon economaidd diwydiannau trwm Prydain, chwyldro Mecsico, a streiciau gweithwyr yn San Petersburg. Yn y byd chwaraeon, roedd criced a phaffio yn boblogaidd, gyda gornest y Cymro Freddie Welsh yn erbyn yr Americanwr, Willie Ritchie ar 7 Gorffennaf yn meddu sawl modfedd colofn.

Ond y brif stori ym mhapurau Prydain a Chymru yn ystod mis Gorffennaf oedd y datblygiadau yn Iwerddon. Yn dilyn y Drydedd Ddeddf Ymreolaeth i Iwerddon, a gyflwynwyd yn 1912, sefydlwyd undebwyr Ulster i wrthwynebu unrhyw fesur o Ymreolaeth. Yn sgil hyn, ffurfiwyd Gwirfoddolwyr Gwyddelig i wthio achos Ymreolaeth ledled Iwerddon. Dilynodd cyfnod cythryblus o wrthdaro rhwng y ddwy garfan, gyda'r naill ochr a'r llall yn eu harfogi eu hun, a bygwth llusgo llywodraeth Prydain mewn i ryfel cartref. Roedd y pryderon hyn yn wirioneddol ac yn amlwg yn y papurau Cymreig. Dyma oedd y brif stori yn ystod y rhan fwyaf o fis

¹⁹⁷ 'The Serajevo Murders', *The Times*, 6 Gorffennaf 1914, 9; 'Austria-Hungary and Servia', *The Times*, 16 Gorffennaf 1914, 9.

¹⁹⁸ Gweler triniaeth arbennig o'r ymdrechion diplomyddol rhyngwladol yn Otte, *July Crisis*.

Gorffennaf 1914. O'r herwydd, dylid ystyried y driniaeth o'r Argyfwng Ewropeaidd gyda'r cyd-destun hyn mewn golwg.

Yn ystod Gorffennaf 1914 yn Iwerddon, gwelwyd sawl achos o smyglo arfau, gwrthdaro milwrol gyda nifer o farwolaethau, y Bil Diwygio, a'r Gynhadledd ym Mhalas Buckingham rhwng 21 a 24 Gorffennaf. Ar 26 Gorffennaf saethwyd tri sifiliad yn farw yn Nulyn ac anafwyd bron i ddeugain wrth i filwyr y Scottish Borderers geisio atal arfogaeth milisia'r cenedlaetholwyr. Profodd hyn yn hynod gythryblus wrth i densiynau gynyddu eto a Phrif Gomisiynydd Heddlu Metropolitan Dulyn benderfynu ymddiswyddo. Dyma oedd y gwir argyfwng ym Mhrydain yn wythnosau cyntaf Gorffennaf 1914.

O gymharu â materion Ewropeaidd, hawliodd Iwerddon flaenoriaeth ym mhapurau Cymru am y rhan fwyaf o fis Gorffennaf. Dengys y tabl isod gyfran pynciau'r erthyglau golygyddol papurau dyddiol Cymru o 1 Gorffennaf hyd at 4 Awst:


Tabl 1.1: Ffocws erthyglau golygyddol papurau dyddiol Cymru, 1 Gorffennaf tan 4 Awst, 1914.

Papur	Erthyglau golygyddol am Iwerddon	Erthyglau golygyddol am sefyllfa Ewrop
<i>Cambria Daily Leader</i>	6	5
<i>South Wales Daily News</i>	19	10
<i>South Wales Daily Post</i>	13	10
<i>Western Mail</i>	19	9


Yn ogystal â golygyddol y papurau, roedd eu cynnwys o ran adroddiadau ac erthyglau yn dangos patrwm arwyddocaol. Dengys y graffiau isod y nifer o straeon ac erthyglau unigol ar y sefyllfa yn Iwerddon o'u cymharu gyda'r rhai ar ddatblygiadau diplomyddol a milwrol Ewropeaidd yn y Balcanau a rhwng y pwerau mawr:¹⁹⁹

¹⁹⁹ Mesurwyd y nifer o erthyglau ac adroddiadau yn hytrach na modfeddi colofnau yma. O ganlyniad, nid yw nifer yr erthyglau yn cynrychioli'r maint a lle a gymerwyd ar dudalennai'r papur. Gallai un erthygl fod mor hir â sawl paragraff, neu mor fyr â brawddeg neu ddwy. Dyma oedd natur nifer fawr o adroddiadau asiantaethau newyddion. Adlewyrcha hyn awydd y papur i gyflwyno i'r darllenwyr y newyddion diweddaraf o fater yr oedd yn ei hystyried yn arwyddocaol. Mae'r 'erthyglau' sy'n cael eu cynnwys yma yn amrywio o fod yn erthyglau gwreiddiol y papur ei hun, i adroddiadau asiantaethau newyddiadurol megis y *Press Association*, *Central News Agency* a *Reuters*. Maent hefyd yn cynnwys erthyglau wedi eu benthg o bapurau eraill. Wrth i'r sefyllfa ymddangos yn fwy difrifol, cyhoeddwyd mwy a mwy o delegramau o'r *Telegram Exchange*, sydd hefyd yn cael eu cyfrif yma.


Graff 1.1: Erthyglau a straeon unigol yn y *Cambria Daily Leader* ynglŷn â'r sefyllfa Ewropeaidd a'r Iwerddon.




Graff 1.2: Erthyglau a straeon unigol yn y *South Wales Daily News* ynglŷn â'r sefyllfa Ewropeaidd a'r Iwerddon.



Graff 1.3: Erthyglau a straeon unigol yn y *South Wales Daily Post* ynglŷn â'r sefyllfa Ewropeaidd a'r Iwerddon.



Graff 1.4: Erthyglau a straeon unigol yn y *Western Mail* ynglŷn â'r sefyllfa Ewropeaidd a'r Iwerddon.



Gwelir o'r graffiau rai tueddiadau sydd yn rhoi awgrym o ganfyddiad y Wasg Gymreig o'r Argyfwng Ewropeaidd. Am bedair wythnos yn dilyn llofruddiaeth yr Arch-ddug Franz Ferdinand, y brif stori ym mhapurau dyddiol Cymru oedd Ymreolaeth i Iwerddon. Gwelwyd ffocws i Iwerddon yn cynyddu yn nhyrdedd wythnos mis Gorffennaf wrth i Gynhadledd Palas Buckingham gael ei chynnal o 21 hyd at 24 Gorffennaf. Ac yna, yn dilyn y saethu yn Nulyn ar ddydd Sul 26 Gorffennaf gwelwyd cynnydd eto yn yr adroddiadau dros y dyddiau nesaf. Serch hynny, ac yn gyffredin ymysg y papurau, gwelwyd cynnydd syfrdanol yn y sylw a roddwyd i faterion Ewrop o 27 Gorffennaf ymlaen, gyda'r wltimatwm a roddwyd i Serbia gan Awstria-Hwngari yn dod i ben ar nos Sadwrn, 25 Gorffennaf, yn ail-gynnu'r drafodaeth.

Ar 27 Gorffennaf 1914, pan gynyddodd nifer yr erthyglau ar Ewrop yn sylweddol, roedd sefyllfa Iwerddon o hyd yn hawlio'r penawdau. Yn y *South Wales Daily Post*, wrth ochr y pennawd, 'On the Verge – Europe in Peril', gwelwyd, 'Shocking Outrage – The Dublin Riots' a 'Bloodstained Street'. Nododd y *Cambria Daily Leader* ddigwyddiadau Iwerddon ar yr un diwrnod hefyd:

An amazing scene is reported from Dublin, where wild riot is reported to have reigned in the streets on Sunday evening following a successful attempt at gun-running by Nationalist Volunteers.²⁰⁰

Roedd y bygythiad o ryfel cartref yn un real dros ben, gyda golygyddol y *Western Mail* yn sylwebu o dan y pennawd 'Catastrophe Impending' ar 10 Gorffennaf: 'To use Mr Asquith's phrase, "we are getting on", coming nearer each day to a ghastly climax of blood and desolation'. Ar y dudalen ddilynol rhybuddiwyd: 'danger of civil war in Ireland is more than ever imminent (...) latest reports show the rival armies to be preparing actively for conflict.'²⁰¹ Ofnodd y *South Wales Daily Post* y gallai'r gwrthdaro yn Iwerddon ledu i fannau eraill yr Ymerodraeth:

A war between religious faiths extending over the whole wide expanse of the Empire will thrust us back to the conditions of mediaeval times. The horror of such a prospect is appalling.²⁰²

Crisialwyd y sefyllfa Brydeinig gan un o gartwnyddion mwyaf adnabyddus y cyfnod, Joseph Morewood Staniforth, a oedd yn arlunio i'r *Western Mail*, yn ogystal â'r *Evening Express* a'r papur Sul, *News of the World*. Yn ôl Peter Lord, Staniforth oedd 'the most important visual commentator on Welsh affairs ever to work in the country.'²⁰³ Yn dilyn ei farwolaeth yn 1921, meddai'r Prif Weinidog David Lloyd George: '[Staniforth was] one of the most distinguished cartoonists of his generation [who had] served his country (...) devotedly with the pen.'²⁰⁴ Yn geidwadwr cryf yn ei wleidyddiaeth, Staniforth oedd un o'r cartwnyddion gwleidyddol cyntaf ym Mhrydain.²⁰⁵ Roedd ei waith yn ddylanwadol iawn wrth iddo gorddi'r dyfroedd ymysg rhyddfrydwyr, sosialwyr, ac Anghydfurfwyr, ond eto yn meddu ar ddigon o hygredded i ennyn parch oddi wrth ei wrthwynebwyr.

²⁰⁰ *Cambria Daily Leader*, 27 Gorffennaf 1914, 2.

²⁰¹ *Western Mail*, 10 Gorffennaf 1914, 4-5.

²⁰² *South Wales Daily Post*, 22 Gorffennaf 1914, 4.


²⁰³ Peter Lord, *The Visual Culture of Wales: Industrial Society* (Cardiff: University of Wales Press, 1998), t.198.

²⁰⁴ *News of the World*, 18 Rhagfyr 1921; *Western Mail*, 19 Rhagfyr 1921. Dyfynnwyd yn Chris Williams, 'J. M. Staniforth: A Short Biography', 2,3. <<http://www.cartoonw1.org/resources.htm>> [cyrchwyd 10.10.15].

²⁰⁵ Williams, 'J. M. Staniforth', 1.

Cyhoeddodd Staniforth sawl cartŵn ar argyfwng Iwerddon, gyda phump yn ymddangos rhwng 15–27 Gorffennaf, gan ddangos mewn ffordd ysgafn y gofidion go iawn oedd yn bodoli wrth i ddatblygiadau'r ynys honno fygwth llusgo Prydain mewn i ryfel cartref.²⁰⁶ Ond ar 28 Gorffennaf tynnodd sylw at faterion y cyfandir am y tro cyntaf wrth i'r argyfwng Ewropeaidd ymddangos yn fwy o fygythiad na thrafferthion Iwerddon. Dangosodd ei gartŵn, 'The Snake Eclipsed', Brydain ac Ewrop wedi eu synnu gan ymddangosiad sydyn draig fawr allan o ogof gyfandirol rhwng Awstria a Serbia gyda'r geiriau, 'Threat of War' arni. Tyn sylw Prydain i ffwrdd o Iwerddon lle gwelir neidr beryglus yn ceisio brathu gyda'r geiriau, 'Civil Strife' arni.²⁰⁷ Mwy nag unrhyw beth, dengys y cartŵn hwn pa mor gyflym y symudodd digwyddiadau'r argyfwng Ewropeaidd, a maint ei fygythiad o gymharu âg argyfwng Iwerddon.

Ffigwr 1.1: 'The Snake Eclipsed'²⁰⁸




²⁰⁶ 'A Means of Escape', *Western Mail*, 15 Gorffennaf 1914; 'In Full Cry', *Western Mail*, 22 Gorffennaf 1914; 'The Rain Cloud', *Western Mail*, 23 Gorffennaf 1914; 'The Royal Angler's Critics', *Western Mail*, 24 Gorffennaf 1914; 'The Reckless Chauffeur', *Western Mail*, 27 Gorffennaf 1914.

²⁰⁷ *Western Mail*, 28 Gorffennaf 1914, 3.

²⁰⁸ 'The Snake Eclipsed', *Western Mail*, 28 Gorffennaf 1914.

Dilynwyd hwn gan ail gartŵn Staniforth yn cyfosod argyfwng Iwerddon gydag argyfwng Ewrop ar 1 Awst. Yn ‘In the Face of Danger’ dangoswyd Syr Edward Carson a John Redmond – arweinwyr yr unoliaethwyr a chenedlaetholwyr Iwerddon – yn cweryla o flaen cymeriad John Bull gyda’r Gynghrair Driphlyg yn chwertthin am eu pennau tu ôl i’w cefnau. Mae Redmond a Carson yn dal arwyddion ‘Ulster Crisis’ a ‘Home Rule for Ireland’. Yn yr ail lun ar y dde, ac o dan y cwmwl ‘Threat of General War’, mae’r tri ohonynt, Bull, Redmond, a Carson, wedi gollwng eu harwyddion ac yn herio gyda’i gilydd y Gynghrair Driphlyg sydd bellach yn cilio’n simsan dros y gorwel. O dan yr ail ddarlun rhoddwyd y pennawd, ‘Put Aside For A United Front’. Noda hyn y bodlonwydd ar ran yr unoliaethwyr a’r cenedlaetholwyr i ohirio’r broses o Ymreolaeth i Iwerddon petai rhyfel Ewropeaidd yn cychwyn. Dengys hefyd safbwynt gwleidyddol Staniforth fod y Deyrnas Gyfunol yn gryfach ar y llwyfan rhyngwladol gydag Iwerddon yn rhan ohoni.

Ffigwr 1.2: ‘In The Face of Danger’²⁰⁹



²⁰⁹ ‘In the Face of Danger’, *Western Mail*, 1 Awst 1914.

Gwelir felly fod o leiaf dau argyfwng wedi bodoli ym Mhrydain yn ystod mis Gorffennaf 1914, gyda phapurau Cymru yn defnyddio ‘argyfwng’ ar sawl achlysur i ddisgrifio’r sefyllfa yn Iwerddon cyn i’r sefyllfa Ewropeaidd ymddangos yn ddifrifol. Ond gwelwyd hefyd y gair ‘crisis’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio rhagolygon economaidd a masnachol Prydain. Nodwyd ‘A Coal Crisis Coming’ a ‘The Coal Crisis’ ar 16 a 20 Gorffennaf yn y *Cambria Daily Leader*, a’r ‘Scottish Coal Crisis’ yn y *South Wales Daily News* ar 17 Gorffennaf. Soniodd hyn am gynlluniau i gyflwyno polisi wythnos pedwar diwrnod i’r glowyr yn yr Alban a’r perygl y gallai’r syniad gael gafael yng Nghymru. Cyfunwyd y gofidion hyn gyda thrafferthion Iwerddon ym mhennawd y *Western Mail* ar 18 Gorffennaf: ‘Double Peril Ahead – Big Strikes on top of “Ulster.”’²¹⁰ Roedd y bygythiad o streic gyffredinol ymysg glowyr Prydain yn dod yn fwy posib gyda’r *South Wales Daily News* yn cyhoeddi’r pennawd: ‘Ugly Coal Crisis – Can National Strike Be Averted?’ Erbyn trydedd wythnos mis Gorffennaf, wrth i faterion Ewropeaidd ail-gydio yn y Wasg, roedd cydlifiad trafferthion Iwerddon a sefyllfa ansefydlog y diwydiant glo yn barod wedi creu awyrgylch o argyfwng.

Un o’r ffyrdd y dychwelodd trafferthion Ewrop i sylw’r Wasg Gymreig oedd trwy’r effeithiau posib y byddai rhyfel yn eu cael ar farchnadoedd Prydain. Ar 18 Gorffennaf yn y *Cambria Daily Leader* nodwyd y gofid ynglŷn â’r sefyllfa economaidd, a dadleuwyd dros bwysigrwydd osgoi rhyfel er mwyn gwarchod marchnadoedd Prydeinig: ‘There is only one thing that is of paramount importance, and that is peace – peace abroad and peace at home.’²¹¹ Dyfynnwyd Canghellor y Trysorlys, David Lloyd George yn yr erthygl hefyd; ystyriai’r cyfuniad o drafferthion Iwerddon ynghyd â’r sefyllfa ddiwydiannol ym Mhrydain yn ofid mawr. Yng ngeiriau Lloyd George:

The threat of civil strife in that land in the course of the next few weeks, with the industrial trouble which I have referred to, makes the situation the gravest with which any Government in this country has had to deal for centuries.²¹²

Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd y *South Wales Daily News* y pennawd: ‘Menacing Crises – Industrial and Irish’.²¹³ Mae’n amlwg felly fod sawl argyfwng wedi bodoli ym mhapurau Cymru yn ystod Gorffennaf 1914. Gwerth nodi hefyd dueddiadau papurau newydd i ddramateiddio sefyllfaoedd. Doedd y gair ‘crisis’ ddim yn unigryw i haf 1914. Yn y *Cambria*

²¹⁰ *Western Mail*, 18 Gorffennaf 1914, 7.

²¹¹ *Cambria Daily Leader*, 18 Gorffennaf 1914, 1.

²¹² *Cambria Daily Leader*, 18 Gorffennaf 1914, 1.

²¹³ *South Wales Daily News*, 18 Gorffennaf 1914, 7.

Daily Leader yn ystod 1913 er enghraifft, gwelwyd nifer o bynciau yn cael eu labelu'n argyfwng. Gwelwyd y 'Chinese Crisis', y 'Tinplate Crisis', 'Albanian Crisis', 'Railway Crisis', 'Spanish Cabinet Crisis', 'Mexican Crisis', yn ogystal â'r 'Irish Crisis'. Felly pan ymddangosodd y 'European Crisis' yn haf 1914, dichon y byddai rhai wedi ei ystyried fel mater o bwys, ond efallai mewn ffordd nad oedd yn bygwth perygl uniongyrchol.

Cyflwyno Argyfwng Ewropeaidd

Ailgydiwyd yn y datblygiadau Ewropeaidd yn ddigon buan, er na roddwyd holl sylw'r Wasg i'r pwnc tan ddiwedd y mis. Diflannodd yr ymateb cynnar ffafriol i Awstria-Hwngari wrth i bapurau Cymru ddechrau cyflwyno argyfwng Ewropeaidd. Ar 21 Gorffennaf, gwelwyd pennawd yn y *Cambria Daily Leader* a nododd bryder a difrifoldeb y sefyllfa ar y cyfandir, gyda'r pennawd yn cyfeirio at y 'Grave Anxiety' a fodolai bellach rhwng Awstria-Hwngari a Serbia:

It is feared that a grave crisis is approaching between Austria-Hungary and Servia. The fact that Russia is understood to be supporting Servia does not lessen the gravity of the situation, which is being watched by diplomatists with keen anxiety.²¹⁴

Diwrnod ynghynt yn y *Western Mail* ar 20 Gorffennaf, cyhoeddwyd erthygl *Reuters*: 'Austria and Servia – Alarming Drift of Relations', gyda'r is-bennawd, 'Possibility of Conflict'.²¹⁵ Dyma oedd yr arwydd cyntaf a welwyd yn y *Western Mail* ynglŷn â phosibilrwydd o wrthdaro ar y cyfandir. Yn raddol, daeth rôl Rwsia a'r Almaen yn fwy canolog i gyflwyniad yr argyfwng. Cyfeiriwyd atynt yn bryderus yn y *South Wales Daily News* ar 20 Gorffennaf o dan y pennawd, 'Anxiety in Berlin' drwy fynegi fod ymateb posib Awstria-Hwngari yn achosi pryder a thyndra ar draws Ewrop, gydag agwedd Rwsia o dan gwmwl: 'the nervousness is aggravated by the uncertainty as to Russia's attitude.'²¹⁶

Pwysleisiwyd agweddau rhyfelgar Awstria fel prif achos y dirywiad yn y berthynas rhwng y ddwy wlad. Mynegwyd teimladau gwrth-Awstria yn y *South Wales Daily Post* ar 22 Gorffennaf, wrth i'r Wasg Gymreig ddechrau llunio'i ei barn yn yr Argyfwng. Cyhoeddwyd yn y *South Wales Daily Post* un o erthyglau'r *Daily Express*:

²¹⁴ *Cambria Daily Leader*, 21 Gorffennaf 1914, 1.

²¹⁵ *Western Mail*, 20 Gorffennaf 1914, 5.

²¹⁶ *South Wales Daily News*, 20 Gorffennaf 1914, 5.

The most warlike language is being indulged in by the Viennese newspapers. They freely discuss the question whether there will be war with Serbia, and some of them seem to regard it as inevitable, but none of them expresses certainly whether it could be localised.²¹⁷

Gwelwyd hefyd yr un feirniadaeth o Wasg Awstria yn y *Cambria Daily Leader* ar yr un diwrnod. Mewn darn yn yr adran 'Foreign News', ysgrifennwyd:

The Austro-Hungarian Press continues its violent attacks on Serbia, going so far as to intimate that Serbia will have to choose between absolute acceptance of Austro-Hungarian demands and war.²¹⁸

Dengys y rhain y newid agwedd yn y papurau Cymreig, a oedd bellach yn cyflwyno Awstria-Hwngari fel y prif fygythiad i heddwch ar y cyfandir. Drwy nodi hefyd y Wasg a'r farn gyhoeddus yn Awstria, awgrymwyd fod ymagweddau rhyfelgar tuag at Serbia yn cael eu hannog gan Awstria o fewn ei chymdeithas gyfan, ac nid yn unig ar y lefel ddiplomyddol. Dynoda hyn newid o'r ymateb gwreiddiol a welwyd yn y Wasg Gymreig yn dilyn llofruddiaeth yr Arch-ddug dair wythnos ynghynt; bryd hynny Serbia oedd y wlad beryglus a oedd yn pryfocio rhyfel.

Un o'r ffactorau a arweiniodd at newid agwedd yn y papurau Cymreig tuag at Awstria-Hwngari oedd yr wltimatwm a ddanfonwyd i Serbia ar 23 Gorffennaf. Cadarnhaodd yr wltimatwm hwn amheumon y Wasg Gymreig o ymdrechion Awstria i gynhyrfu rhyfel. Yr wltimatwm oedd ymateb swyddogol cyntaf Awstria-Hwngari i'r llofruddiaethau dros dair wythnos ynghynt. Danfonwyd yr wltimatwm i Serbia yn gofyn iddynt gydymffurfio â 10 pwynt penodol, a rhoddwyd dydd Sadwrn, 25 Gorffennaf fel y dyddiad terfyn i Serbia ymateb. Cynhyrfwyd y Wasg Gymreig yn dilyn yr wltimatwm. Ar y diwrnod hwn yn y *South Wales Daily Post*, cyhuddwyd Awstria o 'coercing Serbia', gan achosi 'Europe's Anxiety'. Ymddangosodd y geiriau hyn mewn pennawd a oedd yn dwyn y teitl, 'War? An Ominous Cloud.'²¹⁹ Gwelwyd barn y *Western Mail* ynglŷn â'r wltimatwm yn ei golygyddol ar ddydd Llun, 27 Gorffennaf: 'It must be admitted that the Austrian demands are of a drastic kind'.²²⁰ Tebyg oedd barn y *South Wales Daily News*. Yn ei golygyddol ar 25 Gorffennaf, cyn i'r wltimatwm ddod i ben, disgrifiwyd gofynion yr wltimatwm fel: 'specially designed to inflict humiliation upon Serbia.'²²¹

²¹⁷ *South Wales Daily Post*, 22 Gorffennaf 1914, 4.

²¹⁸ *Cambria Daily Leader*, 22 Gorffennaf 1914, 6.

²¹⁹ *South Wales Daily Post*, 25 Gorffennaf 1914, 3.

²²⁰ *Western Mail*, 27 Gorffennaf 1914, 4.

²²¹ *South Wales Daily News*, 25 Gorffennaf 1914, 6.

O benwythnos 25–26 Gorffennaf ymlaen, ymddangosai mai Awstria-Hwngari yn unig oedd yn penderfynu ffawd Ewrop, wrth iddi orfodi gofynion llym ar Serbia yn y gobaith o geisio cychwyn rhyfel a chosbi'r wlad am ei chysylltiadau – honedig – â llofruddiaeth yr Arch-ddug Franz Ferdinand. Roedd y farn gyhoeddus Gymreig yn sicr wedi newid ei thôn erbyn hyn, hyd yn oed os na welwyd Serbia mewn golau ffafriol. Roedd papurau dyddiol Cymru wedi troi yn erbyn Awstria-Hwngari ac yn ei chyhuddo o geisio cychwyn rhyfel.

Serch hyn, roedd rôl Rwsia a'r Almaen hefyd yn cael eu trafod yng nghyd-destun yr Argyfwng. Nodwyd yn y *Western Mail* ar 25 Gorffennaf: 'Europe is faced with a difficulty which may easily develop into war (...) Germany will stand by her ally.'²²² Erbyn hyn, nid yn unig roedd barn y papurau newydd wedi troi yn erbyn Awstria-Hwngari, ond bellach cyflwynwyd yr Almaen a Rwsia yn ganolog i'r datblygiadau, ac ar ddydd Sadwrn 25 Gorffennaf, gwelwyd 'International Crisis' ar dudalen flaen y *Cambria Daily Leader*.²²³

Cynyddodd nifer yr erthyglau ar yr argyfwng yn y papurau wrth i safleoedd yr Almaen a Rwsia gael eu hystyried.²²⁴ Ar 25 Gorffennaf, cydnabu golygyddol y *South Wales Daily News* y rôl allweddol a fyddai gan Rwsia yn yr argyfwng.²²⁵ Mewn erthygl *Reuters*, nodwyd: 'Whether the trouble will be localised is held to depend entirely upon the attitude of Russia.'²²⁶ Ac yn ôl pennawd yn y *South Wales Daily Post*: 'What it Means to Us – Everything Depends on Russia'. Esboniodd y golygyddol: 'Upon [Russia] depends whether or not there is to be a struggle, Continental in its scope and involving ultimately nearly all the Great Powers.'²²⁷ Yn debyg, gobaith y *Western Mail* oedd cyfyngu'r rhyfel rhwng Awstria-Hwngari a Serbia drwy gadw Rwsia allan.²²⁸ Adlewyrchwyd y gobeithion hyn yn y papurau wythnosol. Nododd *Y Dydd* ar 31 Gorffennaf:

Mae heddwch Ewrop yn dibynnu ar yr hyn wna Rwsia. Os ä allan i gynorthwyo Servia, nid oes dim atalia y rhyfel Ewropeaidd mwyaf dychrynlyd a gaed erioed, gan y dygir gwledydd eraill i mewn i'r cweryl.²²⁹

Gyda'r wltimatwm yn dod i ben ar nos Sadwrn, 25 Gorffennaf, a Serbia yn gwrthod cytuno i bob un o delerau Fienna, roedd penawdau dydd Llun, 27 Gorffennaf yn niferus ac yn llawer

²²² *Western Mail*, 25 Gorffennaf 1914, 7.

²²³ *Cambria Daily Leader*, 25 Gorffennaf 1914, 1.

²²⁴ Gweler y graffiau uchod.

²²⁵ *South Wales Daily News*, 25 Gorffennaf 1914, 6.

²²⁶ *South Wales Daily News*, 25 Gorffennaf 1914, 7.

²²⁷ *South Wales Daily Post*, 29 Gorffennaf 1914, 4.

²²⁸ *South Wales Daily Post*, 29 Gorffennaf 1914, 3-5; *Western Mail*, 29 Gorffennaf 1914, 5.

²²⁹ *Y Dydd*, 31 Gorffennaf 1914, 5.

mwy dychrynlyd.²³⁰ Yn y papurau Prydeinig ceidwadol, roedd wltimatwm Awstria-Hwngari yn arwydd clir o fwriad ‘Almaenaidd’ ehangach. Roedd yr wltimatwm yn dystiolaeth, yn ôl y Wasg geidwadol, o ‘pan-German plot’.²³¹

Cynyddodd pryder y papurau ar 27 Gorffennaf pan welwyd naw erthygl wahanol ar Ewrop yn y *South Wales Daily Post*, 13 erthygl yn y *Cambria Daily Leader*, a 32 yr un yn y *Western Mail* a'r *South Wales Daily News*. Roedd hyn yn gynnydd sylweddol ers dydd Gwener, 25 Gorffennaf. Adlewyrchodd y penawdau'r gofid am y dyfodol. Yn y *South Wales Daily Post* gwelwyd: ‘On the Verge – Europe in Peril’, ‘The Brink of War’, a ‘The Eve of an Armageddon?’. Datganwyd: ‘Bellicose enthusiasm prevails in Vienna, Berlin and Budapest.’²³² Yn y *Western Mail* gwelwyd penawdau tebyg fel: ‘The War Cloud in Europe’, ‘Faint Hopes of Averting War’, a ‘Grave View Taken of Situation’. Eglurodd y golygyddol: ‘The Austrian ultimatum and the Servian rejection thereof have produced a situation which engages the alarmed attention of the whole of Europe.’²³³ Ar dudalen flaen y *Cambria Daily Leader* adroddwyd: ‘Servians Fire on Austrians’, ‘Fear of an International Crisis’, ac ‘An Extensive Mobilisation’. Pwysleisiodd adroddiad *Reuters* y gwrthdaro rhwng lluoedd Awstria-Hwngari a Serbia ar hyd afon Donwy.²³⁴ Yng nghartŵn ‘Waiting to See!’ darluniwyd ysbieddrych yn sbïo ar filwr o Awstria a Serbia yn herio’i gilydd. Dengys y cartŵn y sefyllfa yn un draws-Ewropeaidd yn ei goblygiadau os nad yn ei hachos a rhoddwyd yr is-deitl: ‘The eyes of Europe are concentrated on the Austro-Servian crisis.’

²³⁰ Cytunodd Serbia i gydymffurfio ag wyth allan o’r deg pwynt a oedd yn delerau yn wltimatwm Awstria-Hwngari.


²³¹ Watt, ‘The British Reactions’, 246.

²³² *South Wales Daily Post*, 27 Gorffennaf 1914, 3.

²³³ *Western Mail*, 27 Gorffennaf 1914, 4.

²³⁴ *Cambria Daily Leader*, 27 Gorffennaf 1914, 1.

Ffigwr 1.3: ‘Waiting to See!’²³⁵



Nid oedd golygyddol y *South Wales Daily News* ar 27 Gorffennaf yn hyderus y byddai rhyfel yn cael ei hosgoi. O dan y pennawd, ‘Is It War?’ tynnwyd sylw at rôl allweddol Rwsia:

That the danger of other Powers being involved is very real is shown by the feverish negotiations which were in progress between the Ambassadors in all the capitals of Europe yesterday. But the attitude of the Russian Government, which is a decisive factor, still remains in some doubt.²³⁶

Ar 28 Gorffennaf, cyhoeddodd Awstria-Hwngari ryfel ar Serbia. Y diwrnod hwn, galwodd y *South Wales Daily Post* y syniad o ryfel Ewropeaidd yn ‘awful catastrophe’, a gobeithiwyd y gallai unrhyw ryfel gael ei gyfyngu’n rhanbarthol:

The most solid ground for hope that the awful catastrophe of European war may be averted lies in the fact that the prime issue of the quarrel is a mater that directly touches the interests of Austria and Servia alone.²³⁷

Er gwaetha’r gobeithion, roedd rhyfel Ewropeaidd yn ymddangos yn fwy anochel wrth i’r diwrnodau basio. Nodwyd ar y 29ain yn y *South Wales Daily News* gan ohebydd San Steffan

²³⁵ *Cambria Daily Leader*, 27 Gorffennaf 1914, 1.

²³⁶ *South Wales Daily News*, 27 Gorffennaf 1914, 4.

²³⁷ *South Wales Daily Post*, 28 Gorffennaf 1914, 4.

yn y 'London Letter': 'the possibility of a disastrous war involving the six Great Powers has to be faced.'²³⁸

Daeth safle Rwsia a'r Almaen – dau brif bŵer milwrol Ewrop – yn fwy amlwg ac roedd y posibilrwydd o ryfel Ewropeaidd, tu hwnt i ranbarth cyfyngedig y Balcanau, yn cael ei ystyried bellach yn debygol, os nad yn anochel. Ar 28 Gorffennaf, adlewyrchodd golygyddol y *Western Mail* ddylanwad y system gynghreiriol – yr *Entente* Driphlyg a'r Gynghrair Driphlyg: 'Germany is to some extent a party to the dispute, because the assurance of German support is emboldening Austria, just as the expectation of Russian support has emboldened Serbia.'²³⁹ Ystyriwyd Serbia yn ymestyniad o'r *Entente* Driphlyg oherwydd ei chysylltiadau Slafaidd gyda Rwsia.

Diwedd Gorffennaf, llywiwyd cyflwyniad yr argyfwng gan y berthynas letchwith rhwng yr Almaen a Rwsia. Ymylwyd yr argyfwng gwreiddiol rhwng Awstria-Hwngari a Serbia, wrth i'r papurau ganolbwyntio ar safleoedd dau brif bŵer y cyfandir. Ystyriodd golygyddol y *South Wales Daily News* nerth milwrol Rwsia: 'it is from the intervention of Russia that Austria has most to fear'. Rhybuddiwyd hefyd o'r lladdfa fyddai'n dod: 'For once Russia takes the field with an army which may be expanded to 3,000,000 in time of war, Europe will be deluged with blood.'²⁴⁰ Ystyriodd y *Cambria Daily Leader* strategaeth yr Almaen mewn rhyfel yn erbyn Rwsia gan ddangos dealltwriaeth strategol o'r sefyllfa: 'The German aim must be to crush France before Russia can come up.'²⁴¹ Gwelwyd yr un ystyriaeth yn y *Western Mail* ar 28 Gorffennaf:

On her Western frontier Germany holds no such advantage (...) If German policy requires a smart initial stroke in the west as well as in the east Germany will try to effect that stroke by forcing a passage through Belgium and in that case Great Britain would be instantly and vitally concerned.²⁴²

Yn ogystal â chanfod – yn gywir – y byddai'r Almaen yn ymosod yn y gorllewin trwy Wlad Belg, dyma oedd hefyd y tro cyntaf i'r *Western Mail* gyfeirio'n benodol at rôl Prydain yn yr Argyfwng. Crëwyd yr argraff o Brydain fel heddeidwad Ewrop, ac adlewyrchwyd hyn mewn cartŵn arall gan Joseph Staniforth. Ar 30 Gorffennaf, gwelwyd, 'The All Important Question' gan ddangos cymeriadau'r Eidal, yr Almaen, Prydain, Rwsia a Ffrainc yn trafod ymysg eu

²³⁸ *South Wales Daily News*, 29 Gorffennaf 1914, 4.

²³⁹ *Western Mail*, 28 Gorffennaf 1914, 4.

²⁴⁰ *South Wales Daily News*, 29 Gorffennaf 1914, 4.

²⁴¹ *Cambria Daily Leader*, Gorffennaf 29 1914, 4.

²⁴² *Western Mail*, 28 Gorffennaf 1914, 4.

gilydd wrth i Awstria a Serbia frwydro yn y cefndir. Gofynna'r pwerau: 'Shall we form a ring around these two or fight each other?' Fodd bynnag, dengys y cartŵn yr Almaen a Rwsia yn syllu'n fygythiol at ei gilydd gyda'r Eidal a Ffrainc wrth eu hochrau yn dal rhaff gyda Phrydain – neu John Bull – gan awgrymu mai dyletswydd Prydain, Ffrainc, a'r Eidal oedd i atal Rwsia a'r Almaen rhag mynd i ryfel.

Ffigwr 1.4: 'The All Important Question'²⁴³



Ailadroddwyd y neges yma yng ngolygyddol y *Western Mail* hefyd, gyda'r gobaith o gyfyngu'r rhyfel i'r Balcanau yn hawlio'r sylw. Ond gosodwyd Prydain fel actor pwysig yn yr argyfwng Ewropeaidd gan fynegi: 'Europe is looking to Britain to arrange the requisite understanding'.²⁴⁴

Erbyn diwedd Gorffennaf, gyda'r brwydro wedi cychwyn rhwng Awstria-Hwngari a Serbia, a'r Almaen ar fin cyhoeddi rhyfel ar Rwsia ar 1 Awst, roedd y gobaith o geisio cyfyngu'r rhyfel i un lleol rhwng Awstria-Hwngari a Serbia wedi prysur ddiplannu. Gyda thristwch, datganodd y *South Wales Daily News*: 'only a political miracle can avert war.'²⁴⁵ Gwelwyd penawdau yn y *South Wales Daily Post* fel: 'The Worst! – Germany Makes the Plunge', 'World Faced with

²⁴³ 'The All Important Question', *Western Mail*, 30 Gorffennaf.

²⁴⁴ *Western Mail*, 30 Gorffennaf 1914, 4.

²⁴⁵ *South Wales Daily News*, 30 Gorffennaf 1914, 5.

Vast Conflagration – Five Millions of Men!’, ‘Belgrade in Flames’. Yn *Western Mail* a’r *Cambria Daily Leader*: ‘War Fever in Russian Capital’ a ‘Sharp Fighting in Bosnia’, ‘Grave News’, a ‘World-wide Anxiety’.²⁴⁶

Nid oedd y penawdau hyn yn gyfyngedig i bapurau Cymru. Ar 29 Gorffennaf, galwodd y *Daily Mirror* y sefyllfa posib fel: ‘The Greatest Catastrophe’. Yn y *Times* gwelwyd: ‘Lowering Clouds’, a ‘Waning Hopes’. Gwelwyd yr anochel fel: ‘the awful visitation of a European war’.²⁴⁷ Hyn oll bedwar diwrnod ar ôl i’r *Times* ddatgan ei gefnogaeth o blaid ymyrraeth Brydeinig. Roedd y *Manchester Guardian* yn ddamniol o’r sefyllfa wrth i’r golygydd, C. P. Scott brotestio: ‘What a monstrous and truly hellish thing this war will be if it really brings the rest of Europe into it.’²⁴⁸ Beirniadodd y *Guardian* hefyd safbwynt y *Times* o ymyrraeth ar ochr Serbia a Rwsia gan ddisgrifio ymateb y *Times* fel: ‘[a] great betrayal of England.’²⁴⁹

Seiliau Diwylliant Rhyfel

Yn ystod dyddiau olaf mis Gorffennaf, gyda rhyfel Ewropeaidd ar y gorwel, roedd rhesymau dros ymyrraeth Brydeinig yn brin yn nhudalennau papurau Cymru. Yn hytrach, datblygwyd cyflwyniad penodol o’r argyfwng. Yn dilyn cyhoeddiad rhyfel Awstria-Hwngari ar Serbia ar 28 Gorffennaf, cynyddodd y ffocws ar yr Almaen a Rwsia yn sylweddol. Achosodd y rhagolygon o ryfel Ewropeaidd agweddau hiliol a phroffwydoliaethau Beiblaidd yn nhriniaeth y Wasg gan ffurfio fframwaith penodol ar gyfer cyflwyno’r Argyfwng. Doedd y cyflwyniadau crefyddol a hiliol hyn ddim yn annhebyg i ddehongliadau gwledydd Ewropeaidd eraill o ryfel anochel.²⁵⁰ Yn wir, adlewyrchodd diwylliant Cymru 1914 *zeitgeist* Ewropeaidd ehangach y cyfnod, lle bu syniadau o wareiddiad, crefydd, a hil yn ddylanwadol mewn cysylltiadau rhyngwladol.

Roedd arwyddion cynnar o ddiwylliant rhyfel yn amlwg yn ystod Argyfwng Gorffennaf.²⁵¹ Gwnaethpwyd hyn gan sylwebwyr y Wasg drwy gyfeirio yn aml at y gwrthdaro hanesyddol a fu rhwng yr Almaen a Rwsia, gyda chrefydd a hil yn cael eu pwysleisio. Un darn dylanwadol

²⁴⁶ *Cambria Daily Leader*, 31 Gorffennaf 1914; *South Wales Daily Post*, 31 Gorffennaf 1914; *Western Mail*, 31 Gorffennaf 1914.

²⁴⁷ *Daily Mirror*, 29 Gorffennaf 1914, 7; *Times*, 30 Gorffennaf 1914, 9; *Times*, 31 Gorffennaf 1914, 9.

²⁴⁸ *Manchester Guardian*, 29 Gorffennaf 1914, 8.

²⁴⁹ *Manchester Guardian*, 30 Gorffennaf 1914, 8.

²⁵⁰ Gweler Kramer, *Dynamic of Destruction*, tt.159-210.

²⁵¹ Gweler diffiniad o ddiwylliant rhyfel gan Smith, Audoin-Rouzeau, Becker (gol.), *France and the Great War*, t.xv. Gweler hefyd John Horne, ‘Introduction’ yn Audoin-Rouzeau and Becker, *Understanding the Great War*.

a gyfrannodd at ganfyddiadau crefyddol a hiliol o'r argyfwng oedd llythyr yr awdur a'r newyddiadurwr, Norman Angell i'r *Times* ar 1 Awst. Dadleuodd Angell y byddai rhyfel yn erbyn yr Almaen yn cefnogi ac yn cryfhau: 'a Slavonic federation of, say, 200,000,000 autocratically governed people, with a very rudimentary civilization, but heavily equipped for military aggression'.²⁵² Yn wynebu'r Slafiaid fyddai'r Almaenwyr 'hynnod gwareiddiedig'.²⁵³ Roedd barn Angell ynghylch rhyfel Ewropeaidd yn amlwg, ond arwyddocaol oedd yr iaith a ddefnyddiodd ef, gan sôn am yr Almaen 'civilised' o gymharu â'r Slafiaid 'rudimentary'. Profodd Angell yn ddylanwadol yn cyflwyno'r naratif o'r Tiwton yn erbyn y Slaf, gyda'r darlun hwn hefyd yn weledol yn y Wasg Gymreig.

Mor gynnar â 30 Mehefin, dechreuwyd ffurfio fframwaith hiliol er mwyn cyflwyno'r argyfwng. Yn dilyn y llofruddiaethau yn Sarajevo cyhuddodd y *Cambria Daily Leader* y Serbiaid o ddilyn polisi o frad a galwyd nhw'n, 'fanatics', 'dangerous forces', a 'reckless agitators'.²⁵⁴ Ymhlyg yn y termau hyn hefyd oedd yr awgrym fod Awstria-Hwngari yn wlad ddymunol, gymedrol, ac yn gyfrifol ar y llwyfan rhyngwladol. Gosodwyd y rhain ochr-yn-ochr â delweddau o Serbia fel gwlad a oedd yn ceisio maethu awyrgylch rhyfelgar. Aeth y *South Wales Daily News* gam ymhellach yn eu dehongliad ar 1 Gorffennaf drwy grybwyll y gwrthdaro hiliol hanesyddol a fodolai yn y rhanbarth. Nodwyd yng ngolygyddol y papur:

[The assassinations] must inflame public opinion and stir up afresh those fanatical racial passions which have already worked such ravages in the Balkan region, and are in truth the real obstacle to a permanent peace.²⁵⁵

Hyd y gwelwyd, dyma'r arwydd cyntaf o'r Wasg Gymreig yn defnyddio hil i gyfleu a dehongli'r sefyllfa ryngwladol. Serch hyn, dros y dyddiau nesaf, fe welwyd rhesymau eraill yn cael eu cyflwyno i esbonio tarddiad yr Argyfwng. Yn y *Cambria Daily Leader* ar 28 Gorffennaf gwelwyd pennawd: 'European Crisis – Causes and Consequences – Teuton v. Slav Feud.' Dadleua'r erthygl hon fod yr Argyfwng yn rhannol yn deillio o ddrwgdeimlad hiliol rhwng Tiwtoniaid a Slafiaid. Adroddwyd am frwydr rhwng Awstria-Hwngari a Serbia, gan fynegi: 'a skirmish is reported on the Danube, but we must be prepared for outbursts such as these among people who hate each other fiercely.'²⁵⁶ Y diwrnod dilynol, ar ôl i Awstria-Hwngari gyhoeddi rhyfel yn swyddogol yn erbyn Serbia, disgrifiwyd y sefyllfa fel: 'this Teutonic conflict with

²⁵² *The Times*, 1 Awst 1914, 6.

²⁵³ 'Highly civilised people'.

²⁵⁴ *Cambria Daily Leader*, 30 Mehefin 1914, 1.

²⁵⁵ *South Wales Daily News*, 1 Gorffennaf 1914, 4.

²⁵⁶ *Cambria Daily Leader*, 28 Gorffennaf 1914, 4.

the forces of Slavdom'.²⁵⁷ Yn debyg, roedd y *South Wales Daily Post* yn awyddus i atgoffa'r darllenwyr mai: 'the greater issue is the issue of race – German v Slav in Europe.'²⁵⁸

Nid oedd penawdau a thudalennau'r papurau Cymreig yn eithriadol fodd bynnag. Ymysg arweinwyr a diplomyddion Ewrop, mynegwyd teimladau tebyg. Mewn cyfathrebiad at Gadfridog byddinoedd Awstria-Hwngari, Conrad von Hötzendorff, gwnaethai'r Cadfridog Almaenaidd Helmuth von Moltke (yr ifancaf) y sylw nôl ym mis Chwefror 1913: 'Rwyf o hyd o'r farn fod rhaid i rhyfel Ewropeaidd ddod cyn hir, a fyddai'n ornest rhwng y byd Almaenaidd a'r byd Slafaidd (...) Ond rhaid i'r ymosodiad ddod o'r Slafiaid.'²⁵⁹ Wrth ymateb i lofruddiaethau Sarajevo, gohebodd llysgennad Rwsia yn Llundain, yr Iarll Aleksandr von Benckendorff mewn modd tebyg gyda Gweinidog Tramor Rwsia, Sergei Sasonov gan gasglu:

Does dim dwywaith mai casineb hiliol sydd wrth wraidd yr holl beth.
Yr anffawd, fodd bynnag, yw y byddai'r camgymeriad parhaol yn cael
ei ailadrodd i ddal yr holl hil yn gyfrifol am droseddau unigolion.²⁶⁰

Cyfeiriodd y *Cambria Daily Leader* at ddadleuon Sidney Low o'r *Daily Mail* i amlinellu'r sefyllfa, gyda Low yn pwysleisio hil, yn hytrach na phŵer gwleidyddol a chynghreiriau fel y grym a lywia'r argyfwng rhyngwladol. Nododd Low yr uchelgais Serbiaidd o geisio ehangu ei thiriogaeth a chreu'r 'Serbia Fawr', a oedd wrth reswm yn peri bygythiad i fodolaeth Ymerodraeth Awstria-Hwngari, gyda miliynau o Slafiaid yn byw o fewn ffiniau Ymerodraeth Hapsburg. Nododd Low, gan bwysleisio'r gwahaniaethau ethnig a diwylliannol: 'behind the dissension of Austria and Servia lies another and wider rivalry, that of the Teuton and the Slav.'²⁶¹ Cysylltwyd yr Almaen â'r mater drwy ddadlau y byddai cwmp Awstria-Hwngari yn gadael yr Almaen mewn sefyllfa fregus iawn: '[Germany would be] exposed to the menace, as she deems it, of the tremendous mass of Slavonic population which impends upon her eastern frontier.'²⁶² Gyda safbwyntiau Low yn cael eu cyfleu gan y *Cambria Daily Leader* Rhyddfrydol, dengys nid yn unig yr amhendrantrwydd a fodolai yn nhueddiadau gwleidyddol y Wasg Gymreig, ond hefyd enghraifft o ledaeniad amcanion Prydeinig yn y papurau Cymreig.

Serch hyn, roedd y *Cambria Daily Leader* yn bapur rhyddfrydol ac fel y cyfryw, cadwyd at ddaliadau gwrth-Rwsiaidd a gwrth-Serbiaidd. Crëwyd delwedd o hil is-ddynol wrth

²⁵⁷ *Cambria Daily Leader*, 29 Gorffennaf 1914, 4

²⁵⁸ *South Wales Daily Post*, 30 Gorffennaf 1914, 3.

²⁵⁹ 'Germandom and Slavdom'. Cyfieithwyd o'r dyfyniad yn Otte, *July Crisis*, t.59.

²⁶⁰ Cyfieithwyd o'r dyfyniad yn Otte, *July Crisis*, t.124.

²⁶¹ *Cambria Daily Leader*, 28 Gorffennaf 1914, 4.

²⁶² *Cambria Daily Leader*, 28 Gorffennaf 1914, 4.

gyflwyno'r syniad o haid enfawr o Slafiaid yn bygwth gorlifo mewn i ganol Ewrop. Disgrifiodd y *Cambria Daily Leader* y sefyllfa fel: 'that other semi-Asiatic flood (...) that is gathering to pour through the South-eastern gates'.²⁶³ Awgrymodd hyn mai safiad dros wareiddiad oedd yn wynebu'r Almaen, wrth i'r papur ddad-ddynoli'r hil Slafaidd. Priodolwyd tarddiad yr argyfwng i nodweddion y Serbiaid, yn benodol casineb unwaed y Serb tuag at yr Awstriad.²⁶⁴ Nid oedd hyn yn awgrymu unrhyw safiad o undod gyda Serbia yn erbyn ymosodiad gan Awstria-Hwngari.

Gafaelwyd yn y *topos* hwn gan bapurau eraill. Roedd naws golygyddol y *South Wales Daily Post* ar 27 Gorffennaf yn besimistaidd iawn wrth bryderu am ddinistr rhyfel posib. Ond eto, mynegwyd hyn yn nhermau hil. Ysgrifennwyd: 'We are on the edge of tragic happenings capable of developing on lines destined to apply the supreme test to the fibre of our race.'²⁶⁵ Ar 1 Awst, rhai dyddiau ar ôl cyhoeddiad rhyfel Awstria-Hwngari ar Serbia, ac ar yr un diwrnod ag y datganodd yr Almaen ryfel ar Rwsia, mynegodd golygyddol y *Western Mail*:

This is not a newspaper war, not a war of petulance and pique, but a war arising from fundamental considerations. The clash of rival races which produced the wars of primitive ages and primitive peoples is at the root of military conflict even in these last days and among the most civilised of nations.²⁶⁶

Roedd gan y papur wythnosol ceidwadol, *The Llanelly Star*, ddaliadau tebyg. Nododd y papur: 'The Teutons hate the Slavs and the Slavs return the hate with interest. If a European war is averted it will be in the nature of a miracle.' Gwrthodwyd hunangyfiawnder gwledydd Ewrop gan y papur hefyd gyda thinc o dristwch ynghylch yr argyfwng. Datganodd y *Llanelly Star*: 'What barbarians we are in spite of our vaunted civilization and our professed devotion to the teaching of the Prince of Peace!'²⁶⁷ Ar 8 Awst, mynegodd papur wythnosol sosialaidd Keir Hardie, *The Merthyr Pioneer*, ffeidd-dod a diflastod llwyr at gychwyn y rhyfel: 'In its ultimate analysis, the real feud is between Slav and Teuton. It is these two forces struggling for absolute supremacy in Europe. Both are tyrants.'²⁶⁸

Roedd archwilio'r anghydnawsedd hanesyddol rhwng y pobloedd Slafaidd ac Almaenaidd yn cynnig safle penodol i'r Wasg Gymreig ar gyfer cyflwyno'r argyfwng. Roedd gan gysylltiadau

²⁶³ *Cambria Daily Leader*, 28 Gorffennaf 1914, 4.

²⁶⁴ 'The inbred hatred of the Serb for the Austrian'. *Cambria Daily Leader*, 28 Gorffennaf 1914, 4.

²⁶⁵ *South Wales Daily Post*, 27 Gorffennaf 1914, 4.

²⁶⁶ *Western Mail*, 1 Awst 1914, 4.

²⁶⁷ *Llanelly Star*, 1 Awst 1914, 1.

²⁶⁸ *Merthyr Pioneer*, 8 Awst 1914, 4.

diwylliannol, ieithyddol, ac ethnig rôl i'w chwarae ym mherthnasau Rwsio-Serbiaidd yn ogystal ag Almaen-Awstriaidd. Ond o bwysleisio'r agweddau hyn, o bosib yn fwy na'r cysylltiadau gwleidyddol a strategol rhwng y gwledydd, dehonglwyd yr argyfwng fel penllanw, a diwedd glo mawr a gwaedlyd i wrthdaro hanesyddol hir sefydlog rhwng dwy hil elyniaethus.

Yn ogystal â chreu delwedd o ryfel hiliol rhwng dau wareiddiad – gydag un yn llawer mwy gwaraidd na'r llall – gwelwyd hefyd y defnydd o rethreg Feiblaidd gyson gyda sawl proffwydoliaeth ynghylch Armagedon. Ymddangosodd hyn yn gyntaf yn y *South Wales Daily Post* ar 11 Gorffennaf:

Hence the steady dead-set that has been made against Servia, the recurrence of a series of crises, the impatience of the greater with the occasional impertinences of the lesser power, and the ultimate peril that the provocation of a war upon the Servians may embroil Austria-Hungary with Russia, and precipitate the European Armageddon.²⁶⁹

Sylwer yma ar y ddelwedd a ddefnyddir o'r bygythiad: 'The European Armageddon'. Dyma'r tro cyntaf i'r gair 'Armageddon' ymddangos yn y Wasg ddyddiol Gymreig yng nghyd-destun Argyfwng Gorffennaf, ac mae'n sicr o fod wedi cynhyrfu rhai darllenwyr ynglŷn â goblygiadau dinistriol rhyfel Ewropeaidd posib. Noder y defnydd hefyd o 'the' yn hytrach nag 'a'. Dynoda'r fannod y math o ganfyddiad oedd gan rai ynglŷn â maint y dinistr a fyddai'n rhan o ryfel Ewropeaidd. Nid dim ond rhyfel dinistriol arall, fel y gwelwyd yn y gorffennol ac yn ddiweddar yn y Balcanau, ond yn hytrach y rhyfel diffiniol a therfynol fel y rhagwelwyd gyhyd.

Wrth i driniaeth yr argyfwng ffocysu mwy ar Rwsia a'r Almaen, felly hefyd cynyddodd y sylw ar Armagedon. Er enghraifft, cyfeiriwyd at Armagedon dri diwrnod yn olynol yn y *South Wales Daily Post* o 27 hyd 29 Gorffennaf. Llwyddodd datganiad rhyfel Awstria-Hwngari ar Serbia ar 28 Gorffennaf, fel mae'r dyddiadau hyn yn ei awgrymu, i danio pryder y byddai'r rhyfel a broffwydwyd yn cychwyn yn fuan. Ar 29 Gorffennaf, wrth ymateb i'r newyddion fod lluoedd Awstria-Hwngari wedi dechrau ymosod ar Serbia'r diwrnod cynt, mynegodd golygyddol y *South Wales Daily News* bryderon am gychwyn Armagedon ar y cyfandir cyfan:

It may conceivably be localised to the territory of the present belligerents, but there is a real danger that other powers will be drawn into the vortex, and that the upshot of it all may be the long-dreaded Armageddon.²⁷⁰

²⁶⁹ *South Wales Daily Post*, 11 Gorffennaf 1914, 4.

²⁷⁰ *South Wales Daily News*, 29 Gorffennaf 1914, 4.

Defnyddiwyd ‘Armagedon’ hefyd gan wleidyddion yn ystod yr argyfwng, fel y nododd ‘London Letter’ y *Western Mail*: ‘More than once the Prime Minister has spoken of “Armageddon”. Such a war as would follow on the involving of the Great Power of Europe in strife would, indeed, be Armageddon.’²⁷¹ Llwyddodd defnydd gwleidyddion o ‘Armageddon’ i roi coel i’r ddelwedd yn y maes cyhoeddus gan annog ei ddefnydd yn y Wasg. O bosib, gwelwyd y defnydd mwyaf brawychus yng ngolygyddol y *Cambria Daily Leader* yn anterth yr argyfwng ar 31 Gorffennaf, diwrnod cyn datganiad rhyfel yr Almaen ar Rwsia. Yn argyhoeddedig fod yr argyfwng yn cynrychioli, ‘fearful menace to the civilisation of a continent’, sylwebodd y *Cambria Daily Leader* ar natur y rhyfel a ddeuai gyda thinc o broffwydoliaeth:

The old ways were horrible almost beyond imagination. The new warfare will be infinitely more horrible. And the mind is slow to accept the possibility that, in a day, in a week, that European Armageddon of which so many tongues have spoken and pens written may be upon us.²⁷²

Roedd hi’n ddelwedd gyfarwydd ymysg y papurau wythnosol hefyd. Gofynnodd y *Llanelly Star* yn debyg ar 1 Awst: ‘Europe in Arms: Is it Armageddon?’ tra ystyriodd *Seren Cymru* a’r ceidwadol *South Wales Weekly Post* yr un posibilrwydd.²⁷³ Yn amserol iawn, ar yr un diwrnod y datganodd Prydain ryfel ar yr Almaen ar 4 Awst barnodd *Y Genedl Gymreig*: ‘Oni bai ein bod yn credu mai moesol ac nid anianyddol ydyw y frwydr honno, buasem yn tueddu yn gryf i farnu mai dyma Armagedon.’²⁷⁴ Dyddiau ar ôl cyhoeddiad rhyfel Prydain, sylwebodd y *Barry Dock News*: ‘Terrible as was the desolation and misery wrought by the Napoleonic War, they promise to be surpassed in this Armageddon.’²⁷⁵ Ar 8 Awst, mynegodd y *Merthyr Pioneer*: ‘the European Armageddon, long prophesied and frequently postponed, is at last upon us’.²⁷⁶ Tra argyhoeddwyd y *Denbighshire Free Press*: ‘Armageddon had now commenced in earnest.’²⁷⁷

Roedd y cyfeiriad niferus at Armagedon a’r ‘coming catastrophe’ yn ystod ac yn fuan ar ôl Argyfwng Gorffennaf yn dangos y Wasg yn tynnu ar syniadau a delweddau cyfarwydd ac yn

²⁷¹ *Western Mail*, 29 Gorffennaf 1914, 4.

²⁷² *Cambria Daily Leader*, 31 Gorffennaf 1914, 4.

²⁷³ *Llanelly Star*, 1 Awst 1914, 1; *Seren Cymru*, 31 Gorffennaf 1914, 9; *South Wales Weekly Post*, 1 Awst 1914, 3.

²⁷⁴ *Y Genedl Gymreig*, 4 Awst 1914, 4.

²⁷⁵ *Barry Dock News*, 7 Awst 1914, 5.

²⁷⁶ *Merthyr Pioneer*, 8 Awst 1914, 4.

²⁷⁷ *Denbighshire Free Press*, 8 Awst 1914, 8.

dechrau ffurfio diwylliant rhyfel penodol Gymreig. Mewn cymdeithas Gristnogol ddwys, byddai negeseuon a atodwyd gan awgrymiadau crefyddol wedi cario mwy o ystyr ac arwyddocâd. Er i'r ddisgwrs grefyddol hon fod yn weledol mewn cymdeithasau Ewropeaidd eraill, profodd y defnydd o 'Armagedon' yn y papurau Cymreig yn ffordd effeithiol, os nad brawychus, o gyflwyno'r argyfwng mewn termau cyfarwydd i'r darllenwyr Cymreig.

Drwy dynnu ar syniadau o hil, gwareiddiad, a chrefydd, roedd cyfleu'r argyfwng mewn termau diwylliannol cyfarwydd yn caniatáu i'r Wasg ysgogi neu danseilio cefnogaeth i'r syniad o ymyrraeth Brydeinig. Roedd cyfeiriadau Beiblaidd at Armagedon yn un ffordd o gyflwyno sefyllfa ryngwladol gymhleth i gyhoedd Cristnogol. Yn debyg, roedd buddsoddi syniadau o wareiddiad a thynnu ar ystrydebau hiliol i gynrychioli'r argyfwng yn ffordd arall o ddehongli digwyddiadau. Cyflwynwyd y Slaflaid cyntefig yn gwrthdaro gyda'r Tiwtoniaid uchelwrol fel gornest gwareiddiadau. Nid oedd y cyflwyniadau hyn yn unigryw i Gymru, ond yn nodweddiadol o ddelfrydau Ewropeaidd cyfoes.

Safle Prydain: Ymyrryd neu beidio ymyrryd?

Roedd safle Prydain yn yr argyfwng Ewropeaidd wedi bod yn ymylol am y rhan fwyaf o fis Gorffennaf. Dengys hyn ganfyddiad y Wasg Gymreig o'r argyfwng fel un cyfandirol nad oedd yn peryglu diddordebau Prydeinig. Soniwyd am safle Prydain ar 27 Gorffennaf yn y *Cambria Daily Leader*, gyda'r papur yn rhagweld unrhyw ymglymiad Prydeinig mewn rhyfel Ewropeaidd yn annhebygol.²⁷⁸ Dau ddiwrnod yn ddiweddarach, cyhoeddwyd yn y papur ran o farn y *Daily News and Leader* ynglŷn â rôl posib Prydain gan ddod i'r casgliad: 'Our hands are free in this business and we must take care to keep them free.'²⁷⁹ Yna ar 31 Gorffennaf, dyfynnwyd yn y golygyddol araith Herbert Asquith i'r Tŷ Cyffredin a ddywedodd fod gan Brydain: 'no interest of her own directly at stake.'²⁸⁰

Gobaith sawl golygydd oedd na fyddai Prydain yn mynd i ryfel, gyda rhai yn canfod y wlad fel ceidwad yr heddwch. Ar 27 Gorffennaf, ystyriwyd rôl Prydain yn y *South Wales Daily Post*: 'The action of the British Government is entirely directed towards the maintenance of peace'. Nodwyd eto ar 30 Gorffennaf bwysigrwydd y Gweinidog Tramor, Syr Edward Grey:

²⁷⁸ *Cambria Daily Leader*, 27 Gorffennaf 1914, 1.

²⁷⁹ *Cambria Daily Leader*, 29 Gorffennaf 1914, 4.

²⁸⁰ *Cambria Daily Leader*, 31 Gorffennaf 1914, 4.

Sir Edward Grey, in virtue of his personal qualities and the neutral and the disinterested position occupied by this country, has become the central figure towards whom all sincerely desirous of peace are turning their eyes.²⁸¹

Mewn erthygl yn dwyn y teitl, 'Britain as Peace Maker', ysgrifennwyd yn y *South Wales Daily News* ar 28 Gorffennaf: 'There is little sympathy in this country with either Servia or Austria. Both have an unenviable record for unscrupulous diplomacy of the worst type.'²⁸² Tebyg oedd yr ymatebion mewn manau eraill yn y Wasg Brydeinig gyda hyd yn oed darllenwyr y *Daily Mirror* ceidwadol yn mynegi eu dicter ynglŷn â'r sefyllfa. Gwelwyd dau lythyr i'r *Mirror* ar 30 Gorffennaf, gydag un yn darllen: 'France is spoiling for a fight. Is it wise to tie ourselves to a nation whom we admire and like, but whose quarrel is not our quarrel?'²⁸³ Yn yr ail lythyr, mynegwyd yn ffyrnig: 'The idea of England going to war because Austria has quarrelled with Servia is a mad idea. Surely this insanity cannot seriously be contemplated by our statesmen?'²⁸⁴ Crynhowyd gobeithion sawl golygydd gan y papur wythnosol *Seren Cymru*, o dan olygyddiaeth John Gwili Jenkins: 'Nid oes gennym ond hyderu y gwna'n gwlad ei rhan eithaf o blaid tangnefedd rhwng y pleidiau, ac na fwydir meysydd llawer gwlad gan ruddwaed Armagedon.'²⁸⁵

Nid oedd rhesymau dros ymyrraeth Brydeinig yn amlwg yn y papurau Cymreig. Gwrthwynebodd y rhan fwyaf o bapurau'r syniad. Ar 4 Awst, ysgrifennodd *Y Genedl Gymreig*: 'Nid oes arnom eisieu ymladd rhyfel y Crimea drosodd eto, a thlodi a gwaedu ein gwlad.'²⁸⁶ Y diwrnod dilynol, oriau wedi i Brydain ddatgan rhyfel ar yr Almaen, mynegodd *Y Dinesydd Cymreig* yr ofn o wynebu rhyfel a gwrthod unrhyw awgrym o gyfrifoldeb moesol dros ymyrraeth Brydeinig:

Mae'r sefyllfa yn un ofnadwy ac anodd yw ei hesponio yngwyneb cynnydd addysg a gwareiddiad. Yr ydym yn Iwrop wyneb yn wyneb a'r rhyfel fwyaf erch a gwaedlyd fu yn hanes y byd erioed. Un peth sy'n eglur ei bod yn ddyledswydd ar Brydain Fawr i gadw oddiwrt h rhyfel hon beth bynnag a wneir gan y gwledydd eraill. Ni fydd i ni wneud unrhyw wasanaeth i ddynoliaeth wrth gymeryd rhan mewn rhyfel nad oes arnom gyfrifoldeb moesol na gwleidyddol dros ymyrryd.²⁸⁷

²⁸¹ *South Wales Daily Post*, 27 Gorffennaf 1914, 3; 30 Gorffennaf 1914, 4.

²⁸² *South Wales Daily News*, 28 Gorffennaf 1914, 4.

²⁸³ *Daily Mirror*, 30 Gorffennaf 1914, 7.

²⁸⁴ *Daily Mirror*, 30 Gorffennaf 1914, 7.

²⁸⁵ *Seren Cymru*, 31 Gorffennaf 1914, 9.

²⁸⁶ *Y Genedl Gymreig*, 4 Awst 1914, 4.

²⁸⁷ *Y Dinesydd Cymreig*, 5 August 1914, 4.

Roedd gofidion economaidd yn ddigon real fodd bynnag, a gwelwyd cryn bryder wedi i'r gyfnewidfa stoc gau o gwmpas y byd. Nodwyd yn y papurau'r ffaith fod Cyfnewidfa Stoc Llundain wedi cau ar 31 Gorffennaf, gyda'r *Western Mail* yn galw digwyddiadau'r diwrnod hwnnw yn 'sensational day'. Byddai Cyfnewidfa Stoc Llundain yn aros ar gau am bum mis, ac am chwe wythnos drwy fis Awst a Medi 1914 byddai pob un gyfnewidfa stoc yn y byd ar wahân i dri, ar gau.²⁸⁸ Yn sgil hyn ymddangosodd mwy o destunau yn ystyried effeithiau posib y rhyfel ar ddiwydiannau Cymru. Roedd cynnydd mewn prisiau bwyd ac roedd y bygythiad i farchnadoedd allforio diwydiannau Cymreig yn awgrymu amser caled i nifer o drefi Cymru. Nododd papurau dyddiol ac wythnosol y difrod economaidd a wnaethpwyd yn barod i Gymru gan yr argyfwng, gan gynnwys y cynnydd prisiau sydyn mewn yd a blawd. Crynhowyd y sefyllfa gan y *Cambria Daily Leader* ddiwrnod ar ôl i Awstria-Hwngari ddatgan rhyfel yn erbyn Serbia: 'The crisis has demoralised the financial markets of the world.'²⁸⁹ Soniodd y *South Wales Daily News* am y 'paralysing effect' y byddai rhyfel yn ei gael ar Farchnad Glo Caerdydd.²⁹⁰ Gwelwyd gofid dros ddiwydiant tunplat Abertawe hefyd yng ngolygyddol y *Cambria Daily Leader* ar 30 Gorffennaf:

It is an anxious time for the trade of Swansea, where we will watch the development of affairs with grave concern. In a way uncommon to most other centres of manufacture, the "bread and butter" of the town, of its tin-workers, of its grain importers, and of the dockers, is affected.²⁹¹

Wrth obeithio y gallai datrysiad heddychlon adfer y sefyllfa, sylwebodd papur wythnosol yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru, *Y Llan a'r Dywysogaeth* ar 31 Gorffennaf: 'Tywyll yw y rhagolygon presennol, ac y mae pob gwlad yn paratoi ar gyfer y gwaethaf.'²⁹² Roedd y papurau yn rhagweld dioddefaint economaidd yn sgil rhyfel. Serch hyn, ni ddefnyddiwyd yr ongl economaidd fel rheswm dros ymyrraeth filwrol Brydeinig. Yn wir, roedd y papurau o hyd yn gobeithio gweld datrysiad heddychlon i'r Argyfwng.

Bu'r asgell dde wleidyddol Brydeinig ynghyd â'i Gwasg yn awyddus i weld ymyrraeth gan Brydain am dros wythnos cyn cyhoeddi'r rhyfel gan Brydain ar 4 Awst.²⁹³ Trwy eu herthyglau

²⁸⁸ Y tri oedd Seland Newydd, Tokyo a Denver Colorado Mining Exchange. Richard Roberts, 'The Unknown Financial Crisis of 1914'. <<http://blog.oup.com/2013/11/unknown-financial-crisis-1914/>> [cyrchwyd 21.07.15].

²⁸⁹ *Cambria Daily Leader*, 29 Gorffennaf 1914, 1.

²⁹⁰ *South Wales Daily News*, 30 Gorffennaf 1914, 5.

²⁹¹ *Cambria Daily Leader*, 30 Gorffennaf 1914, 4.

²⁹² *Y Llan a'r Dywysogaeth*, 31 Gorffennaf 1914, 5.

²⁹³ Roedd papurau ceidwdaol a hanesyddol gwrth-Almaenaidd yr Arglwydd Northcliffe, *The Times*, *Daily Mail*, a'r *Daily Mirror* yn ddylanwadol iawn yn ffurfio barn. Ychwanegwyd i'r pwysau hyn gan y Wasg asgell dde gan y *Daily Telegraph* yr Arglwydd Burnham, a *Morning Post* yr Arglwydd ac Arglwyddes Bathurst.

golygyddol, roeddent o reidrwydd wedi bod yn lobïo'r llywodraeth a galw am ateb cadarnhaol i weld a fyddai Prydain yn aros yn driw i'w hymrwymiaidau i Ffrainc a Rwsia petai rhyfel Ewropeaidd yn cychwyn.²⁹⁴ Llwyddodd un papur dyddiol Cymreig i ddatgan ei chefnogaeth o blaid ymyrraeth Brydeinig erbyn 1 Awst. Yn ddyfal a diysgog, ymddengys fod y *Western Mail* wedi dilyn gweddill y Wasg geidwadol ym Mhrydain. Yn hollbwysig i safle'r *Western Mail* oedd niwtraliaeth Gwlad Belg, gyda'r papur yn dadlau: 'As a guarantor of the neutrality of the Low Countries we should be morally obliged to assist them to repulse the German invasion.'²⁹⁵

Codwyd mater niwtraliaeth Gwlad Belg yn y *South Wales Daily News*. Wrth amlinellu ei safle Rhyddfrydol o wrthwynebu unrhyw gymorth i Serbia, datganodd y papur ei obaith o gefnogi amddiffyn Gwlad Belg, gan nodi'n benodol bwysigrwydd dinas a phorthladd Antwerp fel: 'a pistol pointed at the heart of England.'²⁹⁶ Ni chadarnhaodd y datganiad hwn safle'r papur fodd bynnag, wrth iddo barhau i ymryson â'r sefyllfa dros y dyddiau nesaf, heb unwaith fedru arddangos cefnogaeth benderfynol o blaid ymyrraeth. Profodd Antwerp hefyd yn destun ystyriaeth i'r *South Wales Daily Post*, a ddatganodd: 'Antwerp is the key to our front door'.²⁹⁷ Fel un o borthladdoedd prysura'r byd, ac un a oedd mor bwysig i ffyrdd masnach Prydain, ystyriwyd Antwerp yn hanfodol i'r economi Brydeinig. Y rhesymeg a'r neges a grëwyd oedd yr angen i amddiffyn Gwlad Belg er mwyn amddiffyn marchnadoedd Prydain.

Mae niwtraliaeth Gwlad Belg yn haeddu ystyriaeth, ond i ba raddau yr oedd Cytundeb Llundain 1839 – a oedd yn cydnabod annibyniaeth a niwtraliaeth Gwlad Belg – yn gorfodi Prydain i fynd i ryfel? Mae'r drafodaeth honno yn dal i fod yn un ddadleuol. Mae'n debyg i'r Wasg Brydeinig a Chymreig ddehongli'r cytundeb mewn sawl ffordd. Fel un o warantwyr niwtraliaeth Gwlad Belg, roedd dehongliadau gwahanol yn bodoli ynglŷn â chyfrifoldebau Prydain. Un oedd fod gan Brydain yr hawl cyfreithiol i ymyrryd rhag i un o'r gwarantwyr eraill dorri'r cytundeb; roedd y llall yn fwy penodol drwy roi cyfrifoldeb cyfreithiol ar Brydain i ymyrryd, gan felly rhwymo Prydain wrth Wlad Belg. Fel nododd James Garner yn 1920, roedd y cytundeb hefyd yn aneglur ynghylch a oedd y gwarantwyr yn gweithredu ar y cyd, neu yn unigol, ac a oedd 'ymyrraeth' yn golygu rhyfel.²⁹⁸

Er gwaethaf y rhethreg flaenorol am 'Armagedon' a rhybuddion am y gyflafan anferth a fyddai'n dilyn mewn rhyfel Ewropeaidd, roedd y *Western Mail* erbyn 3 Awst wedi sefydlu ei

²⁹⁴ Newton, *The Darkest Days*, t.161.

²⁹⁵ *Western Mail*, 1 Awst 1914, 6.

²⁹⁶ *South Wales Daily News*, 31 Gorffennaf 1914, 4.

²⁹⁷ *South Wales Daily Post*, 28 Gorffennaf 1914, 4.

²⁹⁸ James Garner, *International Law and the World War* (London: Forgotten Books, 2013 [1920] Vol.2), t.227.

safle'n gadarn o blaid ymyrraeth Brydeinig. Yn dilyn datganiad rhyfel yr Almaen ar Rwsia ar 1 Awst, roedd naws anochel bellach y byddai'r rhyfel yn troi tua'r gorllewin ar Ffrainc. O ganlyniad, ymdrechodd y *Western Mail* i ennyn cefnogaeth o blaid ymyrraeth. Datganodd y golygyddol: 'the sooner we enter the lists the better'. Yn ogystal, cyhoeddodd y papur ar 3 Awst lythyr gan Arglwydd Charles Beresford, cyn Lyngesydd yn y Llynges Frenhinol ac Aelod Seneddol Portsmouth. Cyflwynodd Beresford achos emosiynol a moesol:

If we break the Entente Cordiale and desert France in her dire necessity, and so fail to take a straightforward course in making good our professions of friendship, we shall be false to those who have placed implicit faith in our moral pledges, we shall repudiate a debt of honour, we shall be in the ignominious position of deserting our friends in a moment of appalling danger, we shall be placarded as cowards for all time, and, in addition, bring about a stupendous catastrophe to the British Empire in the future.²⁹⁹

Roedd neges Beresford yn glir, ond efallai'n fwy trawiadol a dylanwadol oedd yr iaith a ddefnyddiwyd. Llwyddodd 'moral pledges', 'honour', 'deserting our friends' a 'cowards' i gyfleu cyfrifoldebau penodol a oedd tu hwnt i ddyletswyddau'r wlad ac wedi eu hanelu'n uniongyrchol at emosiynau'r darllenwyr. Ar 4 Awst, cyhoeddodd y *Western Mail* gartŵn arall gan Joseph Staniforth mewn apêl at genedlaetholdeb Cymreig. Dengys Ffigwr 1.5 'Dame Wales' – cymar Cymreig i John Bull Prydain – yn galw ar lowyr Cymru i barhau gyda'u cynhyrchiant i gyflenwi galwadau'r Llynges Frenhinol am fwy o lo.

²⁹⁹ *Western Mail*, 3 Awst 1914, 6.

Ffigwr 1.5: ‘The Call Of Patriotism’³⁰⁰



Roedd y papurau dyddiol eraill yn fwy anwadal eu hymateb neu'n parhau i wrthwynebu unrhyw ymyrraeth. Ar 1 Awst awgrymodd golygyddol y *South Wales Daily News* y dylai Prydain roi i'r naill ochr ei pholisi tramor diweddar a dechrau gweithredu, gan gredu: 'the Continent would be profoundly affected by the slightest disturbance of the balance of power.'³⁰¹ Er nad oedd yn credu chwaith bod gan Brydain rwymedigaethau i'w chynghreiriaid, doedd hi ddim yn meddwl y byddai aros yn segur wrth i wledydd Ewrop fynd i ryfel yn fuddiol. Ond dau ddiwrnod yn ddiweddarach, dadleuodd y papur o blaid aros yn niwtral, gan ddatgan: 'At the time of writing no sufficient reason has been presented for any departure from a neutral attitude.'³⁰² Diddorol fodd bynnag oedd yr ystyriaeth a roddwyd i 'anrhydedd': 'Nevertheless, it must be peace with honour; and only one among the problems to be solved is how far honour may make it incumbent upon Great Britain to take a part in the conflict.' Yn debyg i'r *Western Mail*, roedd triniaeth y *South Wales Daily News* o'r argyfwng yn ymdrin ag anrhydedd.

³⁰⁰ 'The Call of Patriotism', *Western Mail*, 4 Awst 1914.

³⁰¹ *South Wales Daily News*, 1 Awst 1914, 6.

³⁰² *South Wales Daily News*, 3 Awst 1914, 4.

Roedd y *South Wales Daily Post* a'r *Cambria Daily Leader* yn fwy penderfynol eu barn yn eu gwrthwynebiad. Wrth gyfeirio at y drafodaeth am warchod annibyniaeth Gwlad Belg, dadleuodd y *Cambria Daily Leader* ar 1 Awst: 'There are no treaty obligations which we shall have to respect. There is not even an "understanding". We are bound by no agreement.'³⁰³ Mewn ymateb i'r Wasg geidwadol Brydeinig, beirniadodd y papur y *Times* am ei agwedd ymosodol tuag at yr Almaen ar ôl iddo ddadlau o blaid ymyrraeth o dan y pennawd, 'England's Duty'. Galwodd yr erthygl hon ar Brydain i baratoi am ryfel, yn seiliedig ar 'duty of self-preservation'.³⁰⁴ Ymatebodd y *Cambria Daily Leader* yn danbaid: 'Why must we? We have a completely white sheet before us on which we are free to write anything or nothing so far as our contracts with European Powers are concerned.'³⁰⁵ Ond ar 3 Awst, prin 48 awr ar ôl i'r Almaen gyhoeddi rhyfel yn erbyn Rwsia, gwerthusodd y papur ei safle wrth i ryfel Ewropeaidd ymddangos yn anochel. Gan gyfeirio at araith Syr Edward Grey a oedd yn digwydd yn Nhŷ'r Cyffredin y diwrnod hwnnw, casglodd y golygyddol:

This, however, can be said concerning it; the Government may be sure that the policy to be adopted by Great Britain will have the loyal support of the whole country. There are no divided counsels in the nation at a period such as this.³⁰⁶

Er i'r *Cambria Daily Leader* a'r *South Wales Daily News* werthuso eu barn ar 3 Awst, arhosodd y *South Wales Daily Post* yn ddyfal yn ei wrthwynebiad i ymyrraeth Brydeinig. Yn debyg i'r papurau eraill, cydnabu'r *South Wales Daily Post* natur anochel rhyfel Ewropeaidd erbyn 3 Awst, ond daliodd i brotestio am y rhesymau a allai ddod â Phrydain i mewn i'r ornest: 'We are about to plunge into a Continental war for interests which are not palpable, and the pretext for which is ludicrously inadequate.'³⁰⁷ Ar yr un diwrnod, rhoddodd Syr Edward Grey araith i'r Tŷ Cyffredin yn cyflwyno'r rhesymau dros ymyrraeth Brydeinig. Hwyrach mai'r cymal pwysicaf o araith Grey oedd:

I would like the House to approach this crisis in which we are now, from the point of view of British interests, British honour, and British' obligations, free from all passion as to why peace has not been preserved.³⁰⁸

³⁰³ *Cambria Daily Leader*, 1 Awst 1914, 4.

³⁰⁴ *The Times*, 1 Awst 1914, 6.

³⁰⁵ *Cambria Daily Leader*, 1 Awst 1914, 4.

³⁰⁶ *Cambria Daily Leader*, 3 Awst 1914, 4.

³⁰⁷ *South Wales Daily Post*, 3 Awst 1914, 2.

³⁰⁸ 'Statement by Sir Edward Grey'. HC Deb 03 August 1914, vol 65, cc1809-32.

<<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1914/aug/03/statement-by-sir-edward-grey>> [cyrchwyd 16.06.15].

Un o effeithiau'r araith oedd cyflwyno rhai o'r delfrydau fyddai'n dod yn gyfarwydd i bobl Prydain dros y blynyddoedd nesaf fel cyfiawnhad i'r rhyfel. Profodd 'honour' ac 'obligations' yn eiriau bachog i Grey. Nodir effaith yr araith yn creu 'alluring vision' a berswadiodd nifer o Aelodau Seneddol o'r buddiannau a atodwyd i ymyrraeth Brydeinig, gan gynnwys y cyfleoedd i faldodi eu cenedlaetholdeb, amddifyn 'little Belgium', ac amddiffyn anrhydedd eu cenedl.³⁰⁹

Profodd yr araith yn ddylanwadol ac yn atyniadol iawn, gan gynnal trafodaeth a oedd bellach yn defnyddio delfrydau Grey o 'anrhydedd' a 'rhwymedigaethau' fel rhai canolog i'r ddadl. Gwelwyd y Rhyddfrydwr Syr Richard Denman, er enghraifft, yn ymateb i araith Grey drwy gwestiynu beth fyddai pwrpas y rhyfel i Brydain: 'What, after all, is it that we are to go to war about? It is the obligations and the vital interests in connection with two Powers.'³¹⁰ Ac wrth drafod y cysyniad o anrhydedd yn ei feirmiadaeth o unrhyw ymyrraeth Brydeinig, meddai arweinydd y Blaid Lafur, Ramsay MacDonald: 'If the nation's honour were in danger we would be with him. There has been no crime committed by statesmen of this character without those statesmen appealing to their nation's honour.'³¹¹ Dylanwadodd araith Grey ar y drafodaeth yn Nhŷ'r Cyffredin felly, wrth i wleidyddion geisio mesur a diffinio union 'fuddiannau', 'cyfrifoldebau' ac 'anrhydedd' Prydain.

Llwyddodd yr araith i ddylanwadu ar y Wasg Gymreig wrth i ddyfyniadau ymddangos yn y papurau dyddiol ar 4 Awst, ynghyd â sylwebaeth olygyddol. Perswadiwyd y *South Wales Daily Post* i ystyried ei safle, wrth i'r golygyddol ddyfynnu'r geiriau allweddol a godwyd gan Grey yn ei araith. Argyhoeddwyd y papur hyd yn oed o rwymedigaethau Prydain i Ffrainc. Meddai'r golygyddol ar 4 Awst: 'Honour, loyalty, friendship, interest – all these bind us to France and her cause.'³¹² Gwelwyd 'honour' ac 'interest' hefyd yng ngolygyddol y *Western Mail* ar yr un diwrnod. Yn y *Cambria Daily Leader* soniwyd am 'British honour', 'British interests' a 'British obligations', gan awgrymu'n glir fod Prydain yn glwm i'w chynghreiriaid. Credodd y *South Wales Daily News* y byddai'r araith yn achosi: 'a profound impression throughout the civilised world.'³¹³ Heb os, dylanwadwyd ar y Wasg Gymreig gan yr araith drwy berswadio

³⁰⁹ Newton, *The Darkest Days*, t.224.

³¹⁰ 'War in Europe'. HC Deb 03 August 1914, vol 65, cc1848-84. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1914/aug/03/war-in-europe-1>> [cyrchwyd 16.06.15].

³¹¹ 'Statement by Sir Edward Grey'. HC Deb 03 August 1914, vol 65, cc1809-32. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1914/aug/03/statement-by-sir-edward-grey>> [cyrchwyd 16.06.15].

³¹² *South Wales Daily Post*, 4 Awst 1914, 2.

³¹³ *South Wales Daily News*, 4 Awst 1914, 4.

sawl papur a wrthwynebai ymyrraeth i dderbyn y posibilrwydd fod yn rhaid i Brydain weithredu ac i dderbyn hefyd pa bynnag benderfyniad a wnâi'r llywodraeth.

Fodd bynnag, nid argyhoeddwyd pob papur newydd gan araith Grey. Mewn erthygl yn dwyn y teitl 'Y Clefyd Gwaedlyd', mynegodd *Y Dinesydd Cymreig* mai'r unig gyfrifoldeb ar Brydain oedd cadw mas o ryfel Ewropeaidd:

Yr ydym yn Iwrop wyneb yn wyneb a'r rhyfel fwyaf erch a gwaedlyd fu yn hanes y byd erioed. Un peth sy'n eglur ei bod yn ddyledswydd ar Brydain Fawr i gadw oddiwrth y rhyfel hon beth bynnag a wneir gan y gwledydd eraill. Ni fydd i ni wneud unrhyw wasanaeth i ddynoliaeth wrth gymeryd rhan mewn rhyfel nad oes arnom gyfrifoldeb moesol na gwleidyddol dros ymyryd.³¹⁴

Cadwodd y *Merthyr Pioneer* at ei egwyddorion o undod rhyngwladol y gweithwyr gyda Keir Hardie yn gwawdio rhesymeg Grey ar 8 Awst drwy hawlio y byddai unrhyw un a archwiliai'r rhesymau a rhoddwyd gan Grey dros ymyrraeth Brydeinig yn eu gweld yn wan: 'they will be astounded with their flimsiness.'³¹⁵ Ond erbyn 4 Awst, wrth i Brydain yn swyddogol gyhoeddi rhyfel yn erbyn yr Almaen, fe ddaeth y rhan fwyaf o'r Wasg Gymreig i dderbyn bod rhyfel Ewropeaidd yn anochel. Nid oedd consensws ynghylch cefnogaeth dros fynd i ryfel na chwaith unrhyw arwyddion o frwdfrydedd rhyfel, ond i'r mwyafrif, derbyniwyd y rhyfel fel sefyllfa drist, anochel, ac un y byddai Prydain yn gorfod ymateb iddi.

Diwedd glo

Gellir herio'r syniad bod 'brwdfrydedd rhyfel' yn bresennol yng Nghymru ar drothwy'r Rhyfel Byd Cyntaf drwy astudiaeth ofalus o'r Wasg Gymreig yn ystod Argyfwng Gorffennaf. Dengys y bennod hon fod cyflwyniad yr argyfwng wedi bod yn un cymhleth a chynnil. Er gwaetha'r gwrthwynebiad chwyrn ar brydiau i syniadau o ymyrraeth Brydeinig, ar y cyfan fe ddaeth y Wasg Gymreig i dderbyn yr anochel erbyn 4 Awst. O fewn rhai wythnosau roedd agweddau i'r rhyfel wedi caledu, heb os wedi eu dylanwadu gan ddau adroddiad, un o Mons ac un o Amiens, a ymddangosodd yn y *Times* ar 25 Awst ac ar dudalen flaen rhifyn arbennig y Sul ar 30 Awst, yn nodi 'bitter tale' gan ddisgrifio'r fyddin Brydeinig fel: 'retreating and broken

³¹⁴ *Y Dinesydd Cymreig*, 5 August 1914, 4.

³¹⁵ *Merthyr Pioneer*, 8 Awst 1914, 1.

army'.³¹⁶ Dilynwyd cynnydd sydyn mewn ffigurau recriwtio; rhwng 30 Awst a 5 Medi, ymrestrodd 174,901 o gymharu â 100,000 yn y tair wythnos rhwng 4 a 22 Awst.³¹⁷

Yn ddiddorol yn ystod Argyfwng Gorffennaf dangosodd papurau newydd Cymru arwyddion o ddiwylliant rhyfel. Mae haneswyr wedi defnyddio 'hunan-ysgogiad' a 'diwylliant rhyfel' i esbonio'r broses ble daw pobl i gefnogi, deall, a rhoi ystyr i ryfel.³¹⁸ Roedd mynegi'r argyfwng mewn termau diwylliannol cyfarwydd yn meddu ar y potensial i ysgogi – neu danseilio – cefnogaeth i ymyrraeth Brydeinig drwy gyflwyno'r Argyfwng mewn ffyrdd penodol. Roedd cyfeiriadaeth Feiblaidd at Armagedon yn un ffordd o gyflwyno sefyllfa ryngwladol gymhleth i gymdeithas a oedd yn bennaf Gristnogol. Yn debyg, roedd tynnu ar ystrydebau hiliol i gynrychioli'r sefyllfa yng nghanol a dwyrain Ewrop yn ffordd arall o ddehongli digwyddiadau. Roedd y dwyrain cyfriniol, wedi ei boblogi gan Slaffiaid cyntefig, yn gwrthdaro gyda'r Tiwtoniaid uchelwrol ac yn cyflwyno gornest wirioneddol rhwng gwareiddiadau. Nid oedd y cyflwyniadau hyn yn unigryw i Gymru, ond yn nodweddiadol o ddelfrydau cyfoes Ewropeaidd.

Ond eto, drwy gydol mis Gorffennaf a chychwyn mis Awst, roedd rhesymau o blaid ymyrraeth yn brin. Gydag un llygad yn barhaol ar y sefyllfa yn Iwerddon, daeth sylw llawn papurau Cymru tuag at ddigwyddiadau'r cyfandir yn hwyr iawn. Mynegwyd gofidion economaidd am gyfnod, ond prin y defnyddiwyd y rhain fel *casus belli*. Ymddangosodd dadl gwarchod niwtraliaeth Gwlad Belg yn y dyddiau olaf, ond nid argyhoeddwyd pob papur gan hyn. Yn ddylanwadol o bosib oedd areithiau Syr Edward Grey, a bwysleisiodd eiriau megis 'anrhydedd', 'dyletswydd', a 'rhwymedigaethau'. Daeth y delfrydau hyn yn ganolog i'r drafodaeth wleidyddol yn Nhŷ'r Cyffredin ynghylch y rhyfel yn ogystal ag yn y papurau newydd, wrth i olygyddion a wrthwynebai ymyrraeth Brydeinig ddechrau ailystyried eu safleoedd a dod i dderbyn bod y rhyfel Ewropeaidd yn anochel.

Er y rhesymau amwys dros fynd i ryfel felly, roedd delfrydau penodol wedi chwarae rhan bwysig yn rhesymoli'r sefyllfa, gydag agweddau diwylliannol yn betrus ffurfio diwylliant rhyfel cynnar. Un agwedd o'r diwylliant rhyfel hwn, fel y gwelwyd yn iaith cyflwyniad Argyfwng Gorffennaf, oedd crefydd. Try'r traethawd yn awr i ystyried rôl crefydd yn ffurfio ffrâm ystyriol i'r rhyfel yn y Wasg gyfnodol, lle bu rhai o ddeallusion mwyaf dylanwadol Cymru yn cyfrannu ac yn mynegi barn ddeongliadol o'r rhyfel.

³¹⁶ *The Times*, 25 Awst 1914; 30 Awst 1914, 1.

³¹⁷ Gregory, 'British "War Enthusiasm" in 1914', t.80.

³¹⁸ Horne, 'Introduction: mobilizing for "total war"'; Audoin-Rouzeau and Becker, *Understanding the Great War*.

Pennod 2

Crefydd

Rhaid i ni orchfygu, gan nad beth a gostio. Rhyfel ydyw rhwng gormes a rhyddid, rhwng rhaib a iawnder, a rhwng *might and right*. Ac erbyn ei chwilio i'w gwreiddiau, nid gormod yw dyweud mai rhyfel ydyw rhwng Paganiaeth a Christionogaeth, rhwng y “*mailed fist and the nailed hand*.”³¹⁹

Cyflwyniad

Meddai'r arbenigwr ar astudiaethau heddwch a hawliau dynol, Kjell-Åkke Nordquist: ““War” is a concept that indicates an activity that needs moral justification. To start war is not a trivial decision.”³²⁰ Mae ei neges yr un mor berthnasol i sefyllfa Ewrop yn haf 1914 pan gymerodd y Pwerau Mawr y penderfyniadau tyngedfennol i fynd i ryfel. Ond fel dangoswyd eisoes, roedd y darlun yn y Wasg Gymreig yn ystod Argyfwng Gorffennaf yn aneglur os nad yn wan yn ei gyfiawnhad dros fynd i ryfel. Serch hyn, gosodwyd rhai seiliau deongliadol i'r rhyfel yn ystod y dyddiau pryderus hynny.

Mae sawl hanesydd wedi nodi'r ffyrdd gwahanol y llwyddodd agweddau o gymdeithas i ysgogi ar gyfer y rhyfel.³²¹ Dadleua'r haneswyr yma sut llwyddodd cyfraniadau deallusion ac ysgolheigion, yn ogystal â charfanau eraill o gymdeithas megis y clerigwyr, i ffurfio diwylliant rhyfel o fewn yr ymdrech ehangach o ysgogi ar gyfer y rhyfel. Dengys ymchwil yn y maes hwn *topos* crefyddol cryf ymysg gwledydd Ewrop adeg y Rhyfel Mawr. Ledled Ewrop, roedd rôl bwysig i ddelweddaeth weledol yn ymgyrchoedd y gwladwriaethau i hybu crediniaeth grefyddol boblogaidd mewn modd rhyfelgar. Fel nodi Patrick J. Houlihan, defnyddiwyd delweddaeth o Grist, y groes, a seintiau yn ymgyrchoedd propaganda'r gwledydd gwahanol boed i ddenu milwyr i ymuno yn y crwsâd, annog sifiliaid i brynu bondiau rhyfel, neu

³¹⁹ ‘Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol’, *Y Geninen*, Hydref 1916, 259.

³²⁰ Kjell-Åke Nordquist, ‘Linking War and Religion’ in Nordquist, Kjell-Åkke (gol.), *Gods and Arms: On Religion and Armed Conflict* (Eugene, Oregon: Pickwick Publications), t.150.

³²¹ Yn yr ugain mlynedd diwethaf gwelir y maes hwn yn datblygu naws rhyngwladol yn ogystal âg un chenedlaethol. Gweler yn enwedig Horne, ‘Introduction: mobilizing for “total war”’; Audoin-Rouzeau and Becker, *Understanding the Great War*; Smith, Audoin-Rouzeau, Becker (gol.), *France and the Great War*; Bridgham (gol.), *The First World War*; Gregory, *The Last Great War*; Kramer, *Dynamic of Destruction*; Christophe Prochasson, ‘Intellectuals and Writers’, yn Horne (gol.) *A Companion to World War I*, tt.323-37; Anne Rasmussen, ‘Mobilizing minds’, yn Winter (gol.), *The Cambridge History*, tt.390-417.

perswadio menywod i gymryd swyddi fel nyrsys, gweithwyr arfau, ac i weithio'r tir. Mabwysiadwyd sloganau megis 'Gott mit uns' a 'Dieu est avec nous' wrth i wledydd ddefnyddio cred grefyddol i ennill cefnogaeth a chadw'r brwdfrydedd i drechu'r gelyn mewn rhyfel oedd yn ymddangos fel un diarbed.³²²

Er hyn, ymddengys nad oedd y profiad crefyddol o'r rhyfel yn un syml. Dadleua Adrian Gregory fod traddodiadau crefyddol wedi profi proses cymhleth o gael eu symud yn ôl ac ymlaen gan y Rhyfel Mawr wrth i bobl geisio deall y brwydro mewn unrhyw fodd posib.³²³ Siglwyd traddodiadau a rethreg grefyddol yn y rhyfel gan natur gynhwysol y cysyniad o aberth. Fel y dangoswyd yng ngweithiau Gregory, Fussell, a Hynes, cynhwyswyd crefydd o fewn iaith aberth y cyfnod.³²⁴ Er i'r iaith yma ymddangos yn wag i nifer o sylwebwyr heddiw dadleua'r haneswyr hyn, nad felly y bu i gyfoedion 1914–18. Daeth aberth yn gysyniad cyfoes nerthol adeg y rhyfel, ac un a ddisgrifiwyd gan un hanesydd fel math o gyllid y cyfnod.³²⁵ Ymddengys fod crefydd wedi llwyddo wrth hyrwyddo iaith aberth ymysg y gwledydd Ewropeaidd.

Ym Mhrydain, gwelwyd crefydd yn cael ei ddefnyddio i resymoli'r rhyfel a hefyd fel arf propaganda. Mae'n debyg i un o gaplaniaid byddin Prydain, George Studdert Kennedy ('Woodbine Willie'), ddatgan fod cychwyn y rhyfel wedi profi, 'run on the bank of God'.³²⁶ Yng Nghymru, roedd ffigwr y Parchedig John Williams Brynsiencyn yn amlwg, fel un a ddewiswyd yn bersonol gan David Lloyd George fel Caplan swyddogol y Corfflu Cymreig i sbarduno'r ymgyrch recriwtio yng Nghymru drwy ei feistrolaeth o'r pulpud a'i allu ar lwyfannau cyhoeddus.³²⁷ Yn gwbl argyhoeddedig o achos sanctaidd a chyfiawn y rhyfel, nododd Williams:

Wynebais yr holl gwestiwn mor onest ag y gallwn gerbron Duw ar ddechrau'r Rhyfel, a deuthum i'r casgliad mai fy nyletswydd oedd gwneuthur popeth a allwn i helpu fy ngwlad ac i ennill y fuddugoliaeth i Brydain.³²⁸

³²² Houlihan, 'Religious Mobilization', 5.

³²³ Gregory, 'Beliefs and Religion' yn Winter (gol.), *The Cambridge History*, tt.418-44.

³²⁴ Fussell, *The Great War and Modern Memory*; Hynes, *A War Imagined*; Gregory, *The Last Great War*.

³²⁵ Gregory, *The Last Great War*, tt.112-51.

³²⁶ Gregory, 'Beliefs and Religion', t.420.

³²⁷ Gweler cyhoeddiad diweddar Harri Parri, *Gwn Glân a Beibl Budr: John Williams Brynsiencyn a'r Rhyfel Mawr* (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn, 2014).

³²⁸ R. R. Hughes, *Cofiant, Y Parchedig John Williams, D. D. Brynsiencyn* (Caernarfon: Gwasg y Cyfundeb, 1929), t.235.

Yn ogystal â rhethreg gwleidyddion, gweinidogion, a'r archesgob, lledwyd straeon, sibrydion a phropaganda yn y Wasg a oedd yn cyfleu'r syniad mai rhyfel sanctaidd oedd hwn.³²⁹

Ynghyd â'r don o gyhoeddiadau a rhethreg grefyddol ehangach, nodi Annette Becker yr ymdrechion celfyddydol o gysylltu'r rhyfel ag ystyron a delweddau crefyddol ar draws Ewrop, gan ennyn gwerthoedd ac emosiynau'r gorffennol i geisio cyflwyno'r rhyfel.³³⁰ Roedd y mynegiant ystyriol a'r ymdrechion propaganda hyn yn aml wedi eu hanelu at gynulleidfa niwtral yr Amerig, ac yn creu canfyddiad penodol fod Duw ar ochr y Cynghreiriaid. Ymddengys y gellid lleoli profiad Cymru yng nghrombil y profiad ehangach Ewropeaidd yma wrth i ddehongliadau crefyddol y meddylfryd Cymreig gael eu hwyluso yn y Wasg.

Armagedon

Yn ystod wythnosau a misoedd cyntaf y rhyfel, gwelwyd y term 'Armagedon' yn cael ei ddefnyddio yn y Wasg Gymreig yn rheolaidd i ddisgrifio'r rhyfel Ewropeaidd oedd ar fin cychwyn. Dynoda Armagedon y lleoliad ar gyfer y frwydr dyngedfennol yn ystod yr amserau olaf, fel y nodir yn Llyfr y Datguddiad yn y Testament Newydd. Mae'n ddigwyddiad, os dehonglir y Beibl yn llythrennol, sy'n rhan o gynllun Duw. Wrth ddefnyddio'r term Armagedon felly, plannwyd rhai o seiliau deongliadol Cymreig y rhyfel gan y papurau dyddiol.

Y tro cyntaf i'r term ymddangos yn y Wasg Gymreig oedd yn ystod Argyfwng Gorffennaf.³³¹ Ymddengys y defnyddiwyd y term adeg yr Argyfwng yn benodol i rybuddio rhag ymyrraeth Brydeinig. Gwelwyd hyn yn y *South Wales Daily Post* yn gyson adeg yr Argyfwng hyd at 4 Awst, yn ei ymgais i wrthwynebu unrhyw demtasiynau ar ran Prydain i ymuno yn y rhyfel Ewropeaidd. Roedd diwedd mis Gorffennaf yn amser o bryder mawr i'r papur wrth iddo ddefnyddio'r gair dri diwrnod yn olynol ar 27, 28 a 29 Gorffennaf. Roedd y golygyddol ar 28 Gorffennaf yn broffwydol tu hwnt, drwy rybuddio rhag y lladdfa fyddai'n digwydd petai rhyfel Ewropeaidd yn cychwyn. Defnyddiwyd y cysyniad o Armagedon i gyfleu'r ddelwedd ddinistriol hon:

It is this interplay of alliances and interests that could make the Austrian resolve to wipe out a minor Balkan Power – which is as a

³²⁹ Gweler enghreifftiau megis stori fer Arthur Machen, *The Bowmen*, a ymddangosodd yn y Wasg yn delweddu saethwyr Agincourt ac angylion yn gwarchod y Prydeinwyr ym Mrwydr Mons; gweler hefyd erthygl 'Torture of a Canadian Officer' yn y *Times* ym mis Mai 1915 yn honni am Ganadiad yn cael ei groeshoelio. Cafodd hwn ei bortreadu nes ymlaen yn y ffilm bropaganda Brydeinig 1918, *The Prussian Cur*.

³³⁰ Becker, 'The Visual Arts', t.345.

³³¹ *South Wales Daily Post*, 11 Gorffennaf 1914, 4.

thorn in her side – the precipitating cause of the great Armageddon which is to put to the test many conflicting ambitions and reshape the map of Europe.³³²

Os nad yn ddefnydd llythrennol o'r term, roedd hi'n sicr yn symbolaidd wrth i'r papurau gydnabod maint y rhyfel fyddai'n dod.

Gwelir fodd bynnag nad oedd y syniad o Armagedon yn un newydd i'r gynulleidfa Gymreig yn haf 1914. Dengys ymchwil Gethin Matthews fod y gair hwn wedi bod yn amlwg yn y Wasg Gymreig yn y degawdau cyn i'r rhyfel gychwyn yn 1914.³³³ Roedd y cyfnod hwn yn un o densiynau rhyngwladol enbyd rhwng y gwahanol bwerau Ewropeaidd. Gyda dyfodiad grym yr Almaen yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chynghreiriau strategol yn cael eu ffurfio ymysg y Pwerau Mawr, daeth dyfodol cyfandir Ewrop yn bwnc llosg i nifer o wleidyddion, diplomyddion, a strategwyr. Gwelwyd sawl gwrthdaro rhyngwladol yn y cyfnod o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at gychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ceisiodd yr Eidal ymestyn ei grym dros diroedd Ethiopia yn yr 1890au gan gythruddo ymateb gan Rwsia i gefnogi ymdrechion lluoedd Ethiopia. Rhwng Prydain a'r Almaen gwelwyd ras arfog forol o gychwyn y ganrif hyd at 1912 wrth i lynges yr Almaen geisio herio goruchafiaeth y Llynges Frenhinol drwy adeiladu mwy o longau rhyfel a llongau *Dreadnought*.³³⁴ Digwyddodd sawl argyfwng diplomyddol megis Bosnia yn 1908 a Moroco yn 1911. Gwelwyd Rhyfeloedd y Balcanau yn 1912–13, a rhyfel rhwng yr Eidal a Thwrci yn 1911–12. Yn ogystal â hyn, roedd tensiynau o hyd yn bodoli rhwng Ffrainc a'r Almaen yn dilyn diwedd glo Rhyfel Ffranco-Prwsia yn 1871 gyda thiroedd Alsace-Lorraine, gynt o dan reolaeth Ffrainc, bellach yn rhan o diroedd yr Almaen. Gofid nifer, a thyb gwleidyddion yr Almaen yn enwedig, oedd y byddai Ffrainc yn barod i gychwyn rhyfel arall yn fuan er mwyn adennill y tiroedd hynny.

Gyda hyn oll yn gefnlen wleidyddol i'r cyfnod, doedd hi efallai ddim yn syndod sylwi ar y Wasg yn gofidio am ryfel mawr Ewropeaidd ar y gorwel. Mor gynnar ag 1886, gwelwyd *Baner ac Amserau Cymru* yn nodi fod 'y rhagolwg mor fygythiol fel y ceir y proffwydi eisoes yn taeru unwaith yn rhagor fod "Brwydr Armagedon" ar fin cael ei ymladd.'³³⁵ Dengys ymchwil Matthews sawl enghraifft o ddefnydd o'r gair 'Armagedon' yn y Wasg Gymreig yn y blynyddoedd hyd at 1914. Ond fel noda ef, nid oedd y term yn cyfeirio bob tro at ryfel go iawn,

³³² *South Wales Daily Post*, 28 Gorffennaf 1914, 4.

³³³ Matthews, 'Rhwygau', tt.1-20.

³³⁴ Am drosolwg o'r agwedd yma, gweler Robert K. Massie, *Dreadnought: Britain, Germany and the Coming of the Great War* (London: Vintage Books, 2007).

³³⁵ *Baner ac Amserau Cymru*, 29 Medi, 1886, 9.

ond yn aml fel trosiad wrth iddo ymddangos ar adegau mewn cyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol.³³⁶ Nodir er enghraifft, sut y disgrifiwyd cystadleuaeth gorawl Eisteddfod Aberpennar gan un papur newydd fel ‘Armagedon y corau meibion.’³³⁷ Serch hyn, gwelir o’r tabl isod amllder y term ‘Armagedon’ mewn detholiad o bapurau newydd Cymru yn y blynyddoedd hyd at 1919. Gwnaethpwyd hyn drwy gymorth casgliad digidol y Llyfrgell Genedlaethol.

Tabl 2.1: Amllder ymddangosiad y geiriau ‘Armagedon’ ac ‘Armageddon’ yng nghasgliad ‘Papurau Newydd Cymru Ar-lein’, 1820–1919.³³⁸

Degawd	‘Armageddon’	‘Armagedon’	‘Armageddon’ + ‘Armagedon’	Nifer o erthyglau yn y casgliad digidol	Nifer o ymddangosiadau o ‘Armageddon / Armagedon’ ym mhob 100,000 o erthyglau
1820–29	1	0	1	24,430	4.1
1830–39	0	1	1	71,910	1.4
1840–49	2	0	2	118,364	1.7
1850–59	7	9	16	206,303	7.8
1860–69	22	31	53	493,809	10.7
1870–79	41	110	151	1,197,483	12.6
1880–89	25	107	132	1,874,676	7.0
1890–99	174	131	305	3,944,253	7.7
1900–09	203	143	346	5,043,898	6.9
1910 + 1913–19	609	710	1,319	1,824,379	72.3

Gwelir o’r tabl felly’r presenoldeb yn nefnydd y gair ym mhapurau Cymru dros y degawdau hyd at y Rhyfel Byd Cyntaf gyda chynnydd sydyn yn y blynyddoedd 1910–1919. Dengys hyn barodrwydd y Wasg i dwrio am dermau a rhyfreg Feiblaidd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Un ffactor a gyfrannodd at gynnydd y term yn y papurau newydd oedd ei ddefnydd mewn areithiau gan wleidyddion. Blynyddoedd cyn i’r rhyfel gychwyn hyd yn oed, roedd rhai gwleidyddion yn rhagweld y byddai rhyfel Armagedon yn siŵr o ddigwydd cyn hir, gan

³³⁶ Matthews, ‘Rhwygau’, t.11.

³³⁷ *Y Darian*, 20 Gorffennaf 1905, 4.

³³⁸ Matthews, ‘Rhwygau’, t.10.

effeithio ar bolisiau pleidiau a thôn y ddadl wleidyddol. Mor gynnar ag 1909, yn ystod trafodaeth yn Nhŷ'r Cyffredin ar bolisi amddiffyn Prydain a'i rhaglen o adeiladu llongau rhyfel, y *Dreadnoughts*, sarhawyd polisi Arglwydd Cyntaf y Morlys o oedi er mwyn adeiladu llongau '30 y cant yn well' na'r *Dreadnought*, gan yr Aelod Seneddol Ceidwadol, Arthur Lee: 'it is better we should have ships of 70 per cent of efficiency on the day of Armageddon than double the number of ships of 100 per cent of efficiency after the battle is over.'³³⁹ Dwy flynedd yn ddiweddarach, sylwebodd y Rhyddfrydwr, Joseph King ar sut roedd y bygythiad o Armagedon yn dylanwadu nid yn unig ar bolisiau amddiffyn y pleidiau gwleidyddol, ond hefyd ar sut roedd y cysyniad wedi cael gafael ar y gydwybod gyhoeddus:

Scares and political prophecies of Armageddons, which never come, but are always being promised in a new form, must be a constant element in our national existence, and must be a constant element in forming our naval and military Estimates.³⁴⁰

Roedd iaith Armagedon felly yn bresennol mewn trafodaethau ar wariant a pholisiau amddiffyn y llywodraeth yn y cyfnod cyn y rhyfel. Ar ddiwedd Gorffennaf 1914 ailymddangosodd y gair yn Nhŷ'r Cyffredin wrth i wleidyddion ddechrau wynebu'r posibilrwydd o ryfel Ewropeaidd. Yn ogystal â'r Prif Weinidog ei hun, gwelwyd eraill yn ei ddefnyddio wrth drafod y sefyllfa wleidyddol, megis Syr Richard Denman, Rhyddfrydwr a aeth ymlaen i chwarae rôl bwysig yn siapiro polisiau rhyfel y llywodraeth. Wrth gyfarch Tŷ'r Cyffredin ar 3 Awst, meddai ef am sefyllfa niwtraliaeth Gwlad Belg: 'Does anyone really think that it is in the best interests of Belgium to make it the cockpit of this Armageddon?'³⁴¹

Effaith defnydd y gair 'Armagedon' ymysg gwleidyddion, cyn ac yn ystod Argyfwng Gorffennaf, oedd rhoi mwy o hygredded a mwy o danwydd i'r Wasg i gynnal y syniad yn eu triniaeth o'r sefyllfa. Os mai un o swyddogaethau'r Wasg oedd adrodd y newyddion diweddaraf o Dŷ'r Cyffredin, yna doedd hi ddim yn syndod fod Armagedon yn cael ei grybwyll. Nododd golygyddol y *Western Mail* er enghraifft ar 29 Gorffennaf: 'More than once the Prime Minister has spoken of "Armageddon". Such a war as would follow on the involving of the Great Powers of Europe in strife would, indeed, be Armageddon.'³⁴² Drwy ystyried

³³⁹ 'Vote of Censure'. HC Deb 29 March 1909, vol 3, cc39-149. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1909/mar/29/vote-of-censure>> [cyrchwyd 17.06.15].

³⁴⁰ 'Army and Navy Expenditure'. HC Deb 13 March 1911, vol 22, cc1877-999. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1911/mar/13/army-and-navy-expenditure>> [cyrchwyd 18.06.15].

³⁴¹ 'War in Europe'. HC Deb 03 August 1914, vol 65, cc1848-84. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1914/aug/03/war-in-europe-1>> [cyrchwyd 16.06.15].

³⁴² *Western Mail*, 29 Gorffennaf 1914, 4.

defnydd y term ymysg gwleidyddion ac yna'r sylwadau yn y Wasg, gellid gweld rhyw ganfyddiad cyffredin yn bodoli yng Nghymru – a hefyd ym Mhrydain – fod rhyfel mawr Ewropeaidd nid yn unig ar y gorwel, ond hefyd yn anochel.

Ymhlyg yn Armagedon oedd y syniad o rwyg yn hanes dyn, gydag oes newydd yn cychwyn. Hyd yn oed cyn i'r rhyfel gychwyn i Brydain, ystyriwyd y weledigaeth hon gan y papurau wrth i ofidion erchyllterau rhyfel modern ddod i'r amlwg. Gwelwyd enghraifft o'r mynegiant hwn, yn ogystal â pha mor fradychus oedd y syniad o Armagedon, yn y *Cambria Daily Leader* ar 31 Gorffennaf:

The old ways were horrible almost beyond imagination. The new warfare will be infinitely more horrible. And the mind is slow to accept the possibility that, in a day, in a week, that European Armageddon of which so many tongues have spoken and pens written may be upon us.³⁴³

Cyflwynodd y *Cambria Daily Leader* naratif hirdymor yn y dehongliad yma wrth i gydlifiad digwyddiadau a thensiynau rhyngwladol blynyddoedd ddod i uchafbwynt. Roedd y rhyfel felly yn cynrychioli penllanw anochel o ganlyniad i gyfnod hir o densiwn ac arfogi rhyngwladol.

Roedd y meddylfryd hwn hefyd i'w weld yn y papurau wythnosol, wrth i Armagedon drwytho'r tudalennau yma. Wythnos wedi cyhoeddiad rhyfel Prydain, soniodd y papur rhyddfrydol, *Y Cymro*, am 'Armagedon fawr y cenedloedd a'r teyrnasoedd' gan atgoffa ei ddarllenwyr nad breuddwyd neu hunllef oedd hi, ond yn hytrach, 'ffaith arswydlaidd a bâr i'r cryfaf ei galon welwi a chrynu.'³⁴⁴ Roedd naws digon pesimistaidd a thywyll yn rhagolygon rhifyn 12 Awst o'r *Cymro* wrth iddo ddarogan: 'y bydd yr alanas a'r tywallt gwaed yn annirnadwy.'³⁴⁵ Serch hyn, cydiodd *Y Cymro* mewn Cristnogaeth i geisio cynnig gobaith am y dyfodol. Wedi methu â cheisio esbonio tarddiad a rhesymau'r rhyfel, daeth *Y Cymro* i gasgliad rhagluniaethol fod yn rhaid i rywbeth da ddod o'r rhyfel. Ac er mwyn i hyn ddigwydd, rhaid i'r gred Gristnogol fod yn gryf:

Eto, dylem ddal i gredu, a chredu'n gryfach nag erioed, mai'r Arglwydd sy'n teyrnasu ym mreniniaethau dynion, a gweddïo'n ddyfalach, am iddo Ef eistedd ar y llifeiriant ei Hunan, a dwyn allan o'r tywyllwch ofnadwy hwn "rhyw dda a drecha bob drwg."³⁴⁶

³⁴³ *Cambria Daily Leader*, 31 Gorffennaf 1914, 4.

³⁴⁴ *Y Cymro*, 12 Awst 1914, 3.

³⁴⁵ *Y Cymro*, 12 Awst 1914, 3.

³⁴⁶ *Y Cymro*, 12 Awst 1914, 3.

Ynghyd â'r gobaith hwn o'r 'da yn trechu pob drwg' oedd y syniad o gyfnod newydd yn cychwyn yn hanes dyn. Er gwaethaf yr erchyllterau, roedd y rhyfel yn symbol o wawr newydd yn torri wrth i dueddiadau ac agweddau milwriaethus gael eu disodli gan oes newydd o heddwch a chyd-fyw. Cynrychiola hwn thema o ddatgymaliad wrth i un cyfnod ddod i ben ac un gwahanol gychwyn.³⁴⁷ Y gobaith, fel y nodwyd yn *Y Cymro*, oedd y byddai'r rhyfel yn cael gwared ar gyfnod milwriaethus o arfogi rhyngwladol ac yn creu byd gwell i'r dyfodol. Dyma hefyd oedd y meddylfryd ar y cyfandir wrth i ddiwylliannau rhyfel Ewrop bortreadu'r rhyfel fel cyfle i wireddu byd gwell.³⁴⁸ Yn gysylltiedig â gobeithion o'r math hyn roedd y syniad y byddai'r rhyfel yn cynrychioli 'rhyfel i roi terfyn ar ryfel'. Un a boblogeiddiodd y syniad hyn ledled Prydain oedd yr awdur H. G. Wells, gyda chyfres o'i erthyglau yn cael ei cyhoeddi fel llyfr ym mis Hydref 1914 ac yn dwyn y teitl, *The War to End All War*.³⁴⁹ Gwelwyd ym mhapur newydd *Y Cymro* arwydd cynnar o'r syniad hwn:

Hyn barai i hanes edrych ar y trychineb mawr hwn fel terfyn ar gyfnod y fagnel a'r cledd a'r 'dreadnought', ac fel dechreuad cyfnod newydd yn yr hwn y bydd heddwch a thangnefedd yn oruchaf.³⁵⁰

Atseiniodd hyn obaith oedd eisoes wedi ei fynegi yn y Wasg, fel y gwelwyd ym mhapur enwadol yr Annibynwyr, *Y Tyst*, ar 5 Awst. Roedd y syniad o wawr newydd yn torri yn sicr yn un atyniadol: 'gobeithiwn y tyr y wawr o grombil y nos, ac y concra'r dydd alluoedd y gwyll, er tywyllled yw.'³⁵¹ Roedd naws optimistaidd yn y weledigaeth hon a thebyg iawn mai ymateb greddfod oedd hi i ddechrau'r rhyfel wrth i olygyddion a sylwebwyr sylweddoli nad oedd dewis arall ond ymladd y rhyfel, ac felly rhaid iddynt gredu eu bod yn ymladd dros achos da.

Parhaodd y cysyniad o Armagedon i ymddangos yn y papurau wythnosol drwy gydol Argyfwng Gorffennaf ac yna yn yr wythnosau a misoedd a ddilynodd cyhoeddi'r rhyfel. Yn *Seren Cymru* ar 31 Gorffennaf disgrifiwyd rhyfel Ewropeaidd posib fel 'galanas echrydus' mewn erthygl a oedd yn dwyn y teitl, 'Armagedon?'.³⁵² Gorffennwyd yr erthygl gyda neges o obaith, er gwaetha'r tinc fod rhyfel yn anochel: 'Nid oes gennym ond hyderu y gwna'n gwlad ei rhan eithaf o blaid tangnefedd rhwng y pleidiau, ac na fwydir meysydd llawer gwlad gan

³⁴⁷ Trafodir y thema hon fel un o nodweddion y farddoniaeth rhyfel Brydeinig yn astudiaeth ffurfiannol Paul Fussell, gyda'r oes ddiniwed a fodolai cyn y rhyfel yn cael ei ddisodli gan weledigaethau tywyll ac echrydus o'r dyfodol. Fussell, *The Great War*.

³⁴⁸ Becker, 'Faith, Ideologies', t.235.

³⁴⁹ Herbert G. Wells, *The War that Will End War* (London: Frank & Cecil Palmer, 1914).

³⁵⁰ *Y Cymro*, 12 Awst 1914, 3.

³⁵¹ *Y Tyst*, 5 Awst 1914, 8.

³⁵² *Seren Cymru*, 31 Gorffennaf 1914, 9.

ruddwaed Armagedon.³⁵³ Yn yr un modd, mewn erthygl hir oedd yn amlwg yn dangos ei fod wedi dadrithio gan sefyllfa Ewrop, gofynnodd *Y Tyst* ar 5 Awst, y diwrnod ar ôl i Brydain gyhoeddi rhyfel, ‘Beth os mai hon yw Armagedon?’³⁵⁴ Ond er y dadrithiad, mynegodd *Y Tyst* o hyd bod ‘cyfrifoldeb mawr’ ar Brydain i amddiffyn annibyniaeth Gwlad Belg.³⁵⁵

Yn ystod wythnosau a misoedd agoriadol y rhyfel, gwelwyd detholiad eang o bapurau wythnosol Cymru yn defnyddio’r term, mewn rhyw fodd neu’i gilydd yng nghyd-destun y rhyfel. Yn yr iaith Gymraeg, gwelwyd papurau o bob math o dueddiadau golygyddol yn bygwth Armagedon, gyda phapurau rhyddfrydol, ceidwadol, radical ac enwadol yn gyfrifol am ei ddefnyddio. Amlygwyd hyn yn *Y Cymro*, *Seren Cymru*, *Baner ac Amserau Cymru*, *Y Llan a’r Dywysogaeth*, *Y Darian*, *Y Brython*, *Y Cloranydd*, *Y Tyst*, a’r *Drych*. Gwelwyd nifer fawr o’r papurau Saesneg eu hiaith hefyd yn ei ddefnyddio gan ddangos fod y cysyniad wedi bod yn weledol iawn yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn.³⁵⁶ Datganodd y *Cambrian News and Merionethshire Standard* gydag elfen o hiwmor y byddai oes newydd yn cyrraedd yn dilyn yr Armagedon, wrth i rai o hynodion y diwylliant Cymreig barhau: ‘It is the Armageddon leading to the millenium (...) Certainly there will be a New Earth and a New Heaven and perhaps we may go on fighting at Eisteddfodau.’³⁵⁷

Fodd bynnag, er gwaetha’r arswyd a braw oedd ymysg erthyglau’r papurau wythnosol, roedd eu hymateb i’w weld yn unfrydol. Crisialwyd hwn yn *Y Brython* ar 24 Medi, drwy bwysleisio’r elfen o gyfrifoldeb a rhwymedigaeth oedd gan wahanol rannau’r Ymerodraeth Brydeinig, a galwyd ar Gymru i chwarae ei rhan yn y rhyfel:

Mae rhyw “linyn crychu trwy’r Ymerodraeth i gyd, ac yn canoli ei holl bobloedd, mewn cydymdeimlad a chymorth, mewn trysor a dynion, ar faes y rhyfel (...) Ac, yn ddiâu, ni all Cymru, ac ni fynau chwaith, lai na chymeryd ei lle a gwneud ei rhan ynglŷn â’r Armagedon hon.”³⁵⁸

³⁵³ *Seren Cymru*, 31 Gorffennaf 1914, 9.

³⁵⁴ *Y Tyst*, 5 Awst 1914, 8-9.

³⁵⁵ *Y Tyst*, 5 Awst 1914, 8.

³⁵⁶ Drwy wneud chwiliad cyflym ar adnodd ‘Papurau Newydd Cymru Arlein’ y Llyfrgell Genedlaethol, gwelir fod y papurau wythnosol canlynol wedi defnyddio ‘Armageddon’ rhwng mis Gorffennaf a mis Thachwedd 1914: *Cambria Daily Leader*; *South Wales Weekly Post*; *Barry Dock News*; *Carmarthen Weekly Reporter*; *North Wales Chronicle*; *Abergavenny Chronicle*; *Denbighshire Free Press*; *Llanelly Star*; *Monmouth Guardian and Bargoed and Caerphilly Observer*; *Amman Valley Chronicle*; *Cambrian News and Merionethshire Standard*; *Carmarthen Journal*; *Herald of Wales and Monmouthshire Recorder*; *Merthyr Pioneer*; *Aberdare Leader*; *Brecon Radnor Express*.

³⁵⁷ *Cambrian News and Merionethshire Standard*, 9 Hydref, 1914, 5.

³⁵⁸ *Y Brython*, 24 Medi 1914, 4.

Mae elfen o falchder yn sicr i'w weld yn *Y Brython*. O sylwi fod yr Ymerodraeth gyfan yn cyfrannu i'r ymdrech rhyfel, teimla'r papur fod hefyd yn rhaid i Gymru gymryd cyfrifoldeb a sefyll gyda chenhedloedd eraill yn yr Armagedon.

Er bod y rhyfel yn arswydus, ac yn bygwth dinistrio cyfandir cyfan, teimlwyd mai math o ragluniaeth Duw ydoedd a bod yn rhaid i Gymru chwarae ei rhan. Gwelwyd y gyfatebiaeth fwyaf amlwg yn *Y Llan a'r Dywysogaeth* ar 21 Awst, wrth i'r papur dynnu ar ddelweddau Armagedon i ddehongli'r brwydrau yn Ffrainc a Gwlad Belg. Clodforwyd ymdrechion milwrol Gwlad Belg yn erbyn byddinoedd mawr yr Almaen, gan gyfleu delwedd Feiblaidd o Dafydd yn erbyn Goliath. Ynghyd â hwn wrth gwrs oedd yr awgrym fod y rhyfel yn un cyfiawn. Disgrifiodd *Y Llan* faes y gad Gwlad Belg 1914 fel a ganlyn:

Ystyr Armageddon, mae'n debyg, yw dinas neu fryn o amgylch Meiddo, gan gyfeirio at yr ymladd ofnadwy oedd wedi bod yno. Felly, yn ddiamau, Armageddon neu Megiddo Ewrop yw gwlad fach Belgium.³⁵⁹

Gwelir o'r testunau hyn fod y cysyniad o Armagedon wedi chwarae rhan flaenllaw yng nghyflwyniad y rhyfel yng Nghymru yn yr wythnosau a'r misoedd agoriadol. Sylwer hefyd ar boblogrwydd thema Armagedon yn y byd llenyddol er enghraifft, gyda chyfansoddiad buddugol J. B. Rees ('Morleisfab') yn Eisteddfod Porth Tywyn 1915, yn dwyn y teitl 'Armagedon', gan agor gyda'r cwpled:

Echryslawn Ryfel! ellyll gwatha'r fall,
Yf waed yn for o fron dynoliaeth ddall,³⁶⁰

Yn ogystal, awgryma tabl Gethin Matthews fod 'Armagedon' wedi parhau drwy gydol y rhyfel, gyda ryw 72 o bob 100,000 o erthyglau yn cynnwys y gair mewn detholiad o bapurau Cymru rhwng 1913–1919. Un rheswm dros ei ddefnydd oedd ceisio rhoi esboniad am y rhyfel. Ar gychwyn y rhyfel, roedd y papurau wythnosol wedi eu dadrithio rywfaint gan y sefyllfa. Nid dyma oedd eu dymuniad. Serch hyn, ceisiwyd egluro ymyrraeth Prydain drwy ei chysylltiadau cynghreiriol â Ffrainc a Rwsia, a defnyddiwyd y cysyniad o 'gyfrifoldeb' ar adegau.³⁶¹ Ond yn ogystal â hyn, atodwyd i'r drafodaeth delweddau Beiblaidd. Gellid dadlau mai prif bwrpas defnydd o'r gair 'Armagedon' oedd ceisio gwneud synnwyr o'r sefyllfa drwy ymgorffori

³⁵⁹ *Y Llan a'r Dywysogaeth*, 21 Awst 1914, 6.

³⁶⁰ 'Armagedon', *Y Geninen Eisteddfodol*, Awst 1916, 55-56.

³⁶¹ Mwy o dystiolaeth efallai o ddylanwad araith Sir Edward Grey ar 3 Awst.

digwyddiadau'r byd yng nghynllun mawr Dduw, a thrwy hynny, dwyn cysur o'r ffaith – neu obaith – y byddai rhyw dda yn dod allan o'r cwbl.

Cymathu crefydd: Rhyfel Sanctaidd, Rhyfel Cyfiawn

Gyda nifer o gyhoeddiadau yn crybwyll ac yn trafod y cysyniad o Armagedon yn ystod wythnosau a misoedd cyntaf y rhyfel, ynghyd â hwn fe welwyd trafodaeth grefyddol ddwfn. Profodd y rhyfel yn sioc i'r rhan fwyaf o'r Wasg Gymreig. Nododd y *Welsh Outlook* yn ei rhifyn cyntaf ers cychwyn y rhyfel: 'Even now, we cannot realize it; we find ourselves reading the headlines of a newspaper, and we have to force our imaginations to realize that it is not a novel we are reading.'³⁶² Cwestiynodd y *Welsh Outlook* yn gynnar iawn beth oedd union ystyr y rhyfel: 'The truth is that none of us know or will ever know what war means.'³⁶³ Roedd teitlau eraill, megis *Y Geninen* ychydig mwy amheus. Nododd 'Simon Selotes' (o bosib y golygydd, John 'Eifionydd' Thomas o dan ffugenw), gan edrych yn ôl yn 1916 ar darddiad y rhyfel: 'Y gwir yw, o fewn y cynnydd a gymerai le, yr oedd elfennau ystorm yn magu.'³⁶⁴ Serch hyn, daeth deallusion Cymru i ddehongli'r rhyfel yn ôl daliadau diwylliannol ac ideolegol y cyfnod. I'r *Geninen* erbyn 1916, cynrychiolai'r rhyfel ornest dros sylfeini bywyd, gyda 'Selotes' eto yn datgan: 'O'r tu cefn i'r cadau a'r peiriannau, y mae egwyddorion mawrion yn y frwydr – egwyddorion sy'n cyrhaedd i lawr hyd at sylfaeni pob llywodraeth a chymdeithas.'³⁶⁵ Roedd yr 'egwyddorion mawrion' hyn yn aml yn rhai Cristnogol. Argyhoeddwyd golygydd *Cymru*, O. M. Edwards ym misoedd cynnar y rhyfel wrth iddo nodi ym mis Rhagfyr 1914, 'mi a ystyriaf fod a fynno crefydd lawer iawn â'r rhyfel hwn.'³⁶⁶ Ymddangosodd tair erthygl ym mhedwar rhifyn y *Welsh Outlook* o fis Medi 1914 hyd at Ragfyr 1914, ac eithrio'r sylwadau golygyddol, a gyflwynodd y rhyfel yn nhermau crefyddol.³⁶⁷

Ac eithrio ambell lais, amlygwyd yn y Wasg yr argyhoeddiad fod y rhyfel yn un cyfiawn. Crisialwyd hyn gan agwedd O. M. Edwards a gafodd ei ddyfynnu yn *Y Cymro* ym mis Medi 1914: 'yr oedd y rhyfel yn un cyfiawn, ac y mae rhaid i ni ymladd mewn hunanamddiffyniad.'³⁶⁸ Arhosodd Edwards yn driw i'w argyhoeddiadau yn ystod ei rôl fel

³⁶² 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Medi 1914, 375.

³⁶³ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Medi 1914, 375.

³⁶⁴ 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Hydref 1916, 258.

³⁶⁵ 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Hydref 1916, 259.

³⁶⁶ 'Crefydd a'r Rhyfel', *Cymru*, Rhagfyr 1914, 249.

³⁶⁷ 'Man Versus the Superman', *Welsh Outlook*, Hydref 1914; 'Germany's Political Ideal', *Welsh Outlook*, Tachwedd 1914; 'Church and the War', *Welsh Outlook*, Rhagfyr 1914.

³⁶⁸ *Y Cymro*, 2 Medi, 1914, 7.

golygydd y cyfnodolyn *Cymru*. Yng Ngorffennaf 1917, o bosib un o gyfnodau mwyaf anodd y rhyfel o ran cynnal morâl, ysgrifennodd: ‘Gall Prydain edrych ar y tair blynedd ofnadwy gyda chydwybod glir.’³⁶⁹ Roedd hi’n arwyddocaol fod Edwards yn mynnu’r safbwynt hwn. Fel unigolyn a ddisgrifiwyd gan K. O. Morgan fel ‘perhaps the most powerful single personal influence upon the generation up to 1914’, gellid dehongli argyhoeddiad clir Edwards fel adlewyrchiad o agweddau cyfoedion Cymru.³⁷⁰ Yn yr un modd, sylwebodd yr academydd ac athro Coleg Coffa, Aberhonddu, Joseph Jones yn *Y Geninen* yn 1915 am y rhethreg o ryfel cyfiawn, fel y mynegwyd gan Edwards, gan nodi yn anghyfforddus y ffordd y cyflwynid y rhyfel gan yr Eglwysi: ‘Mae y Babaeth, Protestaniaeth, ac Eglwys Roeg, o’u gwahanol gyfeiriadau, yn uno mewn cred mai rhyfel anocheladwy a chyfiawn ydyw yr un presennol.’³⁷¹

O dan lygaid golygyddol Thomas Jones, chwaraeodd y *Welsh Outlook* rôl amlwg yn gwthio’r rhethreg grefyddol yn y Wasg Gymreig. Fel cyfnodolyn a ddisgrifiwyd gan Tecwyn Lloyd fel y mwyaf ‘cyfrifol’ ac ‘ystyriol’ yn y cyfnod, cynrychiolodd y *Welsh Outlook* un o offerynnau cyfathrebol yr elît Cymreig, a mynegwyd y naratif o ryfel sanctaidd mewn sawl ffordd.³⁷² Yn rhifyn Hydref 1914 gwelwyd darlun o Santes Geneviève, nawddsant Paris, o dan y teitl, ‘St. Geneviève Watching Over Paris’.³⁷³ Byddai’r darlun hwn wedi cysuro nifer gyda ‘gwyrth’ Brwydr y Marne yn gefnlen i gyhoeddiad y rhifyn hwn, lle llwyddodd y Ffrancod i atal ymosodiad yr Almaenwyr rhai milltiroedd tu allan i Baris. Tebyg oedd profiad Paris yn y bumed ganrif, pan rwystrwyd Hyniaid Attila ar gyrion y ddinas yn dilyn gweddiâu Santes Geneviève. Roedd neges y darlun yn arwyddocaol: drwy aros yn driw i air Duw a’r ffydd Gristnogol, gellid atal lluoedd tywyll y rhyfel presennol.

³⁶⁹ ‘Dydd Holi Cydwybod’, *Cymru*, Gorffennaf 1917, 10.


³⁷⁰ Morgan, *Rebirth of a Nation*, tt.103-4.

³⁷¹ ‘Cristionogaeth a Rhyfel’, *Y Geninen*, Ebrill 1915, 75.

³⁷² Lloyd, ‘Welsh Public Opinion’, 31.

³⁷³ Yn y bumed ganrif, yn ôl y stori, achubwyd Paris rhag Hyniaid Attila gan weddiâu Santes Geneviève.

Ffigwr 2.1: ‘St Geneviève Watching Over Paris’³⁷⁴



Roedd y darlun hwn hefyd yn enghraifft o ymdrech i gymathu Cymru o fewn i naratif crefyddol y Cynghreiriaid. O dan yr is-bennawd, ‘Our Allies and Our Enemy’ yn narn golygyddol y *Welsh Outlook* yn Medi 1914, pwysleisiwyd natur Gristnogol y Rwsiaid:

Religion is in actual fact a more real force in Russia than in any other European country. Just as the Russian Church has preserved more than any other the ritual of the Early Christians, so the Russian people have more than any other preserved the real spirit of Christ.³⁷⁵

Ymgais i gymodi Cristnogaeth uniongred Rwsia gyda Christnogaeth y gorllewin oedd hwn. Fel noda Jaroslav Pelikan, yn dilyn y rhwyg o fewn yr Eglwys Gatholig yn yr unfed ganrif ar ddeg gwelwyd cyhuddiadau o gamgrediniaeth yn cael eu gweithredu gan y Dwyrain Groegaidd a’r Gorllewin Ladin.³⁷⁶ Hefyd, ymladdwyd rhyfeloedd rhwng Prydain a Rwsia yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac ystyriwyd Rwsia gan nifer fel gwlad anwaraidd a hyd yn oed

³⁷⁴ ‘St Geneviève Watching Over Paris’, *Welsh Outlook*, Hydref 1914, 428.

³⁷⁵ ‘Notes of the Month’, *Welsh Outlook*, Medi 1914, 383.

³⁷⁶ Jaroslav Pelikan, *The Christian Tradition: A History of the Development of Doctrine, Volume 2: The Spirit of Eastern Christendom (600–1700)* (Chicago: University of Chicago Press, 1977), t.170.

yn 1914 fel prif elyn Prydain mewn cysylltiadau rhyngwladol yn enwedig ymysg elfennau o'r Wasg rhyddfrydol.³⁷⁷

Roedd yr aflonyddwch hwn yn bodoli yn Ffrainc hefyd. Fel noda Samantha Johnson, cafodd sylwebwyr Prydeinig a Ffrengig hi'n anodd hybu gwerthoedd cyffredin gyda Rwsia, gwlad a oedd wedi bod mor ormesol ganrif ynghynt. Yn wir, cyfeiriwyd at Rwsia fel cyfiawnhad yn yr Amerig i aros allan o'r rhyfel.³⁷⁸ Ond ymddangosodd sawl testun yn y Wasg Gymreig yn cynnwys Rwsia mewn i gynghrair grefyddol gyda Phrydain a Ffrainc. Gwelwyd ymgais fwriadol i fagu cefnogaeth i'r ymdrech rhyfel drwy amlinellu nodweddion cyffredin y Cynghreiriaid. Profodd crefydd yn un o'r nodweddion cyffredin hynny, a nododd y *Welsh Outlook* burdeb Cristnogol y Rwsiaid fel nodwedd y gallai'r Cymry uniaethu â hi. Drwy ddechrau ailddiffinio canfyddiadau poblogaidd o'r Rwsiaid mewn termau crefyddol, honnodd y *Welsh Outlook* fod pobl Rwsia wedi diogelu gwir ysbryd Crist. Yn gydamserol, awgrymwyd fod yr Almaenwyr wedi gwyrddroi eu crefydd nhw a'i wneud yn dywyll a pheryglus: 'The God on whom they so loudly called is the God who fills bellies and sharpens swords.'³⁷⁹

Roedd gweithredoedd yr Almaen yng Ngwlad Belg a Ffrainc ym mis Awst 1914 eisoes wedi cynhyrfu'r Wasg Brydeinig, wrth i drefi Belgaid Louvain ac Aarschot, a Lunéville yn Ffrainc gael eu hysbeilio a honiadau bod miloedd o sifiliaid Belgaid yn cael eu dienyddio gael eu lledu.³⁸⁰ Gyda iaith a fyddai'n adleisio cenedlaeth yn ddiweddarach, galwodd y *Daily Mail* yr ymosodiadau ar Louvain yn 'Holocaust of Louvain'.³⁸¹ Pan gyhoeddodd y *Welsh Outlook* ffotograff o Eglwys Gadeiriol Rheims yn deilchion yn dilyn tanbelenni'r Almaenwyr, gwelwyd mwy o dystiolaeth o ymosodiadau'r Almaen ar safleoedd diwylliannol a sanctaidd i gyd-fynd â'r honiadau o'r erchyllterau yng Ngwlad Belg a gogledd Ffrainc. Nodwyd y difrod i Eglwys Gadeiriol Rheims yn y *Welsh Outlook* fel y 'melancholy achievements of German brutality'.³⁸²

³⁷⁷ Gweler er enghraifft sut cyflwynwyd Argyfwng Gorffennaf yn y Wasg rhyddfrydol Brydeinig a Chymreig, lle mai Rwsia yn aml oedd y prif fygythiad i heddwch Ewrop.

³⁷⁸ Samantha T. Johnson, 'Holy War in Europe: Charles Saroléa, *Everyman* and the First World War, 1914–1917', yn Mark Connelly and David Welch (gol.), *War and the Media: Reportage and Propaganda, 1900–2003* (London: IB Tauris, 2005), t.70.

³⁷⁹ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Medi 1914, 384.

³⁸⁰ Pan ddinistriwyd Louvain gan yr Almaenwyr diwedd mis Awst, llosgwyd ei llyfrgell hanesyddol a oedd yn cynnwys cannoedd o ddogfennau hynafol. Ynghyd â dienyddio trigolion, profodd y digwyddiadau hyn, yn ogystal â suddo'r *Lusitania* ym mis Mai 1915, yn rhan ganolog o ymdrech bropropaganda Prydain.

³⁸¹ *Daily Mail*, 31 Awst, 1914, 8.

³⁸² 'Rheims and its Cathedral', *Welsh Outlook*, Mai 1915, 191.

Ffigwr 2.2: ‘Destruction of the wonderful architecture at the entrance to Rheims Cathedral’³⁸³



Cyffyrddodd darluniau Santes Geneviève ac Eglwys Gadeiriol Rheims â themâu canoloesol a ffurfia’r agwedd gyson o naratif y rhyfel sanctaidd. Cyfeiriwyd hefyd at arfau rhyfel yr Oesoedd Canol megis cleddyfau a thariannau. Yn ‘The Sword’ er enghraifft, tynmodd Ysgrifennydd Comisiynwyr Eiddo’r Eglwys yng Nghymru, Thomas Huws Davies, ar hanesion y Croesgadwyr a Jeanne D’Arc wrth gyfleu ei ddadl o blaid y rhyfel, gan ddweud: ‘they remembered that [the sword] should only be wielded in a truly holy cause and, even then, only by men of clean hands and honest hearts, upright of purpose and spiritual of mind.’³⁸⁴ Roedd Davies yn rhan o garfan a oedd yn dadlau eu daliadau heddychol, ac mai dim ond mewn achos sanctaidd y byddai’n cefnogi rhyfela. Roedd y rhyfel hwn wedi cael ei orfodi ar y Cynghreiriaid, ac roedd Cristnogaeth o dan fygythiad. Yn yr un modd, soniwyd yn y *Welsh*

³⁸³ ‘Destruction of the wonderful architecture at the entrance to Rheims Cathedral’, *Welsh Outlook*, Mai 1915, 191.

³⁸⁴ ‘The Sword’, *Welsh Outlook*, Mai 1915, 174.

Outlook am rai o egwyddorion y gwleidydd a'r cenedlaetholwr Eidalaid, Giuseppe Mazzini.³⁸⁵ Dyfynnwyd dysgeidiaeth Mazzini gan gefnogi'r syniad o undod Cristnogol y Cynghreiriaid: 'Is it enough that we call ourselves Christians, if we desert our brothers at their utmost need, struggling in a holy cause at fearful odds?'³⁸⁶

Parhaodd y themâu canoloesol a'r cyfeiriadau at y Croesgadwyr yn achlysurol drwy gydol y rhyfel. Pan gipiwyd Jerwsalem ym mis Rhagfyr 1917 gan Lu Alldeithiol yr Aifft dan arweiniad y Cadfridog Edmund Allenby, roedd y cynodiadau crefyddol yn amlwg.³⁸⁷ Ym mis Ionawr 1918, gyda chipiad diweddar Jerwsalem yn sicr mewn ystyriaeth, disgrifiodd R. Hugh Davies yn *Y Geninen* nod y rhyfel fel 'croesgad rhyddid y gwledydd.'³⁸⁸ Mynegwyd thema'r Croesgadwyr hefyd mewn cerdd gan A. G. Prys Jones ym mis Mawrth 1918, gan gymharu milwyr Allenby gyda Chroesgadwyr Brenin Richard y Cyntaf. Roedd y pennill olaf yn enwedig yn cysylltu marchogion y Croesgadwyr yn uniongyrchol â buddugoliaeth Allenby. Er i'r gerdd sôn am 'Knights of England', dangosir fod y Wasg Gymreig wedi parhau gyda naratif canoloesol o ryfel sanctaidd tan flwyddyn olaf y rhyfel:

Knights of England overseas, riding, ever riding,
From Gaza unto Ascalon, though centuries have flown:
O Towers of Jerusalem, what tiding, oh, what tiding:
Hath Lion-Heart come back again to claim you for his own?³⁸⁹

Ystyriwyd y rhyfel fel gornest ddiwinyddol dros gyfeiriad cymdeithas y dyfodol. Datganodd 'Simon Selotes' yn *Y Geninen* yn ystod ymosodiadau'r Somme: 'Nid rhwng byddinoedd o gig a gwaed yn unig y mae y rhyfel hon, ond rhwng tywysogaethau ac awdurdodau, ac yn erbyn drygau ysbrydol yn y nefolion leoedd.'³⁹⁰ Ymfalchïodd R. Hugh Davies yn rôl Anghydfurfiaeth yn y rhyfel gan awgrymu y byddai Anghydfurfwyr yn haeddu clod yn dilyn yr ymladd: 'Da gennym fel Ymneilltuwyr am safiad ein gwlad a'i Chynghreiriaid yn erbyn gormes a thrais, ac o blaid rhyddid a thegwch rhyngwladwriaethol.'³⁹¹ Amlygwyd ei falchder ymhellach drwy gysylltu egwyddorion Anghydfurfiaeth gyda'r nodau rhyfel ehangach:

Nid oes un dosbarth y gellir disgwyl iddynt gymeradwyo cymhellion
Prydain yn yr ornest bresennol yn fwy calonnog na'r Ymneilltuwyr.

³⁸⁵ Dadl Mazzini oedd fod rhyfel yn drosedd ofnadwy oni bai fod yr achos yn sanctaidd.

³⁸⁶ 'The Message of Mazzini', *Welsh Outlook*, Mawrth 1916, 79.

³⁸⁷ Am astudiaeth o symboliaeth grefyddol ymgyrch Prydain a'r Cynghreiriaid yn y Dwyrain Canol, gweler James E. Kitchen, 'Khaki crusaders': crusading rhetoric and the British Imperial soldier during the Egypt and Palestine campaigns, 1916-18', *First World War Studies*, 1/2, (2010), 141-60.

³⁸⁸ 'Ymneilltuaeth a'r Cyfnod Presennol', *Y Geninen*, Ionawr 1918, 37.

³⁸⁹ 'Palestine, 1192-1917', *Welsh Outlook*, Mawrth 1918, 96.

³⁹⁰ 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Hydref 1916, 259.

³⁹¹ 'Ymneilltuaeth a'r Cyfnod Presennol', *Y Geninen*, Ionawr 1918, 36.

Arferasant fod ar hyd eu hanes yn elynion gormes ac yn gyfeillion rhyddid. Pan ddeallwyd mai brwydr egwyddorion ydoedd brwydr y Cyfandir, ni fuont hwydrwm i wrando ei hapêl.³⁹²

Roedd balchder enwadol i'w weld yn gymhellant i gefnogi'r rhyfel, ac argyhoeddwyd sawl un eu bod yn cyflawni gweithred ddwyfol wrth i'r rhyfel gynrychioli math o 'brawf' i wir Gristnogion. Gwelwyd hyn mewn gohebiaeth yn *Y Geninen* yn 1915 pan gwestiynwyd a oedd y rhyfel yn rhan o gynllun Duw. Yn rhifyn Ionawr 1915, ysgrifennodd y gweinidog Wesleiaid a'r llenor Edward Tegla Davies fod y rhyfel yn symbol o ddirywiad Cristnogaeth. Gofynnodd ef: 'Os mai cynllun iachawdwriaeth yw cynllun Duw, paham y cyni, y trueni, y pechod, a'r boen?' Atebodd hwn drwy ddatgan yn gadarn mai: 'Nid ar law Duw y mae rhoi pen ar y rhyfel mawr hwn.'³⁹³ Dadleuodd petai genhedloedd Ewrop wedi bod yn drwm i'r ffydd Gristnogol ac yn gweddio'n gyson, yna ni fyddai'r rhyfel wedi digwydd. Ei ddadl oedd pwysigrwydd gweddio fel mynegiant mwyaf sylfaenol Cristnogaeth, a dylid ymdrechu i'w wneud yn gyson ac yn ddi-baid, yn hytrach nag ar adegau neilltuol. Ymatebodd T. Elias Parry i erthygl Davies yn rhifyn Gorffennaf 1915. Beirniadodd Parry agwedd besimistaidd Davies ynglŷn â dirywiad Cristnogaeth. Mynnodd Parry fod y rhyfel yn rhan o gynllun Duw: 'Angenhaid [ydyw rhyfel] i hyrwyddo ac i gyflymu sylweddoliad bwriadau tragwyddol Duw o ddaioni moesol ac ysprydol i'r hil ddynol.'³⁹⁴ Cynrychiola'r ohebiaeth rhwng Davies a Parry ddwy ffordd o sut dehonglwyd y rhyfel gan Gristnogion Cymru. Gwelwyd un garfan yn dadlau dros fethiant cymdeithas ddiweddar i gynnal y ffydd, wrth i bobl a sefydliadau ildio i ysgogiadau materol a threisgar. Dadleuodd carfan arall, o bosib wedi ei dallu gan y gred fod rhaid i ryw dda ddod allan o'r cwbl, mai rhan o gynllun Duw oedd y rhyfel, ac mai arwydd oedd hi i ailgydio yn y ffydd Gristnogol er mwyn puro cymdeithas o ddylanwadau drwg.

Hybwyd delweddau crefyddol y Wasg Gymreig gan weithredoedd yr Almaen yng ngwlad Belg a gogledd Ffrainc ym mis Awst 1914. Cymharodd y Parchedig John Neville Figgis fflamau dinistr Louvain gyda seren Bethlehem, gan ddangos y ffordd i'r Cymry a'u galw mewn cyrch sanctaidd tuag at faes y gad. Gan gyfeirio at ddysgediaeth yr athronydd Almaenaidd, Friedrich Nietzsche, credodd Figgis fod y 'Dydd' wedi cyrraedd: 'The strong vein of apocalypticism in Nietzsche is a quality not always sufficiently recognised. Well this "Day" has dawned; and the bonfire of Louvain is its Bethlehem star.'³⁹⁵ Parhaodd y syniad o'r 'Dydd' dros y

³⁹² 'Ymneilltuaeth a'r Cyfnod Presennol', *Y Geninen*, Ionawr 1918, 36.

³⁹³ 'Gweddi a'r Rhyfel', *Y Geninen*, Ionawr 1915, 10.

³⁹⁴ "'Gweddi a'r Rhyfel'", *Y Geninen*, Gorffennaf 1915, 175.

³⁹⁵ 'Man Versus the Superman', *Welsh Outlook*, Hydref 1914, 420.

blynyddoedd.³⁹⁶ Yn 1916, cyfeiriwyd at y rhyfel gan G. Bedford Roberts fel ‘dydd y prawf.’³⁹⁷ Cred Roberts oedd bod Cymru wedi cael ei pharatoi ar gyfer y ‘dydd’ yma, ond pryderwyd a fyddai ffydd y Cymry yn ddigon cadarn i oroesi’r rhyfel. Yn yr un modd, soniodd y diwinydd a’r llenor, David Miall Edwards yn *Y Beirniad* yn 1916 mai: ‘Dydd barn ar bawb a phopeth ydyw’r dydd heddyw.’³⁹⁸ Mynegwyd yn debyg gan O. M. Edwards yn *Cymru* mai ‘Dydd Deffro Cydwybod’ oedd y cyfnod presennol, ynghyd â’r weledigaeth mai: ‘Dydd yw hwn y rhaid adeiladu fel yr adeiledid y deml yn amser Nehemiah; un llaw yn gweithio yn y gwaith, a’r llaw arall yn dal arf.’³⁹⁹ Ystyriodd Lewis Williams yng nghylchgrawn y Methodistiaid Calfaidd, *Y Traethodydd*, a olygwyd gan y gweinidog John Evan Hughes, a oedd y ‘Dydd’ yma yn brawf a osodwyd gan Dduw:

Diameu fod rhywbeth o’i le yng ngwareiddiad y Gorllewin, a bod llawer yn credu fod Duw wedi codi’r Almaen, nid i’n gorchfygu, ond i’n ceryddu am ein hanystyriaeth a’n hanghyfiawnder a’n balchter a’n pechod. Ein dyledswydd yn awr ydyw dysgu gwersi moesol a chrefyddol yr amgylchiadau a gofalu fod pob peth a wnawn ar sylfaeni moesol.⁴⁰⁰

Roedd gweledigaethau yn bodoli felly ymysg deallusion Cymru o ‘Dydd y Farn’. Tebyg i gyfeiriadau Armagedon, ar y naill law roedd hyn yn esiampl o dynnu ar werthoedd diwylliannol y cyfnod a thraethu naratif y rhyfel mewn iaith a delweddau Beiblaidd. Ar y llaw arall, dengys sut roedd delfrydau Cristnogol yn cynnal yr ymdrech rhyfel Gymreig drwy ei chlymu i naratif a phroffwydoliaeth y Beibl. Ynghyd ag ymdrechion eraill i ymgorffori crefydd o fewn ystyron y rhyfel, gan gynnwys ffurfio undod crefyddol ymysg y Cynghreiriaid, dengys cynnwys y Wasg Gymreig y gred ymysg nifer o sylwebwyr fod elfen sylweddol sanctaidd wedi bod i’r rhyfel, gan greu’r effaith o gyflwyno disgwrs o ryfel cyfiawn.

³⁹⁶ Cyfeiria hyn at Ddydd y Farn, sef yr olygfa lle deuai Iesu i ddyfarnu ac achub y gwir Gristnogion ar drothwy brwydr Armagedon a diwedd y byd.

³⁹⁷ ‘Yr Eglwys A’r Dyfodol’, *Y Geninen*, Hydref 1916, 252.

³⁹⁸ ‘Y Rhyfel a Hollalluowgrwydd Duw’, *Y Beirniad*, Gwanwyn 1916, 1.

³⁹⁹ ‘Dydd Deffro Cydwybod’, *Cymru*, Ebrill 1916, 154.

⁴⁰⁰ ‘Y Proffwydi, eu Byd, a’u Duw. Fel esiampl i ni yn yr argyfwng presennol’, *Y Traethodydd*, Gorffennaf 1915, 211.

Crefydd yr Almaen

Ym mis Tachwedd 1914, cyfeiriodd y gweinidog a'r hanesydd eglwysig, Morris Brynllwyn Owen yng nghylchgrawn y Bedyddwyr, *Seren Gomer*, at gymeriad y genedl Almaenaidd. Ysgrifennodd: 'Mewn gair, dywed fod Almaen heddyw yn gaeth i draddodiad milwrol, ac wedi cefnu mor bell ar Grist y Testament Newydd nes mynd yn wrth-Gristnogol.'⁴⁰¹ Enghraifft oedd hyn o ymdrech i gyfleu rhyfel dau-begynol o'r da yn erbyn y drwg, y cyfiawn yn erbyn yr anghyfiawn, a'r sanctaidd yn erbyn y materol. Yn ogystal â phwysleisio'r daliadau crefyddol ynghylch ymdrech y Cynghreiriaid, talwyd sylw hefyd i nodweddion crefyddol yr Almaen. Os oedd y Cynghreiriaid yn brwydro rhyfel sanctaidd i amddiffyn delfrydau Cristnogaeth, rhaid bod y gelyn wedi ymgorffori natur anghristnogol. Dyma a bwysleisiodd golygydd *Y Beirniad*, John Morris-Jones, wrth esbonio ystyr y rhyfel yn 1915:

Nid ynghylch athroniaeth ychwaith y mae fel rhyfeloedd crefyddol a fu, ond ynghylch moesoldeb ei hun; nid credo neu ddaliadau uchaniaol sy mewn dadl ond egwyddorion cyfiawnder a rhyddid. Y mae arweinwyr y gelyn yn gwadu eu bod yn ddarostyngedig i'r egwyddorion hyn; egwyddorion crefydd a wrthodant ydynt. Hawl y cryf i dreisio'r gwan yw eu hegwyddor hwy.⁴⁰²

Ym misoedd cynnar y rhyfel, cyhuddwyd yr Almaen o fod wedi gwyrddroi Cristnogaeth.⁴⁰³ Enghraifft amlwg o hyn oedd mewn erthygl gan y Parchedig D. Jones, Ficer Abersoch, yn *Y Geninen* ym mis Hydref 1914. Cyhuddodd Jones yr Almaen ei bod yn wlad 'ffug-sancteiddiol', a heb unrhyw afael ar wir Gristnogaeth. Gobeithiodd 'mai y dynged sydd o flaen y teyrn balch, ffug-sancteiddiol a barodd y rhyfel trychinebus hon fydd cael ei amddifadu o'i dra-arglwyddiaeth a'i osod mewn cadwynau cedym dros ei oes.'⁴⁰⁴ Cydiwyd yn gynnar yn yr ymgyrch i ddelweddu'r Almaenwyr fel cenedl ddi-gred yn y Wasg Gymreig, a chyflwynwyd y ddelwedd o Almaen anghristnogol yn gyson drwy gydol y rhyfel.

Dehonglodd D. Jones foesau a gwerthoedd yr Almaen yn ôl daliadau Cristnogol Cymru hefyd. Yn yr un erthygl, bychanwyd honiadau'r Almaen o fod yn wlad Gristnogol. Cyfeiriodd Jones at garfan benodol o gymdeithas yr Almaen, y *Junkers*, sef yr uchelwyr a'r dosbarth uwch hanesyddol Brwsiaidd:

Proffesant [y *Junkers*] gredu a dysgu egwyddorion y grefydd Gristionogol; a dywedir y bydd eu hymerawdwr, yn awr ac eilwaith,

⁴⁰¹ 'Y Rhyfel', *Seren Gomer*, Tachwedd 1914, 282.

⁴⁰² 'Crefydd Newydd yr Almaen', *Y Beirniad*, Hydref 1915, 191.

⁴⁰³ Cyffyrddir ar yr agwedd hon gan Lloyd, 'Llenyddiaeth Cyni a Rhyfel', tt.20-21.

⁴⁰⁴ 'Rhyfel y Cenhedloedd', *Y Geninen*, Hydref 1914, 271-72.

yn esgyn i'r pulpud i bregethu sêl dros yr hyn a alwant hwy yn *wladgarwch* ddigon o flaen eu heiddigedd dros lwyddiant y grefydd Gristionogol!⁴⁰⁵

Ymosodiad oedd hwn ar honiadau'r Almaen o ymgorffori *Kultur* gwaraidd a Christnogol. Dadleuwyd fod y grefydd Almaenaidd yn ymgorffori delfrydau hunanol a oedd yn caniatáu i unigolion fihafio'n dreisgar ac anufudd. Cynigiodd hyn esboniad i weithredoedd yr Almaenwyr yng ngogledd Ffrainc a Gwlad Belg ynghylch dinistrio trefi diwylliannol a dienyddio sifiliaid. Crisialwyd hyn gan E. E. Thomas yn y *Welsh Outlook* ym mis Tachwedd 1914. Meddai Thomas am Brotestaniaeth yr Almaen: '[It has] become extremely individualistic, and has lost both the political and religious motives which started it on its career.'⁴⁰⁶ Cyhuddwyd diwinyddiaeth Brotestannaidd Almaenaidd hefyd o fod yn 'Duwiaeth' yn hytrach na Christnogaeth gan J. Richards yn *Y Traethodydd* yn 1915: 'mae y dybiaeth yn ddiamwys ynom, fod Germani wedi cael tuedd ac ateg nid egwan i'w pholisi milwrol dihafarch presennol, yn y ffaith ddarfod iddi farchog ei hangorion Cristnogol.'⁴⁰⁷ I Richards, roedd yr Almaen wedi rhoi'r gorau i'w chredoau Cristnogol a mynd ar drywydd addoli militariaeth yn eu lle.

Safbwynt poblogaidd y Wasg Gymreig ynghylch daliadau crefyddol yr Almaen oedd ei natur filwrol. Disodlwyd Duw Cristnogaeth gan Dduw militariaeth. Ymddangosodd y cyhuddiadau hyn yn gynnar, gyda golygyddol y *Welsh Outlook* ym mis Medi 1914 yn cyhuddo'r Almaen o addoli militariaeth:

The really dangerous point about militarism in Germany is that it is, with a large part of the nation, almost a religious belief; they have made it into an idol or a philosophy and worship it freely; it is not just something stuck on to their daily lives from above.⁴⁰⁸

Yn yr un modd, daeth y Parchedig Thomas Hughes, Blaenau Ffestiniog, i grybwyll 'Yr Efyngyl Germanaidd' yn rhifyn mis Ebrill 1915 *Y Geninen*. Cyferbynnodd y grefydd hon gyda chrefydd Cymru:

Un o brif erthyglau yr efyngyl hon ydyw fod rhyfel yn anheggorol tuag at lwyddiant cenedl rymus ac uchelgeisiol, a bod cyfnod hirfaith o heddwch yn niweidiol i ddatblygiad a pherffeithiad rhinweddau materol a moesol cenedl (...) Credant hwy mewn Duw sydd, yn ôl eu tyb hwynt, wedi eu dewis i arglwyddiaethu dros Gyfandir Ewrop, tra

⁴⁰⁵ 'Rhyfel y Cenhedloedd', *Y Geninen*, Hydref 1914, 270.

⁴⁰⁶ 'Germany's Political Ideal', *Welsh Outlook*, Tachwedd 1914, 461.

⁴⁰⁷ 'A gaiff Efe ffydd ar y ddaear?', *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 103.

⁴⁰⁸ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Medi 1914, 377.

y'n dysgir ni, yng ngoleuni Crist, i gydnabod hawliau ac iawnderau pob dosbarth a gradd o ddynion.⁴⁰⁹

Canfuwyd militariaeth yn rym nerthol a hanfodol i'r Almaen yn ei chais am lwyddiant cenedlaethol. Daeth militariaeth yn nodwedd o'r drefn wleidyddol, cymaint nes y disodlwyd Cristnogaeth gan filitariaeth fel cred addoli. Nododd O. M. Edwards yn *Cymru* yn 1915 fod yr Almaen wedi 'troi ei natur ddynol yn natur satanaidd.'⁴¹⁰ Ffug-sancteiddrwydd oedd un o nodweddion yr Almaen felly, ac yn gyrru'r grefydd newydd hon oedd teyrnas Prwsia. Fel y sylwebodd J. Davies yn *Y Geninen* yn 1917: 'Amcan Milwriaeth Prwsia yw creu nefoedd newydd trwy greu daear newydd, a thrwy hynny wyrdroi egwyddor lywodraethol y byd.'⁴¹¹

Wrth gyfleu'r Almaen fel gwlad a oedd wedi colli golwg ar ei chredoau Cristnogol, awgrymwyd yn gydamserol fod Cymru yn driw i'w ffydd. Mynegwyd hyn mewn mwy nag un ffordd, gan gynnwys trwy gerddi megis 'Gweddiwch Dros yr Almaen' gan J. R. Tryfanwy. Mewn cerdd a oedd yn proffesu cryfder Cristnogaeth dros filwriaeth yr Almaen, gorffennodd yr ail bennill (allan o bedwar) gyda chyfeiriad cwta, unwaith eto, at Ddydd y Farn:

Gweddiwch dros yr Almaen
A lethodd Felgium dlos –
Y gadarn falch a fathrodd
Y Fechan ddewr i'r ffos!
Cyfiawnder llym fo'ch cleddau,
A chariad iddo'n garn, –
Nid gynnau Krupp, ond gwenau Crist,
A erys fore'r Farn.⁴¹²

Cyfeiria'r gerdd hon at falchder a milwriaeth yr Almaen fel nodweddion a oedd yn dominyddu bywyd ei chenedl. Roedd gofyn i'r darllenwyr 'weddïo dros yr Almaen' hefyd yn dangos tosturi, yn hytrach na chasineb, ar ran Tryfanwy. Felly gwelwyd cyhuddiadau bod yr Almaen yn gwyrdroi ei chrefydd yn cymryd sawl ffurf wahanol, ond bob tro yn meddu ar y rhagdybiaeth Gymreig o berchen ar gyflwr uwch o Gristnogaeth.

Wrth i'r Almaen gael ei delweddu fel gwlad ddi-Dduw, ceisiwyd adnabod y pechadur – neu bechaduriaid – oedd yn gyfrifol am y cyflwr hwn. Roedd y *Junkers* yn un. Ond profodd y Caisar hefyd yn darged hawdd i nifer o destunau'r Wasg. Dyma a wnaeth Thomas Hughes wrth geisio egluro tarddiad y rhyfel. Ysgrifennodd yn *Y Geninen*: 'Perswadiodd y Caisar ei hun ei

⁴⁰⁹ 'Achlysur ac Achos y Rhyfel Bresennol', *Y Geninen*, Ebrill 1915, 93-94.

⁴¹⁰ 'Cwmp yr Almaen', *Cymru*, Chwefror 1915, 105.

⁴¹¹ 'Nefoedd Newydd a Daear Newydd', *Y Geninen*, Ebrill 1917, 83.

⁴¹² 'Gweddiwch Dros yr Almaen', *Cymru*, Mawrth 1915, 198.

fod yn ffafreddyn y Goruchaf – wedi ei ddewis i gario allan fwriadau amlwg rhagluniaeth.⁴¹³ Yn yr un rhifyn, gwelwyd cerdd ddi-awdur, ‘Yr Almaen’. Yn ogystal â disgrifiadau Beiblaidd o’r Almaen fel ‘Sodom bechadurus’ ac ‘uffern boeth’, cyfeiriwyd at y Caisar fel y ‘llyw’ a oedd i’w ‘ddamnio’. Disgrifiwyd ef yn ‘Pharo’ hefyd, neu unben a oedd yn rheoli’r wlad yn llym. Englyn oedd hwn, ond rhaid i’r golygydd fod wedi esgusodi’r ffaith fod ei arddull yn anghywir wrth i wyth sillaf ymddangos yn y ddwy linell olaf lle saith dylai fod. Dengys hyn fod ei neges wedi cael blaenoriaeth ar draul ei chreffft.

Dyma hen wlad y damniol lyw; – o’i mewn
Mae’r Gwn Mawr bâr ddistryw:
Sodom bechadurus ydyw, –
Uffern boeth lle mae Pharo’n byw!⁴¹⁴

Gwelwyd hefyd yn yr un rhifyn, englyn arall yn benodol yn cyflwyno’r Caisar fel unigolyn di-Dduw. Ysgrifennwyd ‘Y Ceisar’ gan Thomas Mathonwy Davies (‘Mafonwy’) a chyhuddwyd ef o fod yn ‘gawr didduw’ a oedd yn addoli’r diafol:

Y Ceisar penwan, annuw, – rudda’i ffyrdd
Ffals â gwaedlyd ddilyw:
Gwaradwyddus gawr didduw;–
Wele, ei ddiawl yw ei dduw!⁴¹⁵

Dengys y sylw a roddwyd i’r Caisar sut roedd deallusion Cymru yn gwahaniaethu rhwng y genedl Almaenaidd gyfan, ac elfennau penodol ohoni neu o’i chymdeithas. Yn ogystal â’r Caisar, nodwyd dosbarth cymdeithasol y *Junkers*, teyrnas dra-arglwyddiaeth Prwsia, a’r athronydd, Friedrich Nietzsche fel rhai a lywiodd natur ei chrefydd. Ysgrifennodd ‘Shenkyn ap Morgan’ er enghraifft, am rôl Prwsia yn rhifyn Hydref 1917 y *Welsh Outlook*: ‘The rule of Prussia in Germany has always savoured more of the dark reactionism of the East, than of clean and progressive Christianity’.⁴¹⁶ Rhai misoedd ynghynt yn *Y Geninen* soniwyd am ddylanwad rhai o unigolion mwyaf blaenllaw diwylliant ac athroniaeth yr Almaen ar gwrs crefyddol y wlad honno:

Ysbryd y gwrthgiliad [o Gristnogaeth] a lefarai trwy Nietzsche a Treitschke, a hwnnw sy’n awr wedi ymgnawdoli yn ymerodraeth Germany. Hwnnw sydd heddyw’n gwneud Europe yn Aceldama fwy gwaedlyd nag erioed o’r blaen.⁴¹⁷

⁴¹³ ‘Achlysur ac Achos y Rhyfel Bresennol’, *Y Geninen*, Ebrill 1915, 91-92.

⁴¹⁴ ‘Yr Almaen’, *Y Geninen*, Ebrill 1915, 135.

⁴¹⁵ ‘Y Ceisar’, *Y Geninen*, Ebrill 1915, 89.

⁴¹⁶ ‘The War in the Balkans’, *Welsh Outlook*, Hydref 1917, 338.

⁴¹⁷ ‘Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol’, *Y Geninen*, Ionawr 1917, 24.

Ymddangosodd Friedrich Nietzsche yn gynnar iawn yn nhriniaeth y Wasg. Yn ‘Man Versus the Superman’, ymosododd y Parchedig John Neville Figgis ar syniadaeth wrth-Gristnogol yr athronydd Almaenaidd.⁴¹⁸ Cyfeiriwyd yn nheithl yr erthygl at yr *Übermensch*, sef delfryd Nietzsche o beth dylai dynoliaeth anelu ati, fel yr amlygwyd yn ei destun o 1883, *Also sprach Zarathustra* (*Yna siaradodd Zarathustra*). Cyflwynwyd yr *Übermensch* fel cyferbyniad i arallfydiaeth Cristnogaeth er mwyn annog y ddynoliaeth i’w gwella ei hun. Roedd hi’n gysyniad a oedd yn llwyr wrthdaro gyda Christnogaeth gan ei fod yn rhybuddio’i gynulleidfa i wrthod unrhyw syniadaeth arallfydol, megis Cristnogaeth. Cwplwyd yr *Übermensch* gyda marwolaeth Duw. Ar ôl datgan ‘Mae Duw yn farw’, cyflwynwyd yr *Übermensch* fel crëwr gwerthoedd newydd. Mewn byd heb grefydd, ni fyddai bellach unrhyw fframwaith moesau a fyddai’n creu a mesur gwerthoedd, gan greu gwactod ble gallai’r *Übermensch* gosod ei werthoedd ei hun. Ond i Figgis, y gwerthoedd hyn oedd militariaeth a dirywiad gwareiddiad, gan gynrychioli crefydd wyrgam ei hun. Ysgrifennodd:

Germany, or rather Prussia, if she attains world-empire, would in the same way propagate her own ideals and with them perhaps a new world-religion. This religion would be some development of Nietzsche’s gospel of *The Will to Power*, the title of one of his later and most illuminating works. That is what we mean by saying that Nietzsche is the torch that lit this flame.⁴¹⁹

Roedd yr Almaen, yn ôl Figgis, yn ymgorffori rhinweddau gwrth-grefyddol Nietzsche, a oedd yn gyfrifol am gychwyn y rhyfel. Wrth ddehongli tarddiad y rhyfel yn y modd anghristnogol hwn, rhaid felly i Brydain ymateb yn gyferbyniol. Ymddangosodd Cristnogaeth yn elfen gref o beth ddylai ymdrech rhyfel Prydain gynnwys, er mwyn dinistrio’r grymoedd gwrth-Gristnogol Nietzscheaidd. Roedd targedu Nietzsche yn elfen cyffredin yn yr ymateb ehangach Prydeinig. Dengys astudiaeth Samantha Johnson, er enghraifft, sut aeth y cyfnodolyn Prydeinig, *Everyman*, ati i gynrychioli’r rhyfel drwy ei chyflwyno fel Rhyfel Sanctaidd yn erbyn y wlad ‘leiaf Gristnogol yn Ewrop’ a oedd wedi disodli’r Triawd Sanctaidd gyda’r ‘unholy triumvirate’ o Friedrich von Bernhadi, Heinrich von Treitschke a Friedrich Nietzsche.⁴²⁰ Drwy hanfodoli’r Almaen, llwyddodd propagandwyr, deallusion, ac elît Prydain i gyfleu rhyfel pegynol, rhwng y Cynghreiriaid Cristnogol a’r Tiwtoniaid di-Dduw.

⁴¹⁸ ‘Man Versus the Superman’, *Welsh Outlook*, Hydref 1914, 422.

⁴¹⁹ ‘Man Versus the Superman’, *Welsh Outlook*, Hydref 1914, 422.

⁴²⁰ Johnson, ‘Holy War in Europe’, yn Connelly and Welch (gol.), *War and the Media*, t.70.

Gyda'r cyfiawnhad o fynd i ryfel yn cael ei ddadlau ar sail amddiffynnol, ymosodwyd ar egwyddorion cyfredol yr Almaen a'u dal yn gyfrifol am y rhyfel. Ond fe welwyd anghytuno ynglŷn â sut cyrhaeddodd yr Almaen y pwynt hwn. Credai rhai fod yr Almaen wedi colli golwg ar ei delfrydau moesol a thraddodiadol tra gwelai eraill y delfrydau gwreiddiol yma, a oedd yn sail i'r genedl Almaenaidd ac oedd bellach yn cael eu hymgorffori yn ei gwleidyddiaeth a'i diwylliant, fel rhai llygredig o'r cychwyn. Ar yr un llaw, crëwyd delwedd o'r Almaen fel gwlad ddi-Dduw, heb grefydd o gwbl ac yn byw ei bywyd yn ôl gwyddoniaeth, y byd materol, a dysgeidiaeth ei deallusion. Nododd y Parchedig John Williams, Brynsiencyn yn *Y Beirniad* er enghraifft: 'Mae ei hathronwyr pennaf wedi mynd yn ddi-Grist ac yn ddi-Dduw, nid yn ymarferol felly, ond yn llythrennol.'⁴²¹ Roedd y rhyfel felly yn un 'rhwyng Paganiaeth a Christnogaeth', gan atgyfnerthu'r syniad mai rhyfel sanctaidd oedd hon. Ar y llaw arall, cyflwynwyd hefyd y syniad fod gan yr Almaen ei Duw, ond nid Duw sanctaidd neu Gristnogol oedd hwn. Yn hytrach, Duw, neu Dduwiau, militariaeth oedd y rhain, gyda'r bwriad o oresgyn a diorseddu Cristnogaeth yn sail i'w cred.

Crefydd fel gwrthwynebiad

Does dim dwywaith y defnyddiwyd crefydd yn y Wasg i ysgogi ar gyfer yr ymdrech rhyfel yng Nghymru, o 1914 hyd at ei ddiwedd ym mis Tachwedd 1918. Ond er gwaetha'r rhethreg grefyddol a roddwyd fel cyfiawnhad i'r rhyfel ac fel nodwedd a fyddai'n gallu uno'r Cynghreiriaid, yn rhan o'r ddisgwrs hon hefyd yr oedd heddychiaeth Gristnogol. Yn sgil hyn, mynegwyd gwrthwynebiad crefyddol i'r rhyfel yn y Wasg. Gwelwyd pryder hefyd fod y rhyfel yn arwydd fod Cristnogaeth yn gwegian a bod gwareiddiad gwledydd wedi dirywio.

Defnyddiwyd crefydd i feirniadu ac i danseilio'r llywodraeth yn ei phenderfyniad o fynd i ryfel. Un o'r testunau cynharaf, ac efallai mwyaf trawiadol i ymddangos oedd 'The Church and the War' gan y gweinidog a'r academydd, Herbert Morgan yn y *Welsh Outlook* ym mis Rhagfyr 1914, ychydig fisoedd ar ôl cychwyn y rhyfel. Roedd hi'n ymosodiad ar natur cymdeithas gyfoes, ac yn feirniadaeth o'r gystadleuaeth economaidd a fodolai rhwyng gwledydd. Roedd ei neges yn glir wrth iddi alw ar wir Gristnogion i fod yn driw i'r ffydd a gwrthod y rhyfel: 'the larger number of truly earnest Christians are agreed that there is no room for war in the teaching of Christ or in the Kingdom of God.'⁴²² Nod Morgan oedd darbwyllo pobl i wrthod y syniadaeth

⁴²¹ 'Y Rhyfel', *Y Beirniad*, Ionawr 1915, 4.

⁴²² 'The Church and the War', *Welsh Outlook*, Rhagfyr 1914, 499.

militaraidd a oedd, yn ei farn ef, yn gychwyn i'r rhyfel. Galwodd ar Gristnogion i chwilio'u cydwybod a derbyn fod rhyfela yn anghywir ac yn groes i ddysgeidiaeth Crist.

Yn wahanol i'r naratif poblogaidd fod Prydain yn ymladd rhyfel amddiffynnol, ni chyhuddwyd yr Almaen yn unig o achosi'r rhyfel, ond yn hytrach o greu'r diwylliant militaraidd cyffredinol a fodolai yng nghymdeithasau Ewrop, gan gynnwys Prydain: 'On the level on which all States act at present, our own State just as much as any other, this war was inevitable.'⁴²³ Cysylltodd hyn gyda'r dybiaeth fod Cristnogaeth wedi gwegian yn ddiweddar gan fethu ag atal y gwledydd rhag mynd i ryfel. Mynegwyd y gred hon sawl tro, gyda chaplan anhysbys yn ei chrisialu yn y *Welsh Outlook* yn Rhagfyr 1916. Dadleuodd mai methiant Cristnogaeth ymysg y gwledydd hynny oedd yn gyfrifol am darddiad y rhyfel:

For it is only the shallowest thinking that sees in this world-disaster the failure of Christianity. Rather, it was because Christian Europe had not enough Christianity that nations went to war in August, 1914.⁴²⁴

Cysylltwyd twf militariaeth gyda gwendid Cristnogaeth. Cyfeiriwyd at filitariaeth fel y drwg yr oedd angen ei waredu er mwyn rhoi cymdeithas ar ben ffordd i ddyfodol heddychlon, gwaraid a Christnogol. Galwyd militariaeth yn 'monstrous ape' a oedd wedi dinistrio gweithgareddau a dyheadau gwyddoniaeth, celf, llenyddiaeth ac athroniaeth, ac roedd hi bellach yn amser i drechu'r syniadaeth anwaraidd a gwrth-grefyddol yma. Trwythwyd ysgrif Herbert Morgan mewn delweddaeth Feiblaidd gan gymharu dyfodol heddychlon gyda Gardd Eden:

Just as the gates of Eden were guarded by a flaming sword to bar the return of the sinful pair, so we may be sure the Militarist will try to bar the path of peaceful progress with his dripping blade. We must overcome him with the weapons of the spirit which are mighty through God.⁴²⁵

Anogwyd Cristnogion i chwilio'u cydwybod ac i herio safbwynt y llywodraeth. Cynigiwyd bod ffordd well o fod yn genedlaetholwr ffyddlon na dilyn gorchmynion y wladwriaeth. Argyhoeddwyd Morgan y gellid gwrthod y rhyfel fel yr unig ateb i'r sefyllfa ryngwladol, ac fel prawf i hyn anogwyd y darllenwyr i ystyried egwyddorion Cristnogol dros wrthod y rhyfel:

The State prescribes one course of action for us and we desire to be loyal to our country, cost what it may; but then, the Christian in us tells

⁴²³ 'The Church and the War', *Welsh Outlook*, Rhagfyr 1914, 500.

⁴²⁴ 'The Desire of All Nations', *Welsh Outlook*, Rhagfyr 1916, 383.

⁴²⁵ 'The Church and the War', *Welsh Outlook*, Rhagfyr 1914, 502.

us that war is always a brutal, degrading and inconclusive method of settling moral issues.⁴²⁶

Gwelir yma'r gred mai materion moesol oedd wrth wraidd y brwydro, a chysylltwyd y moesau hyn gyda Christnogaeth. Profodd yr erthygl hon yn esiampl gynnar o anniddigrwydd Cymreig gyda'r rhyfel, a braidd yn anghyffredin i gynnwys y *Welsh Outlook* am ei fod yn fynegiant clir o wrthwynebiad i'r rhyfel ac yn groes i'w safbwynt golygyddol. Yn ogystal â phigo cydwybod Cristnogion unigol, beirniadwyd yn llym rôl yr Eglwys sefydliadol yn rhoi sêl bendith i'r rhyfel: 'It is not the business of the Christian Church to bless [the war], and to urge its members to engage in it (...) It is pathetic to witness the stampede of the Churches'.⁴²⁷ Mynegwyd y feirniadaeth hon yn ysbeidiol drwy gydol y rhyfel. Nododd y Parchedig E. K Jones yn *Seren Gomer* yn 1915: 'Yr hyn sydd yn bruddhaol yw fod cyn lleied o Grist yng ngwledydd cred. Yn y diwedd teyrnasa paganiaeth ym mywyd a moesau y bobl.'⁴²⁸ Yn debyg yn 1916, dyfynnwyd barn milwr Cymreig yn y *Welsh Outlook* a dybiodd fod y clerigwyr wedi cam-drin eu ffydd a charmarwain y dyn cyffredin i faes y gad. Wrth sôn am yr Eglwys, dywedwyd: 'in some instances she seems to be prostituting her powers in the recruiting field'.⁴²⁹

Erbyn Rhagfyr 1914, roedd yr Eglwysi ym Mhrydain wedi rhoi eu cefnogaeth swyddogol i'r ymdrech rhyfel. Rhoddwyd sêl bendith i'r rhyfel gan Eglwys Loegr a mynegodd sawl esgob eu cefnogaeth ddiffuant i'r achos. Dywedodd Arthur F. Winnington-Ingram, esgob Llundain yn 1915: 'As I have said a thousand times, I look upon it as a war for purity, I look upon everyone who died in it as a martyr.'⁴³⁰ Parodd y gefnogaeth sefydliadol hon drwy gydol y rhyfel gydag archesgob Caergaint yn nodi yn 1917:

[I am] absolutely persuaded of the rightness, the inevitableness for men and women of honour, of what we did nearly three years ago, when duty and loyalty and truth compelled us to enter in [the war].⁴³¹

Un heddychwr blaenllaw yng Nghymru oedd George M. Ll. Davies a oedd hefyd yn gysylltiedig â Chymdeithas y Cymod, sef sefydliad Cymreig a ddechreuwyd yn 1914 ac a oedd yn rhan o fudiad heddwch rhyngwladol, yr *International Fellowship of Reconciliation*. Roedd y Gymdeithas yn gwrthod rhyfel a thrais ar sail crefydd. Roedd Davies yn rhan o fwrdd golygyddol gwreiddiol y *Welsh Outlook*, ond dros amser collwyd cefnogaeth yr ariannydd,

⁴²⁶ 'The Church and the War', *Welsh Outlook*, Rhagfyr 1914, 499.

⁴²⁷ 'The Church and the War', *Welsh Outlook*, Rhagfyr 1914, 500.

⁴²⁸ 'Rhyfel yng Ngoleuni Crist', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 89.

⁴²⁹ 'Second Bests', *Welsh Outlook*, Chwefror 1916, 49.

⁴³⁰ Dyfynnwyd gan Jenkins, *The Great and Holy War*, t.71.

⁴³¹ Dyfynnwyd gan Jenkins, *The Great and Holy War*, t.73.

David Davies, oherwydd ei ddaliadau pasiffistaidd a'i wrthwynebiad i'r rhyfel, a gwaharddwyd ei erthyglau.⁴³² Serch hyn, cyhoeddwyd erthygl George M. Ll. Davies, 'Second Bests' yn y *Welsh Outlook* yn 1916, gyda'r teitl yn dynodi mai camgymeriad oedd mynd i ryfel. Roedd erthygl o'r fath hyn, fel 'Church and the War' gan Herbert Morgan, yn anarferol yn y *Welsh Outlook*, a oedd yn cefnogi'r rhyfel o ran safbwynt golygyddol. Serch hyn, roedd neges Davies yn debyg i un Morgan 14 mis ynghynt, wrth iddo weld dyfodiad militariaeth fel dylanwad tywyll ar ymddygiad y gwledydd:

In this high crusade, this "battle for Christ" (as some of our papers and preachers have not hesitated to call it) there are disquieting signs of the rapid spread of a new spirit in the nation. Militarism has bred militarism, ruthlessness has bred ruthlessness, atrocity has bred atrocity. The edge of moral sensibilities is blunted.⁴³³

O ddewis rhyfel, dadleuodd Davies fod Cymru wedi colli golwg ar ei moesau a'i chrefydd, gan fod dilyn Crist yn gofyn am yr 'absolute' ym mhob agwedd o fywyd, yn hytrach na bodloni ar rywbeth llai. Roedd yr 'absolute' yn cyfeirio at y ffurf uchaf posib o foesau, ac yn cynrychioli llwybr clir tuag at ddysgeidiaeth Duw: 'Particular moral actions are but stones paving the way Godward.'⁴³⁴ Gwrthododd y syniad o ryfel ar unrhyw amod gan osod gweithredoedd Prydain o fewn safonau moesol Duw: 'How will [our actions] stand in the light, not of the Hague Tribunal or of the *Times* newspaper, but of Christ's demands; for these must be our ultimate standard.'⁴³⁵ Yn benodol, beirniadwyd y blocâd morol a osodwyd gan Brydain ar borthladdoedd yr Almaen er mwyn atal nwyddau a bwydydd rhag cyrraedd poblogaeth y wlad honno. Galwyd y dacteg yma: 'the most cold-blooded forms of torture that can be imposed by one set of human being on others.'⁴³⁶

Dadl gyson yn y Wasg Gymreig oedd p'un ai fod y rhyfel yn un sanctaidd ai peidio, gan greu pwnc trafod i nifer. Yng nghanol 1915 cyhoeddwyd erthygl Joseph Jones yn *Y Geninen*, 'Cristionogaeth a Rhyfel', a geisiodd archwilio dysgeidiaeth Duw ac Iesu am ryfel. Daeth i gasgliad tra bod 'ddeugain namyn un' o adnodau yn sôn am ddyletswyddau rhyfel yn yr Hen Destament, prin iawn oedd y sôn yn y Testament Newydd, gyda dim ond 'un amgylchiad ym mywyd yr Iesu, ar yr hwn y seilir amddiffyniad i ryfel.'⁴³⁷ Mynnodd fod dysgeidiaethau Iesu

⁴³² Jenkins, 'The Welsh Outlook', 470.

⁴³³ 'Second Bests', *Welsh Outlook*, Chwefror 1916, 47.

⁴³⁴ 'Second Bests', *Welsh Outlook*, Chwefror 1916, 48.

⁴³⁵ 'Second Bests', *Welsh Outlook*, Chwefror 1916, 48.

⁴³⁶ 'Second Bests', *Welsh Outlook*, Chwefror 1916, 49.

⁴³⁷ 'Cristionogaeth a Rhyfel', *Y Geninen*, Ebrill 1915, 73.

yn 'hollol groes i ryfel'. Sylwodd ar y rhethreg a fu yn y wlad yn ceisio cyfiawnhau'r rhyfel ar seiliau Cristnogol, a'r ymdrechion a wnaethpwyd i ddefnyddio crefydd fel grym i uno'r Cynghreiriaid. Roedd sôn am yr enwadau gwahanol yn ceisio uno yn yr ymgyrch yn anghyfforddus i Jones. Datganodd: 'Cristionogaeth yn llefain ag un llais mai rhyfel cyfiawn ydyw hwn' ond mynnodd yn gadarn nad oedd unrhyw sail i ryfel 'ar raglen gwareiddiad y groes.'⁴³⁸ Beirniadodd y gweinidogion a'r 'oreugwyr' a oedd yn apelio at ddynion i ymrestru yn y lluoedd arfog, gan ddadlau fod y 'canlynwyr ffyddlon' wedi 'methu a throedio y llwybr a droediodd Efe'.⁴³⁹

Taniwyd dadl yng nghylchgrawn deufisol y Bedyddwyr, *Seren Gomer*, mewn cyfres o ohebiaethau hir rhwng y Parchedig D. Powell, Lerpwl, a'r golygydd a chyfranwyr eraill y cylchgrawn. Yn ei erthygl, 'Teyrngarwch i Grist a Gwlad' beirniadodd Powell y golygydd, E. Ungoed Thomas, a ysgrifennodd ym mis Ionawr fod nifer o ysgrifau ynghylch y rhyfel yn 'annheilwng o wlad Gristnogol.'⁴⁴⁰ Argyhoeddiad Powell oedd bod y rhyfel yn un cyfiawn, er mwyn amddiffyn y ffordd Gymreig a Christnogol o fyw:

Er mai iawnderau Belgium yn arbennig a'i cyffrôdd ar y cychwyn i ddadweinio y cledd, ysbrydolir [y wlad] yn awr yn yr ymdrech gan hunan-amddiffyniad, ac amddiffyniad o ryddid y gwledydd ac enaid dynoliaeth. Y mae calon a chydwybod y wlad yn y rhyfel hon.⁴⁴¹

Drwy gyfeirio at sefyllfa Gwlad Belg ar ddechrau'r rhyfel, defnyddiodd Powell alegori o ddysgeidiaeth Crist i gyfleu'r rhesymeg dros fynd i ryfel. Roedd llofnod Prydain fel un o amddiffynwyr annibyniaeth Gwlad Belg yn ganolog i'w neges. Cwestiynwyd yn rhethregol a oedd Efengyl Crist yn 'ein dysgu i dyngu anudon ac i fod yn anffyddlon i'n cyfamodau?' Gofynnwyd hefyd a oedd yr Efengyl yn 'ein dysgu i redeg ymaith oddi wrth y gwan a ymrwymasom i'w amddiffyn?' Gofynnodd yn rhethregol:

A ydyw y wlad hon yn y rhyfel bresennol i'w chyfreithloni wrth safon yr Efengyl? Yr wyf fi yn ddibetrus yn ateb (...) Y mae ein gwlad yn y dyddiau hyn yn ymladd brwydrau Crist, ac nid yn ei groeshoelio.⁴⁴²

Ymatebodd golygydd *Seren Gomer* mewn ôl-nodyn gan ddatgan: 'nis gallwn mewn modd yn y byd gydweld a Mr. Powell fod teyrngarwch i wlad yn gyfystyr a theyrngarwch i Grist.'⁴⁴³

⁴³⁸ 'Cristionogaeth a Rhyfel', *Y Geninen*, Ebrill 1915, 75.

⁴³⁹ 'Cristionogaeth a Rhyfel', *Y Geninen*, Ebrill 1915, 75-76.

⁴⁴⁰ 'Teyrngarwch i Grist a Gwlad', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 70.

⁴⁴¹ 'Teyrngarwch i Grist a Gwlad', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 69.

⁴⁴² 'Teyrngarwch i Grist a Gwlad', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 76.

⁴⁴³ 'Teyrngarwch i Grist a Gwlad', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 78.

Dadleuodd fod y rhyfel presennol, fel rhyfeloedd y gorffennol, yn ofer, ac y deuai'r dydd pan welid yr oferedd hwn. Beirniadodd yn llym y gweinidogion hynny a oedd yn rhoi sêl bendith i'r rhyfel. Yn yr un rhifyn, nododd E. K. Jones: 'Ar y gore, barbariaeth ymarferol yw rhyfel, a thrais ar bob synnwyr a theimlad yw cyplysu enw Crist a hi o dan unrhyw amgylchiadau.'⁴⁴⁴

Ymatebodd Powell i erthygl Jones yn rhifyn Gorffennaf 1915 gan dynnu ar y Beibl: 'dywedaf, fod dysgeidiaeth y Testament Newydd, a dysgeidiaeth y Beibl drwyddo, yn cyfiawnhau rhyfel dan amgylchiadau neilltuol.'⁴⁴⁵ Nododd sut roedd nifer yn cyfeirio at y neges yn y Beibl o beidio â lladd – fel yn ôl y Deg Gorchymyn – ond dadleuodd Powell mai'r dehongliad cywir o hwn oedd peidio 'llofruddio', gan fod gorchmynion i roi mathau o droseddwyd i farwolaeth yn llyfr Exodus. Nododd enghraifft o'r Hen Destament o Dduw yn gorchymyn Moses i fynd i ryfel (yn erbyn y Midianiaid), ac un arall o'r Testament Newydd pan ddysgai'r Apostol Paul mai 'un o swyddogaethau'r wladwriaeth yw cosbi drwgweithredwyr a gwrthryfelwyr.'⁴⁴⁶ Heriodd Powell hefyd y gred boblogaidd Gristnogol o 'cerwch eich gelynyon' gan esbonio fod cariad yn gallu cael ei fynegi mewn sawl ffordd, megis atal a chosbi gweithredoedd 'anfadaith'.⁴⁴⁷ Rhoddwyd ôl-nodyn golygyddol arall i'r erthygl hon yn datgan: 'Cyhoeddwn yr uchod gyda gofid' a 'drwg gennyf fod Mr. Powell yn cefnogi'r apêl at gasineb.'⁴⁴⁸ Er gwrthwynebiad cryf *Seren Gomer* i ddadleuon D. Powell, dengys hyn fod y cylchgrawn wedi bod yn barod i gymryd rhan mewn trafodaeth ddiwinyddol ynghylch cyfiawnder a sancteiddrwydd y rhyfel.

Profodd yr ohebiaeth rhwng E. K. Jones a D. Powell yn ddadl ffyrnig yn nhudalennau *Seren Gomer*, gyda Hywel Cernyw Williams a'r golygydd hefyd yn cyfrannu ar brydiau. I Williams, a fu'n olygydd ei hun ar *Seren Gomer*, roedd y rhyfel yn llethu rhyddid y bobl, ac yn rhwystro rhag diwygio a gwneud cynnydd cymdeithasol. Er gwaethaf datgan fod 'bywyd dyn yn cyfrif dim' yn y rhyfel, gobeithiodd Williams y deuai 'daioni o'r mawr ddrwg hwn.'⁴⁴⁹ Cefnogodd hyn farn flaenorol Jones, a fynnodd ym mis Mawrth 1916: 'Gall fod yn bosibl, trwy help Duw, Gristioneiddio canlyniadau rhyfel; ond nis gall na Duw na dyn Gristioneiddio rhyfel ei hun.'⁴⁵⁰ Ond roedd Powell i'w weld yn mwynhau pigo cydwybod ei wrthwynebwyr drwy ddadlau fod y rhyfel yn gyfiawn ar sail Cristnogaeth. Gwawdiodd ef ymatebion E. K. Jones: 'nis gallaf lai

⁴⁴⁴ 'Rhyfel yng Ngoleuni Crist', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 88.

⁴⁴⁵ 'Teyrngarwch i Grist a Gwlad', *Seren Gomer*, Gorffennaf 1915, 203.

⁴⁴⁶ 'Teyrngarwch i Grist a Gwlad', *Seren Gomer*, Gorffennaf 1915, 206.

⁴⁴⁷ 'Teyrngarwch i Grist a Gwlad', *Seren Gomer*, Gorffennaf 1915, 204.

⁴⁴⁸ 'Teyrngarwch i Grist a Gwlad', *Seren Gomer*, Gorffennaf 1915, 207.

⁴⁴⁹ 'Rhyfel a Heddwch', *Seren Gomer*, Gorffennaf 1916, 201.

⁴⁵⁰ 'Rhyfel yng Ngoleuni Crist', *Seren Gomer*, Mawrth 1916, 93.

na gwenu at ffit y Parch. E. K. Jones.⁴⁵¹ Uwchlaw popeth, roedd y draffodaeth rhwng Powell a *Seren Gomer* yn enghraifft o sut heriwyd y gydwybod Gristnogol gan y rhyfel. Gofynnodd y rhyfel gwestiynau diwinyddol dwys i'r ymwybyddiaeth Gymreig, a throdd sawl un at adnodau'r Beibl i geisio profi fod y rhyfel yn gyfiawn neu'n anghyfiawn.

Efallai mai'r mynegiant mwyaf clir o wrthwynebiad i'r rhyfel ar sail Gristnogol yn y Wasg Gymreig oedd sefydlu *Y Deyrnas* yn 1916 o dan olygiaeth Thomas Rees. Roedd Rees yn gynbrifathro Coleg Bala Bangor, coleg ar gyfer myfyrwyr enwad yr Annibynwyr, ac wedi ei lwyr dadrithio gan y rhyfel. Yn ogystal ag ysgrifennu darnau golygyddol, cyfrannodd Rees erthyglau hefyd i'r cylchgrawn, gyda'i safiad fel heddychwyr yn etholaeth David Lloyd George yn un dewr a chydwybodol. Bu i Rees golli nifer o'i fyfyrwyr am ei safiad, a thafwyd ef allan o Glwb Golff Bangor yn ogystal.⁴⁵²

Fel un o hyrwyddiadau *Y Deyrnas* broliwyd mai hwn oedd yr unig bapur crefyddol Cymraeg nad oedd yn rhoi lle i hysbysiadau masnachol. Tystiolaeth oedd hyn, dadleuwyd, i 'ddwyster awydd am fynegi'r genadwri.'⁴⁵³ Denwyd cyfranwyr adnabyddus i'r teitl, a oedd bellach yn gweld llwyfan dilys a safonol i'w mynegiant gwrth-ryfel. Roedd eiconograffiaeth *Y Deyrnas* yn drawiadol iawn gyda phob rhifyn o fis Hydref 1916 tan fis Medi 1918 yn cynnwys delwedd bwerus ar y dudalen flaen. Yn y ddelwedd, dangosir dyn yn pwyntio'r ffordd tuag at y goleuni ar fryn gyda chroesau ar y copa, gan ennyn symbolaeth y bregeth ar y mynydd.⁴⁵⁴ Ar y graig ger y dyn, eistedda dau ddyn wedi eu clwyfo ac yn galaru, gyda gwraig a phlentyn wrth eu hochr, wrth i filwyr mewn lifrai ymosod yn y cefndir o dan gwmwl du rhyfel. O dan y ddelwedd gwelir adnod o Efengyl Luc: 'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da.' Roedd yr adnod yma yn rhan o neges yr angylion wrth y bugeiliaid ger Bethlehem wrth iddyn nhw gyhoeddi geni Iesu. Awgryma'r ddelweddaeth ddau lwybr posib y gellid eu cymryd yn y rhyfel presennol: un llwybr tywyll a gwaedlyd yn arwain at barhad rhyfel a dioddef, neu lwybr arall yn arwain at y goleuni tragwyddol. Roedd y cyferbynnu amlwg o fewn yr olygfa hon yn adlewyrchu safbwynt y cylchgrawn drwy geisio dangos na ellid cymodi Cristnogaeth â rhyfel.


⁴⁵¹ 'Teyrngarwch i Grist a Gwlad', *Seren Gomer*, Ionawr 1916, 37.

⁴⁵² D. Ben. Rees, 'Thomas Rees a'r Deyrnas', *Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru*, Mawrth 2016. <<https://wciavoices.wordpress.com/2016/03/09/thomas-rees-and-y-deyrnas/>> [cyrchwyd 03.11.16].

⁴⁵³ 'At Ein Darllenwyr', *Y Deyrnas*, Rhagfyr 1917, 1.

⁴⁵⁴ Mae'r bregeth ar y mynydd i'w ganfod ym mhenodau pump, chwech, a saith, Efengyl Matthew, ac yn cyfeirio at gasgliad o ddysgeidiaethau Iesu a oedd yn pwysleisio agweddau moesol.

Ffigwr 2.3: Eiconograffiaeth tudalen flaen *Y Deyrnas*



Roedd neges y cylchgrawn yn glir gyda ‘Colofn y Gwrthwynebwy Cydwybodol’ yn cael ei chyhoeddi ym mhob rhifyn o’r *Deyrnas* o fis Hydref 1917 tan ddiwedd y rhyfel, ac eithrio Awst 1918. Gwelwyd yn rhifyn cyntaf *Y Deyrnas* ddatganiad cenhadaeth y cylchgrawn, wrth iddi nodi’n feirniadol: ‘Gyrrwyd ni i gywilydd am na fu Cristionogaeth Ewrob yn wrthglawdd digonol yn erbyn y rhyferthwy dinistriol. Yn wyneb hyn oll, rhaid fod rhywbeth i’w dystiolaethu yn enw Teyrnas Dduw.’⁴⁵⁵ Credai *Y Deyrnas* yn gryf yn ei ddyletswydd i ledu ysgrifau pasiffistaidd a heddychlon, ac roedd ei chynnwys ar hyd y blynyddoedd yn frith o’r fath erthyglau a chyfraniadau.

Er i’r cylchgrawn adnabod rhethreg rhesymau’r rhyfel fel un dros ‘rhyddid a chyfiawnder ac annibyniaeth i genhedloedd bychain’, doedd *Y Deyrnas* ddim yn argyhoeddedig. Yn ei olygyddol ym mis Rhagfyr 1916, mynegodd Thomas Rees ei fod yn bryd ‘gwasgu ar y llywodraeth iddynt ddwedyd yn ddiamwys beth yr ymleddir am dano.’⁴⁵⁶ Galwyd y colledion bywyd a’r dinistr gwledydd yn ‘annirnadwy’ a beirniadwyd y syniad mai rhyfel er mwyn rhyddid oedd hi drwy ddadlau mai colled rhyddid a wnaed ym mhob agwedd o gymdeithas, boed y Wasg, llafur, addysg, crefydd, neu waith. Cyfeiriwyd at y ddeddf orfodaeth filwrol fel ‘anghenfil’ a bu pryder ymysg ei chyfranwyr y byddai Prydain yn troi yn wlad filwriaethus yn union fel y gwnaethpwyd yn yr Almaen. Rhybuddiodd W. O. Jones, er enghraifft, y byddai

⁴⁵⁵ *Y Deyrnas*, Hydref 1916, 12.

⁴⁵⁶ ‘Egwyddorion ac Amgylchiadau’, *Y Deyrnas*, Rhagfyr 1916, 2.

Prydain yn troi mewn i 'un gwersyll milwrol, a cherrig beddau y bechgyn yn gerrig sylfeini militariaeth.'⁴⁵⁷

Ar y cyfan, gwawdiodd *Y Deyrnas* y ddadl mai rhyfel sanctaidd oedd hon. Fel nododd T. E. Nicholas, 'gwaith apostolion rhyfel yw sancteiddio'u gwaith.'⁴⁵⁸ Ystyriodd Nicholas y rhesymau dros gychwyn y rhyfel, a gan wrthod yn llwyr unrhyw ddadl foesol neu grefyddol, daeth i'r casgliad: 'Cyn symud rhyfeloedd, rhaid symud y pethau sydd yn eu hachosi. Ceisiaf ddangos rywbryd eto fod rhyfeloedd yn ganlyniad rhesymol a bythol i gyfalafiaeth. Duw gadwo'r werin!'⁴⁵⁹ Er nad yn enwi cyfalafiaeth, roedd teimladau Thomas Rees yn debyg: 'Ni ellir pwysleisio'n rhy aml mai ysbryd eiddigeddus, gelyniaethus a maleisus yw hanfod rhyfel a'r pechod mwyaf yn erbyn Duw'.⁴⁶⁰ Trwythwyd tudalennau'r *Deyrnas* gydag ysgrifau llw o Gristnogion selog ledled y wlad, yn cyfiawnhau eu gwrthwynebiad crefyddol i'r rhyfel.

Roedd sefydlu *Y Deyrnas* yn arwydd clir o anniddigrwydd crefyddol Cymreig ynghylch y rhyfel. Dengys fod naratif o wrthwynebiad wedi bodoli yn gyfochrog ag un cefnogol o fewn y ddisgwrs grefyddol ehangach. Roedd cyfranwyr y cylchgrawn yn adnabyddus iawn, a byddai'r *Deyrnas* wedi cynnig ffynhonnell bwysig i'r drafodaeth ar ystyron y rhyfel. Ynghyd â thrafodaeth ddwys *Seren Gomer*, a sawl erthygl ysbeidiol arall roedd gwrthwynebiad crefyddol *Y Deyrnas* yn adlewyrchu agwedd bwysig o ddiwylliant rhyfel Cymru'r cyfnod.

Dyrchafu Crefydd

Dadansodda Dafydd Densil Morgan yr ymryson crefyddol a fu yng Nghymru yn ystod y rhyfel, gan nodi sut ystyriwyd y rhyfel gan rai fel datrysiad i'r argyfwng ysbrydol a ddatgelwyd ar gychwyn y rhyfel.⁴⁶¹ Cyfeiria Morgan at erthygl olygyddol Ionawr 1916 cylchgrawn yr Eglwys, *Y Cyfaill Eglwysig*, lle dywedwyd fod y rhyfel yn 'grwsâd yn erbyn diystyrwch Diwrnod yr Arglwydd'.⁴⁶² Mae'n tynnu sylw hefyd at erthygl *Y Llan a'r Dywysogaeth* yn yr un mis a nododd:

Y bydd ein milwyr, ar eu dychweliad o faes y gwaed, wedi eu difrodi gan eu profiadau chwerwon, ac y bydd yn angenrheidiol i'r Eglwys

⁴⁵⁷ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Tachwedd 1917, 8.

⁴⁵⁸ 'Rhyfel Sanctaidd!' *Y Deyrnas*, Mai 1917, 9.

⁴⁵⁹ 'Rhyfel Sanctaidd!' *Y Deyrnas*, Mai 1917, 9.

⁴⁶⁰ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Hydref 1917, 1.

⁴⁶¹ Dafydd Densil Morgan, *The Span of the Cross: Christian Religion and Society in Wales 1914-2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2011), tt.41-77.

⁴⁶² Morgan, *The Span of the Cross*, t.66.

ddarparu yn briodol i'w derbyn a'u harwain. I'r dyben hynny amcenir cynnal Cenhadaeth Genedlaethol yn ystod rhan gyntaf o dymor y Garawys er dyfnhau bywyd ysprydol yn yr Eglwys.⁴⁶³

Crisialodd golygydd *Y Gymraes*, Alice Gray Jones, y farn ehangach pan nododd ym mis Medi 1916: 'Ni fydd ennill brwydrau a choncro teyrnasoedd yn ddim mantais, os na wneir pob ymdrech posibl i ddyrchafu y genedl yn foesol.'⁴⁶⁴ Daeth 'dyrchafiad' y genedl yn syniad nerthol wrth ystyried y dyfodol. Yn y drafodaeth hon, gwelwyd ymgais i ddiffinio swyddogaeth yr Eglwys – a Christnogaeth – wedi i'r rhyfel orffen. Argyhoeddwyd nifer fod y rhyfel yn cynrychioli cychwyn oes newydd. Cynrychiolai'r rhyfel gyfnod o newid mawr wrth i fyd newydd ymddangos ar y gorwel, gan ddisodli'r hen fyd. Byddai hen arferion, egwyddorion, a strwythurau cymdeithasol yn cael eu disodli gan rai newydd yn dilyn y rhyfel. Rhoddwyd ystyriaeth ddwys i rôl Cristnogaeth wedi'r rhyfel ac i sut ddylai'r Eglwys a Christnogion ymateb i'r newidiadau ar fyd. Fel mynegodd y Parchedig Pierce Owen yn 1917: 'colled mawr fydd ennill y frwydr, os na fanteisia crefydd arni.'⁴⁶⁵ Cychwynwyd y drafodaeth yn gynnar yn y rhyfel ond yn 1917 cynyddwyd y ffocws ar ddyletswyddau Cristnogaeth sefydliadol y dyfodol. Cwestiynwyd yn benodol a fyddai'r eglwysi yn barod i addasu i'r byd newydd, drwy egluro aberth fawr yn maes y gad, ac i gynnig i'w gwrandawyr bwrpas newydd mewn byd newydd.

Roedd canfyddiad bod methiant Cristnogaeth yn ogystal â thwf militariaeth yn gyfrifol am y rhyfel. Yn hyn o beth, gofynnwyd yn gyson sut ddyfodol oedd i Gristnogaeth. Holodd G. Bedford Roberts yn *Y Geninen* yn 1916: 'A drengodd [yr eglwys] yn y ddrycin? A foddwyd yr arch yn niluw y gyflafan erch?'⁴⁶⁶ Rhagwelodd Roberts gyfnod newydd wedi i'r rhyfel orffen gan gydnabod fod rhaid i'r Eglwys gynnig atebion newydd i broblemau'r byd: 'dilys yw fod ganddi waith mawr cyfaddasu ei hun ar gyfer y problemau newydd ddaw.'⁴⁶⁷ Profodd y rhyfel yn argyfwng i grefydd sefydliadol, a thybiodd Roberts fod Cymru Gristnogol 'ar y groesffordd.'⁴⁶⁸ Nid llais unigryw oedd hwn ond un cynrychioladol o sawl un a bryderai fod grymoedd materol wedi disodli'r hen rymoedd ysbrydol. Mynegodd Aelod Seneddol Rhyddfrydol Trefaldwyn, ac ariannydd y *Welsh Outlook*, David Davies yn 1918 yr un gofid:

⁴⁶³ *Y Llan a'r Dywysogaeth*, 28 Ionawr 1916, 5.

⁴⁶⁴ 'Gwaith y Merched ar ôl y Rhyfel', *Y Gymraes*, Medi 1916, 130.

⁴⁶⁵ 'Rhai O Wersi Y Rhyfel Presennol', *Y Traethodydd*, Ionawr 1917, 80.

⁴⁶⁶ 'Yr Eglwys A'r Dyfodol', *Y Geninen*, Hydref 1916, 252.

⁴⁶⁷ 'Yr Eglwys A'r Dyfodol', *Y Geninen*, Hydref 1916, 252.

⁴⁶⁸ 'Yr Eglwys A'r Dyfodol', *Y Geninen*, Hydref 1916, 253.

There is a widespread belief in many quarters that the Church has lost her hold upon humanity, and that more and more, as time goes on, mankind is drifting into the religion of materialism.⁴⁶⁹

Cafodd rôl yr Eglwys ei feirniadu ar sawl achlysur, fel y gwelwyd gan Edward Davies yn *Y Deyrnas* ym mis Medi 1917. Wrth grynhai digwyddiadau o Gynhadledd Heddwch Llandrindod yr haf hwnnw, datganodd fod yr Eglwys wedi, ‘colli gafael ar y werin oherwydd aneglurder llais y pulpud ar gwestiynau mawr y dydd.’⁴⁷⁰ Ystyriwyd y rhyfel yn dystiolaeth fod yr Eglwys sefydliadol wedi methu yn ei chenhadaeth.

Yn yr un modd, rhybuddiodd W. R. Jones yn *Y Traethodydd* yn 1916 y byddai'r rhyfel yn effeithio ar foesoldeb y wlad drwy ‘feithrin ysbryd milwrol’. Er yn gefnogol i'r rhyfel, roedd Jones yn ofalus i osgoi mabwysiadu rhai o werthoedd y rhyfela: ‘Y mae rhyfel o fath hwn’, dywedodd, ‘yn rhwym o ddeffroi a chyffroi y teimladau isaf, mwyaf bwystfilaidd, a dieflig ynom, a thuedda yn gryf i feithrin ysbryd milwrol.’⁴⁷¹ Heb os, roedd y Ddeddf Gorfodaeth wedi llywio’i ganfyddiadau. Ond gwelai Jones y rhyfel fel cyfle i genhadaeth newydd. Ceisiodd ef ‘brofi’ fod y rhyfel yn orfodol i Gristnogion er mwyn cymodi dyn gyda Duw: ‘Yn yr Eglwys yng nghymdeithas ein Duw a’n Tad deffroir ynom y teimladau mwyaf tyner, llednais a charuaid, a marweiddir yr elfennau bwystfilaidd a dieflig.’⁴⁷² Caed pwyslais tebyg yn rhifyn Mehefin 1916 *Y Gymraes*, gyda Kate Ellis yn gofidio dros gyflwr ieuencid y genedl, yn enwedig merched a oedd mewn perygl o ‘golli ei lledneisrwydd, ei gwyleidd-dra, a’r pethau hanfodol hynny sydd yn prydfferthi ac yn gosod urddas ar gymeriad merch.’⁴⁷³ Ateb Ellis oedd cydio’n gryfach yn y ffydd Gristnogol, yn unol â neges y golygydd, Alice Gray Jones, a blediodd cenadwri Gristnogol fel arf rhyfel yn ogystal â modd o fuddsoddi moesau i gymdeithas y dyfodol:

Y mae y fyddin a’r llynges a’r cadfridogion ar eu goreu yn y rhyfel bresennol – ond mor wir a hynny, y mae y *gweddiwyr* yn gwneud rhan bwysig yn y ddwy frwydr fawr. Rhai anhawdd i’w gorchfygu yw y milwyr ar eu gliniau! “Llefasant ar Dduw yn y rhyfel, ac Efe a wrandawodd arnynt, oherwydd iddynt hwy obeithio ynddo”.⁴⁷⁴

Cynigiwyd atebion tebyg gan eraill a welai'r rhyfel fel arwydd pendant i'r Eglwys sefydliadol ailgydio ym mywyd a threfn cymdeithas. Dadleuodd J. Bennet Williams yn *Y Traethodydd* yn

⁴⁶⁹ ‘The Church and the League of Nations’, *Welsh Outlook*, Mehefin 1918, 179.

⁴⁷⁰ ‘Gwersi’r Gynhadledd’, *Y Deyrnas*, Medi 1917, 7.

⁴⁷¹ ‘Yr Eglwys A'r Rhyfel’, *Y Traethodydd*, Ebrill 1916, 157.

⁴⁷² ‘Yr Eglwys A'r Rhyfel’, *Y Traethodydd*, Ebrill 1916, 159.

⁴⁷³ ‘Beth Fydd Effaith y Rhyfel ar Gymeriadau ein Hieuencid?’, *Y Gymraes*, Mehefin 1916, 89.

⁴⁷⁴ ‘Cenadwri yr Angel’, *Y Gymraes*, Mehefin 1916, 81.

1918: ‘onid oes yn awr gyfle gwell nag a fu erioed i egluro a chymell Gwirioneddau hanfodol ein Crefydd i ystyriaeth dynion?’⁴⁷⁵ Yn yr un modd, galwodd G. Bedford Roberts am ‘amrywiaeth’ o fewn yr Eglwys fel ffordd o ddarpariaeth i’r gwrandawyr ar gyfer yr oes newydd, drwy gynnwys dosbarthiadau'r celfyddydau a'r gwyddorau.⁴⁷⁶ Nododd J. Lewis Williams ‘cyfle’ yr eglwys i arwain gwareiddiad wedi’r rhyfel: ‘Dyma angen yr oes, a dyma gyfle yr Eglwys – rhoddi neu ddangos safon bywyd ysbrydol i’r byd.’⁴⁷⁷ Aeth T. E. Nicholas gam ymhellach yn *Y Deyrnas* wrth ddadlau dros allu’r Eglwys a Christnogaeth yn y dyfodol nid yn unig i adfywio cymdeithas, ond hefyd i Grist ‘lywodraethu’r byd’: ‘Sonia rhywrai am fyd newydd; ond os mai’r dynion a ddamniodd yr hen fyd fydd ben, gwae fydd i’r byd newydd wedyn. Rhaid i’r Eglwys fynnu llais i Grist yn y byd newydd.’⁴⁷⁸ Gwelodd Nicholas filwriaeth fel y drygioni a fodolai ym mhob gwlad, ac i warchod rhag milwriaeth y dyfodol, galwodd ar yr Eglwys i gynnig i’w phobloedd ddehongliad mwy ‘cywir’ o Grist a fyddai’n briodol i’r byd newydd.

Ategwyd y syniad o fyd newydd yn dyfod ymysg trafodaethau gwleidyddol am sefydlu Cynghrair y Cenhedloedd wedi’r rhyfel, gyda’r bwriad o geisio lleddfu’r posibilrwydd o ryfel yn y dyfodol. Un cefnogwr brwd o Gynghrair y Cenhedloedd oedd David Davies. I Davies, byddai rhaid i’r Eglwys ddod yn gyfryngwr i syniadau’r oes newydd er mwyn adennill ei hygredded a’i grym mewn cymdeithas. Galwodd ar yr Eglwys i adfer ei statws fel grym cymdeithasol drwy gysoni at ei hegwyddorion gweledigaeth wleidyddol Cynghrair y Cenhedloedd. Byddai methiant yr Eglwys i sefydlu hyn yn drychineb: ‘Will it not be truthfully said that if the Church loses this opportunity, our profession of religion is a sham and an illusion?’⁴⁷⁹ Wedi ei argyhoeddi dros gyfiawnder y rhyfel, galwodd Davies am ‘aberth’ er mwyn gwireddu dyfodol yn seiliedig ar egwyddorion Cristnogol:

When the issues at stake are vital to the moral progress of the human race, compromise is unthinkable. Sacrifice for an ideal, and for the Right, is the watchword of the New Testament (...) The duty of the Church lies rather in the purification of our war-aims, and in preparing the minds of her followers for a righteous reconstruction of the world. Above all, she should insist that the new structure should be based upon the principles of Christianity.⁴⁸⁰

⁴⁷⁵ ‘Y Pulpud A’r Argyfwng Presennol’, *Y Traethodydd*, Ebrill 1918, 130.

⁴⁷⁶ ‘Yr Eglwys A’r Dyfodol’, *Y Geninen*, Hydref 1916, 253.

⁴⁷⁷ ‘Brwydr y Teyrnasoedd’, *Y Geninen*, Ebrill 1918, 93.

⁴⁷⁸ ‘Llywodraeth Crist ar y Byd drwy ei Eglwys’, *Y Deyrnas*, Medi 1917, 12.

⁴⁷⁹ ‘The Church and the League of Nations’, *Welsh Outlook*, Mehefin 1918, 179.

⁴⁸⁰ ‘The Church and the League of Nations’, *Welsh Outlook*, Mehefin 1918, 180.

Cefnogwyd safbwynt Davies mewn llythyr gan y diwinydd a'r llenor, David Miall Edwards yn rhifyn mis Gorffennaf. Roedd Edwards ar y pryd yn dal y Gadair Athroniaeth Crefydd ac Athrawiaeth Gristnogol yng Ngholeg Coffa, Aberhonddu, a hefyd yn olygydd y papur enwadol *Y Dysgedydd*. Credodd Edwards fod amcanion y gwleidyddion yn urddasol ac yn gywir, ond ni fedrai Cynghrair y Cenhedloedd lwyddo heb gefnogaeth 'foesol' cymdeithas. 'And who is to supply this', meddai Edwards, 'if not the Churches?'⁴⁸¹ Roedd llythyr Edwards yn adlewyrchiad o'r ystyriaeth reolaidd a roddwyd yn y Wasg yn 1918 ynghylch rôl sefydliadol yr eglwys.

Bodolai canfyddiad yn y Wasg y byddai cyfnod o ailstrwythuro cymdeithasol yn digwydd wedi'r rhyfel, a byddai rôl ganolog i'r Eglwys yn y drefn newydd. Myfyriodd Herbert Lewis am swyddogaeth yr Eglwys: '[The Church has a] duty to cultivate such a sense of justice and such a sensitiveness of conscience in its members.'⁴⁸² Fe'i hargyhoeddwyd fod dyletswydd gan yr Eglwys i fagu toreth o gyfiawnder ymysg ei haelodaeth. Byddai hyn yn ei dro yn ennyn ac yn hybu ymagweddau tebyg yn y gymdeithas ehangach, ac yn dyst i gyfraniad yr Eglwys tuag at y strwythuro cymdeithasol. Galwodd Lewis am waredu digwyddiadau llwgr o fewn yr Eglwys megis taliadau llai na'r cyflog byw gan swyddogion yr Eglwys i'w gweithwyr. Galwad oedd hyn am ddiwygio diwylliannol o fewn yr Eglwys. Tebyg oedd neges J. Bennet Williams a alwodd am ddehongliad newydd o'r efengyl, i gyd-fynd gyda chyfnod newydd yn hanes dyn. Nododd: 'Y mae yn awr gyfle ardderchog i ddehongli gwirioneddau sylfaenol Crefydd mewn *setting* newydd.'⁴⁸³ Rhoi pwysau ar yr eglwysi i ddiwygio oedd y bwriad er mwyn iddynt allu ymateb yn well i amodau ac anghenion y byd newydd yn dilyn y rhyfel.

Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o uno'r enwadau gwahanol yng Nghymru. Mor gynnar ag Ionawr 1917, mynegodd 'Simon Selotes' fod y rhyfel wedi llwyddo i wanhau'r rhwystrau enwadol a fodolai mewn Anghydfurfiaeth. Gyda'r rhyfel yn cael ei ymladd yn enw Crist, nid oedd unrhyw le ar gyfer sectyddiaeth Gristnogol. Unodd y rhyfel y gwahanol enwadau mewn achos cyffredin gan gynnig mewnwelediad posib i'r dyfodol. Galwyd y posibilrwydd hwn yn un o ganlyniadau 'mwyaf bendithiol' y rhyfel, gyda'r gobaith y byddai'r enwadau yn nesáu at ei gilydd yn y dyfodol a rhoi i'r naill ochr daliadau oedd yn gwrthdaro.⁴⁸⁴ Cyfeiriwyd at gynlluniau yn Lloegr i sefydlu Eglwys Rydd Genedlaethol ac yn yr Alban alwadau i uno'r

⁴⁸¹ 'Correspondence', *Welsh Outlook*, Gorffennaf 1918, 233.

⁴⁸² 'The Church in Relation to War and After-War Conditions', *Welsh Outlook*, Hydref 1918, 298.

⁴⁸³ 'Y Pulpud A'r Argyfwng Presennol', *Y Traethodydd*, Ebrill 1918, 127.

⁴⁸⁴ 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Ionawr 1917, 26-27.

enwadau â'i gilydd. Ymddengys fod y rhyfel wedi datgelu'r rhinweddau cyffredin rhwng yr enwadau:

Ac onid yw'n bryd bellach tewi a sôn, yng Nghymru, am Gydffurfwyr ac Anghydfurfwyr, am Eglwys Sefydledig ac Eglwysi Rhyddion. Nid oes ystyr mwyach i'r termau hyn a'u tebyg, oblegid yr ydym *oll* yn eglwysi rhyddion a chydadd. Ac heblaw hynny, yr ydym oll yn un o ran credo, – yn addoli'r un Duw, yn canu'r un emynau, ac yn gobeithio am yr un nefoedd.⁴⁸⁵

Yn yr un rhifyn, awgrymodd y clerigwr a'r bardd Robert Williams sefydlu undeb a fyddai'n llwyfan unedig i holl enwadau Ymneilltuaeth. Roedd Williams yn ficer Betws Garmon a churad parhaol y Waun Fawr. Dadleuodd y byddai uno enwadau Ymneilltuaeth yn cryfhau'r enwadau ac yn eu paratoi'n briodol ar gyfer unrhyw ryfel yn y dyfodol drwy lefaru gydag un llais:

Gallem, yn un enwad cryf, gario dylanwad mawr i ddwyn diwygiadau cymdeithasol i ddeddfwriaeth y wlad. Ac nid ydym yn hollol sicr na bydd yn rhaid ail ymladd eto frwydrau rhyddid crefyddol gyda mwy o angerddoldeb nag a fu yn rhan i neb o honom ni. Byddai i ni fod yn un yn help mawr yn nydd y frwydr.⁴⁸⁶

Dengys y drafodaeth hon fod crefydd sefydliadol Cymru adeg y rhyfel wedi ystyried cael ei ganoli neu'i uno. Mewn sawl achos, dehonglwyd nod y rhyfel fel un cyffredin i holl enwadau'r Anghydfurfwyr. Ymddengys fod natur y rhyfel wedi achosi sawl sylwebydd i roi ystyriaeth ddifrifol i ddyfodol Cristnogaeth sefydliadol. O ganlyniad cynigiwyd syniadau o ganoli a chryfhau Ymneilltuaeth yn dilyn y rhyfel i warchod rhag rhwystredigaeth a gwrthdaro yn y dyfodol.

Yn ogystal â diwygio sefydliadol, soniwyd hefyd am ddiwygio ysbrydol fel ymateb i'r rhyfel. Wrth sôn am effeithiau'r rhyfel yn 1917, nododd gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, John Davies, yn *Y Geninen*: 'Dyma ni rhwng mynyddoedd a bryniau ein gwlad â'n gwisg genedlaethol yn ddarnau ar y llawr a'n hanrhydedd yn y llwch.'⁴⁸⁷ Serch y ddelwedd dywyll ac anobeithiol hon, roedd gobaith y byddai'r dyfodol yn un llewyrchus yn dilyn y rhyfel. Profodd y rhyfel i sawl un fel 'wawr' newydd yn torri. Ysgrifennodd Davies am 'greu daear newydd' trwy 'wneud nefoedd newydd'. Nid oedd cyflwr presennol Cristnogaeth y wlad yn 'foddhaol' i Davies. Y gobaith oedd i 'ddyrchafu'r wlad' yn dilyn y rhyfel: 'Os yw crefydd i

⁴⁸⁵ 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Ionawr 1917, 27.

⁴⁸⁶ 'Undeb yr Enwadau', *Y Geninen*, Ionawr 1917, 34.

⁴⁸⁷ 'Nefoedd Newydd a Daear Newydd', *Y Geninen*, Ebrill 1917, 84.

barhau yn ei dylanwad ar ein gwlad, rhaid yw ei dyrchafu i dir uwch ac awyrgylch gliriach nag y mae ynddo ar hyn o bryd.⁴⁸⁸ Mynegodd hefyd y syniad bod y rhyfel yn gyfle i ‘buro’ cymdeithas a dadleuodd dros ‘undeb ysbryd’ a ‘meithrin *esprit de corps*’ ymysg yr enwadau. Drwy wneud, ‘fe grëir nefoedd newydd, a cha’n gwehelyth fwynhau daear newydd, a Chymdeithas newydd – burach ac iachach.’⁴⁸⁹

Bwriad y gymdeithas newydd, ‘burach ac iachach’ oedd rhoi terfyn ar ryfeloedd y dyfodol. Un ffordd o wireddu hyn fyddai i sefydlu ‘brawdgarwch Cristnogol’. Dyma oedd gweledigaeth D. Stanley Jones a ysgrifennodd i’r *Deyrnas*. I Jones, byddai’r ‘brawdgarwch Cristnogol’ yn seiliedig ar ‘berthynas ysbrydol dynion â’i gilydd yn Iesu Grist’ yn hytrach na fel aelodau o’r un genedl.⁴⁹⁰ Roedd y rhyfel yn symptom nid o fethiant Cristnogaeth, ond yn hytrach methiant yr Eglwys i gymhwyso’r efengyl. Yn rhifyn nesaf *Y Deyrnas*, mynnodd yr athro a’r llenor, John Evan Thomas, fod y rhyfel ddim yn ymwneud â ‘rhyddid’ a ‘chyfiawnder’ ond yn hytrach yn ganlyniad ‘anocheladwy syniadau cyfeiliornus ymhob gwlad am ddyletswydd dyn at ddyn, a dyn at Dduw.’⁴⁹¹ Os gall yr Eglwys fuddsoddi brawdgarwch Cristnogol yn ei dilynwyr, byddai’r ysbryd Cristnogol, drwy ei natur draws wladol, yn drech na grym cenedlgarwch ac yn drech nag unrhyw wrthdaro rhwng gwladwriaethau. Esboniodd Thomas: ‘Rhaid i amcanion cenedlaethol ac ymerodraethol gael eu symud o’r neilltu, a gosod lles cyffredinol dynoliaeth yn eu lle.’⁴⁹²

Roedd pwyslais yr ‘ysbryd’ yn fwy amlwg mewn rhai cyhoeddiadau nag eraill. Ysgrifennodd J. Lewis Williams yn *Y Geninen* yn 1918 mai ‘un o wendidau pennaf bywyd ein hoes yw ei bod wedi colli safonau ysprydol i’w bywyd’.⁴⁹³ Fel cylchgrawn heddychol gwrth-ryfel, roedd yr ‘ysbryd’ i’w weld yn fwy amlwg yng nghynnwys *Y Deyrnas*. Mewn apêl i Gristnogion i ddechrau adeiladu byd gwell, datganodd Thomas Rees yng ngolygyddol mis Rhagfyr 1917:

A phrif waith pob Cristion bob dydd hyd ddiwedd y rhyfel a ddylai fod creu barn ac ysbryd yn y wlad hon, trwy weddi, myfyrdod a dadl, a phob moddion moesol ac ysbrydol, a gynhyrchai lywodraeth gymwys a pharod i apelio at reswm ac ysbryd Germani ac Awstria, fel y codai ac y tyfai yno ysbryd rheswm a thangnefedd mewn atebiad.⁴⁹⁴

⁴⁸⁸ ‘Nefoedd Newydd a Daear Newydd’, *Y Geninen*, Ebrill 1917, 85.

⁴⁸⁹ ‘Nefoedd Newydd a Daear Newydd’, *Y Geninen*, Ebrill 1917, 85.

⁴⁹⁰ ‘Henry Richard: Apostol Heddwch’, *Y Deyrnas*, Ionawr 1917, 5.

⁴⁹¹ ‘Y Deml Newydd’, *Y Deyrnas*, Chwefror 1917, 12.

⁴⁹² ‘Y Deml Newydd’, *Y Deyrnas*, Chwefror 1917, 12.

⁴⁹³ ‘Brwydr y Teyrnasoedd’, *Y Geninen*, Ebrill 1918, 93.

⁴⁹⁴ ‘Egwyddorion ac Amgylchiadau’, *Y Deyrnas*, Rhagfyr 1917, 2.

Trafodwyd eisoes yn y Wasg y syniad o geisio ‘puro’ cymdeithas. Ysgrifennodd O. M. Edwards ym mis Rhagfyr 1914, er enghraifft: ‘Gwyr llawer cenedl, ar ddiwedd y flwyddyn hon, ei bod yn mynd i’r pair, ac y daw allan, naill ai yn lludw neu wedi ei phuro megis drwy dân.’⁴⁹⁵ Awgrymodd Thomas H. Hughes yn 1916 fod y rhyfel yn gyfle i ‘buro’ cymdeithas drwy ‘ddwyn pob gradd a dosbarth yn y Deyrnas at eu gilydd’.⁴⁹⁶ Fel un arall a welodd y rhyfel fel cyfle i ffurfio cymdeithas well ar gyfer y byd newydd, disgrifiodd Hughes y rhyfel yn ‘foddion’. Awgrymwyd hefyd sut y byddai dynesiad agosach rhwng Cristnogaeth Uniongred, Babyddol, a Phrotestannaidd yn dilyn y rhyfel wrth i fwy o gydweithrediad a chysylltiadau ddatblygu rhwng y Cynghreiriaid buddugol, Prydain, Ffrainc, yr Eidal, a Rwsia:

Mae y rhyfel eisoes wedi dwyn bonedd a gwrêng yn agosach at eu gilydd yn rhwymau brawdgarwch. Un o enillion amlwg y rhyfel fydd dwyn yr uchel a’r isel – bonedd a gwreng, i sylweddoli fwyfwy mai “brodyr o’r un bru ydynt.”⁴⁹⁷

Argyhoeddwyd sawl un felly, boed yn heddychwyr neu’n gefnogwyr i’r rhyfel, y gellid dwyn ar y cyfle i ddiwygio bywyd crefyddol y wlad. Cynrychiolodd hyn un o ‘enillion’ y rhyfel, ac yn wir, llwyddodd rhai sylwebwyr i gysylltu’r enillion crefyddol gyda’r cysyniad o ‘rhyddid’ sef diffiniad ehangach o un o nodau’r rhyfel. Nid yn unig ‘rhyddid’ cenedloedd oedd nod y rhyfel, ond hefyd ystyriwyd ‘rhyddid’ ar lefel yr unigolyn; rhyddid yr enaid. I wireddu hyn, dadleuodd R. Hugh Davies yn *Y Geninen* y dylid ailystyried ymarferoldeb Ymneilltuaeth drwy bwysleisio ei ‘symledd a’i gweriniaeth’.⁴⁹⁸ Eto, cyfeiriai hyn at rôl sefydliadol yr Eglwys a’r amcan o ailddehongli’r efengyl a sicrhau fod Ymneilltuaeth o fewn cyrraedd pawb. O wneud, byddai ‘rhyddid ysbrydol’ yn cael ei weithredu gan y werin.

Roedd y trafodaethau yn y Wasg ynghylch rôl Cristnogaeth ar ôl y rhyfel yn enghraifft o elît Cymru yn dygymod nid yn unig gydag effeithiau’r rhyfel ar grefydd, ond hefyd dyfodiad moderniaeth. Ystyriwyd gan sawl un fod yr hen fyd yn cael ei ddisodli gan y rhyfel, ac felly trodd y drafodaeth i ystyried sut i greu cymdeithas Gristnogol i’r dyfodol. Yn ganolog i’r drafodaeth hon oedd addasu’r Eglwys a’r efengyl i gwrdd ag anghenion yr oes newydd. Fel soniodd J. Davies yn *Y Geninen*, roedd galw bellach ar ‘arweinwyr’ crefyddol i arwain bywyd ac enaid y wlad. Dywedodd: ‘y mae angen am wir arweinwyr i’w dyrchafu i dir uwch o fyw.

⁴⁹⁵ ‘Crefydd a Rhyfel’, *Cymru*, Rhagfyr 1914, 250.

⁴⁹⁶ ‘Pa Les Ddaw o’r Rhyfel?’, *Y Geninen*, Ebrill 1916, 131.

⁴⁹⁷ ‘Pa Les Ddaw o’r Rhyfel?’, *Y Geninen*, Ebrill 1916, 131.

⁴⁹⁸ Ymneilltuaeth a’r Cyfnod Presennol’, *Y Geninen*, Gorffennaf 1918, 170.

Nid trwy ddeddfau seneddol y ceir yr adnewyddiad hwn.⁴⁹⁹ Y bwriad felly oedd i ‘ddyrchafu’ crefydd i lwyfan a fyddai unwaith eto yn rhoi trefn ar gymdeithas a gwleidyddiaeth y wlad.

Diwedd glo

Dadleua Alan Kramer fod diwylliant dominyddol ledled Ewrop wedi rhuthro i’r achos cenedlaethol ar gychwyn y rhyfel.⁵⁰⁰ Profodd crefydd yn arf diwylliannol i bob un o’r gwledydd wrth i’r eglwysi uniaethu gyda’r lluoedd arfog a pholisïau’r llywodraethau. Roedd deallusion, esgobion, gweinidogion, a chaplaniaid yn flaenllaw yn cyflwyno naratif crefyddol gyda nifer yn crybwyll y syniad o ryfel cyfiawn yn eu rhethreg. Yn yr Almaen, gwelir dylanwad Protestaniaeth y wlad fel grym a gynigiai math o ollyngdod moesol, gyda’r rhyfel yn cael ei weld fel barn Duw. Yn yr Eidal, gwelwyd trafodaeth am syniadaeth rhyfel cyfiawn Awstin Sant, tra gwelwyd Ffrancod yn cydio yn y gred mai Ffrainc oedd merch hynaf yr Eglwys ac y byddai’r rhyfel yn ‘paratoi’ achubiaeth y genedl.⁵⁰¹ Yn Lloegr hefyd, llwyddodd agweddau o Eglwys Loegr i gorddi rhethreg Gristnogol wrth i Esgob Llundain, A. F. Winnington-Ingram, gyhoeddi fod y rhyfel yn un sanctaidd, ac y byddai’r milwyr a laddwyd yn mynd i’r nefoedd.⁵⁰² Ymddengys felly fod y profiad Cymreig wedi dilyn y patrwm Ewropeaidd hwn wrth i grefydd ddod i’r amlwg yn y Wasg mewn ymgais i roi ystyr i’r rhyfel.

Mor gynnar ag Argyfwng Gorffennaf, ceisiwyd dehongli’r hyn a oedd ar fin digwydd mewn ffordd gyfarwydd i’r gynulleidfa Gymreig drwy dynnu ar agwedd o ddiwylliant dominyddol Cymru. Gwelwyd enghreifftiau o hanesyddoliaeth Gristnogol, megis Armagedon a Dydd y Farn yn cael eu cyflwyno gan y Wasg. Arddull o ddehongli oedd hon a oedd yn ceisio cysylltu proffwydoliaethau Beiblaidd gyda digwyddiadau cyfoes. Gwelwyd hefyd ymdrechion i ystyried crefydd y Cynghreiriaid fel grym unedig yn erbyn yr Almaen di-Dduw ac anwaraidd, a chyflwynwyd y rhyfel fel un sanctaidd a fyddai’n gwarchod y ffordd Gristnogol a Chymreig o fyw. Yn ogystal â hyn, drwy gydol y rhyfel, roedd iachawdwriaeth yn thema o fewn y drafordaeth grefyddol. Cred nifer oedd bod yr Eglwys wedi methu yn ei darpariaeth a’i chenhadaeth. Roedd y rhyfel hefyd yn symptom o gymdeithas a oedd wedi colli gafael ar ei

⁴⁹⁹ ‘Nefoedd Newydd a Daeuar Newydd’, *Y Geninen*, Ebrill 1917, 84.

⁵⁰⁰ Kramer, *Dynamic of Destruction*, t.175.

⁵⁰¹ Kramer, *Dynamic of Destruction*, tt.176-77.

⁵⁰² Ken Inglis, ‘Foreword’ yn Becker, *War and Faith*, t.xi.

ffydd, ac felly er mwyn sicrhau dyfodol heb ryfel, roedd ‘dyletswydd’ ar bobl i edifarhau, mabwysiadu Cristnogaeth fel seiliau moesol, a chynnig iachawdwriaeth o holl ddrygioni’r byd.

Roedd y syniad o iachawdwriaeth yn gysylltiedig â’r canfyddiad o fyd newydd ar y gorwel, wrth i’r hen drefn gael ei disodli gan y rhyfel. Gellid dehongli’r rhyfel felly, fel y gwna Patrick J. Houlihan, fel cyfnod o foderniaeth yn herio arferion crefyddol traddodiadol.⁵⁰³ O ganlyniad, amlygwyd y syniad fod y rhyfel yn gyfle i ‘buro’ cymdeithas, ac ymddangosodd trafodaeth ynglŷn â ffurfio byd gwell yn dilyn y rhyfel. Daeth dwy ysgol o feddwl i’r amlwg ynghylch hyn yng Nghymru. Ar un lefel, ystyriwyd pa fath o rôl y dylid ei chwarae gan yr Eglwys yn y dyfodol er mwyn sicrhau cymdeithas well na’r un a aeth i ryfel yn 1914. Ar lefel arall, rhoddwyd pwyslais ar ‘ysbryd’ yr unigolyn. Drwy gysylltu’r unigolyn gydag egwyddorion Cristnogol, a’i gwneud yn barod i weinyddu dysgeidiaeth Crist, gobeithiwyd y gellid creu cymdeithas newydd ar gyfer yr oes newydd; cymdeithas a oedd yn ‘lanach’ ac yn fwy ‘pur’ ei hysbryd. Gellid dehongli hyn fel dyheadau am ddiwygio ysbrydol yn digwydd wedi’r rhyfel. Yn wir, daeth consensws i’r amlwg yn y Wasg y gallai canlyniadau’r rhyfel fod yn sanctaidd, hyd yn oed os nad oedd y rhyfel ei hun, yn ôl rhai. Dengys hyn oll fod crefydd, boed ei ddefnyddio i gefnogi’r rhyfel neu i’w wrthwynebu, wedi profi’n rhan annatod o’r ymateb Cymreig i’r rhyfel, gan ffurfio rhan bwysig o’r diwylliant rhyfel Cymreig.

⁵⁰³ Houlihan, ‘Religious Mobilization’, 7.

Pennod 3

Gwareiddiad, Anrhydedd, a Rhyddid

Drewdod yn ffroenau Europe am hir amser fydd *Kultur* materol yr Huns.⁵⁰⁴

Cyflwyniad

Wrth sylwebu ar agweddau diwylliannol y Rhyfel Byd Cyntaf, noda Niall Ferguson: 'It is often asserted that the First World War was caused by culture.'⁵⁰⁵ Dengys sawl astudiaeth y ffordd y cyflwynwyd y rhyfel ymysg gwledydd Ewrop fel gornest ddiwylliannol yn ogystal ag un filwrol ar faes y gad, gydag ymgyrchoedd propaganda'r Cynghreiriaid yn aml yn portreadu'r Almaenwyr fel barbariaid a oedd yn ceisio dinistrio gwareiddiad.⁵⁰⁶ Dangoswyd yn y bennod ddiwethaf y *topos* crefyddol Cymreig a fodolai o fewn yr ornest hon. Serch hyn, dim ond un agwedd oedd crefydd o fewn y diwylliant rhyfel ehangach, Cymreig ac Ewropeaidd. Dengys y llenyddiaeth fod y rhyfel wedi cymell gwledydd i fuddsoddi amryw o werthoedd a delfrydau diwylliannol penodol i yn yr ymdrech rhyfel.

Roedd y syniad o ryfel sanctaidd i'w weld yn un cyffredin, ac yn sicr yn boblogaidd yng Nghymru, ond felly hefyd y syniad fod y rhyfel i'r Cynghreiriaid yn amddiffyn gwareiddiad. Noda Alan Kramer er enghraifft ddatganiad yr athronydd Ffrengig, Henri Bergson, mor gynnar ag 8 Awst, 1914: 'The struggle embarked on against Germany is the struggle of civilization against barbarism.' Roedd hyn yn dilyn geiriau'r papur newydd *Le Matin* bedwar diwrnod ynghynt a alwodd y rhyfel yn 'holy war of civilization against barbarity.'⁵⁰⁷ Crëwyd dau begwn, y da yn erbyn y drwg, i gyfleu natur y rhyfel, gyda'r Cynghreiriaid yn aml yn portreadu'r gelyn mewn termau rhyfelgar, digrefydd, ac anfoesol.

Roedd ymgyrchoedd propaganda'r Cynghreiriaid yn aml yn pwysleisio'r troseddau a wnaethpwyd gan yr Almaenwyr yn erbyn menywod, plant, a sifiliaid, yn ogystal â

⁵⁰⁴ 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Ionawr 1917, 24.

⁵⁰⁵ Ferguson, *The Pity of War*, t.1.

⁵⁰⁶ Kocka, *Facing Total War*; Horne (gol.), *State, society and mobilization*; Audoin-Rouzeau and Becker, *Understanding the Great War*; Fred Bridgham, 'Bernhardi and "The Ideas of 1914"', yn Bridgham (gol.), *The First World War*; Nicholas Martin, 'Nietzsche as Hate-Figure in Britain's Great War: "The Execrable Neech"', yn Bridgham (gol.), *The First World War*; Kramer, *Dynamic of Destruction*; Becker, 'Faith, Ideologies'.

⁵⁰⁷ Kramer, *Dynamic of Destruction*, t.183.

digwyddiadau unigol megis suddo'r *Lusitania* a dienyddio'r nyrs, Edith Cavell.⁵⁰⁸ Effaith y negeseuon propaganda hyn, yn ôl Nicoletta Gullace, oedd cyfiawnhau'r rhyfel ar sail egwyddorion moesol: 'Graphic accounts of atrocities committed by the Germans [provided] an irrefutable rationale for allied sympathizers wishing to justify military intervention on moral grounds.'⁵⁰⁹ Gwelir hefyd ymchwil Ruth Harris ar achosion troseddau'r Almaenwyr yn Ffrainc a sut y defnyddiwyd y rhain i gefnogi ymgyrch foesol y Cynghreiriaid. Wrth sylwebu ar y naratif a grëwyd yn Ffrainc yn ystod y rhyfel, meddai Harris:

The German invaders were painted both as mechanized, calculating inhumanity and as unthinking, excessive animality. They were either the Prussian, Protestant officers who ruthlessly ordered the murder of priests and took hostages, or the Bavarian Catholic peasant who gorged, drank, or eviscerated French civilians. Whatever their tendencies, the barbarian Teutons showed no respect for the values and superiority of the Latin-Christian nation they had invaded.⁵¹⁰

Ar adegau dangoswyd yr ornest mewn termau rhywiol gyda Ffrainc yn diffinio'i hun fel menyw onest wledig yn cael ei sathru gan filwr brwnt yr Almaen ddiwydiannol. Darluniwyd Ffrainc fel cenedl fenywaidd, *La France civilatrice*, yn brwydro rhyfel cyfiawn o ryddid rhag y gelyn gwrywol, nerthol, ac ysbeilgar.⁵¹¹ Bodolai canfyddiad fod y rhyfel yn gymaint o ymryson meddyliol ac yr oedd hi'n frwydr ar faes y gad, gyda'r nofelydd H. G. Wells yn ysgrifennu yn 1914: 'All the realities of this war are things of the mind. This is a conflict of cultures, and nothing else in the world. We fight not to destroy a nation, but a nest of evil ideas.'⁵¹² Yn Ffrainc, disgrifiodd yr athronydd, Henri Bergson, y rhyfel fel gornest i amddiffyn gwareiddiad: 'The struggle against Germany is the struggle of civilisation against barbarism.'⁵¹³ Gwireddwyd barbariaeth yr Almaen cyn gynted yr ymosodwyd ar Wlad Belg.

Yng Nghymru, lledwyd straeon am erchyllterau'r Almaenwyr yn y papurau newydd. Gwelwyd penawdau megis 'Fiendish Atrocity by Germans', 'Another German Atrocity', 'Latest War

⁵⁰⁸ Gwelir astudiaethau diweddar sydd yn gwirio fod ryw 6,000 o drigolion Gwlad Belg wedi cael eu lladd gan yr Almaenwyr yn ystod misoedd cynnar y rhyfel, yn ogystal a sawl achos o dreisio rhywiol. Gweler John Horne and Alan Kramer, *German Atrocities 1914: A History of Denial* (New Haven CT: Yale University Press, 2009); Jeff Lipkes, *Rehearsals: The German Army in Belgium, August 1914* (Wesley Chapel FL: 2014).

⁵⁰⁹ Nicoletta F. Gullace, 'Allied Propaganda and World War I: Interwar Legacies, Media Studies, and the Politics of War Guilt', *History Compass*, 9/9 (2011), 686.

⁵¹⁰ Ruth Harris, 'The "Child of the Barbarian": Rape, Race and Nationalism in France during the First World War', *Past and Present*, 141 (November 1993), 182.

⁵¹¹ Harris, 'The "Child of the Barbarian"', 179-80.

⁵¹² Wells, *The War that Will End War*. <<http://gutenberg.net.au/ebooks13/1303671h.html>> [cyrchwyd 30.07.18].

⁵¹³ Dyfynnwyd yn Audoin-Rouzeau and Becker, *Understanding the Great War*, t.146.

Atrocity’, a ‘German Butchery’ yn ystod misoedd agoriadol y rhyfel, gyda’r *Flintshire Observer* yn nodi ffynhonnell a manylion un o’r straeon:

An awful story of German brutality is told in a letter just received by an Omskirk gentleman from an English officer with the British Expeditionary Force in France. The letter reads: – “A French officer who was killed by Germans during their advance and was buried in a sheet in a farm garden near where he died, was terribly mauled. They cut off all his toes and fingers, nose, ears, and the calves of his legs, and finally shot him with his own revolver. I am telling you this so that you will know that German ‘kultur’ really is worthy of iron crosses!”⁵¹⁴

Comisiynwyd adroddiad swyddogol gan James Bryce i ymchwilio i’r honiadau o droseddau’r Almaenwyr yng Ngwlad Belg. Tystiodd nifer o fenywod a milwyr yn honni gweld neu glywed am driniaeth yr Almaenwyr o drigolion trefi megis Louvain, Dinant, a Liege. Cyfieithwyd yr adroddiad i 30 iaith erbyn ei gyhoeddiad ym mis Mai 1915, a’i ddsbarthu ar draws y byd.⁵¹⁵ Profodd creulonderau’r Almaenwyr yn sail i ymgyrch bropaganda’r Cynghreiriaid felly, gan osod cyd-destun penodol i ystyriaeth a thrafodaeth y rhyfel yn y Wasg Gymreig.

Roedd y syniad o’r rhyfel fel un i amddiffyn gwareiddiad rhag *Kultur* militaraidd ac awdurdodol yr Almaen, wedi ei hybu a’i feithrin gan ddamcaniaethau rhai o athronyddwyr mwyaf adnabyddus y wlad honno. Noda M. L. Sanders a Philip M. Taylor, er enghraifft, fod ysgrifau’r hanesydd Heinrich von Treitschke a’r athronydd Friedrich Nietzsche wedi darparu cyfoeth o ddeunydd i bropagandwyr Prydain.⁵¹⁶ I nifer o ddeallusion yr Almaen roedd rhyfel yn anochel, a delweddwyd y weledigaeth ffatalaidd (ac eto arwrol) hon mewn paentiadau ac ysgrifau. Dadleua Wolfgang Mommsen fod gweledigaeth rhai Almaenwyr wedi darogan y byddai’r rhyfel yn cynnig cyfle i ddod â ‘sublime purification of culture’ yn ogystal ag adfywiad diwylliannol Ewropeaidd. Ysgogwyd rhai o draddodiadau diwylliannol yr Almaen drwy ddedol syniadau Nietzsche, Schopenhauer, Fichte, ac eraill wrth i ddeallusion ymdrechu i greu *Mittleuropa* diwylliannol ar yr un pryd â *Mittleuropa* economaidd.⁵¹⁷ Ym mis Hydref 1914, cyfansoddwyd llythyr gan 93 o ysgolheigion yr Almaen yn dwyn y teitl, ‘Apêl i’r Byd Gwareiddieidg’. Pwysleisiodd y llythyr natur bywiog ac egniol bywyd deallusol yr Almaen. Yn ogystal, gwrthodwyd cyhuddiadau o farbariaeth, gan gyhuddo’u gelynyddion mai yn eu

⁵¹⁴ *Llais Llafur*, 4 Medi, 1914, 1; *Merthyr Pioneer*, 31 Hydref 1914, 6; *Cambria Daily Leader*, 18 Rhagfyr 1914, 1; *Flintshire Observer and News*, 24 Rhagfyr 1914, 7.

⁵¹⁵ Garth Jowett and Victoria O’Donnell (gol.), *Propaganda and Persuasion* (London: Sage Publications, 2006), t.216.

⁵¹⁶ M. L. Sanders and Philip M. Taylor, *British Propaganda during the First World War, 1914–18* (London: Macmillan, 1982), t.141.

⁵¹⁷ Mommsen, ‘German artists, writers and intellectuals’, tt.25-31.

tiriogaethau hwy, yr ymerodraethau Brydeinig a Ffrengig, y gwelwyd pobl anwaraidd. I'r ysgolheigion hyn, roedd y rhyfel yn fynegiant o rym gwareiddiol Almaenaidd.⁵¹⁸


Datblygwyd gornest ddiwylliannol ar draws Ewrop wrth i ddeallusion y gwledydd rhyfel ddechrau hawlio moesau uwch na'u gelynion. Tebyg iawn oedd yr amgyffred a'r dadansoddi yng Nghymru. Enghreifftiwyd yr agwedd hon yng nghylchgrawn *Cymru* O. M. Edwards ym mis Chwefror 1915. Ysgrifennwyd fod yr Almaen 'yn ymddangos gerbron y byd fel ysbryd mileinig a didrugaredd.'⁵¹⁹ Wrth reswm, rhyfel amddiffynnol oedd hi i'r Cynghreiriaid, i warchod eu ffordd o fyw yn benodol, a gwareiddiad Ewrop yn gyffredinol. I gyfleu patrwm y drafodaeth hon, cynigia Graff 3.1 gipolwg bras ar ddefnydd y gair 'gwareiddiad' mewn detholiad o bapurau wythnosol Cymru o 1880 hyd at 1909, ac yna blynyddoedd y rhyfel o fis Awst 1914 hyd at Dachwedd 1918. Ac eithrio troad y ganrif, roedd amllder cyfartalog 'gwareiddiad' i bob mil o erthyglau yn isel. Ond treblwyd y ffigwr yn 1914, gan ddangos effaith y rhyfel ar iaith y cyfnod. Daeth 'gwareiddiad' yn sydyn yn fwy gweledol yn y Wasg Gymreig wrth i'r rhyfel gael ei gyflwyno i ddarllenwyr. Disgynnodd y nifer ychydig yn 1915 ac eto yn 1916, cyn codi unwaith yn rhagor yn 1917 ac 1918. Awgryma hyn broses o ailysgogi yn 1917 yn dilyn colledion gwaedlyd y blynyddoedd gynt gyda blinder rhyfel yn bygwth tanseilio'r ymdrech rhyfel.⁵²⁰

⁵¹⁸ Audoin-Rouzeau and Becker, *Understanding the Great War*, t.148.

⁵¹⁹ 'Cwmp yr Almaen', *Cymru*, Chwefror 1915, 105.

⁵²⁰ Gwelir 15 papur wythnosol Cymreig o dan astudiaeth yn negawd 1880au, 20 yn negawd 1890au, 21 yn negawd 1900au, ac 19 papur wythnosol am gyfnod y rhyfel o fis Awst 1914 hyd at Tachwedd 1918. Y detholiad o bapurau oedd: *Baner ac Amserau Cymru*; *Tarian y Gweithiwr*; *Y Goleuad*; *Yr Herald Cymraeg*; *Papur Pawb*; *Gwalia*; *Y Drych*; *Y Tyst*; *Y Brython Cymreig*; *Seren Cymru*; *Y Cymro*; *Y Negesydd*; *Y Celt*; *Y Gwylidydd*; *Y Werin*; *Y Clorianydd*; *Yr Wythnos a'r Eryr*; *Y Genedl Gymreig*; *Y Dydd*; *Y Rhegedydd*; *Y Llan*.

Graff 3.1: Amllder ‘gwareiddiad’ ym mhapurau wythnosol Cymreig, 1880–1918.



Amlygwyd y rethreg yma yn ystod Argyfwng Gorffennaf yn y papurau newydd. Nododd golygyddol y *Cambria Daily Leader* ar 31 Gorffennaf 1914 ragolygon brawychus y dyfodol: ‘In truth, Europe has never been faced by such a frightful situation, by a crisis which has in it such a fearful menace to the civilisation of a continent.’⁵²¹ Roedd y gofid hwn yn gyffredin yn ystod dyddiau olaf Argyfwng Gorffennaf wrth i farbareiddiwch rhyfel fygwth bywyd diwylliedig a gwareiddiedig Ewrop. Dros y blynyddoedd a ddilynodd, ac wrth i’r gefnogaeth i’r rhyfel afael yn y Wasg Gymreig, datblygodd naratif penodol a osododd profiad Cymru yng nghrombil yr un Ewropeaidd wrth i’r ornest ddiwylliannol dreiddio i dudalennau’r Wasg.

David Lloyd George a Rhyfel Cyfiawn

Unigolyn a ymdrechodd yn ddiflino i lywio’r ornest ddiwylliannol yng Nghymru ac a gafodd gryn sylw yn y Wasg oedd David Lloyd George. Erbyn 1914 roedd Lloyd George yn ffigwr profiadol a charismataidd iawn, eisoes wedi gwneud ei farc gwleidyddol radical yn ystod Rhyfel y Böer gyda’i safiad yn erbyn y rhyfel. Roedd wedi profi ei hun fel gwleidydd medrus a dylanwadol wrth iddo chwarae rhan amlwg mewn cyfres o ddiwygiadau’r llywodraethau Rhyddfrydol rhwng 1906 a 1914. Bu hefyd yn ffigwr amlwg ym mudiad Cymru Fydd yn ystod

⁵²¹ *Cambria Daily Leader*, 31 Gorffennaf 1914, 4.

y 1890au wrth iddo ymgyrchu dros faterion Cymreig ac ymreolaeth i Gymru. Yn ôl ei fywgraffydd, Emyr Price: '[Lloyd George was] the first architect of Welsh devolution and its most famous advocate'. Yn ogystal, dadleuodd Price: '[He was] the pioneering advocate of a powerful parliament for the Welsh people.'⁵²²

Un o gryfderau David Lloyd George fel gwleidydd adnabyddus oedd ei allu i ddarbwylllo cynulleidfaoedd wrth siarad yn gyhoeddus. Noda Richard Toye grefft a gallu Lloyd George i ymgorffori tair strategaeth Glasurol Aristotlys o ddarbwylllo cynulleidfa yn ei areithiau: yr *ēthos*, *pathos*, a'r *logos*.⁵²³ Gellid olrhain talentau Lloyd George i'w gefndir Anghydfurfiol o sylwi ar dôn efengylaidd ei iaith, ond hefyd i'w hoffter o'r neuadd gerddorol o ran ei allu i symud yn esmwyth rhwng dyletswyddau moesol a hiwmor stwrllyd.⁵²⁴ Yn siaradwr Cymraeg a fagwyd yn Sir Gaernarfon, daeth Lloyd George i ymgorffori'r Rhyddfrydiaeth Gymreig gan hawlio statws iddo'i hun fel un o wleidyddion mwyaf dylanwadol ac adnabyddus Cymru.

Er i Lloyd George wrthwynebu rhyfel tan ddyddiau olaf Argyfwng Gorffennaf, penderfynodd ar ddechrau mis Awst gefnogi mwyafrif y Cabinet yn eu penderfyniad i fynd i ryfel.⁵²⁵ Dichon mai chwilio am reswm i gefnogi rhyfel oedd Lloyd George, a phan ymosododd yr Almaen trwy Wlad Belg ar 4 Awst rhoddwyd y cyfiawnhad iddo. O fewn rhai dyddiau, gwelwyd argyhoeddiad Lloyd George ar waith yn y papurau newydd, gyda'i erthygl 'Apêl at Gymru Wen' yn ymddangos yn gyntaf yn y *Western Mail* ar 8 Awst ac yna yng Ngwasg wythnosol Cymru o wythnos 10 Awst ymlaen. Gyda'i ddisgrifiad o 'Gymru Wen', diffiniodd Lloyd George y wlad fel un heddychol a diwylliedig, heb duedd at unrhyw ryfelgarwch. O wneud, atgyfnerthwyd y syniad mai rhyfel wedi ei gorfodi ar Gymru oedd hon ac mai brwydr amddiffynnol a chyfiawn fyddai'n cael ei hymladd.

Yn rhan o'r 'Apêl', mynnodd Lloyd George osod tair 'dyletswydd' ar bawb, gan gynnwys 'peidio bod mor ffôl a llestrio ymdrechion y Llywodraeth', 'peidio prynu un amser fwy o ymborth nag sydd raid', ac annog cyflogwyr 'hyd eithaf eu gallu i gadw eu dynion mewn gwaith.'⁵²⁶ Gyda 'dyletswydd' yn un o'r cysyniadau allweddol a ymddangosodd yn nyddiau

⁵²² Emyr Price, *David Lloyd George* (Cardiff: University of Wales Press, 2006), tt.xi, 208.

⁵²³ Yr *ēthos* yn cyfeirio at gymeriad a natur dibynadwy y negesydd fel ffynhonnell gredadwy. Y *pathos* at y defnydd o themâu emosiynol i dargeddi cynulleidfa penodol. A'r *logos* at strwythur y ddadl fel un o ddisgwrs rhesymegol. Richard Toye, 'Lloyd George's War Rhetoric, 1914–1918', *Journal of Liberal History*, 77, Winter 2012–13, 24–29.

⁵²⁴ Toye, 'Lloyd George's War Rhetoric, 1914–1918', 25.

⁵²⁵ Keith Wilson (gol.), *Decisions for War, 1914* (London: UCL Press, 1995).

⁵²⁶ Cyhoeddwyd yr 'Apêl' mewn sawl papur wythnosol, gan gynnwys: *Y Herald Gymraeg*, 11 Awst 1914, 8; *Y Cloriannydd*, 12 Awst 1914, 4; *Y Darian*, 13 Awst 1914, 6; *Amman Valley Chronicle*, 13 Awst 1914, 6; *Y Dydd*, 14 Awst 1914, 3; *Llais Llafur*, 15 Awst 1914, 1; *Y Drych*, 27 Awst 1914, 8.

olaf Argyfwng Gorffennaf, dangoswyd yma Lloyd George yn ei gyfieithu mewn modd dealladwy i dasgau dyddiol dinasyddion y wlad. Ymgais oedd hi i sefydlu a chyfnerthu cefnogaeth i'r rhyfel drwy awgrymu y byddai'r rhyfel yn cynnwys ymdrechion cymdeithas gyfan. Gorffennodd yr erthygl yn ddiffuant yn ei argyhoeddiad ac yn glir yn ei hapêl am gefnogaeth:

Ni wyddys eto yn Rhagluniaeth ddoeth y Goruchaf beth fydd diwedd y rhyfel erchyll hwn; er hynny bydded i ni a orfodir i aros gartref ar y tir, yn y lolfa, yn y chwarel, gyflawni'n ffyddlon y dyledswyddau uchod yn yr un ysbryd dewr a hunanaberthol ag a feddianna ein brodyr ar faes y frwydr.⁵²⁷

Heb os, un o'r testunau mwyaf arwyddocaol yn yr ymgyrch i ysgogi Cymru ar gyfer y rhyfel oedd araith Lloyd George, fel Canghellor y Trysorlys, i Gymdeithas Cymry Llundain yn Neuadd y Frenhines, Llundain ar 19 Medi 1914. Gwelwyd yma ymdrech wirioneddol David Lloyd George i gyflwyno delfrydau'r rhyfel i'r Cymry, gan nodi anrhydedd, dyletswydd, a gwladgarwch fel y cysyniadau allweddol:

Gwelaf ymysg pob gradd – uchel ac isel – wrth iddynt ymddiosg o'i hunanoldeb – gydnabyddiaeth newydd fod Anrhydedd gwlad yn dibynnu nid yn unig ar gadw ei chlod ym maes y gad, ond hefyd ar noddi ei chartrefi rhag cyfyngder (...) Buom fyw mewn dyffryn cysgodol am genhedlaeth (...) Buom yn rhy gysurus a rhy foethus, a llawer ohonom, hwyrach, yn rhy hunangar, a dyna law drom tynged wedi ein ffrewyllu i'r uchelder, y medrwn weled ohono y pethau sydd o dragwyddol bwys i genedl – y bannau mawrion a anghofiasem, Anrhydedd, Dyledswydd, Gwladgarwch, ac mewn gwisg ddisgleirwen oleu, binagl mawr Aberth yn codi ei fyd i'r Nefoedd.⁵²⁸

Ymddangosodd rhannau o'r araith hon yn y papurau newydd, a chyhoeddwyd hi yn llawn gan Hodder & Stoughton yn yr un flwyddyn. Gwerthuswyd yr araith ym mhapur wythnosol *Seren Cymru*:

Apêl at Gymry ieuanc L'undain yn fwyaf arbennig oedd ei araith ddydd Sadwrn; ond darllenir hi gydag awch gan yr holl deyrnas, a gwledydd Ewrop. Danghosodd mor annheg fu'r Almaen yn diystyru'r Cytundeb a wnaethai i beidio a sarnu ar annibyniaeth Belgium. Gyda'r wawdiaeth fwyaf miniog cyfeiriodd at ddiffyg parch y Kaiser i'r hyn a alwodd Canghellor yr Almaen yn "ddarn o bapur", a dywedodd na fydd gan y byd mwyach lawer o ymddiried mewn unrhyw gytundeb a wneir a'r Almaen.⁵²⁹

⁵²⁷ *Yr Herald Gymraeg*, 11 Awst 1914, 8.

⁵²⁸ 'Drwy Arswyd i'r Orsedd'. *Apêl at y Genedl gan Ganghellydd y Drysorlys, 1914*, araith a draddodwyd i Gymdeithas Cymry Llundain, Medi 19eg, 1914. Dyfynnwyd yn *Y Genedl*, 29 Medi 1914, 6

⁵²⁹ *Seren Cymru*, 25 Medi 1914, 9.

Rhodddwyd cryn sylw i'r araith ym mhapurau Cymru. Ceisiodd *Y Cymro* grynhoi sylfaen yr araith fel dadl dros resymau moesol yr aethai Prydain i ryfel drostynt. Sylwebwyd: 'Talodd [Lloyd George] warogaeth uchel i alluoedd meddwl, ac effeithiolrwydd [yr Almaen], ond credai fod ei drychfeddwl am wareiddiad yn anghywir a chaled.'⁵³⁰ Nodwyd arwyddocâd yr araith a'i bod yn 'gyfraniad sylweddol i lenyddiaeth a meddwl y dydd mawr hwn.'⁵³¹ Galwodd yr *Herald Cymraeg* yr araith yn 'odidog' tra disgrifiodd y *North Wales Chronicle* hi fel: 'a vigorous address on Wales and the War'.⁵³² Tynnwyd sylw hefyd at 'gwladgarwch newydd' fel un o ddelfrydau Lloyd George.⁵³³ Ym mhapur dyddiol y *Cambria Daily Leader* disgrifiwyd yr araith fel y gorau erioed a rhodddwyd gan Lloyd George: 'The oratory was worthy of the occasion whilst in the course, of his sentences, he gave a masterly exposition of the various points in the present crisis.'⁵³⁴

Yn ei araith, gosododd Lloyd George resymau dros benderfyniad Prydain i fynd i ryfel gyda'r gobaith o annog recriwtio i'r fyddin a ffurfio Corfflu Byddin Gymreig o 40,000 o ddynion.⁵³⁵ Mewn adran a deitlwyd 'Why Our National Honour is Involved', soniwyd am 'anrhydedd' fel rhan allweddol o'r cyfiawnhad. Roedd Lloyd George yn awyddus i bwysleisio fod y rhyfel wedi cael ei orfodi arnynt a bod y llywodraeth, ac ef yn benodol, wedi gwneud popeth yn eu gallu i osgoi rhyfel, ond fod anrhydedd cenedlaethol wedi bod yn y fantol: 'There is no man either inside or outside of this room more convinced that we could not have avoided it without national dishonour. (*Great applause*).'⁵³⁶ Roedd yr anrhydedd cenedlaethol yn gysylltiedig â gwarchod annibyniaeth Gwlad Belg:

All the same, national honour is a reality, and any nation that disregards it is doomed. Why is our honour as a country involved in this war? Because, in the first instance, we are bound by honourable obligations to defend the independence, the liberty, the integrity, of a small neighbour that has always lived peaceably.⁵³⁷

⁵³⁰ *Y Cymro*, 30 Medi 1914, 11.

⁵³¹ *Y Cymro*, 30 Medi 1914, 11.

⁵³² *Yr Herald Cymraeg*, 22 Medi 1914, 4; *The North Wales Chronicle*, 25 Medi 1914, 2.

⁵³³ 'A new patriotism'. *The North Wales Chronicle*, 25 Medi 1914, 2.

⁵³⁴ *The Cambria Daily Leader*, 21 Medi 1914, 5.

⁵³⁵ Ymdrechodd Lloyd George yn galed i wireddu hwn gan berswadio Arglwydd Kitchener i ganiatáu caplaniaid yr enwadau Anghydfurfiaeth, Cymraeg eu hiaith, i wasanaethu yn y Corfflu. Yn y diwedd, dim ond un adran a godwyd, oddeutu 20,000 o ddynion, yn hytrach na chorfflu cyfan. Yr adran hon oedd y 43ain Adran, a gafodd ei ail enwi yn 38ain Adran (Gymreig) ym mis Ebrill 1915.

⁵³⁶ David Lloyd George, *The Great War: Speech at the Queen's Hall, London, on September 19th 1914* (Toronto, Hodder and Stoughton, 1914), t.3.

⁵³⁷ Lloyd George, *The Great War*, t.3.

Roedd Lloyd George i'w weld yn ailadrodd y neges a welwyd yn y Wasg ar ddiwedd Argyfwng Gorffennaf, gydag anrhydedd cenedlaethol yn clymu Prydain i amddiffyn Gwlad Belg a Serbia.

Pardduwyd yr Almaen gan Lloyd George yn ei araith. Gan fychanu triniaeth yr Almaen o gytundeb annibyniaeth Gwlad Belg fel 'scrap of paper', mynnodd fod y fath ymddygiad yn cynrychioli'r 'straight road to barbarism', a datganodd am weithredoedd yr Almaen: 'the whole machinery of civilisation will break down if this doctrine wins in this war.'⁵³⁸ Daeth i gasgliad penderfynol eu bod yn ymladd yn erbyn barbariaeth: '[Germany shows a] cynical contempt for every principle of justice.'⁵³⁹ Cyhuddwyd yr Almaen o anghofio'u rhwymedigaethau a gwelwyd cyfeiriadau moesol drwy gydol yr erthygl gydag un adran yn sôn am 'Germany's Perjury': 'A great nation ought to be ashamed to behave like a fraudulent bankrupt, perjuring its way through its obligations.'⁵⁴⁰

Yn amlwg yn rhethreg David Lloyd George oedd 'gwareiddiad'. Gwelwyd hyn yn ei anerchiad yn Eisteddfod Genedlaethol 1915 ym Mangor, a glodforwyd yn eiddgar wrth iddo draethu. Dyfynnwyd yr anerchiad yn y papurau newydd, wrth i Lloyd George amlinellu'r delfrydau rhyfel i gynulleidfa'r Eisteddfod:

Bu adeg yn hanes y byd pan y gorfuwyd i bobl ymladd er mwyn ennill – weithiau er mwyn dal gafael yn yr hawliau elfennol hynny sydd yn dyrchafu dynion uwchlaw bwystfilod y maes – rhyddid a chyfiawnder (clywch, clywch). Os yr el iawnder dan draed yn yr ymdrech hon atelir gwareiddiad am genedlaethau. Ar y llaw arall, os y bydd i iawnder gael yr oruchafiaeth fe rydd dynoliaeth lam fawr ymlaen ar y ffordd i gyfeiriad cynydd. Dyma un o'r cyfnodau hyny.⁵⁴¹

Anelwyd areithiau Lloyd George yn bwrpasol i ennyn cefnogaeth i'r rhyfel ac annog recriwtio i'r fyddin. Gwelwyd ei ddefnydd o emosiwn, neu'r *pathos*, wrth iddo ennyn teimladau cenedlaetholgar ac anrhydeddus. Ceisiodd ddangos fod y rhyfel yn cael ei ymladd ar ran gwerthoedd rhyddfrydol, gan gynnwys hawliau 'cenedloedd bychain', megis Gwlad Belg a Serbia. Rhybuddiodd rhag y 'national dishonour' petai Prydain yn anwybyddu dioddefaint Belg a Serbia, yn ogystal â'i ymrwymadau i Ffrainc. Awyddus hefyd oedd ei draethu i bwysleisio cyflwr gwareiddiad yr Almaen:

I believe, in spite of recent events, that there is as great a store of kindness in the German peasant as in any peasant in the world; but he

⁵³⁸ Lloyd George, *The Great War*, t.43.

⁵³⁹ Lloyd George, *The Great War*, tt.4-5.

⁵⁴⁰ Lloyd George, *The Great War*, tt.6-7.

⁵⁴¹ *Yr Herald Cymraeg*, 10 Awst 1915, 8.

has been drilled into a false idea of civilisation. It is efficient, it is capable; but it is a hard civilisation (...) That is what we are fighting – that claim to predominancy of a material, hard civilisation, a civilisation which if it once rules and sways the world, liberty goes, democracy vanishes. And unless Britain and her sons come to the rescue it will be a dark day for humanity.⁵⁴²

Llwyddodd Lloyd George i ddwyn perswâd ar yr Arglwydd Kitchener i ddechrau ffurfio Corfflu Byddin Gymreig o ddeugain mil o ddynion mewn dwy adran. Ym mis Tachwedd 1914, gyda'r ymgyrch recriwtio yn y fantol, ymddangosodd Lloyd George yn Nheml y Ddinas, San Steffan o flaen cynulleidfa o Gymry Llundain ac aelodau o'r Eglwys Rydd. Galwodd ef unwaith eto ar gefnogaeth i'r rhyfel drwy osod Prydain ar bedestal moesol a chyfiawn: 'As the Lord liveth we had entered into no conspiracy against Germany. We are in the war from motives of purest chivalry to defend the weak.' Fel dadleua Dafydd Densil Morgan, effaith yr araith hon oedd gresynu bod y rhyfel yn anochel, ond hefyd ei gyfiawnhau drwy bwysleisio cydwybod lân a gweithredoedd moesol Prydain.⁵⁴³

Goblygiadau areithiau David Lloyd George ym mlwyddyn gyntaf y rhyfel felly oedd hybu'r darlun o ryfel cyfiawn. Hyd yn oed i'r papur sosialaidd, *Llais Llafur*, erbyn mis Medi 1914 roedd Lloyd George ac eraill wedi dwyn perswâd mai rhyfel dros werthoedd moesol a gwaraidd oedd yn cael ei ymladd. Ar dudalen flaen y papur hwnnw ar 5 Medi, gwelwyd apêl i ddenu dynion ifanc i'r fyddin. Adlewyrchodd geiriad yr apêl y rhethreg ehangach ynghylch cyfiawnhad Prydain dros fynd i ryfel: 'Young men! The future of civilisation depends on you. The welfare of the working classes of Europe depends upon you.' Pwysleisiwyd cynulleidfa'r papur yn yr apêl yn ddiweddarach: 'Young men! Dedicate yourselves to the sacred cause of freedom, to the holy duty of casting out the monster of German militarism that is threatening the existence of civilisation.' Gofynnodd ar y diwedd gan geisio corddi euogrydd: 'Will you fight for this for yourselves, for your families, for Wales, and the millions of our kin yet unborn?'⁵⁴⁴

Y teimlad yng Nghymru oedd fod yr Almaen – ac Awstria-Hwngari – wedi gorfodi'r rhyfel ar wledydd Ewrop, gyda Serbia a Gwlad Belg yn cynrychioli'r 'gwledydd pum-troedfedd-pump' a sathrwyd gan gewri mawr milwriaethus y cyfandir. Roedd y ffordd yr oedd Prydain yn ymateb yn brawf ac yn fesur o'i anrhydedd a moesau da, a datblygodd argyhoeddiad cynnar

⁵⁴² Lloyd George, *The Great War*, tt.12-13.

⁵⁴³ Morgan, "Christ and the War", 74.

⁵⁴⁴ *Llais Llafur*, 5 Medi 1914, 1.

ynghylch cyfiawnder y rhyfel. Dyma a nododd golygyddol y *Welsh Outlook* ym mis Mawrth 1915: ‘In the main our people are moved by a sheer sense of duty to the cause of civilization.’⁵⁴⁵ Cyhuddwyd yr Almaen o gynnal gwareiddiad tywyll, tra bod ymateb Prydain o ymyrryd yn y rhyfel wedi bod yn anrhydeddus. Mwy na dim, cyfrannodd Lloyd George at wthio delfrydau moesol ar ystyr y rhyfel. Gwelwn o’r sylwebaeth ddeallusol a ddilynodd yn y Wasg Gymreig y delfrydau hyn yn cael eu hymgorffori yn niwylliant rhyfel Cymru, wrth i ddiwylliant ddod yn iswasanaethgar i ryfelgarwch.

Anrhydedd a Rhyddid

Yn gysylltiedig â thema gwareiddiad oedd delfrydau ‘anrhydedd’ a ‘rhyddid’. Daethant yn rhan o’r apêl i’r ymdrech rhyfel. Gwelwyd neges gynnar gan y Parchedig D. Jones, Ficer Abersoch, yn *Y Geninen* yn Hydref 1914 yn cydnabod y delfrydau hyn fel rhai teilwng o’r achos: ‘Deffrowch, ynte, Brydeiniaid dewr: mae duwies Rhyddid, a chariad at anrhydedd eich gwlad, yn galw arnoch i ymrestru yn y gad.’⁵⁴⁶ Tebyg oedd canmoliaeth G. Bedford Roberts i wirfoddolwyr a chonsgriptiaid yn Hydref 1916, wrth geisio pardduo gwrthwynebwyd cydwybodol: ‘Mewn atebiad i’r waedd alwodd y dewr i daro aeth pum miliwn o lanciau harddwych Prydain allan i ymladd brwydrau cyfiawnder a rhyddid.’⁵⁴⁷

Fel gweinidog blaenllaw'r Methodistiaid Calfinaidd a Chaplan swyddogol y Corfflu Cymreig, ymgyrchodd y Parchedig John Williams, Brynsiencyn yn ddiplino dros yr ymdrech rhyfel. Ym mis Medi 1914, siaradodd Williams mewn cyfarfod ymgyrchu yn y *Concert Hall*, Llanberis, ac yn ôl *Yr Herald Cymraeg*, ‘cariodd y dorf yn fawr gydag ef,’ ac ennyn ‘gymeradwyaeth fyddarol’. Nododd *Yr Herald Cymraeg* am ei araith:

Cododd y rhyfel bresennol i dir moesol a dywedodd mai rhyfel er amddiffyn rhyddid, ac iawnder ydoedd, a dangosodd fel yr oedd, oddiar safle Cristionogaeth ac Efengyl Crist, yn rhwym o gyflawni ei ddyledswydd i annog ein dynion ieuainc i fyned allan i amddiffyn eu gwlad.⁵⁴⁸

I Williams, roedd moesau megis cyfiawnder a dyletswydd yn ganolog i esbonio’r rhyfel. Er bod dysgeidiaeth Gristnogol yn proffesu casáu rhyfel, roedd dyletswydd i bleidio ac amddiffyn

⁵⁴⁵ ‘Notes of the Month’, *Welsh Outlook*, Mawrth 1915, 83.

⁵⁴⁶ ‘Rhyfel y Cenhedloedd’, *Y Geninen*, Hydref 1914, 272.

⁵⁴⁷ ‘Yr Eglwys A’r Dyfodol’, *Y Geninen*, Hydref 1916, 255.

⁵⁴⁸ *Yr Herald Cymraeg*, 8 Medi 1914, 5.

moesau yn gorfodi Prydain i wrthwynebu'r Almaen. Ysgrifennodd Williams yn *Y Beirniad* yn pwysleisio 'dyletswydd' y wlad: 'gall amgylchiadau ddigwydd pryd y bydd mynd i ryfel nid yn unig yn gyfreithlon, ond yn ddyledswydd na ddylid ei hosgoi.'⁵⁴⁹ Enwodd y delfrydau hynny a oedd yn sail i'r rhyfel:

Rhaid malurio gorsedd gormes, rhaid difetha eisteddle trais, rhaid
bwrw cenfaint Prwsia dros y dibyn. Cyfiawnder, rhyddid, anrhydedd.
Ni ymladdwn drostynt costied a gostio, ac ni orchfygwn; yna y bydd
"ein heddwch fel afon a'n cyfiawnder fel tonnau'r môr."⁵⁵⁰

Pwysleisiodd Williams mai rhyfel cyfiawn oedd yr ornest, gyda gormes a thrais yr Almaen yn ennyn dyletswyddau moesol i'w gwrthwynebu. Atseiniodd hyn un o bregethau enwocaf John Williams, 'Cyfiawnder a Ddyrchafa Cenedl', lle nododd mewn gwasanaeth i filwyr Cymreig ym Mharc Cinnel ym mis Awst 1916:

Dyma chwithau, filwyr Cymru, mawr yw'ch braint, yn cerdded yn
llwybr yr un Aberth Mawr. Gadewch i'r fflam a enynwyd yn eich bron
gyffroi ynoch eiddigedd dros gyfiawnder i wneud Cymru lan yn lanach,
Prydain Fawr yn burach, ac i ddyrchafu cyfiawnder yn uwch ar y
ddaeear nag y bu erioed o'r blaen.⁵⁵¹

Crëwyd yn y Wasg y darlun fod y ffordd o fyw Cymreig, ei diwylliant a'i gwareiddiad, o dan fygythiad dirfodol. Nododd y Parchedig J. Richards yn *Y Traethodydd* yn 1915: 'Wele long ein gwareiddiad rhwng deufor gyfarfod enbyd, a phob hoelen a bach, bollt a thrawst ynddi dan dreth i'r eithaf.'⁵⁵² Dilynwyd y rhybudd yma gan ddatganiad fod y bai am y rhyfel yn drwm ar ysgwyddau'r Almaenwyr, o gymharu â dwylo Prydain a oedd yn 'weddol lan': 'Mae erchylltra y trybestod satanaidd yn fraw ond ein hargyhoeddiad gostyngedig yw fod Prydain yn y rhyfel hwn, a'i dwylaw yn weddol lan.'⁵⁵³ Felly y ceisiwyd cyfiawnhau unwaith eto'r penderfyniad i fynd i ryfel drwy nodi cydwybod 'glan' Prydain, gan geisio tanseilio gwrthwynebiad i'r rhyfel. Yn rhyngwladol ac yn genedlaethol, bu gwrthwynebiad i'r rhyfel gan amryw o grwpiau gwahanol, gan gynnwys heddychwyr crefyddol, gwleidyddol a dyngarol, sosialwyr, Marcswyr, Anarchwyr a deallusion o bob math, tra ym Mhrydain ar drothwy'r rhyfel fe ymddiswyddodd John Burns a John Morley o'r Cabinet ynghyd â Ramsay MacDonald fel arweinydd y Blaid Lafur. Daeth y rhan fwyaf o'r gwrthwynebiad o'r asgell chwith wleidyddol, ond rhanedig iawn

⁵⁴⁹ 'Y Rhyfel', *Y Beirniad*, Gwanwyn 1915, 8.

⁵⁵⁰ 'Y Rhyfel', *Y Beirniad*, Gwanwyn 1915, 8.

⁵⁵¹ Gwelir crynodeb o'r gwasanaeth yn *Yr Herald Cymraeg*, 22 Awst 1916, 8.

⁵⁵² 'A Gaiff Efe Ffydd Ar Y Ddaear?', *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 97.

⁵⁵³ 'A Gaiff Efe Ffydd Ar Y Ddaear?', *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 97.

oedd ei natur.⁵⁵⁴ O bwysleisio ‘cydwybod glan’ Prydain, taniodd Richards ergyd at wrthwynebwyd y rhyfel.

Mis ynghynt, cyhoeddwyd erthygl y Parchedig E. K. Jones yn *Seren Gomer* a oedd yn amau defnyddioldeb a chyfiawnder rhyfel yn ôl dysgeidiaeth Cristnogaeth. Dyma oedd safbwynt golygyddol *Seren Gomer* a wrthwynebodd y rhyfel ar seiliau crefyddol. Fodd bynnag, mewn esiampl o ymryson personol, awgrymodd Jones elfen o anghenraid i’r rhyfel:

Fel corfforaeth fydol, naturiol oedd i Brydain gymeryd mesurau i amddiffyn ei bywyd ei hun, yr hwn a fygythid gan Germani. Mewn ystyr arbennig yr oedd hefyd yn anrhydeddus ynddi i amddiffyn y gwan ac i hawlio parch i gytundebau rhyngwladol pwysig.⁵⁵⁵

Er i Jones anghytuno â’r rhyfel ar seiliau crefyddol felly, profodd anrhydedd yn ddelfryd digon nerthol i ennyn cefnogaeth i ‘amddiffyn y gwan’. Roedd ysgrifau Jones yn enghraifft o’r brwydro cydwybodol a achosodd y rhyfel i gymaint o Gristnogion a heddychwyr, yn enwedig o sylwi ar ormes yr Almaen trwy Wlad Belg.

Soniwyd hefyd am y delfrydau hyn mewn sawl cerdd. Cyfyng o bosib yw cerddi o ran eu defnyddioldeb fel ffynonellau hanesyddol, gyda daliadau a chefnidir personol yr awdur yn llywio’r neges, sydd yn aml yn lliwgar a blodeuog o ran crefft ac arddull. Serch hyn, un o gryfderau cerddi yw eu mynegiant o ymagweddau a gwerthoedd cyfoes. Nodwyd yn ‘Cadfloedd Rhyddid’ gan Daniel James (‘Gwyrosydd’) y delfrydau o ‘rhyddid’, ‘dewrder’, a ‘iawnder’. Sonia’r pennill cyntaf am ‘Duwies Rhyddid’ yn galw ar ‘ei phlant’ gan glymu’r cynodiadau crefyddol gyda delfrydau moesol y wlad:

Clywch yr udgorn-floedd i’r rhyfel
Yn dyrwygo bron yr awel;
Duwies Rhyddid eilw’n uchel
Ar ei phlant i’r gad.⁵⁵⁶

Sonia’r ail bennill am ‘ddewrder ein cyndeidiau’ yn annog y genhedlaeth bresennol i ymladd dros ei ‘hiawnderau’, tra ystyria’r pennill olaf oblygiadau marw yn y rhyfel. Byddai hynny’n ‘wrol’ ac yn gwbl deilwng i achos mor gyfiawn:

Os gorchfygir ni gan ormes,
Na foed neb i ddweyd yr hanes:
Marw’n wrol wnawn ar fynwes

⁵⁵⁴ Am astudiaeth o wrthwynebiad i’r rhyfel yng Nghymru, gweler Eirug, *Gwrthwynebwyd Cydwybodol*.

⁵⁵⁵ ‘Rhyfel yng Ngoleuni Crist’, *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 82.

⁵⁵⁶ ‘Cadfloedd Rhyddid’, *Y Geninen*, Ebrill 1915, 76.

Rhyddid yn y gad.⁵⁵⁷

Roedd y Rhyddfrydwr a'r Annibynnwr, Beriah Gwynfe Evans, ffrind personol i Lloyd George, a chyn-aelod o *Cymru Fydd*, eisoes wedi mynegi delfrydau'r rhyfel mewn cerdd. Rhyddgyfieithodd Evans benillion Harold Begbie, 'Fall In', a phwysleisio mai rhyddid oedd y ddelfryd i'w hachub drwy fuddugoliaeth y rhyfel presennol. Cyhoeddwyd ei gyfieithiad yn *Yr Herald Cymraeg*:

Beth dd'wedi di, fachgen, beth dd'wedi di
Pan ddaw'th blant o un i un,
I holi yn rhydd beth wnest ti yn dy ddydd
Yn y Rhyfel dros Ryddid Dyn?⁵⁵⁸

Roedd y cerddi hyn yn nodweddiadol o'r rheini a bleidiodd cyfiawnder y rhyfel yn enw gwareiddiad. Amlygant sut ffurfiwyd iaith y cyfnod o amgylch delfrydau penodol, gan dreiddio i'r cerddi rhyfel ac apelio i'r ysbryd rhyfelgar Cymreig. O sylwi ar y cerddi hyn a oedd ar led yn y Wasg Gymreig, camarweiniol fyddai hi i ystyried y rhyfel yn drasiedi i'r hunaniaeth Gymreig, fel yr awgrymir gan rai haneswyr a llenorion.⁵⁵⁹

Parhaodd 'rhyddid' i dreiddio'r cyfnodolion drwy flynyddoedd y rhyfel gan bigo'r gydwybod ynghylch ymarferion y diwylliant Cymreig. Cysylltwyd rhyddid hyd yn oed gyda chynnal yr Eisteddfod. Trawsgrifiwyd araith y Parchedig David Tecwyn Evans yng ngorsedd Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth, 1916, yn *Y Geninen* gan nodi pwysigrwydd yr wyl yng nghyfnod y rhyfel am ei fod yn 'cadw'n delfrydau'n fyw a grymus'.⁵⁶⁰ Cysylltwyd yma rhai o nodweddion diwylliannol Cymreig gydag ystyr y rhyfel, gyda'r Eisteddfod yn cynrychioli un o hanfodion y ffordd Gymreig o fyw a oedd yn y fantol. Roedd yr achos yn glir i Evans, oedd ar y pryd yn weinidog ym Mhenbedw, a alwodd y rhyfel yn 'ornest fawr i orseddi Rhyddid ac nid Gormes yn Ewrop'.⁵⁶¹

Nid yn unig yn y cyfnodolion y gwelwyd yr iaith hon. Gwelir yn Graff 3.2 amllder 'rhyddid' ym mhapurau wythnosol Cymru yn ystod blynyddoedd y rhyfel o gymharu â chyfnodau cynt. I ganiatáu am unrhyw wahaniaeth sillafu, chwiliwyd y geiriau 'rhyddid' a 'ryddid' yng nghasgliad papurau newydd Cymru'r Llyfrgell Genedlaethol. O gyfartalu amllder y geiriau i

⁵⁵⁷ 'Cadfloedd Rhyddid', *Y Geninen*, Ebrill 1915, 76.

⁵⁵⁸ *Yr Herald Cymraeg*, 8 Medi 1914, 6.


⁵⁵⁹ Gweler er enghraifft Lloyd, 'Welsh Public Opinion'; Lloyd, 'Llenyddiaeth Cyni a Rhyfel'; Llwyd, *Out of the Fire of Hell*.

⁵⁶⁰ 'Araith yng Ngorsedd Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth, Awst 17, 1916', *Y Geninen*, Hydref 1916, 221.

⁵⁶¹ 'Araith yng Ngorsedd Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth, Awst 17, 1916', *Y Geninen*, Hydref 1916, 222.

bob 1,000 o erthyglau, sylwer ar batrwm cyffredinol o ostyngiad yn nefnydd y geiriau hyn tan gychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac eithrio cynnydd sydyn yn 1887. Gwelir naid sylweddol yn 1914, gyda gostyngiad yn 1916 cyn gweld cynnydd eto yn 1917 ac 1918.⁵⁶²

Graff 3.2: Amllder ‘rhyddid’ a ‘ryddid’ ym mhapurau wythnosol Cymreig, 1880–1918.



Dengys y ffigurau hyn gipolwg bras o sut sbardunwyd y delfryd o ryddid gan y rhyfel. Ymddengys hefyd fod ymdrech newydd i resymoli'r rhyfel wedi digwydd yn 1917 wrth i 'gwareiddiad' ddod yn fwy gweledol na'r blynyddoedd cynt. Gwelwyd gostyngiad yn nefnydd 'rhyddid' ym 1916, o bosib yn adlewyrchu cyflwr y flwyddyn honno fel un lle diflannodd unrhyw obeithion o fuddugoliaeth gyflym neu gadoediad. Serch hyn, llwyddodd rhai testunau i barhau gyda'r naratif o ryfel dros ryddid, gyda 'Simon Selotes' yn *Y Geninen* ym mis Hydref 1916 yn dadlau mai rhyfel 'rhwng gormes a rhyddid' oedd hi.⁵⁶³ Rhai misoedd cyn diwedd y

⁵⁶² Gwelir 16 papur wythnosol Cymreig o dan astudiaeth yn negawd 1880au, 22 yn negawd 1890au, 22 yn negawd 1900au, ac 19 papur wythnosol am gyfnod y rhyfel o fis Awst 1914 hyd Tachwedd 1918. Y detholiad o bapurau oedd: *Baner ac Amserau Cymru*; *Y Drych*; *Y Genedl Gymreig*; *Tarian y Gweithiwr*; *Seren Cymru*; *Y Cymro*; *Y Celt*; *Y Werin*; *Y Tyst*; *Y Gwyllyedydd*; *Y Goleuad*; *Y Llan*; *Y Brython Cymreig*; *Y Dydd*; *Gwalia*; *Papur Pawb*; *Y Negesydd*; *Y Cloranydd*; *Yr Herald Cymraeg*; *Yr Wythnos a'r Eryr*; *Y Tyst a'r Dydd*; *Y Rhedegydd*.

⁵⁶³ 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Hydref 1916, 259.

rhyfel roedd rhyddid yn parhau'n ganolog i gyflwyniad y rhyfel, gyda'r Parchedig D. Jones yn pwysleisio fod y rhyfel yn un 'thros ryddid ac iachawdwriaeth dynolryw!'⁵⁶⁴

Trafodwyd rhyddid hefyd yn nhermau'r unigolyn. Gyda chynlluniau consgripsiwn yn gefnlen i'r erthygl, gwelwyd yr athro Saesneg, Charles Harold Herford, gynt o Goleg y Brifysgol, Aberystwyth, yn ceisio esbonio'r gwahaniaeth rhwng rhyddid Prydain a rhyddid yr Almaen yn y *Welsh Outlook*. Trafododd y berthynas rhwng yr unigolyn a'r wladwriaeth gan gyhuddo Almaenwyr o feddiannu unigoliaeth eithafol a theimladau cymdeithasol dwys a oedd yn gyfrifol am eu cefnogaeth frwd a diamheuol i'r wladwriaeth. Nid oedd meddwl annibynnol i'w weld yn rhinwedd o'r genedl Almaenaidd. Ysgrifennodd:

Germany alone of modern states has sought to realize the Greek theory of the State, in which the citizen was at once the absolute servant of his Country and yet found his own fulfilment in that service.⁵⁶⁵

Cyflwynwyd y ddadl yma drwy gyfeirio at un o ddramâu enwocaf Johann Wolfgang von Goethe a'i gymeriad chwedlonol, Faust. Galwyd Faust yn 'the supreme type of the German mind, as it sees itself.'⁵⁶⁶ Dengys testun Herford sut y defnyddiwyd un o weithiau llenyddol enwocaf yr Almaen i gynrychioli ei hagweddau anfoesol. Roedd Faust yn ysgolhaig llwyddiannus, ond yn ei ymgais i feddu ar fwy o bŵer, daeth i gytundeb gyda'r Diafol a fyddai'n caniatáu'r pwerau iddo am weddill ei oes yn gyfenwid am enaid Faust. Cynrychiola hanes Faust sefyllfa unigolyn uchelgeisiol yn ildio gonestrwydd moesol er mwyn ennill pŵer. Dyma'r union sefyllfa a briodolwyd i'r Almaen gan Herford wrth gyhuddo'r wlad honno o feddu ar nodweddion anwaraidd yn ei hymgais am dra-arglwyddiaeth dros y cyfandir.

Siglwyd y drafodaeth ar ryddid pan fwriadwyd cyflwyno consgripsiwn ym Mhrydain ddechrau 1916. Profodd y Ddeddf Gorfodaeth yn ddadleuol wrth iddi gyffwrdd ar rai o egwyddorion mwyaf sylfaenol yr Oleuedigaeth ynghylch hawl y wladwriaeth dros yr unigolyn. Heriwyd egwyddorion Rhyddfrydwyr ac Anghydfurfwyr i'r carn gyda sawl un yn methu cysoni hyn a'u credoau. Yn ogystal â sawl ymataliad, pleidleisiodd 30 o Aelodau Seneddol yn erbyn y mesur, gan gynnwys nifer o'r garfan Ryddfrydol Gymreig.⁵⁶⁷ Fodd bynnag, dangosodd y ddeddf y berthynas hanfodol a oedd bellach yn bodoli rhwng yr unigolyn a'r wladwriaeth ym Mhrydain. Gwelwyd barn gadarn y *Welsh Outlook* o blaid y syniad. Argraffwyd datganiad yn

⁵⁶⁴ 'Cofadail Deilwng i'r Dewrion', *Y Geninen*, Gorffennaf 1918, 178.

⁵⁶⁵ 'Freedom – English and German', *Welsh Outlook*, Medi 1915, 338.

⁵⁶⁶ 'Freedom – English and German', *Welsh Outlook*, Medi 1915, 338.

⁵⁶⁷ Yn eu plith oedd Tom Richards (Gorllewin Sir Fynwy), E. T. John (Dwyrain Sir Ddinbych), Caradog Rees (Sir Gaernarfon: Arfon), a W. Llewelyn Williams (Caerfyrddin). Eirug, *Gwrthwynebwyr Cydwybodol*, t.93.

rhifyn mis Tachwedd 1915 yn caniatáu i'r darllenwyr dynnu llw yn clymu trigolion unrhyw dref yng Nghymru i ddarpariaeth a gwasanaeth y wladwriaeth. Nododd y golygydd, Thomas Jones, am y wladwriaeth: 'it is in its service we find our fullest freedom.'⁵⁶⁸ Gan ystyried egwyddorion sylfaenol Anghydfurfiaeth, pwysleisiodd ymgorfforiad y genedl yn ei thrigolion gan gymathu'r unigolyn a'r wladwriaeth mewn amser o argyfwng:

There is no question of the right of the State to summon us to its defence. That right is inherent in the law of the land. That right exists in time of peace as in time of war and is exercised by all the continental nations (...) The right of the individual to be free and of the State to compel are not hostile or exclusive rights (...) So we belong to the State and the State belongs to us.⁵⁶⁹

Felly y tynnwyd sylw at un o egwyddorion yr Oleuedigaeth, gyda'r *Welsh Outlook* yn datgan ei chefnogaeth i allu a chyfreithlondeb y wladwriaeth i weithredu ei hawdurdod dros yr unigolyn. Nid oedd y farn hon yn unfrydol fodd bynnag. Wedi ei sefydlu yn 1916 i wrthwynebu'r rhyfel ar seiliau crefyddol, gwawdiwyd yn *Y Deyrnas* y gred mai rhyddid oedd un o ddelfrydau'r rhyfel. Yn 1917 gyda chongripswn yn ei hanterth, gofidiodd R. Conwy Pritchard a David Thomas am natur hollbwerus y wladwriaeth yn ei chyfnod milwriaethus:

Ac os achubwyd rhyddid, caredm wybod pa le y dodwyf ef ar ôl ei achub. Clywsom weithiau am ddodi peth i'w gadw mor ddiogel fel nad oedd bosibl cael gafael arno byth mwy. Tebyg mai rhywbeth o'r fath a wnaed â rhyddid. O leiaf ni fu adeg erioed pan yr oedd llai o ryddid i'w weled ar led y byd, ac i'r bobl yn gyffredin. Feallai, er hynny, ei fod yn hollol ddiogel yn llogell Arglwydd Northcliffe, ac na chaiff y werin ddiotal er weled byth mwy.⁵⁷⁰

Gwelwyd triniaeth wahanol i'r ddelfryd o ryddid yn *Y Deyrnas*. Dadansoddwyd y ddadl o blaid y rhyfel gan y golygydd, Thomas Rees, gan gasglu mai 'rhyddid a chyfiawnder ac annibyniaeth i genhedloedd bychain' oedd yr amcanion.⁵⁷¹ Er mai gwrthod dulliau rhyfelgar i gyrraedd yr amcanion hyn a wnaeth *Y Deyrnas*, canfuwyd y delfrydau hyn fel rhai cyffredin yn rethreg cyfiawnder y rhyfel. Fodd bynnag, mynegodd Rees yng ngolygyddol mis Mehefin 1917: 'Anhawddach yw heddyw nag erioed i wybod beth mewn gwirionedd yr ymleddir am dano.'⁵⁷² Blwyddyn yn ddiweddarach, gwawdiodd Rees unwaith eto'r amcanion rhyfel gwreiddiol: 'Aeth Prydain i ryfel er mwyn Belgium, a chyfiawnder a rhyddid, a gwneud diwedd ar ryfel.

⁵⁶⁸ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Tachwedd 1915, 412.

⁵⁶⁹ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Tachwedd 1915, 412.

⁵⁷⁰ 'Areithiau'r Prif Weinidog', *Y Deyrnas*, Gorffennaf 1917, 4.

⁵⁷¹ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Hydref 1916, 2.

⁵⁷² 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Mehefin 1917, 2.

Ni fu dim yn amlycach erioed na bod rhyfel wedi llwyr fethu sylweddoli'r un o'r amcanion hyn.⁵⁷³ Ategwyd collfarn Rees yn gyson yn nhudalennau'r *Deyrnas*.

Yn ategol i'r drafodaeth ar anrhydedd a rhyddid oedd y syniad y byddai'r delfrydau hyn, drwy gael eu buddsoddi yn yr ymdrech rhyfel, yn cyfrannu at ffurfio cymdeithas well yn y dyfodol. Mynegwyd mewn manau bryder am gyflwr cymdeithas y wlad, gyda'r rhyfel yn arwydd fod dirywiad moesol wedi digwydd yng ngwareiddiad y Gorllewin. Daeth arferion a mentrau cyfoes o dan sylw, gyda'r Henadur Abel Williams, Abersoch, yn disgrifio sinemâu fel 'un o ddichellion diweddaraf yr un drwg', tra y'i gelwid yn 'un o felldithion yr oes' gan 'Atwebyd, M.A.'⁵⁷⁴ Soniwyd yn *Y Geninen* yn gynnar yn y rhyfel am 'gyflwr galarus' yr eglwysi yng Nghymru. Siomwyd y Parchedig D. Jones gan agweddau cymdeithas, yn enwedig arferion y genhedlaeth ifanc. Roedd ffasiwn a ffordd o fyw modern yn creu merched 'penchwiban' yn ei dyb ef. Dywedodd amdanynt: 'Rhodiant yr heolydd yn haner-noethion, a hynny yn berffaith ddigywilydd!'⁵⁷⁵ Am fechgyn, dynodwyd diflastod o sylwi ar ddegau o filoedd ohonynt yn gwyllo gemau pêl-droed mewn cyfnod lle'r oedd 'tynged y wlad yma yn y glorian.'⁵⁷⁶

Cyfeiriwyd at arferion cymdeithas gyfoes droeon, gan gynnal trafodaeth ar ffurfio cymdeithas well i'r dyfodol. Dyma a wnaeth y Parchedig Pierce Owen yn *Y Traethodydd* wrth briodoli creulonderau'r Almaenwyr yng Ngwlad Belg i alcohol, a dadlau achos dirwest yng Nghymru.⁵⁷⁷ Cysylltodd Owen aberth y milwyr ar faes y gad gydag aberth rhai o bleserau bywyd cyfoes drwy alw ar roi'r gorau i ddiodydd meddwol. Dysgodd y rhyfel, meddai Owen, 'y ddyledswydd o hunanaberth', ac roedd newid agweddau er gwell i'r dyfodol yn cynrychioli 'urddas ac anrhydedd ein gwlad'.⁵⁷⁸ Un cylchgrawn a ymgyrchodd yn gyson dros achos dirwest oedd *Y Gymraes*, dan olygyddiaeth Alice Gray Jones ('Ceridwen Peris'). Gwelwyd ymateb cyntaf y cylchgrawn hwn i'r rhyfel mewn erthygl gan Annie C. Pritchard o Landudno, fel rhan o nodiadau Undeb Dirwest Merched Gogledd Cymru. 'Dyma ni wedi ein lluchio i amgylchiadau newydd a dieithr' nododd Pritchard.⁵⁷⁹ Ond ei neges i'r darllenwyr oedd i gydio'n dynnach yn achos dirwest:

Nid llai ond mwy o ymdrech gyda phob achos da raid ei roddi yn awr.
Rhaid dal ati i godi baner Dirwest. Rhaid dal ati i ennill gwragedd a

⁵⁷³ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Mai 1918, 1-2.

⁵⁷⁴ 'Addysg Grefyddol yr Aelwyd', *Y Gymraes*, Gorffennaf 1917, 99; 'Llythyr at Tadau a Mamau Cymru', *Y Gymraes*, Mehefin 1917, 92.

⁵⁷⁵ 'Rhyfel y Cenhedloedd', *Y Geninen*, Ebrill 1915, 83.

⁵⁷⁶ 'Rhyfel y Cenhedloedd', *Y Geninen*, Ebrill 1915, 83.

⁵⁷⁷ 'Rhai O Wersi Y Rhyfel Presennol', *Y Traethodydd*, Ionawr 1917, 70-80.

⁵⁷⁸ 'Rhai O Wersi Y Rhyfel Presennol', *Y Traethodydd*, Ionawr 1917, 79.

⁵⁷⁹ 'Y Rhyfel', *Y Gymraes*, Medi 1914, 143.

mamau i wrthod llochesu y gelyn alcoholaidd. Tybed y gall y cyfwng presennol ddwyn temtasiynau newyddion i rai o'n chwiorydd?'⁵⁸⁰

I 'Mrs Church' yn ysgrifennu ym mis Ionawr 1915, yr un oedd yr argyhoeddiad a'r un oedd y neges, wrth iddi gysylltu purdeb dirwest gyda phurdeb ac effeilonrwydd y milwyr:

Ymddygwch fel y dylai plentyn Duw ymddwyn, a bydd hyn yn help i'n milwyr ymddwyn yn iawn. Y mae yr eneth ffôl, wyllt, ddifeddwl, fel yn annog y dynion ieuainc i fod yn hyf gyda hi, ac felly yn eu harwain i fod yn filwyr gwael, yn lle yn filwyr gwrol.⁵⁸¹

Mewn enghraifft arall o ffocws y cylchgrawn, cyhoeddwyd rhan o anerchiad Miss Edith Thomas, Cricieth, a draddodwyd yng Nghyfarfod Blynyddol Undeb Dirwestol Merched Gogledd Cymru yn Abermaw, Hydref 1916. Dangoswyd fod dirwest yn rhan o gynllun y dyfodol i ffurfio cymdeithas lanach, wedi i'r rhyfel ddatgelu methiannau moesau diweddar. Nododd Thomas: 'Os gallwn fwrw allan o'n bywydau bopeth sydd yn wan, a hunanfoethus, ac isel, yr ydym yn cynnal ysbryd ein milwyr, ac yn cynorthwyo i adeiladu cenedl *burach* ac *ardderchocach* yn y dyfodol'.⁵⁸² Doedd achos dirwest ddim yn gyfyngedig i'r *Gymraes* chwaith, gyda golygydd *Seren Gomer*, J. Griffiths, Rhydaman, yn ystyried y fasnach feddwol yn 'berygl cenedlaethol' a'r 'gelyn mwyaf marwol'.⁵⁸³ Daeth hi'n fater difrifol yn y byd gwleidyddol hefyd gyda Lloyd George yn traethu mwy nag unwaith am ei pheryglon. Ym mis Chwefror 1915, er enghraifft, soniodd y Gweinidog Arfau: 'Drink is doing us more damage in the war than all the German submarines put together.'⁵⁸⁴ Mis yn ddiweddarach datganodd Lloyd George: 'We are fighting Germany, Austria and Drink, and as far as I can see the greatest of these three deadly foes is Drink.'⁵⁸⁵ Yn wir, penderfynodd y Brenin Siôr ei hun yn 1915 i ymwrthod â'r ddiod feddwol am gyfnod y rhyfel.

Roedd y dadleuon hyn yn parhau hen frwydrau ond roeddent bellach yn rhan o weledigaeth cymdeithas y dyfodol, i'w ffurfio wedi'r rhyfel. Taniwyd ystyriaeth i ymddygiad cyfoes, gydag agweddau ac ymarferion y byd modern i'w gweld yn tanseilio strwythurau cymdeithasol y wlad. Gwelir erthygl Kate Ellis yn *Y Gymraes* yn enghraifft o hyn, wrth i'w hysgrif ystyried profiad y rhyfel yn dylanwadu'n wael ar ieuencid y genedl.⁵⁸⁶ Pwysleisiodd golygydd y cylchgrawn, Alice Gray Jones, rôl yr aelwyd, ysgolion, a'r Eglwys yn ailffurfio cymdeithas.

⁵⁸⁰ 'Y Rhyfel', *Y Gymraes*, Medi 1914, 144.

⁵⁸¹ 'Cynghorion i Ferched Ieuainc ein Teyrnas', *Y Gymraes*, Ionawr 1915, 10.

⁵⁸² 'Dirwest yn Amser Rhyfel', *Y Gymraes*, Rhagfyr 1916, 180.

⁵⁸³ 'Y Rhyfel a'r Cyfle Dirwestol', *Seren Gomer*, Ionawr 1917, 4.

⁵⁸⁴ Mr Lloyd George on the Drink', *The Carmarthen Journal*, 5 Mawrth 1915, 8.

⁵⁸⁵ Mr Keir Hardie and Mr. Lloyd George', *The Merthyr Pioneer*, 17 Ebrill 1915, 3.

⁵⁸⁶ 'Beth Fydd Effaith y Rhyfel ar Gymeriadau ein Hieuenctid?', *Y Gymraes*, Mehefin 1916, 89-90.

Crefydd, dirwest, ac addysg fyddai seiliau moesol y dyfodol, ond cedwir hefyd rôl ddylanwadol i famau, fel craig foesol y cartref:

Mamau a'u delfrydau yn uchel, eu meddwl yn gaeth a phur, eu hysbryd yn gamaidd, a'u calon yn wrol i gyflawni holl ddyledswyddau eu safle. Mamau a ffydd yn eu nerthu, a Gras yn eu harwain i rodio llwybrau egwyddorion tragwyddol.⁵⁸⁷

Yn argyhoeddedig fod y rhyfel yn symbol o bydredd gwareiddiad, gofynnodd J. Lewis Williams yn *Y Geninen* ym mis Ebrill 1918: 'Beth yw yr elfen goll sydd wedi peri i wareiddiad diweddar fod yn fethiant ac yn siomiant i'r graddau y mae felly?'⁵⁸⁸ Cynigiodd mai Cristnogaeth oedd yr 'elfen goll', gan honni bod gwareiddiad presennol modern wedi ei ffurfio 'gyda mor ychydig o le i Dduw ynddi hi ag oedd yn bosibl'.⁵⁸⁹ Dyma oedd yr arwyddion yng nghymdeithas Cymru fod y wlad yn colli golwg o'i moesoldeb, ac o ganlyniad fod ei gwareiddiad yn dirywio. Cyffyrddodd Williams â'r thema o wrthdaro rhwng y materol a'r ysbrydol. Nodwyd eisoes gan 'A Chaplain to the Forces' yn y *Welsh Outlook* ddiwedd 1916: 'Underlying the present war is the deeper conflict between a spiritual and a material view of life.'⁵⁹⁰ Disgrifiodd J. T. Pritchard y rhyfel yn *Y Traethodydd* yn 1915 fel 'gwahanol ddelfrydau cymdeithasol yn ymdrechu am oruchafiaeth', gan dynnu cymariaethau gyda Rhyfeloedd y Peloponesos.⁵⁹¹ Roedd traddodiadau cymdeithas i'w gweld yn cael eu tanseilio wrth i'r rhyfel gyfleu goruchafiaeth faterol moderniaeth.

Tebyg oedd barn yr athronydd a'r addysgwr, Syr Henry Jones yn y *Welsh Outlook* ym mis Ionawr 1916. Ystyriodd Jones rôl moesau mewn cenedloedd, a nodedig oedd ei driniaeth o unigolion a chenedloedd yn yr un modd. Nododd er enghraifft: 'What is true of the individual character is true equally of nations.'⁵⁹² Gyda'r Almaen yn cynrychioli 'moesau ffug', credwyd fod y rhyfel presennol yn gyfle euraidd i waredi'r rhain a gosod moesau gwell, wedi eu hysbrydoli gan Gristnogaeth, yn eu lle. O ymladd y rhyfel ystyriodd Jones y byddai'r Cynghreiriaid yn sefydlu oes newydd gyda'r un moesau yn cael eu rhannu gan bawb: 'We are fighting for these generous ideas: and by fighting for them we are helping to build humanity into one.'⁵⁹³ Daeth y rhyfel yn gyfle i fuddsoddi gwerthoedd newydd mewn i gymdeithas a oedd wedi dechrau pydr. Parhaodd hyn yn thema tan ddiwedd y rhyfel, gyda D. Jones yn

⁵⁸⁷ 'Paratoi Ar Gyfer Byd Newydd', *Y Gymraes*, Tachwedd 1917, 170.

⁵⁸⁸ 'Brwydr y Teyrnasoedd', *Y Geninen*, Ebrill 1918, 92.

⁵⁸⁹ 'Brwydr y Teyrnasoedd', *Y Geninen*, Ebrill 1918, 93.

⁵⁹⁰ 'The Desire of All Nations', *Welsh Outlook*, Rhagfyr 1916, 383.

⁵⁹¹ 'Cytundebau: eu hanes a'u gwarsi', *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 154.

⁵⁹² 'The Nature of Morality and its Bearing on the War', *Welsh Outlook*, Ionawr 1916, 11.

⁵⁹³ 'The Nature of Morality and its Bearing on the War', *Welsh Outlook*, Ionawr 1916, 12.

rhagweld yn *Y Geninen* yng Ngorffennaf 1918 y byddai'r Cynghreiriaid yn 'dyrchafu bywyd moesol dynolryw i hinsawdd uwch' yn dilyn y rhyfel.⁵⁹⁴

Gwelir yn y testunau hyn y gwrthdaro rhwng gwerthoedd traddodiadol a dyfodiad moderniaeth. Gellid ystyried y rhyfel yn flaengad epoc newydd wrth i hen arferion gael eu disodli gan syniadau a thechnoleg newydd. Mae'n glir fod gwareiddiad, anrhydedd, a rhyddid wedi bod yn ddelfrydau nerthol yn y Wasg Gymreig adeg y rhyfel, wrth iddynt hefyd gynni trafodaeth ar ffurfio cymdeithas well i'r dyfodol. Yn hyn, sefydlwyd rhai o nodweddion hanfodol y diwylliant rhyfel Cymreig.

Hanfodoli'r Almaen

Roedd y Wasg yn allweddol wrth osod delfrydau penodol i gyfiawnhau'r rhyfel o'r cychwyn, gan fagu cymhelliant cyfiawn a moesol i ymladd y rhyfel yn enw gwareiddiad. O reidrwydd, datblygwyd yn y Wasg Gymreig enghreifftiau o hanfodoli'r Almaen; hynny yw, ceisio esbonio gweithredoedd – a chreulonderau – yr Almaen yn unol â syniadau a mynegiant athronwyr y wlad honno. Rhy Gethin Matthews ddiffiniad o hanfodoli fel: 'crynhoi'r hyn a ystyriai yn nodweddion trigolion gwlad ac yn pennu pa rinweddau sydd yn hanfodol yn eu cymeriad.'⁵⁹⁵ Dyma esboniad ar sylwad O. M. Edwards yn *Cymru* ym mis Rhagfyr 1914 pan ysgrifennodd Edwards: 'Y mae cenhedloedd fel pe wedi cymeryd ffurf unigolion, a gwelwn beth yw greddf, cydwybod, enaid, amcan pob un.'⁵⁹⁶ Crynhôdd E. E. Thomas farn sawl un pan ysgrifennodd yn y *Welsh Outlook* ym mis Chwefror 1915 am y berthynas rhwng deallusion yr Almaen a pholisïau'r wlad honno:

It is the thought of her greatest thinkers, penetrating into the remotest corners of German life, that has given to the German people their present attitude, and to the German government its present policy.⁵⁹⁷

Targedodd y Wasg Gymreig rai o unigolion amlycaf yr Almaen yn eu mynegiant damcaniaethol. Yn debyg i ysgrif E. E. Thomas, crisialwyd y meddylfryd hwn gan y diwinydd, David Miall Edwards, a osododd ei farn yn ail rifyn *Y Geninen* ers cychwyn y rhyfel:

⁵⁹⁴ 'Cofadail Deilwng i'r Dewrion', *Y Geninen*, Gorffennaf 1918, 178.

⁵⁹⁵ Gethin Matthews, "'Un o Flynyddoedd Rhyfeddaf Hanes": Cyflwyno'r Rhyfel Mawr yn Nhudalennau *Cymru* yn 1917', yn Matthews (gol.), *Creithiau*, t.171.

⁵⁹⁶ 'Crefydd a Rhyfel', *Cymru*, Rhagfyr 1914, 250.

⁵⁹⁷ 'Politics and Philosophy in England and Germany', *Welsh Outlook*, Chwefror 1915, 54.

A chredaf fod meddwl ac is-feddwl Germani wedi eu trwytho mewn rhyw syniadau, y rhai o'u deall a ant ym mhell i esbonio pa fodd y gallai cenedl mor wareiddiedig a diwylliedig fod yn achos y fath farbareiddiwch.⁵⁹⁸

Yn y dyfyniad hwn, awgrymwyd fod hanes yr Almaen yn frith o ddelfrydau pennaf gwareiddiad, a bod eu diwylliant yn un o'r rhai cyfoethocaf a fu. Ond nodwyd fod y wlad wedi profi tro ar fyd at 'farbareiddiwch'. Gwahaniaethodd deallusion Cymru rhwng yr 'hen Almaen' a'r 'Almaen newydd', lle gosodwyd seiliau eu gwareiddiad diwylliannol gan athrylithoedd megis y cyfansoddwyr Robert Schuman, Ludwig van Beethoven, a Franz Schubert (a oedd o Awstria, ond yn cael ei ystyried fel rhan o'r diwylliant a'r hil Almaeneg), y brodyr Jacob a Wilhelm Grimm, y llenor Johann Wolfgang von Goethe, ac athronydd Delfrydiaeth, Immanuel Kant. Yn debyg, nododd Aelod Seneddol Rhyddfrydol bwrdeistref Caerfyrddin, W. Llewelyn Williams yn *Y Geninen* y dylanwad a gafodd rhai unigolion ar fagu milwriaeth Almaenaidd: 'Tra i Fichte ac Arndt a Kleist tanio enaid y genedl, dysgodd Scharnhorst a Gneisenau iddynt y ffordd i hogi'r cledd.'⁵⁹⁹ Cyfaddefodd y Parchedig David Gwynfryn Jones yn *Y Deyrnas* fod elfen o wirionedd yn y gred fod rhinweddau diwylliedig yr Almaen wedi eu sathru gan syniadaeth unigolion blaenllaw yr Almaen gyfoes. Nododd Jones, a oedd hefyd yn olygydd y papur enwadol Wesleiaidd wythnosol *Y Gwylidydd*:

Ond nid yr "hen Almaen" yw yr Almaen sy'n ymladd â ni heddyw; Almaen yw hon a gâr awdurdod unben, mawredd golud bydol, a chryfder gïau, neu greulondeb y "*superman*", yn fwy na rhyddid, rhamant meddwl, a thiriondeb y Dyn Crist Iesu.⁶⁰⁰

Dehonglwyd y rhyfel mewn modd tebyg gan O. M. Edwards pan ofynnodd yn ei nodiadau golygyddol mis Rhagfyr 1914: 'Beth enillodd yr Almaen hyd yn hyn, yn y rhyfel alaethus gyfiawnheir ac a ganmolir gan ei hathronwyr a'i diwinyddion?'⁶⁰¹

Traethwyd yn gyson am syniadaeth prif athronwyr ac ysgolheigion yr Almaen, gan greu a chefnogi canfyddiad penodol o'r Almaen fel cenedl filwriaethus a oedd wedi colli golwg ar wareiddiad. Diffiniodd David Miall Edwards ddiwylliant cyfoes yr Almaen fel un lle roedd 'nerth materol ac anianyddol' yn ffynhonnell pob hawl foesol. Dangoswyd Arthur Schopenhauer fel rhagflaenydd yr ysgol feddwl hon. Dadleuodd Edwards fod Schopenhauer, drwy bwysleisio Ewyllys uwchben Rheswm wedi gosod yr Almaen ar lwybr lle y byddai grym

⁵⁹⁸ 'Athroniaeth Germani a'r Argyfwng Presennol', *Y Geninen*, Ionawr 1915, 1.

⁵⁹⁹ 'Paham y Syrthiodd y Cedryn?', *Y Geninen*, Ionawr 1915, 50.

⁶⁰⁰ 'Gwleidyddiaeth Cymru', *Y Deyrnas*, Mawrth 1917, 10.

⁶⁰¹ 'Cronicl Y Misoedd', *Cymru*, Rhagfyr 1914, 283.

milwrol ac egwyddorion hunanol yn feistri'r dydd.⁶⁰² Atseinia hyn un o weithiau enwocaf Schopenhauer, *Die Welt als Wille und Vorstellung* (*Y Byd fel Ewyllys a Chynrychiolaeth*). Yn hwn diffiniwyd *Wille* (ewyllys) fel un o ymarferion mwyaf sylfaenol dyn, a thrwy awydd dyn am fwy, y gwelir dioddefaint.

Pwysleisiwyd hunanoldeb a milwriaeth yr Almaen ar sawl achlysur. Mor gynnar â mis Medi 1914, cyfeiriodd David Lloyd George at athroniaeth yr Almaen fel 'a philosophy of blood and iron'.⁶⁰³ Daeth nifer i gasgliad mai'r delfrydau Almaenaidd yma oedd yn gyfrifol am gychwyn y rhyfel. Wrth sôn am natur ryfelgar yr Almaenwyr, nododd Thomas Hughes yn *Y Geninen* yn Ebrill 1915: 'Ceir eu cymeriad yn gerfiedig mewn dinasoedd anrheithiedig, mewn eglwysydd a llyfrgelloedd amhrisiadwy wedi eu distrywio.'⁶⁰⁴ Roedd hwn yn gyfeiriad at y dinistr a welwyd yng Ngwlad Belg ym misoedd agoriadol y rhyfel, yn enwedig llosgi llyfrgell Louvain a dinistrio eglwys gadeiriol Rheims. I gefnogi'r ddelwedd yma o greulondeb yr Almaenwyr, dyfynnwyd Cadfridog Napier a'i brofiad ef o sylwi ar Almaenwyr adeg rhyfeloedd Napoleon yn 1807: 'Llofruddiasant, lladratasant a baeddasant y trigolion diniwed lle bynnag yr elent'.⁶⁰⁵ Nid oedd ymddygiad yr Almaenwyr wedi newid mewn can mlynedd, ac roedd yr arferion treisgar – bellach yn nodweddion o'r genedl Almaenaidd – yn amlwg yn y rhyfel hwn.

Nodwyd hefyd Johann Fichte fel un a gyfrannodd at filwriaeth yr Almaen. Nodwyd testun Fichte o 1808, *Reden an die deutsche Nation* (*Anerchiadau i'r genedl Almaenaidd*), fel un a gyfrannodd at natur bresennol y wlad. Soniodd E. E. Thomas am Ddelfrydiaeth Fichte:

He tried to show that Germany was a political principle logically expanding itself into a great system of subordinate principles, to which the individual must subordinate himself with inevitable necessity.⁶⁰⁶

O ganlyniad, dehonglwyd dinasyddion yr Almaen fel dilynwyr dall i'r gred ormesol hon: 'It is with this great feeling of admiration for their own political ideal that the Germans have laid claim to world supremacy.'⁶⁰⁷ I Thomas, roedd yr Almaen yn dechrau gwireddu gwir ddelfrydiaeth Almaenaidd. Tebyg oedd barn golygydd *Y Traethodydd*, John Evan Hughes, a nododd gweledigaeth un o deidiau'r genedl Almaenaidd fel tarddiad i'r ymgais am dra-

⁶⁰² Roedd hyn yn herio ac yn tanseilio athronwyr Delfrydiaeth gynt yr Almaen megis Kant a Hegel. 'Athroniaeth Germani a'r Argyfwng Presennol', *Y Geninen*, Ionawr 1915, 4-5.

⁶⁰³ Lloyd George, *The Great War*, t.12.

⁶⁰⁴ 'Achlysur ac Achos y Rhyfel Bresennol', *Y Geninen*, Ebrill 1915, 91.

⁶⁰⁵ Roedd Syr Charles James Napier yn Gadfridog ac yn llywodraethwr yr Ymerodraeth Brydeinig yn ogystal â phencadlywydd Byddin Prydain yn India hyd at 1847. 'Achlysur ac Achos y Rhyfel Bresennol', *Y Geninen*, Ebrill 1915, 90.

⁶⁰⁶ 'Politics and Philosophy in England and Germany', *Welsh Outlook*, Chwefror 1915, 54-55.

⁶⁰⁷ 'Politics and Philosophy in England and Germany', *Welsh Outlook*, Chwefror 1915, 55.

arglwyddiaeth a chychwyn y rhyfel. Yn weinidog y Methodistiaid Calфинаidd yn Eglwys Seilo, Caernarfon, nododd Hughes mai ‘milwriaeth ac unbennaeth ydoedd arwyddeiriau [yr Almaen].’⁶⁰⁸ Pwysleisiodd yr effaith a gafodd y cyn-Ganghellor, Otto von Bismarck, ar y genedl:

Gosododd rhawd a hynt lwyddiannus Bismarck y genedl mewn gwrthryfel yn erbyn traddodiadau breuddwydiol a delfrydol y gorffennol, a dechreuwyd, o ddifrif a chydag egni cynhennid y bobl nerthol hyn, ddilyn amcanion bydol a materol.⁶⁰⁹

Roedd Delfrydiaeth Kant a Hegel i’w gweld yn cael ei disodli gan syniadaeth fwy hunanol, cenedlaetholgar, a gormesol. Gyda Schopenhauer, Fichte, a Bismarck yn derbyn sylw, doedd hi ddim syndod gweld Caisar Wilhelm II hefyd yn cael ei adnabod fel unigolyn a oedd yn personoli nodweddion creulon a dinistriol yr Almaen. Gwelwyd testunau yn trin ei gymeriad, yn aml yn ei ddisgrifio fel gwallgofddyn yn tra-arglwyddiaethu gydag ysbryd milwriaethus. Roedd y Parchedig John Kelly, Abergele, yn un a wnaeth hyn, wrth ysgrifennu i’r *Traethodydd* i nodi dylanwad ‘aruthrol’ y Caisar. Ysgrifennodd: ‘Gŵr anghymesur, byrbwyll, nwydwyllt, aflonydd, annoeth, a hunanol o awdurdodol ydyw [y Caisar].’⁶¹⁰ Mor sicr ydoedd am anfoesoldeb yr Almaen, mynegodd: ‘rhaid dyfarnu fod rhywbeth o’i le yn y Caisar.’⁶¹¹ Yr un oedd barn D. Jones yn *Y Geninen* a ddisgrifiodd y Caisar fel ‘yr ymerawdwr balch a haner-gwallgof’, tra cyfeiriodd ‘Murmurydd’ ato mewn cerdd yn *Cymru* fel y ‘Kaiser ffroenuchel’.⁶¹² Priodwyd rhinweddau’r Caisar gydag enaid y genedl Almaenaidd, gyda ‘gwallgofrwydd’ yr Ymerawdwr yn cael ei weithredu ar y llwyfan rhyngwladol drwy’r erchyllteru yng Ngwlad Belg. Personolwyd yr Almaen gan ‘Simon Selotes’ fel gwallgofddyn a oedd wedi ‘meddwi arnynt eu hunain’ ac o ganlyniad wedi ‘ymchwyddo gan falchder’.⁶¹³ Nid oedd rhesymeg, moesau, na phwyll i’w gweld yn bresennol yn yr enaid Almaenaidd, a’r Caisar oedd yn rhannol gyfrifol am hyn.

Cyfeiriwyd at y Caisar yn gyson fel unigolyn ansefydlog ac fel unben trachwantus. Cymharwyd ef mewn rhai testunau fel â’r diafol yn rheoli ar uffern, gydag eraill yn ei roi yn teyrnasu dros wlad ddi-Dduw. Disgrifiwyd natur yr Almaen a’r Caisar mewn englyn anhysbys yn *Y Geninen*

⁶⁰⁸ ‘Ysbryd Prwsia’, *Y Traethodydd*, Ionawr 1915, 10.

⁶⁰⁹ ‘Ysbryd Prwsia’, *Y Traethodydd*, Ionawr 1915, 10.

⁶¹⁰ ‘Gwraidd Hanesyddol y Rhyfel Mawr’, *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 137.

⁶¹¹ ‘Gwraidd Hanesyddol y Rhyfel Mawr’, *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 137.

⁶¹² ‘Rhyfel y Cenhedloedd’, *Y Geninen*, Hydref 1914, 270; ‘Rhyfel’, *Cymru*, Gorffennaf 1915, 50.

⁶¹³ ‘Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol’, *Y Geninen*, Hydref 1916, 260.

fel: ‘Uffern boeth lle mae Pharo’n byw!’⁶¹⁴ Ystyriodd John Kelly Gristnogaeth y Caisar fel crefydd wedi ei drin gan genedlaetholdeb a hunanoldeb. Myfyriodd Kelly am weledigaeth y Caisar gan gasglu mai’r ‘Prwsiaid yw pobl etholedig Duw i guro’r Canaaneaidd o’r byd’.⁶¹⁵ Roedd elfen gref o hunanaddoli yn nhriniaeth y Caisar. Ymhelaethodd Kelly ar natur Cristnogaeth y Caisar:

Cyfuniad ydyw ei grefydd o’r Hen Destament ac addoli ei hynafiaid. Dywed un fod ei Gristionogaeth wedi aros gyda Llyfr y Brenhinoedd, ac mai ei syniad am Nefoedd ydyw math ar Baradwys gyda’i holl hynafiaid ar yr orielau aur yn gwyllo’n bryderus ei ymdrechion ef ar ran yr Almaen.⁶¹⁶

Ymddengys fod awydd am dra-arglwyddiaeth yr Almaen wedi bod yn rhan annatod o syniadaeth a chrefydd y Caisar. Mynegwyd hyn hefyd mewn cerddi, wrth i’r Caisar brofi’n bwnc poblogaidd i feirdd a llenorion gyda sawl englyn yn fuddugol mewn Eisteddfodau lleol. Gwelwyd casineb tuag at y Caisar gan George Williams yn *Y Geninen* wrth iddo ddadlau nad haeddi Wilhelm fyw oherwydd yr hyn roedd ef yn ei gynrychioli:

Ynfyd ŵr, gor-anfad yw – y Kaiser,
Casa’ fab dynolryw.
Un llidiog, erchyll ydyw, –
Heddyw ‘i fath ni haedda fyw!’⁶¹⁷

Cyhoeddwyd yn *Y Geninen* nifer o englynion tebyg, gyda ‘Y Caisar’, ‘Y Caizer’, ‘Y Kaiser’ yn deitlau poblogaidd.⁶¹⁸ Pwysleisiodd Edward Jones, I. Telfryn Davies, ac englyn dienw ymfrost a broliant y Caisar. Dywed tair llinell olaf Edward Jones:

Ymferwa Am fawredd daearol
Yn lle’r “Dydd,” nos gythruddol
Gwrdd â’i wlad, ei frad, a’i frol.⁶¹⁹

Disgrifiwyd y Caisar gan I. Telfryn Davies fel:

Ymerawdwr, gwr ga gerydd, – un brwnt
Llawn brol, heria wledydd.⁶²⁰

⁶¹⁴ ‘Yr Almaen’, *Y Geninen*, Ebrill 1915, 135.

⁶¹⁵ ‘Gwraidd Hanesyddol y Rhyfel Mawr’, *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 138.

⁶¹⁶ ‘Gwraidd Hanesyddol y Rhyfel Mawr’, *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 137-38.

⁶¹⁷ ‘Y Kaiser’, *Y Geninen*, Ebrill 1915, 87.

⁶¹⁸ Cyhoeddwyd 21 englyn â ddefnyddiodd y teitlau yma yn *Y Geninen* rhwng Ionawr 1915 a Hydref 1918.

Gwelwyd wyth englyn arall hefyd yn sôn am y Caisar: ‘Yr Almaen’ ym mis Ebrill 1915; dwy gyda’r teitl, ‘Anerchiad yng Ngorsedd Bangor, 1915’ ym mis Ionawr ac Ebrill 1916; ‘Y Crown Prins’ ym mis Hydref 1916; ‘Dewrder Yr Hen Gymry’, ‘Beddargraff i’r Caisar’, a ‘Dewrder yr Hen Gymry’ ym mis Ionawr 1918; ac ‘Ewch i’r Rhyfel’ ym mis Gorffennaf 1918.

⁶¹⁹ ‘Y Caisar’, *Y Geninen*, Gorffennaf 1916, 209.

⁶²⁰ ‘Y Caisar’, *Y Geninen Eisteddfodol*, Awst 1916, 7.

Profodd cyfansoddiad Davies yn un buddugol yn Eisteddfod leol Horeb, Penrhyncoch. Nodwyd hefyd gan awdur dienw mai, ‘Broliwr heb wawr o heulwen’ ydoedd mewn englyn ym mis Hydref 1916.⁶²¹

Roedd ‘Y Caisar’ gan John Roberts yn fuddugol yn Eisteddfod leol yr Wyddgrug, ac ymddangosodd yn rhifyn Hydref 1916 *Y Geninen*. Ynndi, disgrifiwyd y Caisar fel pennaeth haerllug Annwn, is-fyd y Celtiaid, a byd y cysgodion a’r eneidiau drwg. Oherwydd y Caisar, rhoddwyd baich (‘pwn’) mawr ar y byd a bu rhaid ymladd yn ‘ddiarbed’ yn ei erbyn:

Do, ein byd a roed dan bwn;– diarbed
I’w erbyn ymladdwn:
Hyf bennaeth ar feib Annwn,
Cashä’r oes y Caisar hwn.⁶²²

Mewn englynion eraill, disgrifiwyd y Caisar fel ‘Anwar Gaisar’, ‘rhyfelwr O falais uffernol’, ‘anyriad ddyn hunanol, dienaidd / Dau wyneb direol’, ‘heliwr halog’, ‘Gormeswr llawn grymusedd’, ‘Dyrwygydd erch, draig o ddyn’, ‘bwli bas’, a ‘Gwae rwygwr plant a gwragedd!’ gyda’r disgrifiad olaf hwn yn rhan o gyfansoddiad buddugol y Parchedig L. Rhystyd Davies yn Eisteddfod leol Brynman yn 1915.⁶²³ Profodd y Caisar yn ffigwr poblogaidd i ddeallusion Cymru ei dargedu. Roedd yn unigolyn y gellid ei weld, ei ddarllen, ei ddarlunio, a’i ddehongli yn y Wasg. Gellid mesur creulonderau ac afreswm yr Almaen yn ei gymeriad ef. Ac yn aml, fel profwyd yn yr englynion ac ysgrifau eraill, dehonglwyd ef fel ffynhonnell yr ymgais Almaenaidd i dra-arglwyddiaethu, gyda’i natur ‘hanner-gwallgof’ yn dyst o ryfelgarwch y wlad honno.

Treitschke, Bernhardi, a Nietzsche

Yn ogystal â’r Caisar, ymosodwyd ar dri unigolyn yn fwy amlwg nag eraill. Datblygodd yr hanesydd, Heinrich von Treitschke (1834–1896), y Cadfridog a’r strategydd milwrol, Friedrich von Bernhardi (1849–1930), a’r athronydd, Friedrich Nietzsche (1844–1900) yn dargedau poblogaidd ledled Prydain. Er i Treitschke farw yn 1896, adwaenai rhai o ddeallusion Prydain ei ddylanwad dros yr Almaen gyfoes. Bu Treitschke yn aelod o’r Blaid Ryddfrydol

⁶²¹ ‘Y Crown Prins’, *Y Geninen*, Hydref 1916, 223.

⁶²² ‘Y Caisar’, *Y Geninen*, Hydref 1916, 232.

⁶²³ ‘Y Caisar’, *Y Geninen*, Hydref 1915 243; ‘Y Caisar’, *Y Geninen*, Ionawr 1916, 34; ‘Y Caisar’, *Y Geninen Eisteddfodol*, Awst 1916, 16; ‘Y Caisar’, *Y Geninen Eisteddfodol*, Awst 1916, 46; ‘Y Caisar’, *Y Geninen*, Ionawr 1917, 11; ‘Y Caisar’, *Y Geninen*, Gorffennaf 1917, 203; ‘Y Caisar’, *Y Geninen*, Ionawr 1918, 69; ‘Y Kaiser’, *Y Geninen*, Awst 1915 (Rhifyn Arbennig), 5.

Genedlaethol, a meddai ar egwyddorion asgell dde genedlaetholgar ac imperialaidd. Roedd ei ysgrifau yn frith o ymagweddau hiliol a datganiadau am oruchafiaeth yr Almaen. Bathodd Treitschke y syniadaeth am dynged yr Almaen, ac mewn erthygl yn 1862 cyfeiriodd at y ‘frwydr hiliol’ a ymleddir gan Almaenwyr yn erbyn Lithwaniaid a Pwyliaid, i gyd-fynd a’i agweddau a’i ysgrifau diweddarach gwrth-Semitaidd.⁶²⁴

Cyfieithwyd holl weithiau Treitschke i’r Saesneg yn 1914 pan gyhoeddwyd *Treitschke: His Life and Works* gan Jarrold & Sons yn Llundain. Yn yr un flwyddyn, cyhoeddwyd *Treitschke and the Great War* gan Joseph McCabe; *The Political Thought of Heinrich von Treitschke* gan Henry William Carless; *Nietzsche and Treitschke: The Worship of Power in Modern Germany* gan Ernest Barker; a blwyddyn yn ddiweddarach, *German Philosophy and the War* gan J. H. Muirhead, a *Modern Germany and Her Historians* gan Antoine Guillaud, a roddodd dros 500 o dudalennau o sylw i Treitschke. Â’r rhyfel yn gefnlen i’r cyhoeddiadau, ceisiodd y llyfrau hyn olrhain dylanwad yr hanesydd ar uchelgeisiau gwleidyddol yr Almaen. Daeth yr hanesydd yn ffigwr cyfarwydd i nifer ym Mhrydain ar gychwyn y rhyfel, ac ynghyd â Bernardi a Friedrich Nietzsche, fe’u delweddwyd fel *triumvirate* rhyfelgar Almaenaidd yn nhestunau propaganda a deunydd sylwebwyr deallusol Prydain.⁶²⁵ Roedd y *Times* yn gyflym i dynnu sylw at y triawd, mewn erthygl yn dwyn y teitl ‘The Great Illusion’ ar 2 Medi, 1914: ‘War to Treitschke and General Bernardi and all the conscious or unconscious followers of Nietzsche is noble and splendid in itself.’ Parhaodd yr erthygl i nodi dylanwad athroniaeth ryfelgar Treitschke a’r lleill ar y genedl: ‘the peculiarity of Germany is that this notion of war as an end in itself has taken hold of the intelligence of the country.’⁶²⁶ Mor gynnar â Medi 1914 felly, roedd Treitschke yn ffigwr pwysig ymysg sylwebwyr deallusol a phropaganda Prydain.

Un o ddaliadau canolog Treitschke oedd ei duedd i ogoneddu rhyfel, a sut anogwyd rhyfel er budd a datblygiad yr Ymerodraeth Almaenaidd. Tynnir sylw at agwedd bleidiol Treitschke at ryfel gan Mark Levene, yn ei astudiaeth ar hil-laddiadau, gan awgrymu bod rhyfela a dinistr cyflym hiliau eraill yn hanfodol i oruchafiaeth yr Almaen. Meddai Treitschke:

In the unhappy clash between races, inspired by fierce mutual enmity,
the blood-stained savagery of quick war of annihilation is more

⁶²⁴ Michael Burleigh and Wolfgang Ippermann, *The Racial State: Germany, 1933–1945* (Cambridge: Cambridge University Press, 1993), t.27.

⁶²⁵ Martin, ‘Nietzsche as Hate-Figure’, t.149.

⁶²⁶ *The Times*, 2 Medi 1914, 9.

humane, less revolting, than the specious clemency of sloth which keeps the vanquished in a state of brute beasts.⁶²⁷

Testun cynnar i ymdrin â Treitschke yn y Wasg Gymreig oedd erthygl David Miall Edwards yn *Y Geninen* ym mis Ionawr 1915. Dyfynnwyd rhai o ddisgrifiadau Treitschke o ryfel gan Edwards: ‘peth sanctaidd’, ‘llawforwyn diwylliant’, ‘offeryn y Duw Hollalluog’ a ‘meddyginiaeth Duw i iachau byd claf’, oedd pwrpas rhyfel i Treitschke. Ei neges, yn ôl Edwards, oedd i ‘argymell hawliau Germani i oruchafiaeth ar y byd.’⁶²⁸ Hefyd yn Ionawr 1915, ysgrifennodd Gweinidog y Methodistiaid Calfinaidd, Richard Thomas, yn *Y Traethodydd* am yr hanesydd: ‘Yn y gŵr enwog Treitschke, fe ddywedir, y deffrowyd yr ysbryd Prwsiaidd sydd heddyw yn amcanu dymchwel gwareiddiad Ewrop.’⁶²⁹ Talwyd sylw hefyd i Treitschke gan W. Llewelyn Williams, a fodlonodd i gefnogi’r rhyfel yn 1914 dim ond ar ôl i’r Almaen ymosod ar Wlad Belg. Nododd Williams awydd Treitschke i bwysleisio defnyddioldeb rhyfel i enaid cenedl. Treitschke oedd prif ffynhonnell rhyfelgarwch yr Almaen, ac meddai Williams yn *Y Geninen*: ‘Dysgodd Treitschke ei genedl i ddirmygu pob gwlad arall.’⁶³⁰

Mis Hydref 1916, cyhuddodd ‘Simon Selotes’ Heinrich von Treitschke o hwyluso yn y wladwriaeth Almaenaidd yr ysbryd milwrol ac anfoesol, a magu ymdeimlad yn ninasyddion yr Almaen o daeogrwydd tuag at y wladwriaeth. Ysgrifennodd yn *Y Geninen*: ‘Gorffennwyd y gwaith o ryddhau’r wladwriaeth oddiwrth bob llyffetheiriaid moesol gan yr hanesydd Treitschke. Yn ôl ei ddysgeidiaeth ef, dylai’r wladwriaeth fod uwchlaw popeth.’⁶³¹ Parodd y ffocws ar Treitschke tan ddiwedd y rhyfel, gyda ‘U. Salmon’ yn ei ddyfynnu yn *Y Geninen* ym mis Gorffennaf 1918:

Yr oedd dysgeidiaeth felly yn hollol gydnaws ag anianawd yr Ellmyn yn ei hawydd am fyd-allu, ac fel esgusawd feallai i ymbaratoi i ryfel. “Fe ofala Duw y bydd i ryfel barhau fel meddyginiaeth lem i’r hil ddynol,” medd Treitschke; a dyma ddysgir hefyd gan ei ddisgybl Bernardi. Credent bod yn rhaid i genedl ymddatblygu os am sicrhau ei bodolaeth a bod yn amhosibl ymddatblygu heb ddod i wrthdrawiad â chenhedloedd eraill. O herwydd rhesymau felly, tybient bod meithrin milwriaeth yn ddyledswydd arbennig ar y wladwriaeth.⁶³²

⁶²⁷ Dyfynnwyd gan Mark Levene, *Genocide in the Age of the Nation State: Volume 2: The Rise of the West and the Coming of Genocide* (London: IB Taurus, 2014), t.34.

⁶²⁸ ‘Athroniaeth Germani a’r Argyfwng Presennol’, *Y Geninen*, Ionawr 1915, 7.

⁶²⁹ ‘Friedrich Nietzsche’, *Y Traethodydd*, Ionawr 1915, 35.

⁶³⁰ ‘Paham y Syrthiodd y Cedryn?’, *Y Geninen*, Ionawr 1915, 52.

⁶³¹ ‘Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol’, *Y Geninen*, Hydref 1916, 261.

⁶³² ‘Sylfeini Heddwch Rhyng-Wladwriaethol’, *Y Geninen*, Gorffennaf 1918, 149.

Fel y nodwyd yma, roedd Friedrich von Bernhardi yn ddisgybl i Heinrich von Treitschke. Profodd Bernhardi ei hun fel cadfridog a strategydd milwrol, a gwasanaethodd fel cadfridog yn ystod y rhyfel ar Ffrynt y Dwyrain a Ffrynt y Gorllewin. Yn debyg i'r sylw a gafodd Treitschke ym mhropaganda Prydain, dadleua Peter Buitenhuis fod Bernhardi wedi bod yn ffigwr mwy poblogaidd fel: 'the favourite whipping-boy of British propaganda.'⁶³³ Cyfeiriwyd yn bennaf at brif waith llenyddol Bernhardi, *Deutschland und der Nächste Krieg (Yr Almaen a'r Rhyfel Nesaf)*, a gyhoeddwyd yn 1911 yng nghysgod ail argyfwng Moroco. Yn debyg i weithiau Treitschke, cyfieithwyd testun Bernhardi i'r Saesneg yn 1914 gan roi cyfle i sylwebwyr Prydeinig ymglyfarwyddo gyda'i waith. I sawl un, roedd teitl y llyfr yn ddigon i brofi euogrwydd yr Almaen am gychwyn y rhyfel. Ond yng nghynnwys y llyfr y cynhyrfwyd propagandwyr Prydain, yn enwedig wrth i Bernhardi ddiffinio rhyfel fel: 'the greatest factor in the furtherance of culture and power.'⁶³⁴ Yn debyg i Treitschke, roedd Bernhardi yn gweld rhyfel yn angenrheidiol i iechyd ac urddas y genedl. Tynnwyd sylw at bwyslais rhyfel Bernhardi gan olygyddion *Y Beirniad* a'r *Traethodydd* yn fuan wedi cychwyn y rhyfel. Cyhoeddodd John Morris-Jones erthygl gyfan yn adolygu gweithiau Bernhardi. Daeth i gasgliad mai:

Syniad niwlog iawn sydd gan Bernhardi am yr hyn a olyga wrth y diwylliant Almaenaidd sydd i'w ledaenu dros y byd. Ond gwyddom ni beth a olygai. Gorseddu duw rhyfel ar y ddaear am genedlaethau; y llywodraeth yn llaw'r blaid filwrol, a seneddau wedi eu tagu neu eu dileu; y wasg yn gaeth, a'r gweithiwr yn gaethwas. Y mae rhyfel yn erbyn y gallu hwn heddyw yn rhyfel sanctaidd, yn rhyfel i amddiffyn rhyddid, yn rhyfel o blaid heddwch.⁶³⁵

Tebyg oedd barn golygydd *Y Traethodydd*, John Evans Hughes. Dyfynnodd ef Bernhardi ym mis Ionawr 1915: 'mae ceisiadau i ddileu Rhyfel nid yn unig yn ffôl ond yn hollol anfoesol, a rhaid eu gwarthnodi fel pethau annheilwng o'r hil ddynol.'⁶³⁶ O fewn misoedd cyntaf y rhyfel, canfuwyd Bernhardi gan olygyddion Cymru fel un o ddihirod rhyfelgar yr Almaen.

Tyb nifer yng Nghymru a Phrydain oedd bod testun adnabyddus Bernhardi wedi cyfrannu'n sylweddol at greu agweddau milwriaethus ymysg dosbarth gwleidyddol yr Almaen, ac wrth ddadlau dros 'anghenraid biolegol rhyfel' gwelwyd olion cryf syniadaeth y 'frwydr i fyw' Darwin yng ngwaith Bernhardi. Roedd Bernhardi i'w weld yn trin rhyfel fel elfen ganolog o

⁶³³ Buitenhuis, *The Great War of Words*, t.31.

⁶³⁴ Friedrich von Bernhardi, *Germany and the Next War*, translated by Allen. H. Powles (New York: Longmans, 1914), t.11.

⁶³⁵ 'Adolygiad', *Y Beirniad*, Hydref 1914, 224.

⁶³⁶ 'Ysbryd Prwsia', *Y Traethodydd*, Ionawr 1915, 17-18.

gynnydd esblygol, a dehonglwyd teitlau rhai o benodau ei lyfr fel tystiolaeth gadarn o fwriad yr Almaen i gychwyn y rhyfel. Yn ei ragarweiniad, ysgrifennodd Bernhardi:

Our science, our literature, and the warlike achievements of our past, have made me proudly conscious of belonging to a great civilized nation which, in spite of all the weakness and mistakes of bygone days, must, and assuredly will, win a glorious future.⁶³⁷

Ymddangosai penodau 'Yr Hawl i Wneud Rhyfel', 'Y Ddyletswydd i Wneud Rhyfel', a 'Pŵer Byd neu Cwmp' yn *Deutschland und der Nächste Krieg* yn dystiolaeth ysgrifenedig o ryfelgarwch yr Almaen. Cyfeiriodd Bernhardi yn aml at Treitschke, a beirniadwyd gweinyddiaeth yr Almaen yn gyson am eu methiant i fod yn gadarn a phenderfynol ar y llwyfan rhyngwladol. Dysgeidiaeth Bernhardi oedd annog parodrwydd materol a seicolegol yr Almaen i ymladd rhyfel ymosodol yn y dyfodol.⁶³⁸ Ymdrechodd D. Jones i grynhoi cynnwys *Deutschland und der Nächste Krieg* yn ei ysgrif i'r *Geninen* yn Ebrill 1915. Roedd yn argyhoeddedig yn ei gasgliad, gan nodi chwant yr Almaen am ymerodraeth yn gymhellant i'w hymgyrch dros wareiddiad:

Germani yw gallu mawr y dyfodol; o hyn allan, hi sydd i lywodraethu y byd. Wedi cyrhaedd o honni y safle uchel ac anrhydeddus yma, fe ddyrchafa safon gwareiddiad ac hefyd safon masnach, addysg a diwylliant dynol ryw; mewn gair, bydd cyfodiad Germani i fod yn ben meistres Ewrob, y caffaeliad a'r ynnill mwyaf i wareiddiad y byd.⁶³⁹

Roedd dehongliad Jones o destun Bernhardi yn tanlinellu gwareiddiad fel y prif rym tu ôl i'w weledigaeth o wireddu Almaen bwerus. Roedd y rhyfel yn ddarlun clir o amcanion Bernhardi yn cael eu gwireddu. Nodwyd pwrpas yr Almaen o fynd ati i, 'ddinoethi sylfeini y ddaiar a rhoi ysgydwad trwodd a thro i holl golofnau Cymdeithas.'⁶⁴⁰ Dyma oedd y nod i gwaredu hen draddodiadau a gwerthoedd gwareiddiad, a'u hamnewid gyda goruchafiaeth Almaenaidd. Mis ynghynt, disgrifiodd Gweinidog y Bedyddwyr ac un o olygyddion *Seren Gomer*, Hywel Cernyw Williams, weledigaeth Bernhardi fel 'breuddwydion beiddgar ac annuwiol'.⁶⁴¹ Eto, gwelwyd cyhuddiadau, fel y gwnaethpwyd o'r Caisar, o syniadaeth ddi-Dduw yn ffynnu yn niwylliant a chymdeithas yr Almaen. Yn yr un rhifyn o *Seren Gomer*, ysgrifennodd y Parchedig Herbert Morgan, a oedd hefyd yn wrthwynebydd i'r rhyfel, am Bernhardi a'r ffordd y dehonglwyd rhyfel ganddo yn ei ysgrifau fel 'meddyginiaeth i'n anhwylderau

⁶³⁷ Bernhardi, *Germany and the Next War*, t.iv.

⁶³⁸ Martin, 'Nietzsche as Hate-Figure', t.148.

⁶³⁹ 'Rhyfel y Cenhedloedd', *Y Geninen*, Ebrill 1915, 81.

⁶⁴⁰ 'Rhyfel y Cenhedloedd', *Y Geninen*, Ebrill 1915, 82.

⁶⁴¹ 'Rhyfeloedd Prydain yn y Gorffennol', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 57.

cymdeithasol.⁶⁴² Dangoswyd Bernhardi fel un o ffynonellau rhyfelgarwch yr Almaen, a'i ysgrifau yn dystiolaeth o gred yr Almaen yn swyddogaeth rhyfel fel gweithred allweddol i les y genedl.

Fel rhywun a ddadleuodd yn gyson dros ddarostwng hapusrwydd unigolion i anghenion y wladwriaeth, ymddangosodd Bernhardi fel anathema i ryddfrydwyr Prydain, hyd yn oed cyn i'r rhyfel gychwyn, ond yn enwedig adeg y rhyfel. Yn yr un ffordd ag y delweddwyd y Caisar fel ymgorfforiad o'r nodweddion Almaenaidd, cafodd Bernhardi driniaeth debyg. Ystyriwyd Bernhardi gan 'Simon Selotes' fel tarddiad i enaid milwriaeth yr Almaen. Meddai 'Selotes', a oedd o bosib yn ffugenw i'r golygydd John 'Eifionydd' Thomas: 'am ddatguddio meddyliau y galon swyddogol yn Germany, nid oes well na [Bernhardi].'⁶⁴³ Profodd Treitschke a Bernhardi yn flaenllaw yn yr Ysgol newydd o haneswyr Almaenaidd. Amlinellwyd ei nodweddion gan John Kelly yn *Y Traethodydd*: 'Nodweddir hi gan wladgarwch angerddol, ysbryd milwrol, a thuedd ddi-baid i ogoneddu Prwsia fel delfryd o awdurdod a gallu ac asgwrn-cefn yr Almaen, fel Ymerodraeth.'⁶⁴⁴ Cyflwynwyd Treitschke a Bernhardi, felly, fel gelynyon Prydain, ac yn felltith i ryddfrydiaeth, ac wrth reswm rhyddid. Dangoswyd ac enghreifftiwyd eu tueddiadau rhyfelgar yn gyson fel esboniad i filwriaeth yr Almaen.

Y damcaniaethwr, llenor, a'r bardd, Friedrich Nietzsche oedd trydydd aelod y triawd. Fel yn achos Treitschke a Bernhardi, roedd ffigwr Friedrich Nietzsche yn un cyfarwydd i elît deallusol Prydain cyn y rhyfel. Llwyddodd Nietzsche, a ysgrifennodd ei brif weithiau rhwng 1872–1888, i apelio i garfan benodol o ddeallusion Prydain ar yr un llaw, tra'n corddi dyfroedd democratiaeth ar y llaw arall. Cyfeiriwyd ato, ac edmygwyd rai o'i syniadau gan rhai o lenorion enwocaf Prydain, megis John Davidson, George Bernard Shaw, W. B. Yeats, Herbert Read, H. G. Wells, D. H. Lawrence, ac Edwin Muir flynyddoedd cyn y rhyfel.⁶⁴⁵ Noda Patrick Bridgewater fod Lawrence wedi bod 'wrth ei fodd' gyda nifer o agweddau Nietzsche, tra ymddangosodd yr Almaenwr mewn ugain o'r 57 llyfr a gyhoeddodd H. G. Wells hyd at 1917.⁶⁴⁶

⁶⁴² 'Gallu'r Fagddu a Phlant y Goleuni', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 92.

⁶⁴³ 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Hydref 1916, 259.

⁶⁴⁴ 'Gwraidd Hanesyddol y Rhyfel Mawr', *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 132.

⁶⁴⁵ Patrick Bridgewater, 'English Writers and Nietzsche', yn Malcolm Pasley (gol.), *Nietzsche: Imagery and Thought: A Collection of Essays* (Abingdon: Routledge, 2011), tt.158-185; Patrick Bridgewater, *Nietzsche in Anglo-Saxony: A Study of Nietzsche's impact on English and American literature* (Leicester: Leicester University Press, 1972), tt.11, 14, 91-103.

⁶⁴⁶ Bridgewater, *Nietzsche in Anglo-Saxony*, t.109; Patrick Bridgewater, *H. G. Wells and Nietzsche* (London: H. G. Wells Society Occasional Papers, Nr.3, 1980), t.4.

Â chyfieithiadau o'i waith yn hwylusydd, daeth Nietzsche i ddylanwadu ar dirwedd lenyddol Seisnig o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen. Denodd Nietzsche sawl edmygwr Prydeinig i'w agweddau gelyniaethus i ryddfrydiaeth, rhamantiaeth, ac asgetigiaeth cyn y rhyfel.⁶⁴⁷ Daeth yn ffigwr apelgar mewn cyfnod o aflonyddwch deallusol wrth i'r hen fyd Fictoraidd ildio i wawr newydd moderniaeth. Soniodd y bardd, Lascelles Abercrombie, a'r llenor, Edward Muir, am apêl y 'transvaluation of values' a gynigiai Nietzsche.⁶⁴⁸ Roedd syniadau'r *Übermensch* a'r *der Wille zu Macht* (*Yr Ewyllys i Ennill Grym*) yn rhai a enynnodd ddiddordeb mawr, yn enwedig ymhlith y deallusion gwrth-Fictoraidd Prydeinig. Nid yn unig llenorion a gafodd eu denu gan apêl Nietzsche ond artistiaid hefyd, megis arloeswr y symudiad Fortisiaeth, Wyndham Lewis.⁶⁴⁹ Wrth grynhoi dylanwad Nietzsche, a photensial ei ysgrifau i ddarbwylllo yn y cyfnod hwn, ysgrifennodd Gertrud Burdett amdano yn 1898: 'In judging Nietzsche, it is well to bear in mind that we are living in a time of intellectual unrest, and of social discontents; we are ripe for new teachings, and longing for new ideas.'⁶⁵⁰

Ymddengys i ysgrifau Nietzsche gynnig rhesymoliaeth ac ystyr i'r byd newydd. Ond yn dilyn cychwyn y rhyfel, canfuwyd Nietzsche ym Mhrydain fel prif ddihiryn ysbrydol yr Almaen. Ymddangosodd llythyrau gan y nofelydd, Thomas Hardy yn y *Daily Mail* a'r *Manchester Guardian* yn gynnar yn y rhyfel yn adnabod syniadaeth Nietzsche fel rhai peryglus. Meddai Hardy: 'I should think there is no instance since history began of a country being so demoralized by a single writer.'⁶⁵¹ Cymaint oedd presenoldeb ffigwr Nietzsche yng ngornest diwylliannol y rhyfel fel y'i galwyd hi gan rai yn rhyfel 'Ewro-Nietzscheaidd'. Noda Stuart Wallace enghraifft o siop lyfrau ym Mhiccadilly a oedd yn arddangos y casgliad diweddaraf o weithiau Nietzsche yn yr iaith Saesneg. Y geiriad a ddefnyddiwyd er mwyn eu hysbysebu oedd: 'The Euro-Nietzschean war. Read the Devil in order to fight him the better.'⁶⁵²

Yn debyg i sut y defnyddiwyd Nietzsche fel symbol gwrth-Gristnogol gan elfennau o'r Wasg Gymreig, felly hefyd y cyflwynwyd ef i gynrychioli diwylliant a gwareiddiad yr Almaen. Mor gynnar â Hydref 1914, yn rhifyn llawn cyntaf *Y Geninen* ers cychwyn y rhyfel, pwysleisiwyd

⁶⁴⁷ T. H. Gibbons, 'Literary Criticism and the Intellectual Milieu: Some aspects of the period 1880–1914 with particular reference to the literary and social criticism of Havelock Ellis and Alfred Orage', doethuriaeth Prifysgol Caergrawnt, 1965, tt.11-12. Cyfeiriwyd ato gan David S. Thatcher, *Nietzsche in England 1890–1914: the Growth of a Reputation* (Toronto: University of Toronto Press, 1970), t.4.

⁶⁴⁸ Bridgewater, 'English Writers and Nietzsche', p.169.

⁶⁴⁹ Bridgewater, *Nietzsche in Anglo-Saxony*, tt.9-11.

⁶⁵⁰ Ymddangosodd erthygl Burdett yn y *New Century Review*, Awst 1898. Bridgewater, *Nietzsche in Anglo-Saxony*, t.15.

⁶⁵¹ *Daily Mail*, 27 Medi, 1914; *Manchester Guardian*, 7 Hydref 1914. Dyfynnwyd yn Bridgewater, *Nietzsche in Anglo-Saxony*, t.144.

⁶⁵² Wallace, *War and the Image of Germany*, t.50.

syniadaeth Nietzsche fel ffactor a oedd yn gyfrifol am y rhyfel. Soniodd y Parchedig D. Jones am ymdrechion yr Almaen i adeiladu ymerodraeth rymus, wrth iddi sylwi gyda chenfigen ar bwerau eraill Ewrop yn berchen trefedigaethau dros y byd. Drwy ysbeilio trefedigaethau'r Cynghreiriaid y byddai'r Almaen o'r diwedd yn dyrchafu ei hun i fod yn brif bŵer y byd – gan wireddu un o weledigaethau mwyaf hanfodol Nietzsche, yr *Übermensch*. Meddai Jones:

Yna, ar ôl darostwng holl genhedloedd Ewrob, a'u gwneud yn fath o gaethweision i'r archdeyrn Germanaidd, breuddwydiai am wneyd ei hun, yn ôl athroniaeth bwdr Nietzsche, yn fath o *superman* – uwchlaw pawb o bobl y byd! Dyna wir achos yr Armagedon, a dyma'r ysbryd uffernol sydd raid ei lindagu a'i ladd os ydym am barhau i anadlu awyr adfywiol rhyddid.⁶⁵³

Yr un oedd dehongliad J. Richards yn *Y Traethodydd* ym mis Ebrill 1915, yn cyhuddo'r Almaen o 'ethol' ei hun yn 'ddiamod' uwchben cenedloedd eraill Ewrop. Oherwydd ei diffyg ffydd, nid oedd gan yr Almaen y gydwybod foesol angenrheidiol i gydfyw â chenedloedd eraill, ac felly gyrrwyd ei gweledigaeth fyd-eang gan ormes a thrais. Roedd ymgyrchoedd propaganda'r Cynghreiriaid yn barod wedi sefydlu'r canfyddiad o'r Almaen fel bwli mawr y cyfandir, ac ychwanegodd Richards i'r darlun hwn. Soniodd am 'hyder hunanol yr Almaen' a chysylltodd enaid y wlad gyda syniadaeth Nietzsche:

Wele genedl wedi ceisio gwneud dyn newydd, eithr wrth batrwm a chynllun estronol iawn i arfer a defion cread a thwf; a Duw a'i gwyr, mae ei ymbalfal direswm a diedifar yn dryllio byd.⁶⁵⁴

Cyfeiriodd Richards at y diwinydd Almaenaidd, Heinrich Weinel, a oedd yn Athro astudiaethau'r Testament Newydd ym Mhrifysgol Jena. Awgrymwyd gan Weinel fod Iesu wedi bod yn 'gelfyddwr', yn yr un modd ag ysgolheigion megis Goethe a Wagner. Os felly, tybiai Richards fod pydredd o fewn haen Eglwysig yr Almaen, a oedd yn amau Iesu fel mab Duw. Awgrymodd Richards: 'Wedi colli awdurdod y Duw-ddyn, aiff dyn yn awdurdod iddo ei hun.'⁶⁵⁵ Diffiniodd ef Nietzsche fel 'gwardwr newydd' ac fel ymgorfforiad o ddelfrydau'r Almaen. Tebyg oedd barn O. M. Edwards yn *Cymru* a nododd mai 'at yr unigolyn oedd apêl Nietzsche', a 'grym hunanol didrugaredd sydd i ennill y dydd' yn yr Almaen.⁶⁵⁶ Cymharwyd Nietzsche gyda Treitschke hefyd ac meddai Edwards am y ddau ohonynt: 'yr athronydd Nietzsche, apostol hunanoldeb hunangeisiol ym mywyd yr unigolyn; a'r hanesydd Treitschke,

⁶⁵³ 'Rhyfel y Cenedloedd', *Y Geninen*, Hydref 1914, 271.

⁶⁵⁴ 'A Gaiff Efe Ffydd Ar Y Ddaear?', *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 102.

⁶⁵⁵ 'A Gaiff Efe Ffydd Ar Y Ddaear?', *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 106.

⁶⁵⁶ 'Cwmp yr Almaen', *Cymru*, Chwefror 1915, 106.

apostol hunanoldeb hunangeisiol ym mywyd y genedl neu'r ymerodraeth.⁶⁵⁷ Ymddengys fod delfrydiaeth Nietzsche o'r *Übermensch* wedi llyncu enaid yr Almaen, gyda hunanoldeb yn cael ei fagu fel delfryd ymysg ei dinasyddion.

Soniwyd yn benodol am gyflwr meddyliol Nietzsche gan sawl un. Profodd y ffaith i Nietzsche fyw blynyddoedd olaf ei fywyd mewn lloches i wallgofiaid yn arf defnyddiol i'w elynion. Disgrifiodd Hywel Cernyw Williams ef fel 'y gwallgofddyn Nietzsche, a'i ddylanwad cyfareddol.'⁶⁵⁸ Cyflwynodd 'Simon Selotes' ef fel 'yr athronydd oedd yn gymysgfa mor ryfedd o athrylith a gwallgofrwydd.'⁶⁵⁹ Tebyg oedd disgrifiad *Yr Herald Gymraeg* ohono fel 'yr athronydd Germanaidd rhyfedd fu farw yn wallgof yn 1900', tra gwawdiodd y Parchedig Richard Thomas ef yn *Y Traethodydd*: 'Ond druan o Nietzsche, fe gyneuodd ei dân ei hun a bu fyw wrth ei oleu heb i'w oes gymeryd nemor sylw ohono.'⁶⁶⁰ Serch cyflwr meddyliol amheus Nietzsche yn ei ddyddiau olaf, argyhoeddedig oedd nifer o ddeallusion Cymru am ddylanwad ei ddysgeidiaeth dros yr Almaen. Nid oedd prinder dyfyniadau o Nietzsche yn gogoneddu rhyfel a gwerthoedd milwrol. Profodd ei ysgrifau yn agored i ddehongliad, ac yn gyfleoedd i sylwebwyr eu hecsploetio. Yn *Die Fröhliche Wissenschaft (Gwyddoniaeth Lawen)*, er enghraifft, nododd Nietzsche: 'War is the father of all good things.'⁶⁶¹

Roedd y ffocws ar Nietzsche yn cyd-fynd â'r teimlad ehangach o oes newydd yn dyfod yn sgil moderniaeth, gyda syniadau Nietzsche am hunanoldeb a thrais yn cynrychioli rhai o ddelfrydau'r oes newydd, rhai a oedd i'w gweld yn elitaidd a gwrth-ddemocrataidd. Ceisiwyd profi elitaeth a gwrth-ddemocratiaeth Nietzsche drwy roi sylw i'w feirniadaeth o draddodiadau deallusol Prydain. Yn ôl Nietzsche, er enghraifft, roedd iwtilitariaeth John Stuart Mill yn ddi-foes a gwrthnysig.⁶⁶² Datblygwyd canfyddiad ymysg deallusion Prydain fod Nietzsche, trais, a chenedlaetholdeb Almaenaidd, mewn unrhyw ffurf neu gyfuniad, yn unfath.⁶⁶³ Dyma hefyd oedd y ddelwedd ymysg deallusion Cymru.

Yn gysylltiedig â hunanoldeb Nietzsche oedd ymgais yr Almaen am dra-arglwyddiaeth. Ysgrifennodd y Parchedig Richard Thomas: 'buan y gwelwyd yn yr Almaen fod yn nelfrydau

⁶⁵⁷ 'Cwmp yr Almaen', *Cymru*, Chwefror 1915, 106.

⁶⁵⁸ 'Rhyfeloedd Prydain yn y Gorffennol', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 57.

⁶⁵⁹ 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Hydref 1916, 261.

⁶⁶⁰ *Yr Herald Gymraeg*, 8 Medi 1914, 6; 'Friedrich Nietzsche', *Y Traethodydd*, Ionawr 1915, 31.

⁶⁶¹ Steven E. Aschheim, *The Nietzsche Legacy in Germany 1890–1990* (London: University of California Press, 1994), t.132.

⁶⁶² Gregory Moore, 'Darwinism and National Identity, 1870–1918', yn Bridgham (gol.), *The First World War*, t.173.

⁶⁶³ Martin, 'Nietzsche as Hate-Figure', t.156.

athronyddol Nietzsche lampau ardderchog i'r deffroad milwrol. Mewn geiriau eraill, fe gafwyd tanwydd i borthi'r tân a gyneuasid.⁶⁶⁴ Nododd Thomas syniadaeth Nietzsche fel 'cyfundrefn o athroniaeth' a oedd bellach yn rhoi cyfiawnhad rhesymegol i ryfelgarwch yr Almaen. Yr un oedd barn 'Simon Selotes', a ddaeth i'r casgliad mai athroniaeth Nietzsche oedd penllanw cenedlaethau o athroniaeth ormesol Almaenaidd, ac yn y pen draw yn bennaf gyfrifol am gynnal rhyfelgarwch yr Almaen:

Bellach, ar ôl can mlynedd o wrando ar athrawiaethau fel hyn, yr oedd yr anghenfil Germanaidd yn barod i ddechreu ar ei waith. Wedi casglu i ddwyllaw'r wladwriaeth bob gallu ac awdurdod, a rhoddi at ei gwasanaeth y filitariaeth fwyaf perffeithiedig; ar ôl datod rhwymau ei gwddf a'i rhyddhau oddiwrth bob cyfrifoldeb moesol, gallai fyned ymlaen i anwybyddu cytundebau, i fathru cenhedloedd bychain, i ysbeilio, lladd, a llapio, hyd eithaf ei gallu: a dyma sydd yn awr yn cymeryd lle.⁶⁶⁵

Profodd prif ysgrifau Nietzsche, *Menschliches, Allzumenschliches: Ein Buch für freie Geister* (1878), *Die Fröhliche Wissenschaft* (1882), *Also Sprach Zarathustra: Ein Buch für Alle und Keinen* (1891), ac *Ecce Homo* (1908), yn ffynonellau hanfodol o ran arfogi'r ornest ddiwylliannol yng Nghymru. Manteisiodd sawl un ar y cyfle i wyrdroi ei ysgrifau mewn ffordd a fyddai'n profi euogrwydd yr Almaen am gychwyn y rhyfel. Yn wir, golygai amgylchiadau'r rhyfel fod cyfle i aiddiffinio traddodiadau Nietzsche i gyd-fynd ag anghenion gwleidyddol cyfredol, a gwthiwyd ef ymhellach mewn i flwch ideolegol asgell dde genedlaetholgar Almaenaidd.⁶⁶⁶ Ynghyd â'r sylw a roddwyd i Treitschke a Bernhardi, roedd y ddisgwrs Nietzscheaidd hon yn bwysig wrth hysbysu symbolaeth wleidyddol yn y maes cyhoeddus Cymreig, gan chwarae rhan flaenllaw yn natblygiad diwylliant rhyfel Cymru. Daeth Nietzsche, Bernhardi, a Treitschke yn rhan allweddol o'r ymdrech bropaganda Brydeinig, ac er gwaetha'r dystiolaeth a oedd yn awgrymu fel arall, ymdrechodd sawl sylwebydd i gysylltu ysgrifau'r tri unigolyn er mwyn profi bodolaeth athroniaeth beryglus a oedd yn neilltuol Almaenaidd. Dyma a wnaethpwyd ymysg deallusion a sylwebwyr y Wasg yng Nghymru.

Y Junkers ac Ysbryd Prwsia

⁶⁶⁴ 'Friedrich Nietzsche', *Y Traethodydd*, Ionawr 1915, 35.

⁶⁶⁵ 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Hydref 1916, 261-62.

⁶⁶⁶ Aschheim, *The Nietzsche Legacy*, t.129.

Yn ychwanegol at y ffordd yr hanfodolwyd yr Almaen, gellid hefyd sylwi ar y Wasg Gymreig yn gwahaniaethu rhwng carfanau gwahanol o gymdeithas yr Almaen. Cyfeiriwyd yn aml at oruchafiaeth milwriaeth a fodolai yn yr Almaen, er enghraifft, elfen a oedd yn hanesyddol wedi bod yn hanfodol yn natblygiad y genedl Almaenaidd. Roedd cnewyllyn y filwriaeth hon, y *Junkers* Prwsiaidd, o hyd yn gosod yr amodau i weddill yr Almaen.⁶⁶⁷ Dyma a bwysleisiodd David Lloyd George yn ei araith yn Neuadd y Frenhines ym mis Medi 1914, gan alw'r *Junkers* 'the road-hog of Europe'.⁶⁶⁸ Gwnaeth yn debyg eto wrth annerch Eisteddfod Bangor ym mis Awst 1915. Gofynnodd yn rhethregol: "A oes heddwch?" Nac oes. Paham? Oherwydd fod ysbryd aflan wedi cymeryd meddiant o lywodraethwyr cenedl fawr (clywch, clywch).⁶⁶⁹ Tynnodd golygydd y *Welsh Outlook*, Thomas Jones sylw cynnil at y cyn-Ganghellor, y Prwsiaid Otto von Bismarck, fel un a ledodd 'spirit of megalomania' drwy'r genedl Almaenaidd, gan arwain at lywio polisïau rhyfelgar.⁶⁷⁰ Yr un oedd barn y Parchedig E. K. Jones, Cefn Mawr, yn *Seren Gomer*. Roedd Jones hefyd yn gyfrannwr i'r *Deyrnas* ac yn wrthwynebydd i'r rhyfel. Ysgrifennodd yn drosiadol am gyflwr yr Almaen: 'llusgwyd hi gan ei harweinwyr i garchar o drueni a chreulonder.'⁶⁷¹

Yn sylwebydd beiddgar ar y rhyfel, defnyddiodd 'Simon Selotes' y gair 'sawdwriaeth' i ddisgrifio cymeriad yr Almaen. Ymosododd yn benodol ar y *Junkers* a llinach Hohenzollern a'u cyhuddo o wyrdroi eu cenedl a charmarwain y dosbarthiadau is. Cyfundrefn ydoedd, a oedd yn 'dysgyblu corff y bobl i ymostwng, ufuddhau, a gweithredu, heb ddeall na gofyn y rheswm paham.'⁶⁷² Gyda thinc Nietzscheaidd yn ei neges, awgrymodd 'Selotes' fod dosbarth uwch yr Almaen yn canfod eu hun fel uwch-ddynion a oedd yn meddu ar yr hawl i lywodraethu a rheoli'r wlad, wrth iddynt addoli eu cadfridogion a'u hymerawdwr. Gwelodd 'Selotes' rwyg yng nghymdeithas yr Almaen ac felly roedd amcanion y rhyfel yn ddeublyg i'r *Junkers*: i orchfygu'r Cynghreiriaid a hefyd i gryfhau eu safle yng nghymdeithas a gwleidyddiaeth y wlad honno, gan fwrw o'r neilltu'r bygythiad sosialaidd yn y wlad. Mynegodd 'Selotes' fod nifer o Almaenwyr yn gweld y rhyfel fel 'iachawdwriaeth' i'r wlad, er mwyn dinistrio pwerau allanol y Cynghreiriaid, a hefyd i lanhau ei chymdeithas drwy leddfu'r bygythiad sosialaidd. Roedd hon yn atsain gyfarwydd i'r sefyllfa yng Nghymru lle credai nifer fod y rhyfel, er gwaethaf ei

⁶⁶⁷ Y *Junkers* oedd yr uchelwyr a'r tîrfeddianwyr, yn bennaf o ddwyrain yr Almaen a Prwsia, a oedd ers ffurfiad Ymerodraeth yr Almaen yn 1871 wedi chwarae rhan ddylanwadol yng ngweinyddiaeth y wlad.

⁶⁶⁸ Lloyd George, *The Great War*, t.13.

⁶⁶⁹ *Yr Herald Cymraeg*, 10 Awst 1915, 8.

⁶⁷⁰ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Medi 1914, 376.

⁶⁷¹ 'Rhyfel yng Ngoleuni Crist', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 82.

⁶⁷² 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Hydref 1916, 260.

erchyllterau, yn gyfle i ‘buro cymdeithas’ ac i ddechrau o’r newydd gydag egwyddorion mwy moesol ar gyfer y dyfodol.

Roedd y *Junkers* yn garfan benodol a dargedwyd yn y Wasg Gymreig i awgrymu mai dosbarth gweinyddol a milwrol yr Almaen oedd yn gyfrifol am y rhyfel, ac i arallgyfeirio unrhyw gasineb a dargedwyd at y werin Almaenaidd. Awgrymwyd elfen o undod gyda dosbarth gweithiol yr Almaen, a oedd i’w weld wedi cael ei dwyllo. Ychwanegwyd i’r drafodaeth gan y sylw a roddwyd i ‘ysbryd Prwsia’. Daeth ‘ysbryd Prwsia’ yn gyfystyr â’r *Junkers*, a phopeth oedd yn rhyfelgar am yr Almaen. Ysgrifennwyd yn *Y Geninen* mai, ‘gwallgofrwydd Prwsia ydoedd un o brif achosion y rhyfel hon,’ tra nododd O. M. Edwards yn *Cymru* ddiwedd y rhyfel: ‘y Prwsiaid, yr Awstriad, a’r Twrc – hen erlidwyr trahaus y byd.’⁶⁷³ Roedd Rhyfel Ffranco-Prwsia yn fyw yn y cof o hyd i rai, ac i sawl un, dyma oedd catalydd y Brwsia ormesol, fel y nododd John Kelly yn *Y Traethodydd*: ‘Gwnaeth [y rhyfel hwnnw] Prwsia’n fwy ymwybodol ohoni’i hun, pen-chwyddodd yn ddirfawr nes dod yn faldod ar y cyfandir mewn llai na hanner canrif.’⁶⁷⁴ Sefydlwyd traddodiadau milwrol ar sail buddugoliaeth Prwsia yn y rhyfel a fyddai’n dod i lywio penderfyniadau’r Almaen. Magwyd ‘ysbryd Prwsiaidd’ o dan arweinyddiaeth Otto von Bismarck, a daeth yr ysbryd hwn i ddominyddu tiroedd yr Almaen a bygwth y cyfandir cyfan.

Testun cynnar i nodi ‘ysbryd Prwsia’ oedd adolygiad John Morris-Jones o weithiau Friedrich von Bernhardi yn *Y Beirniad* yn Hydref 1914. Ceisiodd Jones esbonio ffynhonnell rhyfelgarwch Bernhardi: ‘Ysbryd Prwsia, yn ddiau, ydyw’r ysbryd rhyfelgar hwn i gychwyn; ond yn y blynyddoedd diweddar y mae’n amlwg ei fod wedi cymryd meddiant o’r Almaen oll.’⁶⁷⁵ Pwysleisiwyd rôl Prwsia hefyd gan John Evan Hughes yn *Y Traethodydd*. Yn ôl Hughes, y grym tywyll yn teyrnasu ar yr Almaen oedd ei ‘chwaer’ filwraidd, Prwsia: ‘Ochr yn ochr a’r Almaen freuddwydiol hon gwelwn chwaer iddi a’i thraddodiad yn seiliedig ar drefn, disgyblaeth a grym arfau.’⁶⁷⁶ Cyfeiriodd Hughes at ryfeloedd Ffredric Mawr fel seiliau’r ysbryd Prwsiaidd. Ffurfiodd y ryfeloedd hyn dalaith filwriaethus, awtocratig, a lwyddwyd i gadwyno gweddill teyrnasau’r Almaen o dan ei rheolaeth. Ysgrifennodd yn drosiadol am ddylanwad Prwsia ar yr Almaen:

⁶⁷³ ‘Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol’, *Y Geninen*, Hydref 1916, 260; ‘I Ddynion Ewyllys Da’, *Cymru*, Rhagfyr 1918, 161.

⁶⁷⁴ ‘Gwraidd Hanesyddol y Rhyfel Mawr’, *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 127.

⁶⁷⁵ ‘Adolygiad’, *Y Beirniad*, Hydref 1914, 217.

⁶⁷⁶ ‘Ysbryd Prwsia’, *Y Traethodydd*, Ionawr 1915, 9.

Cyffelybir y berthynas rhwng Germani a Phrwsia i gwrs dwy afon. Rhed un yn dawel a dison gan symud yn urddasol rhwng ei chreigiau hanesiol a'i chestyll oesol – ei glennydd heirdd a'u llechweddau rhamantus wedi eu prydfertu a'r gwinwydd, a chan raddol ymledu dug longau a marsiandiaeth ar ei mynwes tua'r môr. Ond dacw raiadr gwyllt yn disgyn gyda thwrf o'r mynyddoedd uchel Alpaidd, gan gludo llaid a cherrig ac oerni yr ia i wely cynnes yr afon genedlaethol. Ond cofier mai un ac nid dwy yw Germani yr ugeinfed ganrif. Mae'r ddwy afon wedi cymysgu eu dyfroedd ac fe berthyn i'r llifeiriant Prwsiaidd heddyw holl ddyfnder a swm a nerth y genedl gyfan.⁶⁷⁷

Yr un oedd barn O. M. Edwards hefyd. Ysgrifennodd ef fod 'Prwsia wedi huddenu'r Almaen, y mae'n awr yn ceisio darostwng Ewrob i'w grym milwrol.'⁶⁷⁸ Disgrifiodd Edwards y Prwsiad yn 'hanner bwystfil ac yn hanner peiriant' ac roedd yn gyndyn i gydnabod cyfraniad diwylliannol Prwsia: 'Nid yw Prwsia wedi bod yn enwog ym myd y meddwl. Rhannau ereill yr Almaen roddodd gymwynaswyr i fywyd y byd.'⁶⁷⁹ Hyd yn oed yn achos Immanuel Kant, a aned yn Königsberg, Prwsia, parod oedd Edwards i nodi mai 'un o deulu Ysgotaidd oedd ef.'⁶⁸⁰

Cyfrannodd W. Llewelyn Williams i'r drafodaeth hon wrth ysgrifennu i'r *Geninen*. I Williams, yr 'ysbryd' milwriaethus oedd yn gyfrifol am 'difetha llwyddiant yr Almaen'.⁶⁸¹ Nododd Williams gyfoeth diwylliant 'llên a chên' yr Almaen a'i chyfraniad i wareiddiad, a 'bu iddi ysbryd rhydd, arwrol' gyda Kant, Hegel, Ranke, Goethe, Bach, Beethoven, a Wagner ymysg arloeswyr athrylithgar ei gwareiddiad. Yr Almaen ar un adeg oedd, yn ôl Williams, 'eilun ein dysgawdwyr a'n doethwyr.' Ond dechreuwyd gwyrddroi'r ysbryd hwn gan Bismarck a'i 'efynnau tyn'.⁶⁸² Fel un a wrthwynebai orfodaeth ym Mhrydain, roedd Williams yn un arall a bwysleisiodd nad y genedl Almaenaidd oedd y gelyn go iawn yn y rhyfel, ond yn hytrach carfanau penodol o'i chymdeithas. Ysbryd milwriaeth Prwsia, y Caisar a'r 'Junkeriaid ffôl' oedd y gelyn go iawn a fygythiai wareiddiad.

Rhybuddiwyd mewn erthygl anhysbys i'r *Welsh Outlook* am y posibilrwydd i'r 'ysbryd' gael gafael ym Mhrydain, o ystyried y rhinweddau cyffredin rhwng y ddwy wlad megis diwydiannaeth fodern ac ymerodraeth. Rhybuddiwyd hefyd y gallai Prydain golli'r rhyfel os oedd hunanoldeb, a oedd wrth wraidd yr ysbryd Prwsiaidd, yn drech na'r achos cenedlaethol.

⁶⁷⁷ 'Ysbryd Prwsia', *Y Traethodydd*, Ionawr 1915, 10.

⁶⁷⁸ 'Dydd Pryder y Gweithiwr', *Cymru*, Ionawr 1915, 10.

⁶⁷⁹ 'Gwledydd y Rhyfel: Prwsia', *Cymru*, Ebrill 1915, 216.

⁶⁸⁰ 'Gwledydd y Rhyfel: Prwsia', *Cymru*, Ebrill 1915, 216.

⁶⁸¹ 'Paham y Syrthiodd y Cedryn?', *Y Geninen*, Ionawr 1915, 49.

⁶⁸² 'Paham y Syrthiodd y Cedryn?', *Y Geninen*, Ionawr 1915, 49.

Tynnodd 'A Soldier' y pwyslais i ffwrdd o'r Almaen fel y gelyn a'i osod ar syniadaeth fetaffisegol:

In so far as we disengage ourselves from them, and see the struggle not merely as between rival nations, but as between permanent and irreconcilable claimants for the soul of man, we shall hate the Germans less – for we shall realise that we have been tempted as they are – but we shall have won the internal unity, assurance, and will to persist which comes from a faith that is clearly apprehended, and comes from that alone.⁶⁸³

Yn *Seren Gomer*, soniodd Morris Brynllwyn Owen am 'yr ysbryd Prwsiaidd' yn treiddio'r wlad, wrth i 'drefnyddiaeth, disgyblaeth ac awdurdod' nodweddu'r Almaen bellach.⁶⁸⁴ Roedd Owen yn cyfieithu darlith a roddwyd gan R. J. Selbie, Pennaeth Coleg Mansfield, Rhydychen, yng Nghaerfyrddin. Rhoddwyd Prwsia yng nghrombil y drygioni, ac ohoni y daeth yr ysbryd milwrol i ormesu'r Almaen: 'I bob pwrpas ymostynga pawb yno i lywyddiaeth Prwsia, ac edrychant ar y byd drwy wydrau Prwsiaidd.'⁶⁸⁵ Nododd yn ychwanegol fod 'ysbryd drwg wedi meddiannu y bobl hyn' ac mai 'dyledswydd' oedd hi i 'yrru allan yr ysbryd aflan hwn.'⁶⁸⁶ Yn yr un rhifyn, cyferbynodd y Parchedig D. Powell yr ysbryd gwahanol a fodolai ym Mhrydain a'r Almaen. Roedd Powell yn gefnogol o'r rhyfel ac fe ddechreuodd ohebiaeth gyda golygyddion *Seren Gomer* ynghylch cyfiawnder y rhyfel. Meddai am yr ysbryd gwahanol a fodolai ym Mhrydain a'r Almaen: 'Meddiennir ein gwlad gan ysbryd pwyll, penderfyniad a sicrwydd, a hynny o herwydd ei hargyhoeddiad diamheuol o gyfiawnder a gogoniant ei hachos.'⁶⁸⁷ Cyferbynodd yr 'ysbryd pwyll' hwn gyda'r un Prwsiaidd, yr 'ysbryd du' a'r 'ysbryd aflan' a oedd angen eu 'bwrw allan o'r byd.'⁶⁸⁸ Parhaodd Powell gyda'r thema hon ym mis Mai 1916 pan ddisgrifiodd yr Almaen fel gwlad a dwyllwyd gan 'ysbryd creulon ac annynol.'⁶⁸⁹

Gwelwyd un o olygyddion *Seren Gomer* yn cyflwyno'r un darlun. Ar ddau achlysur gwahanol yn 1918, defnyddiodd Evan Ungoed Thomas ei nodiadau golygyddol i bwysleisio'r gwahaniaeth a fodolai rhwng gweinyddiaeth *Junkers* yr Almaen a gweddill y wlad honno. Er yn wrthwynebydd i'r rhyfel ar seiliau crefyddol, cyfrannodd Thomas at y drafodaeth drwy fynegi ei anniddigrwydd ynghylch y weinyddiaeth Almaenaidd. Cyfeiriodd at y Caisar fel

⁶⁸³ 'Democracy or Defeat', *Welsh Outlook*, Ionawr 1917, 10.

⁶⁸⁴ 'Diwinyddiaeth Yr Almaen a Phrydain Fawr', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 62.

⁶⁸⁵ 'Diwinyddiaeth Yr Almaen a Phrydain Fawr', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 62.

⁶⁸⁶ 'Diwinyddiaeth Yr Almaen a Phrydain Fawr', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 63.

⁶⁸⁷ 'Teyrngarwch i Grist a Gwlad', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 69.

⁶⁸⁸ 'Teyrngarwch i Grist a Gwlad', *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 74.

⁶⁸⁹ 'Rhyfel a Heddwch', *Seren Gomer*, Mai 1916, 141.

‘Judas Iscariot’ yn ei obaith o weld diwedd ar drefn filwrol yr Almaen: ‘Gobeithio y cyflawna Judas Iscariot, Unbennaeth uchelgeisiol, militariaeth, Junkeriaeth, a Jingoeth, a phob ffurf ar ormes Cenedlaethol – hunanladdiad drwy’r rhyfel hon.’⁶⁹⁰ Rhai misoedd yn ddiweddarach, a’r rhyfel ar fin dod i ben, bu iddo unwaith eto estyn elfen o gydymdeimlad at y werin Almaenaidd. Sylwebodd ar achos yr ysbryd milwrol, gormesol a fodolai yn yr Almaen: ‘Try y bobl [Almaenaidd] eu golwg ar y gorseddau, a honnant mai y Pennau Coronog yw achos aflwydd, galanas a dylifiad gwaed gwerin y gwledydd.’⁶⁹¹ Er yn gylchgrawn a wrthwynebodd y rhyfel, dangosodd *Seren Gomer* haen arall o drafodaeth i achos a tharddiad y rhyfel drwy gydnabod fod gan Brwsia broblem filaraidd. Ynghyd â’r cyfnodolion eraill, cyflwynwyd darlun pendant o wir ffynhonnell y rhyfelgarwch fel un yn deillio o’r *Junkers*, a’r ysbryd Prwsiaidd.

Uniaethu â’r Werin

Gyda’r Wasg Gymreig yn gwahaniaethu rhwng carfanau gwahanol o gymdeithas yr Almaen, rhoddwyd ystyriaeth i sefyllfa’r werin Almaenaidd. Gellir adnabod elfen o undod yn agweddau’r Wasg Gymreig tuag at ddsbarth gweithiol yr Almaen a oedd, yn nhyb nifer, wedi cael eu twyllo gan y dosbarthiadau uwch, yn enwedig y *Junkers*. Nid oedd y genedl gyfan felly yn euog o gychwyn y rhyfel, ond yn hytrach y weinyddiaeth *Junkers* a’r ‘ysbryd’ Prwsiaidd. Dyma a bwysleisiodd David Lloyd George yn ei araith yn Neuadd y Frenhines:

We are not fighting the German people. The German people are under the heel of this military caste, and it will be a day of rejoicing for the German peasant, artisan and trader when the military caste is broken.⁶⁹²

Ar gychwyn y rhyfel, roedd Thomas Jones yn y *Welsh Outlook* yn awyddus i atgoffa ei ddarllenwyr o gyflawniadau diwylliannol yr Almaen. Yn rhifyn mis Medi 1914, dangoswyd portreadau o Bach, Beethoven, Kant a Goethe o dan y pennawd, ‘Lest We Forget’. Adlewyrcha hyn ymateb llugoer y cylchgrawn ar gychwyn y rhyfel, a nododd Jones yn y golygyddol: ‘The Junker class is not all Germany nor “blood and iron” their universal motto.’⁶⁹³ I Jones, a sawl Rhyddfrydwr arall, y bygythiad hirdymor i gyfandir Ewrop oedd Rwsia, ac nid y genedl Almaenaidd. Dros amser daeth y *Junkers* yn darged i sylwebwyr y Wasg Gymreig, ond neges y *Welsh Outlook* yn y rhifyn yma, serch ei chefnogaeth gyndyn i’r rhyfel, oedd bod digon o

⁶⁹⁰ ‘Trem ar Fyd ac Eglwys’, *Seren Gomer*, Mawrth 1918, 109.

⁶⁹¹ ‘Trem ar Fyd ac Eglwys’, *Seren Gomer*, Tachwedd 1918, 299.

⁶⁹² Lloyd George, *The Great War*, t.14.

⁶⁹³ ‘Notes of the Month’, *Welsh Outlook*, Medi 1914, 377.

bethau Almaenaidd y gallai Cymru fod yn ddiolchgar amdanynt. Dyma oedd ymateb cyntaf y *Welsh Outlook* i'r rhyfel ac ar ôl disgrifio'r sefyllfa fel 'tragedy', rhybuddiodd Jones rhag unrhyw jingoïstiaeth: 'We doubt if ever before the country has been so wholeheartedly for a war and so little jingo.'⁶⁹⁴ Dangosodd Jones yn gynnar nad oedd yn barod i sarhau a beirniadu cenedl gyfan yr Almaen. Y portread a geir o'r Almaenwyr oedd eu bod wedi cael eu twyllo gan ddsbarth llywodraethol militaraid. Canfuwyd 'that ignorant and malicious spirit' yn gyfrifol, ac adlewyrchwyd y farn hon gan 'C.T.' yn ei erthygl 'Our Allies and our Enemy', a ddisgrifiodd yr Almaenwr cyffredin fel: 'a mighty and a noble people wickedly misled.'⁶⁹⁵

Yn debyg i farn Thomas Jones a'r *Welsh Outlook*, roedd D. Jones yn awyddus i nodi nad oedd yr Almaen yn genedl drachwantus, ond yn un a oedd wedi cael ei llywio gan ddsbarth elitaidd. Ysgrifennodd Jones yn *Y Geninen* yn gynnar yn y rhyfel:

Nid wyf yn meddwl fod gan Brydain na'r un o'r Cynghreiriaid ddim yn erbyn yr Ellmyniaid fel cenedl: maent, yn ôl pob hanes, yn bobl radlon, cyweithas, ac heddychol ddigon, pe caent lonyddwch gan eu llywodraethwyr. Dywedir mai yn groes i'w hewyllys y mae llawer ohonynt yn brwydro heddyw. Ond yr hyn sydd gennym i ymladd yn ei erbyn yw, nid casineb a gelyniaeth y werin-bobl, yn ogymaint ag unbennaeth drahaus, atgas y bendefigaeth yn Prwsia – y *Junker System*, fel ei gelwir, ar yr hon y mae yr ymerawdwr yn flaenor ac yn ben. Y mae y gyfundrefn unbenaethol uchel-falch hon wedi etifeddu ysbryd rhyfelgar, trachwantus Bismarck; Yr unig beth yr anelant ato yw lles a llwyddiant eu gwlad eu hunain, ac yn arbennig y dosparth ffroenuchel y perthynant hwy iddo, a hynny heb wneud yr ymholiad lleiaf a ydyw hynny yn unol ag egwyddorion anrhydedd a chyfiawnder at genhedloedd eraill ai peidio.⁶⁹⁶

Roedd creulonder yn thema i'r dramodydd a'r beirniad George Bernard Shaw hefyd, wrth iddo gyfrannu i'r *Welsh Outlook* ym misoedd cynnar y rhyfel yn gobeithio am iachawdwriaeth dyn 'cyffredin' yr Almaen. Cyflwynodd Shaw yr Almaen fel gwlad gampus a oedd wedi ei herwgio gan y dosbarth llywodraethol. Yn feirniadol o *Junkers* yr Almaen a militarwyr Prydain, cydnabu Shaw fod nifer o nodweddion cyffredin ymysg dinasyddion Prydain a'r Almaen, gan iddo ddisgrifio pobl gyffredin yr Almaen fel, 'our brethren in Christ'. Galwodd am gymorth Duwiol i achub y dieuog: 'Give Thy blessing, O Father, to the people of that great and fair land, with whose rulers we are at war.'⁶⁹⁷ Beirniadodd Shaw elfennau milwrol gwledydd Ewrop gyfan, gan gynnwys Prydain, ac yn 1914 cyhoeddodd bamffled, *Common*

⁶⁹⁴ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Medi 1914, 375.

⁶⁹⁵ 'Our Allies and Our Enemy', *Welsh Outlook*, Medi 1914, 384.

⁶⁹⁶ 'Rhyfel y Cenedloedd', *Y Geninen*, Hydref 1914, 270.

⁶⁹⁷ 'Meditations for the New Year', *Welsh Outlook*, Ionawr 1915, 7.

Sense About the War, lle gosodwyd y bai am y rhyfel yn gyfartal ar ysgwyddau pob gwlad. Roedd ei gyfraniad i'r *Welsh Outlook* yn ategu'r hyn yr oedd eisoes wedi ei fynegi'n gyhoeddus, lle y gwelai ormesu'r dosbarth gweithiol rhyngwladol.

Doedd y syniad o'r werin yn cael eu twyllo ddim yn gyfyngedig i'r driniaeth o'r Almaen. Dangoswyd yn y Wasg y syniad grymus mai'r werin oedd yn cynrychioli dioddefwyr mwyaf y rhyfel. Fel llais gwrthwynebiad i'r rhyfel, dangosodd *Y Deyrnas* undod gyda gwerin pob gwlad. Wrth sôn am yr Almaen, nododd Thomas Rees yng ngolygyddol Mai 1918 mai 'ffolineb' fyddai hi i anwybyddu'r 'gwerin fawr o bobl ddiniwed na fynnai ryfela a neb oddigerth ei thwylo i ofni ei chymdogion.'⁶⁹⁸ Gan ddiffinio gwerin Ewrop fel 'y defaid heb fugail', roedd *Y Deyrnas* yn awyddus i bwysleisio'r gwahaniaeth rhwng llywodraethau gwledydd a'u dinasyddion.⁶⁹⁹ Yn aml, sylwebwyd ar natur ormesol y berthynas rhwng yr uchelwyr llywodraethol a'r werin, ac roedd y cylchgrawn, drwy ei nodiadau golygyddol ac erthyglau ei chyfranwyr, yn barod i bleidio achos gwerin y gwahanol wledydd. Yn rhifyn Ionawr 1917, er enghraifft, nododd Rees am ddiniweidrwydd pobl Ewrop: 'Y mae calon y werin yn yr holl wledydd yn lled ddiwenwyn. Yng nghalon gwerin cenedl y mae sylfaenu heddwch.'⁷⁰⁰ Ysbrydolwyd Rees hefyd gan y chwyldro Rwsiaidd ym mis Mawrth 1917, gan weld y digwyddiadau fel cyfle i uniaethu gyda gwerin y cyfandir a herio'r llywodraethau: '[Gan] mai rhuthro mewn nwyd gwallgof i ddinistrio'i gilydd yn unig a wna'r llywodraethau, rhaid i'r werin feddwl, ac wedi gwneud ei meddwl i fyny, dilyn esiampl y Rwsiaid.'⁷⁰¹ Cyfeiriwyd yr elfen 'wenwynol' at weinyddiaethau'r gwledydd, a oedd yn ôl *Y Deyrnas* yn cynrychioli'r 'gormeswyr'. I'r gwrthwyneb i hyn, roedd gwerin Ewrop yn 'frodyr'. Erbyn mis Ionawr 1918, roedd argyhoeddiad Rees mor gadarn ag erioed:

Ni ddylem anghofio un awr fod miliynau ein brodyr yn y ffosydd, o dan wlaw ac eira, gwynt a rhew y gaeaf, yn cael eu clwyfo, eu hanafu, a'u lladd oherwydd balchter a thrachwant a natur ddrwg llywodraethwyr Ewrop.⁷⁰²

Efallai mai cefnogwr mwyaf y werin Almaenaidd yn y Wasg Gymreig oedd O. M. Edwards. Fel y gwnaeth Thomas Jones yn y *Welsh Outlook* ar gychwyn y rhyfel, parod iawn oedd Edwards hefyd i rybuddio rhag taenu'r Almaen i gyd gyda'r un brwsh: 'Pobl dawel, ddiwyd, yw trigolion dinasoedd mawrion gorllewin yr Almaen; pobl hoffus, freuddwydiol, farddonol

⁶⁹⁸ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Mai 1918, 2.

⁶⁹⁹ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Awst 1917, 3.

⁷⁰⁰ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Ionawr 1917, 2.

⁷⁰¹ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Mai 1917, 1.

⁷⁰² 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Ionawr 1918, 2.

yw pobl ei thaleithiau deheuol.’ Ond am y Prwsiaid, nododd: ‘gŵr caled ac ymladdwr ydyw; mae ynddo yr egni trahaus sy’n eisiau yn y lleill.’⁷⁰³ Yn wir, fel cylchgrawn a hybodd y syniad o’r werin Gymreig, ymdrechodd *Cymru* i uniaethu gyda gwerin a gweithwyr yr Almaen ar fwy nag un achlysur, er gwaethaf ei chefnogaeth i’r ymdrech rhyfel. Cyflwynwyd gweinyddiaeth yr Almaen fel dosbarth uwch cymdeithas, yn cynnwys ymysg eu rhengoedd filitarwyr a thirfeddianwyr cyfalafol na phoenai am les gwerin y wlad: ‘Buddugoliaeth yr arglwydd tir milwrol fyddai ei buddugoliaeth. Ni chodai cyflog isel mwnwyr Silesia na glowyr Westphalia. Ond byddai iau y mawrion tirol yn drymach nag erioed.’⁷⁰⁴ Prwsia ‘greulon, galed, hunan-geisiol, dibarch’ a ‘haearnaidd’ a lwyddai i arwain yr Almaen yn y rhyfel. Roedd ardaloedd a dinasoedd ‘diwylliannol’ o dan orthrwm Prwsia, gydag Edwards yn disgrifio’r ‘dinasoedd rhyddion’ megis Hamburg a’r ‘hen gartrefi celf a meddwl’ megis Heidelberg a Leipzig. I raddau, deilliai hyn o brofiadau Edwards ei hun, wedi iddo dreulio cyfnod yn teithio’r Almaen ar hyd tiroedd y Rhein. Amlygwyd teimladau Edwards yn ei gyfeiriadau at weithwyr ac amaethwyr yr Almaen fel y rhai a ddiweddefa y fwyaf, ar yr un llaw o dan orthrwm y *Junkers* a’r Prwsiaid, ac ar y llaw arall ar feysydd y gad yn y rhyfel.⁷⁰⁵

Gan nodi fod ‘hen ysbryd gormes’ wedi dychwelyd, rhybuddiodd O. M. Edwards o’r goblygiadau petai’r Almaen yn fuddugol yn y rhyfel: ‘Ailgodai’r ysbryd Prwsiaidd eu hen awydd am orthrymu, creai bellder rhyngddynt a’r gweithiwr fel a fu pan y trinient ef fel ci.’⁷⁰⁶ Roedd Edwards yn rhagweld unbennaeth filwrol – gyda’r ysbryd Prwsiaidd fel yr egwyddor arweiniol – yn dominyddu’r Almaen ac yn rhwystro athrylith ddiwylliannol y wlad yn y dyfodol. Golygai hyn ddiwedd i’r holl fuddiannau a enillwyd gan werin yr Almaen dros y degawdau diwethaf o ran breintiau gwleidyddol, cyfleusterau addysg, rhyddid cydwybod, a nerth undeb. Dengys hyn rinwedd trugaredd O. M. Edwards, yn enwedig fel rhywun a bleidiodd achos ac undod y werin yng Nghymru.

Ar y cyfan felly, gwelwyd unfrydiaeth ymysg golygyddion Cymru – Thomas Jones, Thomas Rees, John Evan Hughes, Evan Ungoed Thomas, O. M. Edwards – yn ogystal ag ymysg rhai o gyfranwyr y cyfnodolion, ynghylch y farn mai ysbryd tywyll Prwsia a gweinyddiaeth filwrol yr *Junkers* oedd yn bennaf gyfrifol am y rhyfel. Parod oedd golygyddion y Wasg Gymreig i amddiffyn yr egwyddorion gwerinol drwy ddangos undod â dosbarth gweithiol yr Almaen a

⁷⁰³ ‘Dydd Pryder y Gweithiwr’, *Cymru*, Ionawr 1915, 10.

⁷⁰⁴ ‘Dydd Pryder y Gweithiwr’, *Cymru*, Ionawr 1915, 10.

⁷⁰⁵ ‘Cwmp yr Almaen’, *Cymru*, Chwefror 1915, 105.

⁷⁰⁶ ‘Dydd Pryder y Gweithwyr’, *Cymru*, Ionawr 1915, 10.

dadlau am sut y'u twyllwyd nhw gan y weinyddiaeth ormesol. Ymhlyg yn y drafodaeth hon roedd goblygiadau buddugoliaeth yn y rhyfel fel cyfle i 'ryddhau' y werin orthrymedig.

Diwedd glo

Yn ystod wythnosau a misoedd cyntaf y rhyfel, gwelwyd deallusion Cymru yn priodoli egwyddorion moesol a gwaraidd i'r rhyfel, gan greu disgwrs nerthol o fewn y Wasg Gymreig a fyddai'n para tan ddiwedd y rhyfel. Ym misoedd cynnar y brwydro, roedd David Lloyd George yn effeithiol iawn yng Nghymru yn cyflwyno neges o ryfel cyfiawn, wedi ei orfodi ar Brydain a'r cyfandir gan Almaen milwrol a bygythiol. Ymddangosai fod anrhydedd Prydain yn y fantol, ac yn ddibynnol ar yr ymateb i'r ymdrech rhyfel, a oedd i bob pwrpas yn un dros ryddid a chyfiawnder. Dadleuodd Lloyd George: 'We are in the war from motives of purest chivalry to defend the weak.'⁷⁰⁷ Ac yn gyson drwy'r rhyfel, gwthiwyd y naratif fod y rhyfel yn un i amddiffyn neu adfer gwareiddiad. Ymddangosai'r rhyfel ar adegau fel cyfle i adeiladu byd gwell ar gyfer y dyfodol, gan fuddsoddi moesau newydd mewn cymdeithas. Llwyddodd y drafodaeth ar wareiddiad, anrhydedd, a rhyddid nid yn unig i gyfleu'r syniad o ryfel cyfiawn, ond hefyd i ffurfio hanfod y diwylliant rhyfel yng Nghymru. O'r man yma yr oedd ystyr i'r rhyfel yn cael ei rhoi, naill ai fel sail i gefnogaeth i'r rhyfel neu fel pwyntiau trafod i'r gwrthwynebwyr.

Yn ogystal, gwelwyd proses o hanfodoli'r Almaen yn digwydd ymysg sylwebwyr y Wasg Gymreig wrth iddynt fanylu ar ddysgeidiaeth awduron, ysgolheigion, ac athronwyr yr Almaen. Profodd Friedrich von Bernhardi, Heinrich von Treitschke, a Friedrich Nietzsche yn boblogaidd iawn fel gelynyon deallusol Prydain, a daeth eu hysgrifau yn agored i ddehongliad wrth iddynt gael eu hecsploetio at ddiben penodol. Fel noda Nicholas Martin am Friedrich Nietzsche: 'his ideas were exploited in a cavalier and highly selective fashion in 1914, but Nietzsche was not entirely blameless.'⁷⁰⁸ Yn debyg i sut ymosodwyd arnynt gan y Wasg Brydeinig, gwnaethpwyd hyn hefyd yng Nghymru, wrth i draddodiadau rhyddfrydol a democrataidd y wlad gael eu cyfosod â'r nodweddion awdurdodol, hunanol, a milwrol a ganfuwyd yn ysgrifau'r Almaenwyr. Roedd y gred yn bendant ymysg sylwebwyr Cymru fod gweithredoedd a pholisïau'r Almaen yn fynegiant ymarferol o syniadaeth a dysgeidiaeth rhai

⁷⁰⁷ Morgan, "Christ and the War", 74.

⁷⁰⁸ Martin, 'Nietzsche as Hate-Figure', t.147.

o athronwyr ac ysgolheigion mwyaf blaengar y genedl honno. Ceisiwyd canfod a deall achosion y rhyfel, felly, yn nhraddodiadau deallusol y gelyn.

Serch y pydredd moesol a welwyd yn yr Almaen, olrheiniai golygyddion Cymru yr ysbryd milwrol a hunanol hwn yn benodol i Brwsia. Honno oedd y deyrnas filwrol, awdurdodol, a ormesai weddill tiroedd yr Almaen. Yn wir, roedd golygyddion yn ddigon parod i atgoffa eu darllenwyr fod yna ddigon o ddiwylliant yn yr Almaen y gallai Cymru fod yn ddiolchgar amdano, megis cerddoriaeth Bach a Beethoven, neu ysgrifau Goethe, Schiller, a syniadaeth Kant. Ond roedd ffrwyth yr Oleuedigaeth hon bellach wedi ei ddarostwng gan system wleidyddol absoliwtaidd dan arweiniad y Caisar. Roedd trachwant Prwsia wedi gwyrddroi enaid y genedl gyfan, a dyma oedd y gwir ysbryd drwg yr oedd angen ei drechu, wrth i lywodraeth yr Almaen geisio lledu ei *Kultur* dros weddill Ewrop.

Yn debyg i'r drafodaeth ar seilio cymdeithas y dyfodol ar egwyddorion Cristnogol, felly hefyd gwelwyd y Wasg yn meithrin syniadau o greu cymdeithas well yn seiliedig ar ddelfrydau gwareiddiad, megis rhyddid yr unigolyn a'r mynegiant diwylliannol a chelfyddydol ehangach. I sawl un, roedd y rhyfel yn cynrychioli rhwyg mawr yn hanes dyn, wrth i ddyfodiad moderniaeth herio hen strwythurau cymdeithasol y wlad. Roedd y rhyfel yn gyfle i ffurfio cymdeithas fwy moesol ar gyfer y dyfodol. Rhyfel i roi terfyn ar ryfel oedd hwn. Daeth anrhydedd, rhyddid, a chyfiawnder yn ffocws i'r ddadl dros ryfel cyfiawn, ac yn ddelfrydau moesol i seilio cymdeithas y dyfodol arnynt. 'Adeiladu ar seiliau cadarnach' oedd neges y Parchedig G. Wynne Griffith yn *Y Traethodydd* yn Ebrill 1918, er enghraifft, a gwelwyd sawl sylwebydd arall yn gyrru'r un neges. I Griffith, 'yr adeilad newydd sydd i'w godi wedi y rhyfel mawr ydyw y Jerusalem nefol ar y ddaear.'⁷⁰⁹ Roedd y rhyfel felly, wedi ei yrru gan ysbryd mileinig Prwsia a dysgeidiaeth hunanol a gormesol y triawd o Nietzsche, Treitschke, a Bernhardi, yn cynrychioli cyfnod o newid mawr, ac yn gosod delfrydau mwyaf sylfaenol a gwaraidd y genedl ar brawf. Drwy ddehongli'r rhyfel yn y modd hwn, gobeithiai sylwebwyr Cymru am ddyfodol mwy moesol, cyfiawn, a gwaraidd, wedi ei ffurfio yn fflamau Armagedon y Rhyfel Mawr.

⁷⁰⁹ 'Ail-Adeiladu', *Y Traethodydd*, Ebrill 1918, 125.

Pennod 4

Rhyfel Cymreig

Mae gan Gymru rywbeth arbennig iawn i'w ddweyd ar gwestiwn rhyfel. Ymhlith holl genhedloedd bychain Ewrop, nid oes un wedi deffro mwy i'w hunaniaeth genedlaethol na chenedl y Cymry.⁷¹⁰

Cyflwyniad

Dadleuir fod cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf wedi cryfhau Prydeindod, drwy roi i'r naill ochr y gwahaniaethau rhwng y cenedloedd gwahanol – gan gynnwys y trafferthion yn Iwerddon – wrth wynebu bygythiad Almaenaidd o'r cyfandir.⁷¹¹ Noda Catriona Pennell: 'English, Scottish, Welsh, and Irish identities were forced to give way to more inclusive terms', ac 'in terms of a sense of unity, the threat from Germany provoked a shift in national symbols and rites, and people became 'United Kingdomers'.⁷¹² Heb os, unwyd tu ôl i achos Prydain gyda dyfodol yr ymerodraeth i'w weld yn y fantol. Ar brydiau fe drodd y gefnogaeth yn jingoistiaeth go iawn. Dyma a bwysleisia Tecwyn Lloyd, sy'n dadlau 'nad oedd unrhyw wir reswm dros y rhyfel o gwbl.'⁷¹³ Yn ei astudiaeth o lôn Cymru adeg y rhyfel, disgrifia ef y mwyafrif o destunau'r Wasg Gymreig yn 'jingoeth ddigon penchwiban'. Gan gynnig enghreifftiau o farddoniaeth 'y werin' a ymddangosodd yn *Y Geninen*, dibrisia Lloyd eu crefft am iddynt ddangos 'agweddau moesol oes Victoria' ac mai 'gwaith pobl na fuont o fewn dau can milltir i unrhyw ryfel yn eu bywyd yw'r englynion'.⁷¹⁴

Tebyg yw dadansoddiad Alan Llwyd o effaith y Rhyfel Mawr ar Gymreictod. Noda Llwyd: 'Welsh identity often got lost'.⁷¹⁵ Yn ei gasgliad o farddoniaeth a rhyddiaith Gymreig y rhyfel, dadleuir o blaid canfyddiad trasig o'r Rhyfel Byd Cyntaf gan gyfeirio at y beirdd rhyfel adnabyddus: 'personally, I would find it difficult not to endorse the "[Wilfred] Owen version" of the Great War' meddai Llwyd.⁷¹⁶ Adnabyddus yng Nghymru yw 'Rhyfel' gan Hedd Wyn, cerdd sydd bellach yn cynrychioli trasiedi'r rhyfel. 'Gwae fi fy myw mewn oes mor ddreng'

⁷¹⁰ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Hydref 1916, 2.

⁷¹¹ Robbins, *Nineteenth-Century Britain*; Pennell, *A Kingdom United*; Reynolds, *The Long Shadow*.

⁷¹² Pennell, *A Kingdom United*, t.228.

⁷¹³ Lloyd, 'Llenyddiaeth Cyni a Rhyfel', t.16.

⁷¹⁴ Lloyd, 'Llenyddiaeth Cyni a Rhyfel', tt.26-27.

⁷¹⁵ Llwyd, *Out of the Fire of Hell*, tt.xviii-xiv.

⁷¹⁶ Llwyd, *Out of the Fire of Hell*, t.xxiv.

yw'r llinell nerthol gyntaf, sydd nid yn unig yn fynegiant o anobaith y bardd, ond hefyd yn dangos dadrithiad llwyr Hedd Wyn ynghylch y rhyfel. Daw casgliadau Llwyd yn sgil ei ddaliadau personol ynghylch hunaniaeth Gymreig, yn argyhoeddedig mai 'England's war' oedd y rhyfel a bod Cymru yn wlad heddychol, hyd nes i athrylith Lloyd George ddarbwylo, os nad twyllo'r Cymry.⁷¹⁷ Serch hyn, nid heddychw'r oedd Wilfred Owen, ond un a gyfeiriodd ei ddieter at y rhyfel jingoistaidd, ac nid at y rhyfel ei hun.⁷¹⁸

Amlyga'r bennod hon y ffordd y dangoswyd y rhyfel fel un Cymreig, gan dynnu sylw at farddoniaeth ryfel a gyhoeddwyd yn y Wasg Gymreig. I wrthwynebwy'r rhyfel, daeth cerddi yn fath o fynegiant i'w teimladau, ac yn y Wasg Gymreig fe gyhoeddwyd sawl un yn *Y Deyrnas*. Ymddangosodd y gerdd gyntaf, o waith Cybi, yn *Y Deyrnas* yn yr ail rifyn. Crisiala'r gerdd safbwynt y cylchgrawn fel un Cristnogol a heddychol:

Y Deyrnas, mae cariad arni – yn ben
Annibynnol inni,
Heddyw'n gwaedd yw, a'n gweddi, –
O waedlyd warth, “deled” hi.

Agorer llygad gwerin – atalier
Tylwyth rhaib anhydrin;
Parer i Iwrop erwin,
Ag euog lef, blygu glin.

Ni ddaw hedd o wae'r cleddyf,
Na rhyddid o ruddwaed hyf;
Concwerwr cwyn yw cariad,
Tan ne' burlas Teyrnas Tad.⁷¹⁹

Noda cerdd ddiweddarach Cybi oferedd y rhyfel gan bwysleisio teitl y gerdd, 'I Beth?', yn llinell olaf pob un o'r pum pennill. Mae'r trydydd a'r pedwerydd pennill yn enwedig yn chwervwder y bardd:

Blodau'r cenedloedd
Tàn halog draed
Dibris a syrthiant
I feddau gwaed, – I Beth?

Galar ofnadwy,
Newyn a gwawd,
Mynwent o aelwyd

⁷¹⁷ Llwyd, *Out of the Fire of Hell*, tt.xvi-xix.

⁷¹⁸ Reynolds, *The Long Shadow*, tt.192-93.

⁷¹⁹ 'Y Deyrnas', *Y Deyrnas*, Tachwedd 1916, 8.

Y werin dlawd, – I Beth?⁷²⁰

Er mai cylchgrawn a anogai ysgrifau a thraethodau oedd *Y Deyrnas*, ymddangosodd cerddi yn ysbaidiol yn ei chynnwys. Ym mis Mehefin 1917, gwawdiwyd y syniad o'r rhyfel fel un Cristnogol gan y Parchedig J. E. Thomas. Noda'r ail bennill o bedwar ag eironi deifiol:

Delfrydau Crist a gyll eu blas
Mewn rhyfel "Cristionogol,"
Mae magnel groch yn well na gras
I weini dial ingol.
Ni ddylai Crist lesteirio rhawd
Y rhwyg, y lladd, a'r difrod,
A lle bo dyn yn lladd ei frawd,
Nid yna le cydwybod.⁷²¹

Nid yn unig y 'rhyfel Cristionogol' a gafodd ei wawdio yn *Y Deyrnas*, ond daeth y delfrydau rhyfel eraill o dan sylw hefyd. Yn 'Yr Aberth' gan J. Baldwyn Jones, dilornwyd 'cyfiawnder', 'rhyddid', a'r syniad mai rhyfel dros genhedloedd bychain a ymleddid. Sonia'r gerdd saith pennill am gapelwr ifanc, Tom, yn sylwi ar y rhyfelgarwch a fodolai bellach yn ei gapel. Cyfeiria'r pennill olaf yn gynnill at y gred mai rhyfel Lloegr, ac nid Cymru, oedd hwn:

Cerddai i'r capel i chwilio am falm
A thangnefedd i'w fron, o hyd,
A chanai'r pregethwr yn awr mor bêr
Am wledydd bychain y byd;
Am Gyfiawnder a Rhyddid a'r Aberth mawr
Yn erbyn gormes a thrais,
Gweddiai am wasgar gelynyon gwlad,
Diolchai am noddod y Sais.⁷²²

Gweler cerddi swmpus eraill W. Pari Huws, Illtyd, a Benjamin Davies yn enghreifftiau o fynegiant barddonol gwrth-ryfel *Y Deyrnas*.⁷²³ Yn eu hanfod, adlewyrchai'r cerddi hyn ganfyddiad penodol o Gymreictod, a rhaid ystyried y mynegiadau barddonol hyn o deimladau gwrth-ryfel yn elfen bwysig o brofiad Cymreig y rhyfel.

Dylid ystyried barddoniaeth y rhyfel, felly, fel nodweddion diwylliant rhyfel Cymru, ac yn groes i'r hyn a ddadleua Llwyd a Lloyd fe welir yn y cyfnodolion llenyddol fod y rhyfel wedi ysgogi teimladau cryf o Gymreictod, yn ogystal ag awgrymu rhesymau dros ei ymladd. Ni

⁷²⁰ 'I Beth?', *Y Deyrnas*, Mehefin 1917, 5.

⁷²¹ 'Emyn Rhyfel', *Y Deyrnas*, Mehefin 1917, 11.

⁷²² 'Yr Aberth', *Y Deyrnas*, Awst 1918, 8.

⁷²³ 'Rhyfel: Gogangerdd', *Y Deyrnas*, Medi 1917, 9; 'Mae f'enaid yn fflam dros Heddwch', *Y Deyrnas*, Tachwedd 1917, 7; 'Gwladgarwch', *Y Deyrnas*, Ebrill 1918, 7.

ddylid diystyru llinynnau cenedlaetholgar Cymreig y rhyfel. Gwelwyd er enghraifft ffurfiad y Corfflu Byddin Gymreig yn 1914 ac yna'r Gwarchodlu Cymreig yn 1915. Wrth sylwebu ar ffurfiad y Gwarchodlu Cymreig, nododd golygyddol y *Cambria Daily Leader*:

Now the privilege has been granted, and the Army has recognised what the Throne and the Commons have long since recognised: the entity of Wales. The establishment of a battalion of Welsh Guards is, as some Welsh Members of Parliament have declared, a concession to the spirit of Wales a nation.⁷²⁴

Dengys y golygyddol hwn y balchder Cymreig a fynegwyd ynghylch milwriaeth ac unedau milwrol Cymreig. I'r heddychwyr yng Nghymru hefyd, teimlwyd bod eu safiad yn erbyn y rhyfel yn dyst i wir draddodiadau'r genedl Gymreig. Nododd W. J. Gruffydd am olygydd *Y Deyrnas*, Thomas Rees, mai ef oedd 'un o'r achosion cryfaf na cholodd Cymru ei henaid yn hollol yn nydd y gwallgofrwydd mawr'.⁷²⁵ Yn ogystal â'r naratif Prydeinig felly, gellir sylwi ar wedd neilltuol Gymreig, un a ddehonglodd a chyflwyno'r rhyfel mewn modd gwbl Gymreig o ran ei ystyron, symbolaeth, a mynegiant. Er i'r rhyfel ddigwydd ar gyfandir Ewrop, y Dwyrain Canol, Affrica, a'r moroedd mawr, gellid dadlau i bob pwrpas mai rhyfel Cymreig oedd y Rhyfel Mawr, wrth i ddehongliad penodol gael ei ffurfio ymysg deallusion Cymru fod bodolaeth cenedl y Cymry yn cael ei bygwth. O ganlyniad, yr unig ffordd o wrthsefyll y bygythiad oedd ysgogi'r bobl mewn ffordd gwbl Gymreig.

Hawliau Cenedloedd Bychain: Gwlad Belg a Serbia

Yn gynnar yn y rhyfel, daeth deallusion Cymru i ddehongli'r rhyfel fel un rhwng y bach cyfiawn a'r mawr gormesol. Ysgrifennodd O. M. Edwards yn *Cymru* ym mis Tachwedd 1914:

Dyddiau ingol, pryderus, yw'r dyddiau hyn. Y mae Gormes yn ymosod ar Ryddid. Y mae bywyd cenedloedd bychain y ddaear mewn perygl. Ar lawer maes brwydr ledled y byd gofynnir y cwestiwn, – Pa un ai cenedloedd bychain, ynte rhyw allu mawr haearnaidd, sydd i fyw ac i reoli? Dydd y cenedloedd bychain yw'r dydd ystormus, cymylog hwn.⁷²⁶

Wedi i'r Almaen gyghwyn ei hymosodiad yn y gorllewin drwy ymosod ar Ffrainc drwy Wlad Belg, a oedd eisoes wedi datgan ei niwtraliaeth, daeth y wlad honno yn ganolog i ddadl rhyfel

⁷²⁴ *Cambria Daily Leader*, 15 Chwefror 1915, 4.

⁷²⁵ Dyfynnwyd yn John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain: Penguin, 1990), t.496.

⁷²⁶ 'Dydd Y Cenedloedd Bychain', *Cymru*, Tachwedd 1914, 201.

cyfiawn Prydain. Yn ôl Hew Strachan: '[The attack] united the government and rallied the nation'.⁷²⁷ Mewn araith yn Neuadd y Frenhines yn Llundain ym mis Medi 1914 yn cyfarch torf Gymreig, esboniodd David Lloyd George: 'The world owes much to the little 5-foot-5 nations. The heroic deeds that thrill humanity through generations were the deeds of little nations fighting for their freedom.'⁷²⁸ Gyda'r rhethreg yma, crëwyd yn gyflym y ddelwedd o Wlad Belg fechan ac anrhydeddus yn gwrthsefyll ymosodiadau creulon a nerthol yr Almaen.⁷²⁹ Mynegodd sawl gwleidydd ei edmygedd tuag at y Belgiaid, gan adlewyrchu undod trawsbleidiol Prydeinig mewn cefnogaeth i'r wlad honno.

Rhai wythnosau cyn araith Lloyd George, siaradodd y Prif Weinidog, Herbert Asquith yn Nhŷ'r Cyffredin am boen ac urddas Gwlad Belg, gan gynnig bod ei phobl yn haeddu 'immortal glory' am eu gwrthsafiad yn erbyn yr Almaen. Esboniodd Asquith hefyd: 'by their side and in their company, we are defending at the same time two great causes – the independence of small States and the sanctity of international covenants.'⁷³⁰ Ymatebodd arweinydd y Blaid Geidwadol, Andrew Bonar Law i alwadau'r Prif Weinidog gan nodi bod gwrthsafiad y Belgiaid yn erbyn yr Almaenwyr, 'wedi ennill edmygedd y byd i gyd'.⁷³¹ Daeth Bonar Law i'r casgliad: 'What has happened [in Belgium] confirms the belief in which we entered upon this war, that this is in reality a struggle of the moral influences of civilisation against brute force.'⁷³² Ategwyd yr hyn a ddywedwyd gan Asquith a Bonar Law gan arweinydd y Blaid Seneddol Wyddelig, John Redmond:

The spectacle of this small nation making these heroic sacrifices in defence of their independence and honour against overwhelming odds appeals in a very special way to the sentiments and the feelings of Ireland.⁷³³

⁷²⁷ Hew Strachan, *The First World War: A New Illustrated History* (London: Simon & Schuster, 2006), t.53; Gweler hefyd J. M. Bourne, *Britain and the Great War 1914–1918* (London: Edward Arnold, 1989), tt. 7-8; a Pennell, *A Kingdom United*, tt.33-35; ac o ran yr ymgyrch bropaganda, Haste, *Keep the Home Fires Burning*; Sanders and Taylor, *British Propaganda*; Stewart Halsey Ross, *Propaganda for War: How the United States was Conditioned to Fight the Great War of 1914–1918* (London: MacFarland, 1996), tt.47-48.

⁷²⁸ Lloyd George, *The Great War*, tt.10-11. Gweler hefyd astudiaeth ddiweddar yn

⁷²⁹ Roedd y rhethreg hefyd yn cyfeirio at daldra Lloyd George a Chymry'n gyffredinol. Am astudiaeth o'r berthynas hon gyda pherfformiad milwrol Cymru yn y rhyfel, gweler Mike Benbough-Jackson, 'Five-Foot-Five Nation: Size, Wales and the Great War', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, Cyf. 28, Rhif 4, Rhagfyr 2017, 618-645.

⁷³⁰ HC Deb 27 August 1914, vol 66, cc191-4. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1914/aug/27/sympathy-with-belgium>> [cyrchwyd 05.02.17].


⁷³¹ 'Has won the admiration of the whole world'.

⁷³² HC Deb 27 August 1914, vol 66, cc191-4. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1914/aug/27/sympathy-with-belgium>> [cyrchwyd 05.02.17].

⁷³³ HC Deb 27 August 1914, vol 66, cc191-4. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1914/aug/27/sympathy-with-belgium>> [cyrchwyd 05.02.17].

Daeth geiriau'r gwleidyddion hyn yng nghyd-destun sibrydion a honiadau o droseddau rhyfel Almaenaidd yng Ngwlad Belg ddiwedd haf 1914. Yn sgil hyn, dilynwyd ymgyrch bropropaganda ryngwladol a ganolbwyntiodd ar gamdriniaeth y Belgiaid, a daeth y Wasg Gymreig i wneud yr un peth gydag O. M. Edwards yn honni yn *Cymru* fod yr Almaenwyr wedi torri dwylo rhai o blant ffoaduriaid Gwlad Belg.⁷³⁴ Teimlwyd poen miloedd o ffoaduriaid Belgiaidd ledled Prydain a daeth 'Remember Belgium' a 'Rape of Belgium' yn sloganau nerthol ar bosteri propaganda'r Cynghreiriaid. Gwelir Ffigwr 4.1 a Ffigwr 4.2, delweddau Prydeinig sy'n uniaethu â phoen Gwlad Belg. Gwelir poster recriwtio yn defnyddio'r geiriau 'Remember Belgium' ar ddarlun o filwr Prydeinig yn sefyll yn gadarn ac yn amddiffynnol, wrth i ffoaduriaid ffoi o'u pentref sydd yn llosgi yn y cefndir. Gwelir hefyd gartŵn Frederick Townsend a gyhoeddwyd yng nghylchgrawn *Punch* yn dangos Belg fel plentyn yn gwneud safiad dewr yn erbyn yr Almaen hŷn, bygythiol sydd yn ceisio mynediad er mwyn cyrraedd Ffrainc.


Ffigwr 4.1: Poster Recriwtio Rhif.19. 'Remember Belgium. Enlist To-day'⁷³⁵



⁷³⁴ 'Dydd y Cenedloedd Bychain', *Cymru*, Tachwedd 1914, 202.

⁷³⁵ 'Remember Belgium. Enlist To-day'. Poster recriwtio y Pwyllgor Recriwtio Seneddol. Poster Rhif.19. 1914. Hawlfraint y National Army Museum, Llundain. <<https://collection.nam.ac.uk/detail.php?acc=1977-06-81-5>> [cyrchwyd 10.01.18].

Ffigwr 4.2: 'Bravo Belgium'⁷³⁶



Roedd gwrthwynebid Gwlad Belg i'r Almaen ar gychwyn y rhyfel yn symbolaidd o gyfiawnder safiad gwlad fechan yn erbyn gorthwrwm un o bwerau mawr y byd. Crisialodd O. M. Edwards agwedd gyffredin yng Nghymru pan ysgrifennodd yn ei nodiadau golygyddol ym mis Rhagfyr 1914: 'Difrododd a dinistriodd [yr Almaen], o fwriad, un o wledydd bychain mwyaf diwyd, heddychlon, a diniwed y byd. Rhoddodd y Prwsiaid a'r Twrc yn farnwyr gwareiddiad.'⁷³⁷ Drwy bardduo'r Almaen fel grym gormesol y cyfandir, adlewyrchodd Edwards y farn ehangach Gymreig, a chreu delwedd anrhydeddus o Wlad Belg. Roedd golygydd y papur newydd dyddiol, y *Cambria Daily Leader*, eisoes wedi crybwyll dewrder ac urddas Gwlad Belg a Serbia er enghraifft, gan ysgrifennu ym mis Awst 1914:

The world is, indeed, incalculably in the debt of little Belgium (...) We have had very many instances of the manner in which a small people will defend their heritage, and the resistance of the Belgians and the Servians shows once again that the big battalions, when opposed by

⁷³⁶ 'Bravo Belgium'. Cartŵn *Punch*, 12 Awst 1914. Lawrlwythwyd o'r Llyfrgell Brydeinig. <https://imagesonline.bl.uk/?service=search&action=do_quick_search&language=en&q=bravo+belgium> [cyrchwyd 12.01.18].

⁷³⁷ 'Cronicl Y Misoedd', *Cymru*, Rhagfyr 1914, 283.

outraged nations fighting for liberty and honour, are not invincible. A little nation has often barred the way.⁷³⁸

Trwythwyd ysgrifau'r Wasg gyda chydymdeimlad â Gwlad Belg, gydag ambell i gerdd yn cael ei chyfansoddi i estyn cefnogaeth neu i nodi dinistr y wlad honno. Cyfansoddwyd 'Gair Prydain Fawr' gan J. Rowlands, er enghraifft wrth iddo nodi anrhydedd Prydain yn amddiffyn annibyniaeth Gwlad Belg. Ategodd argyhoeddiad am oruchafiaeth Prydain dros y gelyn, a'r weithred o geisio gwarchod Gwlad Belg yn gymhelliant cyfiawn a moesol:

“Clyw, Brydain Fawr,” medd teyrn yr Almaen goeth,
“Nid yw fy ngair dros annibyniaeth ddrud
Gwlad Belgia fach, i aros mwy. Ym myd
Llywodraeth ymherodrol fawr, nid doeth
Ei gadw. Ni fyn Angen gyfraith lem
I’w nabod: Nerth, yn wir, sydd lawnder claer.”
“Nid felly fi,” medd Prydain; “yn fy ngair
Y mae fy mri a’ m holl anrhydedd! Gem
Yw’r gair a geidw’r gwir; hon yw fy nerth
Ar for a thir, a gwystl mawr y ddae’r.
Nid oes na theyrn na chledd, na llong na chaer,
A’ m hatal: fy anrhydedd yw fy ngwerth!
O! edrych di! Ni chei mo’r byd dan draed, –
Mae annibyniaeth Belgia yn fy ngwaed!”⁷³⁹

J. B. Rees ('Morleisfab') oedd awdur englyn buddugol Eisteddfod Porth Tywyn 1915 gyda 'Belgium':

Rhy'i gwaed yn for i gadw – trais o'i thir, –
Tros ei theyrn myn farw;
Arwr llid, a thorrwr llw
Wna'i holl Eden yn lludw!⁷⁴⁰

Ystyriodd Rees achos Gwlad Belg fel un cyfiawn dros ryfela, gan gyfeirio at yr Almaenwyr fel rhai a dorrodd lw. Mynegiant o dosturi dros Wlad Belg oedd hyn, ond tebyg i gerdd Rowlands, dangosai gefnogaeth i Wlad Belg gan gyfiawnhau'r rhyfel.

Un sgil-effaith o ystyried Belg yn y modd hwn oedd siglo'r gydwybod Gymreig. Wrth sylwebu ar resymau Prydain dros fynd i ryfel, ysgrifennodd y Parchedig J. Richards yn *Y Traethodydd* yn 1915: 'Teifl Prydain heddyw dewdwr ei tharian fawr wydn dros genedl fechan a wnaed yn sorod. Ceidw ei gair. Beth all fod yn deilyngach a mwy diargyhoedd na theyrnas fawr yn cadw

⁷³⁸ *Cambria Daily Leader*, 28 Awst 1914, 4.

⁷³⁹ 'Gair Prydain Fawr', *Y Geninen*, Ionawr 1915, 67.

⁷⁴⁰ 'Belgium', *Y Geninen Eisteddfodol*, Awst 1916, 32.

ei gair?’⁷⁴¹ Teyrnged Richards oedd hyn i anrhydedd Prydain, y delfryd hwnnw a ymddangosodd ym mhapurau dyddiol Cymru yn ystod dyddiau cynnar mis Awst 1914, ac a wnaeth gymaint i lywio'r drafodaeth ar y rhyfel dros y blynyddoedd dilynol. Ond hefyd yn cael ei chrybwyll gan Richards oedd y ‘genedl fechan’ honno, Gwlad Belg, y genedl a dynnodd ar linynnau anrhydedd Prydain, a’i thynnu i mewn i’r rhyfel i warchod ei hannibyniaeth.

Yn debyg i sut siapiwyd diwylliant rhyfel Cymru gan grefydd a delfrydau o wareiddiad a hil, ymddengys fod sefyllfa Gwlad Belg wedi bod yn ddylanwadol hefyd wrth gymell cefnogaeth i’r rhyfel yn ogystal â gosod seiliau i drafodaeth ehangach ar ddyfodol Cymru. Mynegodd Thomas Jones, golygydd y *Welsh Outlook*, yn gynnar yn y rhyfel ei falchder yn ymateb y Cymry i amddiffyn Gwlad Belg: ‘There is no section of the British more proud than the Welsh of alliance with their kinsmen the French in defence of the Belgians. With that brave little nation we have much in common.’⁷⁴² Awgrymodd Jones fod Cymru yn rhannu rhinweddau cyffredin gyda ‘that brave little nation’, gyda maint cymharol y ddwy wlad yn un ohonynt. Roedd hyn yn agwedd a oedd yn barod wedi ei chrybwyll gan David Lloyd George yn ei araith yn nodi’r gwledydd ‘pum-troedfedd-pump’. Parhaodd yr uniaethu â Gwlad Belg tan ddiwedd y rhyfel, gyda’r newyddiadurwr a’r cenedlaetholwr, John Arthur Price, yn ysgrifennu ym mis Medi 1918: ‘On historical ground, Wales’s case for self government is quite as strong as that of Bohemia, Transylvania, or even Belgium.’⁷⁴³

Erbyn diwedd y rhyfel, roedd erthyglau di-ri yn nheitolau’r Wasg Gymreig yn trafod haeddiant a gwerth hunanreolaeth i Gymru. Yn aml yn defnyddio Gwlad Belg fel pwynt mesur, ffurfiwyd dadl ymysg deallusion o blaid mwy o hawliau i Gymru. Yn y *Welsh Outlook* ym mis Mai 1918 dyfynnwyd y cenedlaetholwr Albanaidd, Ruaraidh Erskine – a fyddai’n sefydlu’r Scots National League yn 1920 – yn mynegi ei gefnogaeth i hunanlywodraeth Gymreig: ‘When the proper season shall come, let the Welsh people themselves rise up and demand Self-determination for their Country. They have as good a right to it as the Belgians.’⁷⁴⁴ Er yn pwysleisio cyflwr llwgr yr Ymerodraeth, daeth Thomas Rees i’r un casgliad â’r *Welsh Outlook* wrth ystyried yn y *Y Deyrnas* berthnasedd ‘hawliau cenedloedd bychain’ i Gymru:

Deil Mr. Lloyd George i gredu fod y rhyfel yn cael ei ymladd er mwyn cenedloedd bychain. Ac ar sail y gred honno dywed fod mwy o ddyled ar yr Iwerddon, Scotland, a Chymru na Lloegr i’w ymladd. Tybed ynte

⁷⁴¹ ‘A Gaiff Efe Ffydd Ar Y Ddaear?’, *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 98.

⁷⁴² ‘Notes of the Month’, *Welsh Outlook*, Hydref 1914, 417.

⁷⁴³ ‘Welsh Nationalism and Mr. Lloyd George’s Speech’, *Welsh Outlook*, Medi 1918, 274.

⁷⁴⁴ ‘Self-determination for Wales’, *Welsh Outlook*, Mai 1918, 163.

a yw'r gwledydd hyn i gael ei llwyr ryddhau oddiwrth Loegr, fel yr addawa Germani ryddhau Belgium?⁷⁴⁵

Yn unol â phrofiad ehangach Prydain felly, bu i Wlad Belg chwarae rhan bwysig yng nghyflwyniad y rhyfel yng Nghymru. Ond yn fwy arwyddocaol i sylwebwyr Cymreig oedd y cymariaethau a dynnwyd rhwng Gwlad Belg a Chymru, gan glymu'r ddwy wlad yn emosiynol yn ogystal âg yn wleidyddol. Enynnodd dinistr Belg don o dosturi a chydymdeimlad Cymreig a barodd am hyd y rhyfel. Mewn llythyr at olygydd y *North Wales Chronicle* ym mis Awst 1914, apeliwyd am gefnogaeth i'r Belgian Relief Fund wrth fynegi tristwch tuag at Gwlad Belg a'i phobl, nifer ohonynt bellach yn ffoaduriaid yn ymgartrefu yng Nghymru:

Sir – Our incalculable debt to the Belgian nation is so overwhelming that it must needs find some outlet in practical help. The condition of the refugees, who have fled by their thousands before the senseless cruelty of the enemy is positively deplorable. Their houses destroyed, their substance lost or left behind, their sad plight calls for instant alleviation. Their inconceivable sufferings are due to the determination of the nation to withstand the aggressor. What benefit the Allies will reap from this, future history will disclose.⁷⁴⁶

Llwyddodd sefyllfa Gwlad Belg i ysgogi ystyriaeth ynghylch dyfodol Cymru. Ond felly hefyd y gwnaeth Serbia. Mewn cyfarfod recriwtio yn Nhonypandy, o flaen pum mil o lowyr y Rhondda, pwysleisiodd yr Aelod Seneddol, Austen Chamberlain sefyllfa Serbia fel un canolog i ystyr y rhyfel:

[Winning the war] will save our own country and our homes from the desolation that has scourged France and Belgium; it will give Belgium back its freedom – it will give Servia, another small but gallant nation, its freedom and independence, and compensation, I hope, for the loss it has undergone.⁷⁴⁷

Gallai pobl Cymru uniaethu â sefyllfa Serbia fel gwlad fach arall, un a wynebodd gorthrwm yr Ymerodraeth Hapsburg ar gychwyn y rhyfel. Soniodd Lloyd George wrth y Gymdeithas Serbaidd am y wlad honno gyda brwdfrydedd fel: 'the nation which can sing about its defeats'. Yn ogystal, cychwynwyd cronfa ariannol gan ffigurau cyhoeddus – yn cynnwys yr Aelod Seneddol, David Davies – i roi cymorth i bobl Serbia wrth i gannoedd o filoedd ohonynt ddod yn ffoaduriaid.⁷⁴⁸

⁷⁴⁵ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Hydref 1917, 3.

⁷⁴⁶ *North Wales Chronicle*, 28 Awst 1914, 5.

⁷⁴⁷ *Amman Valley Chronicle*, 8 Hydref 1914, 2.

⁷⁴⁸ Morgan, *Wales in British Politics*, t.275.

Yn debyg i brofiad Gwlad Belg, cyhuddwyd Awstria-Hwngari o erchyllterau yn nhiroedd Serbia yn ystod misoedd cyntaf y rhyfel, yn enwedig yn nhref Shabatz. Gwelwyd ambell adroddiad yn y papurau newydd Cymreig yn cyfeirio at y ‘creulonderau erchyll’, ‘barbarous treatment of peasantry’, a’r ‘barbarous methods of warfare’ a gyflawnwyd gan fyddin Awstria-Hwngari.⁷⁴⁹ Comisiynwyd adroddiad gan llywodraeth Serbia i ymchwilio i’r honiadau, ac fe’i cyhoeddwyd yn 1916 gan yr ysgolhaig Almaenaidd-Swisaid, Archibald Reiss. Ni lwyddodd yr adroddiad – na chwaith yr honiadau – i gipio’r diddordeb Cymreig yn yr un modd ag y gwnaeth Comisiwn Bryce ynghylch erchyllterau yng Ngwlad Belg. Serch hyn, roedd cynnwys yr adroddiad yn ddamniol. Nododd y rhagair:

The barbarous methods of warfare and the cruelties towards the civil population of an invaded country, such as have been practised by the German Army in Belgium, have been faithfully imitated by her Austrian ally in Serbia. The present investigations and report of a distinguished man of science (who furthermore is a neutral) actually prove that the “charming Austrian people” and “the proud and gallant Magyar race” have had the doubtful honour of surpassing, if possible, their Prussian friends in bestiality.⁷⁵⁰

Ym mis Ebrill 1915, saith mis ers cychwyn y rhyfel, ysgrifennodd y Parchedig John Kelly yn *Y Traethodydd* am sefyllfa Serbia. Roedd yn barod i gyfaddef ei ragfarn flaenorol am y wlad, ond bellach roedd yn argyhoeddedig fod ‘Serbia dlawd’ yn ddrych i hanes Cymru:

Beth am ran Serbia yn y cythrwfl? Pan oedd y rhyfel hwn ar fin torri allan teimlwn yn ddigofus tuag at y wlad hon, a dywedais bethau celyd am dani. Syniwn am dani fel cenedl fechan lofruddiol ac uchelgeisiol, ac wedi mynnu rhoi Ewrop, o leiaf, ddwywaith ar dân. Heddyw y mae gennyf syniadau pur wahanol am dani a chydymdeimlad byw iawn tuag ati. Ni allaf feddwl am dani hi a’i brwydrau, heb atgofio fy hun o frwydrau a gormes yr hen Gymry gynt. Buom ninnau’n yn yr un ysgol â Serbia dlawd – “ysgol ddychrynlyd,” chwedl Mr. Lloyd George. A dyweder a fynner am ei phechodau, y mae eiddo’i gormeswyr yn llawn duach.⁷⁵¹

Er gwaethaf agweddau annymunol Serbia, roedd Kelly yn llawn dirmyg tuag at uchelgeisiau’r Almaen ac Awstria-Hwngari, ac iddo ef, roedd sefyllfa Gwlad Belg a Serbia yn ganolog i ystyr

⁷⁴⁹ *Baner ac Amserau Cymru*, 29 Awst 1914, 3; *North Wales Chronicle*, 4 Medi 1914, 6; *Brecon County Times*, 24 Awst 1916, 7.

⁷⁵⁰ R. A. Reiss, *Report Upon the Atrocities Committed by the Austro-Hungarian Army During the First Invasion of Serbia* (English translation by F. S. Copeland) (London: Simpkin, Marshall, Hamilton, Kent & Co., Ltd, 1916), p.v.

⁷⁵¹ ‘Gwraidd Hanesyddol y Rhyfel Mawr’, *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 146.

y rhyfel, wrth i anrhydedd Prydain a'r Cynghreiriaid gael ei fesur yn eu hymateb. Esboniodd Kelly:

Dengys y pethau hyn fod y Cynghreiriau yn ymladd yn erbyn aflwydd pendant, sef, hawl honedig yr Almaen i atdrefnu Ewrop a'r byd yn ôl ei mympwyon byd-arglwyddiaethol, ar draul diystyru hawliau ysbrydol a threfnidol cenhedloedd eraill, ac yn enwedig y ddwy genedl fechan yn Belgium a Serbia. Ni fu tynged a rhyddid y cenhedloedd democrataidd erioed yn fwy yn y gloriant nag ydyw yn y rhyfel hwn.⁷⁵²

Ambell waith, nid ystyriwyd Serbia yr un mor ddiuog ac anrhydeddus â Gwlad Belg wedi iddi'n ddiweddar gorddi'r dyfroedd gwleidyddol yn y Balcanau, ond roedd hi o hyd yn un o'r gwledydd 'pum-troedfedd-pump' ynghyd â Chymru a Belg. Dyma a bwysleisiwyd gan 'Shenkyn ap Morgan' yn 1917 yn ei erthygl yn olrhain y rhyfeloedd a fu yn y Balcanau. Nododd yn benodol gymeriad y Serbiaid yn gwrthsefyll nifer o elynion gwahanol dros y canrifoedd. Manteisiodd 'ap Morgan' ar y cyfle i bwysleisio'r nodweddion cyffredin a fodolai rhwng Serbia a Chymru:

We, on our side, are fighting the same battle against the same forces, as Serbia has been fighting for generations. Our sympathies are the same and our aspirations are the same, and in the case of Welshmen the whole body of our national history and national character are links which, as Mr. Lloyd George pointed out, form more than an alliance: they form a friendship.⁷⁵³

Tynnodd 'ap Morgan' ar hanes Cymru i geisio ffurfio undod gyda phrofiadau Serbia. Honnodd fod y ddwy wlad, gyda hanes o wynebu ymosodiadau dros y canrifoedd, bellach yn rhannu ffawd gyffredin, er gwaetha profiad tra gwahanol Serbia yn ystod y rhyfel. Yn hydref 1915 wrth wynebu ymosodiadau gan luoedd Awstria-Hwngari a Bwlgaria, enciliodd byddin Serbia, ynghyd â'i llywodraeth a channoedd o filoedd o sifiliaid, dros y ffin i Albania ac yna i Corfu. Daeth yr ymfudiad hwn i gynrychioli dioddefaint y genedl gyfan, gydag un hanesydd yn ei galw hi'n 'Serbia's Golgotha' i ddisgrifio effaith yr enciliad ar y genedl.⁷⁵⁴ Ni phrofodd Cymru'r fath drychineb, ond ni rwystrodd hynny sylwadau'r Wasg Gymreig ynghylch rhinweddau a ffawd debyg y ddwy wlad.

Cyfeiriwyd at 'Shenkyn ap Morgan' gan y Serbiad, Milan Ćurčin yn y *Welsh Outlook* ym mis Mai 1918. Roedd Ćurčin yn fardd, llenor, ac yn olygydd, un a adawodd ei rôl fel athro ym

⁷⁵² 'Gwraidd Hanesyddol y Rhyfel Mawr', *Y Traethodydd*, Ebrill 1915, 149.

⁷⁵³ 'The War in the Balkans', *Welsh Outlook*, Hydref 1917, 338.

⁷⁵⁴ Golgotha oedd y man lle y croeshoeliwyd Iesu, tu allan i furiau Jerwsalem. Andrej Mitrović, *Serbia's Great War, 1914–1918* (West Lafayette: Purdue University Press, 2007), t.151.

Mhrifysgol Belgrâd i ymuno fel swyddog yng nghorfflu meddygol Byddin Frenhinol Serbia. Danfonwyd ef i Lundain i gydlynu cymorth meddygol i Serbia gyda'r Pwyllgor Iwgoslafaidd. Yn ysgrifennu o Lundain, ceisiodd Ćurĉin ategu'r hyn a ddadleuwyd gan 'ap Morgan'. Cyfeiriodd yntau at Serbia fel y 'much tried little country', cyn amlygu hanes cyffredin y ddwy wlad. Esboniodd: 'The circumstances in which both Serbs and Welsh have found themselves at different epochs in their history have helped to increase the common points'.⁷⁵⁵ Ac yn debyg i'r gred Gymreig fod y rhyfel yn achos teilwng dros ddelfrydau uwch, argyhoeddwyd Ćurĉin yn y modd hwn, gan ddadlau: 'Serbia and the Serbs will rise to an ideal, to a symbol of freedom'.⁷⁵⁶ Gyda'r ymateb hyn gan Ćurĉin i erthygl flaenorol 'Shenkyn ap Morgan', cadarnhawyd y syniad fod Cymru a Serbia yn rhannu'r un ffawd. Gwelir dewrder a gwydnwch yn themâu amlwg yn y testunau a drafodai Serbia wrth i'r wlad honno orfod wynebu grym milwrol nerthol yn herio'i bodolaeth. Honnid bod hyn yn cyfateb i sefyllfa Gwlad Belg, ac yn hanesyddol, Cymru.

Roedd gwarchod hawliau cenedloedd bychain yn rhan neilltuol o ystyr y rhyfel. Dyma oedd y neges yn 1914, a chynhaliwyd y neges hon tan ddiwedd y rhyfel. Yn 1917 er enghraifft, rhoddodd David Lloyd George araith a gyhoeddwyd mewn sawl papur newydd, lle dadleuodd y Prif Weinidog: 'the rights of nations, however small, are as sacred as the rights of the biggest Empire'.⁷⁵⁷ Argyhoeddwyd sawl un gan gysondeb y ddadl hon, p'un ai eu bod yn rhan o'r garfan wleidyddol neu'n gyfranwyr i'r Wasg yng Nghymru. Crisialwyd y gred mai rhyfel dros hawliau cenedloedd bychain oedd hyn gan yr ysgolhaig a oedd bellach wedi gwirfoddoli ac yn gwasanaethu fel Rhingyll yn y Gwarchodlu Cymreig, Henry Lewis. Ysgrifennodd i'r *Beirniad* yn 1916 gan esbonio:

Aeth meibion [Cymru] i'r gad pan glywyd bod anghenfil yn anrheithio gwledydd bychain. Cynhesodd eu gwaed at genhedloedd bychain yn nydd eu hing. Aethant i frwydro dros hawl y gwerinoedd hyn i fyw. Addawyd dydd gwell i genhedloedd bychain y byd, ac ni fynnent hwy fod yn ôl yn y frwydr dros ddelfryd oedd mor agos i'w chalon.⁷⁵⁸

Dyma hefyd oedd barn y Parchedig D. D. Williams, Lerpwl, gynt o Goleg Diwinyddol y Bala, a bwysleisiodd werth cenhadaeth fel sylfaen cenedloedd a holl ddaioni'r byd, a'r nod o barchu cysylltiadau rhyngwladol tra'n hybu bywyd a diwylliant cenedlaethol. Meddai Williams yn *Y*

⁷⁵⁵ 'Wales and Serbia', *Welsh Outlook*, Mai 1918, 167.

⁷⁵⁶ 'Wales and Serbia', *Welsh Outlook*, Mai 1918, 167.

⁷⁵⁷ *Daily Telegraph*, 5 Chwefror 1917, 9.

⁷⁵⁸ 'Gwladgarwch ac Ymerodraeth', *Y Beirniad*, Gaeaf 1916, 223.

Traethodydd: ‘Mae gan genedl ei rhan i’w wneud er perffeithio bywyd y ddynoliaeth.’⁷⁵⁹

Estynnodd ei ddadl i ystyried cenedloedd bychain, gan ategu un o ddelfrydau’r rhyfel:

Rhoddwyd i wledydd a chenhedloedd bychain, o dro i dro, genadaethau uchel i’w cyflawni, a gwisgwyd hwy â mawredd eu hymddiriedaeth. I genhedloedd bychain yr ydym yn ddyledus am y pethau goreu sydd yn ein gwareiddiad, ein llenyddiaeth, ein gwyddoniaeth, ein celfyddyd, a’n harluniaeth. Nid dinod pob cenedl fechan.⁷⁶⁰

Yn rhifyn nesaf *Y Traethodydd*, adlesiiodd Williams ei farn am gychwyn y rhyfel: ‘Achlysur uniongyrchol y rhyfel presennol oedd ymgais Awstria i anwybyddu cenedlaetholdeb Serbia.’⁷⁶¹

Gwelodd Williams mai nerth ac amcanion ymosodol yr Almaen ac Awstria-Hwngari oedd yn gyfrifol am sathru cenedloedd llai. Ym mis Ebrill 1917, nododd: ‘Ystyrient [Almaen ac Awstria] mai y peth goreu allai ddigwydd i genhedloedd bychain oedd cael eu llyncu i fyny ym mywyd y wladwriaeth fawr, ymgolli fel yr ymgyll yr afon yn y môr.’⁷⁶² I mewn i flwyddyn olaf y rhyfel, parhaodd yr argyhoeddiad mai gwarchod annibyniaeth cenedloedd bychain oedd un o brif ddelfrydau’r rhyfel. Yn ysgrifennu ym mis Ionawr 1918, datganodd R. Hugh Davies yn *Y Geninen* am nodau’r rhyfel: ‘Cymeriad gwlad, hawliau y cenedloedd llai, rhyddid oddi wrth ymyriad annheg pob teyrn a phob gallu milwrol.’⁷⁶³ Roedd yn ddelfryd cryf, un a lwyddodd i gynnal ffydd gyhyd fod y rhyfel yn gyfiawn.

Soniwyd yn gyson yn y Wasg Gymreig am brofiadau Gwlad Belg a Serbia fel rhai anffodus ac anghyfiawn. Cyfansoddwyd cerddi yn ogystal er mwyn mynegi teyrnged i arwriaeth neu dristwch Belg a Serbia, megis ‘Mae Blodau yr Oes yn y Rhyfel’ gan D. J. Howells. Yma, cysylltwyd sefyllfa Gwlad Belg gyda delfrydau’r rhyfel. Dyfynnir yr ail bennill o bedwar:

“Mae Blodau yr Oes yn y rhyfel!”
I gadw anrhydedd eu gwlad!
Mae’n rhaid wrth y dewrion i ddymchwel
Gorseddau gelyniaeth a brad!
Mae Rhyddid a Belgium yn gwaeddi
Am fathru y gelyn yn sarn;
A gwelir Cyfiawnder yn trochi
Ei gledd yn ei waed hyd y carn.⁷⁶⁴

⁷⁵⁹ ‘Cenedlaetholdeb a Chynnydd’, *Y Traethodydd*, Ionawr 1917, 5.

⁷⁶⁰ ‘Cenedlaetholdeb a Chynnydd’, *Y Traethodydd*, Ionawr 1917, 4.

⁷⁶¹ ‘Cenedlaetholdeb ac Addysg’, *Y Traethodydd*, Ebrill 1917, 114.

⁷⁶² ‘Cenedlaetholdeb ac Addysg’, *Y Traethodydd*, Ebrill 1917, 114.

⁷⁶³ ‘Ymneilltuaeth a’r Cyfnod Presennol’, *Y Geninen*, Ionawr 1918, 36.

⁷⁶⁴ ‘Mae Blodau yr Oes yn y Rhyfel’, *Y Geninen Eisteddfodol*, Awst 1917, 31.

Roedd teimladau cryf o undod Cymreig gyda'r ddwy wlad honno yn ganolog i'r drafodaeth ar Wlad Belg a Serbia. Dangosodd y *Welsh Outlook* sut roedd teimladau o ddyletswydd yn cael eu cysylltu â Serbia, er enghraifft.⁷⁶⁵ O ran maint cymharol, tebyg oedd y tair gwlad yng nghydestun Ewrop y Pwerau Mawr.⁷⁶⁶ Yn ychwanegol, ceisiwyd amlygu profiadau hanesyddol cyffredin y gwledydd. Wedi iddo son am brofiadau Gwlad Belg a Serbia, nododd David Lloyd George yn ei araith yn Neuadd y Frenhines ym mis Medi 1914:

The heroic deeds that thrill humanity through generations were the deeds of little nations fighting for their freedom. God has chosen little nations as the vessels by which He carries His choicest wines to the lips of humanity, to rejoice their hearts, to exalt their vision, to stimulate and strengthen their faith.⁷⁶⁷

Deilliodd argyhoeddiad Lloyd George o gyfiawnder moesol y rhyfel o'i genedlaetholdeb Cymreig, a tystia'i areithiau i allu profiadau Gwlad Belg a Serbia i ffurfio undod emosiynol ymysg y 'gwledydd bychain'. O reidrwydd, daeth y delfryd o amddiffyn hawliau ac annibyniaeth Gwlad Belg a Serbia yn werthfawr mewn dwy ffordd i ddeallusion Cymru. Ar yr un llaw, roedd modd uniaethu cynulleidfa Gymreig gydag anffawd ei chynghreiriaid, gan gynnig rheswm cadarn o blaid yr ymdrech ryfel. Ond hefyd, cynrychiolai Gwlad Belg a Serbia ddrych gwleidyddol i Gymru. Gan fod hawliau cenedloedd bychain yn un o ddelfrydau'r rhyfel, pryfocwyd hefyd ystyriaeth i hawliau a sefyllfa Cymru, fel un o'r gwledydd 'pum-troedfedd-pump' hynny, gan ffurfio rhan arall o ddiwylliant rhyfel Cymru.

Barddoniaeth y Rhyfel

Ar gychwyn y rhyfel, roedd David Lloyd George yn awyddus iawn i godi corfflu byddin Gymreig o ddwy adran, gan lwyddo i ddwyn perswâd ar yr Arglwydd Kitchener. Ffurfiwyd y 38ain Adran (Gymreig) yn sgil ymdrechion Lloyd George, a gellir ystyried ei areithiau fel ymgais fwriadol i ennyn yr ysbryd rhyfelgar Cymreig drwy gyfeirio at rai o arweinwyr milwrol hanesyddol y Cymry. Yn crybwyll yr araith a draddodwyd i Gymdeithas Cymry Llundain yn Neuadd y Frenhines ym mis Medi 1914, nododd y papur wythnosol, *Seren Cymru*: 'Soniodd [Lloyd George] gydag ymffrost y gwir wladgarwr am frwydrau'r hen Gymru a'r dewrder a

⁷⁶⁵ 'Our Duty to Serbia: A Claim on Wales', *Welsh Outlook*, Gorffennaf 1918, 212.

⁷⁶⁶ Er i Montenegro a Lwcsembwrg, fel gwledydd bach tebyg, hefyd ddiodef yn y rhyfel, daeth sylw propaganda y Cynghreiriaid i ffocysu yn bennaf ar Wlad Belg a Serbia.

⁷⁶⁷ Lloyd George, *The Great War*, p.11.

ddangoswyd ganddynt o dan Glyndŵr ac eraill, ac apeliodd am i'r meibion fod yn deilwng o'u tadau.⁷⁶⁸ Cyfieithodd papur wythnosol *Y Genedl* rannau o'r araith gan dynnu sylw at y pwyslais Cymreig a roddwyd gan Lloyd George, yn ogystal â'r gymeradwyaeth a roddwyd gan y gynulleidfa:

Buaswn yn hoffi yn fawr gweled byddin Gymreig ar y maes (cym.) Hoffwn weled y gwyr hynny fu'n gwrthwynebu'r Normaniaid am gannoedd o flynyddoedd, yn eu hymdrech dros ryddid; y gwyr hynny fu'n gymorth i ennill Crecy; y gwyr a ymladdasant am genhedlaeth dan Glyn Dwr a hyn yn erbyn y cadben glewaf yn Ewrop – buaswn yn caru gweled y gwyr hyn yn rhoddi prawf o'u hansawdd yn yr ymdrechfa fawr bresennol yn Ewrop. Ac y maent ar fedr gwneud hynny.⁷⁶⁹

Cyfeiriodd Lloyd George yn bwrpasol yn ei araith at Owain Glyndŵr. Fel un o arweinwyr amlycaf Cymru, daliai Glyndŵr obeithion gwleidyddol o sefydlu Cymru unedig annibynnol ar ddechrau'r bymthegfed ganrif, a phoblogeiddiwyd ei ddelwedd yn enwedig gan ysgrifau O. M. Edwards.⁷⁷⁰ Mae'n annhebygol mai bwriad Lloyd George oedd awgrymu mai annibyniaeth Cymru oedd yn y fantol, ond roedd yr hyn a welwyd yn y Wasg Gymreig yn dyst i allu'r rhyfel i gorddi cenedlaetholdeb Cymreig ynghyd â'i thraddodiadau milwrol a chwedlonol. Yn ei anerchiad yn Eisteddfod Genedlaethol 1915 ym Mangor, pwysleisiodd Lloyd George unwaith eto'r ysbryd milwrol Cymreig, i gymeradwyaeth y gynulleidfa:

Nid yw ysbryd milwrol Cymru wedi marw. Nid oedd hyd yn oed yn cysgu. Cuddio 'roedd yn ogofeydd y bryniau hyd nes y deuai yr alwad oddiuchod (cym.) Aeth rhyfel ar ôl rhyfel heibio iddo heb ei ddeffroi i'w hen fywiogrwydd. O'r diwedd y mae wedi dod ymlaen wedi ei arfogi i frwydr ac yn gryfach nag erioed.⁷⁷¹

Cyfeiriadaeth at oes gynt oedd arddull Lloyd George, ond gwelir nad oedd ei rhyfreg yn unigryw ar y pryd. Sefydlwyd delwedd ganoloesol yn y Wasg Brydeinig mor gynnar â mis Medi 1914 pan gyhoeddwyd stori fer y Cymro, Arthur Machen, *Bowmen*, yn y *London Evening News*. Yn sgil enciliad y Prydeinwyr o Mons, ceisiodd Machen godi calon drwy ddisgrifio saethwyr o Agincourt yn ymladd wrth ochr y Prydeinwyr ar faes y gad wedi i filwr benderfynu

⁷⁶⁸ *Seren Cymru*, 25 Medi 1914, 9.

⁷⁶⁹ *Y Genedl*, 29 Medi 1914, 6.

⁷⁷⁰ Gweler er enghraifft llinell Edwards: 'Owen Glyndwr sy'n cysylltu'r hen a'r newydd yn hanes Cymru' yn y rhagair i Thomas Pennant, *Hanes Owen Glyndwr, Tywysog Cymru: yr hwn a ymladdodd yn erbyn holl gadernid Lloegr a'r Iwerddon o'r flwyddyn 1400 hyd y flwyddyn 1415* (Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig, [dim dyddiad]), t.9. Trafodir hyn ymhellach ym mhennod Lowri Angharad Hughes Ahronson, 'A Refreshingly new and challenging voice': O. M. Edwards's Interpretation of the Welsh Past', yn Neil Evans a Huw Pryce (gol.), *Writing a Small Nation's Past: Wales in Comparative Perspective, 1850-1950* (Abingdon: Routledge, 2016), tt.127-40.

⁷⁷¹ *Yr Herald Cymraeg*, 10 Awst 1915, 8.

weddiio ar San Siôr. Lledodd y stori drwy'r Wasg Brydeinig yn ystod 1915, gyda'r stori wreiddiol o saethwyr Agincourt yn amddiffyn y Prydeinwyr yn newid dros amser yn angylion yn ymyrryd ar ran Duw i warchod y Prydeinwyr.⁷⁷² Cyhoeddwyd 'The Bowmen' fel stori fer a gwerthwyd dros 50,000 o gopiau mewn tri mis.⁷⁷³

Ffigwr 4.3: Clawr *The Bowmen* yn delweddu saethwr o Agincourt.⁷⁷⁴



Yng Nghymru, ymdrechwyd i ennyn ysbryd rhai o ffigurau milwrol Cymreig y gorffennol. Rhoddwyd sylw i gymeriad chwedlonol Arthur a'r hynafol Caradog, ynghyd â sylw mwy sylweddol i ffigurau canoloesol Llywelyn Fawr, Llywelyn ap Gruffudd, ac yn enwedig Owain Glyndŵr. Ymddangosodd sawl cyfeiriad atynt mewn cerddi, gyda chrefft y 'rhyfelgan' yn profi'n boblogaidd. Wrth ysgrifennu i'r *Traethodydd* yn Ionawr 1915, esboniodd yr awdur straeon byrion, William John Griffith, a oedd ar y pryd wedi ymrestru yn y fyddin, mai

⁷⁷² Soniwyd am yr angylion yn stori fer Mary Coultsman Horne, *The Chariots of God* yn 1915, tra cyfansoddwyd waltz Paul Paree, 'Angel of Mons' a'i hargraffu gan Lawrence Wright Music Co. yn 1916.

⁷⁷³ Aiden Reynolds and William Charlton, *Arthur Machen: A Biography* (London: The Richards Press, 1963).

⁷⁷⁴ Arthur Machen, *The Angels of Mons: The Bowmen and Other Legends of the War* (London: Simpkin, Marshall, Hamilton, Kent & Co, 1915).

‘barddoniaeth rhyfel yw llenyddiaeth hynaf y Cymry.’⁷⁷⁵ Cyfeiriodd at rai o’r gweithiau hynny gan nodi: ‘Dewrion yn cwmpo, colli cad ar ôl cad, colli tir a chilio o flaen llanw y Saeson, dyna yw bwrddwn y lenyddiaeth hon.’⁷⁷⁶ Dadleuodd Griffith dros botensial y grym a oedd gan fyddin genedlaetholgar. Mewn amser rhyfel, roedd ysbrydoliaeth chwedlonol a chenedlaetholgar yn gallu cynnal y cymhellant i frwydro. Enwodd Griffith rai o Gapteiniaid ac arweinwyr Cymru ganoloesol i gefnogi ei gred mai mewn cyfnodau o ryfel y bathir cenedlaetholdeb. Codwyd ‘ynni newydd’ yng Nghymru er enghraifft i wrthwynebu ‘perygl y llanw Normanaidd’. Esboniodd Griffith: ‘Gryffudd ap Cynan oedd awdur yr ysbrydoliaeth hwn’, ac wrth i rym y tywysogion Cymreig gynyddu, ‘lledodd y fflam wladgarol o aelwyd gynnes Gwynedd dros Gymru oll.’⁷⁷⁷ O dynnu ar hanes canoloesol, roedd Griffith yn glir ei feddwl fod rhyfeloedd yn cynnig llwyfan i fynegi cenedlaetholdeb Cymreig. Casglodd Griffith: ‘Plentyn y storm yw cenedlaetholdeb Cymru, mewn gwewyr rhyfel y ganwyd ef. Trwst byddinoedd fu yn suo ei gryd [sic]. Acen cyflafan ac eiddgedd oedd ei eiriau cyntaf.’⁷⁷⁸ Ac felly cynigiodd y rhyfel presennol gyfle i don arall o lenyddiaeth genedlaetholgar ddod i’r amlwg.

Llywelyn, Glyndŵr, Caradog, ac Arthur

Ymddangosodd sawl cerdd yn y Wasg Gymreig a ategai gred Griffith mai barddoniaeth ryfel oedd hanfod llenyddiaeth Gymraeg, gyda ffigurau hanesyddol Llywelyn ac Owain Glyndŵr yn amlwg. Roedd *Y Geninen* yn frith o farddoniaeth o’r math hwn, ac mewn amlygiad cynnar o’r ysbryd canoloesol Gymreig dyma a wnaeth Humphrey Jones yn Ionawr 1915 yn ei gerdd ‘Llewelyn Eto’n Fyw’.⁷⁷⁹ Mynegiant o ryfelgarwch a balchder Cymreig oedd hi drwy honni bod y rhyfel wedi ennyn cenedlaetholdeb Llywelyn.⁷⁸⁰ Yn gyffredin pan soniwyd am Lywelyn (ap Iorwerth ac ap Gruffudd), allosodwyd ei wladgarwch i gynnwys delfrydau o gyfiawnder, rhyddid, a heddwch. Ysgrifennodd Ioan Madog yn 1915 er enghraifft:

Llewelyn enwog ardderchog ddyrchodd;
Ein gwlad a’i doniau ei glod a daenodd;
Ei galon dyner a glân a daniodd

⁷⁷⁵ ‘Barddoniaeth Rhyfel a Heddwch’, *Y Traethodydd*, Ionawr 1915, 20.

⁷⁷⁶ ‘Barddoniaeth Rhyfel a Heddwch’, *Y Traethodydd*, Ionawr 1915, 20.

⁷⁷⁷ ‘Barddoniaeth Rhyfel a Heddwch’, *Y Traethodydd*, Ionawr 1915, 22.

⁷⁷⁸ ‘Barddoniaeth Rhyfel a Heddwch’, *Y Traethodydd*, Ionawr 1915, 30.

⁷⁷⁹ Ysgrifennodd Jones ei gerddi o dan y ffugenw ‘Bryfdir’, a buodd yn gyfrannydd cyson i’r *Geninen* a *Cymru*.

⁷⁸⁰ ‘Llewelyn Eto’n Fyw’, *Y Geninen*, Ionawr 1915, 71.

Mewn gwir wladgarwch, – ein heddwch noddodd.⁷⁸¹

Yn *Cymru*, cyfansoddwyd chwe phennill gan Rhys Davies yn deyrnged i Lywelyn, gan gloi gyda'r llinellau:

O fedd ein Llyw daw undeb gwlad,
A rhyddid cu i Gymru fad;
Daw Gwalia brudd yn llon ei gwedd;
Daw wyneb haul ar Gefn y Bedd.⁷⁸²

Yn ogystal ag arddel gwladgarwch Llywelyn, tynnwyd yn aml hefyd ar ei rinweddau fel milwr. Mewn cerdd a anerchai ryfelwyr Cymru'r presennol, ysgrifennodd yr ysgolfeistr a'r bardd, David Rees Davies ('Cledlyn') yn 1915:

Buddugoliaeth ar y gelyn,
Bellach hawlia ach Llywelyn.⁷⁸³

Ar achlysur arall, 'chwilio am Lewelyn' oedd bwriad 'M' yn 'Ymson Gweddwr'r Milwr'.⁷⁸⁴ Serch poblogrwydd y ddau Lywelyn, un elfen yn nelweddath Owain Glyndŵr oedd ei ddiflaniad, yn hytrach na'i ladd neu ei garcharu.⁷⁸⁵ Roedd hyn yn agwedd bwysig o'i hanes, ac un a ddarparai brawf o statws anorchfygol Glyndŵr, a thrwy estyniad Cymru. Dyma a bwysleisiodd 'Gweirydd ap Rhys' wrth iddo gymharu Glyndŵr gyda Cesar ac Alexander Fawr fel Capteiniaid anorchfygol.⁷⁸⁶ Drwy wneud hyn, gosodwyd Owain Glyndŵr yn rhan o'r diwylliant rhyfel Cymreig yn gynnar yn y rhyfel. Yn wir, yn rhifyn cyntaf *Y Geninen* ar ôl cychwyn y rhyfel ym mis Hydref 1914, gwelwyd dau lythyr i'r golygydd yn ogystal ag erthygl 'Gweirydd ap Rhys', yn rhoi sylw i Owain Glyndŵr.⁷⁸⁷ Dilynwyd sawl cyfeiriad at Glyndŵr fel ysbrydoliaeth Gymreig yng nghyd-destun y rhyfel, fel y gwnaeth Humphrey Jones yng Ngorffennaf 1915 a orffennodd ei gerdd pedwar pennill drwy fyfyrion am 'Gymru newydd' diolch i chwedl Glyndŵr:

Cawn ganu mewn llawenydd,
Wrth gofio hyn, bob gwr –
Fod gobaith Cymru newydd
Yn fyw ar fedd Glyn Dwr.⁷⁸⁸

⁷⁸¹ 'Llewelyn Ein Llyw Olaf', *Y Geninen*, Ionawr 1915, 58.

⁷⁸² 'Bedd Llywelyn', *Cymru*, Awst 1916, 136.

⁷⁸³ 'Bechgyn y Brethyn Llwyd', *Y Geninen Eisteddfodol*, Awst 1916, 38.

⁷⁸⁴ 'Ymson Gweddwr'r Milwr', *Y Geninen*, Hydref 1915, 273.

⁷⁸⁵ Nid oes cofnod dibynadwy o Owain Glyndŵr wedi 1412.

⁷⁸⁶ 'Owain Glyndwr', *Y Geninen*, Hydref 1914, 278.

⁷⁸⁷ 'Cywydd i Owain Glyndwr'; 'Owain Glyndwr', *Y Geninen*, Hydref 1914, 280.

⁷⁸⁸ 'Marwolaeth Owen Glyndwr', *Y Geninen*, Gorffennaf 1915, 152.

Yn yr un rhifyn, casglodd J. Lewis fod ‘awr’ Glyndŵr wedi cyrraedd, mewn teyrnged i filwriaeth Gymreig y rhyfel presennol. Yn cyfarch Glyndŵr, ystyriodd Lewis:

“Ti godaist yn rhy gynnar,”
Ymhell o flaen y wawr:
Na ddos i gysgu yn dy ôl, –
O’r diwedd daeth dy awr.⁷⁸⁹

Cyflwynwyd y rhyfel yn wahoddiad i wladgarwch a rhyfelgarwch Cymreig, gyda disgwyl i Glyndŵr arwain y gad. Yn aml, gwelwyd awduron yn trin Llywelyn ap Gruffudd ac Owain Glyndŵr gyda’i gilydd. Dyma a wnaeth Arthur Simon Thomas (‘Anellydd’) yn ‘Rhyfelgan’, a gyhoeddwyd yng nghylchgrawn *Cymru* ym mis Mawrth 1916:

Mae’r udgorn a’r tabwrdd yn deffro hen Gymru,
I’r gad! I’r gad! I’r gâd!
A’r alwad yn fflamio trwy greigiau’r Eryri,
A glannau a glynnoedd fy ngwlad;
Ar anwel farch wynnied a’r eira,
Carlama tal ysbryd Glyn Dwr,
Gan alw y dewr i’r ymladdfa,
Pob calon tros Ryddid yn dwr.

Llywelyn Lyw Ola’, mae yntau
Yn marchog yng ngosgordd y sêr,
Mae’n gwarchod arwriaeth ein rhengau,
O, clywch ei ymdeithgan bêr;
Melysach fydd telyn hen Gymru
O hepcor ei dewrion i’r drin,
Melys a dwysach fydd cerddi
Y bardd wisgodd gledd ar ei glun.⁷⁹⁰

Sylwer ar y gyfeiriadaeth at ‘hen Gymru’ yn y ddau bennill, gan ddangos sut lwyddodd y rhyfel i ddeffro’r gydwibod genedlaetholgar Gymreig. Gyda Glyndŵr a Llywelyn yn ffocws i’r gerdd, cysylltwyd hwy gyda delfryd y rhyfel presennol o ‘ryddid’ drwy gynnig ysbrydoliaeth i’r ‘dewr’ a’r ‘dewrion’ a oedd yn llawn ‘arwriaeth’ yn yr ‘ymladdfa’. Tra oedd ysbryd Glyndŵr yn arwain ‘y dewr’ i’r frwydr, atodwyd swydd fwy gofalgwr i Llywelyn, sef ‘gwarchod arwriaeth’ y Cymry. Pwysleisiwyd rhinweddau gwahanol yn Llywelyn a Glyndŵr gan rai llenorion felly. Yn yr un rhifyn tynnodd Ithel ar Llywelyn ac Owain Glyndŵr fel ffigurau arwrol i gysuro yn ystod amseroedd ansicr y presennol:

Gwalia wen, hen wlad ein tadau,
Dringwn, dringwn hyd ei bryniau,

⁷⁸⁹ ‘Owen Glyndwr’, *Y Geninen*, Gorffennaf 1915, 193.

⁷⁹⁰ ‘Rhyfelgan’, *Cymru*, Mawrth 1916, 128.

Man mae'r grug yn gwisgo'i flodau –
Gwalia, Gwalia wen.
Os oes craith yn ôl y gelyn,
Cofiwn Glyndwr a Llywelyn; –
Ni bu farw cân a thelyn
Gwalia, Gwalia wen.⁷⁹¹

Tra cyfosodwyd Glyndŵr a Llywelyn yn y gerdd hon gyda'r 'gelyn', y ddelwedd a bwysleisiwyd gan Ithel oedd anrhydedd a chyfiawnder Cymru, gyda 'Gwalia wen' yn cael ei ailadrodd i ddynodi egwyddorion moesol ac ewyllys da'r wlad, wedi eu cyferbynnu gyda'r gelyn. Nid eithriad oedd hwn, ond nodwedd gyffredin o farddoniaeth Gymreig y rhyfel lle pwysleisiwyd yn gyson foesau uwch a chyfiawn y Cymry.

Cyd-ddigwyddiad oedd bod cyfnod y rhyfel yn bumcanmlwyddiant ers dyddiau olaf Owain Glyndŵr. Soniodd Evan Price am yr achlysur hwn yn *Y Geninen* ym mis Hydref 1915, gan weld amodau'r rhyfel yn gyfle i wireddu gweledigaeth wleidyddol Glyndŵr:

Hyfryd yw cofio eleni, ar ben pumed canrif ei arwyl, fod breuddwydion
Glyndwr yn cael eu prysur sylweddoli bob un gan werin y wlad ag yr
oedd serchiadau goreu ei galon wedi ymglymu mor dyn am dani.
Gwelodd, â llygad gloew y gwir wladgarwr, Gymru yn Gymru gyfan,
gyda'i Hymreolaeth, ei Phrif Ysgol, a'i Heglwys rydd.⁷⁹²

Roedd gobeithion ac ymdrechion Glyndŵr, yn ôl Price, yn rhan o frwydr hirdymor Cymru, 'ar eu hymdaith fuddugoliaethus i ganol gogoniant anghymharol Cymru Newydd.'⁷⁹³ Dyma oedd y weledigaeth a welwyd yn rhan o ddiwylliant rhyfel Cymru ynghylch dyfod byd newydd, ac roedd Price yn rhagweld ffurfio 'Cymru Newydd' i wynebu'r byd hwnnw.

Gwelwyd tair cerdd yn benodol yn trafod Owain Glyndŵr yn rhifyn Hydref 1915 *Y Geninen*. Ysgrifennwyd 'Glyndwr' gan Robert Arthur Williams ('Berw'), 'I'th Annerch, Owain' gan Ifano, a 'Byddin Y Tywysog' gan 'M'.⁷⁹⁴ Mewn dau bennill, canodd Berw deyrnged i enw 'anfarwol' Glyndŵr yn ogystal â chysylltu Glyndŵr gydag ysbryd Llywelyn.⁷⁹⁵ Gorffennodd gyda'r llinellau:

Disgynai ei fam Helen
O freintiol ach ein "Llyw"
Ac yn ei gwrol fachgen

⁷⁹¹ 'Gwalia Wen', *Cymru*, Mawrth 1916, 138.

⁷⁹² 'Nawnddydd Owen Glyndwr', *Y Geninen*, Hydref 1915, 227.

⁷⁹³ 'Nawnddydd Owen Glyndwr', *Y Geninen*, Hydref 1915, 227.

⁷⁹⁴ 'Glyndwr', 'I'th Annerch, Owain', 'Byddin Y Tywysog', *Y Geninen*, Hydref 1915, 243, 255, 269. Enillodd Robert Arthur Williams y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol 1887, Llundain gyda'i awdl ar Frenhines Fictoria.

⁷⁹⁵ Pa Llywelyn, nid yw'n dweud.

Llywelyn ddaeth yn fyw!⁷⁹⁶

Cerdd goffáu oedd hon a oedd hefyd yn ennyn arwriaeth Gymreig y gorffennol drwy dalu teyrnged i Owain Glyndŵr. Ond gwelir trwy'r testunau a'r cerddi eraill fod dyheu am arwriaeth Gymreig yn bodoli yn y presennol, a dyma a gynigiodd Berw. Dyma hefyd a wnaeth Ifano yn ei arwrgerdd, 'I'th Annerch Owain' ar ffurf cywydd. Nododd Ifano yn y ddwy linell agoriadol fod Cymru yn dal i'w gofio:

Owain! dy enw o newydd
Heddyw a rêd yn aidd rhydd.⁷⁹⁷

Croyw yn y cywydd oedd pwyslais anwahaniaeth yr hunaniaeth Gymreig. Gwelir 'I'n henaid ymunionnwn / Er trymed trais Sais a'i sŵn' a 'A Saeson yn lladron llwydd / Y Cymry, a'r câs gamrwydd' fel mynegiant Ifano o ddiodeffaint Cymru dan orthrwm Lloegr. Ond drwy gydol y gerdd a dalai deyrnged i Owain Glyndŵr roedd dyhead am weld Cymru well yn y dyfodol. Drwy goffáu Glyndŵr, gwelai Ifano ysbrydoliaeth i'r dyfodol yng nghanol amseroedd tywyll y rhyfel. Disgrifiwyd Glyndŵr fel 'ddewin brenhinol' yn 'tywysi' y Cymry i fyd gwell. Gorffennodd ei gywydd:

Dithau, ddewin brenhinol,
Â brud a hud bro o d'ôl,
A'n tywysi at iesin
Fywyd a gwynfyd a gwin
Y Gymru well â'r gamre uwch,
Ag i'w gwiwfoes gogyfuwch.⁷⁹⁸

Neges debyg a welwyd gan 'M', a awgrymodd fod y rhyfel yn gyfle i brofi teilyngdod cenedlaetholgar a gwireddu delfrydiaeth o 'Gymru rhydd' fel y ceisiwyd gan Glyndŵr ganrifoedd ynghynt. Crisialodd ail ran yr ail bennill y neges hon:

Ar y beddau mae ysbrydion
Sydd yn dweud o ddydd i ddydd: –
“Dewch i'r frwydr, Gymry dewrion, –
Rhaid cael Cymru'n Gymru rydd!”⁷⁹⁹

⁷⁹⁶ 'Glyndwr', *Y Geninen*, Hydref 1915, 243.

⁷⁹⁷ 'I'th Annerch Owain', *Y Geninen*, Hydref 1915, 255.

⁷⁹⁸ 'I'th Annerch Owain', *Y Geninen*, Hydref 1915, 255.

⁷⁹⁹ 'Byddin Y Tywysog', *Y Geninen*, Hydref 1915, 269.

Sylwer ar y ddelfrydiaeth ddi-dor o arwriaeth Gymreig wrth i leisiau Cymry'r gorffennol yn y beddau alw ar 'dewrion' Cymry cyfoes i arfogi am y rhyfel presennol, lle gellid gwireddu 'Gymru rydd!'.

Yn ychwanegol i Glyndŵr a Llywelyn, ymddangosodd cymeriadau hynafol a chwedlonol Caradog a'r Brenin Arthur. Cyfansoddwyd 'Caradog' gan Tudno wrth iddo amlygu'r ysbryd rhyfelgar hynafol fel rhinwedd y genedl Gymreig. Dangoswyd hyn yn ei linellau:

Ac y mae'r gwaed Cymreig oedd
Yn fyw ddawn dy fyddinoedd,
Eto yn brwd danio bron
Hyawdl, hyf, dy olafion.⁸⁰⁰

Daw i'r amlwg yng ngherdd Tudno nid yn unig y filwriaeth Gymreig, ond yr ymgais i gysylltu gydag amser hynafol a phrofi hunaniaeth fythol y Cymry. Tebyg oedd y gerdd 'Ysbryd Arthur', lle awgrymodd 'Emyr' mewn dwy linell nerthol fod yr ysbryd cenedlaetholgar Cymreig Arthuraidd wedi bodoli erioed, gyda'r Cymry yn rhyfelwyr parod. Digon rhwydd oedd hi hefyd i ddeffro'r ysbryd milwrol Cymreig unwaith eto. Meddai 'Emyr':

Gorffwysa pob milwr a'i gledd ar ei glun
Ond ysbryd Arthur sydd ar ddihun.⁸⁰¹

Roedd hon yn ddelwedd debyg i'r un a gafwyd yn 'Rhyfelgan', gan 'Anellydd' lle nodwyd hefyd y 'cledd ar ei glun', gan ddynodi parodrwydd ymladdgar y Cymry. Yn ogystal, soniwyd am gyfiawnder Arthur gan glymu un o ddelfrydau'r rhyfel i un o gymeriadau chwedlonol ac arwrol y genedl Gymreig a Phrydain hynafol, ac awgrymu fod rhyfeloedd y Cymry yn rhai cyfiawn. Disgrifiodd un pennill yr ysbrydoliaeth a gynigiai Arthur i ryfelwyr Cymru:

Mae e'n ddylanwad ar faes y gwir,
Mewn diwygiadau yn ennill tir.
Mae'n arwain Cymru, yn hwylio'i cham
I fuddugoliaeth, a'i gledd yn fflam.⁸⁰²

Yn *Ceninen Gwyl Dewi* 1918 cafwyd awdl i Arthur gan Pedr Hir, gyda chwe phennill yn delweddu Arthur yn arwain Cymru yn y rhyfel presennol. Yn y pedwerydd pennill, amlygwyd y ddelfrydiaeth Gymreig o chwedlau'r gorffennol fel ysbrydoliaeth i'r dyfodol, ac i 'Gymru newydd':

Dyfod, dyfod y mae Arthur,

⁸⁰⁰ 'Caradog', *Y Geninen*, Ionawr 1915, 40.

⁸⁰¹ 'Ysbryd Arthur', *Y Geninen*, Gorffennaf 1915, 187.

⁸⁰² 'Ysbryd Arthur', *Y Geninen*, Gorffennaf 1915, 187.

Dyfod yn ei rym i'r antur:
Gyr o'i flaen, ar losg adenydd,
I hen Gymru, fywyd newydd.⁸⁰³

Ond o bosib, un o'r cerddi mwyaf trawiadol yn ei chyfeiriadaeth Arthuraidd oedd 'Arthur Gyda Ni', gan Elfed, gweinidog, emynydd, a bardd.⁸⁰⁴ Yma, gwelwyd argyhoeddiad clir o gyfiawnder y rhyfel wrth iddo gymathu cymeriad chwedlonol Arthur gyda moesau'r rhyfel. Roedd cerdd Elfed hefyd yn fynegiant neilltuol o genedlaetholgar a hawliai berchnogaeth Gymreig dros Arthur. Ys dywed y pennill cyntaf o dri:

Mae Arthur Fawr yn cysgu,
A'i ddewrion sydd o'i ddeutu
A'u gafael ar y cledd:
Pan ddaw yn ddydd yng Nghymru,
Daw Arthur Fawr i fynnu
Yn fyw – yn fyw o'i fedd!⁸⁰⁵

Gyda'i gilydd, gellid ystyried ffigurau Arthur, Llywelyn, ac Owain Glyndŵr fel hanfodion cyson ym marddoniaeth Gymreig y rhyfel. Nid yn unig yr oeddent yn ysbrydoliaeth i ryfelgarwch Cymreig, ond defnyddiwyd nhw mewn mynegiadau o wladgarwch Cymreig a bwysleisiai gyfiawnder eu hachos.

Y Milwr Cymreig

Yn gyd-destun i'r gyfeiriadaeth hanesyddol at Glyndŵr, Llywelyn, ac Arthur roedd delwedd fythol y milwr Cymreig, delwedd a godai eto yn y presennol. Yn aml, paentiwyd ef yn arwr gwladgarol yn brwydro dros achos cyfiawn, gan gyflwyno delfrydau'r rhyfel fel rhai gwerthfawr a gwrol. Dangosodd Robert David Rowland ('Anthropos') yr emosiwn rhyfelgar o 'fuddugolieth neu farwolaeth' a fodolai mewn sawl cerdd rhyfel Cymreig. Darllener yr ail bennill (allan o ddau):

Mae ysbryd yr hen Gymry fu
Yn chwyddo dan fy mron;
Mae gorsedd rhyddid Gwalia gu
Yn crynu'r fynud hon:
Ond tra gall Cymro chwifio cledd
Ein rhyddid fynnwn ni;

⁸⁰³ 'Arthur', *Ceninen Gwyl Dewi*, Mawrth 1918, 53.

⁸⁰⁴ Howell Elvet Lewis. Gweler Y Bywgraffiadur Cymreig. <<http://yba.llgc.org.uk/en/s2-LEWI-ELV-1860.html>> [cyrchwyd 15.11.17].

⁸⁰⁵ 'Arthur Gyda Ni', *Y Geninen*, Ionawr 1918, 42.

A thra bo'r Wyddfa ar ei sedd, –
Ond clywch y rhyfelgri! –
O! rhowch i mi fy ngloew gledd, –
Yn iach i dŷ fy nhad:
I fuddugoliaeth neu i fedd
Rwy'n myn'd – yn myn'd i'r gad!⁸⁰⁶

Dangosodd Rowland deimladau barddoniaeth Gymreig y rhyfel. Cyfeiriodd at 'ysbryd yr hen Gymry' fel y gwnaeth cynifer gyda Llywelyn ac Owain Glyndŵr. Cysylltwyd Cymru ('Gwalia') gyda'r ddelfryd o ryddid drwy nodi fod y wlad o dan fygythiad, a defnyddiwyd arf anrhydeddus ganoloesol y cleddyf yn hytrach na drylliau modern, mecanyddol i ddynodi anrhydedd y Cymry. Gorffennodd ei gerdd gyda galwad i'r gad, gan dystio fod tynged y wlad yn y fantol gyda'r llinell, 'I fuddugoliaeth neu i fedd'. Tebyg oedd cyfansoddiad 'Saf i Fyny Dros Dy Wlad' gan 'Dyfed', galwad Cymreig i faes y gad. Wrth alw am arwriaeth filwrol yn y rhyfel presennol, nododd ef ffigurau Glyndŵr, Llywelyn, ac Arthur fel ysbrydoliaeth genedlaetholgar. Mewn dau bennill, cysylltodd 'Dyfed' genedlaetholdeb Cymreig gyda delfrydau'r rhyfel o ryddid a hawliau cenedloedd bychain, gan lunio'r teimlad mai gweithred gyfiawn oedd hi i Gymry ymladd y rhyfel. Darllener y pennill cyntaf:

Cofia Lyndwr a Llewelyn,
A marchogion Arthur fawr,
Ac yn wyneb sarrug elyn,
Rho dy droed yn drwm i lawr:
Tra bo hawliau mewn cadwyni,
Ac yn wylo am ryddhad,
Plana'th fenyr ar glogwyni,
Saf i fyny dros dy wlad.⁸⁰⁷

Nododd Dyfed 'hawliau' fel y delfryd i'w 'rhyddhau' o orthrwm y gelyn. Ond deuai'r cymhelliant i ymladd o hanes y genedl Gymreig, gyda Glyndŵr, Llywelyn, ac Arthur yn ysbrydoliaeth i'r Cymry. Dyma a wnaeth 'Dau Gyfaill' a adroddodd stori 'John', a chyngor ei fam iddo cyn dod yn filwr. Mewn cerdd pedwar pennill, gosodwyd Owain Glyndŵr yn ffigur i John geisio'i efelychu ac i ennill anrhydedd i'w wlad:

“Os milwr ei, fy anwyl John,
Gwn cofi eiriau'th fam: –
Boed ysbryd dewr ein Glyndwr, John,
I'th arwain di bob cam:
Rhaid enill 'nol i Gymru, John,
Ei holl iawnderau hi;

⁸⁰⁶ 'Can Y Milwr', *Y Geninen*, Hydref 1917, 265.

⁸⁰⁷ 'Saf i Fyny Dros Dy Wlad', *Y Geninen*, Ionawr 1916, 139.

A gweddi'th fam a'th ddilyn, John,
P'le bynag yr ei di.”⁸⁰⁸

Tebyg oedd cerdd J. Osgar Phillips, ‘Y Milwr Cymreig’, cyfansoddiad buddugol Eisteddfod Cerrigydrudion, 1916. Mewn chwe phennill, disgrifiodd Phillips rai o rinweddau'r rhyfelwr Cymreig. Fel sawl molawd arall, priodolwyd cyfiawnder i'r Cymro. Nodwyd yn y pennill cyntaf:

Fel Cymro dewr a di-ofn
Mae'n mynd o aelwyd glyd
I sefyll dros gyfiawnder
Yn mhedwar cwr y byd.⁸⁰⁹

Felly hefyd ei deyrngarwch i Gymru: ‘Gwell ganddo roi ei fywyd / Na cholli Cymru fad’. Ond gan ddangos tuedd nodweddiadol o gerddi'r rhyfel, tynnodd Phillips ar ddelweddaeth ganoloesol i gyfleu natur ddi-dor yr arwriaeth filwrol Gymreig:

Wyneba bob peryglon
Er mwyn amddiffyn hon;
Nid ofna gledd y gelyn
Na phrysur frad y don.
Mae ysbryd glew Llywelyn
A Glyndwr yn ei waed,
Yn tystio y myn ormes
Am byth o dan ei draed.⁸¹⁰

Mynegiant o gysondeb ddi-dor arwriaeth Gymreig a welwyd hefyd gan Elfed yn ei awdl, ‘Gwladgarwch’. Dangosodd elfen o alaru am Gymru'r gorffennol, ond pwysleisiwyd mai dyma ran o gryfder cenedlaetholdeb Cymreig, gyda'r llinell, ‘Yn ein cof yw ein cyfoeth’ yn dyst i'w argyhoeddiad. Yn ogystal, gwelir cyfeiriad at ymosodiad arwrol y *Light Brigade* yn ystod Rhyfel y Crimea, wrth nodi'r ‘Chwe Chant’⁸¹¹:

Rhyw Farathon â beddau dryfrithir, –
O wylo yno cenedl ail-enir.
Y gwron a gerir – gan oesau gant;
Yn hwyr, ei foliant a'i lawryf welir.

Teyrnas a wêl ei helw
Trwy li o waed Waterloo;
Ac o ymdrech rhyw “Chwe’ Chant”

⁸⁰⁸ “‘Mi Hoffet Fyn'd yn Filwr, John’”, *Y Geninen*, Gorffennaf 1915, 156.

⁸⁰⁹ ‘Y Milwr Cymreig’, *Y Geninen Eisteddfodol*, Awst 1917, 11.

⁸¹⁰ ‘Y Milwr Cymreig’, *Y Geninen Eisteddfodol*, Awst 1917, 11.

⁸¹¹ Gweler cerdd 1854 Alfred, Arglwydd Tennyson, ‘The Charge of the Light Brigade’, a'r llinellau: ‘Into the valley of Death / Rode the six hundred.’

Egina byth ogoniant.

Ar liniau'r Angau dringent, – a'u hanes
Ar ei fynwes a ysgrifennent
O drallod y Gododdin – un borau, –
O! dduon oriau gafodd Aneurin!
Ond o'r adfyd cyfyd cân
Loyw, i gof cenedl gyfan:
A holl alar Llywelyn,
A'i unig loes yn y glyn,
Yn ein cof yw ein cyfoeth; – er marw,
Oddeutu'r enw goleuodd trannoeth:
Yn ei loes mae'n annwyl in', –
I'w hen fryniau mae'n frenin.⁸¹²

Bu rhai cerddi yn fwy amlwg fel mynegiant o ganu mawl i'r milwr Cymreig. Mewn enghraifft ddiamwys, dangosodd cyn-olygydd *Y Frythones*, Sarah Jane Rees ('Cranogwen') ddelfrydau gwrol y milwr Cymreig ym mis Ionawr 1915:

Ar ran eu gwlad, a thros ei hannibyniaeth
Yn gwrol ymladd hyd yn safn marwolaeth!

Pwysleisiwyd hefyd barodrzydd aberth y milwr dros ddelfrydau uwch:

A welaist ti eu Brython waed yn llyfo
Ar allor rhyddid, oesoedd aethant heibio;
A'th ddewraf feibion, lawer iawn, yn trengu
Yn llawen er dy fwyn – yn lle dy wadu?
Ah! dewrion oeddynt hwy, dy feibion hynaf,
Gwladgarol iawn, ffyddloniaid o'r ffyddlonaf
Ar ran eu wlad, a thros ei hannibyniaeth
Yn gwrol ymladd hyd yn safn marwolaeth!

Gorffennwyd y gerdd drwy bwysleisio'r angerdd gwladgarol:

Mae'r Cymry dewr yn para yn wladgarol –
Y Cymro byth yn meddu calon wrol.⁸¹³

Roedd y 'dewr' a'r 'gwladgarol' yn rhinweddau canolog delfryd gwrywdod y cyfnod, a rhaid ystyried y cerddi rhyfel Cymreig yn gynhyrchion diwylliant cyfoes lle'r oedd canfyddiadau penodol yn bodoli ynghylch gwrywdod. Yn sicr, gellid ystyried cerdd Cranogwen yn enghraifft o'r canfyddiad a fodolai ynghylch rhinweddau'r milwr Cymreig fel un gwrol, gwladgarol, a ffyddlon dros achos cyfiawn.

⁸¹² 'Gwladgarwch', *Y Geninen*, Ebrill 1918, 160.

⁸¹³ 'Gwladgarwch y Cymry', *Y Geninen*, Ionawr 1915, 67.

Tra ceisiodd Rowland gorddi milwriaeth Gymreig, dangosodd eraill rinweddau molawd i'w cerddi nhw. Dyma a wnaeth Elfed yn 1915, gyda phwyslais unwaith eto ar ddelfryd rhyddid, a'i chysylltu hi â'r hunaniaeth Gymreig. Dywed ei ail bennill:

Cofiodd hen ryfeloedd gynt, –
 Gyda'r hwyr yn nhwrf y gwynt
 Clywodd ei gyndadau ar eu ffordd i'r gâd;
 Clywodd riddfan Rhyddid pur
 Yn ei dagrau, yn ei chur;
 Clywodd Cymru – ac atebodd ysbryd gwlad.⁸¹⁴

Yn gyffredin ymysg y cerddi a'r rhyfelganeuon oedd presenoldeb arfau rhyfel megis, cleddyf, llong danfor, tanciau, ac awyr longau.⁸¹⁵ Rhoddwyd nifer o'r rhain fel teitlau cerddi, ynghyd â theitlau mwy amlwg eu nawws rhyfelgar megis 'milwr' a 'rhyfel'. Dengys y tabl isod nifer y cerddi a gyhoeddwyd yn *Y Geninen* yn dwyn thema rhyfel fel teitl, yn ystod 1914–1918.

Tabl 4.1: Nifer y cerddi yn *Y Geninen* rhwng Hydref 1914 – Tachwedd 1918 a ddefnyddiodd thema rhyfel yn eu teitl.

Geiriau a ymddangosodd yn y teitl	1914	1915	1916	1917	1918	Cyfanswm
Milwr / March	4	8	9	12	11	44
Rhyfel	0	8	7	6	5	26
Suddlong / Tanforlyn / <i>Submarine</i>	0	3	2	5	3	13
Awyrlong / Llong Awyr / Zeplin / Seppelin / <i>Aeroplane</i>	1	3	4	4	0	12
Heddwch	1	4	0	3	4	12
Cleddyf / Cledd / Bidog	0	3	2	3	1	9
Y Fagnel / Dryll	1	0	3	1	2	7

⁸¹⁴ 'Yng Ngwyl Cymru, Gyda'i Phrif Gymro', *Y Geninen*, Hydref 1915, 243.

⁸¹⁵ Dengys y defnydd o 'cleddyf' boblogrwydd y thema ganoloesol wrth gyflwyno'r rhyfel.

Tanbelen / <i>Shell</i> / Torpedo	0	2	2	1	1	6
Tank	0	0	0	2	3	5

Yn ogystal â'r themâu uchod, gwelwyd hefyd y teitlau 'Maes y Gad', 'Cân y Gwaed', 'Gwaewffon', 'Recruit', 'Sniper', 'War Bonus', 'Yr Arwr', a 'Cadfridog' yn *Y Geninen*. Roedd eraill heb deitlau, neu â theitlau amwys ond eto'n cyfeirio at y rhyfel mewn rhyw fodd. Tra bod themâu'r cerddi yn awgrymu gwedd ryfelgar gyson i farddoniaeth Gymreig ym mlynnyddoedd y rhyfel, dengys poblogrwydd 'milwr' yn nheitlau cerddi Cymru o gymharu â themâu rhyfel eraill y pwysigrwydd a roddwyd i arwriaeth y milwr Cymreig. Roedd y rhan fwyaf o'r cerddi a ddefnyddiodd y gair 'milwr' yn eu teitl wedi eu henwi 'Y Milwr', gan ddangos sut hoeliwyd dychymyg sawl un ynghylch arwriaeth a gwroldeb y milwr Cymreig. Gwelir o'r tabl isod amllder y cerddi rhyfel fel canran cyfanswm y cerddi a gyhoeddwyd yn *Y Geninen* fesul blwyddyn.

Tabl 4.2: Nifer y cerddi rhyfel fel canran o gerddi *Y Geninen* rhwng 1914–1918.⁸¹⁶

Blwyddyn	Nifer y cerddi a ddefnyddiodd themâu rhyfel yn eu teitlau	Nifer o gerddi a gyhoeddwyd yn <i>Y Geninen</i> y flwyddyn honno	Nifer y cerddi a ddefnyddiodd themâu rhyfel yn eu teitlau fel canran o holl gerddi'r <i>Geninen</i> y flwyddyn honno
1914 (rhifyn Hydref yn unig)	7	60	11.67%
1915	31	445	6.9%
1916	29	515	5.6%
1917	37	453	8.2%
1918	30	331	9.1%

Yn aml, yr hyn a amlygwyd yn y farddoniaeth oedd natur ddeublyg cenedlaetholdeb Cymreig, a alwodd ar ysbryd milwrol y Cymry er mwyn amddiffyn 'Cymru fach', 'Cymru wen', 'Gwalia

⁸¹⁶ Mae 1914 yn cynnwys rhifyn mis Hydref yn unig. Mae blynnyddoedd 1915, 1916, ac 1917 yn cynnwys *Y Geninen Eisteddfodol*. Ni chynhwysir *Ceninen Gwyl Dewi* mewn unrhyw flwyddyn.

Wen', neu 'Gwalia Deg'.⁸¹⁷ Sylwer ar 'Rhyfelgan' gan y llenor a'r gweinidog, Peter Williams ('Pedr Hir') fel enghraifft o hyn, gyda'r ail bennill yn esiampl:

'Mlaen, ym mlaen yn wrol, fechgyn, –
Duw a ddyco'r gwaith i ben;
Mentrwn ein bywydau'n llawen, –
Dylem 'ddiffyn Cymru wen.⁸¹⁸

Mewn enghreifftiau eraill, cyfeiriodd Elfed at 'Cymru lân' a 'Cymru wen' gan bwysleisio gwedd gyfiawn a duwiolfrydig Cymru, tra crynhôdd y gweinidog Annibynnol, Ben Davies, y canfyddiad hwn yn ei gerdd 'Gwalia Wen'. Ystyriwyd Davies fel un o'r 'Beirdd Newydd' cyfnod 1890–96, wedi iddo ennill gwobrau yr Eisteddfod Genedlaethol.⁸¹⁹ Mewn cerdd a dalai deyrnged i egwyddorion ei wlad, gorffennodd ei gerdd pedwar pennill yn ddiysgog ei ffydd:

Mae duon gymylau yn llanw'r nen,
Ond aros mae Gwalia yn Walia wen.⁸²⁰

Profodd 'Cymru wen' yn ddelwedd gyson a atodwyd i'r un o arwriaeth filwrol Gymreig. Cyfosodwyd hi â'r milwr dewr fel delfryd led sanctaidd a oedd yn werth unrhyw aberth. Ynghlwm â 'Chymru wen' roedd moesau, duwioldeb, a chyfiawnder, y rhinweddau cenedlaethol Gymreig a oedd i'w hymgorffori gan ei phobl a'i milwyr. Yn aml, delweddwyd y milwr Cymreig yn brwydro dros yr egwyddorion hyn, fel y gwnaeth Talhaiarn er enghraifft yn 'Galwad y Brenin', a bwysleisiodd mai 'Amddiffynwr Cymru rydd' oedd y milwr Cymreig.⁸²¹ Cyfrannodd cerddi o'r math hyn i'r canfyddiad fod y rhyfel yn peri bygythiad dirfodol i'r ffordd Gymreig o fyw.

Trawiadol hefyd oedd cerddi *Y Gymraes*. Fel cylchgrawn wedi ei anelu at fenywod, gwelir yn y cerddi'r berthynas rhwng y milwr Cymreig ar y ffrynt a'r fenyw Gymreig yn y cartref. Yn gyffredin roedd y mynegiant o golled a galaru ond dangoswyd mai milwr o egwyddor oedd y milwr Cymreig. Gwelwyd dwy enghraifft o hyn yn rhifyn Rhagfyr 1914, gyda'r gerdd ddi-awdur, o bosib gan y golygydd Alice Gray Jones, 'Mae Cymru'n gollwng Blodyn er eu Bedd' hefyd yn nodi rhinweddau'r milwr o ddewrder a ffyddlondeb. Darllener y pennill cyntaf o ddau:

⁸¹⁷ Dengys 'Gwalia' ffafriaeth awduron i ddefnyddio'r enw canoloesol Lladinaidd ar gyfer Cymru.

Gwnaethpwyd yr enw hwn yn boblogaidd gan y bardd cheched ganrif, Taliesin yn ei gerdd, 'Yr Awdl Fraith' a ddisgrifiodd 'gwyllt Walia' yn gwrthryfela yn erbyn y Sacsoniaid.

⁸¹⁸ 'Rhyfelgan', *Y Geninen*, Gorffennaf 1915, 193.

⁸¹⁹ Bywgraffiad Ben Davies.

<<http://yba.llgc.org.uk/cy/c-DAVI-BEN-1864.html?query=ben+davies&field=name>> [cyrchwyd 15.12.17].

⁸²⁰ 'Yng Ngwyl Cymru, Gyda'i Phrif Gymro', *Y Geninen*, Hydref 1915, 243; 'Gwalia Wen', *Y Geninen*, Hydref 1917, 280.

⁸²¹ 'Galwad y Brenin', *Y Geninen*, Ebrill 1917, 118.

Gweddiau mamau tirion
Sy'n esgyn fry yn gyson,
O blaid eu bechgyn ffyddlon
Yn y gâd;
Nid marw mae y dewrion,
Ond hwy yw'r anfarwolion
Benodwyd yn angylion
Gwarcheidiol gwlad.⁸²²

Yng ngherdd chwe phennill Elizabeth Jane Davies-Rees a ysgrifennodd o dan y ffugenw 'Awen Mona' yn yr un rhifyn, soniwyd am ffarwelio â'r milwr, a'r gobaith y byddai'n dychwelyd yn ddiogel. Mae tinc o dristwch ym mhenillion tri a phedwar:

Clywais gorn y gâd yn galw,
Gwelais wraig a'i gwedd yn welw;
Gwelais un oedd gu i minnau
Yn fy ngadael dan ei arfau.

Gwyn ei byd y wraig hiraethus,
Cusan serch gâdd ar ei gwefus;
Balchder wnaeth i minnau guddio
Stâd fy nghalon wrth ffarwelio.

Yn y gerdd hon, daw trymder i'r amlwg wrth i'r milwr adael gyda'r wraig yn llawn gofid, er gwaetha'r 'balchder'. Gyda'r teitl 'Dros Ei Wlad', awgrymwyd cyfiawnder ynghylch y rhyfel, gan orfodi cyfrifoldebau ar bawb. Gorffenna'r gerdd mewn gobaith y gwarchodir y milwr gan Dduw, a rhinweddau'r milwr Cymreig gydag egwyddorion moesol:

Geidwad dyn rho'th aden drosto,
Dwg e'n ôl i Gymru eto;
Gad i'r weddi sy'n ei ddilyn
Sefyll rhyngddo ef a'r gelyn.⁸²³

Priodolwyd dewrder i'r milwr Cymreig yn aml yng ngherddi *Y Gymraes*. Yng ngherdd Myfanwy Meirion er enghraifft, pwysleisir hyn ar ddechrau'r pennill cyntaf o dri:

Ymladd mae ein dewrion ddyinion
Dros, dros ein gwlad,
Codwn lef o eigion calon
Fry at ein Tad;⁸²⁴

⁸²² 'Mae Cymru'n gollwng Blodyn ar eu Bedd', *Y Gymraes*, Rhagfyr 1914, 177.

⁸²³ 'Dros Ei Wlad', *Y Gymraes*, Rhagfyr 1914, 180.

⁸²⁴ 'Emyn yn Amser Rhyfel', *Y Gymraes*, Mawrth 1916, 39.

Yn ganolog i'r gerdd hon fodd bynnag roedd crefydd a chyfiawnder achos Cymru. Amlygwyd natur cysegredig y rhyfel drwy bwysleisio mai 'Duw sydd wrth law' dair gwaith yn y trydedd pennill:

Cofiwn yn y dyfroedd dyfnion,
Duw sydd wrth law,
Er rhuthriadau y gelynion,
Duw sydd wrth law,
Daw goleuni ar ddirgelion,
A melusir dyfroedd chwerwon,
Fe symudir trawster creulon,
Duw sydd wrth law.⁸²⁵

Colled oedd thema amlwg arall cerddi *Y Gymraes*. Ym mis Chwefror 1916, cyhoeddwyd cerdd 'C.P.' (Alice Gray Jones o dan ei ffugenw, 'Ceridwen Peris'), 'Y Milwr Na Ddaw Yn Ôl', yn sôn am gollu mab yn ymgyrch y Dardenelles.⁸²⁶ Galar yw prif emosiwn y gerdd, ond hefyd yr awgrym o ddewrder y milwr, drwy ei ddisgrifio'n gwisgo 'Coron y Bywyd':

Do, gwelais fy machgen, fy unig hoff blentyn,
Yn marw yn ieuanc a glandeg ei rudd:
A channoedd fel yntau a gladdwyd mewn dyffryn,
A chwrlid mwyn drosto o Lygaid y Dydd.
Ond – gwelais ef wed'yn, yn rhodio mewn Gwynfyd
(O peidiwch a thybied fy ngeiriau yn ffôl) –
'Roedd wedi ei wisgo a Choron y Bywyd!
A dyna y milwr na ddaw byth yn ôl.⁸²⁷

Mewn enghraifft arall, mis Tachwedd 1916, cyhoeddwyd y gerdd di-awdur, 'Rhywle'n Ffrainc mae Ef yn Huno'. 'Fy annwyl Tom' yw'r milwr ond nid yw'n glir os gwraig, cariad, neu fam sy'n ei hysgrifennu, er iddo gael ei ddisgrifio fel 'mab'. Yn hytrach na nodi dewrder 'Tom', daw naws bersonol iawn i'r amlwg, wrth i'r awdur ddisgrifio rhai o nodweddion ei gymeriad:

Rhywle'n Ffrainc mae ef yn huno
Wedi'r frwydr drom;
Harddach mab ni chwypodd yno
Na fy annwyl Tom;
Tal, a chydnerth, syth a heinyf –
Calon bur, a glân, –
O'r adgofion byw sydd gennyf
Am ei wên, a'i gân.

Llygaid glas yn llawn direidi,

⁸²⁵ 'Emyn yn Amser Rhyfel', *Y Gymraes*, Mawrth 1916, 39.

⁸²⁶ Nid yw'n glir os mai profiad go iawn Alice Gray Jones oedd hyn ai peidio.

⁸²⁷ Cyfeiria 'Lygaid y Dydd' at Ddyffryn Llygad y Dydd (*Daisy Valley*), lle claddwyd cannoedd o filwyr Prydeinig ar ôl ymgyrch y Dardenelles. 'Y Milwr Na Ddaw Yn Ôl', *Y Gymraes*, Chwefror 1916, 28.

Llaw yn gwasgu'n llon –
Caredigrwydd a thosturi
Lifai'n glir o'i fron:
Parodd oedd i arbed eraill,
Llwyr anghofia'i hun:
Naddo - ni anadlodd cyfaill
Burach serch i'w fun.

Rhywle'n Ffrainc mae ef yn gorwedd –
O fy Tom! fy Tom!
Tybed nad yw yn anwiredd?
Oes i mi'r fath siom!
Rhywle'n Ffrainc yr wyt yn huno,
Nage'n wir i ti –
Yn fy nghalon wyt ti heno,
Byw wyt byth i mi.⁸²⁸

Gwelir o'r gerdd hon yr ymgais i roi cymeriad a phersonoliaeth i filwr Cymreig, gan anwybyddu unrhyw ddelfrydau o genedlaetholdeb, neu ddewrder. Yn hytrach, cariad yw'r emosiwn a ddaw i'r amlwg, ynghyd â galar. Gyda'r linell gyntaf 'Rhywle'n Ffrainc mae ef yn huno', llwydda'r gerdd hon hefyd i ennyn cymhariaeth gyda soned gofiadwy Rupert Brooke, 'The Soldier', a'r llinellau agoriadol enwog:

If I should die, think only this of me:
That there's some corner of a foreign field
That is forever England.

Ar y cyfan, daeth cerddi'r *Gymraes* i gofleidio'r milwr Cymreig mewn perthynas emosiynol rhwng mamau a gwagedd, a'r milwr a oedd naill ai'n ffarwelio, neu yn ymladd ar faes y gad tramor. Cyfrannodd cerddi'r *Gymraes* hefyd at y filwriaeth Gymreig, wrth i 'Meirionwen' ac 'Ednant' ddewis Arthur a Llywelyn fel enwau'r milwyr ar gyfer eu cerddi nhw.⁸²⁹ Naratif amwys oedd i'r cerddi hyn gan gyfleu ystyr ddeuol o feibion yn ymladd dramor, yn ogystal â chorddi'r chwedloniaeth Gymreig gyda'u dewis bwriadol o enwau. Ar y llaw arall, roedd Alice Gray Jones yn fwy uniongyrchol yn ei chyfeiriadaeth Arthuraidd. Mynegodd ei rhyfelgarwch Gymreig ym 'Molawd Meibion Gwalia':

Ysbryd y creigiau, goncra elyn cryf;
Ysbryd y mynydd, hwn sydd hyf –
Pwy oedd yn Belgium, ac yn Ffrainc heb fraw,
Llanwent y *trenches* ar bob llaw?

⁸²⁸ 'Rywle'n Ffrainc mae Ef yn Huno', *Y Gymraes*, Tachwedd 1916, 163.

⁸²⁹ 'Amddiffyn Ef a Chadw'n Gwlad', *Y Gymraes*, Gorffennaf 1915, 110; 'Arthur Wyn', *Y Gymraes*, Awst 1915, 123.

Bechgyn Gwalia, meibion Arthur gawr,
Mynd y maent i ennill y rhyfel fawr!
Bechgyn Gwalia – *Royal Welsh* i gyd,
Dewrion fechgyn Gwalia sy'n synu'r byd!⁸³⁰

Serch hyn, mynegwyd y teimlad o golled neu wahanu yn gyson yng ngherddi'r *Gymraes*, ond eto fe gynhaliwyd y ddelwedd o'r milwr Cymreig egwyddorol a dewr, boed iddo fod ymhlyg yn y testun neu yn fwy trawiadol ac amlwg.

Dyheu am Arwyr

Os gwnaed defnydd helaeth o ffigurau arwrol Cymreig y gorffennol, sylwer hefyd ar chwant elfennau'r Wasg i ddarganfod ffigurwr arwrol Cymreig cyfredol. Gwelir er enghraifft poblogrwydd y Brigadydd Owen Thomas, a chwaraeodd ran bwysig yn yr ymgyrch recriwtio yng ngogledd Cymru. Fel noda Gerwyn Wiliams, 'gallai ei bersonoliaeth dawelu amheuan Anghydfurfwyr Cymraeg ynghylch unrhyw anghysondeb rhwng eu crefydd a militariaeth.'⁸³¹ Yn un a wasanaethodd yn Rhyfel y Böer, tybir i Thomas fynychu dros 150 o gyfarfodydd recriwtio yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, er iddo gollu ei swydd ym mis Mai 1916.⁸³² Disgrifiwyd ef fel 'Wellington y Fyddin Gymreig' yn y *North Wales Chronicle*.⁸³³ Ymddengys y parchwyd Thomas yn uchel gan ei gyfoedion, a gwelwyd cerddi iddo hyd yn oed, megis cyfansoddiad cyd-fuddugol Eisteddfod Llandudno gan Alun Mabon Jones yn *Y Geninen Eisteddfodol*, 1915⁸³⁴:

Gŵr hoenus, hawddgar hynod, – yw y da
Frigadier hyglod, –
Gŵr pur, â geiriau parod; –
Mal ei gledd ymloewa'i glod.⁸³⁵

Teyrnged i gymeriad Thomas oedd y gerdd yn fwy nag unrhyw beth arall, fel gŵr o egwyddor ac adlewyrchiad o Gymru 'lân'.

Roedd y milwr Cymreig yn symbol o'r ysfa am greu delwedd hyderus, falch, a rhyfelgar o Gymru. Roedd dyheu am arwyr cyfoes yn y rhyfel presennol, a'u gosod naill ochr â ffigurau

⁸³⁰ 'Molawd Meibion Gwalia', *Y Gymraes*, Tachwedd 1915, 164.

⁸³¹ Wiliams, *Y Rhwyg*, t.173.

⁸³² Barlow, *Wales and the First World War*, t.49.

⁸³³ Jenkins, *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf*, t.42.

⁸³⁴ Disgrifiwyd Alun Mabon Jones fel 'bardd ieuanc talentog gwmpodd yn y Rhyfel', a chyfansoddwyd englyn iddo gan 'E' mewn rhifyn diweddarach: 'Mr Alun Mabon Jones, Tanygrisiau', *Y Geninen*, Hydref 1916, 232.

⁸³⁵ 'Y Brigadier-General Owen Thomas', *Y Geninen Eisteddfodol*, Awst 1915, 36.

Llywelyn a Glyndŵr a fyddai'n parhau nid yn unig â'r traddodiad milwrol Cymreig ond hefyd y llinyn moesol o gyfiawnder a oedd yn hanfod yr hunaniaeth Gymreig. Un a ddenai gryn sylw fel arwr Cymreig cyfoes oedd David Lloyd George, un a ddisgrifiwyd yn *Y Cymro* fel y 'gŵr sydd wedi ei anfon a'i godi i achub y wlad'.⁸³⁶ Dyma a ddelweddwyd gan weinidog gyda'r Wesleaid a chaplan milwyr Cymreig, y Parchedig Hugh Evans ('Cynfor') o Amlwch, gan ddatgan yn llawn balchder yn *Y Geninen* ym mis Ionawr 1916:

Dywedwyd gan rywun mai'r Gwyddel yw tafod Prydain, mai'r Ysgotyn yw llaw Prydain, mai'r Sais yw pen Prydain, ac mai'r Cymro yw calon Prydain. Wel, nid oes nemor o werth mewn na thafod na llaw na phen os na bydd calon iach hefyd gyda hwy. Ond y gwir yw, gall y Cymro fod yn bob un o'r pethau yna; ac os caiff gyfle, gall fod yn bob un o honynt nid yn unig ar wahân i'w gilydd, ond gyda'i gilydd hefyd. Collodd y Gwyddel ei dafod, collodd yr Ysgotyn ei law, a chollodd y Sais ei ben; a daeth Cymro o hyd iddynt, sef Lloyd George.⁸³⁷

Mewn disgrifiad arall ohono yn ei rôl fel Prif Weinidog, ysgrifennodd T. Bassett yn *Cymru* mai Lloyd George oedd, 'un o'r meibion anwylaf a mwyaf disglair yn cyfeirio meddwl a chalon ei gydwladwyr', gan roi 'arweiniad doeth a medrus i'r teyrnas oedd yn yr ysturm a'r ddrycin sy'n ysgubo dros y tir yn bresennol'.⁸³⁸ Ym mis Gorffennaf 1915 yn fuan wedi i Lloyd George gael ei benodi'n Weinidog Arfau, ymddangosodd llun ohono yn y *Welsh Outlook* wrth ochr y Parchedig John Williams Brynsiencyn a'r addysgwyr, Syr Henry Jones tu allan i rhif 10 Stryd Downing. Balchder Cymreigaidd y *Welsh Outlook* o dri Cymro dylanwadol y cyfnod a welir yn y llun hwn.

Ffigwr 4.4: Llun y *Welsh Outlook*, 'Three Welshmen at Downing Street'⁸³⁹



⁸³⁶ *Y Cymro*, 11 Awst 1915, 3.

⁸³⁷ 'Crefydd a'r Deffroad Cenedlaethol', *Y Geninen*, Ionawr 1916, 69-70.

⁸³⁸ 'Rhamant Gymreig Downing Street', *Cymru*, Hydref 1917, 109.

⁸³⁹ 'Three Welshmen at Downing Street', *Welsh Outlook*, Gorffennaf 1915.

Gwelwyd hefyd delwedd o Lloyd George yn gyson yng nghylchgrawn *Cymru* naill ochr i sylwadau golgyddol ‘Cronicl y Misoedd’ O. M. Edwards. Cynrychiolwyd ef, fel y gwelir yn Ffigwr 4.5, fel ceidwad muriau’r wlad. Wedi ei wisgo mewn arfwisg marchog canoloesol, saf Lloyd George yn urddasol ar ben tŵr (o bosib, Castell Caernarfon), gan gadw golwg am y gelyn. Atseinia hyn hefyd y neges mai rhyfel amddiffynnol oedd hwn wrth i’r darlun awgrymu disgwyliad am ymosodiad. Unwaith eto, gweler y thema ganoloesol yr arfwisg yn cael ei gysoni gyda’r presennol, gan ffurfio delwedd arwrol o ffigwr cenedlaethol Cymreig.

Ffigwr 4.5: Delwedd Lloyd George yn *Cymru*.



Roedd David Lloyd George yn un a fodlonodd nifer fel arwr Cymreig cyfoes, a bu cerddi yn ffordd ddeniadol o’i foli. Roedd englyn Volander yn nodi’r grym cyfiawn a berthynai i Lloyd George:

Ei gleddyf mawr a gladda – yn y sawl
 Rydd sen i’w hoff Walia;
 A hen gampwyr a gwympa
 Yn ei ddig dros Gymru dda.⁸⁴⁰

Nid oedd y fath folawd i Lloyd George yn eithriadol. Gwelwyd sawl enghraifft, yn enwedig ar ôl ei benodiad i lyw’r llywodraeth. A bu cryn glod iddo hyd yn oed cyn ei ddyrchafu’n brif weinidog, fel y dangosodd cerdd H. O. Hughes, ‘Gweinidog Cyfarpar’, buddugol yn Eisteddfod Aberdâr 1915:

Ein Dafydd Llwyd Sior yw’r prif swyddog sy’n darpar
 Yr arfau er concro y Prwsiaid ymladdgar;

⁸⁴⁰ ‘Mr. Lloyd George’, *Y Geninen*, Hydref 1915, 277.

Crynhoa'r defnyddiau ar gyfer y rhyfel
Yn well na'r un Sais, nac Ysgotyn, na Gwyddel, –
Uch-ffrwydron, llosgbelau, bwledi, gyflawnder;
I Brydain a'i Cheraint i frwydro dros iawnder;
Bydd Kaiser ar lawr a'i wlad yn gelanedd,
A'r Cymro bach dewr mewn bri ac anrhydedd.⁸⁴¹

Trwythwyd y gerdd hon gan falchder Cymreig amlwg, gyda Lloyd George (y 'Cymro bach dewr') yn gyfrifol am 'concro y Prwsiaid ymladdgar'. Nodir hefyd y gymhariaeth gyda Sais, Albanwr, a Gwyddel, gan ddangos y balchder a fodolai dros Gymreictod Lloyd George. Gwelwyd broliant o'i Gymreictod hefyd gan Thomas Mathonwy Davies ('Mafonwy') yn ei gerdd, 'Y Prif Weinidog'. Cymerodd ei drydydd pennill y 'Cymro bach' a nodwyd gan H. O. Hughes, a'i osod yn un o fawrion y byd:

Pwy fel fo fu'n concro cyd? – Gŵr y "Tŷ",
Gŵr y tân a'r bywyd,
Dewr unben y frwydr enbyd,
A Chymro bach mwya'r byd!⁸⁴²

Tebyg oedd teyrnged Cynfor mewn cerdd dau bennill a ddisgrifiodd Lloyd George fel 'Arwr y byd, – Cymro i'r bôn', un yn meddu ar 'gwayw ddu egwyddorion'.⁸⁴³ Ystyriwyd Lloyd George gyda balchder fel un o gewri gwleidyddol y byd. Soniodd Rhydfab am 'ei fawredd' gan gyfeirio at ei dalent areithio:

Môr o swyn mwya'r Senedd
Dyn i'n hoes yn dwyn ein hedd.⁸⁴⁴

Yng ngherdd Arthur Simon Thomas ('Anellydd'), disgrifiwyd ef fel 'Seren ein Gobaith, a'i chennad / I wledydd gwareiddiad cu', yn ogystal â 'Farchog arwriaeth cyfiawnder'.⁸⁴⁵ I 'Anellydd', ymgorfforai Lloyd George y delfrydau hynny a oedd ynghlwm ag ystyr y rhyfel gyda gwareiddiad a chyfiawnder yn ddiben i'w weithredoedd. Wedi ei chyfansoddi yn 1917, dengys y gerdd hefyd bresenoldeb 'gwareiddiad' yn iaith y rhyfel o hyd. Gyda'i gilydd, dengys cerddi mawl i David Lloyd George y dyheu am ffigwr arwrol Cymreig.

Enghraifft arall i'w hystyried wrth grybwyll yr awch am arwriaeth Gymreig oedd y bardd, Hedd Wyn, yn dilyn newyddion o'i farwolaeth yn nhrydedd frwydr Ypres yn 1917.⁸⁴⁶ Yn fuan

⁸⁴¹ 'Gweinidog Cyfarpar', *Y Geninen Eisteddfodol*, Awst 1917, 47.

⁸⁴² 'Y Prif Weinidog', *Y Geninen*, Ionawr 1917, 18.

⁸⁴³ 'Y Prif Weinidog', *Y Geninen*, Ionawr 1917, 39.

⁸⁴⁴ 'Y Gwir Anrhydeddus D. Lloyd George', *Y Geninen*, Hydref 1918, 223.

⁸⁴⁵ 'Y Gwir Anrhyd. Brif Weinidog D. Lloyd George', *Y Geninen*, Ionawr 1917, 35.

⁸⁴⁶ Awgryma Alan Llwyd a Gerwyn Wiliams fod seremoni'r Gadair wedi ei drefnu gan aelodau'r sefydliad Cymreig i'w dibenion eu hunain, er mwyn annog cefnogaeth i'r rhyfel. Wiliams, *Y Rhwyg*, t.151.

ar ôl ei farwolaeth, ymddangosodd llun ohono yn y *Welsh Outlook*. Gan amlaf, roedd lluniau'r *Welsh Outlook* yn rhai o wleidyddion, athronyddion, artistiaid, ac enwogion. Dengys y llun hwn ddyrchafiad Hedd Wyn o fugail i fardd cenedlaethol fel testun balchder a thristwch.

Ffigwr 4.6: Llun y *Welsh Outlook*, 'Hedd Wyn – Bardd y Gadair Ddu'⁸⁴⁷



Hawliodd marwolaeth Hedd Wyn gryn sylw yn nhestunau'r Wasg Gymreig gydag englynion Dewi Emrys, J. Ellis Williams, a 'Cynfor' yn *Y Geninen* fis Hydref 1917 yn enghreifftiau cyntaf o'r galaru amdano. Yn ei ddau englyn, dangosodd Ellis Williams ei ddieter tuag at y rhyfel 'anwar' am gymryd bywyd y bardd. Er nad atododd unrhyw dinc arwrol i gymeriad Hedd Wyn, gwelir yn sicr y tristwch am ei farwolaeth a dyrchafiad ei ffigwr i gynrychioli aberth y Cymry:

O ryfel anwar ofwy, – a dinistr
Yn donnog ryferthwy;
Wele dud, waedlyd adwy,
A thelyn Hedd Wyn, yn ddwy!

Rhy gynnar, i âr i orwedd, – cwypodd
Campwr pêr gynghanedd:
Ar dywyll gyrrau'r diwedd
Heddwch fo harddwch ei fedd.⁸⁴⁸

⁸⁴⁷ 'Hedd Wyn – Bardd y Gadair Ddu', *Welsh Outlook*, Rhagfyr 1917.

⁸⁴⁸ 'Y Gadair Ddu', *Y Geninen*, Hydref 1917, 279.

Yn y *Welsh Outlook* cyhoeddwyd ei farwolaeth gyda gwedd wladgarol a nodyn gwawdlyd am natur y rhyfel: ‘To the relentless Juggernaut, Hedd Wyn was only a number; to the Welsh Nation he will ever live as the “Hero” of the Black Chair of Birkenhead.’⁸⁴⁹ Sylw O. M. Edwards yn *Cymru* oedd: ‘Cadair Eisteddfod Birkenhead yn wag ac yn ei du, – Hedd Wyn wedi marw yn Ffrainc dros ei wlad.’⁸⁵⁰ Cyhoeddwyd yn y *Welsh Outlook* englynion coffa i Hedd Wyn gan R. Silyn Roberts, Eifion Wyn, ac R. Williams Parry. Cyfansoddodd Williams Parry ei englyn cyntaf gyda chywair galar yn amlwg:

Y bardd trwm dan bridd tramor, – y dwylaw
Nas didolir rhagor;
Y llygaid dwys dan ddwys ddôr,
Y llygaid nas gall agor!⁸⁵¹

Y golled genedlaethol enfawr oedd pwyslais R. Silyn Roberts hefyd. Dywed ei ail englyn:

A derw y ddôl yn gadair ddu, – trosti
Mantell tristwch Cymru!
Cenedl wâr yn galaru
Na bai coedd ei wyneb cu!⁸⁵²

Ym mis Tachwedd 1917 cyhoeddwyd cerdd goffa W. Garmon Jones, *The Dead Poet* yn y *Welsh Outlook*. Gorffennodd ei ddau bennill â naws llonydd, distaw, a’r teimlad o golled yn enbyd:

Yet in grief we do thee wrong;
The birds around thy solitude in song,
Thy Bardic Festival most glorious keep.⁸⁵³

Cafodd marwolaeth Hedd Wyn sylw yn y *Welsh Outlook* am fisoedd gyda phortread ohono yn ymddangos ym mis Rhagfyr 1917. Ar achlysur cenedlaethol Cymreig, soniodd John Owen Dyfnallt am golli Hedd Wyn yn y *Geninen Gŵyl Dewi* ym mis Mawrth 1918. Mentrodd gynnig fod marwolaeth Hedd Wyn wedi siglo’r genedl gyfan, gan ddweud: ‘ni thristaodd Cymru yn fwy er y dydd y galarodd Aneurin ar faes cad arall.’⁸⁵⁴

Heb os, awgrymodd sawl teyrnged i Hedd Wyn nid yn unig golli bardd ac unigolyn, ond hefyd aberth y genedl, gyda marwolaeth Hedd Wyn yn symbol o golled miloedd o Gymry.

⁸⁴⁹ ‘Notes of the Month’, *Welsh Outlook*, Hydref 1917, 331.

⁸⁵⁰ ‘Cronicl Y Misoedd’, *Cymru*, Hydref 1917, 135.

⁸⁵¹ ‘In Memoriam’, *Welsh Outlook*, Hydref 1917, 336.

⁸⁵² ‘In Memoriam’, *Welsh Outlook*, Hydref 1917, 336.

⁸⁵³ ‘The Dead Poet’, *Welsh Outlook*, Tachwedd 1917, 394.

⁸⁵⁴ ‘Hedd Wyn’, *Ceninen Gŵyl Dewi*, Mawrth 1918, 16.

Datblygodd trafodaeth ynghylch coffâd cyhoeddus i Hedd Wyn. Wrth ymateb i'r coffâd a'r awgrym o godi cerflun iddo yn Ffrainc, cefnogodd golygydd y *Welsh Outlook*, Edgar L. Chappell, y syniad gan ychwanegu: 'Hedd Wyn stood in the mind of his countrymen for something more glorious, enduring and characteristic of the life of Wales than any feat of arms.'⁸⁵⁵ Ystyriwyd Hedd Wyn yn 'arwr' gan Chappell, gyda'i edmygedd yn amlwg am rôl y bardd yn nhrydedd frwydr Ypres, neu yng ngeiriau Chappell: 'one of the most glorious episodes in the history of Welsh arms'.⁸⁵⁶ Cyfleuwyd teimpladau tebyg gan William Morris yn *Cymru* wrth iddo ystyried statws Hedd Wyn fel trysor cenedlaethol: 'A phe gwelsai ei wlad werth ei fywyd fel awenydd nid beddrod llaith y milwr a roddasai hi i drysori ei lwch.'⁸⁵⁷

Cyhoeddwyd sawl cerdd o fawl i Hedd Wyn yn *Y Geninen*, gyda chyfresi o englynion yn profi'n boblogaidd. Gwelwyd tair cerdd a'r teitl 'Hedd Wyn' yn rhifyn Ionawr 1918. Cyfeiriodd W. Huws at awdl fuddugol Hedd Wyn yn Eisteddfod Birkenhead 1917 gan droi'r testun, 'Yr Arwr', i gynrychioli Hedd Wyn ei hun:

O! Gymru, gwêl dy "Arwr" hyf;
Huned mewn *hedd* yn naear Ffraingc;
Ei ysbryd yn *Wyn* o'r aflwydd blin,
A'i Awen dery newydd gaingc.

"Y Gadair Ddu" – "Yr Arwr" aeth,
O sŵn y drin, i wlad yr *hedd*:
Ei orchest bery byth yn *Wyn*, –
Cadd "orsedd wen" heb dinc y cledd.⁸⁵⁸

Sylwer ar gyferbyniaeth Huws o'r 'hedd' a'r 'cledd', gan ddelweddu'r ddau gyflwr o ryfel a heddwch, a'r neges drasig am yr arwr Hedd Wyn yn cael ei ddal yn y brwydro. 'Hedd' oedd pwyslais Canwy yn ei gerdd ef, wrth iddo hawlio'r bardd yn eiddo i'r genedl:

Ein Hedd Wyn sydd heddyw'n wynnach
Yn haf y Nef o'i glwyfau'n iach;
A bydd Hedd mewn hedd o hyd,
Hedd heulfawr tragwyddolfyd.⁸⁵⁹

⁸⁵⁵ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Ionawr 1918, 6. Yn fuan, sefydlwyd Pwyllgor Cenedlaethol gyda'r dasg o godi cofeb i Hedd Wyn, gyda'r Uwchgaptan ac ariannydd y *Welsh Outlook*, David Davies AS yn cadeirio. 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Mawrth 1918, 75.

⁸⁵⁶ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Ionawr 1918, 6.

⁸⁵⁷ 'Hedd Wyn', *Cymru*, Ionawr 1918, 37.

⁸⁵⁸ 'Hedd Wyn', *Y Geninen*, Ionawr 1918, 19.

⁸⁵⁹ 'Hedd Wyn', *Y Geninen*, Ionawr 1918, 23.

Y dimensiwn tragwyddol hefyd oedd neges Dyffrynog, gyda'i englyn yn canmol Hedd Wyn fel bardd gorau Cymru:

Awen goeth o anian gu – feddai ef,
Ddihafal fardd Cymru;
A'i ysbryd yn fywyd fu
Yn ei odl yn anadlu.⁸⁶⁰

Tra yn *Ceninen Gŵyl Dewi*, mis Mawrth 1918, cyhoeddwyd cyfres o englynion gan J. D. James yn deyrnged i Hedd Wyn. Eto gwelir naws tragwyddol yn ei englynion wrth iddo son am 'ei flynyddoedd ef – mor wyn oedd!', 'ei dreftadaeth', ac 'ei enw fydd'. Ychwanegai at ddelweddaeth Hedd Wyn fel arwr Cymreig bythol. Gorffennodd y pumed englyn gyda'r cwpled:

Yn ei gwymp mor enwog aeth, –
E wiriodd arwriaeth.

Gorffennodd y chweched mewn modd tebyg, gan bwysleisio'r berthynas agos rhwng Hedd Wyn a'i gynefin:

Hoenaf fab! ei enw fydd
Tra saif enw Trawsfynydd.⁸⁶¹

Yn sicr, roedd balchder a thristwch ynghylch y testunau a driniau Hedd Wyn, a gellir sylwi ar ei gymeriad yn dyrchafu i statws cenedlaethol yn y Wasg, gan gynnig symbolaeth Gymreig i'r rhyfel fel un o arwriaeth a cholled.

Diwedd glo

Roedd y rhyfel yn sbardun i ymwybyddiaeth genedlaetholgar Gymreig. Gwelir nad undod Prydeinig, fel yr awgrymir gan rai haneswyr y rhyfel, yn unig oedd yn gyfrifol am ysgogi Cymru i'r ymdrech ryfel. Bu ymdrech i gyflwyno'r rhyfel fel rhyfel Cymreig. Daeth profiadau Gwlad Belg a Serbia, er enghraifft, yn ganolog i'r modd y cymathodd y Wasg Gymreig y delfryd o warchod hawliau cenedloedd bychain yn ei dehongliadau o'r rhyfel, gan gynnig drych gwleidyddol i sefyllfa Cymru. Disgrifiwyd Cymru yn aml fel gwlad bur, heddychol, driw i'w chred, gan awgrymu mai dyletswydd foesol a chyfiawn oedd hi i ymyrryd yn y rhyfel a

⁸⁶⁰ 'Hedd Wyn', *Y Geninen*, Ionawr 1918, 48.

⁸⁶¹ 'Hedd Wyn', *Ceninen Gwyl Dewi*, Mawrth 1918, 63.

gwarchod hawliau cenedloedd bychain. Drwy wneud hynny, uniaethwyd Cymru gydag achos ehangach y Cynghreiriaid.

Gwelwyd hefyd y dyheu am arwyr Cymreig i gynnig gobaith yn ystod amseroedd caled y rhyfel wrth i lenorion a beirdd gyfansoddi'n weithgar er mwyn annog ac adfywio'r traddodiad milwrol Cymreig. Tynnwyd ar ffigurau hanesyddol Arthur, Llywelyn ac Owain Glyndŵr i fagu ysbrydoliaeth i achos y rhyfel, gan ailgynnau'r fflam genedlaetholgar filwrol. Amlygwyd themâu hynafol a chanoloesol yn iaith y rhyfel a oedd yn neilltuol Gymreig o ran eu harddull farddonol a'u cynnwys cenedlaetholgar. Daeth delwedd benodol o'r milwr Cymreig i'r golwg hefyd, drwy ei gyfleu yn gyfiawn ac yn ddewr. Heb os, bu barddoniaeth ryfel a'r chwant am arwriaeth Gymreig yn enghreifftiau neilltuol o ddiwylliant rhyfel Cymru.

Pennod 5

Ymreolaeth

That Wales is now ripe for Home Rule cannot be gainsaid.⁸⁶²

Cyflwyniad

Wrth werthuso effeithiau hir dymor y Rhyfel Byd Cyntaf ar Brydain, noda David Reynolds: ‘general pride at Britain’s victory in the Great War coupled with numerous memorials to its human cost fostered a new acceptance of British identity.’⁸⁶³ Daw i’r casgliad hefyd na welwyd ymgyrchoedd gwleidyddol Cymreig, er gwaethaf sefydliad Plaid Cymru yn 1925, tan y 1960au:

Only from the late 1960s, when Germany was no longer a threat, did the English Other become a bogey again and Scottish and Welsh nationalism start to revive as serious political movement.⁸⁶⁴

Cytuna Reynolds i raddau gyda’r hanesydd Cymreig, K. O. Morgan, a ysgrifennodd: ‘The outbreak of the First World War in August 1914 dealt the final blow to the radical idealism which had sustained the Welsh national movement in its long struggle for recognition.’⁸⁶⁵ Dadleua Morgan fod y traddodiad radicalaidd wedi diflannu gyda’r rhyfel, serch i’r genedl gael ei sefydlu yn ddiwylliannol ymhell cyn 1914. Roedd gwleidyddiaeth genedlaetholgar a radicalaidd Gymreig i’w weld wedi ei diffodd gan y rhyfel.

Er hyn, awgrymir hefyd yn hanesyddiaeth y rhyfel fod safle Cymru yn cael ei ailystyried o ganlyniad i’r rhaglenni ail-lunio wedi’r rhyfel. Ysgrifenna John Davies am y sefyllfa yn 1918 mai, ‘eang oedd y gred y byddai *Home Rule all round* yn rhan anochel o’r drefn newydd wedi’r rhyfel.’⁸⁶⁶ Noda Gethin Matthews hefyd obeithion O. M. Edwards o sylweddoli byd gwell yn dilyn y rhyfel, gyda’i astudiaeth o gylchgrawn *Cymru* yn 1917 yn dangos argyhoeddiad Edwards, fel yr ysgrifennwyd ganddo, ‘am barhad bythol ysbryd Cymru’.⁸⁶⁷ Cenedlaetholwr

⁸⁶² ‘Notes of the Month’, *Welsh Outlook*, Mawrth 1918, 72.

⁸⁶³ Reynolds, *The Long Shadow*, t.402.

⁸⁶⁴ Reynolds, *The Long Shadow*, t.24.

⁸⁶⁵ Morgan, *Wales in British Politics*, t.274.

⁸⁶⁶ Davies, *Hanes Cymru*, t.502.

⁸⁶⁷ Matthews, “‘Un o flynyddoedd rhyfedd haf hanes’”, t.177.

diwylliannol yn sicr oedd Edwards, ond awgryma astudiaeth Matthews fod gweledigaeth Edwards ar gyfer Cymru'r dyfodol wedi cynnwys mwy na sefydlu'r werin Gymreig ac adfywio'r byd llenyddol. Gwerth ystyried yn ogystal bennod Huw Williams yn gwerthuso ymdrechion Aelod Seneddol Trefaldwyn, David Davies, i hybu gweledigaeth Cynghrair y Cenhedloedd yng Nghymru. Dengys Williams sut adlewyrchodd Davies dueddiadau ehangach rhyddfrydol ei oes, a hefyd dwf ei ymwybyddiaeth o ryngwladoldeb a'i gred mewn cyfundrefn fyd-eang ffederal.⁸⁶⁸ Gyda Lloyd George yn datgan ym mis Medi 1918 fod yr Ymerodraeth Brydeinig yn barod yn cynrychioli math o gynghrair y cenhedloedd, diddorol yw archwilio'r ymateb Cymreig i gynlluniau Cynghrair y Cenhedloedd ac i ffenomen ryngwladol y Rhyfel Mawr. Ymddengys fod rhagolygon trefn rhyngwladol newydd wedi cynhyrfu cenedlaetholdeb Cymreig o'r newydd. Mor gynnar â mis Medi 1914, yn ei araith yn Neuadd y Frenhines, Llundain, ystyriodd Lloyd George effaith y rhyfel ar genedlaetholdeb Gymreig:

Y mae yna fendith arall anrhaethol fwy dyrchafedig a pharhaol, ac sydd eisoes yn ymgodi allan o'r ornest ddirfawr hon – gwladgarwch newydd, – gyfoethocach, mwy urddasol, a mwy goruchel na'r hen.⁸⁶⁹

Fel noda Robin Barlow: 'Wales's participation [in the war] must be seen from the perspective of the nation's quest to establish its national identity with increased international engagement.'⁸⁷⁰ Dyma felly yw hanfod y bennod hon, yn ogystal ag archwilio'r modd y gosodwyd profiad Cymru gan ei deallusion o fewn cyd-destunau rhyngwladol a gwleidyddol.

Iwerddon, Rwsia, a'r Gynghrair: Gweledigaeth y Byd Newydd

Dengys y farddoniaeth ryfel Gymreig dwf balchder cenedlaethol ac ynghyd â sefyllfaoedd Gwlad Belg a Serbia, gellid dadlau fod y rhyfel wedi dylanwadu ar y garfan ddeallusol i fynegi safbwyntiau gwladgarol Cymreig. Ond yn ychwanegol i'r rhain roedd digwyddiadau yn Iwerddon a Rwsia a gododd cwestiynau a gobeithion ynghylch rhyddid y werin bobl. Yn ogystal, profodd y syniad o sefydlu Cynghrair y Cenhedloedd wedi'r rhyfel yn hwylusydd i'r drafodaeth hon wrth i deallusion Cymru ymgodymu gyda natur y drefn ryngwladol newydd a oedd i ddod.

⁸⁶⁸ Huw L. Williams, "'Segurdod yw Clod y Cledd': David Davies a'r Helfa am Heddwch Wedi'r Rhyfel Mawr', yn Matthews (gol.), *Creithiau*, tt.183-203.

⁸⁶⁹ *Y Genedl*, 29 Medi 1914, 6.

⁸⁷⁰ Barlow, *Wales and the First World War*, t.xvi.

Er gwaethaf rhethreg y llywodraeth a'r Wasg ynglŷn â'r rhyfel fel un a fyddai'n amddiffyn ac yn gwarchod rhyddid, siglwyd y meddylfryd hwn rywfaint yn 1916. Profodd Gwrthryfel y Pasg, 1916, yn Iwerddon yn sbardun i elfennau o'r Wasg werthuso ystyr y rhyfel.⁸⁷¹ Ymatebodd rhai o bapurau newydd Cymru yn syn i'r newyddion yn Iwerddon. Nododd yr *Herald Cymraeg*: 'Rhyfedd fel y gall cenedlgarwch wedi tyfu yn wyllt arwain cenedloedd bychain at brofedigaeth', cyn casglu yn obeithiol y gallai'r sefyllfa gynnig datrysiad i'r hen drafferthion: 'Pwy a wyr na fydd i'r ystorom anffortunos hon ddatguddio y ffordd i derfynu cwerylon yr Iwerddon ac i sicrhau llywodraeth leol i'r ynyswyr anniddig.'⁸⁷² Ystyriodd nifer o'r papurau'r gwrthryfel yn gynllwyn gan yr Almaenwyr.⁸⁷³ Ysgrifennodd *Y Genedl Gymreig*: 'Dylai'r wyliaeth fod yn fanwl iawn ar yr Ellmyn. Y mae y gelyn "yn rhodio o amgylch" yn ein plith yn ddi-baid. Myn rhai fod Ellmyn yn arwain y gwrthryfelwyr yn y Werddon.'⁸⁷⁴ Tebyg oedd golwg *Seren Cymru*: 'Oni chaed egin gwrthryfel yn Ulster pan laniwyd yno drwy drais arfau o'r Almaen ychydig fisoedd cyn y rhyfel?'⁸⁷⁵ Hefyd y *Cambria Daily Leader*: 'The simultaneous occurrence of several sinister events is in itself indicative that some influence that had an evil object was at work', cyn i'r golygyddol farnu: 'The fact that all failed ought to show the German high command that it is not going to have all its own way.'⁸⁷⁶ Parthed dyfodol Iwerddon, daeth *Y Cymro* i'r casgliad 'fod oes yr hen oruchwyliaeth ar ben, ac fod yn rhaid i ddydd goruchwyliaeth newydd, o ryw fath, wawrio.'⁸⁷⁷

Er i fesur Ymreolaeth i Iwerddon fod ar y Llyfr Statud ers Medi 1914, taflwyd amheuan o'r newydd dros ddyfodol cyfansoddiadol Iwerddon yn sgil Gwrthryfel y Pasg, 1916. Ar ôl ymweliad brys ag Iwerddon yn dilyn y gwrthryfel, mynegodd y Prif Weinidog, Herbert Asquith, ei obaith o ganfod datrysiad gwleidyddol i'r sefyllfa: 'it would be not only foolish but criminal not to take advantage [of the situation], to bring about the foundations of a settlement of this long-standing controversy.'⁸⁷⁸ Adleisiodd effeithiau'r Gwrthryfel weddill y rhyfel. Yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn 1918, anodd oedd osgoi sefyllfa Cymru, yr Alban, a

⁸⁷¹ Cychwynnwyd y gwrthryfel gan aelodau Brawdoliaeth Gweriniaethol Iwerddon (*Irish Republican Brotherhood*) a geisiodd yn ddyfal am annibyniaeth i Iwerddon. Cipiwyd rhannau o Ddulyn a datganwyd Gweriniaeth Wyddelig, cyn i filoedd o filwyr Prydeinig orfodi'r gwrthryfelwyr i ildio.

⁸⁷² *Yr Herald Cymraeg*, 16 Mai 1916, 4.

⁸⁷³ Yn dilyn ymdrechion Syr Roger Casement, cytunodd yr Almaen i ddanfôn arfau i Iwerddon, ond cafodd y llong, *Aud*, a hwyliodd o dan faner niwtral Norwy, ei rhyng-gipio ar 20 Ebrill gan y Prydeinwyr ac yna ei suddo, tra chafodd Casement ei arestio a'i ddiennwyd. Serch hyn, roedd cyfraniad yr Almaen i'r gwrthryfel yn brin.

⁸⁷⁴ *Y Genedl Gymreig*, 9 Mai 1916, 4.

⁸⁷⁵ *Seren Cymru*, 5 Mai 1916, 9.

⁸⁷⁶ *Cambria Daily Leader*, 2 Mai 1916, 2.

⁸⁷⁷ *Y Cymro*, 31 Mai 1916, 3.

⁸⁷⁸ 'Government of Ireland'. HC Deb 24 July 1916, vol 84, cc1427-70. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1916/jul/24/government-of-ireland-2>> [cyrchwyd 11.03.17].

Lloegr wrth ystyried dyfodol Iwerddon. Soniodd Prif Weinidog Newfoundland, yr Arglwydd Edward Morris am ddiwygio gwleidyddol sylweddol o fewn yr Ymerodraeth Brydeinig fel datrysiad i'r trafferthion:

I believe the best way to strengthen the British Empire is to pass a measure of Home Rule for Ireland something on the principle of the measure enjoyed by Canada, New Zealand, Australia, and Newfoundland, and in saying this I am prepared to give the same measure of self-government to Scotland, to Wales, and to England if necessary.⁸⁷⁹

Wythnos yn ddiweddarach, cefnogodd Aelod Seneddol Dwyrain Edinburgh, James Hogge, y syniad o ffurfio Prydain ffederal drwy basio mesurau ymreolaeth i'r Alban a Chymru. Cefnogodd Aelod Seneddol Rhyddfrydol Coleg Glasgow, Henry Watt, y syniad hefyd gan ofyn i Ganghellor y Trysorlys, Arthur Bonar Law: 'Is it not the intention of the Government, in the case of the Home Rule Bill for Ireland, to make it fit in with the demands of Scotland and Wales?'⁸⁸⁰ Ystyriai Ysgrifennydd Cyffredinol y Blaid Lafur, Arthur Henderson, y sefyllfa yn Iwerddon yn 'embaras mawr' i Brydain, gan ddadlau dros ddatrysiad gwleidyddol i Brydain gyfan.⁸⁸¹ Bu cefnogaeth, felly, i ddatrys sefyllfa'r Iwerddon drwy ddiwygio cyfansoddiadol ledled y Deyrnas Gyfunol, gyda 'Home Rule All Round' unwaith eto yn dod yn weledol yn y disgwrs gwleidyddol.⁸⁸²

Cynhyrfwyd Gwasg Cymru gan ddigwyddiadau yn Iwerddon. Cyhuddodd golygydd *Y Deyrnas*, Thomas Rees, y llywodraeth Brydeinig o ragrith parthed un o ddelfrydau'r rhyfel, sef 'ryddid'. Ysgrifennodd ym mis Mawrth 1917, bron i flwyddyn ers y gwrthryfel yn Iwerddon: 'Rhagrith digywilydd i Brydain Fawr yw sôn am ryddhau cenhedloedd tra y ceidw hi'r Gwyddel mewn caethiwed annioddefol iddo ef.'⁸⁸³ Rhai misoedd yn ddiweddarach, ategodd Rees ei safbwynt: 'Rhagrith heb ei fath yw condemnio camdriniaeth y Belgiaid gan Germani, a ninnau yn gwneud cynddrwg neu waeth ar ddyinion sydd yn ceisio eu rhyddid a'u

⁸⁷⁹ 'Military Service Bill'. HL Deb 18 April 1918, vol 29, cc765-825. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/lords/1918/apr/18/military-service-bill>> [cyrchwyd10.10.17].

⁸⁸⁰ 'Self-Government (Scotland and Wales)'. HC Deb 25 April 1918, vol 105, cc1119-20. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1918/apr/25/self-government-scotland-and-wales>> [cyrchwyd 26.10.17].

⁸⁸¹ 'Grave embarrassment'. 'Home Rule All Round', *Welsh Outlook*, Mehefin 1918, 185. Roedd Henderson yn gyn-arweinydd y Blaid Lafur a daeth yn rhan o'r Cabinet Rhyfel fel Gweinidog heb Bortffolio. Ymddiswyddodd ym mis Awst 1917 ar ôl i'w gynnig o gynhadledd rhyngwladol ar y rhyfel gael ei wrthod gan weddill y Cabinet. Ymddiswyddodd hefyd fel arweinydd y Blaid Lafur ychydig yn ddiweddarach.

⁸⁸² Cynigiodd yr Undebwr Rhyddfrydol, Joseph Chamberlain, y syniad o 'Home Rule All Round' yn 1886 fel datrysiad i sefyllfa Iwerddon.

⁸⁸³ 'Egwyyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Mawrth 1917, 2.

hannibyniaeth yn yr Iwerddon.⁸⁸⁴ Roedd safbwynt golygyddol *Y Deyrnas* yn ddigon clir: gwrthwynebu'r rhyfel a cheisio 'roddi rhyddid i'r Iwerddon'. Bu eraill hefyd o'r farn mai 'rhyddid i'r Iwerddon' a ddylai ddilyn. Mentrodd Aelod Seneddol Rhyddfrydol Dwyrain Sir Ddinbych, E. T. John broffwydo yn *Y Geninen* y byddai'r Iwerddon yn 'hawlio y rhyddid helaethaf yn ei hymdriniaeth â'i materion cartrefol', gan ysgogi proses tebyg yn yr Alban a Chymru a fyddai'n ceisio sicrhau 'ar fyrder' unrhyw freintiau tebyg.⁸⁸⁵ I John, roedd ymreolaeth i Gymru wedi bod yn nod gwleidyddol ers talwm, ond gwelwyd digwyddiadau Iwerddon yn fwy o brawf o angen diwygio cyfansoddiadol.

Parodd Gwrthryfel y Pasg feirniadaeth o wleidyddiaeth a hunaniaeth Brydeinig. Canfuwyd Prydain a'i hymerodraeth gan y bardd a'r gwrthwynebydd i'r rhyfel, T. Gwynn Jones, fel pŵer a oedd yn bygwth 'marwolaeth yr Wyddeleg a'r Gymraeg'. Yn ysgrifennu yn *Y Deyrnas* ym mis Mawrth 1917, bron i flwyddyn ers y gwrthryfel, mynnodd Jones fod Prydeindod wedi llethu hunaniaethau eraill, yn enwedig y Gymraeg: 'y mae cenedligrwydd gwleidyddol Cymru yn marw ar ei waethaf mewn llawer lle, ac y mae'r un peth yn wir am wledydd eraill.'⁸⁸⁶ Ymryson oedd hyn ar ran Jones ynghylch rhyddfrydiaeth Brydeinig, gyda'i phwyslais ar iaith a diwylliant Seisnig yn tra-arglwyddiaethu. Dangosodd gwrthryfel parhaol Iwerddon yn glir i sawl un y gwahaniaethau a fodolai ymysg cenhedloedd y Deyrnas Gyfunol. Sylwebodd golygyddol y *Welsh Outlook* ar sefyllfa'r Iwerddon yn 1918 drwy gynnig mai system wleidyddol ffederal a ddylid ei sefydlu bellach ym Mhrydain.⁸⁸⁷ Galwyd yn uniongyrchol ar awdurdodau lleol Cymru i ddangos cefnogaeth dros ymreolaeth Gymreig. Nododd y golygyddol:

Events are moving rapidly nowadays, and Welsh Home Rule is already well within the range of practical politics. The Irish difficulty has caused public attention to be directed towards federal devolution, and Unionists as well as members of other political parties are pressing for a measure securing political autonomy for the constituent countries of the United Kingdom.⁸⁸⁸

Cysylltwyd yr Iwerddon a Chymru hefyd gan y bargyfreithiwr a'r newyddiadurwr, John Arthur Price. Ym misoedd olaf y rhyfel, ymosododd Price ar y Rhyddfrydwyr Cymreig a'u cyhuddo

⁸⁸⁴ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Hydref 1917, 2.

⁸⁸⁵ 'Effaith y Rhyfel ar Werin y Byd', *Y Geninen*, Gorffennaf 1917, 184.

⁸⁸⁶ 'Cenedligrwydd', *Y Deyrnas*, Mawrth 1917, 4.

⁸⁸⁷ Nid yw'n glir ai Edgar L. Chappell oedd y golygydd erbyn hyn, ynteu Gwilym Hughes. 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Gorffennaf 1918, 209.

⁸⁸⁸ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Mai 1918, 141.

o anghofio’u hegwyddorion. Roedd Cymru, yn ôl Price, ar ei cholled tra roedd Rhyddfrydwyr mewn grym:

Nothing, however, can justify Welsh Liberals in their betrayal of Liberal principles and their shameless capitulation to the Junkers of Ulster. So far as Welsh Home Rule is concerned, this betrayal is having the worst consequences.⁸⁸⁹

Cythraddwyd Price gan Ddeddf Diwygio mis Chwefror 1918, lle collwyd y cyfle i wthio achos Cymru. Beirniadodd Price Aelodau Seneddol Cymru am ganiatáu’r Ddeddf i basio heb ystyriaeth i anghenion gwleidyddol Cymru. Enwyd David Lloyd George, yr Arglwyddi Curzon a Milner, Arthur Balfour, a Syr Edward Carson fel, ‘men who have spent all their political lives in fighting Nationalism and Liberty’ ac sydd wedi methu â chynnig datrysiad cyfansoddiadol pwrpasol i sefyllfa Iwerddon.⁸⁹⁰ Er y feirniadaeth hon, myfyriodd gweinidog gyda’r Annibynwyr yng Nglanaman, y Parchedig W. Glasnant Jones, yn *Y Geninen*: ‘Mae Ymreolaeth yn dod yn deg a chyfiawn i’r [Iwerddon]; ac oddigerth inni lwyddo yn hyn o beth, dyma John Jones yn John Smith i bob pwrpas ymarferol.’⁸⁹¹ I Glasnant Jones, roedd goblygiadau Cymreig i’w wynebu pe na dilynid yr Iwerddon ar lwybr ymreolaeth: ‘I lwyddo rhag blaen rhaid fydd i Gymru sicrhau Ymreolaeth iddi ei hun, neu ynte gael ei thraflyncu, fel Cantre’r Gwaelod.’⁸⁹²

Amlygwyd teimladau cyffredin ymysg deallusion Cymru ynghylch datrysiad cyfansoddiadol i broblemau Iwerddon, a oedd yn cynnwys galwadau dros ymreolaeth Gymreig. Daeth delfryd rhyfel o rhyddid yn ganolog i sawl dehongliad Cymreig o wrthryfel Iwerddon, ac estynnwyd ystyr y delfryd i gynnig fframwaith gwleidyddol ar gyfer diwygio cyfansoddiadol. Ond yn ogystal â gwrthryfel Iwerddon, bu chwyldroadau Rwsia yn 1917 hefyd yn ddigwyddiadau a welodd ddiffiniadau Cymreig o rhyddid yn cael eu gosod o fewn y naratif rhyfel.⁸⁹³

Ymateb cyntaf y Wasg Gymreig i chwyldro mis Mawrth yn Rwsia oedd llawenydd. Yn bennaf, credwyd y byddai’r llywodraeth dros dro yn gweithredu’n llawer mwy effeithiol yn y rhyfel. Nododd y papur dyddiol, *Cambria Daily Leader*: ‘The Revolution bodes nothing but good for

⁸⁸⁹ ‘Welsh Nationalism and Mr. Lloyd George’s Speech’, *Welsh Outlook*, Medi 1918, 273.

⁸⁹⁰ ‘Welsh Nationalism and Mr. Lloyd George’s Speech’, *Welsh Outlook*, Medi 1918, 273.

⁸⁹¹ ‘Gwlad John Jones’, *Y Geninen*, Ionawr 1918, 14.

⁸⁹² ‘Gwlad John Jones’, *Y Geninen*, Ionawr 1918, 14.

⁸⁹³ Ym mis Mawrth 1917 (calendr Gregoraidd), gwelwyd protestiadau a streiciau yn ninas Petrograd ac etholwyd sawl dirprwy gan ffatrioedd a’r fyddin i Sofiet (cyngor) Petrograd wrth i gariswn milwrol y ddinas ochri gyda’r protestwyr. Roedd sefyllfa’r Tsar yn anobeithiol, ac fe ymddiswyddodd ar 15 Mawrth. Ffurfiodd y Duma lywodraeth dros dro ryddfrydol ag eithrio un sosialydd, Aleksandr Kerensky a ddaeth yn arweinydd y wlad. Ym mis Tachwedd gweithredodd Bolshefficiaid Vladimir Lenin i gipio pŵer oddi wrth lywodraeth Kerensky, gan gynrychioli, yn ôl Orlando Figes, ‘coup’. Am astudiaeth gampus o chwyldroadau Rwsia, gweler Orlando Figes, *A People’s Tragedy: The Russian Revolution, 1891–1924* (London: Pimlico, 1997).

the cause of the Grand Alliance. It is a “win the war” movement.’⁸⁹⁴ Ystyriwyd y chwyldro fel rhywbeth da, yn strategol ac yn wleidyddol. Bodolai canfyddiad, yn enwedig yn y *Welsh Outlook*, fod dylanwadau Almaenaidd wedi gwyrddroi gweinyddiaeth Rwsia gan amharu ar ei effeithlonrwydd yn y rhyfel.⁸⁹⁵ Ond bellach, ystyriwyd fod Rwsia wedi gosod ei hun, ‘on the way of political liberty, [and] she will necessarily be drawn into closer affinity with those Western peoples to whom she is allied in War.’⁸⁹⁶ Soniwyd, felly, yn syth am ‘rhyddid gwleidyddol’. Roedd disodli’r Tsar yn cael gwared ar y dylanwadau hyn ac yn argoeli’n dda i’r Cynghreiriaid. Yn yr un cywair, galwodd y *North Wales Chronicle* y chwyldro yn ‘benign revolution’ i waredu elfennau Almaenaidd y wlad, tra nododd *Herald of Wales* fwriad y chwyldro o ‘lanhau’ gwleidyddiaeth y wlad drwy roi terfyn i’r brad ymysg yr uchelwyr.⁸⁹⁷ Clodforwyd ymdrechion y chwyldroadwyr gan y papur sosialaidd, *Merthyr Pioneer* a ddisgrifiodd yr hen drefn fel y ‘corrupt and putrifying aristocracy’.⁸⁹⁸

Amlygwyd delfryd rhyddid yn yr adroddiadau o Rwsia yn cael ei ddemocrateiddio a’i gwleidyddiaeth yn cael ei ‘puro’. Yn yr ystyr hyn, rhyddid i’r werin yn hytrach na gwlad. Pwysleisiwyd effaith y chwyldro o ryddfrenio’r bobl yn gymdeithasol, gwleidyddol, a chrefyddol. Myfyriodd O. M. Edwards fod ‘dyfodol ardderchog o’r diwedd i werin [Rwsia].’⁸⁹⁹ Disgrifiodd Thomas Rees y chwyldro yn *Y Deyrnas* fel ‘Rwsia yn deffro o’i bedd’ wrth iddi uniaethu gydag ‘enaid ac ysbryd y werin’.⁹⁰⁰ Roedd Rwsia hefyd i’w gweld yn ryddfrenio’i hun yn ddiwylliannol, gyda chymeriad Grigori Rasputin a’i ddylanwad dros y teulu Romanov yn cynrychioli rhai o nodweddion rhyfedd a dirgel y ‘Dwyrain’. Ond bellach gyda disodliad y Tsar, canfuwyd Rwsia fel gwlad a oedd yn dechrau mabwysiadu gwareiddiad ‘rhesymegol’ y Gorllewin. Roedd hyn yn dra gwahanol i’r canfyddiad rhyddfrydol cyffredin cyn y rhyfel. Ym mis Medi 1914 er enghraifft, rhybuddiodd y *Welsh Outlook*:

Let us remember that the tyranny in Russia has been greater than anything the German knows of, and that an all powerful Russia might be as great a menace to European civilisation as an all powerful Germany.⁹⁰¹

⁸⁹⁴ *Cambria Daily Leader*, 16 Mawrth 1917, 2.

⁸⁹⁵ ‘Notes of the Month’, *Welsh Outlook*, Ebrill 1917, 122.

⁸⁹⁶ Nid yw’n glir os barn Hector Heatherington neu Edgar L. Chappell oedd hwn, gydag amser Heatherington fel golygydd y cylchgrawn yn dod i ben yn Ebrill 1917. ‘Notes of the Month’, *Welsh Outlook*, Ebrill 1917, 122.

⁸⁹⁷ *North Wales Chronicle*, 16 Mawrth 1917, 5; *Herald of Wales*, 23 Mawrth 1917, 4.

⁸⁹⁸ *Merthyr Pioneer*, 15 Medi 1917, 1.

⁸⁹⁹ ‘Cronicl Y Misoedd’, *Cymru*, Gorffennaf 1917, 38.

⁹⁰⁰ ‘Egwyddorion ac Amgylchiadau’, *Y Deyrnas*, Ebrill 1917, 2.

⁹⁰¹ ‘Notes of the Month’, *Welsh Outlook*, Medi 1914, 376.

Dehonglwyd chwyldro mis Mawrth gan y Wasg Gymreig fel arwydd o undod gwaraidd y Cynghreiriaid yn wyneb yr Almaen bygythiol, a oedd yn ceisio lledu ei *Kultur* tywyll yn ormesol a ddigyfaddawd dros diroedd Ewrop. Ond yn fwy arwyddocaol oedd yr uniaethu a ddangoswyd yn y Wasg Gymreig gyda'r werin Rwsiaidd – tebyg i'r agweddau a welwyd tuag at werin yr Almaen wrth wahaniaethu rhyngddo a'r weinyddiaeth Brwsiaidd filwriaethus. Gellid olrhain poblogeiddio syniad y werin yn y Wasg Gymreig i ymdrechion deallusion Cymru dros y degawdau gynt. Gwthiwyd y syniad gan ddeallusion megis O. M. Edwards drwy'r capeli a'r Wasg er mwyn ailddiffinio Cymru yn eu delwedd eu hun. Fel y dadleua R. Merfyn Jones, canlyniad 'myth y werin' oedd delweddu Cymru fel gwlad ddemocrataidd heb ddsbarthiadau cymdeithasol gwahanol.⁹⁰² Roedd 'y werin' yn gyfarwydd iawn yn *Y Deyrnas*, er enghraifft. Trwythwyd y cylchgrawn fwyfwy yn y syniad hwn yn dilyn chwyldro Rwsia. Mynegwyd sawl tro fod gwerin pob gwlad yn gaeth, a thafwyd golwg genfigennus tuag at y digwyddiadau yn Rwsia fel rhai a allai ddiwygio neu ysbrydoli newid yng Nghymru. Roedd 'enaid ac ysbryd y werin', y 'baich ar ysgwyddau'r werin', y 'werin dlawd', a'r 'werin mewn caethiwed' yn dynodi safbwynt Thomas Rees a'r *Deyrnas*.⁹⁰³ Yn cyferbynnu sefyllfa druenus y werin oedd y Tsar a'i weinyddiaeth greulon a oedd yn danfon ei phobl i gael eu lladd 'fel defaid wrth y filiwn.'⁹⁰⁴

Gwelodd O. M. Edwards y gobaith a gynigiwyd gan y chwyldro yn Rwsia. Fe'i hargyhoeddwyd y byddai ail-lunio gwleidyddol a chymdeithasol yn Rwsia o ganlyniad i 'ffyddlondeb tawel y werin.'⁹⁰⁵ Nid dyma'r tro cyntaf i Edwards gyfeirio at werin 'tawel' Rwsia. Mis Gorffennaf 1915, mynegodd ei obaith o sicrhau 'rhyddid' drwy undod gwerinol y Cynghreiriaid: 'Y mae ysbryd rhyddid yn gryf yn y byd'. Nododd hefyd: 'Y mae gwerin ddiysgog Prydain, gwerin danllyd Ffrainc, gwerin orthrymedig yr Eidal, a gwerin dawel Rwsia wedi penderfynu na fynnant i'r gorthrymwr eu darostwng.'⁹⁰⁶ Gwelir rhyngwladoldeb gwerinol fel un o nodweddion ysgrifau rhyfel Edwards.

Wrth sôn am ddyfodol y weinyddiaeth Rwsiaidd, pendronodd Edwards os 'mai Gwerinlywodraeth fydd yn Rwsia.'⁹⁰⁷ Roedd golygydd *Cymru* eisoes wedi dehongli'r rhyfel

⁹⁰² R. Merfyn Jones, *The North Wales Quarrymen, 1874–1922* (Cardiff: University of Wales Press, 2015; 3rd Edition), t.55.

⁹⁰³ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Gorffennaf 1917, 1.

⁹⁰⁴ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Mawrth 1918, 2.

⁹⁰⁵ 'Cronicl Y Misoedd', *Cymru*, Awst 1917, 63.

⁹⁰⁶ 'Cronicl Y Misoedd', *Cymru*, Gorffennaf 1915, 100.

⁹⁰⁷ 'Cronicl Y Misoedd', *Cymru*, Mai 1917, 209.

fel ‘dydd pryder y gweithiwr’ gan ddangos undod gyda’r werin Ewropeaidd. Nodwyd ym mis Ionawr 1915:

Y mae’r gwerinwr Cymreig yn ddigon darllengar ac yn ddigon meddylgar i weled mai rhyfel ydyw hwn rhwng goruchafiaeth dosbarth milwrol a goruchafiaeth dosbarth gweithiol. Tynged y gweithiwr sydd yn y glorian.⁹⁰⁸

Ymgorfforodd y werin y genedl ac felly roedd y rhyfel yn un i’w hachub nhw. Fel datganodd Edwards: ‘Wrth ymladd dros ein gwlad ymladdwn frwydr y gweithiwr.’⁹⁰⁹ I Edwards ac eraill, profodd chwyldro mis Mawrth Rwsia’r dehongliad hwn. Yn ysgrifennu yn *Y Geninen*, mynegodd E. T. John ei obaith y byddai’r rhyfel yn rhyddfrenio gwerin y byd. Gan ddatgan yn gyntaf: ‘Rhaid wrth ysbryd pybyr a neillduol ffyddiog i gredu fod canlyniadau mor hynod ddaionus yn debyg o ddeilliaw o ddygn drychineb Armagedon’, myfyriodd John ar ddigwyddiadau yn Arabia, Tsieina, ac yn enwedig Rwsia i ddangos sut roedd y rhyfel yn ennyn y werin i siglo’r hen drefn:

Gwelir yn barod arwyddion rhyddhad caethion canrifoedd – poblogaeth afrifed tiriogaethau enfawr Rwsia, yn gweled gwawr ffyniant cysur ac annibyniaeth personol, yn prysuro i adfer rhyddid Finland, ac ail greu Poland unedig ac annibynnol.⁹¹⁰

Soniodd John am y ‘wawr’ newydd ar y gorwel, gan gyfrannu at un o themâu deallusol y rhyfel. Ystyriwyd, felly, chwyldro mis Mawrth Rwsia yn gyffredinol yng Nghymru fel rhyddfreniad cyffredinol, ac ymdrech i greu cymdeithas decach ar gyfer y byd newydd ar y gorwel.

O fewn rhai misoedd fodd bynnag, poenodd sawl un am ddyfodol y wlad wrth i’r Bolshefficiaid gipio grym ym mis Tachwedd. Mynegodd O. M. Edwards ei bryder drwy ddatgan fod Rwsia ‘ym mhair ymddatodiad’.⁹¹¹ Ystyriwyd y Bolshefficiaid yn eithafwyr gyda’r *Welsh Outlook* yn eu galw’n ‘wild fanatics’, tra tynnodd y *Llanelly Star* gymhariaeth gyda chwyldroadwyr Ffrainc: ‘Just as the Terrorists in the last resort got the ascendant in the French Revolution, so the extremists have come to the top in Russia.’⁹¹² Ymateb cymysg a welwyd mewn manau eraill megis *Y Dydd* a’r papur sosialaidd, *Merthyr Pioneer*.⁹¹³ Serch hyn, roedd chwyldro mis Mawrth yn barod wedi effeithio ar yr ymwybyddiaeth Gymreig.

⁹⁰⁸ ‘Dydd Pryder y Gweithwyr’, *Cymru*, Ionawr 1915, 9.

⁹⁰⁹ ‘Dydd Pryder y Gweithwyr’, *Cymru*, Ionawr 1915, 10.

⁹¹⁰ ‘Effaith Y Rhyfel Ar Werin Y Byd’, *Y Geninen*, Gorffennaf 1917, 183.

⁹¹¹ ‘Cronicl Y Misoedd’, *Cymru*, Hydref 1917, 135.

⁹¹² ‘The Outlook in Russia’, *Welsh Outlook*, Ionawr 1918, 18; *Llanelly Star*, 10 Tachwedd 1917, 1.

⁹¹³ *Y Dydd*, 28 Rhagfyr 1917, 2; *Merthyr Pioneer*, 22 Rhagfyr 1917, 1.

Yn ei gyd-destun ehangach, clymwyd digwyddiadau Rwsia gyda dyheadau am i'r genedl Gymreig gael rhyddid i weithredu ar y llwyfan rhyngwladol gyda gwledydd eraill yr Ymerodraeth Brydeinig. Oherwydd erbyn i'r chwyldro ddigwydd yn Rwsia, roedd cryn gynnwrf yn bod o ganlyniad i rethreg rhyddfrydiaeth genedlaethol Arlywydd America, Woodrow Wilson, a'r si am sefydlu Cynghrair y Cenhedloedd yn dilyn y rhyfel.⁹¹⁴ A'r Amerig ddim eto'n barod i ymuno yn y rhyfel, apeliodd Wilson at greu system diogelwch rhyngwladol dibynadwy: 'There must be not a balance of power but a community of power, not organized rivalries but an organized common peace.'⁹¹⁵ Datganodd Wilson yn gyhoeddus ei gefnogaeth i sefydlu cynghrair o'r fath ym mis Mai 1916 yn dilyn cyfnod o ystyriaeth i'r syniad mewn gohebiaethau gyda Syr Edward Grey.⁹¹⁶ Yn gynyddol, creodd Wilson argraff dda yn y Wasg Gymreig a oedd yn dehongli ei rethreg fel arwydd cadarnhaol o drefn fyd-eang newydd yn dyfod.

Ystyriwyd Woodrow Wilson fel arweinydd deallus a phwylllog a oedd yn pleidio achos y werin, a dangoswyd llawer o edmygedd tuag ato ym Mhrydain ac ar draws Ewrop. Ym Mharis yn 1918, disgrifiwyd Wilson yn 'Duw Heddwch', tra ym Milan galwyd ef yn 'gwardwr Dynolryw' a 'the Moses from Across the Atlantic'.⁹¹⁷ O fewn y Wasg Gymreig, roedd Wilson mor uchel ei barch, fel ym mis Chwefror 1917 galwyd Wilson yn 'broffwyd' gan Thomas Rees, tra disgrifiodd D. Jones ef fel y 'gwir brophwyd' a oedd yn deall ystyron y rhyfel.⁹¹⁸ Nododd y Parchedig Owen Evans amdano yn *Y Traethodydd*: 'Gwelir fod Dr. Woodrow Wilson wedi gordyfu a gorchfygu ei amgylchoedd, a thrwy hynny ennill nerth moesol i'w gymeriad.'⁹¹⁹ Dangosodd un o olygyddion *Seren Gomer*, Evan Ungoed Thomas edmygedd mawr at Wilson gan ei ddisgrifio yn sefyll 'fel craig yn erbyn ystrywiau a bradwriaeth Germani a phob gwlad arall.'⁹²⁰ Fel Thomas Rees, roedd Ungoed Thomas hefyd yn gwrthwynebu'r rhyfel, ac mae'n dyst i gymeriad Wilson ei fod wedi llwyddo i ddenu clod o ddwy ochr y ddadl, ymysg cefnogwyr y rhyfel ac ymysg y gwrthwynebwyr. Yn hanfodol yng nghymeriad Wilson, fel tybiodd Ungoed Thomas, oedd 'weledigaeth eglur ar angen presennol y byd.'⁹²¹ Roedd

⁹¹⁴ Ym mis Ebrill 1917 ymunodd Unol Daleithiau America yn y rhyfel ar ochr y Cynghreiriaid.

⁹¹⁵ Dyfynnwyd yn David C. Gompert, Hans Binnendijk, and Bonny Lin, *Blinders, Blunders, and Wars: What America and China Can Learn* (Santa Monica, California: RAND, 2014), t.74.

⁹¹⁶ Peter Yearwood, "'On the Safe and Right Line": The Lloyd George Government and the Origins of the League of Nations, 1916–1918', *Historical Journal*, 32/1 (1989), 134.

⁹¹⁷ 'God of Peace' a 'saviour of Humanity'. Mark Mazower, *Governing the World: The History of an Idea* (London: Penguin Books, 2013), t.118.

⁹¹⁸ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Chwefror 1917, 2; 'Cofadail Deilwng I'r Dewrion', *Y Geninen*, Gorffennaf 1918, 179.

⁹¹⁹ 'Dr. Woodrow Wilson a Heddwch', *Y Traethodydd*, Ebrill 1918, 81.

⁹²⁰ 'Trem ar Fyd ac Eglwys', *Seren Gomer*, Tachwedd 1918, 299.

⁹²¹ 'Trem ar Fyd ac Eglwys', *Seren Gomer*, Tachwedd 1918, 299.

gobeithion Thomas ac eraill wedi eu buddsoddi yn y syniad o oes newydd yn dilyn y rhyfel, ac argyhoeddwyd nifer y byddai Wilson, a'r Amerig, yn chwarae rhan flaenllaw yn yr oes hon. Sylwer ar fyfyrddod O. M. Edwards er enghraifft ym mis Hydref 1917, yn nodi fod Wilson 'wedi arwain y byd gwareiddiedig'.⁹²²

Yn dilyn araith Woodrow Wilson ar 8 Ionawr 1918 i'r Gyngres, daeth ei 'Bedwar Pwynt ar Ddeg' yn sail i weledigaeth wleidyddol y dyfodol.⁹²³ Trawiadol oedd ei araith wrth i 'U. Salmon' ei ddisgrifio yn *Y Geninen* fel 'un o'r areithiau pwysicaf o ran ei chywair moesol a'i gwelediad eglur a draddodwyd erioed.'⁹²⁴ Parhau a wnaeth dylanwad yr araith am weddill y rhyfel. Myfyriodd D. Jones yn *Y Geninen* ym mis Gorffennaf 1918, gydag araith Wilson o dan ystyriaeth: 'Teimlaf ein bod yn awr ar fin oes newydd, pan y daw rhyw allu nerthol i fodolaeth'.⁹²⁵ Y 'gallu nerthol' hwnnw oedd Cynghrair y Cenhedloedd, corff a fyddai'n cynnig fforwm swyddogol a phwrpasol i ryngwladoldeb y byd.

Tyfodd dylanwad rhyngwladoldeb yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn sgil ysgrifau a syniadau Richard Cobden, Giuseppe Mazzini, Karl Marx, Mikhail Bakunin ac eraill.⁹²⁶ Ymddengys fod rhyddfrefinio gwleidyddol poblogaethau Ewrop yn ystod y ganrif honno wedi hwyluso'r syniad o ffurfio cymuned(au) rhyngwladol yn rhannu gwerthoedd a chyfreithiau cyffredin mewn ymgais i reoleiddio materion cyfandirol yn well. Mabwysiadwyd rhyngwladoldeb gan genedlaetholwyr rhyddfrydol i mewn i'r ugeinfed ganrif tan i gynlluniau Cynghrair y Cenhedloedd gael eu ffurfio yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Gellid yn sicr ddadlau bod syniadau Woodrow Wilson yn 1918, a'i bedwerydd pwynt ar ddeg yn ei araith (sefydlu 'a general association of nations') yn ymestyniad o'r rheini a ddatganwyd gan Mazzini hanner canrif ynghynt.⁹²⁷ Ym Mhrydain, sefydlwyd y *League of Free Nations Association* a'r *League of Nations Society* yn ystod y rhyfel i annog y llywodraeth i sefydlu'r Gyngdrair wedi'r rhyfel.

⁹²² 'Cronicl Y Misoedd', *Cymru*, Hydref 1917, 135.

⁹²³ Ynghyd â'i gynghorwyr, cyflwynodd Wilson gyfres o argymhellion gwleidyddol ac economaidd i fod yn sail i heddych a threfn fyd-eang rhyddfrydol yn dilyn y rhyfel. Am drafodaeth o sut roedd yr Almaen i'w gael ei gymathu i'r system hon, gweler Klaus Schwabe, 'Woodrow Wilson and Germany's Membership in the League of Nations, 1918-19', *Central European History*, 8/1, 1975, 3-22. Hefyd yn gyffredinol am baratoadau'r Unol Daleithiau ar gyfer Cynghrair y Cenhedloedd, gweler Lawrence E. Gelfand, *The Inquiry: American Preparations for Peace, 1917-1919* (New Haven: Yale University Press, 1963).

⁹²⁴ 'Sylfeini Heddwch Rhyng-Wladwriaethol', *Y Geninen*, Gorffennaf 1918, 148.

⁹²⁵ 'Cofadail Deilwng I'r Dewrion', *Y Geninen*, Gorffennaf 1918, 179.

⁹²⁶ Gwelwyd tair prif gainc o ryngwladoldeb radical, sef comiwnyddiaeth rhyngwladol Marx, cenedligrwydd Mazzini, ac anarchiaeth Bakunin. Gellid dehongli tarddiad rhyngwladoldeb fel ymateb i system darffodedig Fiena (y *Concert of Europe*) a sefydlwyd ymysg breniniaethau Ewrop yn dilyn rhyfeloedd Napoleon. Am drafodaeth o'r syniadau a ddylanwadodd ar ddatblygiad rhyngwladoldeb, gweler Mazower, *Governing the World*, tt.13-64.

⁹²⁷ Gweler detholiad o'i araith ar: <http://avalon.law.yale.edu/20th_century/wilson14.asp> [cyrchwyd 06.01.18].

Er nad oedd manylion ynghylch strwythur y fath Gynghrair yn amlwg, bu cefnogaeth i'r syniad o Gynghrair y Cenhedloedd o fewn y cylchoedd gwleidyddol ym Mhrydain, er gwaetha'r anghyfleustra a allai ddatblygu parthed uchelgeisiau imperialaidd Prydeinig. Yn wir, ystyriwyd gan sawl un yr Ymerodraeth Brydeinig yn barod fel 'Cynghrair y Cenhedloedd'.⁹²⁸ Ond roedd syniadau am sefydliad traws-wladol, gyda deddfwrfa o genhedloedd gwahanol yn atyniadol i sawl un.

Yng Nghymru bu trafodaeth am ddyfodol mwy moesol a chyfiawn, gyda Chynghrair y Cenhedloedd yn cynrychioli'r delfrydau hyn. Canfuwyd dyfodol gobeithiol gan nifer o ddeallusion Cymreig, gyda rhagolygon o weddnewidiadau cymdeithasol yn dyrchafu Cymru i'r byd newydd. Dylanwadwyd ar y gobeithion hyn gan bolisiau'r llywodraeth, wedi i ail-lunio cymdeithasol ddod yn un o'r nodau, a David Lloyd George yn penodi Christopher Addison yn Weinidog yr Ail-lunio yn 1917. Blaenoriaeth Addison oedd iechyd a thai gyda'r bwriad o sefydlu Gweinyddiaeth Iechyd wedi'r rhyfel a defnyddio cyllid cyhoeddus 'er mwyn anheddu'r boblogaeth yn weddus.'⁹²⁹ Yn fuan, daeth E. T. John i alw ar Addison i ffurfio Cyngor Ail-lunio Cymreig, gan ennyn cefnogaeth y *Welsh Outlook*.⁹³⁰ Gyda chynlluniau o'r math yn cael eu hystyried, roedd y weledigaeth o Gynghrair y Cenhedloedd yn wedd ryngwladol o ail-luniad y genedl – Brydeinig a Chymreig.

Gwelir fod cynlluniau Cynghrair y Cenhedloedd wedi ffurfio ateb i anghenion a gobeithion a oedd eisoes yn bodoli yng Nghymru. Mor gynnar â Ionawr 1917 soniodd 'Simon Selotes' am ddelfryd hawliau cenhedloedd bychain yn cael eu parchu ar ôl y rhyfel:

Yr ydym yn credu'n ddidwyll y byddai buddugoliaeth i'r cynghreirwyr yn gaffaeliad amhrisiadwy werthfawr i fuddiannau uchaf gwareiddiad, moesoldeb, a chrefydd. Nid ar frys y meiddiai neb mwyach gyfrif cytundebau rhyng-genedlaethol yn ddim ond *scraps* o bapur; ac nid pethau i'w sarnu'n ddibris gan neb o hyn allan fyddai iawnderau cenhedloedd bychain, gweiniaid.⁹³¹

Parch, cydweithrediad, a phenderfyniadau amlochrog rhyngwladol oedd y gobeithion, felly. Dyma oedd neges Thomas Rees yn *Y Deyrnas*, a bwysleisiodd yr angen am faddeuant ymysg cenhedloedd cyn gallu sefydlu'r Gynghrair. Dadleuodd Rees y byddai rhaid 'diwreiddio a llosgi llawer o dyfiant yr ysbryd gelyniaethus yn y llywodraethau' cyn gallu sefydlu'r

⁹²⁸ Mazower, *Governing the World*, tt.128-37.

⁹²⁹ Davies, *Hanes Cymru*, t.502.

⁹³⁰ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Ebrill 1918, 109.

⁹³¹ 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Ionawr 1917, 24.

Gynghrair ryngwladol newydd.⁹³² Parhaodd gyda'i neges o gydweithrediad rhyngwladol fel sail i lwyddiant y Gynghrair: 'Cydnabyddir fod heddwch y byd yn gorffwys mewn ymdeimlad o gyd-ddibyniad cenhedloedd y byd ar ei gilydd.'⁹³³

Un a roddai gefnogaeth gref i syniad Cynghrair y Cenhedloedd oedd Aelod Seneddol Trefaldwyn, David Davies, gan ddadlau hefyd o blaid datganoli pŵer gwleidyddol i Gymru.⁹³⁴ Yn 1917 sefydlodd Davies Cymdeithas Cynghrair y Cenhedloedd Rhydd yng Nghymru i ysgogi cefnogaeth Cymreig i'r fenter; mynnodd fod y rhyfel wedi gorfodi rhoi ystyriaeth i hawliau cenhedloedd bychain, ac roedd cynlluniau'r Gynghrair yn cymell gweledigaeth i ddiwygio cymdeithasol a gwleidyddol. Meddai Davies:

The period of reconstruction is the psychological moment when the small nations must come to their heritage in the true interests of the British Empire no less than in their own. The whole world is now in the melting-pot, fresh ideas and new ideals are permeating mankind. Good government, no less than the claims of nationality, demands a policy of devolution.⁹³⁵

Roedd Davies yn awyddus i weld newid yn digwydd, a galwodd am ffurfio Cynghrair y Cenhedloedd cyn i'r rhyfel orffen.⁹³⁶ Gan nad oedd teitl swyddogol ar Gynghrair y Cenhedloedd ar y pryd, cyfeiriwyd yn aml at y syniad fel 'League of Peace', neu'r 'Association' fel y nodwyd gan Arlywydd Wilson yn ei 'Bedwar Pwynt ar Ddeg'. Dyma a wnaeth Davies ym mis Medi 1918 mewn atodiad arbennig i'r *Welsh Outlook*. Argyhoeddwyd ef ynghylch symbolaeth y Gynghrair: '[The League will be] producing the next practical stages in the political evolution of the world'. Esboniodd hefyd mai cennad y Gynghrair oedd i sicrhau: 'the prevention of future wars, the destruction of Prussian militarism, [and] the establishment of a new International organisation'.⁹³⁷ Yn yr un rhifyn roedd erthygl yr academydd, Syr Henry Jones, a ddisgrifiodd sefydlu Cynghrair y Cenhedloedd fel 'anghenraid moesol'.⁹³⁸ Roedd sicrhau heddwch yn flaenoriaeth yn ysgrifau Davies a Jones, a chredent mai cydweithrediad rhwng cenhedloedd mewn cynghrair ryngwladol oedd y modd gorau o gyflawni hyn. Byddai'r Gynghrair yn cynnig rhyngwladoldeb technegol, gwyddonol, a

⁹³² 'A fydd rhyfel ar ol y Rhyfel?', *Y Deyrnas*, Gorffennaf 1918, 4.

⁹³³ 'A fydd rhyfel ar ol y Rhyfel?', *Y Deyrnas*, Gorffennaf 1918, 5.

⁹³⁴ Williams, "'Segurdod yw Clod y Cledd'", tt.183-203.

⁹³⁵ 'Devolution', *Welsh Outlook*, Mawrth 1918, 78.

⁹³⁶ 'Why Not Form the League Now?', *Welsh Outlook*, Awst 1918, 243.

⁹³⁷ 'Why an Association is Necessary', *Supplement to the Welsh Outlook*, Medi 1918, 8.

⁹³⁸ 'Moral necessity'. 'Form the League of Peace Now', *Supplement to the Welsh Outlook*, Medi 1918, 6.

deallusol, yn ogystal â bod yn fforwm diplomyddol mwy amlwg i gymryd lle trafodaethau cyfrinachol yr hen drefn.

Un a gyfrannodd ar fwy nag un achlysur i'r *Welsh Outlook* oedd 'A Welsh Nationalist'. Dim ond dyfalu pwy oedd 'A Welsh Nationalist' y gellir ei wneud, ond disgrifiwyd hwnnw gan y golygyddol fel: 'a well-known and experienced Welsh publicist'. Mae'n bosib mai David Davies oedd hwn, yn defnyddio ffugenw i atseinio'r hyn yr oedd eisoes yn ei ddadlau. Disgrifiodd ef effaith y rhyfel yn ogystal â chynlluniau Cynghrair y Cenedloedd fel 'an awakening of the national conscience among small peoples'.⁹³⁹ Daeth deffro'r 'cydwybod cenedlaethol' yn nod i'w wireddu, gan ddod yn rhan o ddisgwrs y weledigaeth o ail-lunio gwleidyddol a chymdeithasol wedi'r rhyfel. I'r 'Welsh Nationalist', dynoda Cynghrair y Cenedloedd ryddid gwleidyddol i genhedloedd llai. I sicrhau'r rhyddid ac i weithredu'n bwrpasol fel rhan o Gynghrair y Cenedloedd, galwodd am ymreolaeth i Gymru: 'the sooner autonomy is extended to the Principality, the better it will be for the United Kingdom and the Empire.'⁹⁴⁰ Yn sgil cynlluniau Cynghrair y Cenedloedd felly, daeth ffederaliaeth Brydeinig i'r amlwg fel gweledigaeth ail-lunio Gymreig.

Ategwyd y weledigaeth hon mewn trafodaeth ar ddyfodol Prifysgol Cymru yn y *Welsh Outlook* ym mis Mai 1918. Wedi i Gomisiwn Brenhinol gael ei sefydlu yn 1917 i ymchwilio i gyfansoddiad, strwythurau, a phwerau Prifysgol Cymru a'i cholegau, daeth y pwnc yn bwysig i'r *Welsh Outlook* a oedd yn gweld y datblygiadau yn eu cyd-destun ehangach o ail-lunio cenedlaethol. Yn dilyn cyhoeddiad y Comisiwn a awgrymodd ffyrdd i ddiwygio addysg prifysgol yng Nghymru, fe'i disgrifiwyd fel, 'a contribution towards the great work of national reconstruction'.⁹⁴¹ Bwriad y cynlluniau newydd oedd cadw natur ffederal y Brifysgol, wrth ychwanegu colegau gydag elfen gref o hunanreolaeth, yn ogystal â phwyllgorau a byrddau i weithredu tu allan i waliau'r sefydliad. Ystyriwyd hyn gan y *Welsh Outlook* fel gweledigaeth o gyfraniad posib Cymru i'r drefn ryngwladol newydd:

The keynote of the report of the Commission is that reform should be undertaken on a grand scale, so that in due season Wales may offer to the common pool of the world a small nation's most glorious contribution – an educated democracy.⁹⁴²

⁹³⁹ 'The Political Future of Wales', *Welsh Outlook*, Mawrth 1918, 79.

⁹⁴⁰ 'The Political Future of Wales', *Welsh Outlook*, Mawrth 1918, 79

⁹⁴¹ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Mai 1918, 143.

⁹⁴² 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Mai 1918, 144.

Rhybuddiwyd mai dim ond cynlluniau a wnaethpwyd gan y Comisiwn, a bellach fod Cymru yn wynebu prawf o'i hymrwymiad, ond dadleuodd y *Welsh Outlook* dros wireddu cynlluniau'r Comisiwn, yn llwyr ymwybodol o'i bwysigrwydd i adeiladu Cymru gryfach yn y dyfodol a chwblhau iachawdwriaeth y genedl. Barnodd y golygyddol: 'As a constructive people we have been placed on trial. Here is placed at our doors an opportunity for working out our own salvation. Let us grasp it with both hands.'⁹⁴³

Gwelir felly dinc gobeithiol yn y Wasg ynghylch y dyfodol a chynlluniau Woodrow Wilson i sefydlu 'cymdeithas cyffredinol o genhedloedd'.⁹⁴⁴ Ym mis Medi 1918, er enghraifft, myfyriodd O. M. Edwards fod y 'dyfodol yn ddisglair', wedi iddo ystyried y Mesur Addysg a oedd yn agos i'w basio, i gyd-fynd â'r weledigaeth o Gynghrair y Cenedloedd ac ail-lunio'r genedl.⁹⁴⁵ Cynigiodd y Gynghrair obaith a fframwaith y gellid trefnu'r dyfodol rhyngwladol ar seiliau mwy moesol a chyfiawn. Ynghyd â'r aflonyddwch yn Iwerddon a Rwsia, profodd y digwyddiadau a chynlluniau hyn yn hwb i ystyried dyfodol Cymru. Erbyn 1918, ac yn bennaf fel ymateb i ddigwyddiadau'r rhyfel, roedd trafodaethau di-ri yn y Wasg yn ystyried ac yn galw am ymreolaeth i Gymru.

Ymreolaeth Gymreig

Ym mis Ionawr 1916 cyhoeddwyd erthygl gan y Parchedig Hugh Evans, Y Rhyl, yn *Y Geninen*. Teitl yr erthygl oedd 'Crefydd a'r Deffroad Cenedlaethol' a'i hanfod oedd y sylweddoliad fod y rhyfel presennol yn arwyddocaol yn ffurfiant y genedl Gymreig. Roedd ei sôn am 'deffroad cenedlaethol' yn awgrymu gweledigaeth bendant i Gymru newydd. Ysgrifennodd Evans:

Nid oes dim byd amlycach na'r ffaith fod deffroad cenedlaethol anhraethol bwysig wedi digwydd yn hanes cenedl y Cymry yn ystod y blynyddau diwethaf: ac y mae Cymru heddyw yn nghanol y deffroad hwn.⁹⁴⁶

Dangosodd erthygl Evans yr hyder gwladgarol a oedd bellach yn cymell deallusion Cymru i fynnu rôl newydd i'r genedl wedi'r rhyfel. Roedd agweddau gwahanol y diwylliant rhyfel Gymreig wedi dylanwadu ar yr ymwybyddiaeth wleidyddol yng Nghymru, gydag Evans yn esbonio: 'Mae ar y genedl eisiau ymddatblygu yn y ffordd y barna yn oreu, a chymeryd ei lle

⁹⁴³ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Mai 1918, 143.

⁹⁴⁴ 'A general association of nations'.

⁹⁴⁵ 'Cronicl Y Misoedd', *Cymru*, Medi 1918, 86.

⁹⁴⁶ 'Crefydd a'r Deffroad Cenedlaethol', *Y Geninen*, Ionawr 1916, 67.

ym mhlith cenedloedd eraill heb golli dim o'i nodweddion hanfodol.⁹⁴⁷ Roedd y 'deffroad cenedlaethol' yn un diwylliannol a gwleidyddol i Evans. Lledodd a pharhaodd y teimlad hwn yn y Wasg Gymreig hyd ddiwedd y rhyfel. Ddechrau 1918, datganodd y Parchedig W. Glasnant Jones yn ffyddiog mai, 'yr allwedd aur i agor drws gobaith i genedl y Cymry yw Ymreolaeth.'⁹⁴⁸ Ymddengys fod y profiad rhyfel, yn ôl Jones, hefyd wedi sbarduno 'deffroad' yng Nghymru. Dehonglwyd y rhyfel, felly, fel croesffordd i'r genedl Gymreig gydag ymwybyddiaeth genedlaethol ddiweddar – y 'deffroad' – yn mentro gweledigaeth newydd i Gymru'r dyfodol.

Teimlodd eraill hefyd fod 'deffroad' yn digwydd yng Nghymru o achos i'r rhyfel. 'I godi'r hen wlad yn ei hôl' oedd arwyddair cylchgrawn *Cymru* O. M. Edwards. Roedd yn un a hybai'r ddelwedd o'r werin Gymreig, a manteisiodd Edwards ar y rhyfel fel cyfle i wireddu ei ddeffroad gwerinol Cymreig. Wrth grynhoi'r teimladau hyn, ysgrifennodd Edwards ym mis Mawrth 1918: 'Y mae egwyddorion newydd, a nerthoedd newydd, wedi ymddangos.'⁹⁴⁹ I 'J. R. O.' yn y *Welsh Outlook*, y 'deffroad' Cymreig oedd y profiad o gymryd rhan mewn rhyfel anferth o'r fath, o blaid ac yn erbyn cynghreiriau o genhedloedd eraill. Tybiwyd fod Cymru wedi bod yn genedl ynysig a bod y rhyfel yn gyfle i Gymry brofi eu gwerth ar y llwyfan rhyngwladol. Dyma oedd neges gynnar David Lloyd George yn ei araith yn Neuadd y Frenhines, fis Medi 1914, pan ddywedodd: 'We have been living in a sheltered valley for generations'. Dylai Cymru, mynnodd Lloyd George, fentro i'r rhyfel i warchod y delfrydau o anrhydedd, dyletswydd, a gwladgarwch.⁹⁵⁰ Ategodd yr un neges yn ei anerchiad yn Eisteddfod Bangor, 1915, gan gyfeirio at ddyffrynoedd rhamantaidd Cymreig:

Heddyw, y mae genym gan' mil o ddynion wedi dod o fryniau a dyffrynoedd eu gwlad i amddiffyn y faner (cym). Pan y clywant yn y brynau pellaf fod rhyddid mewn perygl deuant ymlaen i amddiffyn eu gwlad yn erbyn cynddaredd y gormeswr (cym.).⁹⁵¹

Teimlwyd y byddai'r rhyfel yn cryfhau'r genedl wrth i filoedd o Gymry ddychwelyd o faes y gad gydag awch i ffurfio Cymru newydd. Mentrodd 'J. R. O.' gynnig: 'I can foresee a Wales rising anew, secure in the proved valour of her men; a Wales that has seen and known other nations, that has really seen and wondered.'⁹⁵²

⁹⁴⁷ 'Crefydd a'r Deffroad Cenedlaethol', *Y Geninen*, Ionawr 1916, 69.

⁹⁴⁸ 'Gwlad John Jones', *Y Geninen*, Ionawr 1918, 13.

⁹⁴⁹ 'Cronicl Y Misoedd', *Cymru*, Mawrth 1918, 115.

⁹⁵⁰ Lloyd George, *The Great War*, t.16.

⁹⁵¹ *Yr Herald Cymraeg*, 10 Awst 1915, 8.

⁹⁵² 'The Battalion of Preachers', *Welsh Outlook*, Mehefin 1916, 202.

Roedd yr ysgrifau hyn yn gynrychioliadol o wedd genedlaetholgar yng Nghymru yn ystod y rhyfel. Sylwer yn fwyfwy o 1916 ymlaen ar y galwadau am ymreolaeth i Gymru, wrth i'r teimlad gynyddu bod y rhyfel yn gwednewid arferion cymdeithasol a rhyngwladol. Mewn erthygl drawiadol ym mis Hydref 1916, dangosodd John Arthur Price sut ystyriwyd y cyfiawnhad dros y rhyfel – sef ei fod yn amddiffyn rhyddid a hawliau cenedloedd bychain – yn y cyd-destun Cymreig. Meddai Price:

The authority of the English crown in Wales rests on the free and long allegiance to it of the Welsh people. Similarly the Empire is endeared for ever to the Welsh people by the blood which they have shed in this and in many another War for its sake. Wales, however, is just as conscious of her national sentiment as she is of her imperial duties, and for the British State to ignore that national sentiment is, so far as Wales is concerned, to Prussianise the British Empire.

Pwysleisiodd Price:

This is the main point. Unless the War is waged on false pretences by the Allies, Wales has the same right to a recognition of its nationhood as Bohemia or Poland. What form that recognition shall take is a question for the Welsh people to decide. The present writer holds to T. E. Ellis' view that the only solution of the question which should satisfy Wales is a National Parliament, supreme in all local affairs, elected by the manhood and womanhood of Wales.

Daethpwyd felly i'r casgliad:

The great fact for Welshmen and Englishmen alike to remember is that Welsh nationality in its own sphere is a sovereign power which it is the duty of the British State to recognise. The sovereign Welsh nationality is no doubt for ever incorporate in the British Empire and subject of its own free will to the British Crown: nevertheless, it is in its own local sphere, sovereign. To say of any Welshman that he is owned by the British State is to talk Prussianism. A Welshman is owned by Wales, but Wales of her own free will is indissolubly linked to the British Crown and Empire (...) The best way of being prepared for the doubtful future is for all Welsh Nationalists to take their stand on the principles of this War have been fought, the rights of nationality.⁹⁵³

Dyma'r erthygl gyntaf yn y *Welsh Outlook* a alwai am ymreolaeth yn unol â delfrydau'r rhyfel. Bellach roedd sôn am y 'sovereign Welsh nationality' o fewn yr Ymerodraeth Brydeinig, a thrwy ystyried perthynas yr unigolyn a'r wladwriaeth, defnyddiodd Price gyfiawnhad y rhyfel fel sail i ymreolaeth Gymreig. Ymddengys mai dyma'r tro cyntaf i'r fath alwad ymddangos yn

⁹⁵³ 'State, Nationalism and Conscience', *Welsh Outlook*, Hydref 1916, 313-14.

y *Welsh Outlook* ers ei sefydlu ym mis Ionawr 1914. Erbyn Gorffennaf 1917, roedd Price unwaith eto yn galw am ymreolaeth i Gymru wrth iddo amlinellu ei obaith i'r hunaniaeth Gymreig ar gyfer y dyfodol, ond o hyd fel rhan teilwng o'r Ymerodraeth Brydeinig:

It is perhaps the mission of Wales, while remaining a loyal and corporate portion of the British Empire, to show the world what true democracy means, but this she can never do until she possesses a national Parliament to deliver her message to humanity.⁹⁵⁴

Daeth golygyddol y *Welsh Outlook* i'r un casgliad â Price yn 1917. Meddai Edgar L. Chappell ym mis Tachwedd: 'The development of Welsh Nationalism during the recent years has proceeded at a rapid rate almost everywhere except in the Cardiff City Hall and the British House of Commons.'⁹⁵⁵ Roedd ffederaliaeth yn atyniadol i Chappell, fel ymateb cyfansoddiadol i heriau domestig a rhyngwladol a ddaeth yn sgil y rhyfel. Wrth ystyried yr ail-lunio gwleidyddol posib, cydraddoldeb ar sail ffederaliaeth oedd ei obaith:

We believe, however, that in the political re-organisation that must take place after the War provision must be made for recognizing the legitimate claims of Wales to a definite place in the Imperial scheme. It is in our view invidious that Scotland and Ireland should be recognised for Government purposes as separate units while Wales should always be regarded merely as an appendage of England.⁹⁵⁶

Esboniodd Chappell ymhellach:

The War has led to a revival of the higher patriotism. Welshmen love Britain, fight for Britain. Their outlook on life is broad and deep. British nationalism is good; it would improve, however, if the spirit of Welsh nationalism could be deepened. Home Rule for Wales is not a mere parrot cry. Home Rule for Wales is as necessary in the interests of Britain as in the interests of Wales itself.⁹⁵⁷

Daeth Chappell i'r casgliad mai cyfansoddiad ffederal oedd yn ddelfrydol i Brydain wedi'r rhyfel, gyda Senedd Ffederal yn caniatáu ymreolaeth Gymreig.⁹⁵⁸ Rhai misoedd yn ddiweddarach datganodd Chappell: 'That Wales is now ripe for Home Rule cannot be gainsaid', tra yn y rhifyn nesaf ysgrifennodd yn ffyddiog: 'the claim to Welsh autonomy will be conceded without much opposition if only it is demonstrated that the Welsh people really

⁹⁵⁴ 'Is Welsh Home Rule coming?', *Welsh Outlook*, Gorffennaf 1917, 249-50.

⁹⁵⁵ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Tachwedd 1917, 375.

⁹⁵⁶ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Tachwedd 1917, 376.

⁹⁵⁷ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Tachwedd 1917, 376.

⁹⁵⁸ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Ionawr 1918, 4.

desire this reform.’⁹⁵⁹ Erbyn mis Mai 1918, adroddwyd fod y papurau dyddiol ac wythnosol yng Nghymru bellach yn cefnogi ymreolaeth, a chyhoeddwyd y pennawd ‘The Imminence of Welsh Home Rule’ yn y nodiadau golygyddol.⁹⁶⁰

O’r holl gyfnodolion Cymreig adeg y rhyfel, y *Welsh Outlook*, gyda’i hunan-ddisgrifiad ‘monthly journal of national social progress’, a gynigiai y fforwm mwyaf delfrydol i drafod dyfodol gwleidyddol Cymru. Yn rhifyn Chwefror 1918 cyhoeddwyd erthygl ‘The Political Future of Wales’ gan ‘A Welsh Nationalist’. Soniodd y golygyddol am yr erthygl:

The article is of special interest in view of the statements recently made in the Press that a small group of Welsh Members of Parliament, amongst whom it is rumoured Major David Davies is one of the most active, are discontented with the ineffectiveness of the existing Welsh parliamentary organisation, and are contemplating taking action to initiate in the constituencies a movement for the return to Parliament of a group of young militant politicians who shall be pledged to work for the early enactment of a measure for securing Home Rule for Wales.⁹⁶¹

Roedd y tudalennau dilynol yn frith o ddaliadau rhai o ddeallusion y byd Cymreig, wrth iddynt ymateb i’r erthygl ar ôl derbyn drafft ohoni cyn ei chyhoeddi. Datganodd E. T. John ei gefnogaeth lwyr i sefydlu Plaid Genedlaetholgar Gymreig.⁹⁶² Wrth gefnogi ymreolaeth, beirniadodd golygydd *Y Dysgedydd*, yr Athro David Miall Edwards, safon a chyfraniad yr Aelodau Seneddol Rhyddfrydol Cymreig. Disgrifiodd gyflwr gwleidyddiaeth Cymru fel: ‘[The] piteous impotence and fruitlessness [of Welsh politics].’ Nododd hefyd am yr Aelodau Seneddol Cymreig: ‘The so-called Welsh party seems to me to be nothing but a loose aggregation of individuals, and not a coherent body with a definite programme and policy.’⁹⁶³ Gwelwyd cefnogaeth hefyd gan yr Henadur John M. Howell, Aberaeron, yn ogystal â’r Parchedig Thomas Morgan, Sgiwen, a’r Parchedig W. F. Phillips, Lerpwl, gyda Phillips yn disgrifio’r Aelodau Seneddol Cymreig fel: ‘political parasites and party flunkeys’.⁹⁶⁴

Carfan Rhyddfrydol Cymru yn San Steffan oedd testun dicter nifer, gan gynnwys y Bargyfreithiwr o Gaerdydd, J. A. Lovat-Fraser, a ddadleuodd mai cynrychiolaeth gyfrannol

⁹⁵⁹ ‘Notes of the Month’, *Welsh Outlook*, Mawrth 1918, 72; ‘Notes of the Month’, *Welsh Outlook*, Ebrill 1918, 108.

⁹⁶⁰ ‘Notes of the Month’, *Welsh Outlook*, Mai 1918, 141, 142.

⁹⁶¹ ‘Notes of the Month’, *Welsh Outlook*, Chwefror 1918, 36.

⁹⁶² ‘View of Representative Welshmen’, *Welsh Outlook*, Chwefror 1918, 47.

⁹⁶³ ‘View of Representative Welshmen’, *Welsh Outlook*, Chwefror 1918, 47.

⁹⁶⁴ ‘View of Representative Welshmen’, *Welsh Outlook*, Chwefror 1918, 47-48.

oedd yr angen mwyaf yng Nghymru yn hytrach nag ymreolaeth. Disgrifiodd ef y rhan fwyaf o Aelodau Seneddol Rhyddfrydol Gymreig yn ‘absolutely useless’. Roedd Lovat-Fraser o’r farn:

The introduction of a solid body of Welsh Nationalist Conservatives into the House of Commons would make an amazing and marvellous difference in putting an end to Liberal slackness and in securing attention for Welsh business.⁹⁶⁵

I’r Bedyddiwr, y Parchedig Gwilym Davies, Y Fenni, roedd Rhyddfrydwyr Cymreig San Steffan wedi bod yn ‘absolutely criminal’ yn eu diffyg ymroddiad i anghenion Cymru. Dyma awgrym hallt, felly, o’r newid mewn agwedd tuag at y Rhyddfrydwyr o gymharu â’u llwyddiant ysgubol yn etholiadau 1906 pan enillwyd 33 allan o 34 sedd etholiadol. Ysgrifennodd: ‘It is time that a movement be set on foot to blot out the stigma which rests upon the political representatives of the Principality.’⁹⁶⁶ Gellid dehongli hyn fel dadrithiad gyda David Lloyd George ei hun, yn ogystal â’r Rhyddfrydwyr fel carfan wleidyddol. Ystyriodd y Parchedig Hugh Michael Hughes, golygydd papur yr Annibynwyr, *Y Tyst*, effeithiolrwydd Aelodau Seneddol Cymru: ‘[There has been a] total lack of cohesion and of collective responsibility and action’. Daeth Hughes i’r casgliad:

There can be no doubt that the feeling of Wales is ripe for an attempt at drastic reform, and the great political upheavals and disruptions that are imminent will give it an opportunity to convert this feeling into fruitful action.⁹⁶⁷

Mewn ymateb arall, ni welodd William Lewis, cyn-ymgeisydd Rhyddfrydol Sir Faesyfed unrhyw ragolygon am sefydlu Plaid Genedlaethol Gymreig, ond mynegodd ei gefnogaeth i fwy o ddatganoli serch hynny: ‘I see no reason why Wales should not straightaway claim and obtain similar privileges to those enjoyed by Scotland.’⁹⁶⁸ Gan fynegi barn sefydliadol y Methodistiaid Calфинаidd, nododd Ysgrifennydd Cymdeithas Methodistiaid Calфинаidd De Cymru, y Parchedig W. D. Rowlands: ‘I gladly welcome any effort put forward to create a *real* Welsh party, one which would wield an influence in the House of Commons similar to that wielded by the Irish party.’⁹⁶⁹ Er yn amrywio rywfaint yn eu cefnogaeth i ymreolaeth, roedd teimlad cryf ymysg yr ymatebion fod y Rhyddfrydwyr Cymreig yn San Steffan wedi bod yn fethiant i achosion Cymru. Cynrychiola’r drafodaeth hon ym mis Chwefror 1918 gyfraniad pwysig i’r

⁹⁶⁵ ‘View of Representative Welshmen’, *Welsh Outlook*, Chwefror 1918, 47.

⁹⁶⁶ ‘View of Representative Welshmen’, *Welsh Outlook*, Chwefror 1918, 48.

⁹⁶⁷ ‘View of Representative Welshmen’, *Welsh Outlook*, Chwefror 1918, 48.

⁹⁶⁸ ‘View of Representative Welshmen’, *Welsh Outlook*, Chwefror 1918, 47.

⁹⁶⁹ ‘View of Representative Welshmen’, *Welsh Outlook*, Chwefror 1918, 47.

ddadl am ymreolaeth Gymreig yn ystod y rhyfel, gan ddangos yn glir y dyheu am newid er mwyn addasu i'r byd newydd.

Cydnabyddiaeth wleidyddol ar yr un llwyfan â gwledydd eraill yr Ymerodraeth Brydeinig oedd y nod. Roedd balchder imperialaidd yn rhan o'r hunaniaeth hon, fel y dangoswyd gan eiriau Henry Lewis, Rhingyll ar y pryd yn y Gwarchodlu Cymreig yn Ffrainc, yn 1916. Ysgrifennodd Lewis yn *Y Beirniad*: 'Wrth fod yn deyrngarol i Gymru, cyfrannant felly at gyfoeth parhaol yr Ymerodraeth, a thrwy hynny at olud goreu'r byd.'⁹⁷⁰ Argyhoeddwyd Lewis fod y Cymry 'yn perthyn i genedl a eill gyfrannu'n gyfoethog at gadarnhau'r Ymerodraeth fwyaf rhyddfrydig, fwyaf byw, a fu erioed dan haul.'⁹⁷¹ Roedd golygydd y *Welsh Outlook* hefyd o'r farn hon. Dadleuodd Thomas Jones yn 1916 fod rhyddid yn hanfodol i'r ymerodraeth, gan nodi: 'the future hope for freedom lies in the growth of this form of association.'⁹⁷² Un a grisialodd yr agwedd hon, tra ar yr un pryd yn gefnogol iawn i ymreolaeth Gymreig, oedd yr Aelod Seneddol Rhyddfrydol, W. Llewelyn Williams. Yn gyn-aelod o Cymru Fydd, daeth Williams yn fwy anghyfforddus gyda rhan Prydain yn y rhyfel, ond nid oedd yn anwadal ei gred yn nerth a phwrpas yr ymerodraeth. Ym mis Hydref 1914, esboniodd ei syniadaeth:

Diolchaf, er trymed fy nghalon wrth feddwl am echryslonrwydd rhyfel, i mi gael byw i weled cenedloedd yr Ymerodraeth Brydeinig yn sefyll i fyny, galon wrth galon, fel un gŵr yn y rhyfel ysbrydol hwn! – y Boer dewr fu'n ymladd yn ein herbyn ddeuddeng mlynedd yn ôl, yr Indiad sydd eto'n cael ei dywys gerfydd ei law gan y *sahib* estronol, y Sais a'r Cymro, yr Ysgotyn a'r Gwyddel, – oll yn cyduno i ymladd dros *this power, This Empire, that with all her faults and sins, Loves justice, and loves mercy, and loves truth When truly she beholds them.*⁹⁷³

Roedd Williams eisoes wedi gwrthwynebu Rhyfel y Böer, a dim ond wedi i'r Almaen ymosod ar Wlad Belg y rhoddodd ei gefnogaeth i'r rhyfel presennol. Yn ei ysgrif ar gychwyn y rhyfel, dangosodd Williams ei falchder yng nghaneddloedd yr Ymerodraeth, ynghyd â'r ysfa i weld Cymru yn perthyn i deulu o genhedloedd.

Sylwebydd mwy radical ar genedligrwydd Cymreig adeg y rhyfel oedd y llenor a'r ysgolhaig, T. Gwynn Jones, a gyfrannodd yn gyson i'r *Deyrnas*. Gwelodd Jones y rhagrith ymhlyg yng ngweithredoedd Prydain, a oedd yn honni brwydro dros ryddid a hawliau cenedloedd bychain. Dangosodd Jones sut roedd ymgyrchoedd a mentrau ymerodraethol yn llethu cenedligrwydd

⁹⁷⁰ 'Gwladgarwch ac Ymerodraeth', *Y Beirniad*, Gaeaf 1916, 222.

⁹⁷¹ 'Gwladgarwch ac Ymerodraeth', *Y Beirniad*, Gaeaf 1916, 222.

⁹⁷² 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Mawrth 1916, 76.

⁹⁷³ 'Y Rhyfel', *Y Beirniad*, Hydref 1914, 162.

ac yn bennaf gyfrifol am gychwyn y rhyfel. Meddai Jones am ymerodraeth: 'Lle bo'r syniad hwnnw gryfaf; lle bo'i derfynau a'i awdurdod helaethaf; dyna lle bydd gwraidd perigl mwyaf y byd.'⁹⁷⁴ Roedd Jones yn eithriad fodd bynnag. Yn y Wasg Gymreig roedd delfrydau imperialaidd yn amlwg. Serch hyn, dangosodd y cylchgrawn gwrth-rhyfel, *Y Deyrnas*, gefnogaeth i ymreolaeth Gymreig mor gynnar â mis Hydref 1916. Gan grybwyll digwyddiadau'r Iwerddon o'r Pasg hwnnw, beirniadwyd 'y Gwyddyl' am ei ddulliau milwriaethus ond rhoddwyd cefnogaeth egwyddorol i'w hachos. Yn hytrach na brwydro â arfau credodd y golygydd, Thomas Rees, fel heddychwyr, 'mai trwy foddion moesol ac ysbrydol, trwy gyfathrach a rheswm a chydweithrediad y caiff Cymru ei rhyddid o fewn y Deyrnas Gyfunol, ac y cyflawna ei chenhadaeth i'r byd.'⁹⁷⁵ Yn yr un ysgrif gobeithiodd Rees y gallai Cymru osod esiampl i weddill y byd drwy arwain fel 'gwlad y breintiau mawrion' cyn parhau i awgrymu fod 'gyfran arbennig [gan Gymru] i ddwyn Teyrnas Dduw i fewn i'r byd.'⁹⁷⁶ Ystyriodd Rees fod gan Gymru gennad arbennig yn y byd newydd ac ni wyrodd ei weledigaeth o'r ymgyrch wleidyddol chwaith gan iddo gyfeirio at ymreolaeth fel 'cyfiawnder' yn ystod misoedd olaf y rhyfel.⁹⁷⁷

Er yn farn gyffredin yn y Wasg Gymreig, nid pawb oedd yn gefnogol i ymreolaeth Gymreig. Gwelwyd gohebiaeth nodedig yn y *Welsh Outlook* yn 1918 rhwng dau fargyfreithiwr, William Watkin Davies a John Arthur Price. Gan dalu teyrnged i O. M. Edwards, ystyriodd Davies fod gwedd ymwybyddiaeth genedlaethol wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar ac a oedd yn barhad o syniadaeth Thomas Charles ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ysgrifennodd Davies:

Men like Thomas Charles in the religious world, Dr. Lewis Edwards in the field of education, Sir Owen M. Edwards in literature, and Tom Ellis in politics, apostles of a new culture, awakened the dormant national consciousness.⁹⁷⁸

Serch hyn, ni welai Davies mai dilyn llwybr ymreolaeth lywodraethol oedd y nod. Roedd annibyniaeth ddiwylliannol o fewn y drefn gyfansoddiadol bresennol yn bodloni'r awch cenedlaetholgar. Yn sôn am yr 'Irish ulcer' yn cael ei ddatrys drwy gynnig ymreolaeth, gofynnodd Davies: 'But does it follow that [Home Rule] is likewise the best policy for Wales?'⁹⁷⁹ Roedd hyn yn gyson gyda daliadau diweddarach Davies fel golygydd y *Welsh*

⁹⁷⁴ 'Cenedligrwydd', *Y Deyrnas*, Mawrth 1917, 4.

⁹⁷⁵ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Hydref 1916, 2.

⁹⁷⁶ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Hydref 1916, 2.

⁹⁷⁷ 'Egwyddorion ac Amgylchiadau', *Y Deyrnas*, Mehefin 1918, 2.

⁹⁷⁸ 'Nationality and Home Rule', *Welsh Outlook*, Ionawr 1918, 21.

⁹⁷⁹ 'Nationality and Home Rule', *Welsh Outlook*, Ionawr 1918, 21.

Outlook rhwng 1925 a 1927.⁹⁸⁰ Gan anghytuno â sawl llais o fewn y Wasg Gymreig, gofynnodd Davies: 'The question arises whether, assuming the full development of the nation to be the great aim, political autonomy is necessary to enable us to achieve our purpose.'⁹⁸¹ Ymatebodd John Arthur Price i erthygl Davies yn rhifyn mis Ebrill. Anghytunodd Price gyda disgrifiad Davies o'r Alban fel cenedl, 'in the best and fullest sense of the term'.⁹⁸² Roedd cyflwyno'r Alban fel model i Gymru yn gamarweiniol oni bai fod ganddi senedd yn deddfu. Heb sicrhau senedd lywodraethol o fewn eu ffiniau, ni ellid ystyried yr Alban a Chymru fel cenedloedd 'llawn'. Meddai Price: 'I feel that Mr. Davies' fascinating, but (as I hold) untrue picture of Scotland past and present, may make some of your readers think that Welsh nationalism can flourish without Welsh autonomy.'⁹⁸³ Gorffennodd ei erthygl yn gadarn ei farn:

Either Welsh Nationalism must follow the light with the other little nationalities of Europe and secure political self expression within the Empire or it must accept the view of Lord Hugh Cecil that there is no such thing as Welsh Nationality, only an amiable county sentiment. There is no third way.⁹⁸⁴

Ymatebodd Davies yn brydlon mewn llythyr yn rhifyn mis Mai. Datganodd Davies nad oedd yn gwrthwynebu ymreolaeth ond yn hytrach ceisiodd esbonio nad oedd deddfwrfeydd yn hanfodol i gynnal bywyd cenedlaethol: 'The real things without which the Welsh nation cannot survive at all, are its language, its peculiar institutions (of which Parliament has never been one) its literature, and its culture.'⁹⁸⁵ Argyhoeddiad Davies oedd bod gwareiddiad yn bodoli dim ond ymysg y gwladwriaethau mawr, a'r ymerodraethau mwy. Anghytunodd fod gwladwriaethau bychain yn gallu cynnal gwareiddiad: 'Let us have done with the cant of "small nations." It is but seldom that these have attained a high stage of civilization.'⁹⁸⁶ Gwelwyd atsain o'r delfryd o wareiddiad tan fisoedd olaf y rhyfel felly, gan chwarae rhan bwysig yn y canfyddiadau am ddyfodol gwleidyddol Cymru. Roedd y ddadl rhwng Davies a Price yn y *Welsh Outlook* yn enghraifft arall o sut sbardunodd y rhyfel drafodaeth gyhoeddus ar

⁹⁸⁰ Yn ei nodiadau golygyddol cyntaf ym mis Mehefin 1925 galwodd am ffurfio 'Welsh Party' yn Nhŷ'r Cyffredin, ond heb roi: 'too great a stress on Home Rule – overshadowing other issues – which the *Outlook* considers of more vital and lasting importance.' Rhoddodd hyn straen ar y berthynas rhyngddo a pherchennog y cylchgrawn, David Davies. Ballin, *Welsh Periodicals*, t.68.

⁹⁸¹ 'Nationality and Home Rule', *Welsh Outlook*, Ionawr 1918, 21.

⁹⁸² 'Nationality and Home Rule: A Reply', *Welsh Outlook*, Ebrill 1918, 117.

⁹⁸³ 'Nationality and Home Rule: A Reply', *Welsh Outlook*, Ebrill 1918, 119.

⁹⁸⁴ 'Nationality and Home Rule: A Reply', *Welsh Outlook*, Ebrill 1918, 119.

⁹⁸⁵ 'Correspondence: Nationality and Home Rule: A Rejoinder', *Welsh Outlook*, Mai 1918, 160.

⁹⁸⁶ 'Correspondence: Nationality and Home Rule: A Rejoinder', *Welsh Outlook*, Mai 1918, 160.

ymreolaeth i Gymru. Er yn pleidio hawliau diwylliannol Cymreig, dengys enghraifft Davies nad oedd y gefnogaeth i ymreolaeth yn unfrydol yng Nghymru yn ystod y rhyfel.

Ond os nad oedd y gefnogaeth i ymreolaeth Gymreig yn unfrydol, roedd hi'n sicr yn boblogaidd. Yn ystod cynhadledd yn Llandrindod ym mis Mai 1918 ar ymreolaeth i Gymru, gyda'r mwyafrif yn mynychu yn Rhyddfrydwyr, cytunwyd ar yr egwyddor o ymreolaeth Gymreig. Ond tanseiliwyd y gynhadledd rywfaint gan ddiffyg cynrychiolaeth gan y pleidiau eraill. Dim ond pum cynrychiolydd Llafur a ddewiswyd ar gyfer pwyllgor gweithredol o 30 er enghraifft.⁹⁸⁷ Gan sylwebu ar y gynhadledd flwyddyn yn ddiweddarach wrth i'r teimlad gynyddu na fyddai'r gobeithion Cymreig yn cael eu gwireddu, galwodd y *Welsh Outlook* absenoldeb Llafur yng nghynhadledd Llandrindod yn 'real loss', gan feirniadu'r rheini oedd yn bresennol: '[They] did their best to make the cause, and succeeded in making themselves, ridiculous.'⁹⁸⁸

Serch hyn, ymddengys fod y gefnogaeth i ymreolaeth wedi bod yr un mor gryf yn rhengoedd y Blaid Lafur. Mewn llythyr at y golygydd ym mis Ebrill 1918, ymatebodd David Thomas, Ysgrifennydd Cyngor Llafur a Masnach Gogledd Cymru, i erthygl mis Chwefror 'A Welsh Nationalist'. Er yn anghytuno gyda ffurfio Plaid Genedlaetholgar Gymreig o'r newydd, roedd yn ffyddiog y gallai'r Blaid Lafur ymladd y frwydr genedlaethol dros Gymru.⁹⁸⁹ Yn y rhifyn hwn hefyd ceisiodd y golygydd egluro'r berthynas rhwng y Blaid Lafur a Chymru:

The attitude of Welsh Labourists towards Welsh questions is to all appearances far more sympathetic than that of the adherents of the old Liberal Party who are loud in their protestations of patriotism on election platforms and at eisteddfodau and St. David's Day meetings, but offer only lukewarm support, if not indeed actual hostility, when it is proposed to give practical effect to the aspirations they profess to cherish.⁹⁹⁰

Hefyd yn y rhifyn hwn roedd erthygl ynghyd â chyfres o ymatebion yn trafod perthynas Llafur a Chymru, wrth i awdur yr erthygl, 'G', alw ar y Blaid Lafur yng Nghymru i fynnu hunanlywodraeth.⁹⁹¹ Dilynodd ymatebion gan ddeg unigolyn â chysylltiadau gyda'r Blaid

⁹⁸⁷ Andrew Edwards and Wil Griffith, 'Welsh national identity and governance, 1918–45' yn Duncan Tanner et al. (gol.) *Debating Nationhood and Government in Britain, 1885–1939: Perspectives from the four nations* (Manchester, Manchester University Press, 2006), t.125.

⁹⁸⁸ 'The Conference and Nationalism', *Welsh Outlook*, Gorffennaf 1919, t.168. Anodd hefyd oedd ffurfio consensws ynghylch cyfansoddiad a lleoliad senedd i Gymru. Am drafodaeth o'r berthynas rhwng Llafur a'r Rhyddfrydwyr ynghylch y cynadleddau yma, gweler Edwards and Griffith, 'Welsh national identity', tt.123-127.

⁹⁸⁹ 'The Political Future of Wales', *Welsh Outlook*, Ebrill 1918, 112.

⁹⁹⁰ 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Ebrill 1918, 108.

⁹⁹¹ 'Labour and Welsh Autonomy', *Welsh Outlook*, Ebrill 1918, 113-14.

Lafur a Ffederasiwn Glowyr De Cymru. Un thema yn eu hymatebion oedd y syniad o ryngwladoldeb fel ymgyrch hirdymor y Blaid Lafur i drefnu dosbarthiadau gweithiol cenedloedd gwahanol. Fel eglurodd Evan James, Trefnydd Undeb Gweithwyr Adran Abertawe: 'I believe heart and soul in the International, but that can never be anything but a name until the individual nations have first worked out their own redemption.'⁹⁹² Ond i'r Parchedig Herbert Morgan, Ymgeisydd Llafur ar gyfer Castell-nedd, roedd cymodi'r rhyngwladoldeb gyda'r cenedlaethol yn drafferthus ac nid oedd ef yn barod i weld achosion rhyngwladol y Blaid Lafur yn cael eu tanseilio drwy ganolbwyntio ar achosion cenedlaethol Cymreig. Gwelodd Morgan broblemau eraill i'w datrys fel blaenoriaeth: 'I feel with your correspondent that political wire-pulling, the pernicious activities of a commercialized press, and an unenlightened bureaucracy are the chief evils to be fought.'⁹⁹³ Dyma hefyd oedd barn E. P. Harris, Ysgrifennydd Plaid Lafur Sir Benfro, yn ei lythyr i'r *Welsh Outlook* ym mis Mai.⁹⁹⁴ Serch hyn, casglodd Harris na ddylai Llafur wrthwynebu hunanlywodraeth Cymreig os oedd y galw yn bodoli, ond pwysleisiodd, fel Herbert Morgan, mai'r tirlun ryngwladol ehangach oedd y llwyfan gwleidyddol pwysicaf, lle gallai'r Blaid Lafur fagu nerth a hyder o'i chysylltiadau â rhwydweithiau tramor.

Ac eithrio Morgan a Harris, roedd gweddill yr ymatebion ar y cyfan o blaid awgrymiadau 'G' yn annog y Blaid Lafur i alw am hunanlywodraeth i Gymru, gan gynnwys Trysorydd a darpar arweinydd y Blaid, Ramsay MacDonald. Roedd y syniad yn plethu mewn i egwyddorion ehangach y rhyfel, fel nododd John James, Cwmgors, asiant glowyr Ffederasiwn Glowyr De Cymru:

The Labour Party, with its enhanced power under the revised constitution, should adopt the principle of Home "Rule" in the form of Local Regional Autonomy to all races within the "United" Kingdom as well as outside. This will certainly enforce the common cry in these days of "self determination" of the different nationalities, and lead towards the formation of an "United States" of Europe.⁹⁹⁵

Cyhoeddwyd yn rhifyn nesaf y *Welsh Outlook* fwy o lythyrau gan gefnogwyr ac aelodau Llafur yn ymateb i erthygl gan 'G', 'Labour and Welsh Autonomy'. Roedd un o'r llythyrau gan George Lansbury, golygydd y *Daily Herald*, a chyn Aelod Seneddol Bow and Bromley. Ysgrifennodd Lansbury ar safbwynt Llafur ar y pwnc: 'I think Labour ought to stand for the

⁹⁹² 'Comments of Welsh Labour Men & Others', *Welsh Outlook*, Ebrill 1918, 115.

⁹⁹³ 'Comments of Welsh Labour Men & Others', *Welsh Outlook*, Ebrill 1918, 116.

⁹⁹⁴ 'Labour and Welsh Autonomy', *Welsh Outlook*, Mai 1918, 150.

⁹⁹⁵ 'Comments of Welsh Labour Men & Others', *Welsh Outlook*, Ebrill 1918, 115-16.

right of all nationalities to develop their own lives in their own way, but I am also a federalist.’⁹⁹⁶ Rhyngwladoldeb oedd pwyslais Lansbury, gan osod Cymru yng nghyd-destun ehangach yr Ymerodraeth a’r byd:

Our Empire must be turned into a commonwealth of free nations. By so doing prove our willingness to live up to the professions we are making in connection with the War, viz., that Britain desires all nations great and small to have and enjoy the full right of self-determination.⁹⁹⁷

Un arall a ysgrifennodd i’r *Welsh Outlook* oedd y Cynghorydd, Morgan Jones, ymgeisydd Seneddol y Blaid Lafur Annibynnol yng Nghaerffili: ‘It would be preferable that Welsh Home Rule should be granted as part of a general scheme of Home Rule for all four countries in the British Isles.’⁹⁹⁸ Llwyddodd Jones i grybwyll yr angen dros ail-lunio cymdeithasol a dadlau hefyd dros ddemocrateiddio’r Ymerodraeth:

Home Rule should now be within the bounds of practical statesmanship. The Welsh Labour movement should bestir itself about the matter, for it can be satisfied with nothing short of the complete democratisation of the machinery of government.⁹⁹⁹

Tebyg hefyd oedd barn D. D. Davies, aelod Llafur, Cyngor Sir Forgannwg, a Chadeirydd Adran Glowyr, Gwaun-Cae-Gurwen, a welai hunan-lywodraeth i Gymru fel cynnydd naturiol: ‘The extension of the Franchise has given Labour a new opportunity, and if Wales were only given self-determination as well we could hope for some real progress.’¹⁰⁰⁰ Roedd Davies hefyd yn feirniadol iawn o’r Rhyddfrydwyr Cymreig ac yn teimlo eu bod wedi anwybyddu anghenion gwleidyddol Cymru yn ystod eu degawdau fel aelodau seneddol:

Apparently [Welsh Liberals] have been enthusiastic supporters of Home Rule for Ireland, but their apathy and unconcern regarding Wales’s claim to self-government has amounted to a political betrayal of public trust. Their devotion to party and individual party leaders has been immensely greater than their loyalty to “gallant little Wales.”¹⁰⁰¹

Gan sylwebu ar gost a gobeithion ymreolaeth, eglurodd Davies: ‘no labour or sacrifice would be too great, no hopes and aspirations too extravagant.’¹⁰⁰² Ond mentrodd ofyn a oedd y galw yn bodoli ymysg y bobl, gan awgrymu efallai mai tacteg wleidyddol oedd yr ymgyrch a

⁹⁹⁶ ‘Labour and Welsh Autonomy’, *Welsh Outlook*, Mai 1918, 149.

⁹⁹⁷ ‘Labour and Welsh Autonomy’, *Welsh Outlook*, Mai 1918, 149.

⁹⁹⁸ ‘Labour and Welsh Autonomy’, *Welsh Outlook*, Mai 1918, 149.

⁹⁹⁹ ‘Labour and Welsh Autonomy’, *Welsh Outlook*, Mai 1918, 150.

¹⁰⁰⁰ ‘Labour and Welsh Autonomy’, *Welsh Outlook*, Mai 1918, 150.

¹⁰⁰¹ ‘Labour and Welsh Autonomy’, *Welsh Outlook*, Mai 1918, 150.

¹⁰⁰² ‘Labour and Welsh Autonomy’, *Welsh Outlook*, Mai 1918, 150.

ddefnyddiwyd gan Lafur i danseilio'r Rhyddfrydwyr. Yn wir, ym mis Mehefin 1918, cynhwyswyd 'Home Rule All Round' ym maniffesto'r Blaid Lafur, tra gwelwyd pleidlais unfrydol yn Ffederasiwn Llafur y De dros drefn ffederal ym Mhrydain.¹⁰⁰³

I bob pwrpas, roedd y gefnogaeth dros ymreolaeth i Gymru yn gryf ymysg y deallusion erbyn diwedd y rhyfel. Er gwaethaf y lleisiau a wrthwynebai'r rhyfel, ymfalchiodd nifer yn y rhan a chwaraewyd gan Gymru, yn eu tyb nhw, i warchod hawliau cenhedloedd bychain ac i amddiffyn delfrydau moesol gwareddiad. Haeddiant Cymru oedd hunanlywodraeth, a hawlio'i lle ar y llwyfan rhyngwladol fel aelod o Gynghrair y Cenhedloedd. Mewn amser o ing ac argyfwng, daethai Cymru i'r adwy. Â'r rhyfel yn dod i ben, ni welir yr argyhoeddiad hwn yn gliriach yn unman nag yn sylwadau O. M. Edwards ym mis Rhagfyr 1918:

Deffry cân angylion ym mywyd y Cymry. Ni aberthodd un genedl fwy;
ni ddyhea yr un genedl yn fwy am dangnefedd; ni chyfunodd neb mor
drylwyr barodrydd i ymladd dros ryddid ac ewyllys da i ddynion.¹⁰⁰⁴

Diwedd glo

Cynyddodd y drafodaeth ar ymreolaeth i Gymru dros amser, ac yn sylweddol o 1917 ymlaen wrth i ddigwyddiadau'r rhyfel siglo'r gydwybod Gymreig. Erbyn mis Mai 1918 roedd ymreolaeth Gymreig yn bwnc canolog, ac yn enwedig yn y *Welsh Outlook* bu ymatebion a gohebiaethau gan aelodau blaenllaw'r gymuned ddeallusol Gymreig. Er bod nerth y gefnogaeth i ymreolaeth yn y Wasg wedi amrywio, roedd y teimlad yn unfrydol y byddai math newydd o wleidyddiaeth yn dod i'r amlwg yn dilyn y rhyfel a byddai angen addasu safle Cymru i gwrdd ag anghenion y byd newydd.

Roedd y delfrydau rhyfel ynghylch 'rhyddid' a 'gwareddiad' yn aml yn weledol yn *nhopos* ymwybyddiaeth Gymreig y rhyfel. Yn sgil chwyldro Rwsia, daeth rhyddid yn gysyniad nerthol unwaith eto yn y Wasg Gymreig wrth i ddelfryd a oedd o bosib yn amwys ei diffiniad bellach gael ei fesur mewn digwyddiadau a geisiai ryddfrenio'r werin. Felly hefyd yn achos dehongliadau o wrthryfel Iwerddon gydag elfennau o'r Wasg Gymreig yn cysylltu gobeithion y gwrthryfelwyr gyda rhyddid. Yn yr un modd ag y llwyddodd Gwlad Belg a Serbia, profodd yr Iwerddon hefyd yn enghraifft a ysgogodd ystyriaeth i statws Cymru, yn enwedig parthed y cyfiawnhad o warchod hawliau cenhedloedd bychain. Wedi'i hybu gan ddigwyddiadau yn

¹⁰⁰³ Davies, *Hanes Cymru*, t.103.

¹⁰⁰⁴ 'I Ddynion Ewyllys Da', *Cymru*, Rhagfyr 1918, 162.

Iwerddon a Rwsia, ymddangosodd diwygio cyfansoddiadol ar sail ffederaliaeth yn anochel i sawl un.

Yn ei dro, ac yn sgil cynlluniau Cynghrair y Cenhedloedd, daeth rhoi ystyriaeth wleidyddol i'r dyfodol yn ffocws i olygyddion y Wasg yng Nghymru. Datblygwyd cyflwyniad penodol Cymreig yn y Wasg i gyd-fynd â'r naratif ehangach Ewropeaidd o ryfel sanctaidd a rhyfel i amddiffyn gwareiddiad. Gyda'i gilydd, cyflwynodd y themâu hyn y syniad o newid sylweddol i fywyd yng Nghymru yn dilyn y rhyfel, ond gyda'r gobaith y byddai gan Gymru rôl flaenllaw i'w chwarae ar y llwyfan rhyngwladol fel aelod o Gynghrair y Cenhedloedd.

Casgliadau

Mae'r traethawd hwn wedi dangos y gwahanol ffyrdd y rhoddwyd ystyr i'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru. Drwy dynnu ar destunau'r Wasg, amlygwyd y ffyrdd y cyfrannodd carfan ddeallusol Cymru i brofiad rhyfel y genedl. Gan ystyried diffiniadau Leonard Smith, Stéphane Audoin-Rouzeau, ac Annette Becker o ddiwylliant rhyfel, gwelir y ffyrdd y datblygodd profiad Cymru o'r rhyfel yn nhudalennau'r Wasg.¹⁰⁰⁵ Fel cydran allweddol o'r gymdeithas sifil, chwaraeodd y Wasg ran bwysig yng nghyflwyniad y rhyfel yng Nghymru, gan lunio fframwaith syniadol i'r cyfnod. Wrth wneud hynny, gyrrwyd proses o gyfreithloni gwerthoedd a delfrydau diwylliannol, gan hwyluso ymdrechion y wladwriaeth i ennyn cefnogaeth i'r rhyfel. Fel esbonia John Horne, yn ystod yr ysgogi ar gyfer y rhyfel, magwyd teimladau o gymunedau cenedlaethol, a'r gymdeithas sifil yn chwarae rhan bwysig wrth dyrru at yr achos cenedlaethol.¹⁰⁰⁶

Dadleuir eisoes bod *topos* diwylliannol Ewropeaidd i'r rhyfel wrth i ddiwylliant dominyddol ledled Ewrop gynnig cefnogaeth i'r achos cenedlaethol ar gychwyn y rhyfel.¹⁰⁰⁷ Cyflwynwyd y rhyfel, fel y gwnaethpwyd yn y Wasg Gymreig, yn aml fel un i amddiffyn gwareiddiad. Roedd hyn yn syniad nerthol ymysg deallusion Ewrop, fel y dadleua Alan Kramer ac eraill. Dengys ef y ffordd yr ymdrechodd ysgolheigion ymysg y Cynghreiriad i gyfleu'r ddelwedd fod y rhyfel, yn ogystal â bod yn un milwrol ar faes y gad, hefyd yn un diwylliannol i'w hamddiffyn rhag *Kultur* yr Almaen.¹⁰⁰⁸ I'r gwrthwyneb yr oedd syniadau yn yr Almaen, lle plediwyd goruchafiaeth y diwylliant Almaenaidd dros wareiddiad gorllewinol a'i unigoliaeth faterol.¹⁰⁰⁹ Dyma gorff gymharol ddiweddar ym maes hanesyddiaeth ryngwladol y Rhyfel Byd Cyntaf, un sydd wedi tyfu'n raddol ers y 'tro diwylliannol'.¹⁰¹⁰

Cyfranna'r traethawd hwn i'r maes yma drwy archwilio rôl y Wasg yng Nghymru fel hwylusydd i fynegiant diwylliant rhyfel. Yn achos Cymru, fel un o gydrannau Prydain, adlewyrchwyd yn y Wasg nid yn unig y *topos* diwylliannol Ewropeaidd, ond hefyd yr ymlyniad

¹⁰⁰⁵ Smith, Audoin-Rouzeau, Becker (gol.), *France and the Great War*, t.xv.

¹⁰⁰⁶ Horne, 'Introduction: mobilizing for "total war"', t.2.

¹⁰⁰⁷ Kramer, *Dynamic of Destruction*, 175.

¹⁰⁰⁸ Kramer, *Dynamic of Destruction*.

¹⁰⁰⁹ Wolfgang J. Mommsen, 'German intellectuals and the meaning of war', yn Horne (gol.), *State, society and mobilization*, t.34.

¹⁰¹⁰ Yn ychwanegol i waith Kramer, gweler astudiaeth ffurfiannol Winter, *Sites of Memory*, yn ogystal â chyfrolau Horne (gol.), *State, society and mobilization*; Horne (gol.), *A Companion to World War I*; a Winter (gol.), *The Cambridge History* am ddetholiad o'r hanesyddiaeth hwn.

imperialaidd Prydeinig. Cefnoga hyn rhan o hanesyddiaeth y rhyfel a ddadleua fod y Rhyfel Byd Cyntaf wedi cryfhau'r ymdeimlad o Brydeindod, boed yn uniongyrchol ai peidio.¹⁰¹¹ Ond yn ogystal â hyn, gwelwyd gwedd neilltuol Gymreig i'r diwylliant rhyfel o ran dyfodol cymdeithas a gwleidyddiaeth y genedl. Wrth ysgogi'r boblogaeth o blaid y rhyfel, meithrinwyd cenedlaetholdeb gwleidyddol Cymreig ac amlygwyd cefnogaeth gynyddol i ymreolaeth i Gymru erbyn diwedd y rhyfel.

Pan anerchodd David Lloyd George Gymdeithas Gymry Llundain ar 19 Medi, 1914, mewn ymgais i hybu recriwtio i'r fyddin, cyfeiriodd at rai o'r milwyr oedd eisoes wedi cael eu lladd ym mis agoriadol y rhyfel. Roedd naws ysbrydoledig i'r hyn a ddywedodd Lloyd George wrth iddo gyflwyno gweledigaeth o fyd newydd yn dyfod:

Some have already given their lives. There are some who have given more than their lives, they have given the lives of those who are dear to them. They have taken their part in the making of a new Europe – a new world. I can see signs of it coming through the glare of the battlefield.¹⁰¹²

Roedd geiriau Lloyd George yn ystod yr wythnosau cyntaf hynny yn broffwydol. Datblygodd cred ymysg deallusion Cymru fod y rhyfel yn ddigwyddiad a fyddai'n gwednewid cymdeithas, gan blannu'r hedyn i drefn ryngwladol newydd gyda rôl benodol i Gymru. Dengys y traethawd hwn y gwahanol ffyrdd y datblygwyd y thema hon, gan gychwyn gyda dadansoddiad o gyflwyniad Argyfwng Gorffennaf yn haf 1914 hyd nes dyddiau olaf y rhyfel ym mis Tachwedd 1918.

Gosodwyd seiliau cynnar y diwylliant rhyfel Cymreig yn ystod Argyfwng Gorffennaf. Dangosir na ddaeth cyflwyno'r Argyfwng yn flaenoriaeth i bapurau Cymru tan ddyddiau olaf mis Gorffennaf wrth i faterion Iwerddon hawlio'r sylw tan hynny. Er bod hyn yn tanseilio'r syniad bod brwdfrydedd dros y rhyfel yn bodoli ar drothwy'r gwrthdaro, derbyn yr anochel fu safbwynt y papurau Cymreig erbyn 4 Awst a dim ond yn y dyddiau olaf y gwelwyd cefnogaeth i ymyrraeth Brydeinig. Yn arwyddocaol, amlygwyd delfrydau penodol yn y modd y cyflwynwyd yr Argyfwng. Daeth 'anrhydedd' a 'dyletswydd' yn rhan o'r drafodaeth yn areithiau Tŷ'r Cyffredin a darnau golygyddol y papurau newydd. Gwelwyd hefyd rethreg ganoloesol am Diwtoniaid yn gwrthdaro gyda Slafiaid cyntefig, tra tynnwyd ar gyfeiriadaeth

¹⁰¹¹ Sonia Kenneth O. Morgan er enghraifft am achos ymreolaeth Gymreig yn cael ei ailgynnau rywfaint yn y blynyddoedd cyn y rhyfel, dim ond i'r Rhyfel Mawr ddiffodd diddordeb yn y pwnc. Morgan, *Wales in British Politics*, t.259. Gweler hefyd Lloyd, 'Welsh Public Opinion'; Robbins, *Nineteenth-Century Britain*; Reynolds, *The Long Shadow*.

¹⁰¹² Dyfynnwyd yn *The North Wales Chronicle*, 25 Medi 1914, 2; *Y Cymro*, 30 Medi 1914, 11.

Feiblaidd i gyflwyno cychwyn ‘Armagedon’. Daeth ieithwedd neilltuol i’r amlwg, felly, wrth gyflwyno’r Argyfwng, un a fyddai’n parhau wedi i’r rhyfel gychwyn.

Yn ystod y rhyfel, cynhyrchwyd disgysau crefyddol a moesol cryf gan ddeallusion Cymru ynghylch ystyr a phwrpas y rhyfel. A chrefydd yn ffurfio ffrâm syniadol, rhoddwyd ystyriaeth ddwys i broffwydoliaeth, iachawdwriaeth, a dyfodiad oes newydd, lle chwaraeid rôl ganolog gan Gristnogaeth. Daeth Armagedon yn syniad nerthol a phoblogaidd i gyfleu dinistr y rhyfel hefyd. Ymhlyg ac yn aml yn glir yn y wedd grefyddol yr oedd y syniad bod y rhyfel yn sanctaidd ac felly yn gyfiawn, er gwaethaf gwrthwynebiad yn ysgrifau’r *Deyrnas a Seren Gomer*. Fodd bynnag, nid dim ond yng Nghymru y gwelwyd crefydd fel un o ystyron y rhyfel. Roedd hi’n rhan ganolog o ddiwylliant rhyfel pob gwlad, yn adlewyrchu un o hanfodion cymdeithas y cyfnod. Yn wir, ffurfia crefydd ran sylweddol o hanesyddiaeth ryngwladol y rhyfel.¹⁰¹³ Heb os, yr oedd deallusion Cymru yn y Wasg Gymreig yn priodoli gwerthoedd crefyddol i’r ymdrech ryfel. Drwy wneud hyn, daeth y gynulleidfa Gymreig i rannu un o ddelwrydau cyffredin y Cynghreiriaid wrth i ddelweddau a dysgeidiaeth Gristnogol gynnig ffrâm syniadol i ddirnad y rhyfel, boed o’i blaid neu yn ei erbyn.

Fel cylchgrawn a sefydlwyd yn 1916 i wrthwynebu’r rhyfel ar seiliau Cristnogol, daeth *Y Deyrnas* yn ganolog i’r drafodaeth grefyddol, fel y gwnaeth hefyd *Seren Gomer*. Roedd cyfranwyr i’r cylchgronau hyn, megis Thomas Rees, John Puleston Jones, T. Gwynn Jones, Hywel Cernyw Williams, T. E. Nicholas, ac eraill, yn unigolion adnabyddus yn eu cymunedau ac yn cynrychioli maes crefyddol y gymdeithas sifil. Amlygwyd enw Puleston Jones ymhellach wedi iddo wrthdaro â John Williams Brynsiencyn mewn cyfarfod cyhoeddus ym Mhwlheli ym mis Medi 1914. Er gwaethaf ymdrechion y gwrthwynebwyr, datblygwyd canfyddiad o’r rhyfel yn y Wasg Gymreig fel un cyfiawn a sanctaidd. Roedd ysgrifau D. Jones, Ficer Abersoch, yn *Y Geninen* er enghraifft, yn dyst i’r gred yn achos cyfiawn Prydain. I Jones, roedd y rhyfel yn un ‘tros ryddid ac iachawdwriaeth dynolryw!’¹⁰¹⁴ Ceisiodd y Parchedig John Neville Figgis esbonio yn y *Welsh Outlook* fod tarddiad y rhyfel yn deillio o athroniaeth wrth-Gristnogol Friedrich Nietzsche.¹⁰¹⁵ I eraill, fel y Parchedig D. Powell, Lerpwl, a ohebai’n ddiflino gyda golygyddion a chyfranwyr *Seren Gomer*, roedd y rhyfel yn amser i brofi

¹⁰¹³ Gweler er enghraifft Hoover, *God, Germany, and Britain*; Becker, *War and Faith*; Schweitzer, *The Cross and the Trenches*; Burleigh, *Sacred Causes*; Becker, ‘Faith, Ideologies’; Gregory, ‘Beliefs and Religion’; Boniface, *Histoire religieuse*; Jenkins, *The Great and Holy War*; Besier, ‘The Great War and Religion’; Houlihan, *Catholicism and the Great War*; Houlihan, ‘The Churches’; Houlihan, ‘Religious Mobilization’; Paiano, ‘Religious Mobilization’.

¹⁰¹⁴ ‘Cofadail Deilwng i’r Dewrion’, *Y Geninen*, Gorffennaf 1918, 178.

¹⁰¹⁵ ‘Man Versus the Superman’, *Welsh Outlook*, Hydref 1914, 420-22.

‘teyrngarwch i Grist a gwlad’.¹⁰¹⁶ Tynnodd Powell ac eraill ar ddysgeidiaeth Crist i gyfleu’r hyn roedd Prydain – a Chymru – yn ei gynrychioli yn y rhyfel. Ysgrifennodd Powell yn argyhoeddedig yn 1915:

Edrychaf ar wyr ieuainc ein heglwysi sydd yn ymrestru ym myddin eu gwlad yn y dyddiau hyn, fel milwyr da i Iesu Grist. A lywodraethir y milwr ieuanc sydd yn aberthu ei fywyd dros ryddid a iawnderau ei wlad, y gwledydd a dynoliaeth, gan ysbryd y Crist croeshoeliedig? Gwneir yn sicr. Y mae hyd derfynau ei allu ef yn marw dros achubiaeth y byd. Os na ellir cymharu yn deg ei farw ef a marw hunanaberthol Crist, marw pwy a ellir ei gymharu a marw Crist?¹⁰¹⁷

Ystyriwyd rôl Cristnogaeth wedi i’r rhyfel orffen gan y ddwy garfan a gefnogai neu a wrthwynebai’r rhyfel am resymau crefyddol. Adlewyrchai’r Parchedig Pierce Owen y gred ehangach pan nododd mai, ‘colled mawr fydd ennill y frwydr os na fanteisia crefydd arni.’¹⁰¹⁸ Cysidrwyd rôl yr Eglwys a’r rheidrwydd i’w haddasu i anghenion y byd newydd wedi iddi fethu, yn nhyb nifer, yn ei chenhadaeth ddiweddar. Cynigiwyd, fel un ateb, uno’r enwadau er mwyn canoli a chryfhau Ymneilltuaeth. Yn ogystal, gobeithiwyd y gellid sefydlu cymdeithas ‘burach ac iachach’ drwy sefydlu ‘brawdgarwch Cristnogol’.¹⁰¹⁹ Datganwyd yn gyson yr amcanion o ‘ddyrchafu’r’ genedl, a Christnogaeth yn dod yn fwy amlwg yng nghymdeithas y dyfodol. Gellir dehongli hyn hefyd fel Cymru yn ymgodymu â dyfodiad moderniaeth wrth i’r hen fyd gael ei ddisodli gan y newydd. Dyma agwedd a bwysleisiwyd eisoes yn yr hanesyddiaeth, gydag un hanesydd yn disgrifio’r ffordd y cynrychiolai’r rhyfel rwyg yn nhraddodiadau ac arferion y gwledydd oedd yn ymladd fel: ‘the shock of the new’.¹⁰²⁰

Gwelir hefyd sut adlewyrchwyd y *topos* diwylliannol Ewropeaidd yn y Wasg Gymreig wrth i ddeallusion Cymru briodoli egwyddorion moesol a gwaraidd i’r rhyfel. Yn hwylusydd i’r rhethreg hyn roedd David Lloyd George, a gyflwynodd neges o ryfel cyfiawn i amddiffyn y Cynghreiriaid rhag gormes milwrol ac anwaraidd yr Almaen. Daeth delfrydau anrhydedd a rhyddid yn amlwg ym meddylfryd deallusion Cymru, â chreulonderau’r Almaenwyr yng Ngwlad Belg a gogledd Ffrainc ym mis Awst 1914 yn hybu’r ddisgwrs hon, yn ogystal ag ymgyrchoedd propaganda’r Cynghreiriaid. Yn sgîl gweithredoedd yr Almaen, cynyddodd y teimlad mai rhyfel cyfiawn i amddiffyn gwareddiad oedd yn cael ei ymladd. Yn ôl y garfan

¹⁰¹⁶ ‘Teyrngarwch i Grist a Gwlad’, *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 69.

¹⁰¹⁷ ‘Teyrngarwch i Grist a Gwlad’, *Seren Gomer*, Mawrth 1915, 75-76.

¹⁰¹⁸ ‘Rhai O Wersi Y Rhyfel Presennol’, *Y Traethodydd*, Ionawr 1917, 80.

¹⁰¹⁹ ‘Henry Richard: Apostol Heddwch’, *Y Deyrnas*, Ionawr 1917, 5.

¹⁰²⁰ Fred Bridgham, ‘Introduction’, yn Bridgham (gol.), *The First World War*, t.3.

hon, roedd gweithredoedd byddin yr Almaen yn fynegiant ymarferol o ddysgeidiaeth ei hathronwyr amlycaf, yr hyn a olygai fod traddodiadau deallusol yr Almaen yn gyfrifol am y rhyfel. Dyma oedd y gred lethol ymysg deallusion Cymru, megis E. E. Thomas yn y *Welsh Outlook*, a ysgrifennodd: 'It is the thought of [Germany's] greatest thinkers, penetrating into the remotest corners of German life, that has given to the German people their present attitude, and to the German government its present policy.'¹⁰²¹ Dadleuwyd bod dysgeidiaeth Friedrich Nietzsche, Friedrich von Bernhardi, a Heinrich von Treitschke yn gyfrifol am weithredoedd yr Almaen ac am gychwyn y rhyfel. Hanfodolwyd yr Almaen gan ddeallusion Cymru, a charfan y *Junkers* ac ysbryd milwrol Prwsia yn gwyrddroi enaid y wlad honno yn ôl y dadansoddiad hwn. Casglwyd mai pydredd moesol y diwylliant Almaenaidd oedd hyn, yn ychwanegol at wleidyddiaeth absoliwtiaeth y Caisar. Nododd O. M. Edwards yn *Cymru*, er enghraifft, mai 'at yr unigolyn oedd apêl Nietzsche', ac mai 'grym hunanol didrugaredd sydd i ennill y dydd' yn yr Almaen.¹⁰²² Adlewyrchai hyn agweddau ehangach Ewropeaidd y cyfnod, a sawl astudiaeth yn hanesyddiaeth y rhyfel yn dangos y ffyrdd y cyflwynwyd y rhyfel fel gornest ddiwylliannol yn ogystal ag un filwrol.¹⁰²³

Roedd y syniad o ryfel sanctaidd a rhyfel i amddiffyn gwareiddiad felly, yn rhan annatod o'r profiad Cymreig. Roedd hefyd yn rhan o'r ymateb ehangach Prydeinig ac ymateb tebyg ymysg y Cynghreiriaid. O ran eu heffaith, gellir dyfynnu Anne Rasmussen:

The construction of these topoi, however propagandist they were in character, had the effect of reinforcing the cultural unification of the belligerents and of supplying the conflict with founding myths of a war in defence of a territory, but also of a cultural ideal.¹⁰²⁴

Crisialodd E. T. John farn nifer yn ei erthygl i'r *Geninen* yn 1917 wrth honni fod y rhyfel yn gyfle i 'buro'r' genedl. Gan ddisgrifio'r rhyfel fel yr 'Armagedon', fe'i hargyhoeddwyd fod ryw ddaioni i ddod o'r rhyfel:

Rhaid wrth yspryd pybyr a neillduol ffyddiog i gredu fod canlyniadau mor hynod ddaionus yn debyg o ddeilliaw o ddygn drychineb Armagedon. Yn sicr ni fyddai effeithiau llai yn gymesur â ffrwyth aberth a dioddefaint mor ddifedur.¹⁰²⁵

¹⁰²¹ 'Politics and Philosophy in England and Germany', *Welsh Outlook*, Chwefror 1915, 54.

¹⁰²² 'Cwmp yr Almaen', *Cymru*, Chwefror 1915, 106.

¹⁰²³ Kocka, *Facing Total War*; Horne, 'Introduction: mobilizing for "total war"'; Audoin-Rouzeau and Becker, *Understanding the Great War*; Bridgham, 'Bernhardi and "The Ideas of 1914"'; Martin, 'Nietzsche as Hate-Figure'; Kramer, *Dynamic of Destruction*; Becker, 'Faith, Ideologies'.

¹⁰²⁴ Rasmussen, 'Mobilizing minds', t.396.

¹⁰²⁵ 'Effaith y Rhyfel ar Werin y Byd', *Y Geninen*, Gorffennaf 1917, 183.

Roedd y syniad y gallai'r profiad rhyfel lanhau cymdeithas yn un poblogaidd. Gobaith y Parchedig G. Wynne Griffith yn *Y Traethodydd* ym mis Ebrill 1918 oedd mai 'yr adeilad newydd sydd i'w godi wedi y rhyfel mawr ydyw y Jerusalem nefol ar y ddaear.'¹⁰²⁶ Gobeithiwyd am ddyfodol mwy moesol, cyfiawn, a gwaraidd wedi'r rhyfel mewn byd newydd a mwy Cristnogol. Cynhyrfwyd y gydwyt Gymreig ymhellach yn dilyn Gwrthryfel y Pasg, Iwerddon yn 1916, a Chwyldro Rwsia ym mis Mawrth 1917. I sawl un yng nghylchoedd deallusol Cymru, tarddodd eu delfryd rhyfel o 'ryddid' o'r digwyddiadau yma. Daeth undod Gymreig â gwerinoedd Ewropeaidd i wneud rhyddfrefiniad gwerinol yn rhan o'r diwylliant rhyfel.

Gwelwyd sbardun hefyd i'r ymwybyddiaeth genedlaetholgar Gymreig yn y farddoniaeth ryfel helaeth a gyhoeddwyd yn y Wasg. Bu ymdrech i gyflwyno'r rhyfel fel rhyfel Cymreig wrth i brofiadau Gwlad Belg a Serbia gael eu huniaethu â sefyllfa Cymru, ac i ddelfrydau'r rhyfel gael eu mynegi mewn cyfansoddiadau a adfywiodd y traddodiad milwrol Gymreig. Gosodwyd y milwr Cymreig fel arwr moesol, Cristnogol, a chyfiawn y rhyfel, un a ddangosai'r math o egwyddorion y dyhëwyd amdanynt ar gyfer cymdeithas y dyfodol. Yn gynyddol fodd bynnag, cysylltwyd digwyddiadau'r rhyfel gydag ystyriaethau am ddyfodol gwleidyddol Cymru. Daeth rhyngwladoldeb yn fwy amlwg ym mynegiant deallusion Cymru, yn enwedig golygyddion y cyfnodolion ac ariannydd y *Welsh Outlook*, David Davies. Roedd y teimlad yn unfrydol y câi gwleidyddiaeth ei gweddnewid yn dilyn y rhyfel, gyda chynlluniau i sefydlu Cynghrair y Cenhedloedd yn gwireddu'r delfrydau rhyfel o ryddid, gwareiddiad, a gwarchod hawliau cenhedloedd bychain. Gwelir, felly, fod naratif rhyfel neilltuol Gymreig wedi bodoli ym mlynnyddoedd 1914–1918. Wrth reswm, roedd ynddo elfennau tebyg i'r naratif Prydeinig, a chynodiadau crefyddol a delfrydau moesol yn amlwg. Ond sylwer hefyd ar nodweddion diwylliant, hanes, a gwleidyddiaeth Gymreig yn plethu gyda'r delfrydau rhyfel i ddatblygu gweledigaeth o Gymru'r dyfodol, fel aelod haeddiannol o gymuned ryngwladol newydd.

Yn ystod y Rhyfel Mawr, gwelwyd y gymdeithas sifil ym Mhrydain at ei gilydd yn ymagweddu'n foesol er mwyn cynnal yr ymdrech ryfel. Dengys yr astudiaeth hon sut gosododd deallusion Cymru eu hunain yng nghanol y profiad diwylliannol Ewropeaidd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gan geisio gwreiddio moesau gwaraidd a Christnogol yn eu cyflwyniadau a'u dehongliadau o'r rhyfel. I bob pwrpas, ymddangosodd gornest ddiwylliannol ar dudalennau'r Wasg Gymreig ym mlynnyddoedd y Rhyfel Mawr. O ganlyniad, estynnwyd y diffiniad o

¹⁰²⁶ 'Ail-Adeiladu', *Y Traethodydd*, Ebrill 1918, 125.

ryfelgarwch Cymreig i gynnwys agweddau diwylliannol fel rhan o'r ysgogiad at y rhyfel. Fel y dadleua Pierre Purseigle yn ei astudiaeth o ryfelgarwch yn y Rhyfel Byd Cyntaf:

Belligerence is therefore not merely a state of mind, but rather a set of attitudes that, socially constructed and thus inscribed into networks of social interactions, framed the way soldiers and civilians alike contributed to the operations of warfare.¹⁰²⁷

Ar lefel unigol, gwelwyd y broses hon yng Nghymru. I Henry Lewis er enghraifft, a ymrestrodd yn y Gwarchodlu Cymreig ac yna'r Ffiwsilwyr Cymreig, daeth dadrithiad ynghylch y rhyfel erbyn 1918, ond eto daliodd i deimlo balchder o glywed am ran y Cymry yn y brwydro, gan ddangos y ddeuliaeth gymhleth a fodolai yn agweddau rhai at y rhyfel. Yn ei ddyddiadur ar ddydd Sul, 17 Mawrth, 1918, ysgrifennodd: 'Bosche shells E [Company] heavily, causing casualties. We spend day in field. Sul rhyfedd a dieithr, llawn hiraeth am weld diwedd yr annuwioldeb erchyll ac anfoesol hwn.' Yna, ddau ddiwrnod yn ddiweddarach, nododd ei falchder am y rhan a chwaraewyd gan y 38fed Adran (Gymreig): 'Up early with party – wet miserable day. Hear some of secret history of Welsh Division – particularly of 113 [Brigade]. I blush to think that Wales is associated with such chivalry.'¹⁰²⁸ Tra mai ysgrif bersonol oedd hon, mynegodd ei ryfelgarwch neilltuol Gymreig yn gyhoeddus hefyd. Rhan o rwydwaith cymdeithasol Henry Lewis oedd ei erthyglau a'i lythyron i'r *Beirniad* ac i'r *Darian*. Mewn ysgrif i'r *Darian* ym mis Tachwedd 1917, amlygodd Lewis ei deimladau, gan dynnu ar draddodiad diwylliannol y werin Gymreig:

Yr ydym yn ddyledus heddyw am ein bod yn Gymry i werin yr oesau fu. Y werin yn bennaf sydd i achub Cymru eto (...) Hyhi yw gobaith Cymru, ac oni bydd hi'n ffyddlon, derfydd am ein cenedlaetholdeb. Rhaid iddi fod yn ffyddlon i'w hargyhoeddiadau gwleidyddol, ac ar yr un pryd disgwylir iddi fod yn deyrngar i fuddiannau'r genedl. Nid yw'r ddeupeth hyn yn anghymarus o gwbl. Gwelir heddyw ar y cyfandir fwy nag un genedl fechan yn ymladd yn unol am y delfryd cenedlaethol, er bod syniadau'r cydymmladdwyr mor amryfal ag y gallant fod. Ystyriant hwy fod cyrraedd eu hamcanion gwleidyddol, a sylweddoli eu delfrydau cenedlaethol yn gymhleth a'i gilydd, ac y mae gwladgarwch pob plaid yn ddigon cywir a chryf i'w huno oll ynghyd dros yr un amcan mawr.¹⁰²⁹

Tebyg oedd safbwynt O. M. Edwards yn ei gylchgrawn, *Cymru*, a ystyriodd effaith bosib y rhyfel ar adfer ysbryd y werin yng Nghymru. I David Davies a'i olygyddion yn y *Welsh*

¹⁰²⁷ Purseigle, *Warfare and Belligerence*, t.18.

¹⁰²⁸ Abertawe, Archifau Richard Burton, Casgliad Henry Lewis, 2017/14/6.139.

¹⁰²⁹ *Y Darian*, 1 Tachwedd 1917, 5.

Outlook, Thomas Jones ac Edgar L. Chappell yn enwedig, roedd y syniad o weld Cymru yn gweithredu ar y llwyfan rhyngwladol fel aelod o Gynghrair y Cenhedloedd yn un nerthol ac atyniadol, ac i raddau helaeth dyma a yrrodd ffocws y *Welsh Outlook* yn ystod blynyddoedd olaf y rhyfel. I eraill, megis John ‘Eifionydd’ Thomas a’r *Geninen*, neu i John Evan Hughes a’r *Traethodydd*, llwyddwyd i fynegi rhyfelgarwch Cymreig yn aml mewn ffurf fwy creadigol a barddonol. Ac i’r golygyddion a’r cyfranwyr a wrthwynebodd y rhyfel – Hywel Cernyw Williams, Evan Ungoed Thomas, Thomas Rees, a sawl un arall – roedd crefydd yn ganolog i’w gwrthwynebiad, ond ar yr un pryd yn cynnig ffordd ymwardd i’r genedl i adfer ei moesau colledig wedi’r rhyfel. Yn hyn o beth, llwyddodd deallusion Cymru i dynnu ar agweddau diwylliannol a gwleidyddol neilltuol Gymreig yn eu hymdrechion i gyflwyno’r rhyfel yn y Wasg. Drwy’r rhwydwaith cyhoeddus hwn datblygwyd a lledwyd ystyron penodol i’r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru, a’r canlyniad yn y pen draw oedd ffurfio gweledigaeth i ddyrchafu Cymru i safle uwch wedi’r rhyfel. Meithrin cenedlaetholdeb Cymreig a oedd yn ddarostyngedig i ddelfrydau uwch oedd gobeithion sawl un.

Uwchlaw popeth yn niwylliant rhyfel Cymru, fodd bynnag, yr oedd y syniad o’r genedl Gymreig yn cryfhau. Dwysbigwyd yr ymwybyddiaeth Gymreig yn wleidyddol yn ogystal ag yn ddiwylliannol a chrefyddol. Amlygwyd hyder ymysg deallusion Cymru fod Cymru yn wlad a oedd yn deilwng o statws ar y llwyfan rhyngwladol. Ymgodymwyd â’r rhyfel mewn sawl ffordd ystyriol, ond ymddengys fod rhyngwladoldeb wedi tyfu’n boblogaidd ym mlynyddoedd olaf y rhyfel fel gweledigaeth Gymreig ar gyfer y dyfodol. Ystyriwyd ymreolaeth i Gymru yn anochel, a Chynghrair y Cenhedloedd yn cynnig llwyfan priodol i genhadaeth Gymreig newydd. Gellir dadlau, felly, fod y Rhyfel Byd Cyntaf wedi bod yn ddigwyddiad allweddol yn natblygiad yr ymwybyddiaeth Gymreig, wrth i obeithion am sefydlu Cymru newydd, gwlad fwy egwyddorol a Christnogol, yn meddu ar ei senedd ei hun, gael eu mynegi yn ystod y blynyddoedd cythryblus hyn.

Mynegai 1

Papurau newydd Cymreig a fodolai drwy gydol y rhyfel

Cyhoeddiad	Dyddiadau
1. Cambrian	1804–1930
2. Carmarthen Journal	1810–
3. North Wales Chronicle	1827–
4. Welshman	1832–1983
5. Monmouthshire Beacon	1837–
6. Pembrokeshire Herald	1844–1924
7. Wrexham Advertiser	1854–1958
8. Haverfordwest and Milford Haven Telegraph	1854–1919
9. Yr Herald Cymraeg	1855–
10. Seren Cymru	1856–
11. Cardiff Times	1857–1928
12. Flintshire Observer	1857–1964
13. Llandudno Register	1857–1921
14. Baner ac Amserau Cymru	1859–1971
15. Carmarthen Weekly Reporter, and General Advertiser for South Wales	1860–1921
16. Llangollen Advertiser and North Wales Journal	1860–1920
17. Cambrian Daily Leader	1861–1930
18. Glamorgan Gazette. Porthcawl and District Edition	1866–
19. Rhyl Journal	1866–1985
20. South Wales Press and Carmarthen, Pembroke, Cardigan and Glamorgan Advertiser	1867–1934
21. Y Dydd	1868–1954
22. Ward-Davies's Free Press	1868–1926
23. Cambrian News	1869–
24. Western Mail	1869–
25. Weekly Mail	1870–1955
26. Abergavenny Chronicle	1871–

27. South Wales Daily News	1872–1928
28. Tarian y Gweithiwr (ac o 1914 ymlaen, Y Darian)	1875–1934
29. Y Genedl Gymreig (ac o 1914 ymlaen, Y Genedl)	1877–1937
30. Montgomeryshire Express	1877–1969
31. Y Rhedegydd	1878–1951
32. Rhyl Advertiser	1878–1921
33. Llanelly and County Guardian and South Wales Advertiser	1879–1953
34. North Wales Guardian	1879–1925
35. Yr Wythnos	1880–1921
36. Gwalia	1881–1921
37. Herald of Wales	1882–1979
38. County Herald	1883–1945
39. Pembroke County Guardian and Cardigan Reporter	1883–1926
40. Y Llan a'r Dywysogaeth	1884–1955
41. North Wales Observer	1884–1937
42. South Wales Echo	1884–1930
43. Holyhead Mail	1885–1937
44. Llandudno Advertiser	1885–
45. Seren	1885–1974
46. Y Werin	1885–1937
47. County Echo	1886–1978
48. South Wales Critic	1886–1988
49. South Wales Investment Circular	1887–1920
50. Denbighshire Free Press	1888–
51. Meirioneth News and Herald	1888– 1920
52. South Wales Gazette	1888– 1920
53. Barry Dock News	1889– 1925
54. Brecon and Radnor Express	1889–
55. Oswestry and Border Counties Advertiser	1889–1956
56. Pembroke Dock and Pembroke Gazette	1889–1920
57. Y Clorianydd	1891–1969
58. Glamorgan Free Press	1891–1929
59. Llanelly Mercury	1891–1960
60. South Wales Argus	1892–

61. Y Tyst	1892–
62. South Wales Weekly Argus	1892–1959
63. Montgomery County Times and Shropshire and Mid Wales Advertiser	1893–1952
64. South Wales Daily Post	1893–1932
65. South Wales Weekly Post	1893–1930
66. Tenby and County News and Visitors' List	1893–1919
67. Glamorgan Gazette. Bridgend Edition	1894–
68. Rhos Herald. Herald Y Rhos	1894–1966
69. Welsh Catholic Herald	1894–1934
70. Brecon County Times	1895–1933
71. North Wales Times	1895–1957
72. Barry Herald	1896–1962
73. Penarth Times	1897–
74. Pontypridd Observer	1897–
75. Llais Llafur (ac o 1915 ymlaen, Labour Voice)	1898–1927
76. Radnor Express	1898–1990
77. Yr Udgor	1898–1946
78. Welsh Gazette, Aberystwyth Chronicle and West Wales Advertiser	1899–1964
79. Colwyn Bay Advertiser	1900–1931
80. Porth Gazette	1900–1944
81. Central Wales News, Radnorshire Standard and Llandrindod Wells Gazette	1901–1919
82. Aberdare Leader	1902–1968
83. Y Gloch	1903–1937
84. Mumbles Weekly Press	1903–1937
85. Y Wyntyll	1903–1925
86. Glamorgan County Times	1904–1968
87. Llandudno Directory	1904–1921
88. New Tredegar, Bargoed and Caerphilly Journal	1904–
89. Philips Monthly Machine Register	1904–1964
90. Holyhead Chronicle	1905–1964
91. North Wales Weekly News	1905–
92. Prestatyn Weekly	1905–1969

93. Y Brython	1906–1939
94. Colwyn Bay Halfpenny Herald	1906–1921
95. Narberth, Whitland and Clynderwen Weekly News	1906–1940
96. Cefn Chronicle	1907–1970
97. Abergele and Pensarn Times	1908–1936
98. County Leader	1908–1955
99. Monmouthshire Evening Post	1908–1922
100. Monmouthshire Weekly Post	1908–1922
101. Football Post	1909–1922
102. Free Press of Monmouthshire	1909–
103. Llanelly Star	1909–1966
104. Milford Haven and Neyland Gazette	1909–1920
105. Porthcawl News	1910–1926
106. Llanelly Argus	1911–1931
107. Merthyr Pioneer	1911–1922
108. Usk Advertiser	1911–1919
109. Aberdare Post	1912–1920
110. Y Dinesydd Cymreig	1912–1920
111. Glamorgan Gazette. Aberavon, Port Talbot and District Edition	1912–1970
112. Monmouth Guardian and Bargoed and Caerphilly Observer	1912–1921
113. Mountain Ash Post	1912–1920
114. Sporting News and Football Leader	1912–1930
115. Amman Valley Chronicle	1913–1959
116. Caerphilly Journal	1913–1943
117. Mid-Rhondda Gazette	1913–1919
118. Y Cymro ¹⁰³⁰	1914–1931

¹⁰³⁰ Sefydlwyd *Y Cymro* yn wreiddiol yn 1845 ond ar ôl tair cyfnod gwahanol pan ddaeth y cyhoeddiad i ben, ail-gychwynwyd y papur unwaith eto ym mis Gorffennaf 1914 o dan olygyddiaeth Evan Williams Evans. Fel un o ffynonellau'r ymchwil, gellid cadarnhau fod *Y Cymro* wedi bodoli drwy gydol cyfnod y rhyfel.

Mynegai 2

Papurau newydd Cymreig a gychwynwyd rhwng 1914 a 1918

Cyhoeddiad	Dyddiadau
1. Cardiff and South Wales Journal of Commerce	1914–1918
2. Evening County Guardian. War Special	1914–
3. Kemp's Local Gazette	1914–1938
4. Maelor Times	1914–
5. News in a Nutshell	1914–1943
6. Pilot	1914–1937
7. Sporting Post	1914–1930
8. Conway Sentinel	1915–
9. Deganwy Sentinel	1915–
10. North Wales Standard	1915–1917
11. Rhondda Fach Gazette	1916–1944
12. North Wales Pioneer	1917–1964
13. Rhyl Guardian and Wrexham Observer	1917–1925
14. South Wales Evening Express	1917–1930
15. Barmouth Advertiser and District Weekly News	1918–1976
16. South Wales Journal of Commerce	1918–1935
17. South Wales News	1918–1928

Mynegai 3

Papurau newydd Cymreig a ddaeth y i ben rhwng 1914 a 1918

Cyhoeddiad	Dyddiadau
1. Abergavenny Mail	1904–1914
2. Brynmawr Reporter	1905–1914
3. Cardiff Journal of Commerce	1904–1914
4. Cardiff Weekly Post	1913–1914
5. Chronicle for South and Mid Glamorgan	1895–1914
6. Yr Eco Cymraeg	1899–1914
7. Mid-Glamorgan Herald and Neath Gazette	1911–1914
8. Monmouthshire Football Post	1909–1914
9. Neath and County Standard and Mid-Glamorgan Observer	1912–1914
10. Pembroke Dock	1911–1914
11. Rhyl Pilot	1911–1914
12. South Wales Worker. Gweithiwr Y De	1913–1914
13. Swansea and District Workers Journal	1899–1914
14. Vale of Neath Advertiser	1910–1914
15. Ward's Weekly	1906–1914
16. Aberystwyth Observer and Cardiganshire General Advertiser	1858–1915
17. Aberystwyth Dispatch	1904–1916
18. Yr Arweinydd	1906–1916
19. Chepstow Weekly Advertiser	1855–1916
20. Colwyn Bay Sentinel	1913–1916
21. Cymro a'r Celt	1907–1916
22. Y Glorian	1899–1916
23. Illustrated Wrexham Argus and North Wales Athlete	1884–1916
24. Penarth Advertiser	1900–1916
25. Swansea Daily Shipping Register	1888–1916
26. Welsh Unionist and Our Flag	1912–1916
27. Evening Express	1887–1917
28. Papur Pawb	1893–1917

29. Rhyl Guardian	1874–1917
30. Welsh Coast Pioneer	1901–1917
31. Wrexham Journal and Advertising Medium	1913–1917
32. Pembrokeshire Times, Tenby Telephone and General Advertiser	1885–1918
33. Worker's Own	1912–1918

Llyfryddiaeth

Ffynonellau gwreiddiol

Cyhoeddiadau a Dogfennau

George, David Lloyd, *The Great War: Speech at the Queen's Hall, London, on September 19th 1914* (Toronto: Hodder and Stoughton, 1914).

Machen, Arthur, *The Angels of Mons: The Bowmen and Other Legends of the War* (London: Simpkin, Marshall, Hamilton, Kent & Co, 1915).

'President Wilson's Fourteen Points'.
<http://avalon.law.yale.edu/20th_century/wilson14.asp> [cyrchwyd 06.01.18].

Reiss, R. A., *Report Upon the Atrocities Committed by the Austro-Hungarian Army During the First Invasion of Serbia* (English translation by F. S. Copeland) (London: Simpkin, Marshall, Hamilton, Kent & Co., Ltd, 1916).

Riddell, George, *Lord Riddell's Intimate Diary of the Peace Conference and After 1918–1923* (London: Victor Gollancz, 1933).

Wells, Herbert G., *The War that Will End War* (London: Frank & Cecil Palmer, 1914).

Papurau Newydd

Aberdare Leader

Abergavenny Chronicle

Amman Valley Chronicle

Baner ac Amserau Cymru

Barry Dock News

Brecon Radnor Express

Y Brython

Cambria Daily Leader

Cambrian News and Meironethshire Standard

Carmarthen Journal

Y Clorinydd

Y Cymro

Daily Citizen

Daily Mail

Daily Mirror

Daily News and Leader

Denbighshire Free Press

Y Darian

Y Dinesydd Cymreig

Y Drych

Flintshire Observer and News

Y Genedl Gymreig

Y Gwylidydd

Herald of Wales and Monmouthshire Recorder

Llais Llafur

Llanelly Star

Y Llan a'r Dywysogaeth

Manchester Guardian

The Merthyr Pioneer

News of the World

North Wales Chronicle

Seren Cymru

South Wales Daily News

South Wales Daily Post

South Wales Weekly Post

The Times

Y Tyst

Western Mail

Cyfnodolion

Y Beirniad

Cymru

Y Deyrnas

Y Geninen

Y Gymraes

Seren Gomer

Y Traethodydd

Welsh Outlook

Hansard

‘Vote of Censure’. HC Deb 29 March 1909, vol 3, cc39-149.

<<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1909/mar/29/vote-of-censure>>

[cyrchwyd 17.06.15].

‘Army and Navy Expenditure’. HC Deb 13 March 1911, vol 22, cc1877-999. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1911/mar/13/army-and-navy-expenditure>> [cyrchwyd 18.06.15].

‘Statement by Sir Edward Grey’. HC Deb 03 August 1914, vol 65, cc1809-32. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1914/aug/03/statement-by-sir-edward-grey>> [cyrchwyd 16.06.15].

‘War in Europe’. HC Deb 03 August 1914, vol 65, cc1848-84. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1914/aug/03/war-in-europe-1>> [cyrchwyd 16.06.15].

‘Sympathy with Belgium’. HC Deb 27 August 1914, vol 66, cc191-4. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1914/aug/27/sympathy-with-belgium>> [cyrchwyd 05.02.17].

‘Government of Ireland’. HC Deb 24 July 1916, vol 84, cc1427-70. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1916/jul/24/government-of-ireland-2>> [cyrchwyd 11.03.17].

‘Military Service Bill’. HL Deb 18 April 1918, vol 29, cc765-825. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/lords/1918/apr/18/military-service-bill>> [cyrchwyd 10.10.17].

‘Self-Government (Scotland and Wales)’. HC Deb 25 April 1918, vol 105, cc1119-20. <<https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1918/apr/25/self-government-scotland-and-wales>> [cyrchwyd 26.10.17].

Dyddiaduron

Abertawe, Archifau Richard Burton, Casgliad Henry Lewis, 2017/14/6.139.

Ffynonellau eilaidd

Llyfrau

Aaron, Jane and Williams, Chris (gol.), *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005).

- Anderson, Benedict, *Imagined Communities: Reflections on the origin and spread of nationalism* (London: Verso, 1983).
- Annan, Lord, *Our Age: The Generation that made Post-War Britain* (Fontana, 1990).
- Aschheim, Steven E., *The Nietzsche Legacy in Germany 1890–1990* (London: University of California Press, 1994).
- Audoin-Rouzeau, Stéphane and Becker, Annette, *Understanding the Great War, 14–18*, trans by Catherin Temerson (New York: Hill & Wang, 2002).
- Ballin, Malcolm, *Irish Periodical Culture, 1937–1972: Genre in Ireland, Wales, and Scotland* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2008).
- Ballin, Malcolm, *Welsh Periodicals in English, 1882–2002* (Cardiff: University of Wales Press, 2013).
- Barlow, David, O'Malley, Tom and Mitchell, Philip, *The Media in Wales: Voices of a Small Nation* (Cardiff: University of Wales Press, 2005).
- Barlow, Robin, *Wales and World War One* (Llandysul: Gomer, 2014).
- Becker, Annette, *War and Faith: The Religious Imagination in France, 1914–1930* (Oxford: Berg Publishers, 1998).
- Becker, Jean-Jacques, *The Great War and the French People*, trans. by Arnold Pomerans (Providence: Berg, 1985).
- Bernhardi, Friedrich von, *Germany and the Next War*, translated by Allen. H. Powles (New York: Longmans, 1914).
- Birks, Jen, *News and Civil Society: The Contested Space of Civil Society in UK Media* (Surrey: Taylor and Francis, 2014).
- Blunden, Edmund, *Undertones of War* (London: Penguin, 2000).
- Boniface, Xavier, *Histoire religieuse de la Grande Guerre* (Paris: Librairie Arthème Fayard, 2014).
- Bourne, J. M., *Britain and the Great War 1914–1918* (London: Edward Arnold, 1989).
- Bridgewater, Patrick, *Nietzsche in Anglo-Saxony: A Study of Nietzsche's impact on English and American literature* (Leicester: Leicester University Press, 1972).

Bridgewater, Patrick, *H. G. Wells and Nietzsche* (London: H. G. Wells Society Occasional Papers, Nr.3, 1980).

Bridgham, Fred (gol.), *The First World War as a Clash of Cultures* (Rochester NY: Camden House, 2006).

Buitenhuis, Peter, *The Great War of Words: Literature as Propaganda, 1914–18 and After* (London: Batsford, 1989).

Burke, Peter, *What is Cultural History?* (Cambridge: Polity Press, 2004).

Burleigh, Michael, *Sacred Causes: The Clash of Religion and Politics, from the Great War to the War on Terror* (New York: Harper Collins, 2007).

Burleigh, Michael and Wippermann, Wolfgang, *The Racial State: Germany, 1933–1945* (Cambridge: Cambridge University Press, 1993).

Chickering, Roger and Förster, Stig (gol.), *Great War, Total War: Combat and Mobilization on the Western Front, 1914–1918* (Cambridge: Cambridge University Press, 2006).

Clark, Christopher, *Sleepwalkers: How Europe Went to War in 1914* (London: Penguin Books, 2013).

Cook, Sir Edward, *The Press in War-Time* (London: Macmillan, 1920).

Corrigan, Gordon, *Mud, Blood and Poppycock: Britain and the First World War* (London: Cassell, 2003).

Crossley, Nick and Roberts, John Michael (gol.), *After Habermas: New Perspectives on the Public Sphere* (Oxford: Blackwell Publishing, 2004).

Davies, Dewi Eirug, *Byddin y Brenin: Cymru a'i chrefydd yn y Rhyfel Mawr* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1988).

Davies, John, *Hanes Cymru* (Llundain: Penguin Books, 1992).

Davies, John, *A History of Wales* (London: Penguin Books, 2007).

Eirug, Aled, *Gwrthwynebwyr Cydwybodol yn y Rhyfel Mawr* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2018).

Evans, D. Gareth, *A History of Wales 1906–2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2000).

- Evans, Gwynfor, *Land of My Fathers: 2000 Years of Welsh History* (Talybont: Y Lolfa, 1998).
- Ferguson, Niall, *The Pity of War* (London: Penguin Books, 1998).
- Figes, Orlando, *A People's Tragedy: The Russian Revolution, 1891–1924* (London: Pimlico, 1997).
- Foster, Kevin, *Fighting Fictions: War, Narrative and National Identity* (London, Pluto Press, 1999).
- Fussell, Paul, *The Great War and Modern Memory* (Oxford: Oxford University Press, [1975] 2013).
- Gaffney, Angela, *Aftermath: Remembering the Great War in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2000).
- Garner, James Wilford, *International Law and the World War* (London: Forgotten Books, [1920] 2013 Volume 2).
- Gelfand, Lawrence E., *The Inquiry: American Preparations for Peace, 1917–1919* (New Haven: Yale University Press, 1963).
- Gellner, Ernest, *Nations and Nationalism* (Oxford: Oxford University Press, 1983).
- George, David Lloyd, *War Memoirs. Volume 1* (London: Ivor Nicholson & Watson, 1938).
- Gerwath, Robert, *The Vanquished: Why the First World War Failed to End, 1917–1923* (London: Penguin Books, 2017).
- Goebel, Stefan, *The Great War and Medieval Memory: War, Remembrance and Medievalism in Britain and Germany, 1914–1940* (Cambridge: Cambridge University Press, 2006).
- Gompert, David C., Binnendijk, Hans, and Lin, Bonny, *Blinders, Blunders, and Wars: What America and China Can Learn* (Santa Monica, California: RAND, 2014).
- Goode, Luke, *Jürgen Habermas: Democracy and the Public Sphere* (London: Pluto Press, 2005).
- Gower, Jon, *The Story of Wales* (London: BBC Books, 2013).
- Gramsci, Antonio, *Selections from the Prison Notebooks*, trans. by Quintin Hoare and Geoffrey Nowell Smith (London: Lawrence & Wishart Ltd, 2007).

- Graves, Robert, *Goodbye To All That* (London: Penguin, 2000).
- Gregory, Adrian, *The Last Great War: British Society and the First World War* (Cambridge: Cambridge University Press, 2008).
- Habermas, Jürgen, *The Structural Transformation of the Public Sphere: An Inquiry into a Category of Bourgeois Society*, translated by Thomas Burger with the assistance of Frederick Lawrence (Cambridge: Polity Press, [1962] 2007).
- Hart, Peter, *The Great War: 1914–1918* (London: Profile Books, 2013).
- Hart, Peter, *The Last Battle: Endgame on the Western Front, 1918* (London: Profile Books, 2018).
- Haste, Cate, *Keep the Home Fires Burning: Propaganda in the First World War* (London: Penguin Books, 1977).
- Hastings, Max, *Catastrophe: Europe Goes to War 1914* (London: William Collins, 2014).
- Hoover, Arlie Hack, *God, Germany, and Britain in the Great War: A Study in Clerical Nationalism* (New York: Praeger, 1989).
- Horne, John (gol.), *State, Society and Mobilization During the First World War* (Cambridge: Cambridge University Press, 1997).
- Horne, John and Kramer, Alan, *German Atrocities, 1914: A History of Denial* (New Haven: Yale University Press, 2001).
- Horne, John N., *Labour at war: France and Britain, 1914–1918* (Oxford: Clarendon Press, 1991).
- Houlihan, Patrick J., *Catholicism and the Great War: Religion and everyday life in Germany and Austria-Hungary, 1914–1922* (Cambridge: Cambridge University Press, 2015).
- Hughes, Clive, *I'r Fyddin Fechgyn Gwalia! Recriwtio i'r Fyddin yng Ngogledd-Orllewin Cymru 1914–1916* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2014).
- Hughes, R. R., *Cofiant, Y Parchedig John Williams, D. D. Brynsiencyn* (Caernarfon: Gwasg y Cyfundeb, 1929).
- Jeffrey, Keith, *Ireland and the Great War* (Cambridge: Cambridge University Press, 2000).
- Jenkins, Geraint, *A Concise History of Wales* (Cambridge: Cambridge University Press, 2007).

- Jenkins, Gwyn, *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf* (Talybont: Y Lolfa, 2014).
- Jenkins, Philip, *The History of Modern Wales 1536–1990* (London: Longman, 1992).
- Jenkins, Philip, *The Great and Holy War: How World War I Changed Religion For Ever* (Oxford: Lion Books, 2014).
- Johnson, Rob, *The Great War and the Middle East* (Oxford: Oxford University Press, 2016).
- Jones, Aled Gruffydd, *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1993).
- Jones, Beti, *Newsplan: Report of the Newsplan Project in Wales / Adroddiad ar gynllun Newsplan yng Nghymru* (Bury St. Edmunds: St Edmundsbury Press, 1994).
- Jones, Gareth Elwyn, *Modern Wales: A Concise History, 1485–1979* (Cambridge: Cambridge University Press, 1984).
- Jones, Gwilym Arthur, *Bywyd a Gwaith Owen Morgan Edwards* (Aberystwyth: Cwmni Urdd Gobaith Cymru, 1958).
- Jones, J. Graham, *The History of Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1990).
- Jones, R. Merfyn, *Cymru 2000: Hanes Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999).
- Jones, R. Merfyn, *The North Wales Quarrymen, 1874–1922* (Cardiff: University of Wales Press, 2015; Third Edition).
- Jones, R. Tudur, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Cristionogaeth a diwylliant yng Nghymru 1890–1914* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1981).
- Kramer, Alan, *Dynamic of Destruction: Culture and Mass Killing in the First World War* (Oxford: Oxford University Press, 2008).
- Kocka, Jurgen, *Facing Total War: German Society, 1914–1918*, trans. by Barbara Weinberger (Cambridge, MA: Cambridge University Press, 1984).
- Lee, Alan, *The Origins of the Popular Press 1855–1914* (London: Croom Helm, 1976).
- Levene, Mark, *Genocide in the Age of the Nation State: Volume 2: The Rise of the West and the Coming of Genocide* (London: IB Taurus, 2014).

- Lipkes, Jeff, *Rehearsals: The German Army in Belgium, August 1914* (Wesley Chapel, FL: 2014).
- Lloyd, Nick, *Passchendaele: A New History* (London: Penguin Books, 2017).
- Llwyd, Alan (gol.), *Out of the Fire of Hell: Welsh experience of the Great War 1914–1918 in prose and verse* (Llandysul: Gomer, 2008).
- Llwyd, Alan, *Colli'r Hogiau: Cymru a'r Rhyfel Mawr 1914–1918* (Llandysul: Gomer, 2018).
- MacDonald, Catriona and McFarland, E. W. (gol.), *Scotland and the Great War* (East Linton: Tuckwell Press, 2014).
- MacMillan, Margaret, *The War that Ended Peace: How Europe Abandoned Peace for the First World War* (London: Profile Books, 2013).
- Mander, John, *Our German Cousins: Anglo-German Relations in the 19th and 20th Century* (London: John Murray, 1974).
- Marwick, Arthur, *The Deluge: British Society and the First World War* (London: Macmillan, [1965] 1989).
- Massie, Robert K., *Dreadnought: Britain, Germany and the Coming of the Great War* (London: Vintage Books, 2007).
- Mazower, Mark, *Governing the World: The History of an Idea* (London: Penguin Books, 2013).
- McLuhan, Marshall, *The Gutenberg Galaxy: The making of typographic man* (London: Routledge and Keegan Paul, 1962).
- Mitrović, Andrej, *Serbia's Great War, 1914–1918* (West Lafayette: Purdue University Press, 2007).
- Mommsen, Wolfgang J., *Bürgerliche Kultur und politische Ordnung* (Frankfurt: Fischer, 2000).
- Morgan, Dafydd Densil, *The Span of the Cross: Christian Religion and Society in Wales 1914–2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2011).
- Morgan, Kenneth O., *Rebirth of a Nation: A History of Modern Wales 1880–1980* (Oxford: Oxford University Press, 1982).

- Morgan, Kenneth O., *Wales in British Politics 1868–1922* (Cardiff: University of Wales Press, 1991).
- Morris, Jan, *Wales: Epic Views of a Small Country* (London: Penguin Books, 2000).
- Myers, Kevin, *Ireland's Great War* (Dublin: Lilliput Press, 2014).
- Newton, Douglas, *The Darkest Days: The Truth Behind Britain's Rush to War, 1914* (London: Verso, 2015).
- Nicholson, Ivor and Williams, Trevor Lloyd, *Wales: Its Part in the War* (London: Hodder and Stoughton, 1919).
- Otte, T. G., *July Crisis: The World's Descent Into War, Summer 1914* (Cambridge: Cambridge University Press, 2014).
- Owen, Wilfred, *Anthem for Doomed Youth* (London: Penguin, 2015).
- Parker, P., *The Old Lie: The Great War and the Public School Ethos* (London: Constable, 1987).
- Parri, Harri, *Gwn Glân a Beibl Budr: John Williams Brynsiencyn a'r Rhyfel Mawr* (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn, 2014).
- Pelikan, Jaroslav, *The Christian Tradition: A History of the Development of Doctrine, Volume 2: The Spirit of Eastern Christendom (600–1700)* (Chicago: University of Chicago Press, 1977).
- Pennant, Thomas, *Hanes Owen Glyndwr, Tywysog Cymru: yr hwn a ymladdodd yn erbyn holl gadernid Lloegr a'r Iwerddon o'r flwyddyn 1400 hyd y flwyddyn 1415* (Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig, [dim dyddiad]).
- Pennell, Catriona, *A Kingdom United: Popular Responses at the Outbreak of the First World War* (Oxford: Oxford University Press, 2014).
- Philpott, William, *Attrition: Fighting the First World War* (London: Abacus, 2014).
- Playne, Caroline, *The Pre-War Mind in Britain* (London: Allen and Unwin, 1928).
- Potter, Simon J. (gol.), *Newspapers and Empire in Ireland and Britain: Reporting the British Empire, 1857–1921* (Portland OR: Four Courts Press, 2004).
- Price, Emyr, *David Lloyd George* (Cardiff: University of Wales Press, 2006).

- Purseigle, Pierre, *Warfare and Belligerence: Perspectives in First World War Studies* (Lieden: Brill, 2005).
- Reader, W. J., *At Duty's Call: A Study in Obsolete Patriotism* (Manchester: Manchester University Press, 1990).
- Reilly, Catherine W., *English Poetry of the First World War: A Bibliography* (London: Prior, 1978).
- Reynolds, Aiden and Charlton, William, *Arthur Machen: A Biography* (London: The Richards Press, 1963).
- Reynolds, David, *The Long Shadow: The Great War and the Twentieth Century* (London: Simon and Schuster, 2013).
- Robbins, Keith, *Nineteenth-Century Britain: England, Scotland, and Wales: The Making of a Nation* (Oxford: Oxford University Press, 1988).
- Robbins, Keith, *England, Ireland, Scotland, Wales: The Christian Church 1900–2000* (Oxford: Oxford University Press, 2008).
- Rogan, Eugene, *The Fall of the Ottomans: The Great War in the Middle East 1914–1920* (London: Penguin Books, 2016).
- Ross, David, *Wales: History of a Nation* (New Lanark: Geddes and Grosset, 2005).
- Ross, Stewart Halsey, *Propaganda for War: How the United States was Conditioned to Fight the Great War of 1914–1918* (London: MacFarland, 1996).
- Royle, Trevor, *The Flowers of the Forest: Scotland and the First World War* (Edinburgh: Birlinn Press, 2006).
- Said, Edward, *Orientalism* (London: Penguin, 1977).
- Sanders, M. L., and Taylor, Philip M., *British Propaganda during the First World War, 1914–18* (London: Macmillan, 1982).
- Sassoon, Sigfried, *Memoirs of an Infantry Officer* (London: Faber and Faber, 1974).
- Schultz, Julianne, *Reviving the Fourth Estate* (Cambridge: Cambridge University Press, 1998).
- Schweitzer, Richard, *The Cross and the Trenches: Religious Faith and Doubt Among British and American Great War Soldiers* (Westport: Praeger, 2003).

- Sebag-Montefiore, Hugh, *Somme: Into the Breach* (London: Penguin Books, 2016).
- Sheffield, Gary, *Forgotten Victory: The First World War, Myths and Realities* (London: Headline Review, 2002).
- Silbey, David, *The British Working Class and Enthusiasm for War 1914–1916* (Abingdon: Frank Cass, 2005).
- Smith, Leonard V., Audoin-Rouzeau, Stéphane, Becker, Annette (gol.), *France and the Great War 1914–1918* (Cambridge: Cambridge University Press, 2003).
- Snape, Michael, *God and the British Soldier: Religion and the British Army in the First and Second World Wars* (London: Routledge, 2005).
- Snape, Michael and Madigan, Edward (gol.), *The Clergy in Khaki: New Perspectives on British Army Chaplaincy in the First World War* (London: Routledge, 2016).
- Strachan, Hew, *The First World War: A New Illustrated History* (London: Simon & Schuster, 2006).
- Taylor, Philip M., *British Propaganda in the Twentieth Century* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 1999).
- Terraine, John, *The Smoke and the Fire: Myths and Anti-Myths of War 1861–1945* (London: Sidgwick & Jackson, 1980).
- Todman, Dan, *The Great War: Myth and Memory* (London: Hambledon Continuum, 2005).
- Vance, Jonathan, *Death So Noble: Memory, Meaning and the First World War* (Vancouver: UBC Press, 2001).
- Waites, Bernard, *A Class Society at War: England 1914–1918* (Leamington Spa: Berg Publisher Limited, 1987).
- Wallace, Stuart, *War and the Image of Germany* (Edinburgh: John Donald, 1988).
- Watson, Janet, *Fighting Different Wars: Experience, Memory and the First World War in Britain* (Cambridge: Cambridge University Press, 2004).
- Williams, Gerwyn, *Y Rhwyg: Arolwg o farddoniaeth Gymraeg ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf* (Llandysul: Gomer, 1993).

Williams, Gerwyn, *Tir Neb: Rhyddiaeth Cymraeg a'r Rhyfel Byd Cyntaf* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1996).

Williams, Gwyn Alf, *When Was Wales? A History of the Welsh* (London: Penguin Books, 1985).

Williams, S. C., *Religious Belief and Popular Culture in Southwark, c.1880–1939* (Oxford: Oxford University Press, 1999).

Wilson, Keith (gol.), *Decisions for War, 1914* (London: UCL Press, 1995).

Winter, Jay, *Sites of Memory, Sites of Mourning: The Great War in European Cultural History* (Cambridge: Cambridge University Press, [1995] 2000).

Winter, Jay (gol.), *The Cambridge History of the First World War: Volume III: Civil Society* (Cambridge: Cambridge University Press, 2014).

Winter, Jay and Prost, Antoine, *The Great War in History: Debates and Controversies, 1914 to the Present* (Cambridge: Cambridge University Press, 2005).

Young, Derek, *Scottish Voices from the Great War*, (Stroud: Tempus Publishing, 2006).

Erthyglau

Benbough-Jackson, Mike, 'Five-Foot-Five Nation: Size, Wales and the Great War', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, Cyf. 28, Rhif 4, Rhagfyr 2017. 618-645.

Besier, Gerhard, 'The Great War and Religion in Comparative Perspective: Why the Christian Culture of War Prevailed over Religiously-Motivated Pacifism in 1914', *Kirchliche Zeitgeschichte*, 28/1 (2015). 21-65.

Davies, Desmond, 'Evan Ungoed Thomas (1860–1930)', *Undeb Bedyddwyr Cymru*, Medi 2015. <<http://www.buw.org.uk/thomas-evan-ungoed-1860-1930/>> [cyrchwyd 12.07.17].

Evans, Neil, 'War, Society and Wales, 1899-2014', *Llafur: Journal of Welsh People's History*, 11/3 (2014). 146-70.

Eisenstein, Elizabeth L., 'Some Conjectures about the Impact of Printing on Western Society and Thought', *Journal of Modern History*, 40/1 (1968). 1-56.

Eurig, Aled, 'Agweddau ar y Gwrthwynebiad i'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru', *Llafur*, 4/4 (1987). 58-68.

Gullace, Nicoletta F., 'Allied Propaganda and World War I: Interwar Legacies, Media Studies, and the Politics of War Guilt', *History Compass*, 9/9 (2011). 686-700.

Hampton, Mark, "'Understanding Media": theories of the press in Britain, 1850–1914', *Media, Culture and Society*, 23/2 (2001). 213-31.

Harris, Ruth, 'The "Child of the Barbarian": Rape, Race and Nationalism in France during the First World War', *Past and Present*, 141 (November 1993). 170-206.

Hopkin, Deian, 'Domestic Censorship in the First World War', *Journal of Contemporary History*, 5/4 (1970). 151-69.

Houlihan, Patrick J., 'Religious Mobilization and Popular Belief' yn Daniel, Ute, Gatrell, Peter, Janz, Oliver, Jones, Heather, Keene, Jennifer, Kramer, Alan, and Nasson, Bill (gol.), *1914–1918-online. International Encyclopedia of the First World War*.

Houlihan, Patrick J., 'The Churches' yn Daniel, Ute, Gatrell, Peter, Janz, Oliver, Jones, Heather, Keene, Jennifer, Kramer, Alan, and Nasson, Bill (gol.), *1914–1918-online. International Encyclopedia of the First World War*.

Jenkins, Gwyn, 'The Welsh Outlook, 1914–33', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 24/4 (1986). 463-92.

Kitchen, James E., "'Khaki crusaders': crusading rhetoric and the British Imperial soldier during the Egypt and Palestine campaigns, 1916-18', *First World War Studies*, 1/2, (2010), 141-60.

Lloyd, D. Tecwyn, 'Welsh Public Opinion and the First World War', *Planet*, 10 (1972). 25-37.

Marquis, Alice Goldfarb, 'Propaganda in Britain and Germany during the First World War', *Journal of Contemporary History*, 13/3 (1978). 467-98.

Matthews, Gethin, "'Sŵn yr ymladd ar ein clyw": Cyflwyno'r Rhyfel Mawr yn y Gymraeg', *Gwerddon*, 10/11 (2012). 132-57.

McEwen, John, 'The National Press During the First World War: Ownership and Circulation', *Journal of Contemporary History*, 17/3 (1982). 459-86.

- Morgan, Dafydd Densil, “‘Christ and the War’: Some Aspects of the Welsh Experience, 1914–18”, *Journal of Welsh Religious History*, Vol.5 (1997). 73-91.
- Morgan, Dafydd Densil, ‘Christianity and National Identity in Twentieth Century Wales’, *Religion, State and Society*, 27, 3/4 (1999). 327-42.
- Mosse, George, ‘Two World Wars and the Myth of War Experience’, *Journal of Contemporary History*, 21/4 (1986). 491-513.
- Paiano, Maria, ‘Religious Mobilization and Popular Belief (Italy)’ yn Daniel, Ute, Gatrell, Peter, Janz, Oliver, Jones, Heather, Keene, Jennifer, Kramer, Alan, and Nasson, Bill (gol.), *1914–1918-online. International Encyclopedia of the First World War*.
- Phillips, Gervase, ‘Dai Bach y Soldiwr: Welsh soldiers in the British Army 1914–1918’, *Llafur: Journal of Welsh Labour History*, 6/2 (1993). 94-105.
- Pope, Robert, ‘Duw ar Draï ar Orwel Pell: Capeli Cymru a’r Rhyfel Mawr’, *Y Traethodydd*, (Hydref 2014). 213-30.
- Powel, Meilyr, ‘The Welsh press and the July Crisis of 1914’, *First World War Studies*, 8/2-3, (2017). 133-52.
- Prior, Robin and Wilson, Trevor, ‘Paul Fussell at War’, *War in History*, 1/1 (1994). 63-80.
- Roberts, Richard, ‘The Unknown Financial Crisis of 1914’, Tachwedd 2013. <<http://blog.oup.com/2013/11/unknown-financial-crisis-1914/>> [cyrchwyd 21.07.15].
- Rothkirch, Alyce von, ‘Visions of Wales: *The Welsh Outlook*, 1914–1933’, *Almanac: Yearbook of Welsh Writing in English*, 14 (2010). 65-92.
- Schwabe, Klaus, ‘Woodrow Wilson and Germany’s Membership in the League of Nations, 1918–19’, *Central European History*, 8/1, 1975. 3-22.
- Smith, Leonard V., ‘Paul Fussell’s *The Great War and Modern Memory*: Twenty-Five Years Later’, *History and Theory*, 40/2 (2001). 241-60.
- Toye, Richard, ‘Lloyd George’s War Rhetoric, 1914–1918’, *Journal of Liberal History*, 77, (Winter 2012-13). 24-29.
- Watt, D. C., ‘The British Reactions to the Assassination at Sarajevo’, *European History Quarterly*, 1/3 (July 1971). 233-47.

Williams, Chris, 'J.M. Staniforth: A Short Biography'.
<<http://www.cartoonww1.org/resources.htm>> [cyrchwyd 10.10.15].

Yearwood, Peter, "'On the Safe and Right Line": The Lloyd George Government and the Origins of the League of Nations, 1916–1918', *Historical Journal*, 32/1 (1989). 131-55.

Penodau Llyfrau

Ahronson, Lowri Angharad Hughes, "'A Refreshingly new and challenging voice': O. M. Edwards's Interpretation of the Welsh Past", yn Evans, Neil a Pryce, Huw (gol.), *Writing a Small Nation's Past: Wales in Comparative Perspective, 1850-1950* (Abingdon: Routledge, 2016). tt.127-40.

Barlow, Robin, 'Did Wales go willingly to the First World War', yn Bowen, Huw (gol.), *A New History of Wales: Myths and Realities in Welsh History* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2011). tt.150-58.

Becker, Annette, 'The Visual Arts', yn Horne, John (gol.), *A Companion to World War I* (Sussex: Blackwell, 2012). tt.338-52.

Becker, Annette, 'Faith, Ideologies, and the 'cultures of war'', yn Horne, John (gol.), *A Companion to World War I* (Sussex: Blackwell, 2012). tt.234-47.

Becker, Jean-Jacques, 'War Aims and Neutrality', yn Horne, John (gol.), *A Companion to World War I* (Sussex: Blackwell, 2012). tt.202-16.

Bridgewater, Patrick, 'English Writers and Nietzsche', yn Pasley, Malcolm (gol.), *Nietzsche: Imagery and Thought: A Collection of Essays* (Abingdon: Routledge, 2011). tt.220-58.

Bridgham, Fred, 'Introduction', yn Bridgham, Fred (gol.), *The First World War as a Clash of Cultures* (Rochester, NY: Camden House, 2006). tt.1-40.

Bridgham, Fred, 'Bernhardi and "The Ideas of 1914"', yn Bridgham, Fred (gol.), *The First World War as a Clash of Cultures* (Rochester, NY: Camden House, 2006). tt.183-212.

Boyce, George, 'The Fourth Estate: the reappraisal of a concept', yn Boyce, George, Curran, James and Wingate, Pauline (gol.), *Newspaper History: From the Seventeenth Century to the present day* (London: Constable, 1978). tt.19-40.

Davies, Russell, “‘Ha! Ha! among the Trumpets’ – a Century of Warfare: Cowardice, Courage and Hatred’, yn Davies, Russell, *People, Places and Passions: ‘Pain and Pleasure’: A Social History of Wales and the Welsh, 1870–1945* (Cardiff: University of Wales Press, 2015). tt.275-318.

Edwards, Andrew and Griffith, Wil, ‘Welsh national identity and governance, 1918–45’, yn Tanner, Duncan, Williams, Chris, Edwards, Andrew, Griffith, W. P., (gol.) *Debating Nationhood and Government in Britain, 1885–1939: Perspectives from the four nations* (Manchester, Manchester University Press, 2006). tt.118-45.

Ellis, John S., ‘A pacific people – a martial race: pacifism, militarism and Welsh National identity’, yn Cragoe, Matthew and Williams, Chris (gol.) (2007), *Wales and War: Society, Politics and Religion in the Nineteenth and Twentieth Centuries* (Cardiff: University of Wales Press, 2007). tt.15-37.

Evans, Neil, ‘Loyalties: state, nation, community and military recruiting in Wales, 1840–1918’, yn Cragoe, Matthew and Williams, Chris (gol.) (2007), *Wales and War: Society, Politics and Religion in the Nineteenth and Twentieth Centuries* (Cardiff: University of Wales Press, 2007). tt.38-62.

Gregory, Adrian, ‘A Clash of Cultures: The British Press and the Opening of the Great War’, yn Paddock, Troy. R. E. (gol.), *A Call to Arms: Propaganda, Public Opinion, and Newspapers in the Great War* (London: Praeger, 2004). tt.15-50.

Gregory, Adrian, ‘British “War Enthusiasm” in 1914: A Reassessment’, yn Braybon, Gail (gol.), *Evidence, History and the Great War: Historians and the Impact of 1914–1918* (Oxford: Berghahn Books, 2005). tt.67-85.

Gregory, Adrian, ‘Beliefs and Religion’, yn Winter, Jay (gol.), *The Cambridge History of the First World War: Volume III: Civil Society* (Cambridge: Cambridge University Press, 2014). tt.418-44.

Horne, John, ‘Introduction: mobilizing for “total war”, 1914–1918’, yn Horne, John (gol.), *State, society and mobilization in Europe during the First World War* (Cambridge: Cambridge University Press, 1997). tt.1-17.

Horne, John, ‘Public Opinion and Politics’, yn Horne, John (gol.), *A Companion to World War I* (Sussex: Blackwell, 2012). tt.279-94.

Johnson, Samantha T., 'Holy War in Europe: Charles Saroléa, *Everyman* and the First World War, 1914–1917', yn Connelly, Mark and Welch, David (gol.), *War and the Media: Reportage and Propaganda, 1900-2003* (London: IB Tauris, 2005). tt.65-81.

Lloyd, D. Tecwyn, 'Llenyddiaeth Cyni a Rhyfel: 1914–1939', yn Lloyd, D. Tecwyn (gol.), *Llên Cyni a Rhyfel a Thrafodion Eraill* (Llandysul: Gomer, 1987). tt.12-42.

Lovelace, Colin 'British press censorship during the First World War', yn Boyce, George, Curran, James and Wingate, Pauline (gol.), *Newspaper History: From the 17th Century to the present day* (London: Constable, 1978). tt.307-19.

Matthews, Gethin, 'Rhwygau', yn Matthews, Gethin (gol.), *Creithiau: Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2016). tt.1-20.

Matthews, Gethin, "'Un o flynyddoedd rhyfeddaf hanes": Cyflwyno'r Rhyfel Mawr yn Nhudalennau Cymru yn 1917', yn Matthews, Gethin (gol.), *Creithiau: Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2016). tt.163-82.

Martin, Nicholas, 'Nietzsche as Hate-Figure in Britain's Great War: "The Execrable Neech"', yn Bridgham, Fred (gol.), *The First World War as a Clash of Cultures* (Rochester, NY: Camden House, 2006). tt.147-66.

Mommsen, Wolfgang J., 'German artists, writers and intellectuals and the meaning of war, 1914–1918', yn Horne, John (gol.), *State, society and mobilization in Europe during the First World War* (Cambridge: Cambridge University Press, 1997). tt.21-38.

Mommsen, Wolfgang J., 'German intellectuals and the meaning of war', yn Horne, John (gol.), *State, society and mobilization in Europe during the First World War* (Cambridge: Cambridge University Press, 1997). tt.21-38.

Moore, Gregory, 'Darwinism and National Identity, 1870–1918', yn Bridgham, Fred (gol.), *The First World War as a Clash of Cultures* (Rochester, NY: Camden House, 2006). tt.167-82.

Pope, Robert, 'Christ and Caesar? Welsh Nonconformists and the State, 1914–1918', yn Cragoe, Matthew and Williams, Chris (gol.) (2007), *Wales and War: Society, Politics and*

Religion in the Nineteenth and Twentieth Centuries (Cardiff: University of Wales Press, 2007). tt.165-83.

Potter, Simon J., 'Introduction: empire, propaganda and public opinion', yn Potter, Simon J. (gol.), *Newspapers and Empire in Ireland and Britain: Reporting the British Empire, 1857–1921* (Portland OR: Four Courts Press, 2004). tt.11-22.

Prochasson, Christophe, 'Intellectuals and Writers', yn Horne, John (gol.) *A Companion to World War I* (Sussex: Blackwell, 2012). tt.323-37.

Purseigle, Pierre, 'Beyond and Below the Nations. Towards a comparative history of local communities at war', yn Macleod, Jenny and Purseigle, Pierre (gol.), *Uncovered Fields: Perspectives in First World War Studies* (Leidin: Brill, 2004). tt.95-123.

Rasmussen, Anne, 'Mobilizing Minds' yn Winter, Jay (gol.), *The Cambridge History of the First World War: Volume III: Civil Society* (Cambridge: Cambridge University Press, 2014). tt.390-417.

Rubin, Miri, 'What is cultural history now?', yn Cannadine, David (gol.), *What is History Now?* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2002). tt.80-94.

Welch, David, 'Mobilizing the Masses: The Organization of German Propaganda During World War One', yn Connelly, Mark and Welch, David (gol.), *War and the Media: Reportage and Propaganda, 1900-2003* (London: IB Tauris, 2005). tt.19-46.

Williams, Chris, 'Taffs in the trenches: Welsh National identity and military Service 1914–1918', yn Cragoe, Matthew and Williams, Chris (gol.) (2007), *Wales and War: Society, Politics and Religion in the Nineteenth and Twentieth Centuries* (Cardiff: University of Wales Press, 2007). tt.126-64.

Williams, Huw L., "'Segurdod yw Clod y Cledd": David Davies a'r Helfa am Heddwch Wedi'r Rhyfel Mawr', yn Matthews, Gethin (gol.), *Creithiau: Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2016). tt.183-203.

Traethodau Ymchwil

Batten, Richard, *Devon and the First World War*, PhD (2013), University of Exeter.

Papurau Cynadleddau

Evans, Neil, 'Wales Goes to War: The Public Sphere, Political Culture and National Identity, 1914–1915.' Seminar ymchwil, Prifysgol Bangor, Hydref 2014.

Thacker, Toby, 'Medieval and Modern: Poles of representation in the "Britain's Efforts and Ideals" portfolio'. Cyflwynwyd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, Tachwedd 2014.

Gwefannau

1914–1918 Online. International Encyclopedia of the First World War. <<http://www.1914-1918-online.net/>>.

The Avalon Project. <<http://avalon.law.yale.edu/default.asp>>.

British Library. <<https://www.bl.uk/>>.

Y Bywgraffiadur Cymreig. <<http://yba.llgc.org.uk/cy/index.html>>.

Europeana Newspapers. <<http://www.europeana-newspapers.eu/>>.

National Army Museum. <<https://www.nam.ac.uk/>>.

Papurau Newydd Cymru Arlein. <<http://papuraunewydd.llyfrgell.cymru//>>.

Project Gutenberg Australia. <<http://gutenberg.net.au/ebooks13/1303671h.html>>.